

Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

METHODISTIAETH MÔN.

P84/S-1103

1122 e.174



R. Willows Ba: 1911
£3.50 DC

1 Le. Foster

METHODISTIAETH MÔN,

O'R

DECHREUAD, HYD Y FLWYDDYN 1887.

GAN

Y PARCH. JOHN PRITCHARD,

AMLWCH.

AMLWCH:
CYHOEDDWYD GAN D. JONES,
ARGRAPHYDD A LLYFRWERTHYDD.
—
1888.

BIBLIOTHECA BODLEIANA

CYFLWYNEDIG

I

RICHARD DAVIES, Yswain,

(Arglwydd Raglaw Sir Fôn),

Treborth Hall, Porthaethwy,

FEL ARWYDD BACH O WIR EDMYGEDD O'R ANSODDAU RHAGOROL, Y RHAI YDYNT YN ADDURNO EI GYMMERIAD FEL GWLADWR, CRISTION, AC YMNEILLDUWR METHODISTAIDD,

GAN

YR AWDWR.

RHAGYMADRODD.

GYD-FETHODISTIAID HOFF YN MÔN,

Y mae yn debyg eich bod yn disgwyl cael ein rhesymau dros i ni ymgymmeryd â'r gorchwyl pwysig o geisio ysgrifenu hanes Methodistiaeth Môn. Y mae genym rai digonol i foddhau ein hunain; ond a oes genym rai digonol i'ch boddhau chwi, sydd bwngc arall.

Un o'r ystyriaethau a'n cymmhellodd i gychwyn yr anturiaeth yw, y teimlad oedd mewn llawer yn y sir fod angen am rywbeth o'r natur yma. Cofus genym glywed ein diweddar frawd, SAMUEL DEW, Porthaethwy, yn sôn am anfon at berchenog *Methodistiaeth Cymru* i ofyn iddo argraphu hyny o hanes Methodistiaeth Môn a geir yn y llyfr hwnw, yn gyfrol fechan, mewn pris y gallai corph Methodistiaid Môn ei chael. Hefyd, rhoddodd Cyfeisteddfod Cyfarfod Llenyddol Amlwch wobr o bedair punt, yn y flwyddyn 1886, am y traethawd goreu ar y pwngc; ac y mae yn rhaid fod aelodau y cyfeisteddfod uchod yn teimlo fod gwir angen llyfr o'r natur yma. Ystyriaeth arall a'n cymmhellodd i ymaflyd yn y gwaith ydyw ammherffeithrwydd hanes Methodistiaeth Môn yn *Methodistiaeth Cymru.* Ni cheir ynddo ond hanes o ddeutu dwy-ar-hugain o eglwysi Môn, pan y mae yn Môn dros bedwar ugain o eglwysi erbyn hyn; ac ni cheir hanes y ddwy ar hugain hyny ynddo ond yn y cyfnodau cyntaf. Y mae yn hawdd deall, erbyn hyn, yr achos o'r ammherffeithrwydd hwn; sef, fod yr awdwr parchus yn methu

cael gan yr eglwysi anfon eu hanes iddo, ac yntau yn byw yn rhy bell o'r cymmydogaethau i fyned yno i holi yr hen breswylwyr. Yr ydym ni, er ein bod yn byw yn yr ynys, ac wedi gofyn i'r un personau lawer gwaith anfon ychydig o hanes yr eglwysi y perthynant iddynt i ni, a hwythau yn addaw gwneyd, wedi bod yn anobeithio cael dim ganddynt. Fe wêl y darllenydd mai ein hamcan yn hyn yw amddiffyn yr awdwr, o herwydd y diffyg sydd yn hanes Methodistiaeth Môn yn *Methodistiaeth Cymru*. Ystyriaeth arall a'n cymmhellodd i gychwyn ar y gwaith, ac a fu yn gynnorthwy i ni ddal ati, a pheidio rhoddi i fyny mewn digalondid, ydyw cymmeradwyaeth ein brodyr yn y weinidogaeth, a Chyfarfod Misol Môn, o'r anturiaeth. Ni chyfarfyddasom â chymmaint ag un pregethwr nad oedd yn dywedyd, 'Ewch yn mlaen;' nac un Methodist yn Môn nad oedd yn cymmeradwyo y meddylddrych o gael hanes Methodistiaeth Môn. Pe buasem yn gweled unrhyw obaith y gallasem gynnhyrfu un o'n brodyr ieuengach, a llawer galluocach na nyni, i ymgymmeryd â'r gorchwyl, ni buasem, mewn un modd, yn ymgymmeryd â'r fath lafur, ac â chyfrifoldeb mor fawr; a buasem yn rhoddi pob cynnorthwy a allasem i unrhyw frawd a fuasai yn ymgymmeryd â'r anturiaeth.

Teimlwn ein bod yn ymwneyd â gwaith ag yr ydym mewn perygl o anfoddhau rhai brodyr. Tybia rhai, fe allai, ein bod yn gor-ganmawl ambell un, ac yn canmawl rhy ychydig ar un arall. Nid ydym yn hòni anffaeledigrwydd; ond yr ydym yn hòni cydwybodolrwydd. Os ydym yn methu wrth ddadansoddi ambell gymmeriad, anwybodaeth ydyw yr achos, ac nid diffyg cydwybod i wirionedd. Hwyrach y dywedir ein bod yn rhoddi gair

da i un blaenor mewn eglwys, a myned heibio i un arall, cystal dyn ag yntau, yn lled ddisylw. Ein hamddiffyniad yn wyneb hyn ydyw ein hadnabyddiaeth o un rhagor y llall, ac nid gwahaniaeth mewn teimlad. Fe allai y dywed rhai y buasem yn ddoethach pe buasem yn peidio talu sylw mewn un modd i ddiffygion ein brodyr. Yr ydym yn berffaith foddlawn i rai Methodistiaid feddwl felly; ond yr ydym yn ostyngedig ofyn iddynt hwythau ganiatau i ninnau feddwl yn wahanol. Y mae ysbrydoliaeth yn talu sylw i ddiffygion dynion da, fel i'w rhinweddau:—i feddwdod Noah, fel i'w gyfiawnder ef; i aflendid Lot, fel i'w waith ef yn poeni ei enaid cyfiawn trwy anghyfreithlawn weithredoedd yr anwiriaid; ac i waith Pedr yn tyngu, ac yn gwadu ei Arglwydd, fel i'w waith yn ei gyffesu ef yn 'Grist Mab y Duw byw.' Y mae pob dyn i'w adnabod wrth ei ddiffygion, fel wrth ei ragoriaethau. Yr ydym yn cyffwrdd â doluriau yn y modd tyneraf y gallwn.

Nid ydym yn hôni ein bod yn enwi pob swyddog a fu yn yr holl eglwysi trwy yr holl gyfnodau; ond nid ydym wedi gadael allan gymmaint ag un y gwyddem am dano, oddi eithr trwy amryfusedd. Y mae yn dra thebygol y gallem fod wedi crybwyll enwau rhai, yn y cyfnodau cyntaf, fel blaenoriaid, a hwythau heb fod felly, yn ystyr manwl y gair; ond eu bod yn ddynion gweithgar a defnyddiol gyda'r achos.

Teimlwn ein bod yn rhwymedig i gydnabod, gyda diolchgarwch, barodrwydd brodyr mewn rhai eglwysi i'n cynnorthwyo, trwy anfon i ni ychydig o hanes Methodistiaeth yn eu cymmydogaethau. Derbynied y cyfeillion hyny ein diolchgarwch diffuant.

Fe wêl ein darllenwyr ein bod yn dosranu yn agos i gant a hanner o flynyddoedd—oes Methodistiaeth yn Môn—i bum cyfnod, a phob un yn meddu ei esgob. Credwn fod yn fantais i gyfundeb fel yr eiddom ni feddu arweinydd; ond cael gŵr uwch o'i ysgwyddau i fyny na'r cyffredin o'r frawdoliaeth. Nid ei fod ef yn chwennychu y blaen, ac yn mynu bod yn esgob; ond fod y Cyfarfod Misol yn rhoddi y blaen, ac yn ei wthio ef i'w le. Anffortunus iawn fyddai meddwl fod yn rhaid i rywun fod yn arweinydd—bod yn frenin yn mysg ei frodyr, heb fod nac arweinydd na brenin i'w gael mewn gwirionedd yn yr un hwnw. Gobeithiwn na wêl Methodistiaid Môn y dydd pan y byddant yn myned i eneinio arnynt frenin, fel yr aeth y prenau yn nammeg Jotham i gynnyg y frenhiniaeth i'r olewydden, a'r ffigysbren, a hwythau yn gwrthod y frenhiniaeth. Ond yr oedd raid i'r prenau gael brenin. 'Yna yr holl brenau a ddywedasant wrth y fieren, Tyred di, teyrnasa arnom ni.' Ni fynai yr olewydden na'r ffigysbren deyrnasu; ond mynai y fieren wneyd. Buasai yn llawer gwell i'r prenau fod heb frenin, na bod y fieren yn frenin arnynt. Byddai yn well i Fethodistiaeth Môn fod heb frenin, na gosod unrhyw fieren o ddyn yn frenin arnynt. Y mae y dosraniad yma wedi achosi i ni fwy o lafur; ond credwn y bydd yr hanes yn fwy dyddorol i'w ddarllen fel y mae.

Fe wêl ein darllenwyr ein bod wedi gadael 'Mr.' allan yn ei berthynas â'r Methodistiaid. Gallwn sicrhau ein darllenwyr mai nid o ddiffyg parch i foneddigion a fu, ac sydd, yn mysg y Methodistiaid, y gwnaethom hyn; ond o herwydd rhyw reswm nad ydyw o bwys i neb ond i ni ein hunain.

Ni byddai ond ofer i ni enwi yr holl feusydd yn y rhai y buom yn casglu defnyddiau i ysgrifenu y gyfrol hon. Digon yw dywedyd i ni loffa yn yr holl feusydd oedd o fewn ein cyrhaedd.

Chwithau, y beirniaid dysgedig, na fyddwch galed wrth un nad yw yn hòni dim iddo ei hun yn y gyfrol hon ond cydwybodolrwydd i wirionedd, a chariad cryf at Fethodistiaid Môn yn gyffredinol; ac yn enwedig at y rhai fuont yn hynod ac yn ddefnyddiol yn eu hoes, ond sydd bellach yn mron wedi myned i dir anghof.

Heb law cadw coffadwriaeth y cyfiawn yn fendigedig, gobeithiwn y bydd y gyfrol hon, o dan fendith Duw, yn peri i Fethodistiaid yr oes hon ddiolch i Dduw, a chymmeryd cysur, yn yr olwg ar y cyfnewidiadau mawrion sydd wedi cymmeryd lle er cychwyniad Methodistiaeth yn Môn. Yn y cyfnod cyntaf, byddai yr hen bregethwyr yn cael eu herlid, a'u dwyn ger bron ustusiaid heddwch, fel pe buasent yn ddrwg-weithredwyr; ond yn y pummed cyfnod, y mae amryw o'n blaenoriaid yn ynadon heddwch, un yn aelod seneddol, un arall wedi bod, ac yn bresennol yn arglwydd raglaw y sir. 'Gan yr Arglwydd y gwnaethpwyd hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni.'

'Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion; am hyny yr ydym yn llawen.' Dymunwn, o'n calon, heddwch Methodistiaeth Môn yn yr oesoedd a ddêl. 'Heddwch fyddo o fewn dy ragfur, a ffyniant yn dy balasau. Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion, dywedaf yn awr, Heddwch fyddo i ti!'

Y mae rhai gwallau wedi llusgo i mewn, yn benaf yn y cydseiniaid cyfnewidiol, er pob gwyliadwriaeth—megys, *p* yn lle *b*, *b* yn lle *p*, *p* yn lle *ph*, a *d* yn lle *dd*. Yn

td. 28ain, a'r llinell 25ain, darllener *sir* o flaen y gair 'Gaernarfon.' Yn *td.* 147, yn y llinellau 27ain a'r 28ain, darllener *hi* yn lle *ef.* Y mae EDWARD JONES, Pendre, wedi dyfod i mewn yn *td.* 59, ac yn *td.* 117. Y mae *u* wedi dwyn lle yr *y* yn y gair *clyd, w* wedi dyfod i mewn yn lle *u* yn yr enw *Escu, u* wedi ymddangos yn lle *n* yn y gair *Cafnan,* ac *a* yn lle *e* yn yr enw *Mechell.* Fel y maent yma y dylasent fod.

YR AWDWR.

FRONDIRION, AMLWCH,
Gorphenaf 2*il,* 1888.

CYNNWYSIAD.

TUDAL.

Rhagymadrodd 5

PENNOD I.

Sefyllfa Foesol a Chrefyddol Môn cyn Cychwyniad Methodistiaeth 13

PENNOD II.

Rhagbarotoadau i sefydliad Methodistiaeth yn Môn ... 19

PENNOD III.

Cychwyniad Methodistiaeth yn Môn—Y Cyfnod Cyntaf ... 26

PENNOD IV.

Pregethwyr y Cyfnod Cyntaf 49

PENNOD V.

Y rhai mwyaf hynod yn mhlith Methodistiaid Môn yn y Cyfnod Cyntaf 61

PENNOD VI.

Methodistiaeth yn gwreiddio yn Môn—Yr Ail Gyfnod ... 69

PENNOD VII.

Pregethwyr yr Ail Gyfnod 113

PENNOD VIII.

Y rhai mwyaf hynod yn mhlith Methodistiaid Môn yn yr Ail Gyfnod 118

PENNOD IX.

Methodistiaeth yn cynnyddu yn Môn—Y Trydydd Cyfnod 126

TUDAL.

PENNOD X.

Pregethwyr y Trydydd Cyfnod 183

PENNOD XI.

Prif Flaenoriaid y Trydydd Cyfnod 206

PENNOD XII.

Methodistiaeth yn ymgadarnhau yn Môn—Y Pedwerydd Cyfnod 224

PENNOD XIII.

Pregethwyr y Pedwerydd Cyfnod 272

PENNOD XIV.

Prif Flaenoriaid y Pedwerydd Cyfnod 279

PENNOD XV.

Methodistiaeth yn ymberffeithio yn Môn—Y Pummed Cyfnod 290

PENNOD XVI.

Pregethwyr y Pummed Cyfnod—y rhai ydynt wedi meirw 346

PENNOD XVII.

Prif Flaenoriaid y Pummed Cyfnod—y rhai ydynt wedi meirw. 350

PENNOD XVIII.

Gweinidogion y Pummed Cyfnod—y rhai ydynt yn fyw ... 357

PENNOD XIX.

Diwygiadau Crefyddol Môn 366

PENNOD XX.

Yr Ysgol Sabbothol Fethodistaidd yn Môn 375

PENNOD XXI.

Rhagoriaethau a diffygion Methodistiaeth Môn ... 381

METHODISTIAETH MON.

PENNOD I.

SEFYLLFA FOESOL A CHREFYDDOL MON CYN SEFYDLIAD METHODISTIAETH.

Y MAE yn ammhossibl ysgrifenu hanes Methodistiaeth Môn heb gymmeryd i sylw sefyllfa foesol a chrefyddol yr ynys pan y cymmerodd y diwygiad le. Nid oes genym un amcan i ddolurio meddyliau Eglwyswyr cydwybodol yr oes hon, trwy gyfeirio at ddiffygion a llygredigaethau yr Eglwys Sefydledig yn Môn yn y ganrif ddiweddaf; ac yr ydym yn credu fod y dynion goreu yn yr Eglwys, y dyddiau hyn, yn anghymmeradwyo sefyllfa ac agwedd foesol a chrefyddol trigolion Môn y pryd hwnw gymmaint ag y mae yr un Methodist o fewn yr ynys yn gwneyd. Byddai yr Iuddewon, mewn adegau o ddiwygiad crefyddol, yn cyffesu eu pechodau eu hunain, a'u tadau, ger bron Duw, gan ddywedyd, 'A ninnau a wnaethom yn annuwiol. Ein brenhinoedd hefyd, ein tywysogion, ein hoffeiriaid, a'n tadau, ni chadwasant dy gyfraith, ac ni wrandawsant ar dy orchymynion, na'th dystiolaethau, y rhai a dystiolaethaist wrthynt.' Yn yr un ysbryd a theimlad y dymunem ninnau gyfeirio at sefyllfa foesol a chrefyddol ein tadau yn yr ynys hon yn ystod yr hanner cyntaf o'r ganrif ddiweddaf.

Y mae genym bob sicrwydd mai isel a thruenus oedd sefyllfa foesol a chrefyddol trigolion Môn cyn sefydliad Methodistiaeth yma. Er eu bod yn galw eu hunain, ac yn cael eu galw gan eraill, yn Gristionogion, etto yr oeddynt o'r fath waelaf o Gristionogion. Nid paganiaid oeddynt mewn enw, ond yr oeddynt yn baganaidd mewn rhai arferion. Nid Cristionogion Pabyddol oeddynt mewn proffes, ond Cristionogion Protestanaidd—aelodau

o'r Eglwys Esgobaethol Sefydledig. Nid oedd yr un Ymneilldüwr o fewn yr ynys yn nechreu y ganrif ddiweddaf—yr holl Fonwysion yn aelodau o'r Eglwys Wladol. Nid oedd yr un o'r enwadau Anghydffurfiol wedi cael ei fodolaeth yn yr holl sir—dim ond yr Eglwys Esgobaethol o fewn y tir. Yr oedd yr holl ynys wedi bod yn meddiant yr Eglwys Sefydledig Brotestanaidd am gant a hanner o flynyddau—er dyddiau y Frenhines Elizabeth. Yn nghorph y blynyddau hyny, cafodd bob llonyddwch a thawelwch i geisio moesoli, crefyddoli, ac efengyleiddio y trigolion. Nid oedd neb yn y plwyfydd yn ammheu awdurdod apostolaidd y clerigwyr i ddysgu crefydd i'r plwyfolion. Nid oedd ganddynt Ymneilldu-aeth, nac unrhyw hereticiaeth (?) arall i ymladd yn ei erbyn, ond yr oeddynt yn cael eu holl amser i ymladd yn erbyn anfoesoldeb ac anghrefyddoldeb yr ynyswyr. Nid oedd raid i'r offeiriaid gymmhell eu gwrandawyr i haelioni crefyddol, mewn trefn i adeiladu lleoedd i addoli, ac i gynnal y weinidogaeth; o blegid yr ydym yn cael fod yn yr ynys 75 o leoedd addoliad yn nechreu y ganrif ddiweddaf:—ac yr oedd y ddegfed ran o holl gynnyrchion y tir yn cael ei roddi at gynnaliaeth gweinidogion yr eglwysi. Yr oedd y degwm, yn sicr, yn ddigonol i gynnal y weinidogaeth, fel nad oedd raid i'r clerigwyr ymrwystro gyda negeseuon y bywyd hwn. Yr oedd eu bara a'u dwfr yn sicr iddynt hwy a'u teuluoedd, ac yr oedd holl gyfoethogion y sir yn aelodau yn yr eglwys.

Oni allesid yn naturiol ddisgwyl fod y Monwysion yn foesol a chrefyddol? Oni allesid galw yr ynys yn 'fryn tra ffrwythlawn,' yn '*Isle of Bliss*,' ac yn 'Baradwys?' Ië, yn fwy felly na'r un o siroedd eraill Cymru, gan nad oedd Ymneillduwr o'i mewn i lesteirio y clerigwyr yn eu hymdrechion i efengyleiddio (?) y trigolion, fel yr oedd yn siroedd eraill Cymru, rai blynyddau cyn eu hymddangosiad yn Môn. Oni allesid disgwyl nad oedd yma yr un anialwch heb flodeuo fel rhosyn, na'r un diffaethwch heb flodeuo fel gardd yr Arglwydd, na'r un crasdir heb fod yn llyn, na thir sychedig heb fod yn ffynnonau dyfroedd? Yn sicr, gallesid disgwyl fod prophwydoliaeth Esaiah wedi ei chyflawni yn Môn—fod y blaidd yn trigo gyda'r oen,

a'r llewpart yn gorwedd gyda'r mŷn, y llô hefyd, a chenaw y llew, a'r anifail brâs, ynghyd â'r fuwch, a'r arth, yn pori ynghyd, eu llydnod yn cyd-orwedd, y llew fel yr ych yn pori gwellt, y plentyn sugno yn chwareu wrth dwll yr asp, neb, na dim, yn drygu nac yn dyfetha yn holl fynydd sancteiddrwydd Duw, a'r ynys yn llawn o wybodaeth yr Arglwydd, megys y mae y dyfroedd yn töi y môr.

Ond i'r gwrthwyneb yr oedd pethau yma. Gallasai Duw ddywedyd am Ynys Môn y pryd hwn, fel y dywedodd am Ierusalem ac Iudah—'A mi yn disgwyl iddi ddwyn grawnwin, y dŷg hi rawn gwylltion.' Ac fel y dywed y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool, yn *Methodistiaeth Cymru*, 'Yr ynys dywyll' ydoedd o ddifrif. Fel y bu gynt yn dywyll gan goedwigoedd, a chan ofergoeledd Derwyddiaeth, felly yr oedd yn awr gan anwybodaeth.' Y mae disgrifiad Esaiah o dir Naphthali a Zabulon, Galilea y cenhedloedd, yn ddisgrifiad cywir hefyd o Ynys Môn cyn sefydliad Methodistiaeth ynddi—'Y bobl oedd yn eistedd mewn tywyllwch, ac yn mro a chysgod angeu.' Y tywyllwch oedd yn gorchuddio yr holl ynys, a'r fagddu yr holl bobl. Yr oedd y clerigwyr yn dywyll, yn anwybodus, ac yn anfoesol fel y bobl. Tywysogion deillion i'r deillion oeddynt; y dall yn tywys y dall, a'r ddau yn syrthio i'r un ffos; ïe, i bob math o ffosydd—ffosydd rhy ffiaidd i'w henwi. Gallesid dywedyd am olynwyr yr apostolion yn Môn y pryd hwn, fel y dywedir am yr offeiriaid Iuddewig, 'Ond chwi a giliasoch allan o'r ffordd, ac a barasoch i laweroedd dramgwyddo wrth y gyfraith.' Ië, y mae disgrifiad Zechariah o'r bugail ynfyd yn ddisgrifiad cywir o fugeiliaid ysbrydol Môn yn y cyfnod sydd o dan sylw—'Yr hwn ni ofwya y cuddiedig, ni chais yr ieuangc, ni feddyginiaetha y briwedig a fyddo yn sefyll, ni phortha, ond bwyty y brâs, ac a ddryllia eu hewinedd.'

Y mae yn ammhossibl meddwl am eglwys wedi suddo yn îs nag oedd yr Eglwys Sefydledig yn Môn cyn toriad gwawr Methodistiaeth. Yr ydym yn edrych ar yr Eglwys Babaidd yn yr Iwerddon, ac mewn gwledydd eraill, yn isel, ac y mae hi felly; ond yr oedd yr Eglwys

Sefydledig Brotestanaidd yn Môn mor isel a llygredig, os nad yn îs, ac yn fwy llygredig. Yr oedd hi mor lygredig fel y credwn fod Mab Duw yn gwadu ei berthynas â hi—wedi ei chwydu hi allan o'i enau! Yr oedd hi yn fwy o synagog Satan nag o eglwys i Iesu Grist. Yr oedd yr ynys yn ei thrigolion wedi suddo i ddyfnder anwybodaeth ac anfoesoldeb. Ychydig iawn oedd yn gallu darllen, hyfrydwch y trigolion fyddai adrodd chwedleuon am dylwyth teg, cŵn annwn, ymddangosiad ysbrydion, drychiolaethau, canwyllau ac adar cyrph. Yr oeddynt yn arfer swyn-gyfareddion dewiniaeth, ac yn offrymu i ffynnonau. Nid oedd yr ofergoeledd hyn wedi gadael yr ynys yn hollol pan y ganwyd ni. Yr ydym yn cofio clywed am rai yn myned i sir Gaernarfon at y dewin, mewn trefn i gael gwybod pwy fyddai wedi lladrata eu heiddo, ac am rai yn cael eu diarddel oddi wrth y Methodistiaid am ymgynghori â dewiniaid. Yn lle ymgynnull mewn addoldai i wrandaw yr efengyl yn cael ei phregethu, i weddïo ar Dduw, i ganu ei fawl, ac i ddarllen ei Air, ymgynnullai yr ieuengctyd i gynnal nosweithiau llawen, i ganu gwagedd, a dawnsio yn sŵn tannau y delyn a'r crŵth, i chwareu cardiau a disiau, ac i yfed a meddwi. Ië, arferid y gyfeddach a meddwdod ar adegau o fedyddiadau, priodasau, ac angladdau. Mewn ffeiriau Gŵyl Mabsantau, a chynnulliadau ar brydnawniau Sabbothau, ymladdent yn y modd mwyaf creulawn a ffyrnig, nid yn unig â dyrnau moelion, ond â ffyn, nes y byddai y gwaed yn llifo i'r ddaear. Nid oedd heddgeidwaid yn y cymmydogaethau y pryd hwnw i gadw trefn fel sydd yn ein dyddiau ni. Yr oedd treulio y Sabbath mewn campau llygredig wedi bod yn yr eglwys y boreu bron mor grefyddol ag oedd myned i'r llan y rhan flaenaf o'r dydd; o blegid yr oedd *Llyfr y Chwareuon* bron mor gyssegredig a *Llyfr Gweddi Cyffredin*, gan iddo gael ei gyhoeddi yn amser y brenin Siarl I., trwy ddylanwad yr Archesgob Laud, a'i gyd-urddasolion. Byddai y chwareuon hyn yn cael eu cynnal yn y mynwentydd weithiau, lleoedd a ystyrid yn rhy gyssegredig, hyd yn ddiweddar, i Ymneilldüwr gael darllen ychydig o adnodau o'r Beibl, a myned i weddi wrth gladdu y marw. A chofier y byddai

y clerigwyr yn blaenori yn y chwareuon hyn, fel yn y gwasanaeth dwyfol yn yr eglwysi yn y boreu.

Y mae yn anhawdd gan rai Ymneillduwyr ac Eglwyswyr yn y dyddiau hyn gredu y gallai y fath anghysson-deb ag a ddisgrifiasom fod. Ond y mae sefyllfa foesol a chrefyddol aml wlad lle nad oes ond yr Eglwys Sefydledig, a hono yn Babyddol, yr un peth ag oedd sefyllfa foesol a chrefyddol Môn yn y cyfnod sydd genym o dan sylw. Nid oedd ond yr enw Protestanaidd yn gwneyd yr Eglwys Sefydledig yn Môn yn ddim gwell nag ydyw yr Eglwys Sefydledig Babyddol mewn ambell wlad y dyddiau hyn.

Os nad oedd yr Eglwys Sefydledig yn Môn, cyn sefydliad Methodistiaeth, wedi troi yn fethiant truenus, y mae yn rhaid fod ganddi amcanion annheilwng o eglwys i'r Arglwydd Iesu Grist. Os moesoli ac efengyleiddio y trigolion oedd ei hamcan, ni fu methiant mwy mewn unrhyw wlad erioed. Ein hamcan yn y bennod hon yn galw sylw ein gilydd at sefyllfa foesol a chrefyddol ein hynys cyn sefydliad Methodistiaeth ynddi, ydyw ein cael i weled ac i ddiolch i Dduw am ei ddaioni yn ymweled â ni fel trigolion Môn, â chodiad haul o'r uchelder, ac er mwyn i ni edrych ar y graig y'n naddwyd, ac ar geudod y ffôs y'n cloddiwyd o honynt, a chydnabod mai yr Arglwydd a wnaeth anialwch ein hynys fel Eden, a'i diffaethwch fel gardd yr Arglwydd, mewn cymmhariaeth i'r peth oedd yn nechreuad y ganrif ddiweddaf. Fe allai y byddai yn deg i ni ddwyn prawfion o wirionedd yr hyn yr ydym yn ei ysgrifenu am sefyllfa foesol a chrefyddol ein hynys. Yn y *Drysorfa* am fis Medi, yn y flwyddyn 1812, cyhoeddedig o dan olygiad y Parch. Thomas Charles, B. A., o'r Bala, ceir yn yr ymddiddan rhwng *Scrutator* a *Senex* y disgrifiad canlynol:—'Cyn B. A. 1730, yr oedd holl wlad Môn o un grefydd; nid oedd yno ddim pleidiau, ond pawb yn cyrchu i eglwys ei blwyf yn o ddyfal; ac yr oeddynt yn rhagori yn hyn ar drigolion llawer o barthau Cymru. Ond yr oeddynt yn gyffredin trwy y wlad yn dra thywyll, anystyriol, ac ofergoelus, a sôn mawr yn eu plith am y tylwyth teg. Byddai sôn mawr am bregeth yn y llan, os digwyddai i hyny fod, gan mor anaml y

byddai yr offeiriaid yn pregethu. Yr oedd pawb, ysywaeth, yn bur ddigyffro am achos eu heneidiau gyda dim difrifwch, gan farnu fod pob peth yn dda, ond cael cred a bedydd, fel y dywedent.' Yn y *Drysorfa* am fis Ionawr, 1813, ceir y disgrifiad canlynol:—'Gynt, treulient y Sabbath yn llygredig iawn. Gwir eu bod yn myned i'r llan yn y boreu yn dorfeydd lliosog. Wedi darfod y gwasanaeth, prysurai pawb adref, fel pe buasent yn rhedeg i achub bywyd dyn. Ar ol hyn, tyrent at eu gilydd i ymddifyru mewn pob chwareuyddiaethau ac ymlafnio, &c., a channoedd yn edrych arnynt. Ar y dyddiau gŵyliau, a'r Gŵyl Mabsantau, tyrai miloedd at eu gilydd, gan ddechreu ar y Sabbothau. Byddai y siopau i gyd yn agored, a gwerth llawer o bunnoedd yn cael eu gwerthu o eiddo—yr amaethwyr (ffermwyr) a fyddent yn cyflogi eu gweinidogion. Yn y nos, aent i'r tafarndai i yfed, i ganu, ac i ddawnsio; ac yna, yn diweddu gyda churo eu gilydd yn greulawn iawn, nes y byddai y gwaed yn llifo. Gwelais lawer gwaith ugeiniau, neu am a wn i gannoedd, o ffyn i fyny ar unwaith, yn curo ac yn labio eu gilydd yn y modd creulonaf. Byddent y pryd hwnw yn cynnal eu priodasau ar y dydd Sabbath. Llawer o loddest, meddwdod, a phob afreolaeth a fyddai yn myned yn mlaen ar y cyfryw amserau.' Yn yr adroddiad o ymweliad Dr. Lewis Baily, esgob Bangor, â phlwyfydd ei esgobaeth yn y flwyddyn 1623, ceir yr hanes canlynol o sefyllfa pethau yn y plwyfydd canlynol yn Môn:—'Yn Llanfair P. G. a Llandysilio, ni chafwyd ond dwy bregeth yn y deuddeg mis cyn yr ymweliad. Yn Penmon, ni phregethwyd yr un bregeth yn nghorph y pump neu y chwe mlynedd diweddaf. Yn Llanddona, ni ddarllenid y gwasanaeth ond bob yn ail Sabbath. Yn Llanddyfnan, ni cheid pregethau chwarterol (*quarterly sermons*). Yn Llanddeusant a Llanfair-yn-Nghornwy, ni chafwyd ond tair pregeth er y Sulgwyn diweddaf. Yn Llanfwrog a Llanfaethlu, ni chafwyd ond dwy bregeth er's deuddeng mis.' Dyma dystiolaeth yr esgob ei hun. Gallem ddwyn profion chwanegol i brofi gwirionedd ein disgrifiad o sefyllfa foesol a chrefyddol y Monwysion cyn dechreuad Methodistiaeth, pe mynem; ond credwn fod hyn yn ddigon i ar-

gyhoeddi pob meddwl diragfarn nad ydym wedi defnyddio unrhyw ormodiaeth yn y bennod hon; ond rhag ofn nad ydyw, rhoddwn dystiolaeth un o offeiriaid Eglwys Loegr am sefyllfa foesol Môn mor ddiweddar a'r flwyddyn 1799:—'Yr oedd wedi disgyn i'r radd isaf o lygredigaeth a drygfoes. Yr oedd pechodau y bobl, fel yr eiddo Sodom a Gomorrah, â'u gwaedd wedi cyrhaedd y nef. Barnwyf fod yn Môn 74 o blwyfydd mewn ynys 29 milldir o hyd, a 22 o led. Gresynol yw dywedyd fod y gwyliedyddion gosodedig y pryd hyny yn cysgu; a gwaeth na hyny, ymunent â gwagedd a drygfoes yr oes, ac aent rhagddynt mor bell ag i sefyll yn erbyn i genhadon heddwch ac iachawdwriaeth ddyfod i'r ynys yn y dyddiau hyny.' Gellir dywedyd am fugeiliaid ysbrydol yr ynys yn y cyfnod hwn, fel y dywed yr Arglwydd drwy Malachi am eraill—'Ond chwi a giliasoch allan o'r ffordd, ac a barasoch i laweroedd dramgwyddo wrth y gyfraith.'

PENNOD II.

RHAGBAROTOADAU I SEFYDLIAD METHODISTIAETH YN MON.

Edrychwn ar rai pethau a gymmerasant le fel rhagbarotoadau o eiddo Duw i sefydliad Methodistiaeth yn yr ynys. 'Pwy a ddywed y bydd dim heb i'r Arglwydd ei orchymyn?' 'A'i frenhiniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth.' Offerynau yn llaw Duw ydyw dynion da a gweithgar yn mhob man; ac y mae llaw Duw i'w gweled yn amlwg yn nghyfodiad rhai mewn gwlad a dyfodiad eraill iddi. Yn y cyfnod tywyll a fu o dan sylw yn y bennod flaenorol, tua'r flwyddyn 1730, dechreuwyd y gwaith da yn nheulu Thomas Pritchard, Tŷ gwyn, yn agos i Langefni. Dywedir fod Thomas Pritchard yn eglwys y plwyf ryw foreu Sabbath; ac wedi iddo ddyfod gartref, dywedodd wrth ei wraig i'r periglor sôn am 'asen yn

llefaru;' ac i foddhau ei gywreinrwydd, aeth i fenthyca Beibl i Blas Llangefni, yr hwn a ddelid ar y pryd gan y Bulkeleyaid. Wedi ei gael, darllenodd hanes yr 'asen' i gyd. Cafodd flâs, ymroddodd i ddarllen, a'r canlyniad oedd i wirioneddau y Beibl ddeffroi ei gydwybod. Yr oedd ganddo dri mab, o'r enwau Howel, Harri, a Thomas; a daeth y tri hyn i bryder mawr ynghylch eu cyflwr ysbrydol, nid trwy wrandaw pregethau, o blegid nid oedd ond ychydig o bregethu, hyd yn oed yn y llanau, y pryd hwnw, a hyny oedd yno ddim yn meddu cymmhwysder i argyhoeddi dynion o bechod; ond trwy ddarllen y Beibl, y mae yn ymddangos, y daethant i ddeall ac i deimlo eu bod yn golledig am byth ynddynt eu hunain; a thrwy gyfrwng yr un llyfr y daethant i adnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu Grist fel Ceidwad. Nid oes dim ammheuaeth na ddaeth y tri hyn yn ddynion crefyddol a duwiol. Yr oedd iddynt chwaer, a buont yn offerynau iachawdwriaeth iddi hithau. Bu hi farw o'u blaen hwy, a gadawodd dystiolaeth dda ar ei hol yn ei bywyd a'i marwolaeth. Dyma bedwar o'r un teulu, a'r tad yn bump, wedi eu cymmhwyso, trwy gael eu hachub, i barotoi y ffordd i sefydliad Methodistiaeth yn Môn. Buont yn offerynau i wneyd daioni i eraill, yn mhlith y rhai yr oedd gŵr o'r enw William Thomas Owen, Fagwyr, yn mhlwyf Llanddyfnan, a'i deulu, y rhai a fuont yn byw yn Tŷ mawr, Llantrisant, ar ol hyny. Bu y teulu hwn, a merch-ynnghyfraith i'r gŵr, o wasanaeth mawr i grefydd yn ei ffurf Fethodistaidd. Ymddengys mai Harri Thomas a fu yn fwyaf o fendith i deulu Tŷ mawr. Nid ydym yn galw y teuluoedd hyn yn Fethodistiaid etto; na, nid oedd yn yr ynys, am ddeuddeng mlynedd wedi dychweliad teulu Tŷ gwyn, foddion gras, ond a geid yn y llanau, a phrin y gellid eu galw yn foddion gras y pryd hwnw. Er hyny, gellir edrych ar deulu Tŷ gwyn fel blaenffrwyth Methodistiaeth Môn.

Yn mhen rhyw ddeuddeng mlynedd wedi i'r gwŷr hyn ddechreu pryderu ynghylch mater eu heneidiau—sef yn y flwyddyn 1742—daeth gŵr crefyddol a duwiol iawn i Fôn i fyw, o'r enw William Pritchard. Nid oedd yn bregethwr, ond yr oedd yn llenor gwych. Daeth yma

yn yr adeg oreu ar ei oes, pan yn 40ain mlwydd oed. Y mae efe yn ddigon hynod, ar lawer o gyfrifon, i ni aros ychydig gyda'i hanes. Ganwyd ef yn Bryn rhydd, yn mhlwyf Llanarmon, sir Gaernarfon. Trigai cyn dyfod i Fôn yn Glasfryn fawr, yn mhlwyf Llangybi, sir Gaernarfon. Ar rhyw noswaith dywyll arweiniwyd ef allan o'r ffordd at ffermdy o'r enw Pencaenewydd, yn yr un plwyf, a'r trydydd tro y daeth at y tŷ. Yr oedd gŵr y tŷ, o'r enw Francis Evans, yn cadw dyledswydd deuluaidd, ac arosodd William Pritchard wrth y ffenestr tra y parhaodd y gwasanaeth. Y bennod a ddarllenid oedd *Mat.* xxv., a gweddïai gŵr y tŷ dros ei deulu a'i gymmydogion. Ac wrth fyned gartref, ymddiddanai William Pritchard âg ef ei hun, gan ddyweyd, 'Yr oedd Francis Evans yn gweddïo dros ei deulu: y mae genyf finnau deulu, ond ni weddïais i erioed drostynt. Gweddïai Francis Evans dros ei gymmydogion: rhaid, felly, ei fod yn gweddïo trosof finnau, ac ni fum i yn gweddïo erioed trosof fy hun.' Daeth yn ddyn arall, ïe, yn ddyn newydd, ac ymunodd, mewn amser, âg eglwys Anghydffurfiol yn Mhwllheli. Dywedir yn *Methodistiaeth Cymru* mai â'r Annibynwyr yr ymunodd; ond dywedir yn *Drych yr Amseroedd* mai â'r Henaduriaethwyr yr ymunodd. Nid oes anghysson-deb rhwng y ddau lyfr, ond mewn ymddangosiad. Byddai yr hen Annibynwyr yn cael eu galw weithiau yn Henaduriaethwyr; ac y mae yn debyg eu bod yn fwy henaduriaethol nag ydyw eu holynwyr yn yr oes hon. Yr oedd yr hen Annibynwyr yn fwy tebyg yn eu syniadau i Dr. Owen am ffurflywodraeth eglwysig. Credai y Dr. fod dau fath o henuriaid yn yr eglwys Gristionogol; sef, henuriaid llywodraethol a henuriaid athrawiaethol. Ond pan sefydlwyd Methodistiaeth yn Nghymru, rhoddodd ein brodyr yr Annibynwyr hyny o henaduriaeth a feddent i'r Methodistiaid, a chadwasant hwythau eu hannibyniaeth iddynt eu hunain. Ai tybed mai nid cyfuniad doeth o'r ddwy gyfundrefn fyddai y goreu? Nid ydym mewn un modd yn chwennychu lladrata William Pritchard oddi ar ein brodyr yr Annibynwyr; ond yr ydym yn ewyllysio i'w enw fod yn barchus yn mysg Methodistiaid Môn yn yr oesoedd dyfodol. Er mai Annibynwr ydoedd, etto,

nid dyn enwad oedd efe, ond Cristion yn gyntaf, ac Annibynwr yn ail. Bu Howel Harries yn pregethu yn Nglasfryn fawr pan oedd efe yn byw yno. O herwydd ei grefydd bu raid iddo ymadael o Glasfryn fawr, a daeth i Blas Penmynydd, rhwng Llangefni a Phorthaethwy; ac felly, heb fod yn mhell o'r Tŷ gwyn. Daeth yma yn y flwyddyn 1742. Ystyrid ei grefydd yn Môn yn un rhyfedd iawn; ac yr oedd hi felly o'i chymmharu â chrefydd y trigolion. Y mae yn debyg mai efe oedd yr Ymneilldüwr cyntaf yn Môn. Nid oedd teulu Tŷ gwyn etto yn Ymneillduwyr; ond yr oeddynt yn aelodau yn yr Eglwys Sefydledig, y mae yn debyg. Pan y daeth William Pritchard yma, dygodd ei grefydd ryfedd gydag ef. Cadwai ddyledswydd deuluaidd; codai allor i Dduw yn mhob man yr elai i fyw, fel y gwnai Abraham yn Ngwlad Canaan. Deuai teulu Tŷ gwyn i Blas Penmynydd, i'r cyfarfodydd crefyddol a gedwid yno. Dywedai y gelynion bethau rhyfedd am y cyfarfodydd; sef, y byddai yr ysbryd drwg yn ymddangos yno weithiau mewn gwahanol ffurfiau. Y mae yn sicr y byddai efe yn myned yno, fel yr aeth efe i'r synagog yn Nghapernaum; ond y mae yn ammheus a fyddai yn ymddangos yno fel ebol a gafr; ac os byddai yn ymddangos yn y ffurfiau hyny, nid oeddynt yn rhywrai dychrynllyd iawn. Galwai y gelynion y cyfarfodydd 'y weddi dywell,' a dywedent bob math o gelwyddau am danynt. Gwnai beirdd yr ynys interliwdiau i'w dirmygu. Erlidiwyd William Pritchard yn mhob modd—torid ffenestri ei dŷ, presebau yr anifeiliaid, a chymmysgid y ceirch a'r haidd â'u gilydd wedi iddynt gael eu dyrnu. Gelwid ef yn gau-brophwyd, *heretic*, a Chromwelliad—un o'r penau crynion, am ddymchwelyd yr Eglwys, a gorsedd Prydain Fawr. Bu raid iddo ymadael o Blas Penmynydd yn mhen tair blynedd, o herwydd ei grefydd, fel y bu raid iddo ymadael o Lasfryn fawr; a daeth i Fodlew fawr, yn mhlwyf Llanddaniel. Fel yr ymddygwyd tuag ato yn Mhlas Penmynydd yr ymddygwyd tuag ato yn Modlew. Dywedir i ddyn o Niwbwrch ddyfod i Fodlew, gan feddwl gwneyd niwed iddo. Pan gyrhaeddodd y tŷ, yr oedd William Pritchard yn cadw dyledswydd deuluaidd; a gwrandawodd y gŵr

arno yn gweddïo, a gwnaeth y weddi y llew yn oen! Dywedai, 'Os dyma y mae efe yn ei wneyd, yn enw y Mawredd, ni wnaf fi ddim niwed iddo ef.' Bu raid iddo ymadael o Fodlew yn mhen pum mlynedd, o herwydd ei grefydd, a daeth i Glwchdernog; ac wrth yr enw William Pritchard, Clwchdernog, yr adnabyddid ef hyd ddiwedd ei oes. Ffermdy o eiddo boneddwr a adwaenid y pryd hwnw wrth yr enw W. Bulkeley, Ysw., Brynddu, ydoedd. Wedi i'r boneddwr gael pob sicrwydd mai o herwydd ei grefydd y gyrwyd ef ymaith o Fodlew, rhoddodd brydles iddo ar Glwchdernog, a dywedodd wrtho y cawsai grefydda fel y mynai. Annibynwr oedd William Pritchard; ond anfonodd Duw ef yma i barotoi y ffordd i sefydliad Methodistiaeth yn yr ynys, yn gystal ag Annibyniaeth. Yn y cyfnod hwn, ychydig iawn o bregethu oedd yn yr ynys, ond y fath a geid yn y llanau.

Yn y flwyddyn 1740, tua dwy flynedd cyn dyfodiad William Pritchard i Fôn, ceir fod pregethwr Ymneillduol yn talu ymweliad âg Amlwch a'i chyffiniau, ac iddo gael ei erlid gan y trigolion. Anfonodd Mr. Lewis, Llysdulas, un o hynafiaid *Lady* Neave, at Bulkeley, Brynddu, ei gyd-ynad, i ofyn iddo ddyfod i Lysdulas ar ddiwrnod pennodedig, ac at y pregethwr erlidiedig hefyd; ac i'r ddau fyned yno yn ol y gwahoddiad, ac i Mr. Lewis ddywedyd wrth y pregethwr, 'Wele ni yma oll, fel teulu Cornelius y Canwriad, yn barod i wrandaw ar dy bregeth di; pregetha i ni, fel y byddi yn arfer ar hyd y wlad.' Y mae yn debyg fod y pregethwr yn diolch i Dduw am y cyfleusdra; a gobeithiwn i'r ddau foneddwr teilwng o'r enw, a'r teulu oll, gael bendith trwyddo. A phenderfyniad y ddau ynad oedd, mai eu dyledswydd oedd ei amddiffyn rhag ei erlidwyr. Y mae yr hanes hwn yn cyttuno yn dda â charedigrwydd Mr. Bulkeley i William Pritchard. Ceir fod un o'r enw Richard William Dafydd yn pregethu yn yr un flwyddyn yn Llanfechell, ac yn cael ei faeddu gan y trigolion, ac achubwyd ef o'u gafaelion gan amaethwr o Lanrhyddlad. Dywed y diweddar Barch. John Hughes, yn *Methodistiaeth Cymru*, fod yn debyg mai yr un oedd y Richard William Dafydd a fu yn

Llanfechell a'r pregethwr fu yn Amlwch a'i chyffiniau, gan eu bod yn y sir yn yr un flwyddyn. Bron na ddywedem fod y gair 'tebyg' gan awdwr *Methodistiaeth* yn rhy wan, ac y gallem chwanegu, gan ddyweyd fod y peth yn debyg iawn, os nad yn sicr. Ond pwy oedd y Richard William Dafydd hwn? Dywed yr un awdwr na wyddis pwy ydoedd, nac i ba enwad crefyddol y perthynai. Fe faddeua y darllenydd i ni am geisio gwneyd allan pwy oedd efe, ac i ba enwad crefyddol y perthynai. Ymddengys i ni yn dra thebyg mai Deheuwr a Methodist oedd efe. Yr ydym yn cael fod pregethwr o'r enw Richard William Dafydd yn Abertawe, ac yn sir Aberteifi, cyn hyny, a'i fod yn frawd i David Williams, Llys-y-fronydd, yr hwn a ordeiniwyd gan y brodyr yr Annibynwyr. Ceir crybwylliad am Richard William Dafydd yn nghofnodion y Cyfarfod Misol a gadwyd yn nhŷ Jeffrey Dafydd, Llanddeusant, sir Gaerfyrddin, yr hwn a gynnaliwyd yn yr un flwyddyn ag yr oedd Richard William Dafydd yn Môn. Dywedir yn y cofnodion ei fod ef yn arolygu cymdeithasau (eglwysi) Llandyfaelog, Cilcarw, Llanddarog, a Chaerfyrddin. Ceir ei enw ef hefyd yn y flwyddyn 1744, pan basiwyd yn Nglan-yr-afon Ddu fod Richard William Dafydd i fyned i ymweled â Gorseinion ac â Phenbre, hyd y gymdeithasfa nesaf. Onid yw yn ymddangos yn dra thebyg mai dyma y Richard William Dafydd a fu yn cael ei erlid gan drigolion Amlwch, Llanfechell, a'r cyffiniau? Ac os felly, dyma y pregethwr Methodistaidd cyntaf a dalodd ymweliad âg Ynys Môn.

Dywed y Parch. Thomas Rees, D.D., Abertawe, yn y '*Nonconformity in Wales*,' a'r Parch. Richard Parry (*Gwalchmai*), Llandudno, yn *Nechreuad a Chynnydd Ymneillduaeth yn Môn*, fod un o'r enw Daniel Phillips, o Bwllheli, wedi talu ymweliad â Môn tua'r flwyddyn 1700 —o ddeutu 40ain o flynyddoedd cyn i Richard William Dafydd dalu ymweliad â hi; ond nad ennillodd nemawr o sylw cyhoeddus, ac na chasglodd gynnulleidfa, nac eglwys sefydlog, mewn un man; ond tybiai *Gwalchmai* mai trwy ei ymweliadau ef y daeth meibion Tŷ gwyn o dan argraphiadau crefyddol. Gall hyny fod, ond yn 1730 ydaeth y ffaith eu bod o dan y fath ddylanwadau yn

wybyddus; ac y mae ysbaid maith o amser rhwng y ddau ddigwyddiad. Y mae y *Drysorfa*, o dan olygiad y Parch. Thomas Charles, yn y flwyddyn 1812, yn priodoli eu hargraphiadau crefyddol i'r un moddion ag y mae *Methodistiaeth Cymru* yn gwneyd. Nid ydyw y Parch. John Hughes yn crybwyll dim am ymweliadau Daniel Phillips â Môn; o ganlyniad, credwn na wyddai yr awdwr parchus ddim am danynt; neu, nad oedd yn ystyried y sail yn ddigon cryf i beri iddo eu crybwyll; o blegid yr oedd yn un o'r dynion mwyaf rhyddfrydig yn Nghymru.

Yn y flwyddyn 1743, bu gweinidog Annibynol, o'r enw Lewis Rees, Llanbrynmair, yn pregethu mewn heu felin, yn agos i Blas Penmynydd; ac er nad oedd y gynnulleidfa ond bechan, etto yr oedd rhai erlidwyr ynddi, ac yr oeddynt mor anwybodus fel y dychrynodd y pregethwr hwy trwy roddi Salm allan i'w chanu yn nechreu y gwasanaeth—

'Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw,
Lle daw i'm help 'wyllysgar.'

Tybiasant fod gan y pregethwr filwyr arfog yn mynyddoedd sir Gaernarfon, yn barod i'w amddiffyn; a chafodd lonyddwch i bregethu y boreu hwnw. Erbyn y prydnawn, yr oeddynt wedi ymwroli—ofn milwyr arfog Lewis Rees wedi cilio. Attaliasant ef i bregethu, a cheisiasant wneuthur niwed iddo. Dywed *Methodistiaeth Cymru*, cyf. i., t.d. 108, am bregeth Lewis Rees, mai 'Hon oedd y bregeth gyntaf gan Ymneilldüwr yn Môn;' ac yn t.d. 116, y mae yn cywiro ei hun, wedi iddo gael hanes Richard William Dafydd gan y Parch. William Roberts, Amlwch.

Yn y flwyddyn 1744, ceir hanes un o'r enw Benjamin Thomas, gŵr o'r Deheudir, wedi dyfod i Blas Penmynydd at William Pritchard, gan fwriadu pregethu yn y gymmydogaeth. Erbyn hyn yr oedd William Pritchard wedi cofrestru tŷ o'r enw Minffordd i bregethu ynddo; ac y mae y tŷ hwn i fyny yn bresennol, yn agos i Gapel Gilëad—a byddwn yn caru edrych arno bob amser y byddwn yn myned heibio iddo, ac yn teimlo rhyw gyssegredigrwydd yn perthyn iddo. Daeth llu o erlidwyr i Minffordd; taflasant lestraid o ddwfr ar ben Benjamin

Thomas; dechreuasant guro yr ychydig a ystyrid yn ddynion crefyddol â ffyn, a tharawyd Howel Thomas, un o feibion Tŷ gwyn, yn ei ben, nes oedd ei waed yn rhedeg; ond diangodd y pregethwr heb gael niwed. Ond pwy oedd y Benjamin Thomas hwn? ac i ba enwad y perthynai? Ymddengys iddo gael ei ordeinio gan yr Annibynwyr; ond llafuriai ar y pryd gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Ceir ei enw yn nghofnodau cymdeithasfaoedd y Deheudir, yn y blynyddoedd o 1742 hyd 1745. Yn y flwyddyn 1744, y flwyddyn y bu efe yn Môn, dewiswyd ef yn Nghymdeithasfa y Deheudir i gynnorthwyo Howel Harries i arolygu achos y Methodistiaid yn Nghymru oll. Yr oedd yr Annibynwyr a'r Methodistiaid y pryd hyny bron yn un, yn caru eu gilydd fel brodyr yn yr Arglwydd, yn cydweithio â'u gilydd, yn cynnorthwyo eu gilydd, ac heb fod yn eiddigeddus y naill tuag at y llall. Ymddengys fod rhai o'r hen Anghydffurfwyr, yn gystal ag Eglwyswyr, wedi ymuno â'r Methodistiaid yn Nghymru. Dywedir fod Benjamin Thomas wedi pregethu yn nghegin Tŷ mawr, Llantrisant.

PENNOD III.

CYCHWYNIAD METHODISTIAETH YN MON.—Y CYFNOD CYNTAF.

Y MAE yn anhawdd penderfynu yr amser y cychwynodd Methodistiaeth yn Môn, fel y mae yn anhawdd, weithiau, penderfynu pa bryd y mae y wawrddydd yn tori. Dywed *Methodistiaeth Cymru* fod hanes Methodistiaeth Môn, hyd y flwyddyn 1751, yn gorwedd mewn llawer o dywyllwch, ac nid yw y tywyllwch yn llai erbyn hyn. Ystyriai *Methodistiaeth Cymru* mai trwy William Pritchard, a theulu Tŷ gwyn, y cychwynodd. Yr ydym yn methu gweled fod y cyfarfodydd a gedwid yn Mhlas Penmynydd yn gychwyniad i Fethodistiaeth mwy nag i Annibyniaeth;

o blegid Annibynwr oedd William Pritchard hyd ei fedd; byddai yn myned i Bwllheli ar Sabbath cymmundeb o sir Fôn; ond y mae yn eithaf amlwg fod llafur crefyddol y ddau deulu wedi parotoi y ffordd i sefydliad Methodistiaeth yn y sir. Dywed *Methodistiaeth Cymru* mai y pregethwr cyntaf a fu yn preswylio yn Môn oedd un o'r enw Richard Thomas. Ni ddywedir pa le yn yr ynys y trigai. Dywedir iddo redeg i ddyled mewn rhyw ardal yn y sir cyn iddo gael crefydd, ac iddo fyned i'r Deheudir mewn trefn i osgoi y gyfraith. Cofus genym glywed sôn am ddynion yn nyddiau ein ieuengctid yn ffoi i Ferthyr mewn trefn i ochel cosp y gyfraith wedi iddynt ei throseddu, fel pe buasai Merthyr allan o'r deyrnas. Yn y Deheudir, daeth Richard Thomas i glyw yr efengyl, credodd hi, a daeth yn ddyn newydd; casglodd ychydig arian; dychwelodd yn ol i Fôn; talodd ei ddyledion; ennillodd barch fel dyn gonest yn mynwes ei gymmydogion; a dechreuodd gynghori, neu bregethu. Nis gwyddom pa un a oedd yn gynghorwr pan yn gadael y Deheudir ai nad oedd; ond ni chafodd ganiatâd gan Gyfarfod Misol Môn i ddechreu pregethu; o blegid nid oedd yma un i roddi caniatâd iddo. Yr oedd holl Fethodistiaeth reolaidd Môn ynddo ef ei hun. Ymddengys iddo gael ei dderbyn yn aelod yn y Deheudir. Dylai enw Richard Thomas fod yn barchus gan Fethodistiaid Môn, er iddo ddechreu pregethu heb ganiatâd y Cyfarfod Misol. Dywedir i'w weinidogaeth fod yn fendithiol i lawer. Gellir tybied mai efe oedd y Methodist rheolaidd cyntaf yn yr ynys, yn gystal a'r pregethwr cyntaf. Ceir ychydig mwy o'i hanes gan y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, yn y *Drysorfa*, am fis Tachwedd, yn y flwyddyn 1813:—'Cigydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, yn byw yn Llanfeches.' Nid oes yn Môn y fath blwyf; rhaid mai camgymmeriad yr argraphwasg ydyw, ac ymddengys i ni mai Llanfechell a ddylasai fod—yr argraphydd wedi rhoddi *s* yn lle *ll*. 'Wedi iddo ddyfod gartref, anfonodd arian pawb i'w tai. Wedi hyny cyhoeddodd odfaon yn nhai y gymmydogaeth, a pharodd ei onestrwydd i'r bobl wrandaw y gair o'i enau yn ddiragfarn; a bu yn llafurus yn ei oes, ac yn fendithiol iawn.' Dywedir fod rhyw

adgofion yn yr oes o'r blaen yn y plwyf o berthynas iddo.

Y pregethwr nesaf a ddaeth i breswylio i Fôn oedd Hugh Griffith, gŵr o Leyn, yr hwn a ffôdd yma oddi ar ffordd erledigaeth. Dywedir iddo gael ei ddal yn Lleyn i'w anfon yn filwr; ac y mae yn lled sicr mai er mwyn dïal arno o herwydd ei grefydd y daliwyd ef. Yr oedd yn ddyn bywiog a chwim; diangodd, a methwyd ei ddal drachefn, er i gais teg gael ei wneyd. Daeth i Fodlew fawr at William Pritchard, a chafodd dderbyniad cynnhes ganddo, o blegid yr oeddynt eill dau o'r un sir, ac wedi eu herlid allan o honi o herwydd eu crefydd. Y mae cyd-ddioddef mewn achos da yn uno dynion â'u gilydd. Daeth Hugh Griffith i Fôn rhwng y flwyddyn 1745 a 1750, a gwladychodd yma hyd ei farwolaeth, sef yn Llanddaniel. Y mae rhai o'i ddisgynyddion yn Môn yn bresennol; yn eu plith, y mae William Jones, yr hwn sydd yn flaenor yn Brynsiencyn [ond bu farw yn 1887]. Yr oedd Hugh Griffith yn daid i Griffith Jones, Cefndwy-ffrwd, un o hen flaenoriaid parchus y Parc yn y cyfnodau dilynol.

Ymddengys i'r Parch. Peter Williams dalu ymweliad â Môn yn nhymmor Richard Thomas a Hugh Griffith, sef yn y flwyddyn 1746. Wrth adrodd hanes ei daith i'r Gogledd, dywed iddo glywed yn ei daith—yn Gaernarfon, y mae yn debyg—fod pregethwr o swydd Arfon, yn trigo yn Môn; ei fod yn dywedyd pethau erchyll am wŷr Môn, a'r cynlluniau oedd ganddynt yn erbyn pregethwyr teithiol. Fel enghraifft, dywedai i bregethwr ddyfod yno, ac iddo sefyll wrth y ffordd fawr; y gynnulleidfa yn derfysglyd ac yn rhanedig; rhai am gael clywed yr hyn oedd gan y cablwr, fel y galwent hwy ef, i'w ddyweyd; ac eraill am ei guro allan o'r wlad! Ar hyn cymmerodd ymladdfa le; collwyd gwaed, a chodwyd cymmylau o lwch! Y mae yn debyg mai Hugh Griffith oedd y pregethwr y clywodd y Parch. Peter Williams am dano. Ond daeth y gŵr da hwn i Fôn er hyny. Pregethai ar hyd y bryniau yma ac acw, pa le bynag y gallai gael rhai i wrandaw arno. O'r diwedd, deuai y bobl o bob man, gan lefain y naill wrth y llall, 'Un o'r Penau Cryniaid a

ddaeth i'n plith i bregethu.' Deallodd y pregethwr, meddai efe, os gallai ennill clustiau y Mônwysion, y gallai hefyd ennill eu calonau. O radd i radd daeth rhai yn lled fwynaidd, a gofynasant iddo ddyfod atynt i lettya, a bod iddo groesaw o'r fath le ag oedd ganddynt hwy. Profa hyn iddo ennill eu clustiau, eu calonau, a'u tai. Buasai yn dda genym pe buasai eu henwau, ac enwau eu tai, ar gôf, er mwyn cael eu rhoddi yma. Y mae Môn wedi parhau yn enwog, o ymweliad cyntaf Peter Williams â'r ynys hyd yn bresennol, mewn caredigrwydd i lettya pregethwyr. Dywed yr un gŵr iddo ddyfod i gyfarfyddiad â mab i ŵr boneddig a oleuwyd trwy weinidogaeth Howel Harris. Teithiodd gydag ef i lawer o leoedd, a dygodd ef i sylw ei gyfeillion. Y mae yn rhaid felly fod Howel Harris wedi bod yn Môn cyn hyn, neu fod tad y boneddwr caredig tuag at y Parch. Peter Williams wedi bod yn ei wrandaw mewn rhyw sir arall. Ymddengys i Peter Williams gael ei erlid yn Llanerchymedd yn y daith hon. Gwel hanes Llanerchymedd.

Ymwelodd y Parch. Daniel Rowlands, o Langeitho, a'r bardd o Bant-y-celyn, â Môn gyda'u gilydd, yn y flwyddyn 1747. Daethant i Langefni, gan fwriadu pregethu yno; a daeth lliaws ynghyd. Ymofynodd rhai o'r gwrandawyr am eu hawdurdod i bregethu—am eu hawdurdod ddynol, nid y ddwyfol—ac argyhoeddwyd hwy fod gan Rowlands awdurdod ddynol i bregethu yn ei wlad ei hun, ond nad oedd ganddo yn Môn; ond fe fethodd Williams eu hargyhoeddi fod ganddo awdurdod ddynol i bregethu mewn unrhyw wlad, gan nad oedd wedi cael cyflawn urddau yr Eglwys Sefydledig. Ni chawsant lonyddwch i bregethu yn Llangefni.

Nid oedd un math o gapel wedi ei adeiladu etto o fewn yr ynys; ond pregethid, gan mwyaf, yn yr awyr agored, ac mewn tai annedd. Minffordd oedd y lle cyntaf a gofrestrwyd i bregethu ynddo o fewn yr ynys. Wedi i Howel, Harri, a Thomas, meibion Tŷ gwyn, fyned i gadw tai eu hunain, cofrestrasant eu tai i bregethu ynddynt; sef Trefollwyn, preswylfod Howel Thomas, yr hwn oedd yn byw yn ei dir ei hun; Bwlch-y-fen, preswylfod Harri Thomas; a Phen-yr-allt, Hen Eglwys,

preswylfod Thomas Thomas. Byddai pregethu hefyd yn y Fagwyr, tŷ William Thomas Owen, yn mhlwyf Llanddyfnan, am yr hwn y crybwyllasom o'r blaen. Wedi i'r teulu hwn symmud i Dŷ mawr, Llantrisant, agorasant eu tŷ i bregęthu ynddo; ond rhoddodd y meistr tir attalfa ar hyny; ac yn lle Tŷ mawr cafwyd Chwaen-wen, preswylfod Evan Griffith, y pregethwr—am yr hwn y cawn grybwyll etto yn mlaen. Yn y lle diweddaf ceir fod un yn pregethu yn yr awyr agored, a daeth haid o erlidwyr yno. Cymmerai un arno fod yn bregethwr; daliai ystrodur â'i gefn i lawr fel Beibl. Wedi i'r pregethwr enwi y llyfr, y bennod, a'r adnod yn destyn, cymmerodd y rhith bregethwr ei destyn; sef, 'y 10fed bennod o'r penau llydnod, a'r 5ed adnod o'r gors,' ac yna äi yn mlaen i faldorddi, er difyrwch i'w gyderlidwyr. Wedi cyhoeddi y byddai y pregethwr yn pregethu am ddau o'r gloch yn y fan a'r fan, y gwatwarwr hefyd a gyhoeddodd y byddai yntau yn pregethu yn yr un lle am yr un amser. Anfonwyd dyn i gyrchu ceffyl i'r ffugiwr o bregethwr i ystabl Chwaen-wen. Gan nad oedd y genad yn dychwelyd yn yr amser y disgwylid ef, anfonwyd un arall ar ei ol; a chafodd y cyntaf mewn poenau mawrion, yn methu dyweyd un gair wrth neb. Dychrynodd yr holl gymdeithion, a dibenodd y cellwair mewn gofid a chywilydd.

Ceir fod pregethu mewn tyddyn o'r enw Careg-gam, yn agos i gapel presennol Llanrhyddlad, preswylfa gwraig weddw o'r enw Catherine Morris, a'i mab Morris Edward, mor foreu a'r flwyddyn 1748. Bu Careg-gam, Chwaen-wen, a Tŷ du, yn mhlwyf Amlwch, yn daith Sabbath. Yn y lle diweddaf, trigai gŵr o'r enw Thomas Phabby.

Y mae yn rhaid fod pregethu lled foreu mewn amaethdy o'r enw Careglefn (a gelwid y gymmydogaeth hefyd wrth yr un enw); o blegid ceir yn *Methodistiaeth Cymru* hen rigwm a brawf fod Howel Harris wedi bod yno.

'Howel Harris ar ei *horse*
O Lanerchymedd i Lan-y-gors,
Ac oddi yno i Gareglefn.'

Un o'r enw Marsley oedd yn preswylio yn y Gareglefn ar y pryd. Yr oedd gŵr o'r enw Canghellydd Wynne

yn byw yn Modewryd, heb fod yn mhell o Gareglefn; yr hwn a anfonodd lythyr at W. Bulkeley, Ysw., o'r Brynddu, i erchi arno, os nad allai attal pregethu yn Ngharegleſn ar iddo dynu y tŷ i lawr; ac anfonodd y boneddwr yn ol at y canghellydd i'w hysbysu fod yn ddrwg ganddo orfod nacau iddo ddim a'r a ofynai, ond y dymunai arno ddarllen y 5ed bennod o'r Actau, ac yn enwedig cynghor Gamaliel i'r Sanhedrim Iuddewig. Ar ol hyn, cafwyd llonyddwch, heb dynu Careglefn i lawr. Symmudwyd y pregethu, yn mhen rhyw amser, o'r Gareglefn i Bant-y-coli, lle y bu yr hen bregethwr Richard Dafydd yn byw, yr hwn a ddaw o dan sylw yn y bennod ddilynol.

Ceir hanes fod dau bregethwr, yn lled foreu yn y cyfnod hwn, wedi bod yn Llanfechell ar ddiwrnod ffair; iddynt sefyll wrth dalcen tŷ a elwir yr Hall, gan feddwl pregethu—ond attaliwyd hwy gan haid o ddynion di-ras. Daeth W. Bulkeley, Ysw., o'r Brynddu, at y pregethwyr, ac a'u cynghorodd i gilio allan o derfysg y ffair. Cymmerodd y pregethwyr ei gynghor caredig, ac aethant i le a elwir Baron Hill. Dechreuodd un o honynt bregethu; ond ni chafodd lonyddwch. Tarawyd ef yn ei ben, nes oedd ei waed yn llifo. Clybu y boneddwr o'r Brynddu am y bryntwch. Anfonodd am y ddau bregethwr i'w dŷ; gorchymynodd iddynt gael eu hymgeleddu; a dywedodd wrthynt, 'Gan i chwi gymmeryd fy nghynghor i, trwy gilio o'r ffair, yr wyf yn teimlo fy hun yn rhwym i'ch amddiffyn chwithau.' Yna anfonodd am y troseddwr—gŵr y Felin wen—i ddyfod i'r Brynddu; a daeth yn union. Gofynodd yr ynad i'r troseddwr, 'Pa beth oedd dy feddwl, dywed, wrth daraw y dyn â chareg o'r fath hon? [gan ddangos y gareg iddo]. Nid oedd genyt un bwriad ond ei ladd ef; ac am hyny, mi fynaf weled dy grogi gan sicred a'th fod yn ddyn.' Syrthiodd y troseddwr mewn dychryn ger bron yr ynad, gan ofyn maddeuant a gollyngdod. O holl foneddigion Môn yn y cyfnod hwn, y boneddwr o'r Brynddu a ddangosodd fwyaf o garedigrwydd i Ymneillduaeth yn Môn. Dywed y Parch. T. Charles, yn y *Drysorfa*, Medi 1812, i Mr. Ellis, curad Caergybi, bregethu ac ysgrifenu yn erbyn Methodistiaid Môn; ac i Mr. Bulkeley, Brynddu, ysgrifenu atteb iddo.

Dywedir fod Peter Williams wedi bod yn pregethu yn Mynydd Mechall, ac i'r offeiriad ddyfod ato, yr hwn a fuasai yn yr athrofa gydag ef, a dywedyd wrtho, 'Ffei, ffei! Peter! pa fodd y meiddi bregethu mewn lle anghyssegredig!" 'Maddeuwch i mi fy anwybodaeth,' attebai Peter, 'yr oeddwn dan ddylanwad y syniad fod yr holl ddaear wedi ei chyssegru er y diwrnod cyntaf y gosododd Ceidwad pechadur ei droed arni.'

Ceir achos bychan yn Niwbwrch yn lled gynnar yn y cyfnod hwn. Ymddengys i Peter Williams dalu ymweliad â'r pentref hwn hefyd, a'i fod yn pregethu ar ryw Sabboth yn agos i dŷ o'r enw Henblas. Cafodd gynnulleidfa lled dda i wrandaw arno—benywod gan mwyaf. Pan oedd ar ganol ei bregeth, daeth periglor y plwyf heibio, gyda'i glochydd a'i was, a gofynodd i'r pregethwr yn mha le yr oedd ei *licence* i bregethu. Yna, mewn attebiad, cododd Peter Williams y Beibl i fyny, gan ddyweyd, 'Dyma fy *licence* i bregethu yr efengyl, ac y mae hi wedi ei *signio* gan dri pherson; sef, y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.' Yr oedd y clochydd a'r gwas wedi llenwi eu llogellau â chregin cocos, gan feddwl eu lluchio at y pregethwr; ond gwaharddodd y periglor iddynt wneyd yn ol eu bwriad. Yr oedd yr hen beriglor hwn yn well na llawer o'i frodyr offeiriadol. Ymddengys fod Peter Williams yn ffraeth yn ei attebion i ofynion ei erlidwyr. Yma y trigai Richard Jones, y pregethwr—yr hwn a ddaw dan sylw yn y bennod ddilynol. Yr oedd ei wraig, a chwaer ei wraig, y rhai a elwid Elin a Jane, yn mhlith y dysgyblion yma. Addolent ar y cyntaf mewn lle o'r enw Ty'n-yr-allt, cartref un o'r enw John Davies (*Siôn Dafydd*); yr hwn oedd yn daid i'r diweddar Barch. David Jones, Dwyran, ac yn dad-yn-nghyfraith i Richard Jones, y pregethwr. Achwynodd y parson ar John Davies wrth ei feistr tir, yr hwn a ddaeth o Leyn i ymweled â'i denant. Daeth y parson gydag ef i Dy'n-yr-allt. 'Wel, Siôn,' ebe y meistr, 'yr wyf yn clywed dy fod di yn rhoddi dy dŷ i'r Penau Cryniaid i bregethu ynddo.' 'Hwy fyddant yn cynghori tipyn weithiau, syr,' ebai Siôn. 'Cynghori! beth yw hyny, Siôn? dwy' i ddim yn dy ddeall di,' meddai y boneddwr.

'Wel, mi a ddywedaf i chwi, meistr bach:—dyweyd am Iesu Grist, ac am y drwg o ladrata, tyngu, a dyweyd celwydd.' 'O! ai dyna yw cynghori, ai ê?' Yna gwelai y boneddwr dwll yn nhô y tŷ, a gorchymynodd i Siôn ei gau ef, rhag i'r cynghorion ddiangc drwyddo. 'Ac yna pregetha faint a fyni.' Wedi marw John Davies, symmudwyd yr achos i Blas Niwbwrch, preswylfod rhïeni y Parch. David Jones; a bu yno am o ddeutu saith mlynedd. Symmudodd oddi yno i dŷ un o'r enw Owen Jones. Daeth William Lewis, Ty'n-y-coed, a Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid, yn ymgeleddwyr i'r achos yn y gymmydogaeth hon. Bu Pwll-yr-hwyaid yn gartref i Fethodistiaeth am flynyddau; a chafodd yntau, fel llawer, deimlo gŵg ei feistr tir, o herwydd ei fod yn noddwr i bregethwyr Methodistaidd.

Dechreuodd Methodistiaeth yn Brynsiencyn, a'i chyffiniau, tua'r flwyddyn 1765. Derbyniai Owen ac Anne Williams, Tai cochion, yn mhlwyf Llanidan, y Methodistiaid i'w tŷ am o ddeutu 25ain o flynyddoedd. Nid yn y Tai cochion y cynnelid y cyfarfodydd pregethu; ond mewn amaethdy arall, gwael yr olwg arno, a elwid y Chwarelau; o blegid yr oedd y tŷ hwn o dan brydles. Cedwid y cyfarfodydd eglwysig a chyfarfodydd gweddïo yn y Tai cochion; ond ni phregethid yno o herwydd ofn y meistr tir. Dywedir i rai o bregethwyr goreu Cymru ar y pryd ymweled â'r lle hwn; sef, Daniel Rowlands, Llangeitho; Dafydd Morris; Jones, Llangan; a Lloyd, Henllan, ac eraill. Ymddengys fod gwraig y Tai cochion yn hynod mewn crefydd a defnyddioldeb. Nifer yr aelodau eglwysig yma y pryd hwn ydoedd o ugain i bump-ar-hugain. Cafodd teulu y Tai cochion brofi chwerwder erledigaeth gymmaint, os nad mwy, na neb yn y gymmydogaeth hon. Cyttunwyd â rhyw wraig faleisddrwg i gymmeryd gyda hi rhyw sypyn o dê heb ei drethu, a'i adael yn ngofal gwraig y Tai cochion, hyd nes y gelwid am dano. Rhyw ddiwrnod, daeth swyddogion y gyllidfa o Gaernarfon i'r tŷ, gan gyhuddo y wraig o dderbyn 'nwyddau rhedeg,' a dechreuasant chwilio y tŷ, pryd y darganfyddwyd y sypyn tê. Dirwywyd hwy yn ddiarbed i swm nad oedd ganddynt fodd i dalu. Bu

arwerthfa ar eu meddiannau; prynwyd hwy gan foneddwr mawr ei ddylanwad yn y gymmydogaeth; a phrynodd hwy am lai bedair gwaith nag oedd eu gwerth, a dychwelodd hwynt i Owen Williams am yr un bris. Yr oedd y boneddwr hwn yn y gyfrinach felldigedig; a bernir mai euogrwydd cydwybod a barodd iddo wneyd yn y diwedd fel y gwnaeth. Dywedir i lawer o Ymneilldwyr Môn deimlo yn dôst oddi wrth drahâ y boneddwr hwn (?), a'i deulu. Dywed *Methodistiaeth Cymru* fod John Roberts, Erw ddraenog—un o swyddogion eglwys Tŷ mawr—wedi symmud yma cyn diwedd ei oes. Yr oedd Owen Lewis, Perth-y-ber, taid Owen Lewis, Bodrida, yn swyddog yma yn lled foreu. Bu farw yn y flwyddyn 1795, yn 52ain mlwydd oed. Gellir casglu fod y Parch. Robert Jones, Rhoslan, wedi bod yma yn cadw ysgol yn y cyfnod hwn. Nid ydym yn gallu gwneyd allan yr amser yn fanwl yr oedd efe yma. Yr ydym yn cael ei fod yn Rhuddlan yn cadw ysgol o ddeutu y flwyddyn 1770. Cadw un o ysgolion boneddiges o'r enw Mrs. Bevan yr oedd efe. Nid oedd yr ysgolfeistri perthynol i'r ysgolion hyn yn aros yn hir yn yr un lle; ond yn symmud yn mhen rhyw chwe mis. Yr oedd y gŵr hwn wedi bod yn Nghapel Curig cyn myned i Ruddlan. O Ruddlan y daeth i Frynsiencyn. Rhaid, felly, ei fod yno yn y cyfnod hwn—rhwng 1770 a 1780. Ennillodd lawer o blant i'r ysgol yma. Cenfigenodd gweinidog y plwyf gymmaint wrtho nes gosod ei fryd ar ei symmud o'r ardal. Gwraidd y drwgdeimlad oedd, ei fod yn pregethu, ac yn ddylanwadol yn y plwyf. Ysgrifenodd y periglor ddwywaith at Mrs. Bevan, ond nid attebodd y foneddiges ef. Aeth at Robert Jones i ofyn iddo a glywsai efe ddim oddi wrth Mrs. Bevan. Gan na chlywsai, dywedodd fod yn rhaid iddo ymadael oddi yma; na chai gadw ysgol yn hwy. Yna gofynodd Robert Jones iddo ddyweyd wrtho am ba beth yr oedd yn ei yru ymaith. Yr attebiad oedd, 'Yr ydych yn pregethu tua'r Bryn yna, ac yn hudo y bobl ar eich ol.' 'Ho!' ebai yntau, 'ai dyna sydd yn fy erbyn? Nid wyf ond yn darllen cyfran o Air Duw, gweddïo, a chanu mawl i'r Arglwydd, gan rybuddio y bobl i beidio halogi y Sabbothau, ac i ochel pechu yn

erbyn Duw. Yr wyf yn meddwl, syr, fod hyny yn well na bod y bobl yn chwareu pêl ar ddydd yr Arglwydd; a byddaf yn cymmeryd gofal am derfynu cyn amser gwasanaeth yr eglwys.' Ymadael oedd raid. Yr oedd gwraig foneddig yn agos i Benmorfa, Mrs. Lloyd, o'r Gesail, yn gydnabyddus â'r periglor hwn; a byddai ef yn arfer talu ymweliad â hi. Yr oedd gŵr yn byw mewn tyddyn o eiddo Mrs. Lloyd yn derbyn pregethu i'w dŷ er's rhai blynyddoedd; ond nid oedd neb wedi hysbysu hyny i'r foneddiges. Rywbryd daeth y periglor hwn yno. Yn y cyfamser, hysbyswyd ef gan ŵr ieuangc urddasol o gyfaill iddo, fod pregethu yn y tŷ, a'i fod yn ofni na wyddai Mrs. Lloyd. 'Wel,' meddai, 'ni fwytâf fi fy nghiniaw heddyw nes ei wneyd yn hysbys iddi.' Ond erbyn iddo ddychwelyd i'r palas, ni allai ddywedyd yr un gair; ac ni ddywedodd air byth, a bu farw yn mhen ychydig ddyddiau. Cafwyd llonydd i bregethu yn y tŷ. Dywedir i Robert Jones, wedi iddo roddi yr ysgol i fyny, fyned gydag un o'r offeiriaid Methodistaidd ar gyhoeddiad trwy yr ynys; ac ymddengys ei fod yn fwy poblogaidd na'r offeiriad, ac i hyn ladd y rhagfarn oedd yn y Mônwysion yn erbyn gwŷr dïurddau i bregethu. Yr oedd y gŵr da hwn yn hen daid i Samuel Hughes, Bodednyfed, Amlwch, o ochr ei fam.

Gellir casglu fod pregethu yn lled foreu, ac eglwys fechan yn Llanddaniel yn y cyfnod hwn, lle y trigai Hugh Griffith a Michael Thomas, Garnan wen—dau o bregethwyr boreuaf yr ynys. Ond ni cheir hysbysiad am gychwyniad Methodistiaeth yn Llanddaniel yn *Methodistiaeth Cymru*. Nid oes dim ammheuaeth nad yno y deuai hyny o Fethodistiaid oedd yn Llanfair a'r Gaerwen, a lleoedd eraill. Ceir yn y *Drysorfa* am fis Mawrth, 1845, goffâd am fenyw grefyddol iawn o'r enw Ellin Jones, o'r Bryn poeth, Llaniestyn, yr hon oedd yn ferch i David Jones, o'r Gaerwen:—'Fel yr oedd hi yn gwrandaw pregeth yn hen Gapel Bach, Llanddaniel, yn y flwyddyn 1784, hi a gafodd ei hargyhoeddi mewn ffordd tra grymus.' Y mae 1784 yn ein harwain i'r ail gyfnod; ond y mae pob lle i gasglu fod y Capel Bach yn bod flynyddoedd cyn i Ellin Jones gael ei hargyhoeddi. Yn mhen rhai

blynyddoedd, symmudodd Ellin Jones i Fryn poeth. Un tro, aeth i'r Wern, Llanddona, i wrandaw ar yr hybarch Dafydd Cadwaladr; oddi yno i Waen-eura; oddi yno i Langristiolus; ac oddi yno i'r Gaerwen.' Ymddengys fod yr achos wedi symmud erbyn hyn o Landdaniel i'r Gaerwen. Gadawn yr achos yn y lle hwn, gan obeithio y ceir mwy o oleuni arno cyn diwedd yr ail gyfnod.

Yr oedd pregethu yn lled foreu yn Llangristiolus, mewn tŷ annedd a elwid Bryn-y-gors-bach. Yn y tŷ hwn y preswyliai Robert y Cooper. Gelwid ef wrth yr enw hwn am mai cylchwr ydoedd wrth ei grefft. Dyn lled hynod oedd yr hen gylchwr. Dywedir iddo dori ei glun ar forfa Malldraeth wrth droedio y bêl ar y Sabbath, ac ymddengys i doriad ei glun fod yn foddion gras iddo. Daeth at grefydd, a derbyniodd bregethu i'w dŷ. Bu pregethu hefyd yn Nglyn-y-pwll, tŷ John Parry; a bu raid iddo ymadael oddi yno o'r herwydd; ond cafodd dyddyn arall a elwir Maes-y-llan. Adeiladwyd capel Llangristiolus—y cyntaf yn yr ynys gan y Methodistiaid—yn y flwyddyn 1764. Cafwyd tir gan William Thomas, o'r Glyn, ger Mynydd Bodafon—hen daid i William Matthews, M.A., Porth, Amlwch, o dan rwym-ammod o 999 o flynyddoedd, a hanner erw o dir, am bedwar swllt yn y flwyddyn o gydnabod. Yn nghofnodion Cyfarfod Misol Môn, ceir fel y canlyn:—'10 Mehefin, 1772, *lease* oddi wrth Thomas Williams, o Bencarog, yn mhlwyf Llangristiolus, am ddarn o dir Pencarog, yn 62 llath o hyd, 22 llath o led, dros 999 o flynyddoedd. Ardreth, 4*s.*, yn daladwy 12 Tachwedd yn flynyddol, i ymddiriedolwyr: Evan Griffith, Chwaen hen; John Rowlands, Ceryg llithir; Thomas Williams, Pentre bwäau; Hugh Thomas, Ty'n-y-cae; John Jones, Ty'n-yr-onen; Robert Williams, o'r Fagwyr; Morris Jones, o'r Capel; John Parry, Ty'n-y-pwll; a Robert Pritchard, *cooper*. Bod y *lease* yn cael ei chadw gydag Owen Owens, Amlwch.' Pa fodd y cyssonir hyn â'r hyn a geir yn *Methodistiaeth Cymru?* Fe allai mai yr un ydyw Thomas Williams, o Bencarog, a William Thomas, Glyn, Bodafon—a'i fod yn cael ei alw gan rai yn William Thomas, a chan eraill yn Thomas Williams, fel yr oedd amryw y pryd hwnw; a'i fod wedi bod yn byw yn y ddau

le, neu ei fod yn byw yn un, ac yn meddiannu y llall. Y mae yn fwy na thebyg y byddai pregethu yn achlysurol yn mhlwyf Trefdraeth yn lled gynnar yn y cyfnod hwn. Dyma y lle y bu Richard Jones, Niwbwrch, yn pregethu, pan yr erlidiwyd ef gan haid o ddynion anghrefyddol, yn cael eu harwain gan y Canghellwr Lewis, o'r Siamber wen. Pregethid ar Forfa Malltraeth, wrth dŷ bychan o'r enw Ty'n-y-morfa. Deuid yno o Niwbwrch, ac o'r Aberffraw. Yn y flwyddyn 1760 y sefydlwyd pregethu cysson yn yr ardal hon, mewn tŷ o'r enw Glantraeth. Enwau y gŵr a'r wraig oeddynt Rowland a Jane Owen. Bu pregethu yn y tŷ hwn am o ddeutu pedair blynedd ar ddeg.

Dywedir fod pregethu yn yr Aberffraw mor foreu a'r flwyddyn 1760; mai William Lewis oedd y cyntaf a fu yn pregethu yma, mewn lle a elwid Put-y-ceiliogod, a bod yno ddyn o Rhosneigir yn gwrandaw, ac yn bwriadu taflu ceryg ato; ond achubodd Duw ef yn y bregeth hon. Pan oedd pregethwr o'r enw Lewis Evan, Llanllugan, yn pregethu wrth dalcen rhyw fwthyn, dywedir i ôf o'r enw Wil William Prys benderfynu ei niweidio gydag haiarn poeth; ond darfu i rywun hysbysu y pregethwr, a chiliodd yntau o'r ffordd cyn i'r creadur mileinig ei gyrhaedd. Ymddengys fod traddodiad arall yn y gymmydogaeth; sef, mai gŵr o'r enw Richard Morris Pritchard, o Draeth coch, oedd yn pregethu; ac nid Lewis Evan, fel y dywed *Methodistiaeth Cymru*, ac mai Owen oedd enw y gôf. Dywedir fod offeiriad Methodistaidd, o'r enw Hughes, o'r Deheudir, yn pregethu wrth dŷ gŵr o'r enw Owen Williams, Celler, a'r erlidwyr yn chwareu—yn troedio y bêl—ger llaw y lle y pregethai yr offeiriad. Yn mhen ychydig amser, hyrddiwyd y bêl i ganol y gwrandawyr, a daeth at draed Owen Williams, Celler, yr hwn oedd yn berchen y tir y pregethid arno; a chododd y bêl, ac a'i torodd yn ei hanner â'i gyllell, gan ddadgan y gwnai yr un peth â phwy bynag a aflonyddai y cyfarfod. Ymddengys i'r bregeth hon fod yn foddion iachawdwriaeth i laweroedd. Dywedir i Williams, Lledrod, fod yn pregethu yn y cyfnod hwn yn Aberffraw. Bu y lle hwn yn hir heb gyfarfod eglwysig, ac heb weinidogaeth gysson.

Tua'r fl. 1771 y dechreuodd y cyfarfod eglwysig yma: a byddai yn cael ei wneuthur i fyny o dri, sef Robert Parry a'i wraig, y rhai a ddaethant o Langristiolus i'r gymmydogaeth i fyw, ynghyd âg un o'r enw John Thomas Pierce. Tua'r amser hwn y neillduwyd tŷ annedd i fod yn addoldy, a galwyd ef yn Gapel Huddygl. Adeiladwyd ef gan Robert Parry, a rhoddodd ef yn rhad at wasanaeth yr Arglwydd.

Y crefyddwyr cyntaf yn Nghaergybi oedd John Rowlands, Fron—lle ar ochr Mynydd Tŵr; John Williams, saer coed; Hugh Meyrick; gŵr a gwraig Hafod-y-brain; dwy hen ferch o'r enwau Margaret Hughes a Cadi Jones. O'r blynyddoedd 1755—1777, mewn rhyw leoedd o fewn milldir neu ddwy i'r dref y pregethid, ac nid ynddi. Yr oedd yn beryglus pregethu o'i mewn. Dywedir i ryw bregethwr fyned yno. Ni wyddis yn sicr pwy oedd efe. Tybia rhai mai Lewis Evan, Llanllugan, ydoedd. Ond yn lle gwrandaw arno, hwtiwyd a gwawdiwyd ef. Cymmerwyd ei het yn ddirgelaidd, a rhoddwyd ynddi y budreddi ffieiddiaf (!), a rhoddwyd hi am ei ben; a phrin y diangodd o ddwylaw y dyhirwyr yn fyw. Tarawyd un o honynt yn fuan yn y fath fodd nes y difuddiwyd ef o'i synwyr hyd ei farwolaeth. Un arall o honynt, yr hwn a elwid Siôn y Saer, a ddaeth mor wrthodedig yn y dref fel na chafodd ddiwrnod o waith mwyach o fewn y dref; a galwyd ef 'Siôn y Saer segur!' Un arall a frathwyd gan faedd, ac a fu yn gloff dros weddill ei oes! Dro arall, aeth yr erlidwyr o'r dref i gyfarfod pregethwr dyeithr at Bont Ruppont, gan feddwl ei faeddu, a'i attal i ddyfod i'r dref. Ond yr oedd eu bwriad wedi dyfod yn hysbys i'r ychydig grefyddwyr oedd yno, ac anfonasant genhadau i hysbysu y pregethwr. Darparodd y gŵr dyeithr ar eu cyfer. Yr oedd yn feddiannol ar ddigon o ddichellion diniwed i amddiffyn ei hun. Aeth i'r dref ar ei geffyl ar wedd gŵr yn dyfod ar neges fydol—â'i het wedi ei chodi yn dair cwalc: a phan gyfarfyddodd â'r erlidwyr cyfarchodd hwynt, gan ddywedyd, 'Beth dd—l y mae cymmaint a hyn o honoch yn ei geisio?' Tybiai rhai mai efe oedd y pregethwr; ond gwawdiai y lleill y syniad, gan ei fod yn tyngu yn enw y diafol. Cafodd

lonydd i bregethu yn y dref, gan fod yr erlidwyr allan o honi yn chwilio am dano. Tua'r flwyddyn 1777, yr oedd gŵr o'r enw Richard Jones yn byw yn yr Aberffraw, yr hwn oedd yn ŵyr i'r Parch. Mr. Hughes, Perfedd goed, ger llaw Bangor; a thrwy ei gyssylltiad â'i daid cafodd Richard Jones fanteision addysg na cheid ond yn anfynych yn y cyfnod hwn. Un Sabbath, pan oedd un o hen offeiriaid Methodistaidd y Deheudir yn pregethu yn y pentref, aeth Richard Jones i wrandaw arno. Teimlodd ryw air yn cyffwrdd â'i feddwl, a thynodd ei het yn arwydd o barch i'r genadwri. Ymddengys fod Richard Jones yn gallu chwareu *fiddle*, neu y crŵth; ac yn gwneyd weithiau ar y Sabbothau, er mwyn difyrwch i'w gymmydogion. Y Sabboth canlynol i'r bregeth nid oedd y *fiddler* ar gael; o blegid yr oedd wedi cael ei swyno gan beroriaeth yr efengyl yn fwy na chan beroriaeth y *fiddle*. Achwynodd rhywun arno; ac ar un o'r enw Robert Parry—y gŵr, y mae yn debyg, y crybwyllwyd ei enw o'r blaen—wrth barson y plwyf, iddynt dynu eu hetiau, a'u dal yn eu llaw pan yn gwrandaw ar y Penau Cryniaid yn pregethu. Yr oedd hyn yn bechod mawr iawn yn ngolwg y parson; ac achwynodd yntau arnynt wrth y meistr tir, a chafodd Richard Jones rybudd i ymadael o'i dyddyn. Gan na wyddai i ba le i fyned, gosododd ffon ar ei phen ar ganol y llawr; ac i ba gyfeiriad bynag y gogwyddai wrth syrthio, penderfynai fyned yn yr un cyfeiriad. Syrthiodd tua'r gogledd-orllewin, yn nghyfeiriad Caergybi—yr hyn a gymmerodd yn arwydd mai yno yr oedd efe i fyned. Aeth yno gyda'i wraig, ei blentyn tri mis oed, a'i ddodrefn. Wedi cyrhaedd y dref, aeth trwyddi i chwilio am dŷ gwâg, gan adael y wraig i wylio y dodrefn. Gofynodd i ryw wraig a wyddai hi am dŷ gwâg yn y dref gan y Penau Cryniaid—a dywedodd, 'Gwn. Y mae tŷ yn nhop yr allt yna.' Cymmerodd Richard Jones y tŷ hwnw, a bu yn nodded i Fethodistiaeth, ac yn lletty i'r holl bregethwyr, tra y bu efe byw—am o ddeutu un mlynedd ar hugain.

Yr oedd achos yn lled foreu gan y Methodistiaid yn Nghaergeiliog. Yr oedd yma eglwys cyn y flwyddyn 1763. Enw y lle yr ymgynnullent oedd Ty'n-y-merddyn.

Nifer y Methodistiaid yma ar y pryd oedd pump; sef, Pierce Pritchard, Cryglas, a'i frawd, Owain Pierce; Owain Williams, a'i wraig; a John Jones, Cefn Caergeiliog. Dioddefodd John Jones, Cefn, gryn erledigaeth oddi wrth ei wraig. Pan y byddai yn ceisio cadw dyledswydd deuluaidd, byddai hithau yn cymmeryd y droell nyddu er ceisio ei ddyrysu, ac amryw bethau tebyg; ond methodd a llwyddo i'w rwystro yn ei ddefosiwn crefyddol. Dywedir iddi wahodd dwy wraig foneddig o'r gymmydogaeth i geisio ei ddarbwyllo; sef, Mrs. Owen, Sybylldir, a Mrs. Owen, Carna. Dechreuasant trwy ei ganmawl, ei fod yn ddyn caredig a chymmeradwy; ac y byddai iddo, wrth fyned at y Penau Cryniaid, dynu gwaradwydd arno ei hun, a'i deulu. Ond dal ei ffordd a wnaeth yr hen frawd, gan orphen ei yrfa mewn llawenydd.

Dywedir fod pregethu achlysurol yn Nhrelywarch, yn mhlwyf Llanfwrog, lle y preswyliai gŵr o'r enw Thomas Cadwaladr cyn y flwyddyn 1764; a bod y Parch. Howel Davies, sir Benfro, a Lewis Evan, a Richard Tibbot, o sir Drefaldwyn, wedi bod yma. Ennillwyd mab ac ŵyres i Thomas Cadwaladr yn ddysgyblion i'r Arglwydd Iesu. Bu Thomas Cadwaladr farw yn y flwyddyn 1764; ac nid oes genym hanes fod pregethu gan y Methodistiaid yma am ugain mlynedd wedi ei farwolaeth.

Nid oes genym ond ychydig o hanes cychwyniad Methodistiaeth yn Amlwch. Yn Tŷ du, rhwng Amlwch a Chemmaes, yr oedd eisteddle yr achos ar y dechreu. Bu Tŷ du, Careg-gam, a Chwaen-hen, yn daith Sabbath. Byddai pregethu weithiau yn y dref. Dywedir i Dafydd Morris, o'r Deheudir, ddyfod yma, a phregethu wrth dalcen tŷ yr hen bregethwr a adwaenid y pryd hwnw wrth yr enw William Roberts, crydd. Y mae y *Scientific Hall* yn sefyll yn awr ar y darn tir y safai y tŷ arno. Yr oedd llyn dwfr yn agos i'r tŷ, a'r dwfr yn lled fudr yn y cyffredin. Penderfynodd tyddynwr yn y gymmydogaeth wneyd gwawd o'r pregethwr, ac o'i gyfarfod. Daeth i'r dref ar ei geffyl, gan fwriadu marchogaeth trwy y gynnulleidfa. Ceisiodd roddi ei fwriad mewn gweithrediad; ond pan y daeth at y llyn, mynodd y ceffyl droi i'r llyn, a thaflodd ei farchog oddi ar ei gefn i'r llyn. Ofnai yr

edrychwyr iddo foddi yn y llyn, a gwaeddent ar i rywun ei achub. 'O na,' ebai rhyw hen wraig, 'gadewch iddo: gan i'r Llywydd Mawr weled yn dda fyned âg ef yna, yna dylai efe fod.' Ond rhuthrodd rhywrai mwy trugarog a graslawn na'r hen wreigan i'r llyn, a dygasant ef allan o hono heb dderbyn niwed; ond fod ei wisg yn dipyn butrach. Dywedir fod Howel Harris wedi bod yma yn pregethu, yn nhŷ William Roberts, crydd. Daw yr hen bregethwr o Amlwch dan sylw yn y bennod nesaf. Ymddengys i'r capel cyntaf gael ei adeiladu yn y flwyddyn 1777. Ceir, yn nghofnodion llyfr y Cyfarfod Misol, y modd y cafwyd tir i adeiladu y capel arno. Prynodd Thomas Phabby, Tŷ du, gan Herbert Jones, Ysw., o Lynnon, yn mhlwyf Llanddeusant, ddarn o dir, yn Mhen-y-bont fawr, 33 llath o hyd, a 23½ o led, am 30*p.*, ar Mehefin 9fed, 1777; ac iddo yntau roddi prydles arno am 999 o flynyddoedd, am chwecheiniog yn y flwyddyn. Yn mhlith yr ymddiriedolwyr ceir y Parchn. William Williams, Pant-y-celyn; William Davies, Castellnedd; a Robert Jones, Rhoslan.

Tybir fod Methodistiaeth wedi cychwyn yn lled foreu yn mhlwyf Llanfihangel Tre'rbeirdd. Y Methodist cyntaf yn y gymmydogaeth hon oedd Robert Dafydd, yr Hen Siop. Dywedir mai trwy weinidogaeth un o'r enw Evan Moses, o'r Bala, y teimlodd argraphiadau crefyddol gyntaf. Aeth i wrandaw, gan fwriadu aflonyddu ar y pregethwr; ond cyn iddo ddechreu, dwysbigwyd ef yn ei galon gan y testyn. Cyn hir, wedi dychweliad Robert Dafydd, daeth Howel Harris i'r ardal, ac yn nhŷ Robert Dafydd yr arosai tra y bu yn y gymmydogaeth; ac ar gae yn perthyn i'r Hen Siop y pregethai. Dywedir i Harris gymmeryd Robert Dafydd gydag ef i wahanol ardaloedd yr ynys, a thybir mai er amddiffyniad iddo ei hun y cymmerodd ef; o blegid yr oedd Robert Dafydd yn ddyn cryf a galluog i'w amddiffyn, os byddai raid. Y mae yn debyg mai yr un amser ydoedd hwn a phan yr oedd efe yn Llanerchymedd. Bu Robert Dafydd, a'i wraig, fwy nag unwaith yn aros gyda Harris yn Nhrefecca. Dywedir fod gwraig Robert Dafydd yn rhagori arno mewn duwioldeb.

Yr oedd pregethu lled foreu yn Penrhos Lleugwy. Dywedir i Peter Williams fod yma yn pregethu fwy nag unwaith. Dywedir, yn *Nrych yr Amseroedd,* iddo gael ei gyhoeddi i bregethu wrth dŷ tafarn, yn agos i Benrhos Lleugwy. Erbyn iddo fyned yno, yr oedd cwmni lled anhywaith yn ei ddisgwyl. Ni chai fyned i'r tŷ, ac ni chaniateid lle i'w geffyl. Yr oedd y pregethwr yn ddyn gwrol ei feddwl, a boneddigaidd ei ymddangosiad, a rhoddodd bennill o Salm i'w ganu—

'Yr Arglwydd bïau'r ddaear lawr,
A'i llawnder mawr sydd eiddo;
Yr Arglwydd bïau yr holl fyd,
A'r bobl i gyd sydd ynddo.'

Yr oedd y fath nerth ac awdurdod yn cerdded gyda'r pennill nes eu dychrynu, a pheri iddynt daflu eu pastynau, a gwrandaw yn llonydd hyd y diwedd. A dywedir hefyd yn *Methodistiaeth Cymru,* iddo bregethu dro arall ger llaw eglwys Penrhos, ar brydnawn Sabbath. Yn mhlith y cellweirwyr a ddaethant i'r bregeth, yr oedd hen ŵr ar gefn caseg wen, yn meddu pastwn erchyll yn ei law, gan fwriadu aflonyddu ar y pregethwr. Deallodd rhywun yn y gynnulleidfa na oddefai yr hen gaseg wen i neb gyffwrdd â'i chrwper heb iddi ddangos ei hanghymeradwyaeth; a dyma y naill ar ol y llall yn cyffwrdd â llecyn gwan yr hen gaseg, er mwyn ei gweled yn dangos ei hanfoddlonrwydd. Ymddengys i'r cellweirwyr ddilyn yr hen ŵr a'r gaseg wen, er mwyn difyrwch, a gadael llonydd i'r pregethwr i bregethu i'r rhai a fynent wrandaw arno.

Tua'r fl. 1768, bu raid i ddeunaw o Fethodistiaid y gymmydogaeth hon ymddangos ger bron yr offeiriad, a goruchwyliwr Arglwydd Boston, yn Mhlas Lleugwy, i roddi cyfrif o'u crefydd. Gofynwyd iddynt addaw peidio myned byth i wrandaw ar y Methodistiaid; ac os gwnaent, y caent aros yn ddiddig yn eu tai a'u tiroedd; ac onid ê, fod yn rhaid iddynt ymadael o honynt. Yr oedd y goruchwyliwr yn dal yn ei law bapyrlen fawr, yn cynnwys gorchymyn Arglwydd Boston, ac yn ei ddarllen. Yn mhlith y deunaw yr oedd Owen Thomas Rowlands, yr hwn a ddaw o dan sylw fel pregethwr yn y bennod nesaf.

Anturiodd y gŵr hwn ddechreu dadleu â hwynt, fod y llywodraeth wladol yn caniatau rhyddid i bob dyn addoli Duw yn y lle y myno; ond yr unig atteb a gafwyd oedd, 'Dyma orchymyn fy meistr.' Yna gollyngodd un o honynt, sef Richard Williams, Tyddyn bach, ei het i lawr, a churodd ei ddwylaw, a neidiodd yn mharlwr y gŵr boneddig, a llefodd, 'Bendigedig fo Duw! Hosannah i Fab Dafydd!' Pan ofynai y parson iddo beidio, llefai Richard Williams yn fwy o lawer, nes y newidiai lliw gwynebau y ddau foneddwr, a gollyngai y goruchwyliwr y bapyrlen i'r llawr. Aeth y Methodistiaid allan, a Richard Williams yn llefain, 'Ffarwel, frodyr anwyl! pwy bynag a wertho deyrnas hardd, a choron deg, am dyddyn o dir, a thalu yn ddrud am dano—os caf gymmhorth gan 'y Brawd a anwyd erbyn caledi,' ni wnaf byth!' Ond yn mhen ychydig amser ar ol iddynt fyned gartref, dychwelodd pymtheg o'r deunaw yn ol i ymrwymo i beidio gwrandaw ar y Methodistiaid; ond safodd y tri arall at eu penderfyniad, sef, Owen Thomas Rowlands; Richard Hughes, Siop, Rhostyddyn; a Richard Williams, Tyddyn bach, yr hwn a alwyd yn Dic y tan. Trowyd y tri o'u tyddynod; syrthiodd y pymtheg i ddiystyrwch cyffredinol; gelwid hwy yn *turncoats*, a buont feirw yn wrthodedig. Ond am y tri arall, buont fyw a marw yn hapus. Ië, torodd allan yn orfoledd mawr yn y llan ar gynhebrwng Richard Williams, nes ffaelu o'r offeiriad gael darllen y gwasanaeth arferol. Pan y trowyd ef allan o'i dyddyn, y mae yn ymddangos iddo symmud i le a elwid Llain wen, yn mynydd Bodafon; a daeth yn lle i bregethu ynddo. Bu yn daith Sabbothol gyda Chae-maes-gafr, a'r Gell, yn mhlwyf Llanallgo. Ymddengys fod John (Siôn) Rowlands, o'r Hafod, Llangwyllog, yn un o Fethodistiaid boreuol Môn. Symmuddodd o Lanfair bach i Geryg llithir, yn mhlwyf Penrhos Lleugwy, a derbyniodd bregethu i'w dŷ; canys dywedir fod ganddo *lease* ar Ceryg llithir am un mlynedd ar hugain. O herwydd derbyn pregethu i Lanfair bach, yr hwn oedd yn agos i Niwbwrch, y bu raid iddo ymadael oddi yno. Bu Ceryg llithir yn gartref i Fethodistiaeth. Bu Dafydd Morris, Jones, Llangan, a Rowlands,

Llangeitho, yma; a dywedir mai yma y cadwyd Cyfarfod Misol cyntaf Methodistiaid Môn, yn y flwyddyn 1760. Symmudodd John Rowlands, o Ceryg llithir, i'r Hafod, yn mhlwyf Llangwyllog. Daw y gŵr hwn o dan sylw etto.

Yn hwyr y cyfnod hwn dechreuwyd pregethu yn Beaumaris. Dywedir i Dafydd Morris, o'r Deheudir, fod yn pregethu yma, ac i'r trigolion ymddwyn yn anfoesgar iawn tuag ato. Safodd ar yr heol, a dechreuodd bregethu; ond gorchfygwyd ef yn lân gan sŵn a thwrf y bobl, er ei fod yn uchel iawn ei lais, ac yn wrol ei feddwl. Yn sicr, yr oedd gwroldeb yn un o'r cymmhwysderau angenrheidiol i'r weinidogaeth Fethodistaidd yn y cyfnod hwn. Ymddengys fod William Lewis, a adnabyddir yn y cyfnod hwn, a'r nesaf, fel William Lewis, Glasinfryn, yn bresennol. Nid ydym yn gwybod pa un a oedd efe wedi dechreu pregethu y pryd hyn, ai nad oedd; ond gallwn fod yn lled sicr ei fod yn ŵr crefyddol a duwiol; ac yr oedd yn dda i Dafydd Morris wrtho ef, o blegid trwyddo ef y cafodd lonyddwch i bregethu yr efengyl i drigolion Beaumaris y tro hwn. Yr oedd William Lewis y pryd hyn yn ddyn ieuangc cryf a bywiog, yn meddu llais fel udgorn; ac ymliwiodd â'r bobl am eu hymddygiad at ŵr dyeithr a pharchus a ddaethai o bell i geisio eu daioni; ac mewn canlyniad, cafodd Dafydd Morris lonydd gweddol i draddodi ei genadwri. Dywedir fod rhyw rai eraill wedi bod yn ceisio pregethu yn Beaumaris o flaen Dafydd Morris—rhwng y blynyddoedd 1750 a 1760; ond aflwyddiannus hollol oedd eu cais. Bu Owen Thomas Rowlands yn pregethu yma, naill ai cyn Dafydd Morris, neu yn fuan ar ei ol. Adroddai Owen Thomas Rowlands yr hanes fel y canlyn:—'Aethum yno gyda deuddeg, neu ragor, o'm cyfeillion. Yr oedd yno dyrfa fawr o bobl, a minnau yn disgwyl y byddai fy ymenydd ar y pared cyn pen chwarter awr. Cymmaint oedd fy ofn a fy arswyd wrth ddechreu fel na allwn ymaflyd yn y Beibl, gan fel yr oedd fy nwylaw yn crynu. Wrth i mi weddïo yr oedd yno y fath sŵn, gan y murmur a'r terfysg oedd yn mhlith y bobl, fel nad oedd yn bossibl i neb glywed ond ychydig; ond wrth ddiweddu y weddi, mi ddywedais y pader. Pan

glywodd y bobl hyn, rhedodd rhai o ddrysau y tai, ac o ochrau y cloddiau; a chan dynu eu hetiau, nesasant at y dorf. Ar hyn gwaeddodd John Parry, y bragwr, ar y bobl, ar fod i bawb wrandaw yn ddistaw, ac na wnai neb, er ei berygl, ddim aflonyddwch; ac na thaflai neb gymmaint a phlisgyn ŵy, o herwydd, ebe ef, 'Yr wyf fi wedi rhoddi cenad i'r gŵr sefyll ar fy nhir, ac mi a edrychaf am chwareu teg iddo.' Y canlyniad o adrodd y pader, a thraethiad araeth y bragwr, fu cael llonyddwch perffaith i bregethu.

Ymddengys fod pregethu achlysurol yn Llanerchymedd yn y cyfnod hwn—rhwng 1770—80, a bod y trigolion yn wrthwynebol iawn i'r Penau Cryniaid. Y mae yr hen rigwm crybwylledig am Howel Harris yn rhoddi ar ddeall ei fod wedi talu ymweliad â'r lle. Dywedir fod William Pritchard, Clwchdernog, yn cyd-deithio gydag ef trwy ranau o'r sir; a Howel Thomas, un o feibion Tŷ gwyn, drwy ranau eraill. Dywedir i'r ddau Howel ddyfod i Lanerchymedd ddiwrnod cyn Ffair Farc. Esgynodd Harris i ben yr hen gareg hynod a fu gyferbyn a'r Heinws—y gareg ar yr hon yr anerchodd Oliver Cromwell ei fyddin; ac ar yr hon y pregethodd John Howe tra ar ei ffordd i'r Iwerddon; ac oddi ar yr hon y pregethodd John Wesley. Gyda bod Harris wedi dechreu pregethu, daeth lliaws o'r erlidwyr ynghyd i'r lle, gyda thabwrdd, i'r dyben o foddi llais y pregethwr. Lluchiasant ato garthion a budreddi, fel y bu raid iddo roddi i fyny am y tro. Dranoeth, yr oedd y dref yn llawn o bobl; ac aeth y ddau Howel i roddi tro trwy y ffair. Gwaeddodd rhyw hen grythor, o'r enw Hugh Morgan, ar ol Harris—'Howel Harris, Howel Harris, hwdiwch.' Gofynai Harris, 'Paham y gelwi arnaf fi?' Yr attebiad oedd, 'Wel, i chwi giail y ffidil yma hefid; can's yr ydych wedi mind â'r bobl i gid er fy ngweithe i.' Gellid tybio oddi wrth dafodiaith Hugh Morgan mai Hwntw oedd efe.

Y mae pob sicrwydd fod y Parch. Daniel Rowlands wedi bod yma. Yr oedd yn gydnabyddus â'r Parch. John Lewis, curad. Yr oedd y ddau gyda'u gilydd yn Ysgol Rammadegol Hereford; o ganlyniad, cafodd ganiatâd

i bregethu yn yr eglwys. Llanwyd hi mor lawn fel y bu raid iddo bregethu ar gareg bedd yn y fynwent. Deallodd John Hughes, Clwchdernog, fod yn y gynnull-eidfa derfysgwyr yn bwriadu baeddu y pregethwr. Aeth yn union i hysbysu Mr. Bulkeley, Gronant, Uchel-sirydd Môn, yr hwn oedd yn y dref ar y pryd, o'u bwriad; a galwodd y boneddwr ar gadben y *militia*, sef Mr. Henry Jones, Llysdulas, yr hwn oedd yn digwydd bod yn y lle, i amddiffyn y gŵr dyeithr. Gyda phob parodrwydd, fe wnaeth. Ymddangosodd yn y fynwent gyda'i gleddyf noeth yn ei law, gan orchymyn i Rowlands fyned yn mlaen, a sicrhau iddo na chai neb ei niweidio. Mewn canlyniad, cafodd y pregethwr lonyddwch i bregethu. Ei destyn ydoedd *Ier.* xxx. 21. Dywedir i'r bregeth effeithio yn ddwys ar y dyrfa. Hefyd, bu Nathaniel Rowlands, mab Daniel Rowlands, yma, a chafodd yntau, fel ei dad, ganiatâd i fyned i'r eglwys; ond yr oedd y gynnulleidfa mor fawr fel y bu raid iddo yntau ddyfod allan, a phregethu ar gareg bedd, fel ei dad o'i flaen. Dywedir fod yr hen eisteddleoedd pydredig yn clecian dan eu beichiau, fel y bu raid dyfod allan; ac i wŷr Llan-erchymedd anurddo ei wenwisg âg ŵyau drewedig. Ymddengys i'r Parch. David Morris, Lledrod (ac wedi hyny Tŵr gwyn), ddyfod yma, a phregethu yn muarth tŷ tafarn a elwid yr Ysgubor Wenith. Pan oedd efe yn gweddïo, taflodd rhyw ddyhiryn ddyrnaid o dail ceffylau i'w wyneb. Yna aeth gŵr crefyddol oedd wedi dyfod yma gyda David Morris, o'r enw Cornelius Pritchard, Tŵr llechiad, at y dyn i ymliw âg ef, o herwydd ei ymddygiad annynol tuag at ŵr dyeithr a diniwed. Ar hyn, rhuthrodd yr erlidiwr ar Cornelius Pritchard, gan fwriadu ei drybaeddu yntau mewn tomen dail oedd ger llaw; ond cafodd ddeall ei fod wedi rhuthro ar un cryfach nag ef ei hun. Wrth weled fod y dyhiryn yn debyg o fethu yn ei amcan, daeth rhyw adyn arall i'w gynnorthwyo, gan geisio codi sodlau Cornelius Pritchard. Methodd crefyddwr o'r enw Richard William Meredith a dioddef hyn. Amddiffynodd ei frawd, a bu y pedwar yn ymdreiglo ar hyd y domen dail; ond cafodd yr erlidwyr ddeall eu bod wedi tynu eu trech yn eu pen. Dywedai y diweddar Barch. Richard Roberts,

Llanerchymedd, iddo glywed Richard W. Meredith yn adrodd yr hanes; ond mai Cornelius Pritchard oedd yn gweddïo, ac mai i'w wyneb ef y taflwyd y llaid, ac nid i wyneb David Morris. Pa fodd bynag, cafodd y pregethwr lonyddwch i bregethu. Ymddengys i'r Parch. Peter Williams dalu ymweliad â'r dref hon mor foreu a'r flwyddyn 1746, a lled anfoesgar yr ymddygwyd tuag ato yntau. Dywedai iddynt ei ddirmygu a'i watwar, a cheisio dychrynu ei geffyl â chydaid o geryg wedi ei rwymo wrth ben polyn hir, gan ei ysgwyd yn dda. Yn mhen y dref daeth rhyw grydd allan o'i weithdŷ, ac a gymmerodd lonaid ei law o laid yr heol, ac a'i taflodd i'w wyneb, nes yr oedd ei ddau lygad yn nghauad am ennyd, heb allu gweled mwy na dyn dall; pa fodd bynag, crafodd ef ymaith mor ebrwydd ag y gallai; a chan edrych o'i amgylch, gwelai y ffordd fel cynt. Yna llawenychodd, a bu yn dda ganddo ddarfod ei gyfrif yn deilwng i gael ei erlid er mwyn Crist a'i efengyl bur. Tybir i'r gŵr a daflodd y llaid i'w wyneb ef ddyfod yn flaenor yn eglwys Llanerchymedd ar ol hyn.

Dywed *Methodistiaeth Cymru* fod Methodistiaeth yn ardal Glasinfryn yn foreu—tua'r flwyddyn 1752. Cartref yr achos am o ddeutu 35ain mlynedd oedd Waeneura. Dywedir fod Rowlands, Llangeitho; Jones, Llangan, ac eraill o'r hen dadau, wedi bod yma. Y mae traddodiad fod Howel Harris hefyd wedi bod yma. Ychydig fu y llwyddiant yma am tua 35ain mlynedd; canys dywedir mai chwech oedd nifer yr aelodau dechreu yr ail gyfnod, 1780; ond ymddengys y byddai yma gyfarfodydd lliosog ar rai achlysuron—crefyddwyr ardaloedd eraill am lawer o filldiroedd yn cyrchu i'r lle. Dywedir y cynnelid ysgol ddyddiol yma rywbryd, a thros gryn amser, yn y tymmor boreu. Yr oedd yr ysgolfeistr yn ddyn da. Torai allan yn orfoledd weithiau yn yr ysgol pan y byddai yn gweddïo gyda'r plant. Yr oedd un hen ŵr o'r enw Richard Hemans yn myned, un Sabbath, tua'r Waeneura i'r addoliad; cyfarfu â bechgyn yn chwareu; llwyddodd i'w cael i ddyfod gydag ef i'r bregeth. Ond ar y ffordd, daeth dau filwr i'w gyfarfod, y rhai a gydiasant ynddo, gan roddi ar ddeall ei fod, bellach, yn

ddiogel yn eu gafael; ac yn lle myned ar ol ei grefydd, fod ganddynt hwy waith arall iddo. Annogodd yntau y bechgyn i fyned i'r bregeth, ac aeth yntau gyda'r milwyr yn ddiddig. Aeth y bechgyn yn ol ei gyfarwyddyd. Gallodd yr hen Fethodist ffoi, ac ymguddio dan y gwellt yn ysgubor yr Olgref geryg. Y swyddogion, yn nechreu y cyfnod hwn, oeddynt Owen Ellis, Hugh Evans, Morris Williams, a Thomas Owen, gôf.

Fe allai mai dyma y lle goreu a mwyaf cyfleus ar hyn o bryd i ni wneyd crybwylliad am Drefecca. Bu gan Howel Harris rhyw drefniant rhyfedd iawn yno. Arosai Harris gartref; o ganlyniad, dechreuodd llawer fyned yno i gyfanneddu—rhai i fyw yn ei deulu ef, ac eraill mewn tyddynod yn y gymmydogaeth. Yn y flwyddyn 1754, yr oedd teulu Harris yn gant o rifedi. Yr oedd yn rhaid cael llawer i gynnal y fath deulu. Byddai mewn eisieu yn fynych, ac nid oedd ganddo neb i droi ato ond yr Arglwydd. Byddai yn derbyn 10*p*., 20*p*., a 100*p*., oddi wrth bersonau yn byw yn mhell o Drefecca. Ymddengys fod y teuluoedd cefnog yn rhoddi eu cyfoeth i gynnal y teulu. Byddai hefyd yn derbyn teuluoedd tlodion. Nid ydym yn barnu fod y fath sefydliad yn un doeth, er ei fod yn ymddangos yn debyg i'r drefn oedd gan y Cristionogion yn Jerusalem yn yr oes apostolaidd—'Pob peth yn gyffredin ganddynt.' Aeth rhai o Fôn yno, ac yn eu plith aeth Anne Williams, gwraig Thomas Williams, Pentre bwäau (a Ty'n-y-merddyn wedi hyny), yno; a dyma ein rheswm dros gyfeirio at y trefniant. Dywedir mai trwy weinidogaeth Harris y dychwelwyd hi. Yr oedd hi yn lled dda arni; ond aeth yno heb ei chyfoeth, i gael gweled pa fodd y byddai yn dygymmod â'r lle. Dywedir iddi droseddu un o reolau bychain y teulu; sef, eistedd yn nghadair Miss Harris. Cafodd gerydd o herwydd ei hanfoes. Gwnaeth ymddiheurad, a gostegodd yr ystorm. Boreu dranoeth, wedi yr addoliad teuluaidd, anfonwyd hi i'r *garret* i chwalu gwlân, a theimlodd nad oedd hyny yn gydweddol â'i hurddas, a phenderfynodd ddychwelyd gartref. Dywedir i Thomas Williams, ei gŵr, fyned yno i'w nhol hi. Dywed *Methodistiaeth Cymru* iddi led addaw dychwelyd yn ol, a bu hyny yn boen fawr iddi. Ymddengys

fod gŵr o'r enw Thomas Roberts, Tŷ pobty, Llanerchymedd, wedi myned yno, ac iddo yntau droseddu. Yr oedd nifer o'r dynion wedi eu hanfon allan, un diwrnod, i'r maes i chwalu pridd; daeth rhai bechgyn lled ddireidus heibio, gan eu gwawdio, a dywedyd, 'Slafwch, blant F'yrth Hywel, cewch botes farlys pan ewch tua thref.' Torodd Thomas Roberts dros y clawdd i'r ffordd fawr, a rhoddes roden lem ar gefn y bechgyn. Aethant hwythau rhag eu blaen at Harris i achwyn eu camwri, a chafodd yntau wers dostach na cherydd y wïalen ar y plant. A dychwelodd Thomas Roberts yn ol yn ddioed i Fôn. Bu eraill o Fôn yn Nhrefecca ar ymweliad, ac hefyd er mwyn cael y fraint o glywed Howel Harris yn pregethu.

PENNOD IV.

PREGETHWYR Y CYFNOD CYNTAF.

Nis gallwn ysgrifenu llawer o hanes pregethwyr y cyfnod hwn, o blegid nid oes ond ychydig o'u hanes ar gael; ac nid ysgrifenu cofiantau pregethwyr Môn yr ydym, ond hanes Methodistiaeth Môn. Bwriadwn roddi crynodeb byr o hanes holl bregethwyr Methodistaidd Môn ag ydynt wedi meirw o'r dechreuad hyd yr amser yr ydym yn ysgrifenu. Fel y mae gwahaniaeth rhwng mynyddoedd ac afonydd gwledydd—rhai yn fawrion ac yn amlwg, ac o ganlyniad yn tynu sylw y teithwyr, ac eraill yn fychain ac yn anamlwg, ac o ganlyniad yn tynu ond pur ychydig o sylw; felly y mae pregethwyr gwlad—rhai yn fawrion ac yn amlwg yn tynu sylw mawr, a'r lleill yn fychain ac yn anamlwg, mewn cymmhariaeth, yn tynu ond ychydig o sylw. Felly, os byddwn yn talu mwy o sylw i rai nag i'r lleill, y gwrthddrych fydd yr unig achos o hyny.

Richard Thomas oedd enw y pregethwr Methodistaidd cyntaf a fu yn preswylio yn Môn. Fel y crybwyllasom yn y bennod flaenorol, ychydig iawn a wyddom am dano,

a dim ond hyny a geir yn y *Drysorfa* ac yn *Methodistiaeth Cymru*. Ni wyddom ddim am ei dalentau pregethwrol; ond gallwn fod yn lled sicr fod ei gymmeriad ef fel dyn gonest, yn talu ei hen ddyledion, yn disgleirio ger bron ei gydwladwyr, ac yn rhoddi dylanwad nid bychan iddo fel cynghorwr, neu bregethwr. Nis gellir bod yn sicr o'r amser y dechreuodd bregethu; ond gan fod *Methodistiaeth Cymru* yn rhoddi y flaenoriaeth iddo, o ran amser, ar Hugh Griffith, Llanddaniel, yr hwn ni ddaeth yma cyn y flwyddyn 1745, os daeth ef yma yn y flwyddyn hono, rhaid fod Richard Thomas wedi dechreu cyn y flwyddyn 1745.

Hugh Griffith, Llanddaniel, oedd yr ail bregethwr Methodistaidd yn Môn. Gwnaethom sylw o'r gŵr hwn yn y bennod flaenorol, fel un wedi ei erlid o sir Gaernarfon o herwydd ei grefydd. Ni wyddom ond ychydig am ei alluoedd pregethwrol yntau chwaith; ond gwyddom fod prinder pregethwyr yn ei wneyd ef a Richard Thomas yn werthfawr, pa mor fychain bynag oeddynt. Ymddengys fod Hugh Griffith wedi cael bod yn offeryn tröedigaeth un dyn llawer mwy hynod nag ef ei hun; sef, Owen Thomas Rowlands. Aeth Hugh Griffith i gymmydogaeth Dulas i bregethu mewn tŷ, yr hwn a lanwyd o wrandawyr; ac yn eu mysg yr oedd Owen Thomas Rowlands. Soniai y pregethwr am Moses yn sefyll yn yr adwy rhwng Duw ac Israel, a chondemniai y tyngwyr a'r rhegwyr yn llym. Yr oedd Owen Thomas Rowlands yn rhagori mewn rhegi ar bawb o'r bron, a theimlodd yn ddwfn o dan y weinidigaeth, a thorodd allan i waeddi am ei fywyd. Dywedir mai Hugh Griffith ydyw awdwr y pennillion canlynol:—

'Dacw'r deg gorchymyn pur,
Ar Galfaria.'

'Blant afradlon, at eich Tad
Dowch, a chroesaw.'

Dywedai Griffith Jones, Cefn-dwy-ffrwd, yr hwn oedd yn ŵyr iddo, wrth W. Jones, ei nai, mai ei daid oedd eu hawdwr; ac hefyd mai efe a fu yn offeryn dychweliad Michael Thomas, Garnan Wen, pregethwr arall yn y cyfnod hwn.

Evan Griffith, Chwaen hen, oedd bregethwr arall perthynol i'r cyfnod hwn. Ymddengys mai merch i William Pritchard, Clwchdernog, oedd ei wraig gyntaf. Dywedir mai gŵr tal a grymus o gorph ydoedd; iddo fyned unwaith gyda haid o ddyhirwyr i ymosod ar gynnulleidfa fechan oedd yn addoli mewn tŷ yn y gymmydogaeth; sef, Tŷ Mawr, Llantrisant; ac iddo lenwi ei logell â cheryg, gan feddwl gwneyd defnydd o honynt i ddyrysu y gwasanaeth; ond teimlodd gymmaint o dan y bregeth, fel y gollyngodd y ceryg i lawr gyda'i ochr, ac ymunodd â'r ychydig grefyddwyr oedd yn y gymmydogaeth. Dechreuodd bregethu, a daeth yn bregethwr difrifol, pwyllog, a chymmhwysiadol. Ystyrid ef y dyn mwyaf yn mhlith ei frodyr yn y cyfnod hwn; ac felly, y dyn mwyaf ei ddylanwad yn mhlith Methodistiaid Môn ar y pryd.

Richard Jones, Niwbwrch, ydyw y pregethwr nesaf a nodwn. Yr oedd y gŵr hwn yn mysg Methodistiaid cyntaf Niwbwrch. Dywedir iddo bregethu am ddeugain mlynedd, a chael ei ran o erledigaethau y cyfnod hwn. Ceir hanes am dano yn pregethu unwaith mewn lle yn agos i Bethel, fel y gelwir y lle yn awr. Daeth llu o erlidwyr yno, dan arweiniad offeiriad y plwyf. Ychydig iawn o erlid a fu ar grefydd heb fod gan swyddogion y grefydd wladol law ynddo. Yr archoffeiriaid—swyddogion y grefydd Iuddewig, ydoedd y rhai a erlidiasant Crist a'i apostolion; offeiriaid paganaidd, a phaganiaeth yn grefydd y wladwriaeth, ydoedd y rhai mwyaf blaenllaw yn erledigaeth y Cristionogion cyntefig yn ngwahanol wledydd yr ymherodraeth Rufeinig; offeiriaid Pabaidd—swyddogion y grefydd wladol, a erlidiasant Protestaniaid; ac offeiriaid yr Eglwys Sefydledig a fu ac y sydd yn erlid yr Ymneillduwyr yn Lloegr a Chymru. Ffynnonell y rhan fwyaf o'r erledigaethau ar grefyddwyr oedd, ac ydyw, yr undeb anachaidd rhwng yr eglwys a'r wladwriaeth. Offeiriad y plwyf oedd cadben y fintai a fu yn ymosod ar Richard Jones. Pan y dechreuodd y pregethwr bregethu, dechreuodd yr erlidwyr chwythu trwy gyrn, y rhai a ddygasant gyda hwy, a dechreuasant ymosod ar y pregethwr, a'r ychydig grefyddwyr oedd gydag ef, fel y bu raid iddynt redeg am eu

bywyd; ond yn ffortunus iawn, digwyddodd i un o'r erlidwyr, wrth redeg, ddisodli un o'i gyd-erlidwyr, fel y syrthiodd ar y ffordd; digiodd y disodledig yn aruthrol wrth y disodlwr; aeth y ddau i ymladd â'u gilydd, ac arosodd y lleill i edrych arnynt, yn lle rhedeg ar ol y pregethwr, a'i ychydig gyfeillion. Dywedir i Richard Jones farw yn y flwyddyn 1788; ac os bu yn pregethu am ddeugain mlynedd, rhaid ei fod wedi dechreu mor foreu a'r flwyddyn 1748. Y mae rhai wedi bod yn ceisio dywedyd fod argraphiadau crefyddol ar ei feddwl yn y flwyddyn 1742, yr un flwyddyn ag y dechreuodd argraphiadau crefyddol ar feddwl meibion Tŷ gwyn.

Richard Dafydd, Amlwch, oedd y pregethwr nesaf. Ganwyd ef yn Amlwch, yn y flwyddyn 1730. Gwehydd ydoedd ef wrth ei alwedigaeth, a thrigai yn Mhorth Amlwch. Yno y cafodd grefydd, ac y dechreuodd bregethu; a bu yn byw yn Amlwch nes yr oedd yn hanner cant oed. Richard Dafydd oedd y pregethwr cyntaf y mae genym hanes am dano a gododd yn Amlwch. Ond cododd amryw ar ei ol. Nid oedd yn rhyw lawer o bregethwr, ond yr oedd yn Gristion cywir iawn. Byddai yn tynu sylw y morwyr wrth gadw dyledswydd deuluaidd. Symmudodd o Amlwch i Pant-y-coli, a derbyniodd bregethu i'w dŷ. Os nad oedd yn bregethwr mawr, yr oedd yn bregethwr ffyddlawn. Dywedir y byddai yn myned o Bant-y-coli i'r Aberffraw, yn cymmeryd bara ac ymenyn yn ei logell, yn pregethu yno, ac yn dychwelyd yn ol yr un diwrnod, wedi cerdded o ddeutu 35ain o filldiroedd. Yr oedd yn meddu y rhinwedd hwnw a wobrwyir â choron y bywyd. 'Bydd ffyddlawn hyd angeu, a mi a roddaf i ti goron y bywyd.' Yr oedd hefyd yn ddyn llariaidd o natur. Ymgymmerodd â'r Ysgol Sabbothol o'i chychwyniad.

Owen Thomas Rowlands oedd y pregethwr nesaf a ddaw o dan sylw. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1735. Am o ddeutu 28ain o flynyddoedd, yr oedd yn ddyn hynod o anystyriol, fel y crybwyllasom yn y bennod flaenorol. Nid ofnai Dduw, ac ni pharchai ddyn: yn fras ei eiriau, ac yn anfad ei fuchedd. Arferai fyned i bob sessiwn i Beaumaris, a gwariai tua thair punt bob tro.

Chwareu cardiau ac yfed cwrw oedd ei nefoedd. Ni ofalai am gyfraith y tir, a llawer llai am gyfraith Duw. Ofnai llawer mai ar y crogbren y diweddai ei fywyd. Bu mewn brwydr ofnadwy â neidr unwaith ar y Sabbath yn mhlwyf Llechcynfarwydd, yn ol *Methodistiaeth Cymru,* ond yn Penrhoslleugwy, medd eraill. Yr oedd efe wedi bod yn y cymmun yn y boreu, mewn trefn i gymmhwyso ei hun i ymladd. Yn lle taraw y neidr â choes y bigfforch, tarawodd y gareg o ddeutu yr hon yr ymdorchai y creadur, a thorodd y coes yn ddau. Parodd hyn i'r neidr gynddeiriogi, a neidiodd ato, ond gallodd osgoi ei neidiadau. Aeth dros y clawdd, a neidiodd y neidr dros y clawdd ar ei ol; ond wedi hir ymladd, lladdodd hi. Sobrodd hyn dipyn arno. Pan yn 24ain mlwydd oed, aeth gartref i Dulas, a bu yno yn gweithio gwaith gôf. Yn y cyfnod hwn, daeth Hugh Griffith, Llanddaniel, yno i bregethu; argyhoeddwyd Owen Thomas Rowlands, a gwaeddodd allan fel dyn ar golli ei fywyd. Teimlodd yn ddwys ar ol hyn oddi wrth bregeth Charles Marc, gŵr o sir Gaernarfon; ond trwy bregeth o eiddo Richard William John, neu, fel y gelwid ef y pryd hwnw, Risiart W. Sion, gŵr o'r Deheudir, y rhyddhawyd ef oddi wrth lywodraeth pechod, ac y cafodd ollyngdod i'w feddwl. Aeth i'r cymmun i eglwys y plwyf, a thorodd allan i orfoleddu yno; digiodd yr offeiriad yn aruthr wrtho, colloddy gwin yn y cyffro, a bygythiodd ei roddi yn llys Bangor. Ymddengys iddo ddechreu pregethu yn mhen rhyw bum mlynedd wedi iddo ddyfod at grefydd; o blegid tua'r amser hwn, mynodd yr offeiriad, a gwraig lled foneddig yn y gymmydogaeth, gael cân yn erbyn y Methodistiaid. A dyma un o'r pennillion—

'Mae'r gôf wrth bwyntio yr hoelion
Yn tybied yn ei galon,
Ei fod yn well ei ddysg a'i ddawn
Na llawer iawn o 'sgobion.'

Y mae y pennill hwn yn rhoddi ar ddeall fod Owen Thomas Rowlands yn pregethu. Crybwyllasom am dano yn y bennod flaenorol yn mysg y deunaw a alwyd i Blas Lleugwy, ger bron y parson a goruchwyliwr Arglwydd Boston.

Wedi methu dylanwadu ar Owen Thomas Rowlands i adael y Methodistiaid, ceisiwyd ei erlid ef allan o'r ynys, trwy dori neu ddyrysu ei fywoliaeth. Rhoddwyd rhybudd i amaethwyr y gymmydogaeth i beidio rhoddi gwaith iddo; ac mewn canlyniad, daeth yn dlawd iawn. Ni chai fyned i weled ei fam ond yn y nos, rhag ofn iddi hithau gael ei throi o'i thyddyn am roddi swcwr iddo. Bu raid iddo olchi ei grys yn y ffôs, a'i sychu ar y berth, lawer gwaith. Penderfynodd ymadael o Fôn, ac aeth i Liverpool. Cafodd bob caredigrwydd gan y brodyr Wesleyaidd yno, o blegid nid oedd yno ar y pryd Fethodistiaid Calfinaidd. Bu yn pregethu yn nghapel Pitt street cyn iddo gael ei orphen. Ymddengys mai dyma y bregeth Gymraeg gyntaf a bregethwyd yn Liverpool. Daeth llawer o Gymry yno i wrandaw arno. Ni arosodd yn Liverpool ond tua naw mis; dychwelodd yn ol i Fôn, a phriododd un o'r enw Mari, fel y galwai efe hi. Cafodd ei erlid a'i ddirmygu yn Llanerchymedd, lluchiwyd ceryg ato, tarawyd ef yn ei glust, nes yr archollwyd ef yn drwm, a dygwyd gwydriad o wirod i'w gynnyg iddo pan oedd yn pregethu. Gofynodd un iddo—un o'i hen gymdeithion —'A ddeui di, Owen, i chwara pêl?' Attebodd yntau ar ganol y bregeth, 'Pe deuwn, mi wn i o'r goreu pwy ennilla.' Cafodd ei faeddu yn Amlwch ac yn Llanfechell. Crybwyllasom yn y bennod flaenorol am ei fynediad i Beaumaris i bregethu. Aeth i Liverpool am dro pan yr oedd efe tua 66ain mlwydd oed, i edrych am ferch oedd ganddo yno; ac wrth ddychwelyd gartref, tarawodd wrth ŵr ieuangc, yr hwn, o dan rith caredigrwydd, a'i harweiniodd o'r ffordd i ganol meusydd, gan ddyweyd fod llai o ffordd na myned ar hyd y brif-ffordd. Wedi iddi dywyllu, gadawyd ef ei hunan yn nghanol gwlad ddyeithr. Bu am dri chwarter awr yn cerdded yn galed trwy wynt a gwlaw yn chwilio am y ffordd; ac wedi iddo ei chael, penderfynodd lettya o dan berth o ddrain ar ochr y ffordd. Aeth ar ei liniau i ofyn i'w Dad Nefol arbed ei fywyd os oedd ganddo ragor o waith iddo i'w wneyd. A chyda ei fod wedi codi oddi ar ei liniau, daeth pedrolfen heibio, a'r certiwr yn canu, a gwelai y pregethwr o dan y berth drain, a gofynodd amryw o ofyniadau

iddo; ond y cyfan a allai yr hen bregethwr atteb oedd, '*Where is Parkgate?*' Deallodd y gŵr fod arno eisieu myned i Parkgate, cymmerodd ef i fyny, a rhoddodd ef i eistedd ar faril, a hugan fawr drosto; ac felly, achubwyd ei fywyd rhag fferu. Yr oedd efe i bregethu y noswaith ddilynol yn y Gatehouse, yn agos i Fangor; a'r peth cyntaf a ddywedodd oedd, 'Yr wyf fi wedi cerdded o Liverpool, ac yr wyf wedi blino fel pe buaswn wedi bod yn hela petris. Lle rhyfedd iawn sydd yn Liverpool; y mae yno dai tri uchder llofft. Ond beth yw rhyfeddodau Liverpool i ryfeddodau yr iachawdwriaeth.

'O iachawdwriaeth rasol
Rhyfeddol wyt ti i gyd.''

Dywedai bethau rhyfedd iawn weithiau, gyrai y bobl i ysgafnder, ac i ddifrifoldeb, bob yn ail. Pan ofynwyd iddo yn niwedd ei ddyddiau, mewn Cyfarfod Misol yn Nghaergybi, ddyweyd ei brofiad, a'i ddywedyd yn ddifrifol, attebodd, 'Byddaf mor ddifrifol a phe bawn ar fedd fy nain.' Cofus genym glywed gan Richard Jones, un o flaenoriaid parchus Caergybi, iddo ei glywed yn dywedyd, 'Pe gweddïai dyn nes y byddai ei liniai fel carnau ceffylau, ni chai byth fyned i'r nefoedd os na fyddai wedi ei ethol.' Ymddengys nad oedd yr hen dad yn deall mai gweddïo llawer sydd yn profi fod dyn wedi ei ethol. 'Oni ddïal Duw ei etholedigion, y rhai sydd yn llefain arno ddydd a nos?' Bu Owen Thomas Rowlands yn byw y rhan olaf o'i oes yn Nghaergybi.

William Roberts, Amlwch, oedd bregethwr arall sydd yn haeddu sylw neillduol genym yn y cyssylltiad hwn. Crydd ydoedd wrth ei alwedigaeth. Nid oes rhyw lawer o adgofion am dano. Dywedir mai dyn ofer a gwageddol iawn ydoedd cyn iddo gael crefydd. O ran ei dymmher naturiol, yn wyllt a sydyn; ond yr oedd yn Gristion cywir a disglaer. Pregethwr bychan; ond bu yn godiad i Fethodistiaeth yn Amlwch, er mor fychan ydoedd fel pregethwr; o blegid ystyrid ef yn un o'r dynion mwyaf cywir ei amcan a geirwir ei air. Yr oedd yn meddu llawer o'r nwyfus yn ei natur, canys dywedai, wedi dyfod o'r cyfarfod gweddi weithiau, 'Wel, frodyr, mi a'ch curais chwi bob un wrth weddïo heno;' er hyny ni

thramgwyddai neb wrtho, ac ni edrychai neb yn îs arno o herwydd iddo ddywedyd hyn. Y mae un hanes ar gael yn *Methodistiaeth Cymru* sydd yn dangos ei fod yn lled lygadog, ac yn gallu adnabod dynion yn lled dda. Yr oedd yn Llangristiolus hen flaenor, am yr hwn y crybwyllasom yn y bennod ddiweddaf, o'r enw Robert, y Cooper. O dan arolygiaeth Robert y llwyddodd yr achos yno yn y cyfnod cyntaf hwn. Chwanegwyd at yr eglwys yn Llangristiolus amryw o wŷr ieuaingc gwybodus a doniol, y rhai oeddynt yn rhagori ar yr hen flaenor yn y pethau hyn. Ond teimlodd yr hen greadur eiddigedd atynt: yr oedd yr hen ddyn yn lled gryf ynddo; a thybiai eu bod yn amcanu myned o'i flaen ef. Y mae gwendidau lawer mewn dynion da. Nid oes dim ammheuaeth nad oedd yntau yn ddyn gwirioneddol dda; ond taflodd bob peth heibio—ni chanai, rhoddai ei delyn ar yr helyg, ni weddïai yn y cyhoedd—gobeithiwn a chredwn y gweddïai yn y dirgel—ni chynghorai, ac nid oedd yn gymmhwys i gynghori yn yr ysbryd yr oedd ynddo. Yr oedd yn hollol anghysurus iddo ei hun, ac i'r holl eglwys. Daeth William Roberts, Amlwch, yno, a deallodd fod yr hen flaenor mewn tramgwydd, ac ymddiddanodd âg ef yn y cyfarfod eglwysig. Gofynodd iddo, 'Robert, beth yw dy grefft di?' 'Cooper,' oedd yr attebiad. 'Beth yw crefft dy feibion di?' 'Cooperiaeth,' oedd yr attebiad. 'Robert, a fedri di wneyd piseri mor hardd a llyfn yn awr ag a fedret ti gynt?' Attebodd yr hen flaenor, 'O na fedraf o lawer, yr wyf yn awr yn hen ac yn ddwl.' 'A ydyw dy feibion yn gystal crefftwyr a thi?' 'O ydynt, yn llawer gwell nag y bûm i erioed.' 'A wyt ti yn foddlawn iddynt ragori arnat ti?' 'O ydwyf, goreu po mwyaf medrus fyddont yn eu crefft.' 'Wel, Robert, a weli di y bechgyn ieuaingc yma sydd wedi dyfod atat ti i'r eglwys:—tydi fu yn gweddïo am eu dychweliad, tydi fu yn llafurio i gael pregethu i'r ardal, tydi fu yn llawenhau yn eu tröedigaeth at Dduw, tydi fu yn eu dysgu a'u cynghori; mewn gair, dy blant di ydynt oll yn y ffydd.' Yr oedd hyn yn ddigon. Mewn munyd daeth yr hen flaenor yn rhydd o'r fagl; torwyd y cadwynau, a daeth ei draed yn rhyddion o'r blin gaethiwed. Rhoddi tipyn o le i'r 'fi'

oedd yn yr hen gooper a ddarfu yr hen grydd. Bu ymweliad William Roberts â Llangristiolus y tro hwn o fendith fawr i'r hen flaenor, a'r eglwys. Y mae yn gwestiwn genym a allasai y Parchedig William Roberts, Amlwch, wneuthur dim gwell pe buasai ef yno nag a wnaeth William Roberts, y crydd, y tro hwn. Fel y crybwyllasom yn y bennod flaenorol, bu Howel Harris yn pregethu yn ei dŷ, a Dafydd Morris wrth dalcen ei dŷ. Y tro olaf i William Roberts bregethu yn Pant-y-coli, dechreuai Richard Dafydd yr oedfa iddo; a'r noson hono, cymmerwyd y ddau yn glaf o'r afiechyd y buont feirw.

William Lewis, Glasinfryn, oedd bregethwr hynod perthynol i'r cyfnod hwn. Bu rhïeni y gŵr hwn yn byw yn Nhy'nllwyn, yn mhlwyf Llanwenllwyfo, yn agos i Ddulas. Amaethwr oedd ei dad; cyflogai weithwyr i'r cynhauaf; ac yn eu plith, cyflogodd ŵr crefyddol o'r Deheudir. Cafodd ryddid i gadw dyledswydd deuluaidd, a bu o fawr fendith i'r teulu, ac yn enwedig i William Lewis. Bu y pregethwr hwn yn byw yn Llanrhyddlad; ac yr oedd ei amgylchiadau yn isel iawn yno. Yr oedd yn ganwr gwell na'r cyffredin, ac yn weddïwr anghyffredin. Daeth yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y cyfnod hwn yn Môn. Nid oedd ganddo ddillad pregethwr yr oes hon. Pregethai ar nosweithiau gwaith mewn dillad lled garpiog, ond byddai ganddo geitlen (*smock-frock*) drostynt. Symmudodd o Lanrhyddlad i Glasinfryn. Yr oedd yn hoff iawn o amaethu dau neu dri o gaeau bychain oedd ger llaw ei dŷ, palai y cyfan â'i raw; ac yr oedd y gwrychoedd a'r cloddiau yn drwsiadus dros ben ganddo. Ymddengys fod llawer o'r gwrol ynddo. Cyfarfu â phregethwr ag oedd wedi bod mewn tipyn o brofedigaeth, trwy gael ei wawdio gan un oedd yn meddwl ei fod yn foneddwr, ond heb fod yn foneddigaidd yn ei ymddygiadau. Gwahoddodd yr hen bregethwr i'w dŷ i giniaw. Dywedodd wrtho, 'Yr wyt ti yn bregethwr, gâd i ni dy glywed ti yn pregethu yn awr. Y testyn fydd cyllill a ffyrc.' Gwywodd yr hen bregethwr o'i flaen, ac ni allai ddywedyd dim wrtho. 'Gwynfyd na chawswn i gyfle yn dy le di,' meddai William Lewis;

'buaswn yn dangos iddo pa fodd y byddai yr offeiriaid gynt yn trin yr aberthau seremoniol, ac yn defnyddio eu cyllill a'u cigweiniau tridaint. Mi roddaswn iddo gyllill a ffyrc trwy gymmhorth.' Cyfeiriasom ato ef yn Beaumaris yn amddiffyn Dafydd Morris yn y bennod flaenorol. Dywedir ei fod ef yn gweddïo yn Nghymdeithasfa Caernarfon, a'u bod yn ei glywed yn Brynsiencyn. Pregethai unwaith yn Nghymdeithasfa Pwllheli, ac iddo gael oedfa galed iawn i'w deimlad ei hun; ac yn mhen blynyddoedd, galwodd dyn gydag ef yn Glasinfryn, a gofynodd iddo a oedd efe yn cofio ei fod yn pregethu yn Nghymdeithasfa Pwllheli; ac iddo yntau atteb, 'Ydwyf, a chofiaf hi tra y byddaf byw, o blegid dyna y bregeth galetaf a gefais yn fy oes.' 'Yn y bregeth hono yr argyhoeddwyd fi,' attebai y dyn. 'Wfft i dy bwysau di,' meddai yntau, 'ti yw y pysgodyn trymaf a fûm i erioed yn ceisio ei dynu i'r lan.' Aeth i Adwy'r Clawdd yn y flwyddyn 1774; a phan oedd yno, aeth i Fflint i ymdrochi yn y môr. Annogwyd ef gan John Williams, yr hwn a ddaeth yn flaenor enwog yn yr eglwys Fethodistaidd yn Llaneurgain, i wneyd cais ar bregethu i drigolion tywyll ac annuwiol y dref. Cydsyniodd yr hen bregethwr, a safodd ar gareg farch yn ymyl gwestty y Swan. Yr oedd o'i amgylch bump neu chwech o grefyddwyr Methodistaidd, a thyrfa fawr o rai hollol anystyriol ac aflywodraethus o'i flaen. Lluchiai rhai geryg ar dô y tŷ, modd y treiglent ar ben y pregethwr, neu benau y rhai oedd o'i amgylch. Yr oedd gan un arall badell ffrïo yn ei thincian yn orchestol; a chan y trydydd ddwy gareg yn eu curo yn eu gilydd, ac yn barod, os byddai raid, i'w lluchio. Ond nid ychydig sŵn a foddai ei lais. Daliodd i bregethu, er eu holl dincio a churo, nes gorphen y bregeth. Dyma wroldeb, onid ê? Duw wedi codi dynion cymmhwys at y gwaith oedd ganddo wedi ei dori allan iddynt. Yr oedd gwroldeb a llais yn fwy o gymmhwysder i bregethu i'r fath rai na'r ddysgeidiaeth ddyfnaf. Wedi bod yn Adwy'r Clawdd am ryw dymmor, aeth i Ddinbych, a bu yn offeryn i ddiwygio y bobl oddi wrth rhyw arferion annheilwng a barhaent hyd yn oed yn mysg crefyddwyr. Un arfer oedd anfon eu dysgleidiau bwyd i'r pobtai cyhoeddus i'w

crasu ar y Sabbath. Dywedai yn ofnadwy yn erbyn yr arferiad; a phan y gofynid iddo pa fodd y gwnaent, attebai yn ei ddull ei hun, 'Berwch ef i'w grogi!' O Ddinbych, dychwelodd yn ol i Fôn. Cafodd oedfa anghyffredin o nerthol unwaith yn yr Aberffraw. Y mae rhai yn fyw yn bresennol a fu yn gwrandaw arno ar yr achlysur hwnw. Bu farw yn Glasinfryn, Rhagfyr 30ain, 1824, ac nid 1821; a chladdwyd ef yn Llanbedr goch, ac nid yn Llanfair llwyfo, fel y dywedir yn *Methodistiaeth Cymru*.

Edward Jones, Pendref, ac wed'yn Maen eryr, oedd bregethwr perthynol i'r oes hon. Y mae y lle diweddaf yn agos i Gapel coch. Yr oedd efe yn ddyn duwiol iawn —yn rhagori fel dyn duwiol pan nad oedd yn rhagori fel pregethwr. Ni thorodd gyhoeddiad erioed; a bu farw yn yr oedran teg o 80ain mlwydd oed.

Michael Thomas, Garnan wen, Llanddaniel, oedd bregethwr buddiol iawn yn y dyddiau hyn. Nid oes genym rhyw lawer o'i hanes. Efe a fu yn offeryn i ddwyn John Thomas, Llanfwrog, tad Thomas Jones, Amlwch, i ystyried ei ddiwedd. Bu y drws yn gauedig yn Beaumaris am hir amser rhag yr efengyl yn ei ffurf Fethodistaidd. Rywbryd, disgynodd cyflwr y dref a'r gymmydogaeth yn ddwys ar feddwl Michael Thomas. Yr oedd yno ddwy wraig grefyddol iawn yn proffesu crefydd yn ei ffurf Fethodistaidd; sef, Jane Williams, nain y diweddar Barch. William Williams, Bryn du (Manchester wed'yn), ac Anne Thomas, nain y diweddar Richard Lewis, fferyllydd, Bodedern. Anfonodd Michael Thomas ei gyhoeddiad iddynt. Bu y ddwy am beth amser yn methu gwybod pa fodd y gwnaent y peth yn hysbys yn y dref; o'r diwedd, barnasant mai gadael i ryw hen wraig dra erlidgar gael gwybod a fyddai y cyhoeddiad goreu; credent y gwnai hi y peth yn ddigon cyhoeddus oddi ar elyniaeth; ac felly y gwnaeth. Yr oedd y ddwy chwaer mewn penbleth am le iddo i bregethu, a buont yn gweddïo am le; ac o'r diwedd, daeth dyn tlawd, crydd wrth ei alwedigaeth, i gynnyg lle iddynt; sef, y cynteddfa perthynol i'w dŷ, i'r hwn nid oedd ond un fynedfa fel math o borth. Addawai hefyd geisio

dynion i gadw y porth, fel na chai neb ddyfod yno i aflonyddu. Y Sabbath a ddaeth, ac wele Michael Thomas, a phump neu chwech o frodyr, yn cychwyn i Beaumaris; ac ar y ffordd, llesgaodd calon y pregethwr, a phetrusodd fyned yno; syrthiasant ar eu gliniau ar y ffordd i ofyn am gyfarwyddyd eu Tad Nefol. Wedi gweddïo, penderfynodd Michael Thomas fyned yn mlaen; ac wedi cyrhaedd y dref, daeth ef a'i gyfeillion i wybod am y ddarpariaeth, a diolchasant i Dduw, a chymmerasant gysur. Aethant i'r cyntedd, a dyna lle yr oedd y bobl yn disgwyl. Safodd y crydd at ei air. Cafodd Michael Thomas lonyddwch i bregethu, ond fod ambell i gareg yn cael ei hyrddio dros ben y tŷ. O'r Sabbath hwn hyd yn awr, y mae rhyw gyfarfod crefyddol yno gan y Methodistiaid bob Sabbath. Bu Michael Thomas farw Hydref 18fed, 1784, yn 40ain mlwydd oed. A chladdwyd ef yn ol ei ddymuniad ef ei hun yn hen fynwent Llanddaniel—yn yr un bedd a Hugh Griffith; o blegid y diweddaf a fu yn offeryn ei ddychweliad.

Yr oedd eraill yn arfer cynghori yn y cyfnod hwn; sef, Richard Lewis, Mechell; Richard Hughes, Coedana; ac Owen Hughes, Cefnddderwen. Dyma arloeswyr (*pioneers*) Môn, y rhai a fu yn ceisio dadwreiddio hen arferion llygredig ac anfoesol oeddynt wedi gwreiddio yn ddwfn yn yr ynys er's cannoedd o flynyddoedd, ac yn hau yr hâd da. Y rhai hyn oeddynt y rhag-redegwyr a fu yn parotoi y ffordd, yn codi y pantiau, ac yn darostwng y bryniau, mewn trefn i Fethodistiaeth gael myned yn mlaen. O! mor fychan ydoedd yn y cyfnod hwn; ïe, yn ei ddiwedd; sef, yn y flwyddyn 1780. Nid oedd ond fel careg fechan yn dechreu treiglo, neu hedyn mwstard yn dechreu dyfod i'r golwg!

Gan i Robert Jones, Rhoslan, fyw yn Brynsiencyn am beth amser, dylai gael lle yn *Methodistiaeth Môn*. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1745, yn Suntur, yn mhlwyf Llanystumdwy, sir Gaernarfon. Ni chafodd ond rhyw chwech wythnos o ysgol yn ei oes. Trwy ei lafur a'i ddiwydrwydd ei hun y cyrhaeddodd ei wybodaeth ëang. Byddai yn darllen pan yn bwyta. Ymunodd â'r Methodistiaid yn Mrynengan. Bu yn cadw ysgol yn Nghapel Curig,

Rhuddlan, a Brynsiencyn. Fe fu wedi hyny yn Llangybi, Brynengan, a Llanbadarn, sir Gaernarfon. Ysgrifenodd rai llyfrau, ac yn eu plith *Drych yr Amseroedd*. Fel pregethwr, yr oedd yn gall a chynnwysfawr, ei lais yn beraidd, a'i faterion yn sylweddol. Bu farw Ebrill 1af, 1829, yn 84ain mlwydd oed.

PENNOD V.

Y RHAI HYNOD YN MHLITH METHODISTIAID MON YN Y CYFNOD CYNTAF.

Wrth y rhai hynod hyn y golygir y rhai a fuont yn noddwyr i Fethodistiaeth yn yr ynys, ac a ddioddefasant erledigaeth o'r herwydd—y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder; y rhai a aethant i mewn i deyrnas Dduw 'trwy lawer o orthrymderau;' y rhai y 'dywedid pob drygair yn eu herbyn er mwyn enw Crist;' y rhai a gymmerasant eu hysbeilio o'r pethau oedd ganddynt yn llawen, gan ystyried 'yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau yr Aipht.'

Cafodd Methodistiaid cyntaf Môn driniaethau cyffelyb i'r rhai a gafodd y Cristionogion cyntefig. Ni ddygir y pregethwyr i mewn i'r llechres hon, o blegid ceir hwy yn y bennod flaenorol. Nis gallwn alw y rhai hyn oll yn flaenoriaid, neu yn henuriaid dewisedig gan yr eglwysi, nac awdurdodedig gan unrhyw henaduriaeth, fel y mae swyddogion yr eglwysi yn y tri chyfnod diweddaf; o blegid nid oedd am ran fawr o'r cyfnod hwn henaduriaeth o fewn y sir. Dygir hefyd rai hynod yn mysg y chwiorydd i mewn i'r llechres hon, am y rhai y gellir dywedyd, fel y dywed Luc am Mair Magdalen, Joanna, gwraig Chusa, goruchwyliwr Herod, a Susanna, a llawer eraill, 'y rhai oedd yn gweini iddo o'r pethau oedd ganddynt.' Felly y dywedwn ninnau am y chwiorydd duwiolfrydig hyn, y rhai oedd yn dda ganddynt weini i Fethodistiaeth o'r pethau oedd ganddynt, a dioddef yn eu hamgylch-

iadau o herwydd eu caredigrwydd i'r efengyl yn ei ffurf Fethodistaidd.

Howel, Harri, a Thomas Thomas, Tŷ gwyn, a haeddai gael y flaenoriaeth o ran amser. Y rhai hyn oedd blaenffrwyth Methodistiaid Môn. Nid oeddynt yn Fethodistiaid am flynyddoedd wedi iddynt ddechreu pryderu ynghylch eu cyflwr ysbrydol; ond pan gychwynodd Methodistiaeth yn yr ynys, yr oeddynt yn barod i ymuno, ac i wneyd eu goreu i hyrwyddo ei llwyddiant. Nid ydym yn gwybod pa un a ddewiswyd y tri yn swyddogion eglwysig rheolaidd yn y gwahanol gymmydogaethau wedi iddynt adael Tŷ gwyn, ai naddo; gwyddom iddynt fod yn noddwyr i Fethodistiaeth, ac iddynt gofrestru eu tai i bregethu yr efengyl ynddynt. Y mae genym sicrwydd hefyd iddynt fod yn offerynau i aflonyddu ar eraill ynghylch mater eu heneidiau. Buasai yn dda iawn pe buasai genym fwy o hanes y gwŷr da hyn i'w roddi. Crybwyllasom yn flaenorol i Howel Thomas fyned gydag Howel Harris trwy ranau o'r sir, yr hyn sydd yn profi ei ymgyssegriad i grefydd.

William Thomas Owen, Fagwyr, yn agos i Gefniwrch, (Tŷ mawr, Llantrisant, wed'yn), a ennillwyd yn Fethodist trwy offerynoliaeth un o feibion Tŷ gwyn. Derbyniodd bregethu i'w dŷ, bu ffyddlawn i lettya pregethwyr, a dioddefodd yn ei amgylchiadau o'r herwydd. Bu raid iddo ymadael o'r Fagwyr, o herwydd ei Fethodistiaeth, i Dŷ mawr, Llantrisant. Derbyniodd bregethu i'r Tŷ mawr ar y dechreu; ond safodd y meistr tir yn erbyn, a chafodd Methodistiaeth gartref clud yn Chwaen hen, yn nhŷ Evan Griffith, yr hen bregethwr, ac esgob y cyfnod hwn.

Thomas Phabby, Tŷ du (rhwng Amlwch a Chemmaes), a agorodd ei dŷ gyntaf yn mhlwyf Amlwch i dderbyn yr efengyl yn ei ffurf Fethodistaidd. Nid rhyw wreichionen o gariad at Fethodistiaeth a fuasai yn ddigonol i beri i ddynion agor eu tai i dderbyn pregethu a phregethwyr yn y cyfnod hwn; na, yr oedd yn rhaid cael fflam lled angerddol o gariad at yr efengyl yn ei ffurf newydd i'w galluogi i wneyd hyn. Yr oedd Thomas Phabby yn lled annibynol ei amgylchiadau. Ceir mai efe a brynodd y

tir ar ba un yr adeiladwyd capel Amlwch, ac iddo ei roddi ef i'r cyfundeb ar *lease* o 999, am chwe cheiniog yn y flwyddyn; ac y mae wedi dyfod yn eiddo rhydd-ddaliadol i'r Cyfundeb er's blynyddoedd lawer. Yr oedd yr Arglwydd yn achub ambell un yn yr adeg hon ag oedd yn meddu tipyn o bethau y byd hwn, mewn trefn iddynt fod yn noddwyr i Fethodistiaeth, ac yn eu plith yr oedd y gŵr da hwn.

Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid, Niwbwrch, oedd noddwr ac ymgeleddwr i Fethodistiaeth yn Niwbwrch. Dywed *Methodistiaeth Cymru* ei fod yn un o'r swyddogion ffyddlonaf yn ei ddydd. Dywedir iddo deimlo argraphiadau crefyddol ar ei feddwl yn ŵr ieuangc 20ain mlwydd oed, trwy wrandaw ar y Parch. Mr. Williams, îs-beriglor Llanidan, yn y flwyddyn 1769. Ofnai ei rieni iddo ddyfod yn wallgof, a dygasant ef at y meddyg goreu y gwyddent am dano; ond ni allodd wneuthur unrhyw les iddo. Daeth i gyfarfyddiad â'r hen bregethwr Richard Jones, Niwbwrch, yr hwn a ddeallodd afiechyd y gŵr ieuangc, a dywedodd wrtho, 'O! Twm bach! mi welaf beth sydd yn eisieu arnat; rhaid cadw seiat breifat ar dy achos di. Y mae gŵr dyeithr yn dyfod i Niwbwrch yn bur fuan, ac fe fydd ef yn cadw seiat breifat pan y daw; ti gei wybod yr amser.' Ni wyddai y gŵr ieuangc beth oedd seiat breifat. Cafodd wybod yr amser, a daeth yntau iddi, a chafodd feddyginiaeth. Y mae yn dda genym ddeall fod un periglor yn yr ynys yn y cyfnod hwn yn gallu pregethu i beri i un bryderu ynghylch mater ei enaid. Ai tybed na cheisiodd Richard Jones arwain y gŵr ieuangc at y Meddyg a ddichon yn gwbl iachau?

John Davies (Sion Dafydd), Tan'rallt, a dderbyniodd bregethu i'w dŷ. Yn Tan'rallt y pregethid gyntaf yn Niwbwrch. Anfonodd parson y plwyf i hysbysu meddiannydd y tyddyn fod John Davies yn derbyn Methodistiaeth i'w dŷ, ac achosodd gryn drafferth i'r boneddwr i ddyfod i Niwbwrch i ymweled â'i denant; ond siomwyd y gŵr drwg y tro hwn. Cafodd John Davies ganiatâd i dderbyn pregethu i'w dŷ. 'A gweddill cynddaredd a waherddi.'

Owen Jones, ger llaw Niwbwrch, a William Lewis,

Ty'ncoed, oeddynt Gristionogion cywir. Derbyniodd y cyntaf bregethu i'w dŷ. Tan'rallt oedd y lle cyntaf y pregethid, yr ail oedd Plas Niwbwrch, a'r trydydd oedd tŷ Owen Jones. Yr oedd William Lewis yn ŵr pwysig yn y cyfnod hwn. Ceir ei enw ef yn mhlith ymddiriedolwyr capel Amlwch. Buasai yn dda genym pe y gallasem ysgrifenu rhagor am y gwŷr hyn, ond nis gallwn.

Owen Williams, y Tai cochion, Brynsiencyn, oedd ŵr a ddioddefodd lawer yn ei amgylchiadau o herwydd ei Fethodistiaeth. Cyfrifwyd ef yn deilwng i ddioddef er mwyn enw Crist. Gosododd Crist anrhydedd mawr ar y gŵr hwn a'i wraig; sef, cael bod yn gyfranogion o'i ddioddefiadau ef; ac nid oes dim ammheuaeth na chydogoneddwyd hwy â Christ, gan iddynt gyd-ddioddef gydag ef. Gwêl Brynsiencyn yn y drydedd bennod.

Rowland Owen, Glantraeth, ger llaw Morfa Trefdraeth, a agorodd ei galon a'i dŷ i dderbyn yr efengyl yn ei ffurf Fethodistaidd. Bu pregethu yn ei dŷ ef am o ddeutu pedair ar ddeg o flynyddoedd. Dyma y gŵr oedd yn pregethu gyda William Evans, Aberffraw, yn Nghemmaes bach, pan y cafodd y Parch. R. Lloyd flâs ar wrandaw pregethu yr efengyl, ac y tybiodd nad oedd y fath lefarwyr ar y ddaear a'r ddau. Blaenor oedd Rowland Owen; ond byddai rhai o'r blaenoriaid yn cynghori yn y cyfnod hwn. Yr oedd Jane Rowland, ei wraig, yn enwog yn ei chariad at Fethodistiaeth fel ei gŵr. 'Yr oeddynt eill dau yn gyfiawn.'

Robert Parry a John Thomas Pierce a fuont yn gofalu yn gyntaf am yr achos yn yr Aberffraw. Byddent yn myned o bymtheg i ugain milldir o ffordd i geisio cyhoeddiadau pregethwyr; o blegid nid oedd cyfarfodydd misol rheolaidd y pryd hwnw, fel sydd yn bresennol.

Richard Jones, Caergybi, a fu o fendith fawr i'r dref y bu yn byw ynddi. Neillduodd dŷ gwâg yn y dref i bregethu yr efengyl ynddo. Bu yn arolygu yr achos yno am 21ain o flynyddoedd, a chafodd y pregethwyr letty ganddo. Dywedir i Syr Nicholas Barley gynnyg iddo swydd o dan y llywodraeth, ond iddo beidio a bod yn Bengrwn, a glynu wrth yr Eglwys Sefydledig; a dywed-

odd yntau fod ei grefydd yn addaw llawer mwy na hyny —fod ganddo bob cysur eisoes yn y byd hwn, a gobaith bywyd tragwyddol yn y byd a ddaw. Gofalodd Rhaglunaeth ddwyfol am dano. Dywedir fod Jones, Llangan, yn Nghaergybi yn gweinyddu Swper yr Arglwydd; a phan yr oedd Jones yn dywedyd, 'Mewn diolchus gôf am fy Iesu mawr,' cipiodd Richard Jones y meddwl, gan chwanegu—

'Fu ar y groes rhwng nef a llawr;'
'Gwrthddrych ni wêl fy enaid gwan
Ond Iesu i bwyso arno'n rhan.'

Ar hyn, torodd allan yn orfoledd, a pharhaodd hyd hanner nos.

Pierce Pritchard a fu yn flaenor ffyddlawn yn Nghaergeiliog yn y cyfnod hwn. Bu farw yn y fl. 1767.

Robert Pierce, mab Pierce Pritchard, a ddewiswyd yn flaenor yn Nghaergeiliog yn 1775.

Thomas Cadwaladr, Trelywarch, a agorodd ei dŷ i dderbyn pregethu iddo yn y cyfnod hwn.

Robert Dafydd, yr Hen siop, ger Capel Coch, a fu yn ŵr enwog, ac yn noddwr i Fethodistiaeth yn ei gymmydogaeth, a chyfaill calon i Howel Harris, fel y crybwyllasom yn y drydedd bennod.

John Rowland (Sion Rowland), Llanfair bach (wed'yn Ceryg llithir, ac ar ol hyny yr Hafod), oedd un o ragorolion Môn yn y cyfnod hwn. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1720. Ennillwyd ef at grefydd o ddeutu 1749, o dan weinidogaeth Lewis Rees, Llanbrynmair, yr hwn a ddaeth, trwy William Pritchard, Pen mynydd, i Fôn i bregethu. Ymddengys fod yr hen bererin wedi adrodd hanes ei dröedigaeth i Dr. Arthur Jones, Bangor, a D. Beynon, Nant garw, pan yr oeddynt ar ymweliad â'r Hafod. Yn ol adroddiad D. Beynon, dywedai fel y canlyn:—'Cymmerodd hyn le o dan bregeth Lewis Rees, y waith gyntaf yr ymwelodd â Môn, yn ymyl Minffordd, plwyf Penmynydd. Yr oedd haid o honom wedi myned yno, ac ni bu Saul o Tarsus erioed mewn teimladau mwy erlidgar. Arfogem ein hunain â phastynau â phenau haiarn arnynt, a holl geryg y ffordd ydoedd at ein gwasanaeth. Yr oeddym yn unfryd, os pregethai, y gwnaem ben arno

rhag blaen. Daeth yno, a dechreuasom ninnau wasgu arno; esgynodd i ben careg fawr yn ymyl yr hen dŷ, Mîn-y-ffordd, trodd ei wyneb tuag Arfon, a rhoes y pennill hwn i'r nifer bychan oedd gydag ef i'w ganu—

'Disgwyliaf o'r mynyddoedd draw,
Lle daw i'm help 'wyllysgar,' &c.

Daeth ofn arnom, ciliasom yn ol, gan dybied ei fod yn disgwyl gwŷr arfog o fynyddoedd Arfon. Wedi ymgynghori drachefn, penderfynodd rhai o honom gael clywed beth oedd ganddo i'w ddyweyd; aethom dros y clawdd, yr ochr isaf i'r ffordd, a cherddasom yn ddistaw hyd yn gyferbyniol âg ef. Nis gwelai ef ni, ac nid oeddym ninnau am ei weled yntau; ond clywsom bob gair. O dan y bregeth hon, daethum i adnabod fy hun fel pechadur colledig. Diolch byth am fy nghipio fel pentewyn o'r tân. O hyny hyd yn awr, bûm fy hun yn wrthddrych eu gwawd, o dan eu pastynau, eu traed, a'u cynddaredd erlidgar; ond megys anrhydedd yw yr oll o herwydd croes Crist. Ac yn awr, yr wyf am barhau hyd y diwedd â'm pwysau ar freichiau dwyfol gariad.' Y mae yr adroddiad hwn yn gwahaniaethu ychydig oddi wrth yr un a geir yn *Methodistiaeth Cymru*. Yn ol hwn, yn y flwyddyn 1749 y daeth Lewis Rees i Fôn y waith gyntaf; ond yn ol hwnw, yn y flwyddyn 1743 y daeth. Yn ol hwn, allan yn ymyl Minffordd y pregethai; ond yn ol hwnw, mewn hen felin yn agos i Blas Pen-y-mynydd y pregethai. Y mae y ddau yn cyttuno yn y pethau mwyaf pwysig. Dechreuodd John Rowland ei fywoliaeth yn Llanfair bach, ger Niwbwrch. Bwriwyd ef oddi yno am noddi pregethwyr a phregethu. Symmudodd i Geryg llithir, yn Mhenrhoslleugwy. Cafodd Methodistiaeth loches glud yno am flynyddoedd. Bu Rowlands, Peter Williams, Jones, Llangan, ac eraill, yno. Yn y blynyddoedd hyny, yr oedd ganddo *lease* ar ei dyddyn; ond pan y daeth y *lease* i ben, tröwyd ef allan oddi yno, am yr un peth ag y tröwyd ef allan o Lanfair bach, ger Niwbwrch; sef, am dderbyn pregethwyr a phregethu i'w dŷ. O Geryg llithir, aeth i'r Hafod, yn mhlwyf Llangwyllog, lle y cafodd ryddid a heddwch i ddilyn ei Ymneillduaeth. Nid oedd gan y Methodistiaid gapel yn Llangwyllog ar y

pryd; o ganlyniad, byddai yn myned i Rosmeirch, capel yr Annibynwyr. Bu yn proffesu Crist am 67ain o flynyddoedd. Bu farw Mawrth 29ain, 1815, yn 95ain mlwydd oed.

Morris Edward, Gareg gam, a'i fam, a agorasant eu drws i dderbyn pregethu yr efengyl yn ei ffurf Fethodistaidd mor foreu a'r flwyddyn 1748; a chadwodd Morris Edward ef yn agored wedi marwolaeth ei fam—yn ol un hanes, hyd oni adeiladwyd capel. Os yw yr hanes hwn yn gywir, bu pregethu yma am o ddeutu 25ain o flynyddoedd. Dywedir i'r fam a'r mab gael blâs ar yr efengyl yn ei ffurf Fethodistaidd wrth wrandaw ar Howel Harris yn pregethu, iddynt ei wahodd i Gareg gam i bregethu, ac iddo yntau gydsynio â'u cais. Yn y bregeth hon o eiddo Harris yn Nghareg gam, dywedir, y dychwelwyd Evan Thomas, Maes, yn mhlwyf Llanfair-yn-nghornwy, meddyg esgyrn enwog; Richard Thomas, Tŷ wian; Thomas Phillips, Pen'rorsedd; a Richard Parry, Llanfflewyn. Ceir Evan Thomas, Richard Thomas, a Thomas Phillips, yn olygwyr eglwys Llanrhyddlad yn yr ail gyfnod. Y mae yn debyg fod Morris Edward wedi marw cyn y flwyddyn yr ysgrifenwyd enwau y gwŷr hyn yn llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol, neu buasai ei enw yntau i lawr yn eu plith.

Morris, Tyddyn bach, Llanbabo, a arferai dderbyn pregethu i'w dŷ weithiau, a chynghori ychydig.

Morsley, Careg lefn, a agorodd ei dŷ i dderbyn yr efengyl yn y pregethiad o honi.

Thomas Williams, o'r Pentre-bwäau, yn mhlwyf Llandrygarn, mab i William Thomas Owen, o'r Fagwyr (ac wed'yn o'r Tŷ mawr, Llantrisant), oedd yn ŵr hynod. Yr oedd o dymmher addfwyn ac ennillgar, a bu pregethu yn ei dŷ am flynyddoedd yn Mhentre-bwäau, ac wed'yn yn Nhy'n-y-merddyn, yn Nghaergeiliog.

William Thomas, Glan-y-gors, a dderbyniodd bregethu i'w dŷ yn achlysurol; ac o blegid hyny, bu raid iddo ymadael, er ei ddirfawr golled, gan ei fod wedi adeiladu tŷ, a thai i'r anifeiliaid, ar ei draul ei hun. 'Gwyn eich byd pan y'ch erlidir o achos cyfiawnder.'

Yr oedd hefyd chwiorydd Methodistaidd hynod yn y

cyfnod hwn. Merch Tŷ gwyn, gwraig y Fagwyr; Catherine Morris, Gareg gam; Elin a Jane, merched John Davies (Sion Dafydd), a modryboedd y Parch. David Jones, Dwyran, ac un o honynt yn wraig i Richard Jones, y pregethwr, Niwbwrch, oeddynt fammaethod i Fethodistiaeth. Ymddengys i Gymmanfa gael ei chadw tua diwedd y cyfnod hwn yn Niwbwrch, a bod Jones, Llangan, yn pregethu yno. Yr oedd yn y gymmydogaeth hen fenyw dlawd, ond hynod o dduwiol, o'r enw Annas. Yn niwedd y Gymmanfa, aeth at Jones i ofyn am addewid i ddyfod i Fôn drachefn; ac addawodd yntau yn lled ddifeddwl, neu mewn anwybodaeth o'r fath un oedd Annas, y deuai pan y galwai hi yn Llangan i ofyn ei gyhoeddiad. Yn gynt nag y meddyliodd Jones, daeth Annas, yn ei chlogs, 150 o filldiroedd, i Langan, heb geiniog yn ei llogell—dim ond cardota ar hyd y ffordd. Er ei fawr syndod, pwy a welai efe rhyw ddiwrnod wrth ei dŷ, gyda ffon yn un llaw, a chŵd yn y llaw arall, ond Annas. Gofynodd iddi, 'Och fi, Annas! a ddaethost ti yn awr?' Llwyddodd i gael ei gyhoeddiad ef, ac eraill. Onid oedd Annas yn un hynod? Pa beth a feddyliech chwi, chwioryddion yn Môn, o sêl Annas?

Anne Williams, y Tai cochion, ger Brynsiencyn, oedd 'fam yn Israel, yn un hynod yn mysg ei rhyw,' medd *Methodistiaeth Cymru.*

Elin Williams (neu Elinor Dryhurst), gwraig Thomas Williams, Pentre-bwäau, yn mhlwyf Llandrygarn (ac wedi hyny yn Nhyddyn merddyn, Caergeiliog), oedd un o'r rhai hynotaf yn mhlith y chwiorydd yn y cyfnod hwn. Dywedir mai trwy weinidogaeth Howel Harris yr ennillwyd hi at y Gwaredwr. Bu yn aros am beth amser yn Nhrefecca, ac aeth Thomas Williams yno i'w chyrchu gartref. Jane Williams ac Anne Thomas, Beaumaris, am y rhai y crybwyllasom yn y drydedd bennod, oeddynt dduwiol a gweithgar. Gwraig Robert Dafydd, yr Hen siop, ger Tŷ mawr, oedd yn un hynod mewn duwioldeb.

PENNOD VI.

METHODISTIAETH YN GWREIDDIO YN MON.—YR AIL GYFNOD.

Edrycha *Methodistiaeth Cymru* ar y cyfnod cyntaf, yr hwn a fu o dan sylw yn y pennodau blaenorol, fel blynyddoedd mebyd Methodistiaeth yn yr ynys; ac fel rhyw wawr boreu gwanaidd a hyfryd; ond dylem ogoneddu Duw ynddo, er mor fychan a gwanaidd ydoedd. Ni chafwyd dyn, ond unwaith, heb fod yn faban ar y cyntaf; ac ni cheir dydd goleu heb y wawrddydd wanaidd yn gyntaf. Y baban bychan a anwyd yn y cyfnod blaenorol sydd yn tyfu yn y cyfnod dilynol; a'r wawrddydd wanaidd a dorodd yn y cyfnod cyntaf sydd yn cryfhau yn yr ail gyfnod. Yr hedyn mwstard a hauwyd yn nghyfnod Evan Griffith, Chwaen hen, sydd yn gwreiddio ac yn tyfu yn nghyfnod John Jones, Bodynolwyn. Nid oedd cyfwng rhwng y ddau gyfnod; ond yr oedd y naill yn rhedeg i'r llall. Bu y rhan liosocaf o bregethwyr y cyfnod cyntaf yn cydweithio â phregethwyr yr ail gyfnod am rai blynyddoedd. Bu William Lewis, Glasinfryn, byw trwy yr ail gyfnod i'r trydydd. Bu Owen Thomas Rowlands yn cydlafurio â hwynt am tuag ugain mlynedd. Bu Richard Jones, Niwbwrch, byw, ac yn cydweithio â phregethwyr yr ail gyfnod am o ddeutu wyth mlynedd; a Richard Dafydd, Pant-y-coli; a William Roberts, Amlwch, yr un modd, am ychydig flynyddoedd.

Ymddengys fod Methodistiaeth Môn, yn y cyfnod sydd genym yn awr o dan sylw, wedi ymffurfio yn fwy cyfundebol:—fod cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd. Yn y cyfnod blaenorol, hyd yn oed ychydig cyn ei ddiwedd, nid oedd llawer o ddefnyddiau i ffurfio Henaduriaeth, nac unrhyw waith neillduol yn galw am dano—dim swyddogion newyddion i gael eu derbyn, na chapelau newyddion i gael eu hadeiladu, fel sydd yn y cyfnod hwn, a'r rhai dilynol. Yn y cyfnod cyntaf nid oedd Methodistiaeth wedi dadblygu i unrhyw ffurf eglwysig neillduol. Achub y bobl oddi wrth eu pechodau

oedd yr amcan mawr, ac nid ffurfio unrhyw enwad newydd o Gristionogion yn Nghymru. Byddai yn dda i holl Gristionogion Cymru, yn y dyddiau hyn, geisio dilyn eu hesampl. Rhyw bedwar neu bump o gapelau, os oeddynt deilwng o'r enw capelau, a godwyd yn nghorph y cyfnod cyntaf.

Ystyrir fod yr ail gyfnod yn dechreu gyda dyfodiad John Jones, Bodynolwyn wen, i'r sir, yn y flwyddyn 1780. Deheuwr oedd John Jones, genedigol o sir Aberteifi, ac yno y dechreuodd bregethu. Ar ddymuniad rhyw foneddiges daeth i sir Gaernarfon i gadw ysgol, ac i bregethu; ac yn ol *Methodistiaeth Cymru*, priododd wraig o'r sir hono; ond yn ol *Enwogion Môn*, gan Gwalchmai, trwy ymbriodi y sefydlodd yn Môn. Y mae yr olaf yn awgrymu mai un o Fôn a briododd efe. Dywed *Methodistiaeth Cymru* iddo ddyfod i Fôn yn y flwyddyn 1780, pan yn 33ain mlwydd oed, ar ddymuniad rhyw gyfeillion. Pa fodd bynag, daeth yma trwy offerynoliaeth rhywun neu gilydd, a dylai Methodistiaid Môn ogoneddu Duw ynddo ef; o blegid bu o fendith fawr i'r cyfundeb tra yn ei wendid. Cymmerodd fferm a elwid Henllys fawr, yn agos i'r Aberffraw, mewn cyssylltiad âg un o'r enw Evan Thomas, gŵr oedd yn gyfaill calon iddo, a'r hwn a drowyd allan o'i dyddyn yn Lleyn o herwydd ei grefydd. Wedi bod yn Henllys fawr am tua dwy flynedd, symmudodd J. Jones i Bodynolwyn wen, heb fod yn mhell oddi wrth y capel presennol a elwir Elim. Ymgyssegrodd y gŵr hwn i wasanaethu Duw yn efengyl ei Fab yn Môn am lawer o flynyddoedd. Yr oedd yn gryfach dyn, o ran synwyr cyffredin, na'r holl bregethwyr eraill oedd yn Môn, pan y daeth yma. Edrychid arno fel esgob, neu brif ddyn y Methodistiaid yn Môn. Arferai fyned i'w gyhoeddiadau mewn cerbyd, ac edrychid arno fel gŵr boneddig mewn cymmhariaeth i'r rhan liosocaf o'i frodyr pregethwrol. Yn y cyfnod hwn, cyfododd amryw bregethwyr eraill, megys Owen Owens, Amlwch; John Jones, Amlwch (Edeyrn wedi hyny); John Edwards, Tre'rdryw; Thomas Jones, Llanddaniel; Manuel Evans, Amlwch (Bethel wedi hyny); William Evans, Aberffraw; Richard Morris, Llanfair P. G.; a John Parry, Brynsiencyn. Daw

y gwŷr hyn o dan sylw etto. Yn y flwyddyn 1787, nid oedd ond ugain eglwys yn yr holl sir gan y Methodistiaid; sef, Amlwch, Pen-y-sarn, Tŷ mawr, Waeneura, Llangoed, Llanfair P. G., Llanddaniel, Brynsiencyn, Niwbwrch, Llangristiolus, Aberffraw, Gwalchmai, Pentre bwäau, Caergeiliog, Caergybi, Llanrhyddlad, Pant-y-coli, Llanerchymedd, Cemmaes, a Beaumaris.

Yn awr, ni a roddwn dro o gwmpas y gwahanol eglwysi i gael gweled y modd y mae y planhigyn Methodistaidd a blanwyd yn y cyfnod blaenorol yn gwreiddio yn y gwahanol gymmydogaethau.

Llanrhyddlad.—Gan fod Methodistiaeth yn y lle hwn mor foreu a'r flwyddyn 1748, cychwynwn yno. Gadawsom yr achos yn Gareg gam, o dan ofal Morris Edward. Y mae dau hanes, ychydig yn wahanol, o berthynas i symmudiad yr achos o Gareg gam. Un ydyw, fod Careg gam wedi myned yn rhy fychan i'r gynnulleidfa flynyddoedd cyn diwedd y cyfnod cyntaf; ac o ganlyniad, adeiladwyd capel ar lain o dir a roddodd William Pritchard, Clwchdernog, o dan ammod-rwym fod y capel yn perthyn i'r Annibynwyr, Bedyddwyr, a'r Methodistiaid; a bod enwau y tri wŷr ar y trawst; sef, William Pritchard, dros yr Annibynwyr; William Roberts, Bodhedd, dros y Bedyddwyr; a Morris Edward, Careg gam, dros y Methodistiaid. Yr hanes arall ydyw, fod y pregethu wedi ei symmud o Gareg gam i dŷ oedd ar y tyddyn, ar yr hwn y mae y capel presennol wedi ei adeiladu. Cafwyd y tir gan Mr. Lloyd, Bwlch-y-fen. Pan oedd y capel yn cael ei adeiladu, dywedir i gyfarfod gael ei gynnal gan fawrion y cymmydogaethau cylchynol yn y Gareg lwyd, dan rith gwledd, i ymgynghori pa beth a wneid i'r capel oedd yn cael ei adeiladu gan y Penau Cryniaid; a'r penderfyniad y daethant iddo oedd, ei dynu i lawr; a bod hen beriglor Llanrhyddlad wedi cyfodi i fyny, a dyweyd, 'Wŷr boneddigion, edrychwch pa beth a wnewch yn yr achos hwn:—os o ddynion y mae, fe ddaw i ddim; ond os o Dduw, fe fydd eich gwaith yn ofer, ac fe'ch ceir chwithau yn ymladd yn erbyn Duw.' Ni roddasant eu penderfyniad mewn gweithrediad. Capel bychan, gwael iawn, ydoedd, wedi ei adeiladu tua'r flwyddyn 1787, o glai a phridd;

a galwyd ef, o herwydd hyn, yn 'Gapel Mwd.' Aeth yn fuan yn rhy fychan, ac adeiladwyd un arall yn ei le yn y fl. 1799, a galwyd ef y 'Capel Mawr.' Yn y flwyddyn o dan sylw y daeth John Elias yn aelod o'r eglwys hon. Rywbryd tua'r amser hwn, dechreuodd brawd y bonedd-wr a roddodd y safle ymgyfreithio âg ef yn achos y tir. Ennillodd y gyfraith, torodd y brydles, a chododd 5*p*. yn y flwyddyn o ardreth am y capel; ond yn mhen amser, gostyngodd yr ardreth i ddeg swllt yn y flwyddyn. Gol-ygwyr, neu flaenoriaid, yr eglwys hon yn y cyfnod hwn oeddynt Thomas Phillips, Pen-yr-orsedd; Evan Thomas, Maes-y-brethyn-brych; a Richard Thomas, Tŷ wian.

Cemmaes.—Yr oedd achos yn y Tŷ du, rhwng Cemmaes ac Amlwch, yn y cyfnod blaenorol, ond nid oedd yr un yn mhentref Cemmaes. Mewn rhyw ystordy ŷd y preg-ethid gyntaf yma; ac wedi hyny, mewn llofft tŷ annedd. Yn y flwyddyn 1786, adeiladwyd capel bychan yn nghanol y pentref. Mewn canlyniad, chwanegodd y gyn-nulleidfa, ac ymunodd amryw â'r eglwys. Yr oedd capel bychan hefyd mewn lle a elwir Penrhyn—math o dŷ ydoedd, fel yr oedd y capelau yn yr oes hon. Gelwir y tŷ heddyw yr Hen Gapel. Ymddengys mai gwŷr o'r enwau Evan Griffith a Robert Edward oedd y blaenoriaid. Yn y flwyddyn 1780, ceid yr eglwys hon gyntaf yn llyfr y cofnodion yn mysg eglwysi y sir.

Careg Lefn.—Mewn tŷ annedd o'r enw Careg lefn y dechreuodd yr achos yn yr ardal hon. Oddi yno sym-mudodd i Pant-y-coli, ac oddi yno yn ol i Gareg lefn; ac yma y bu hyd y flwyddyn 1806, pan adeiladwyd capel Bethlehem. Bu pregethu yn y gymmydogaeth hon am tua thrigain mlynedd cyn adeiladu capel yma. Dy-wedir mai Henry Jones, Bodewryd, a brynodd y tir i adeiladu arno. Yn Nghyfarfod Misol Llanerchymedd, Mai 4ydd, 1807, addawyd 150*p*. i Gareg lefn. Yn y cyf-nod hwn dewiswyd Owen Lewis, Fferam isaf; William Owen Dafydd, Yr Hald; William Cadwaladr, Llwyn-yr-arth—tad y Parch. Cadwaladr Williams; a Rowland Jones, y Caban, yn flaenoriaid. Yr oedd John Owen, mab Owen Lewis, yn aelod eglwysig yma yn y cyfnod hwn. Daeth yn broffeswr tua'r flwyddyn 1793, pan oedd

yn fachgen 16eg oed, a phan yr addolid yn Mhant-y-coli. Yr oedd y gŵr ieuangc hwn yn selog gydag adeiladaeth y capel cyntaf. Caniatäai ei dad iddo gadw rhyw nifer o ddefaid ar y fferm, a gwerthodd yr oll o honynt, a rhoddodd eu gwerth tuag at adeiladu y capel. Daw y gwŷr hyn o dan sylw etto.

Amlwch.—Gadawsom yr eglwys hon yn y cyfnod blaenorol gydag adeiladaeth y capel, yn y flwyddyn 1777, a William Roberts, y crydd, yn bregethwr. Yn y cyfnod hwn, daeth Evan Thomas yma—yr hwn a ddaeth o Leyn gyda John Jones i Henllys fawr, Aberffraw—yn y flwyddyn 1780. Ymadawsant o'r Aberffraw yn mhen rhyw ddwy flynedd. Aeth J. Jones i Fodynolwyn wen, ac Evan Thomas i Lanerchymedd, ac oddi yno i Amlwch. Gôf ydoedd wrth ei alwedigaeth, yn byw yn Llaethty bach. Dywedir ei fod yn deall Groeg ac Hebraeg. Bu yn flaenor ffyddlawn yma am flynyddoedd. Taflwyd ef oddi ar ei geffyl, a bu farw yn sydyn yn mhen ychydig ddyddiau. Dychrynodd ei wraig gymmaint fel y bu hithau farw, a chladdwyd y ddau yr un diwrnod. Y mae rhai o'u hiliogaeth yma yn bresennol. Yn y fl. 1784, dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw John Jones, yr hwn a adwaenir yn y cyfnod dilynol fel y Parch. John Jones, Edeyrn, bregethu yma. Gelwid ef yn Amlwch '*Jack y barber*,' o blegid *barber* ydoedd wrth ei alwedigaeth. Ni arosodd yn Môn, wedi iddo ddechreu pregethu, ond am ddwy neu dair blynedd. Pan oedd yn 25ain mlwydd oed, priododd Miss Mary Williams, etifeddes Pen-y-bryn, Edeyrn, ac aeth yno i fyw. Dywed Gwalchmai, yn *Enwogion Môn*, ei fod yn 35ain mlwydd oed yn priodi; rhaid mai camgymmeriad ydyw hyn. Bu pregethwr arall yma yn y cyfnod hwn, o'r enw Owen Owens—clerc perthynol i'r gwaith mŵn ydoedd wrth ei alwedigaeth. Mab iddo ef oedd y diweddar Barch. William Owen, gweinidog galluog gyda'r Cyfundeb Wesleyaidd. Ni bu Owen Owens yn pregethu hyd ddiwedd ei oes. Felly hefyd gŵr o'r enw Richard Thomas, yr hwn a fu yma yn y cyfnod hwn; ni pharhaodd hyd y diwedd. Bu Thomas Jones, Llanddaniel, yma. Yn Amlwch y dechreuodd yntau bregethu. *Bricklayer* ydoedd wrth ei

alwedigaeth; a gorphenodd ei yrfa gyda'r brodyr yr Annibynwyr. Dywed *Enwogion Môn* fod coffadwriaeth barchus am dano. Yn Amlwch y dechreuodd Manuel Evans bregethu; ond symmudodd oddi yma i Dy'nllwyn, ger Bethel. Y blaenoriaid yma yn y cyfnod hwn oeddynt Evan Thomas, gôf; Morris Williams; Hugh Jones; Robert Jones, saer; a Thomas Williams.

Capel Coch, neu Ty Mawr.—Gadawsom yr achos, yn y cyfnod cyntaf, yn mhlwyf Llanfihangel Tre'rbeirdd, o dan ofal Robert Dafydd, yr Hen Siop (Cae-maes-gafr wedi hyny), a John Rowland, Ceryg llithir. Yn y flwyddyn 1785, adeiladwyd Capel Coch. Gelwid ef wrth yr enw hwn am mai o geryg cochion yr adeiladwyd ef. Yn y flwyddyn 1812, adeiladwyd un arall. Cafwyd tir gan Lewis Jones, Tŷ mawr, yr hwn hefyd a roddodd ddeial yn nghyntedd y capel. Yn llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol, ceir cyfeiriad at y *lease,* dyddiedig Mai 12fed, 1785. Bu dau flaenor rhagorol yn yr eglwys hon yn y cyfnod hwn; sef, John Roberts, Erwddraenog, a Rice Hughes, Bodafon. Yr oedd yma flaenoriaid eraill; sef, John Rowland, Ceryg llithir; Hugh Jones, Tyddyn melus; William Humphreys, Owen Jones, a William Ellis. Bu Edward Jones (Pendre) yn byw yma mewn amaethdy o'r enw Maeneryr dros ryw gyfran o'i oes.

Llanerchymedd.—Gadawsom y lle hwn, yn niwedd y cyfnod cyntaf, heb achos sefydlog yma. Ymddengys oddi wrth dystiolaeth yr hynafgwr Griffith Jones, Cefnddwy-ffrwd, mai tua'r flwyddyn 1783 y sefydlwyd eglwys yma; canys dywedai ei fod yn cofio fod cyfarfod eglwysig yn Nghae-maes-gafr, a bod rhai o'r frawdoliaeth a ymgynnullent yno yn canu yn iach i'r eglwys, gan eu bod yn bwriadu ymffurfio yn eglwys yn Llanerchymedd; ac enwai ddau o honynt; sef, Herbert Jones, Bettws, plwyf Coedana; a Sinai Thomas, Tafarn-y-botel. Daeth gŵr o'r enw David Roberts, lledrwr, o Lansantffraid, i fyw i Lanerchymedd, yr hwn oedd yn ŵr crefyddol cyn dyfod yma. Wedi dyfod arferai fyned i Bentre bwäau. Un diwrnod, dywedodd John Forsyth, masnachwr parchus, y deuai gydag ef i'r Pentre o gywreinrwydd, ac aeth yn ol ei addewid; ac yn mhen peth amser, ymunodd â'r eglwys

yno. Wedi hyn, ymunodd dau arall; sef, John Thomas, masnachwr, a Mary Hughes, merch Richard Hughes, y *cooper*—mam y Parchn. Richard a William Roberts, genedigol o'r dref hon. Daeth Hugh Jones (yr Hafod) i fyw i'r Bull, ac ymunodd â hwynt, o blegid yr oedd efe yn grefyddol a gweithgar cyn iddo ddyfod yma. Tua'r amser yma, tybir, y daeth Owen Jones, *bookbinder*, yma o Fynydd Bodafon. Byddai yr wyth yn arfer myned o Lanerchymedd i'r Pentre, a Herbert Jones a Sinai Thomas i Cae-maes-gafr. Un tro, wrth ddychwelyd o'r Pentre, ymddiddanasant ynghylch ymgyfarfod yn Llanerchymedd. Cynnygiodd John Thomas y llofft uwch ben ei weithdy, a derbyniasant y cynnyg. Hysbysasant Herbert Jones a Sinai Thomas. Tranoeth aeth David Roberts i Bodynolwyn i hysbysu John Jones, esgob Methodistaidd y sir. Mynegodd John Jones ei foddhâd, ac addawodd ddyfod yno i bregethu, ac i sefydlu eglwys. Hysbysodd y bwriad i gyfarfod eglwysig Chwaen hen. Canodd yr wyth yn iach i eglwys y Pentre, fel y gwnaeth Herbert Jones a Sinai Thomas i eglwys Cae-maes-gafr. Ymddengys mai ar y Sabbath y sefydlwyd yr eglwys, a bod Edward Jones, Pendre, a Richard Hughes, o'r Llain wen, yn bresennol gyda John Jones, Bodynolwyn. Yn ol y cofnodion a gafwyd mewn llyfr o eiddo John Jones, Bodynolwyn, sefydlwyd yr eglwys Fethodistaidd yn Llanerchymedd, Hydref 16eg, 1785, ac nid yn y flwyddyn 1783. Tua'r flwyddyn 1789, cynnelid y gwasanaeth crefyddol yn nhŷ John Thomas, *turner;* ac yno y bu hyd nes yr adeiladwyd capel. Rhyw ddwsin oedd nifer yr aelodau eglwysig. Pan y byddai y tywydd yn caniatau pregethent allan. Cofiai y diweddar Barch. H. Jones ei hun yn llaw ei fam yn gwrandaw yn yr awyr agored. Dywedir mai y modd y rhoddwyd terfyn ar yr erlid yma oedd, i frawd a chwaer, y rhai a ystyrid yn lloerig, ymgynddeiriogi, a rhedeg yn ol ac yn mlaen ar hyd yr heolydd, gan fygwth lladd pwy bynag a wrthwynebai y pregethwr. Barnai yr erlidwyr mai diogelach fyddai peidio cyffroi y fath rai. Yn llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol, dywedir mai y golygwyr oeddynt Owen Jones, John Forsyth, a John Thomas. Y mae enw Richard Evans wedi ei chwanegu atynt gan rhyw

law wahanol i'r hon a ysgrifenodd yr enwau eraill, yr hyn sydd yn profi fod ei ddewisiad ef yn ddiweddarach na'r lleill. Yr oedd yn anhawdd cael tir yma, fel mewn llawer lle arall, i adeiladu capel; o herwydd gwrthwynebiad perchenogion y tiroedd i Ymneillduaeth. Rywbryd, yn ddiarwybod i'r brodyr, ymgymmerodd y chwiorydd, ar wahân i'w gilydd, â gweddïo ar i'r Arglwydd agor drws iddynt gael tir. Dranoeth, ymgyfarfuasant ynghyd i ymddiddan ynghylch yr hyn a wnaethant y noswaith flaenorol. Amlygodd un o honynt ei bod yn meddwl y gellid cael tir, o ddeutu chwarter milldir o'r dref, mewn lle o'r enw Ty'nlôn (Llwyndrain); ac mai perthynas iddi oedd y perchenog, sef Henry Williams, Tŷ hen newydd. Aeth y tair chwaer at y perchenog, ac adroddasant eu cais. Cydsyniodd y gŵr yn union, a rhoes y tir am ddim. Wedi hyny, heb ymdroi, aed at ŵr o'r enw Hugh Hughes i ofyn a wnai efe werthu ceryg iddynt o'r Foel at adeiladu. Cawsant geryg hefyd am ddim. Parodd hyn lawenydd mawr i'r eglwys. Dechreuwyd adeiladu, a gorphenwyd. Ymddengys i'r capel gael ei adeiladu cyn y flwyddyn 1791, o blegid derbyniwyd casgliad tuag ato yn Nghyfarfod Misol Pant-y-coli, Tachwedd 1af, 1791, sef y swm o 140*p*. Dywedai y diweddar Barch. Hugh Jones iddo fod yn yr ysgol yn y capel cyn iddo gyrhaedd saith mlwydd oed; rhaid, felly, iddo gael ei adeiladu o ddeutu 1789, o blegid yn y flwyddyn 1782 y ganwyd ef. Tua'r flwyddyn 1804, daeth y diweddar Barch. W. Roberts, Amlwch, yma yn llengcyn ieuangc, i wasanaethu ar dir David Roberts, y lledrwr, ac ymunodd â'r eglwys hon. Yn sicr, cafodd bob cyfleusdra i ddadblygu ei ddoniau yn yr eglwys hon. Bu Evan Thomas, Henllys fawr, yma cyn iddo ddyfod i Amlwch; ac yr oedd yntau yn ddyn hynod iawn.

Pentre Bwaau.—Mewn canlyniad i sefydliad achos yn Llanerchymedd, gwanhaodd yr achos yma; ond yr oedd Methodistiaeth ar ei mantais, er i eglwys y Pentre leihau. Wedi i Thomas Williams ymadael o'r Pentre i Dy'n-y-merddyn, Caergeiliog, daeth Richard Williams, mab W. Pritchard, Clwchdernog, i fyw i'r Pentre, ac i fod yn flaenor, ac yn noddwr i Fethodistiaeth yn yr ardal. Dywed *Methodistiaeth Cymru* i weddw Thomas Williams,

Ty'n-y-merddyn, wedi marwolaeth ei phriod, ddychwelyd i Bentre-bwäau at ei merch. Dyma fab W. Pritchard a merch Thomas Williams, yn ŵr ac yn wraig, yn byw yn y Pentre, yn cadw cartref i Fethodistiaeth. Ceid Evan Williams, Bodwrog, yn flaenor yma hefyd—mab arall i William Pritchard. Ceir enwau John Jones, Bodynolwyn, ac Edward Jones, Pendre, yn swyddogion yn yr eglwys hon yn nechreu y cyfnod hwn.

Ty'n-y-maen.—Yn y cyfnod cyntaf, cedwid y cyfarfodydd crefyddol yn Chwaen hen, cartref Evan Griffith, y pregethwr; a Phendre, cartref Edward Jones, y pregethwr; ac yn Chwaen wen. Cedwid y cyfarfod eglwysig, am lawer o flynyddoedd o'r ail gyfnod, yn Chwaen wen, cartref William Owen, am un-ar-ddeg o'r gloch boreu ddydd Gwener, bob wythnos. Deuai y Methodistiaid o ddeg o blwyfydd cylchynol i'r cyfarfodydd eglwysig yn Chwaen wen. Byddent yn cyrchu yma, yn wŷr ac yn wragedd, ar eu ceffylau. Cedwid y cyfarfodydd gan John Jones, Bodynolwyn; ac Edward Jones, Pendre; a William Owen, Chwaen wen. Dywedir fod yma le ofnadwy, dysgyblaeth lem, a chariad yn cyd-deyrnasu. Digwyddodd i ŵr cyfrifol, sef John Roberts, Aberalaw, fod wedi colli dechreu y cyfarfod; a dywedodd John Jones, Bodynolwyn, wrtho—'John bach,' ebe fe, 'y mae eisieu eich argyhoeddi yn eich cydwybod. Yr ydych wedi lladrata amser y *society*.' Dro arall, traethai yn hallt yn erbyn athrod, a gwâg chwedlau, gan gerdded oddi amgylch, â ffon yn ei law, a'i law ar ei gefn; a daeth gyferbyn âg un o'r chwiorydd, a dywedodd wrthi—'Annas bach, y mae arnaf ofn eich bod chwi yn euog yn ngwyneb y pethau hyn!' Yn y flwyddyn 1800, adeiladwyd y capel a elwir 'Capel Ty'n-y-maen.' Y mae y capel hwn yn sefyll yn bresennol, gan feddu ffenestr fawr yn y pulpud. Ymddengys fod Methodistiaeth wedi dechreu yn nghymmydogaeth Ty'n-y-maen o ddeutu y flwyddyn 1784. Cynnelid y cyfarfodydd crefyddol mewn tai heb law y rhai crybwylledig; sef, Brynpubur, 'Refail Hafran, Creigiau llwydion, yn mhlwyf Llantrisant; ac yn Nhŷ hir, yn mhlwyf Llanddeusant—o dan ofal Owen Williams, yr hwn oedd yn gantwr mawr; a bu yn arweinydd y

canu yn Nhy'n-y-maen yn mhen blynyddoedd ar ol hyn. Nid oedd yn y gymmydogaeth hon yn y cyfnod cyntaf gapel, nac achos sefydlog mewn unrhyw le neillduol. Pan adeiladwyd capel Ty'n-y-maen, daethant o'r gwahanol gymmydogaethau cylchynol—yr achosion bychain yn y gwahanol ardaloedd—yn un am beth amser, yn Nhy'n-y-maen, o dan ofal y cewri oeddynt yn swyddogion yno. Yr oedd boneddigion y cymmydogaethau hyn yn lled erlidgar yn nechreu y cyfnod hwn. Pan oedd yr achos yn cael ei gynnal yn Chwaen wen, dylanwadai y parsoniaid ar y boneddigion trwy ddywedyd anwireddau am y Methodistiaid—mai dilynwyr Cromwell oeddynt, a'u bod yn amcanu llunio bradwriaeth yn erbyn y llywodraeth. Yn y cyfamser, penderfynodd yr ustusiaid heddwch gael gwybod i sicrwydd. Daeth un o honynt, Herbert Jones, Ysw., Llynon, i'r Chwaen wen, a dywedodd wrth y gŵr —'Y mae arnaf eisieu gweled eich *study* chwi.' Yr oedd William Owen yn hynafiaethydd, ac yn fardd; ac os oedd drwg yn eu plith, credai y ceid ef allan wrth chwilio papyrau yr hen flaenor. Ac ar ffluwch, aeth yr ustus i'r tŷ, a gofynodd iddo ddangos iddo ei bapyrau. A dyna lle yr oedd yr heddynad yn eu chwilio, gan eu troi, ac edrych arnynt yn fanwl. Ac wedi hir chwilio, dywedodd —'O! nid ydych mor ddrwg ag yr oeddynt yn dywedyd.' Cynnygiodd John Hughes, Clwchdernog, le iddynt adeiladu capel ar ran o Dy'n-y-maen; a chymmerodd y Methodistiaid ef, a chawsant brydles faith arno. Yn mhen ychydig amser, daeth yr un gŵr at John Hughes, a gofynodd iddo—'A wnewch chwi un peth a geisiaf genych?' 'Y mae arnaf eisieu gwybod eich cais,' oedd yr atteb. 'O! peth hawdd iawn,' meddai yr ustus heddwch. Erbyn hyn, teimlai John Hughes ei hun mewn lle cyfyng—yr oedd nacau gŵr boneddig ac ustus heddwch yn anhawdd. 'Byddwch, syr, gystal a dywedyd beth ydyw y cais: nis gallaf addaw cyn gwybod.' 'Wel, yr ydwyf wedi clywed eich bod am roddi lle i'r bobl yna i adeiladu capel, ac fe fydd yn merwino fy llygad wrth fyned heibio iddo.' 'Yr wyf wedi addaw, syr,' meddai yntau. '*Dear me,*' meddai yr ustus; 'beth ydych yn rhoddi eich tir i bethau fel yna?' Druain o'r hen Fethodistiaid, nid oeddynt yn 'bersonau,'

dim ond 'pethau.' Yna, dywedodd yr ustus wrtho, 'Nid ydych yn cael fawr am dano?' 'Nac ydwyf,' oedd yr atteb, 'ond ychydig iawn; a mwyaf yr wyf yn ei roddi, mwyaf yr wyf yn ei gael.' 'Wel, rhowch gae i mi, ynte, John.' Safodd John Hughes at ei addewid, modd bynag, er gwaethaf yr ymgais hwn o eiddo ustus heddwch iddo i'w thori. Yr oedd llawer mwy o gymmhwysder yn John Hughes, Clwchdernog, i fod yn ustus heddwch nag yd-oedd yn Herbert Jones, Llynon. Dyma'r John Hughes, Clwchdernog, a ddygodd amddiffynwr i Daniel Rowlands yn mynwent Llanerchymedd; fel y sylwyd yn y drydedd bennod.

Caergeiliog.—Gadawsom yr eglwys hon yn y cyfnod blaenorol yn y flwyddyn 1780, o dan ofal Robert Pierce. Y lle yr ymgynnullai Methodistiaid yr ardal hon oedd yn Nhy'n-y-merddyn. Dywedir i Gyfarfod Misol gael ei gynnal yma yn y flwyddyn 1780. Yn y flwyddyn 1781, symmudodd Thomas Williams o Bentre-bwäau i Dy'n-y-merddyn i fyw. Yn y flwyddyn 1783, yr oedd yma 22 o aelodau; ond erbyn y flwyddyn 1785, yr oedd yma 80 o aelodau. Wedi i Thomas Williams wella o afiechyd, yr hwn a'i dygodd yn agos i angeu, neillduodd ddarn o dir, tua dau gant o latheni oddi wrth ei dŷ, i adeiladu capel arno. Adeiladwyd y capel cyntaf yma yn y flwyddyn 1786. Bu Thomas Williams farw gyda bod y capel wedi ei orphen, a chladdwyd ei weddillion marwol yn mynwent eglwys Llandrygarn. Yr oedd Thomas Williams wedi addaw tua dwy acer o dir ynglŷn â'r capel am fil o flyn-yddoedd; ond bu farw cyn gwneyd y *lease*. Gwrthododd ei fab ei seinio; ond rhoddodd tua dau gant o latheni ar ben craig am chwe cheiniog yn y flwyddyn, am namyn un cant! Nid oedd y mab o'r un ysbryd a'r tad; ac y mae yn ymddangos nad oedd yr un fendith arno, yn ysbrydol nac yn dymmhorol. Nid o waed y mae crefydd. Yn y fl. 1791, bu farw Robert Pierce, yn bump a deugain mlwydd oed. Bu blaenor deallus a defnyddiol, o'r enw Robert Lewis, hefyd, yn swyddog yn yr eglwys hon; yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1804. Bu Evan Edwards, Ty'n-y-cae; sef, tad Owen Edwards, o'r Sybylldir, a gŵr o'r enw John Jones, yn blaenori yma am dymmor. Yma

y dechreuodd Thomas Jones, o Amlwch, bregethu, tua'r flwyddyn 1807. Canghenodd pedair eglwys o eglwys Caergeiliog—sef, Llanfwrog, Bodedern, Rhoscolyn, a Bryn du.

Llanfwrog.—Cawsom fod pregethu yn y plwyf hwn yn y cyfnod cyntaf; sef, yn Nhrelywarch, cartref Thomas Cadwaladr. Bu y gŵr hwn farw yn y flwyddyn 1764; ac nid oes hanes fod pregethu yn yr ardal am yr ugain mlynedd dilynol. Yn y flwyddyn 1785, daeth gŵr o'r enw John Thomas, gôf, yn Fethodist. Ymunodd â'r eglwys yn Nghaergeiliog. Trwy weinidogaeth Michael Thomas, Llanddaniel, yr argyhoeddwyd ef. Nid oedd yn foddlawn heb gael pregethu yn Llanfwrog. Y cyntaf a gafodd i ddyfod yma oedd John Jones, Bodynolwyn. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 1785. Yn y flwyddyn 1791, sefydlwyd pregethu yn ei dŷ bob Sabbath. Pan adeiladwyd capel Ty'n-y-maen, gorfododd y Cyfarfod Misol iddo roddi y pregethu i fyny am beth amser; a bu hyny yn ofid mawr iddo. Nid oedd fawr o lwyddiant yma am rai blynyddoedd. Dywedir i weddïau taerion John Thomas, pan yr oedd y frech wen yn y gymmydogaeth, gael dylanwad da ar ei gymmydogion. Gofynodd i eglwys Caergeiliog a gâi efe gynnyg ei hun i'r Cyfarfod Misol, fel y gallai fyned yno i chwilio am gyhoeddiad pregethwyr i ddyfod i Lanfwrog i bregethu; a chaniatawyd iddo ei gais. Dechreuodd Ysgol Sabbothol yn ei dŷ i'w blant ei hun, a daeth plant ei gymmydogion yno. Yr oedd ganddo ef ddawn naturiol i holwyddori plant. Deuai ei gymmydogion i wrandaw arno; ac yn sicr, yr oedd hyny yn foddion gras iddynt. Cynnyddodd yr ysgol, a bu raid myned i'r llan. Deuai y plwyfolion i'r fynwent i segura, neu i wneyd rhywbeth gwaeth na segura. A phan ddechreuai John Thomas holwyddori y plant, rhuthrent i'r eglwys. Yn y flwyddyn 1798, penderfynodd roddi yr ysgol i fyny. Ond rywbryd cyn rhoddi y penderfyniad mewn gweithrediad, yr oedd bachgen yn adrodd allan y bummed o Rufeiniaid; ac wrth adrodd y chweched adnod—'Canys Crist, pan oeddym ni etto yn weiniaid, mewn pryd a fu farw dros yr annuwiol' —torodd allan i wylo. Effeithiodd hyn ar bawb oedd yn

yr ysgol. Methwyd myned yn mlaen, ond rhoddwyd y pennill i ganu—

'Mi ganaf am waed yr Oen.'

A dyna lle y bu canu—a dyblu canu; ac yn lle rhoddi yr ysgol i fyny, penderfynwyd ei chario yn mlaen. Fe fu hyn yn ddechreuad diwygiad yn y gymmydogaeth. Clywodd y gŵr eglwysig eu bod yn gweddïo heb lyfr, ac yn dyblu wrth ganu. Mewn canlyniad, bwriwyd yr ysgol allan o'r llan. Y pechod mwyaf, y mae yn debyg, yn ngolwg y parson, oedd gwaith Catrin Rondol yn tori allan i orfoleddu, ac iddi dori maingc lled bwdr wrth wneyd. Ond trwy ddylanwad gŵr o'r enw Edward Elias, Plas-y-glyn, cafwyd caniatâd i fyned i'r llan eilwaith, ar yr ammod na byddai yno ddim annhrefn. Yn y flwyddyn 1811, adeiladwyd capel. Ceid yr eglwys hon yn rhestr eglwysi y sir yn y flwyddyn 1806; sef, o ddeutu pum mlynedd cyn adeiladu y capel. Yr oedd y John Thomas uchod yn dad i Thomas Jones, Amlwch, ac i'r Parch. Rees Jones, Browyr, sir Forganwg. Cyfarfyddodd John Thomas â chryn wrthwynebiad i adeiladu capel gan rai o aelodau y Cyfarfod Misol. Gofynodd John Jones, Bodynolwyn, iddo—'Ai pysgod wyt ti yn feddwl gael iddo, Shôn?' gan gyfeirio yn wawdus, y mae yn debyg, at agosrwydd yr ardal at y môr. Cydweithwyr â John Thomas oeddynt Edward Elias, Plas-y-glyn; Robert Thomas, Tŷ hen; Robert Hughes, Ty'n-y-cae; a John Hughes, Tyddyn llwyd. Yr oedd yr ardal hon yn hynod am ei chwareuon ar y Sabbothau; ond trwy lafur ac ymdrech y tô cyntaf o Fethodistiaid, rhoddwyd terfyn ar yr arferion llygredig ar ddydd yr Arglwydd. Yr oedd yma chwiorydd yn meddu dylanwad mawr, o herwydd eu duwioldeb—sef, Margaret Prys, gwraig John Thomas; Gwen Williams, Cornhelyg; Margaret Parry, Trelywarch; Elizabeth Parry, Plas-y-glyn; Elizabeth Williams, Tŷ mwd; a Mary Williams, Ty'n-y-cae, &c. Yr oedd Gwen Williams yn gloff; ond er hyny, byddai yn myned i'r Bala, i'r Gymdeithasfa, ar ei thraed, bob blwyddyn. Byddai eraill yn myned yno o'r plwyf hwn ar feirch. Yr oeddynt yn selog yma am ddyfod i'r capel ar ddiwrnod gwaith. Ni byddai un math o brysurdeb yn eu hattal i

ddyfod ganol dydd. Yr oeddynt yn brysur un diwrnod yn cario ŷd, ac fe ddigwyddodd i drol Trelywarch droi. Tynasant y ceffyl allan, a gadawsant y drol a'r llwyth fel yr oeddynt, ac aethant i'r capel. Byddent yn cadw dyledswydd yn y caeau yn amser y cynhauaf. Yn fuan wedi adeiladu y capel, codwyd tafarn o fewn ychydig latheni iddo, mewn lle o'r enw Tyddyn leici. Yn y cyfarfod eglwysig, rhyw noswaith, wedi i John Thomas ddyfod i wybod, yr oedd fel dyn wedi dyrysu. Yna cododd ar ei draed, a dywedodd, 'Yr ydym y bobl salaf dan y nefoedd, os na weddïwn y dafarn yna allan o fodolaeth. Y mae yn rhaid i bob un sydd yma heno weddïo am ei difodiad.' Ac felly y bu:—gweddïwyd y cwrw yn sûr, ac fe ddarfyddodd y dafarn. O! na byddai mwy o weddïo, yn gystal ag areithio, yn erbyn tafarndai.

Bodedern.—Cangen o Gaergeiliog ydoedd yr eglwys hon. Dechreuodd Methodistiaeth yma mewn Ysgol Sabbothol, tua'r flwyddyn 1793, mewn ffermdy o'r enw Ty'n-y-cae. Enw y gŵr a drigai yn Nhy'n-y-cae ydoedd Evan Edwards, yr hwn oedd yn flaenor yn eglwys Caergeiliog. Bu Owen Thomas Rowlands yn pregethu yn Nhy'n-y-cae, yn yr ardd ŷd, perthynol i'r tŷ, a gwasanaethai yr afael wair yn lle pulpud iddo. Yr oedd yn bresennol rai erlidwyr yn lluchio tom ato. Tybir fod yr ysgol wedi bod yma am o ddeutu un mlynedd ar ddeg. Dywed rhai i'r ysgol gael ei symmud oddi yno i ysgubor Einion Chwith, yn y flwyddyn 1804. Y mae rhai yn ammheu hyn, a dywedant ei fod yn hollol groes i dystiolaeth Robert Lewis, un o hen flaenoriaid eglwys Bodedern. Dywed rhai i'r ysgol symmud o Einion Chwith i hen gapel Llawr-y-llan—capel yr Annibynwyr—ac iddi fod yno am un flwyddyn. Y mae rhai yn ammheu cywirdeb hyn hefyd. Yn y flwyddyn 1807, symmudwyd hi i Blas main—tŷ ardrethol. Nid oes dim ammheuaeth ynghylch ei harosiad yma. Bu yr ysgol a phregethu yn y lle hwn am o ddeutu tair blynedd. Yn y cyfnod hwn, yr oedd yma gyfarfodydd llygredig iawn yn cael eu cynnal ar ddydd Mawrth y Sulgwyn, y rhai a elwid 'Gŵyl Mabsantau.' Cedwid yma gyfarfodydd pregethu ar y diwrnod hwnw am flynyddoedd yn olynol. A bu yr Ysgol

a'r cyfarfodydd pregethu yn fendithiol iawn i'w rhoddi i lawr. Yn y cyfamser, gwelai dau dafarnwr fod gobaith eu helw mewn perygl: aethant at yr ustusiaid, a llwyddasant i gadw y cynnulliad i fyny trwy newid ei enw o 'Wyl Mabsant' yn 'ffair gyflogi;' ond dywedir na bu byth wawr ar amgylchiadau y ddau. Yn y flwyddyn 1810, adeiladwyd y capel cyntaf i'r Methodistiaid yma. Cynnaliwyd y Cyfarfod Misol cyntaf yma Hydref 29ain, 1813. Y blaenoriaid yn y cyfnod hwn oeddynt Evan Edwards, Ty'n-y-cae, yr hwn a fuasai yn flaenor yn Nghaergeiliog cyn i eglwys gael ei sefydlu yn Bodedern; William Evans, Tai uchaf; a Hugh Jones, Einion Chwith, mab i Edward Jones, Maen eryr—un o hen bregethwyr Methodistaidd Môn.

Rhoscolyn sydd gangen o eglwys Caergeiliog. Tybir i'r achos ddechreu yma tua'r flwyddyn 1795, mewn lle o'r enw Ty'n-y-rhos. Yn y flwyddyn 1805, ceid enw yr eglwys hon gyntaf yn mhlith eglwysi y sir. John James, Turnpike, a roddodd dir i adeiladu y capel ar brydles o 999 o flynyddoedd. Dywedir mewn llyfryn sydd newydd ymddangos mai yn y flwyddyn 1813 yr adeiladwyd ef; ond yr oedd yma eglwys yn y flwyddyn 1805, a chynnaliwyd Cyfarfod Misol yma Medi 1af, 1806. Yr oedd yma ŵr eglwysig, o'r enw y Parch. William Lloyd, yr hwn a ymunodd â'r Methodistiaid. Gwêl y seithfed bennod.

Bryn du.—Cangen o eglwys Caergeiliog ydoedd hon hefyd. Yr oedd yn yr ardal hon rai Methodistiaid mor foreu a'r flwyddyn 1775. Dywedir y byddent, yn y blynyddoedd dilynol, yn arfer myned i Lanerchymedd ac Amlwch i gael eu cymmun, pan y byddai gweinidog Methodistaidd yn digwydd bod yn y lleoedd hyny. Ceid fod pregethu ar Dywyn y Fferam; ac nid oedd Tre Ddafydd yn mhell—ac yr oedd yno bregethu ac eglwys gorphoredig. Byddai Ysgol Sabbothol yn cael ei chynnal mewn amryw fanau yn yr ardal ar yr un adeg. Cedwid hi mewn tŷ o'r enw Llain wen, lle y trigai gŵr o'r enw Jason Edwards; ac yn yr ysgol hon yr oedd un a ystyrid yn yr oes hono yn enwog mewn dysg a duwioldeb; sef, John Hughes, Cae'r-ych. Tybir fod hyn tua'r flwyddyn 1785. Y mae Llain wen tua milldir a hanner oddi wrth

gapel Bryn du; ac fe symmudwyd yr ysgol o Lain wen i Pant-y-men-hir, a'r Cogwrn. Yr oedd ysgol yn cael ei chadw hefyd mewn tŷ o'r enw Ty'ntywyn; a symmudodd i Tŷ hen, yn mhlwyf Llangwyfan. Tua'r flwyddyn 1787, yr oedd ysgol yn cael ei chynnal yn ysgubor y Fferam. Yn y flwyddyn 1793, adeiladwyd capel cyntaf Bryn du; yr hwn a elwir yn bresennol y Siop uchaf. Nid oedd yr un sedd o'i fewn, nac un pulpud chwaith; ac felly y bu am rai blynyddoedd. Yn mhen amser, gwnaed pulpud, a dwy sêdd, un o bob tu i'r pulpud—y naill i'r brodyr, a'r llall i'r chwiorydd. Ar yr ochr chwith, eisteddai John Owen, y Fferam; William Jones, Tŷ mawr; John Chambers; William Chambers; William Marc; a John Hughes, Glan-y-gors. Ar y dde, yr oedd Elizabeth Hughes, Tŷ mawr; Elizabeth Jones, y Fferam; Elizabeth Davies, Glan-y-gors; Mary Pierce, Tŷ newydd; Anne Parry, Glan Tywyn; Jane Griffith, Tyddyn Leici; a gwraig Tyddyn Meredydd. Y blaenor, yn holl ystyr y gair, oedd John Owen, o'r Fferam. Yr oedd William Owen, Bryngwyn, a Rowland Hughes, Bryn du, hefyd yn ffyddlawn gyda'r achos.

Caergybi.—Gadawsom yr eglwys hon, yn y cyfnod blaenorol, gyda marwolaeth Richard Jones. Yr oedd yma olygwyr gydag ef yn lled foreu; sef, William Jones, William Thomas, ac Owen Thomas. Yn y flwyddyn 1800, wyth mlynedd cyn marwolaeth Richard Jones, daeth John Parry yma—gŵr ieuangc a ddechreuodd bregethu yn Brynsiencyn, ac a adnabyddid yn y cyfnodau dilynol fel y Parch. John Parry, Caer. Ei amcan yn dyfod yma ydoedd i gadw ysgol; ond ni arosodd yma ond am ychydig flynyddoedd; o blegid ceir yn ei gofiant iddo gymeryd siop yn Nghaerlleon, yn y flwyddyn 1806. Efe a ymadawodd o Fôn cyn marwolaeth Richard Jones. Ymddengys fod yr ysgol ddyddiol, o dan ofal gŵr ieuangc dysgedig fel John Parry, mewn cyssylltiad â gweinidogaeth yr efengyl, wedi chwanegu llawer at ddylanwad Methodistiaeth yn y dref, ac hefyd yn y sir. Yn y cyfnod hwn, daeth gŵr o'r enw Griffith Owen i fyw yma; a dewiswyd ef yn flaenor yn y flwyddyn gyntaf y daeth yma. Dygwyd ef i fyny mewn rhagfarn tuag at y

Methodistiaid, yn Nolyddelen. Teimlodd argraphiadau crefyddol yn Llundain, wrth wrandaw ar y Parch. W. Romaine. Mewn canlyniad i'r Parch. Mr. Morgans, Llanberis, roddi gair da i'r rhai a ddeuent o'r De i bregethu, aeth i wrandaw ar y Methodistiaid; ac ymunodd â hwynt yn Nolyddelen, pan oedd ond tua 18eg mlwydd oed. Yn fuan wedi marwolaeth Richard Jones, adeiladwyd capel bychan, deuddeg llath wrth naw. Yn mhen saith mlynedd, ail adeiladwyd ef, gan ei helaethu yn fwy na chymmaint arall. Cododd Methodistiaeth i sylw a pharch neillduol yn y dref, ac ystyrid yr eglwys yn un o'r rhai enwocaf yn y cyfundeb yn Nghymru. Cafodd Robert Roberts, Clynog, mewn Cymdeithasfa yma, oedfa mor nerthol fel y bu sôn am dani am flynyddoedd. Dywedir fod y fath ddylanwad gyda'r bregeth, nid yn unig nes peri i'r gynnulleidfa dori allan yn un floedd fawr, gan lesteirio y pregethwr i fyned yn mlaen; ond hefyd, nes peri i amryw syrthio yn feirw gan ddychryn—yn mysg y rhai yr oedd un ferch, yr hon na ddadebrodd byth. Yn y cyfnod hwn, daeth Owen Thomas Rowlands yma i fyw.

Niwbwrch.—Bu pregethu yma am ddeugain mlynedd cyn adeiladu capel. Lled araf oeddynt yn myned yn mlaen gyda'r adeiladu trwy yr holl sir. Yn y flwyddyn 1785 yr adeiladwyd y capel cyntaf yma; a thrwy lafur Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid, yr adeiladwyd ef. Yn mhen tair blynedd wedi ei adeiladu, bu farw Richard Jones—yr hen bregethwr. Y swyddogion yma yn nechreuad y cyfnod hwn oeddynt Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid; John Hughes, Fron deg; John Griffith, a William Hughes, Hendy. Cynnaliwyd Cyfarfod Misol yma Mawrth 27ain, 1791. Yn y flwyddyn 1810, gwnaeth y sir gasgliad tuag at y capel o 25*p*. 16*s*. Yn y cyfnod hwn, daeth Rice Hughes, Treferwydd, yn Fethodist—ysgrifenydd cyfreithiol Dinam—palas boneddwr ger Niwbwrch. Rhyw Sabbath, fel y ceisiai daflu maen, collodd ei fantol, a syrthiodd i waelod chwarel ddofn. Bu ei godwm yn foddion gras iddo. Rhyfeddai na buasai wedi syrthio i uffern. Bu yn byw yn Bodafon ar ol hyn.

Brynsiencyn.—Yn y flwyddyn 1785, daeth gŵr o'r enw Owen Jones, Bodhelen, Lleyn, i dyddyn helaeth, o'r enw

Cwyrt, yn nghymmydogaethau Brynsiencyn a'r Dwyran. Bu y gŵr da yn un o brif henuriaid Methodistiaid sir Fôn yn y cyfnod hwn. Bu ei ymadawiad o Leyn yn golled fawr i'r cyfundeb yno, a'i ddyfodiad i Fôn yn elw mawr, nid yn unig i Brynsiencyn, a'i chyffiniau, ond i holl eglwysi y sir. Trwy ei offerynoliaeth yr adeiladwyd y capel cyntaf yma. Cafwyd prydles am ddarn o dir yn mhlwyf Llanidan am 99ain o flynyddoedd, am y gydnabyddiaeth o hanner coron yn y flwyddyn. Dyddiwyd y brydles Mai 12fed, 1786, yn mhen y flwyddyn wedi dyfodiad Owen Jones i'r Cwyrt. Yn y flwyddyn 1794, daeth gŵr ieuangc, o'r enw John Parry, yma i gadw ysgol; a dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1797, yn 23ain mlwydd oed. Adeiladwyd yr ail gapel yma yn y flwyddyn 1806. Yn y cyfnod hwn, yr oedd Owen Jones, Cwyrt; Richard Jones, Merddyn gwyn, taid Owen Lewis, Bodrida (o du ei fam); Owen Williams, Tai cochion; a William Owen, yn swyddogion yma. Cyn diwedd y cyfnod hwn, gellir casglu fod William Dafydd, Ty'n lôn, a John Thomas, Maes gwyn, yn henuriaid yma. Yn y cyfnod hwn, daeth David Jones, yr hwn a adnabyddir ar ol hyn fel y Parch. David Jones, Dwyran, yn Fethodist. Yma y dewiswyd ef yn flaenor, ac y dechreuodd bregethu. Symmudodd o'r Bryn i Niwbwrch, ac oddi yno i'r Dwyran.

Tua'r flwyddyn 1813, daeth ar feddwl Owen Jones, Cwyrt, gael capel yn y Dwyran; a dygodd yr achos i'r Cyfarfod Misol. John Jones, Bodynolwyn, oedd cadeirydd y Cyfarfod Misol—gŵr yr oedd Owen Jones yn gyfaill calon iddo. Cyfarchodd Owen Jones y cadeirydd fel hyn—'Y mae arnom ni eisieu capel yn y Dwyran acw, Mr. Jones.' 'Y mae, Owen,' meddai John Jones; 'pa beth a wnei di âg ef?' 'Pa beth bynag a wnaf fi âg ef, y mae yn rhaid i mi ei gael.' 'Rhaid i ti ei gael?' 'Rhaid, Mr. Jones, pe costiai i mi hanner cant o bunnau o'm poced fy hun.' 'Wel,' ebe y cadeirydd, 'y mae yn rhaid iddo ei gael, mi welaf.' Ac fe'i cafodd. Prin yr oedd y capel wedi ei orphen cyn iddo fyned i orphwys oddi wrth ei lafur. Yr oedd y gŵr da hwn yn daid i'r diweddar Syr Hugh Owen, o Lundain. Derbyniwyd at

y capel yn Nghyfarfod Misol Glasinfryn, Ionawr 3ydd, 1814, y swm o 126*p*. Ceir eglwys y Dwyran yn rhestr eglwysi y sir yn y flwyddyn 1814. Ymddengys fod adfywiad grymus wedi cymmeryd lle yn y cymmydogaethau hyn, ac mewn ardaloedd eraill yn Môn, tua'r flwyddyn 1794. Teimlodd Brynsiencyn yn ddwys oddi wrth yr adfywiad; torai aelodau allan i ganu a gorfoleddu. Y blaenoriaid cyntaf yma oeddynt William Hughes, Hendy; Evan Evans, Penrhyn bach; a Richard Pierce, 'Refail. Yr oedd y blaenaf yn flaenor yn Niwbwrch cyn bod achos yn y Dwyran.

Llangristiolus fydd y lle nesaf yr ymwelwn âg ef. Yn ystod y cyfnod cyntaf, yr oedd yma gapel, os yn deilwng o'r enw. Nid oedd ganddo ond tô gwellt am dair blynedd ar ddeg wedi iddo gael ei adeiladu; ond cyn diwedd y cyfnod blaenorol, ail adeiladwyd ef, a rhoddwyd tô ceryg arno. Yn y flwyddyn 1810, helaethwyd ef drachefn. Yn y cyfnod hwn, ceid John Parry, Rowland Owen, Glan-y-traeth, a Thomas Williams, y Llan, yn flaenoriaid yma. A chyn diwedd y cyfnod, neu yn fuan yn nechreu y nesaf, ceid John Williams, Bryn-glas, yn henuriad yma. Nid oedd gŵr Llanfawr yn swyddog pan y bu farw.

Ceid eglwys yn y cyfnod hwn mewn tŷ a elwir Tre Ddafydd. Yn y cyfnod cyntaf, yr oedd pregethu yn Nglantraeth—tŷ Rowland a Jane Owen. Yn y flwyddyn 1790, symmudodd y teulu hwn i Dre Ddafydd; ac yno y bu pregethu am flynyddoedd. Tua'r flwyddyn 1805, sefydlwyd eglwys yma, o dan ofal Rowland Owen, a Manuel Evans—un o bregethwyr y cyfnod. Ceid yr eglwys hon yn rhestr eglwysi y sir yn y flwyddyn 1806. Yn y flwyddyn 1810, cafwyd adfywiad, a chwanegwyd amryw at yr eglwys. Dywed *Methodistiaeth Cymru* i'r achos symmud yn ol i Glantraeth yn y flwyddyn 1814, lle yr oedd gwraig weddw, o'r enw Anne Williams, yn preswylio ar y pryd; ond yn y flwyddyn 1815, ceid Glantraeth gyntaf, yn lle Tre Ddafydd, yn nghofnodion y Cyfarfod Misol. Cedwid cyfarfodydd eglwysig hefyd yn Ty'n-yr-allt—cartref gŵr o'r enw Henry Thomas. Ymddengys fod cyfarfodydd crefyddol wedi cael eu cadw yn

nhŷ Rowland Owen am lawer o flynyddoedd—o'r flwyddyn 1776 hyd 1814. Dechreuwyd Ysgol Sabbothol yn Nhre Ddafydd tua'r flwyddyn 1805. Yr oedd Ysgol Sabbothol yn cael ei chynnal hefyd yn Nhy'n-llwyn—cartref Manuel Evans, y pregethwr. Cynnyddodd deiliaid yr Ysgol Sabbothol yn y gymmydogaeth hon mewn deunaw mlynedd; sef, o'r flwyddyn 1804 hyd 1822, o ugain i ddau cant.

Aberffraw.—Ni a awn i'r lle hwn, i edrych pa fodd y mae Methodistiaeth yn gwreiddio yno. Yn niwedd y cyfnod cyntaf, gwanaidd iawn oedd Methodistiaeth yma; ond yr oedd yma dŷ annedd wedi ei neillduo gan Robert Parry i bregethu ynddo, yr hwn a elwid Capel Huddygl. Yr oedd yma, y pryd hwn, ddwy hen ferch dduwiol iawn; sef, Margaret James, a Catherine Dafydd. Yn y flwyddyn 1780, daeth John Jones, pregethwr, ac Evan Thomas, i fyw i Henllys fawr. Bu y ddau ŵr da hyn yn byw yma am ddwy flynedd, a buont o wasanaeth mawr i Fethodistiaeth yn yr Aberffraw. Oddi yma, aeth John Jones i Bodynolwyn wen. Yn y cyfamser y bu John Jones ac Evan Thomas yn yr Aberffraw, cododd William Evans, yr hwn a fu, dros ryw dymmor, yn flaenor, ac wedi hyny yn bregethwr cymmeradwy. Tua'r flwyddyn 1784, daeth gŵr crefyddol, o'r enw John Owen, i fyw i Blas Llangwyfan; ac yr oedd efe yn daid i John Jones, yr hwn a fu yn flaenor galluog yn yr eglwys hon am 34 o flynyddoedd yn y cyfnod dilynol. Cynnyddodd yr achos yma nes y daeth Capel Huddygl yn rhy fychan. Rhoddwyd ffenestr fawr arno, lle y gallai y pregethwr sefyll, ac felly gyfarch y gynnulleidfa, yr hon a fyddai yn llawn gymmaint oddi allan ag y byddai hi oddi fewn. Soniai yr hen bobl am odfeuon nerthol a grymus iawn a gafwyd yma gan William Lewis, Glasinfryn, a Robert Roberts, o Glynog. Yn y flwyddyn 1785, adeiladwyd capel newydd yma—wedi bod yn addoli yn Nghapel Huddygl am ddeuddeng mlynedd. Y blaenoriaid y pryd hwn oeddynt William Ellis; John Williams, masnachwr; Thomas Lewis, Tŷ mawr; a Griffith Edwards, yr hwn a adnabyddir yn *Methodistiaeth Cymru* fel Griffith Edwards, o'r Clafdy, a'r hwn a fuasai yn swyddog yn Llan-

goed yn flaenorol. Cawsom enwau y gwŷr hyn yn hen lyfr cofnodion y Cyfarfod Misol. Yr ydym wedi cael enwau rhai eraill gan frodyr o'r lle—megys, Owen Williams, Glan-y-felin; a John Williams, Plas Mai; a Thomas Evans. Ai tybed nad yr un gŵr ydyw y ddau John Williams—yr hen bobl gynt yn ei adnabod wrth ei fasnach, sef *shopkeeper;* a phobl yr oes hon wrth y lle y preswyliai, sef Plas Mai. Yr oedd Thomas Evans yn frawd i William Evans, y pregethwr, ac yn nodedig am ei dduwioldeb, a byddai yn arfer tori allan i ddiolch yn gyhoeddus. Yn foreu yn y cyfnod hwn, sef Mai 25ain, 1787, cynnaliwyd Cymmanfa Fisol yma—dyma yr enw oedd gan ein hen dadau ar y Cyfarfod Misol—yn yr hwn y cynnrychiolid deunaw o eglwysi. Mae yn ymddangos mai deunaw oedd nifer yr holl eglwysi yn y flwyddyn grybwylledig. Yn y cyfarfod hwn, talwyd gan ddwy-ar-bymtheg o honynt y swm o 11*p.* 7*s.* 6*c.* tuag at adgyweirio capel Llangristiolus. Yr oedd yr holl eglwysi yn un yn adeiladaeth ac adgyweiriad eu capelau. Yn mhen tua dwy flynedd ar bymtheg, daeth capel Aberffraw, yr hwn a adeiladwyd yn y flwyddyn 1785, yn rhy fychan, a gosodwyd oriel ar bob talcen iddo.

Gwalchmai.—Y mae hwn yn lle hynod yn Môn. Yn nechreu y cyfnod presennol y cychwynodd Methodistiaeth yn y plwyf. Yr oedd y trigolion, ar y pryd, yn resynus o ran eu hagwedd foesol a chrefyddol. Coegchwareuon, a nosweithiau llawen, a chwareu cardiau, a throedio y bêl, oedd yn cymmeryd lle ar y Sabbothau; ac nid addoli 'y gwir a'r bywiol Dduw.' Byddai y llanau yn lled lawnion ar foreuau Sabbothau yn yr amgylchoedd; ond byddai y mynwentydd yn llawnach y prydnawniau, yn chwareu pêl. Yr oedd y gymmydogaeth yn domen o lygredigaeth foesol. Fel y crybwyllasom yn flaenorol, yr oedd pregethu yn y cyfnod cyntaf yn Mhentre-bwäau, yn mhlwyf Llandrygarn, tua dwy filldir oddi yma. Dechreuodd yr achos yn Ngwalchmai mewn tŷ o'r enw Cemmaes bach. Yr oedd Owen Thomas Rowlands i gadw plygain yma; a daeth taid a nain Owen Williams, Pen-y-bryn, i lettya i dŷ taid a nain y diweddar Robert Edward, Glan-gors-ddu, noswaith cyn y plygain, fel

y gallent fyned i'r cyfarfod. Yr oedd tad Robert Edward yn ŵr lled direidus. Rhwymodd bîg y ceiliog rhag iddo ganu yn y boreu, a thrwy ganu ddeffro y dyeithriaid, gan obeithio y collent y plygain, a bu agos iddynt wneyd. Yr oedd ei chwiorydd yn grefyddol iawn, a byddai yntau yn gwrandaw yn Nghemmaes bach. Un noson, torodd allan yn orfoledd mawr; ac yr oedd yntau yno, mewn rhyw gongl, a'i chwiorydd yn dywedyd yn ofnadwy wrtho dan orfoleddu, o blegid byddai yn poeni tipyn arnynt gartref o herwydd eu crefydd; ond cawsant lonydd ganddo am byth ar ol y noson hono. Yr oedd rhai blynyddoedd —dros ddeng mlynedd o'r ail gyfnod—wedi rhedeg cyn bod capel nac eglwys Fethodistaidd yn yr ardal hon. Yma y daeth y Parch. Richard Lloyd (Beaumaris) yn Fethodist. Ystyrid ef yn ŵr ieuangc hardd a rhinweddol; ac yr ydym yn cofio yn dda ei fod yn brydferth o wedd pan yn hynafgŵr. Digwyddodd un Sabbath, pan oedd efe, a dau arall, wedi ymgyfarfod i gampio ar fryn yn yr ardal, ddarfod iddynt eistedd i orphwys; a thra y gorphwysent, dechreuasant ymddiddan â'u gilydd. A dyma yr ymddiddan, fel y dywedai efe ei hun, ac fel y ceir ef yn ei gofiant yn y *Drysorfa*, am fis Mai, 1835—'Trodd yr hîn yn wlawog iawn y prydnawn hwn; ac ni feddai y diafol neb mor ffyddlawn i'w wasanaethu ag oedd William Roberts a Robert Roberts (dyma enwau ei ddau gyfaill), a minnau. Gan gymmaint oedd y gwlaw, aethom i gysgod craig serth, i ymochel rhagddo; a rhywfodd, yn ddamweiniol i mi, aethom i ymddiddan ynghylch crefydd; a dwyshau wnaeth yr ymddiddan yn fawr iawn, gan gofio ambell i air o bregethau a wrandawsom. Wrth fyned yn mlaen yn yr ymddiddan, soniwyd am ddau ŵr ieuangc cyfrifol oedd yn proffesu crefydd y pryd hyny (sef, H. Jones, Pen y dref, ac H. Williams, Erianell); a gofynwyd pa un ai ffolach, ynte doethach, oedd y bechgyn hyny na nyni? Eu bod hwy yn canlyn hen bobl, y rhai oedd yn gweddïo ac yn galaru; a ninnau yn dilyn oferedd a gwâg ddifyrwch. Penderfynwyd yn y fan hono mai hwy oedd yn eu lle, a'n bod ninnau allan o'n lle yn hollol. 'Yna,' ebe y naill wrth y llall, 'gwell fyddai i ninnau fyned i wrandaw pregethau, a pheidio dilyn oferedd a drygioni

fel yr ydym.' Penderfynwyd gwneuthur felly, ac mai llawer iawn gwell fyddai hyny. Yna gofynodd un, 'A oedd pregeth yn rhywle yn ein hardal, fel y gallem ni gael ei gwrandaw y noson hono?' Ond ni wyddent hwy na minnau am yr un a allem gael. Ar hyn, cyttunwyd ar fod i bob un o honom fyned gartref yn ddioedi at amser tê, ac ymholi â'n teuluoedd a wyddai un o honynt yn mha le, yn gyfagos, yr oedd pregeth i fod y noson hono, fel y gallem fyned i'w gwrandaw. Dywedodd un—Owen Jones, oedd yn byw ar y tir lle yr oeddwn i—fod pregethu i fod y noson hono mewn tŷ a elwid Cemmaes bach. Daethom ein trioedd at y graig fawr drachefn, i edrych a gawsai neb hanes pregeth. Hysbysais iddynt y byddai pregeth y noson hono yn y lle a enwyd. Aethom yno; a safasom i wrandaw yn nghanol yr ychydig broffeswyr, o flaen y pregethwr. William Evans, o'r Aberffraw, oedd yn llefaru; ac R. O., Glan-y-traeth, yn dywedyd ychydig o'i flaen. Tybiasom nad oedd y fath lefarwyr ar y ddaear a'r ddau hyny. Yn y cyfarfod, clywsom gyhoeddi gŵr o sir Gaernarfon, sef R. Jones, o Ben-y-caerau, i fod y Sabbath canlynol yn Llangristiolus, Aberffraw, a Chemmaes bach. Aethom i wrandaw arno, i'r tri lle; a buom heb damaid o fwyd o chwech o'r gloch y boreu hyd ddeg o'r gloch y nos. Yna dechreuodd yr holl gymmydogion ddal sylw arnom; a rhai o honynt yn ein gwawdio, ac eraill yn cydymdeimlo â ni, ac yn tosturio wrthym. Ond yr oeddym ni wedi cael cyfnewidiad neillduol ar ein meddyliau, fel nad oeddym yn gofalu llawer beth a ddywedai neb. Bûm am ennyd yn myned i eglwys y plwyf yn llawer manylach nag o'r blaen; gan geisio, trwy hyny o ddiwygiad, feddyginiaeth ac esmwythâd i fy meddwl: ond bu raid i mi roi i fyny myned i'r llan i'r dyben hyny. Ymroddais i fyned i wrandaw pregethau yn mysg y Methodistiaid, yn agos ac yn mhell; ond bu fy meddwl am beth amser heb gael tawelwch.' Bu yr hen graig fawr yn lle cyssegredig gan y tri ar ol hyn. Byddent yn arfer myned yno i ymddiddan am grefydd. Yr oedd y lle yn rhyw 'Bethel' yn eu golwg. Ymunodd William Roberts a Robert Roberts â'r eglwys oedd yn Mhentrebwäau, a Richard Lloyd â'r eglwys oedd yn Ngwalchmai.

Nid oedd ond pedwar-ar-ddeg o feibion yn perthyn i'r eglwys pan ymunodd ef â hi; a gelwid ar rai o'r gwraggedd i weddïo yn gyhoeddus yma. Yn mhen tua blwyddyn wedi ymuniad R. Lloyd â'r eglwys, collodd ei dau flaenor —un trwy farwolaeth, a'r llall trwy symmudiad. Y cyntaf oedd William Evans, Crugor—mab i Evan Griffith, Chwaen hen, esgob Methodistaidd y cyfnod blaenorol; a merch i William Pritchard, Clwchdernog, oedd ei fam. Y blaenor a symmudodd oedd Rowland Owen, Cemmaes. Mewn canlyniad, galwyd R. Lloyd, a gŵr o'r enw William Thomas, yn flaenoriaid, yn y flwyddyn 1790. Yn mhen tua phedair blynedd, dechreuodd R. Lloyd bregethu, ar annogaeth yr eglwys. 'Y waith gyntaf y ceisiais bregethu,' meddai efe ei hun, 'oedd ar ddydd ympryd, a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn mis Mawrth, 1794.' Pan yn 29ain mlwydd oed, priododd, ac a aeth i Beaumaris i fyw. Daw ef o dan sylw etto. Yr oedd y capel cyntaf yn y lle y mae y tŷ capel presennol. Adeiladwyd yr ail lle y mae yr un presennol.

Yn y cyfnod hwn, torwyd brigyn o'r pren Methodistaidd oedd yn Ngwalchmai, a phlanwyd ef rhyw ddwy filldir i'r de o Walchmai, a galwyd ef Dothan. Dechreuodd yr achos yma mewn tŷ annedd, a elwir Ponc-yr-hen-efail, yr hwn a gyfanneddid gan ŵr o'r enw John Williams. Yr achos yn ei wedd gyntaf oedd Ysgol Sabbothol. Cymmerodd hyn le tua'r flwyddyn 1800. Pregethid yn achlysurol yma. Y prif ddyn gyda'r ysgol yn y cyfnod hwn oedd y John Williams crybwylledig. Ni sefydlwyd pregethu rheolaidd, nac eglwys gorphoredig, yma yn y cyfnod hwn. Fe wreiddiodd y brigyn yn yr ardal; ond lled annyben y tyfodd yn bren. Nid oedd poblogaeth y gymmydogaeth ond teneu. Ni a'i gadawn ef i dyfu hyd y cyfnod nesaf.

Llangwyllog, rhwng Llanerch-y-medd a Llangefni, ydyw y lle nesaf. Erbyn y cyfnod hwn, yr oedd John Rowland, Ceryg llithir, wedi symmud i'r Hafod. Nid oedd gan y Methodistiaid achos yma yn nechreu y cyfnod hwn; sef, yn y flwyddyn 1780. Gorfodid teulu yr Hafod i fyned i addoli i Peniel, Llanerch-y-medd, a Rhos meirch. Fel y dywed William Charles, Gwalchmai, yn y

Drysorfa am Ebrill, 1844—'Buont yn y sir hon, fel Isaac yn nhir Gerar, yn gorfod symmud o'r naill le i'r llall gan orthrymder y gelyn. Er hyny, breichiau eu dwylaw a gryfhasant trwy ddwylaw grymus Dduw Jacob.' Yr oedd gan John Rowland fab, o'r enw Hugh Jones; ganwyd ef yn Ceryg llithir, yn y flwyddyn 1760. Tua'r flwyddyn 1781, dechreuwyd achos Methodistaidd yn y plwyf. Y lle y cedwid y cyfarfodydd oedd mewn hen ysgubor, yr hon a orweddai o dan yr unto â gefail, yn agos i'r man y saif y capel presennol. Prif gychwynwyr yr achos newydd hwn oedd John Rowland a Hugh Jones, y tad a'r mab. Dewisodd yr eglwys fechan Hugh Jones i'w blaenori, pan ydoedd yn 21ain mlwydd oed. Dywed William Charles iddo gael ei alw gan yr Arglwydd pan oedd yn bedair-ar-ddeg oed. Derbyniwyd ef yn aelod o'r Cyfarfod Misol yn y flwyddyn 1781. O dan ofal y gŵr ieuangc hwn, llwyddodd yr achos, nes y daeth yn mhen ychydig o flynyddoedd yn eglwys fechan lewyrchus. Yr oedd ynddi, erbyn hyn, ddynion da a gweithgar heb law Hugh Jones—megys, H. Jones, Stabl, Bodffordd; William Jones, Ty'n'rallt; a John Pritchard, Cae-yr-hain, Bodffordd. Yn y flwyddyn 1808 y ceir yr eglwys hon gyntaf yn rhestr eglwysi y sir yn llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol. O ddeutu y blynyddoedd 1811—14, gwnaethant yr hen ysgubor yn ëangach, a mwy ar ffurf capel, a'i holl ddodrefn oedd ychydig o feingciau, a phulpud symmudol, yr hwn a gyflëid wrth y ffenestr ar adeg y bregeth, er mwyn i'r pregethwr gael goleuni; o blegid ymddengys fod y goleuni, yr hwn sydd felus, yn lled brin yma. Yr oedd un brawd selog iawn gyda'r Ysgol Sabbothol yma; sef, William Parry, Ty'n-yr-onen. Dywed William Charles i Hugh Jones briodi gyda Mary Evans, gweddw ag oedd yn cadw gwestty yn Llanerch-y-medd, pan oedd yn 32ain mlwydd oed; a thrwy hyny, symmudodd yno i fyw. Rhaid felly iddo symmud o ddeutu 1792, yn mhen un mlynedd ar ddeg wedi sefydliad yr achos yn Llangwyllog; ond ni ddywed pa hyd yr arosodd ef yno; ond dywed iddo flino ar gadw y gwestty, a dychwelyd yn ol i'w hen gartref i fyw, lle, yn ddiammheu, y cafodd amgylchedd fwy cydweddol â'i ysbryd.

Llangefni.—Awn i'r lle hwn, i edrych a geir Methodistiaeth wedi ymsefydlu yno. Ni cheir hanes sefydliad yr eglwys hon yn *Methodistiaeth Cymru*. Ceir ynddo, ac yn y *Drysorfa*, fod pregethu mewn tai annedd o amgylch Llangefni—megys, Trefollwyn a Pen-yr-allt, yn y cyfnod cyntaf. Ceir fod gŵr dyeithr ar eu taith yn pregethu yma. Bu y Parch. Daniel Rowlands a William Williams, Pant-y-celyn, yma. Dywedir i William Williams, a'i wraig, ddyfod yma unwaith. Ar ol y bregeth, aeth y ddau i Ben-y-bont, tafarndy adnabyddus, i lettya; ac ymgasglodd haid o erlidwyr wrth ddrws y gwestty, a chyda hwy grythwr (*fiddler*). Ar y pryd, yr oedd Williams, a'i wraig, yn aros yn y parlwr; clywent drwst traed lawer yn y fynedfa (*passage*), a gwelent ddrws y parlwr yn agor yn araf, a'r crythor yn sefyll o'u blaen, tra yr oedd llu o ddyhirod wrth ei gefn. Pan ganfu Williams ef, galwodd arno—'Tyr'd i mewn, fachgen.' Y crythwr a ofynodd a garent hwy gael *tune*. 'Carem,' attebai Williams, 'gâd dy glywed yn chwareu.' 'Pa *dune*,' gofynai y crythwr.' 'Rhyw *dune* a leici di, fachgen—*Nancy jig*, neu rywbeth arall,' oedd yr attebiad. Ar hyn, dechreuodd rygnu y crŵth, a gwaeddodd Williams yn effeithiol ar ei wraig—'Tyr'd, Mali, cân—

'Gwaed y groes sy'n codi fyny,
Yr eiddil yn gongcwerwr mawr,' &c.

Tynodd y canu hwn sylw yr oferwyr, a llithrasant ymaith bob yn un ac un, mewn gwarth a chywilydd, heb wneuthur chwaneg o aflonyddwch. Y lle y cynnaliwyd y seiat, neu y cyfarfod eglwysig Methodistaidd cyntaf yma ydoedd yn nhŷ gwraig weddw, o'r enw Ellen Thomas, Lôn lâs (Church street). Nid oedd yn bresennol ar y pryd ond pump neu chwech. Ymddengys mai Ellen Thomas oedd mammaeth Methodistiaeth yn Llangefni yr amser hwn; canys adroddir yr hanesyn canlynol gan hen wreigan, un o'r rhai hynaf yn y lle:—'Yr oedd y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, a Mrs. Charles gydag ef, yn dychwelyd trwy Langefni o Sassiwn Caergybi; a galwasant gydag Ellen Thomas, am mai yn ei thŷ hi y byddai Methodistiaeth yn cael lloches ar y pryd. Gwnaeth yr hen fam dê iddynt, a thywalltodd y gwpanaid gyntaf i'r

gweinidog, o barch a chroesaw calon iddo, fel gŵr Duw, yn ol ei thyb hi. Gofynai Charles yn chwareus i Ellen Thomas—'Pa un ai y llaeth salaf ynte y goreu sydd yn dyfod gyntaf o bwrs y fuwch, Ellen Thomas?' 'O,' meddai hithau, 'ond y salaf, Mr. Charles.' 'Felly yn union gyda y tê—dyma chwi wedi rhoddi y salaf i mi.' Nid oedd hyn ond digrifwch diniwed yn y gŵr parchedig. Ar ol hyn, ymddengys i'r cyfarfodydd crefyddol gael eu cynnal mewn llofft berthynol i Ben-y-bont. Yr oedd merched y gwestty hwn wedi dyfod yn Fethodistiaid yn lled gynnar ar Fethodistiaeth yn Llangefni. Eu henwau oeddynt Elizabeth, Jane, a Catherine. Dywedir mai Elizabeth oedd yr hynaf, ac mai hi a ddaeth gyntaf yn Fethodist. Bu Jane yn *housekeeper* i Arglwydd Bulkeley, Baron Hill. Ystyrid Jane gan y teulu cyn iddi gael crefydd yn un lled falch, a byddai yn edrych i lawr ar ei chwaer Elizabeth o herwydd ei chrefydd. Wedi i Jane gael crefydd, teimlai yn lled wylaidd yn mhresennoldeb ei chwaer hynaf o herwydd ei hymddygiad blaenorol tuag ati. Yr oedd Elizabeth yn nain i Hugh Williams, *Admiralty House,* Caergybi, ac i Mrs. John Pritchard, Frondirion, Amlwch, o du eu mam, a Jane yn wraig i'r blaenor parchus Richard Price, Cafnan, ac yn fam i Owen Price o'r un lle. Yr oedd Catherine yn fam i William Hughes, fferyllydd, Amlwch, ac yn nain i Mrs. Owen E. Jones, Ty'nrheol, Amlwch. Tybiem mai dyma yr achos i'r Methodistiaid gael addoli yn y llofft hon. Digwyddodd i'r llofft uchod, pan oedd yn llawn o bobl yn gwrandaw ar ŵr dyeithr yn pregethu, ymollwng, nes oedd yr holl gynnulleidfa yn y gwaelod; ond trwy drugaredd, ni anafwyd neb. Wedi y digwyddiad hwn, symmudodd yr achos i dŷ William Lloyd, y *saddler*. Ystafell fechan iawn oedd hon; ac wedi i'r eglwys gynnyddu yn fwy na llon'd yr ystafell, dechreuasant feddwl am adeiladu capel. Yn y flwyddyn 1805 y ceid eglwys Llangefni gyntaf yn rhestr eglwysi y sir, yn llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol. Cynnaliwyd Cyfarfod Misol yma Ebrill 11eg, 1814. Un o'r blaenoriaid cyntaf yma ydoedd Robert Williams, saer maen. Ystyrid y blaenor hwn yn ddyn da a defnyddiol iawn. Blaenor arall yma oedd

John Williams, Tyddyn tlodion. Cyn diwedd y cyfnod hwn, neu yn nechreu y nesaf, ceid Griffith Parry, *barker*, yn flaenor yma. Byddent yn pregethu yn fynych allan yn yr awyr agored, ar gareg farch wrth Pen-y-bont, ac mewn tŷ, yr hwn a elwir yn y pummed cyfnod yn *Oddfellows Arms*. Y capel cyntaf yma ydoedd yr adeilad yn ymyl capel y pummed cyfnod. Un bychan iawn ydoedd—rhyw hyd sêt yn y ddau dalcen, a dwy sêt ar hyd y cefn; oriel yn un talcen, a sêt fawr a phulpud yn y talcen arall, y mae'n debyg, neu yn yr ochr.

Talwrn.—Y mae Talwrn rhwng Llangefni a Phentraeth. Nid oedd yma achos yn y cyfnod blaenorol. Daeth teuluoedd Methodistaidd i fyw yma o ardaloedd eraill, a daeth ar eu meddyliau i wneuthur cais ar gael pregethu yma mor aml ag y gallent. Llwyddasant yn eu cais; cafwyd odfeuon achlysurol, weithiau mewn tai annedd, a phryd arall yn nheml fawr natur—yr awyr agored. Enwau rhai o'r lleoedd oeddynt Gareg wen a Bryncrochon. Yr oedd hyn tua'r flwyddyn 1798. Yn y flwyddyn 1799, daeth y Parch. John Elias yma i bregethu, pan oedd yn ddyn ieuangc, 25ain mlwydd oed. Yr oedd ei weinidogaeth ar y pryd yn nerthol, ac effeithiodd i beri dychryn ar amryw o'r gwrandawyr. Tua'r un amser, y mae yn ymddangos, y sefydlwyd Ysgol Sabbothol yma. Cedwid hi ar y cyntaf mewn amrywiol dai annedd, yn eu cylch. Cynnyddodd yn fuan, fel y bu raid ei chadw allan yn nghanol yr eithin a'r grûg, pan y caniatäai yr hîn i hyny. Yn y cyfamser, rhoddodd y diweddar John Jones (gynt o Dre-y-dryw), hanner erw o dir, rhan o dyddyn oedd ganddo yn yr ardal, yn anrheg dros byth i Fethodistiaeth i adeiladu capel arno, a 40p. o arian i ddwyn yr adeilad yn mlaen. Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 1805. Daeth mwyafrif trigolion y gymmydogaeth i wrandaw i'r capel, ac ymunasant â'r Ysgol Sabbothol; ond nid oedd nifer yr aelodau eglwysig ond o ddeuddeg i bymtheg. Yn y flwyddyn 1806 y ceid eglwys y Talwrn gyntaf yn rhestr eglwysi y sir. Y blaenoriaid cyntaf yma oeddynt Griffith Owen, Bryngwallen, a Rowland Jones, Bodeilio, yr hwn a symmudodd oddi yma.

Llanfair P. G.—Cangen ydoedd yr eglwys hon ar y cyntaf o eglwys Llanddaniel. Nid oedd yma ond tua naw o Fethodistiaid pan y daeth Richard Morris yma i fyw. Adeiladwyd capel yma tua'r fl. 1785, cyn dyfodiad Richard Morris i'r ardal. Yn Llanddaniel yr ymunodd efe â'r achos crefyddol. Bu yn gwasanaethu gyda John Rowland, Ceryg llithir, a Michael Thomas, y pregethwr, wedi iddo ddyfod yn Fethodist. Bu yn byw yn Llangoed am rai blynyddoedd. Pregethid yn achlysurol, cyn adeiladu capel, mewn tŷ a elwir Dryll-bowl. Dirmygid Richard Morris o herwydd ei grefydd, a gelwid ei blant 'yn blant parson y cythraul!' Ymgasglai y dirmygwyr at y capel i watwar pan y cedwid y cyfarfodydd eglwysig, a dywedir i un o honynt gael ei daraw â barn. Yr oedd hen ŵr, o'r enw Hugh Pritchard, yn byw mewn lle o'r enw Depra bach, wedi ei ennill i wrandaw yr efengyl, yr hyn oedd yn ddolur llygad i'w hen wraig, Dorti. Byddai yn myned i'r cyfarfodydd yn ddiarwybod iddi; ac wedi iddi ddyfod i wybod, deuai hithau ar ei ol, gan fytheirio ei bygythion, a'i ffedog yn llawn o geryg i'w lluchio ato ef. Weithiau, ymaflai yn ei wallt, a churai ei ben yn erbyn y pared; o'r diwedd, pallodd amynedd gŵr y tŷ, a rhybuddiodd hi, os deuai hi i'w dŷ ef i aflonyddu drachefn, y rhoddid hi yn ngafael cyfraith y tir. Mewn canlyniad, rhoddodd i fyny aflonyddu y cyfarfodydd. Pan ddechreuodd Richard Morris bregethu, daeth un Richard Evans i'r gymmydogaeth i gadw ysgol ddyddiol Gymraeg, ac aeth Richard Morris drwy yr ardal i ymweled â phob tŷ, gan erchi ar iddynt ddyfod i'r capel ddwy noswaith o'r wythnos i ddysgu darllen Cymraeg. Llwyddasant gyda lliaws; ac yn mysg eraill, y dyn a fuasai gynt yn gwatwar. Addawodd hwn ddyfod i gadw y drws rhag dim aflonyddwch. Y mae yn ymddangos fod yr ysgol Gymraeg ar nosweithiau gwaith wedi rhoddi ysgogiad grymus i'r achos crefyddol yn y lle; dysgodd llawer ddarllen Cymraeg; a chwalwyd gradd o anwybodaeth yr ardal i ffordd. Ac wrth ganu y pennill yn niwedd yr ysgol un tro—

'Cenir yno am y gwaed
Flotiodd feia','

torodd allan yn orfoledd mawr, a pharhaodd y gorfoledd hyd foreu dranoeth. Cyffrodd hyn y gymmydogaeth drwyddi; cododd llawer o'u gwelyau; daethant i'r capel mewn dychryn i ymofyn pa beth oedd hyn? Nis gwyddom pa attebiad a gawsant i'w hymofyniad; ond gwyddom mai yr un priodol a fuasai, 'Eithr hyn yw y peth a ddywedwyd trwy y Prophwyd Ioel.' Ond, fe allai na fuasent fawr nes i wybod pa beth oedd hyn pe cawsent attebiad Pedr i'r Iuddewon ar ddydd y Pentecost; o blegid ni wyddent fawr am y Prophwyd Ioel, ac am yr hyn a ddywedodd efe. Credwn iddynt ddyfod i wybod trwy brofiad beth oedd hyn; o blegid parhaodd y diwygiad nerthol a grymus hwn am yn agos i ddwy flynedd, nes yr ysgubwyd yr hen chwareuon ffôl a llygredig oedd yn yr ardal ymaith gan genllif o ddylanwadau dwyfol gyda'r efengyl. Chwanegwyd llawer at rifedi yr eglwys—daeth un-ar-bymtheg o bobl ieuainge i'r eglwys yr un noson. Parhaodd rhai o honynt hyd y diwedd, buont ffyddlawn hyd angeu; ond tynodd eraill yn ol i golledigaeth. Ymroddodd Richard Morris, y pymtheng. mlynedd olaf o'i oes, i bregethu yr efengyl, nid yn unig yn Môn, ond hefyd yn siroedd eraill Cymru. Teithiodd gyda'r Parch. John Parry, Caergybi (Caer wedi hyny), trwy wahanol siroedd, i gyhoeddi yr efengyl dragwyddol i'w cydgenedl. Parhaodd yn ddefnyddiol hyd ddiwedd ei oes; bu yn ffyddlawn hyd angeu; a chredai y rhai a'i hadwaenai iddo gael coron cyfiawnder yn wobr gwaith a llafurus gariad. Cafodd fam grefyddol i ofalu am dano yn moreu ei oes, o leiaf, yr oedd hi yn grefyddol mewn cymmhariaeth i lawer o'i chymmydogesau. A'i yn gysson i'r eglwys ddwywaith ar y Sabbath, ac ymdrechai i ddwyn ei phlant i fyny yn foesol. Claddwyd hi a'i phriod yr un dydd. Dywed *Methodistiaeth Cymru* i Richard Morris bregethu am ddeng mlynedd ar hugain, yr hyn sydd yn gyfeiliornus; o blegid dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1794, a bu farw yn y flwyddyn 1814, ac nid yn y flwyddyn 1824, fel y ceir yn y llyfr crybwylledig. Tuag ugain mlynedd y bu efe yn pregethu. Yr oedd yma olygwr gyda Richard Morris, o'r enw William Pritchard, Dragon.

LLANDDANIEL.—Ni a awn i'r lle hwn, i dalu ymweliad â'r eglwys Fethodistaidd sydd yno. Yn y flwyddyn 1785, daeth Owen Jones, Cwyrt, i Fôn. Gwrandawai mewn tri lle bob Sabbath; sef, Brynsiencyn, Llanddaniel, a Niwbwrch. Yn y cyfnod hwn, ceid William Jones, Garnan Goch, a David Morris, Myfyrian isaf, yn flaenoriaid yma. Yn lled foreu yn y cyfnod hwn, yr oedd cryn ddadl yn yr eglwys hon ynghylch y lle yr adeiledid capel newydd. Mynai rhai iddo fod yn Llanddaniel, a mynai eraill iddo fod yn y Gaerwen. Daeth y Parch. Evan Richardson, Caernarfon, i Landdaniel i geisio eu cynnorthwyo i ddyfod i benderfyniad yn mha un o'r ddau le yr adeiledid y capel. Bu ef yn traethu ar y pwngc am o ddeutu awr; ac yna, gofynodd i'r blaid oedd dros adeiladu yn Llanddaniel a wnaent hwy gyd-weithio os yn y Gaerwen yr adeiledid ef. A hwy a attebasant, 'Na wnawn ni.' Yna, gofynodd i'r blaid oedd dros y Gaerwen a wnaent hwy gyd-weithio os yn Llanddaniel yr adeiledid ef. A hwy a attebasant, 'Gwnawn.' Mewn canlyniad i'r attebion, dywedodd yr hen weinidog—'Yn y Gaerwen y bydd ef.' Adeiladwyd ef yn y flwyddyn 1799. Yn y flwyddyn 1800 y ceid enw Gaerwen gyntaf yn llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol, yn lle Llanddaniel. Y capel cyntaf hwn yn y Gaerwen ydyw yr adeiladau ydynt wrth dalcen y capel a geir yn y cyfnodau dilynol. Yr oedd William Williams, Garnan goch, a David Morris, Myfyrian, yn flaenoriaid yn nghapel y Gaerwen. Ceid gŵyr o'r enwau Henry Williams, Gaerwen isaf; William Roberts, Rhyd-yr-arian; a Rowland Davies, yn swyddogion yma, naill ai yn niwedd y cyfnod hwn, neu yn nechreu y cyfnod dilynol, neu yn y ddau gyfnod. Daeth Thomas Jones, pregethwr, o Amlwch i Llanddaniel i fyw yn niwedd y cyfnod hwn, neu yn nechreu yr un dilynol; ond diweddodd ei oes gyda'r brodyr yr Annibynwyr. Bu John Edwards, Tre dryw, yn aelod yma, ac yn bregethwr. Gŵr lled hynod oedd W. Williams, Garnan goch. Efe fyddai yn arwain y canu; ac o herwydd i bregethwr ddarllen ei destyn heb roddi emyn i ganu, dechreuodd ganu y testyn, gan ystyried, yn ddiau, fod rhyw fath o anfri yn cael ei roddi ar y rhan hono o'r gwasanaeth.

Beaumaris.—Crybwyllasom yn y bedwaredd bennod fod rhyw gyfarfodydd crefyddol wedi cael eu cadw yn y dref ar y Sabbath gan y Methodistiaid er pan y bu Michael Thomas, Garnan wen, yno yn pregethu. Yn lled gynnar yn y cyfnod hwn, tua'r fl. 1784, cadwyd Cymdeithasfa gan y Methodistiaid yn Beaumaris. Yr oedd cryn siarad yn y dref gan y gelynion am y cyfarfod oedd i'w gynnal yma; ac yr oedd yr hen Arglwydd Bulkeley, Baron Hill, mewn pryder mawr o'r achos. Ar ddyfodiad ei oruchwyliwr—gŵr o'r enw Richard Jones, Trewyn—i'w ŵydd, ymddangosai y pendefig yn dra chyffrous; a chyfarchodd Jones ef, fel arferol, 'Pa fodd yr ydych, fy Arglwydd?' 'Yr ydwyf yn dra digalon,' ebe ynte, 'o herwydd fod y Penau Cryniaid yn myned i gadw cyfarfod yn Beaumaris i gynllunio drygau—megys, codi terfysgoedd yn y wlad, ac ymosodiad ar y llywodraeth; ac nid oes un math o sicrwydd genyf na fydd Baron Hill ar dân cyn boreu yfory.' 'Na, fy Arglwydd,' ebe Jones, 'ni wna'r bobl hyn ddrwg yn y byd; y bobl oreu yn y byd ydynt; y mae eu cyfarfod yn llawer mwy diberygl na phe buasai *ball* yn cael ei gynnal yn y dref.' 'Nid felly chwaith,' ebe yr hen bendefig,' 'pobl yr eglwys ydyw y bobl oreu.' 'Ië,' ebe Jones, 'ond y mae y bobl yma yn bur debyg i'r eglwys, ac yn bur barchus o'i herthyglau a'i gweddïau, er y byddant weithiau yn dywedyd yn llym yn erbyn rhyw fath o weinidogion annheilwng sydd ynddi, y rhai sydd yn taenu chwedlau câs a disail am danynt. Coeliwch fi, fy arglwydd, na ddaw drwg yn y byd oddi wrth y cyfarfod.' A chafodd yr hen bendefig wybod mai gwirionedd a ddywedodd ei oruchwyliwr am Fethodistiaid Môn. Cynnelid y cyfarfodydd crefyddol mewn llofft allan berthynol i dŷ tafarn am ryw dymmor. Dywedai Richard Jones, henuriad yn Mhen-y-garnedd, ei fod am flynyddoedd yn arfer myned i'r cyfarfod eglwysig i'r llofft hon. Yr oedd yn Beaumaris ar y pryd ddyhiryn o'r enw Manuel, gwehydd wrth ei grefft, yn aflonyddu arnynt trwy fyned drwy y gynnulleidfa at y pregethwr, a'i lusgo allan at ei gymdeithion, y rhai a'i gwobrwyent â diod feddwol am ei wasanaeth. Daeth gŵr o'r enw William Prys, o'r Bryngolau, i wybod am y cynllun anfad

hwn, er nad oedd yn grefyddwr, etto safai wrth y drws; a phan y deuai Manuel i'r drws, ymaflai ynddo, gan ei wasgu yn ddistaw, nes y byddai ei wyneb yn glasu, ac yna llithrai i ffwrdd yn llechwraidd. Ymddengys y byddai rhai o Ben-y-garnedd, ac o Langoed, yn myned i Beaumaris i'r llofft. Dywedai y gelynion mai math o ddawns oedd y cyfarfod crefyddol, a galwent wraig Richard Jones, o herwydd ei bod yn lled gorphorol a thrwsiadus, yr hen *lady of the ball.* Arweiniodd Rhagluniaeth ddwyfol y Parch. R. Lloyd i Beaumaris, fel y crybwyllasom, ar ddechreuad y ganrif bresennol. Pan y daeth yma, nid oedd ond tri neu bedwar o frodyr, ac ychydig o chwiorydd, yn y dref, a thŷ bychan a gwael i bregethu ynddo. Yn fuan wedi ei ddyfodiad, cafodd addewid o le i adeiladu capel, ac fe'i hadeiladwyd yn y flwyddyn 1804. Yn mhen ychydig o flynyddoedd, bu raid ei helaethu, o blegid ei fod yn rhy fychan. Yn y flwyddyn y bu ef farw, helaethwyd ef drachefn, a rhoddodd Mrs. Lloyd 100*p.* tuag ato. Yr oedd yr holl draul yn 600*p.* Bu Mr. Lloyd a'i wraig o fendith fawr i Fethodistiaid Beaumaris—ei weinidogaeth ef ei hun yn y dref, a'i garedigrwydd ef a hithau i bregethwyr am flynyddoedd maith. Dywed *Methodistiaeth Cymru* i'r Arglwydd fendithio ei dŷ, fel yr eiddo Obededom, er mwyn arch Duw. Yr oedd yma, yn gynnar yn y cyfnod hwn, olygwr o'r enw Richard Thomas, saer. Cynnaliwyd Cymmanfa Fisol yn y dref hon, Ionawr 1af, 1788, a derbyniwyd ynddi y swm o 21*p.* 1*s.* 5*c.* at gynnorthwyo y Parch. D. Jones, Llangan, a William Humphreys. Nis gwyddom yn sicr pa beth a olygir wrth gynnorthwyo y Parch. D. Jones, Llangan, os nad ei gynnorthwyo i adeiladu capelau. Pan oedd ef yn pregethu ar yr heol yn Nolgellau, daeth dyn â thresi (*chains*) yn ei ddwylaw, gan eu tincian yn eu gilydd, a thrwy hyny rwystro y gynnulleidfa i gael gwrandaw. Ar hyn, gwaeddodd Jones y mynai gael capel, costied a gostiai. A thrwy ei gynnorthwy ef, cafwyd capel yn Nolgellau.

Llangoed.—Lle tua thair milldir o Beaumaris. Ymddengys mai mewn tŷ annedd, o'r enw Tŷ isaf, y bu pregethu gyntaf yn y gymmydogaeth hon—tŷ hen wreigan

weddw. Symmudodd o'r Tŷ isaf i Dyddyn Waen—tŷ Richard Parry—brawd i Robert Parry, Frigan. Cedwid Ysgol Sabbothol hefyd mewn tŷ o'r enw Talwrn yn y cyfnod hwn. Ystyria ein hysbysydd mai yn Nhyddyn Waen y sefydlwyd Methodistiaeth yn yr ardal hon, o ddeutu y fl. 1780; ond yr ydym yn tybio y gellir ei ddyddio flwyddyn neu ddwy yn gynt. Yn y flwyddyn 1794 yr adeiladwyd y capel cyntaf yma. Y blaenor cyntaf a ddewiswyd yma oedd William Owen, Tan dinas, yn mhlwyf Llanfihangel. Yr oedd yn ŵr ieuangc tal ac eiddil o gorph; ond yn hynod mewn duwioldeb. Cerddodd lawer gwaith yn ol ac yn mlaen i Sassiwn y Bala; a llwyddodd i gael Jones, Llangan, a Peter Williams i bregethu i Dyddyn Waen. Byddai yn tori allan mewn llais cân a moliant yn y cyfarfodydd crefyddol. Bu farw yn y flwyddyn 1793, yn 40ain mlwydd oed; a chladdwyd ef o fewn i eglwys Llanfihangel. Blaenor arall yma yn y cyfnod hwn oedd Richard Bulkeley, 'Rhen dŷ, yn mhlwyf Llanfihangel. Yr oedd y gŵr hwn yn berthynas i Arglwydd Bulkeley, Baron Hill. Yr oedd yma flaenor arall yn y cyfnod hwn. Ymddengys nad yw Methodistiaid y pummed cyfnod yn gwybod dim am dano ef; sef, y gŵr a adnabyddir yn *Methodistiaeth Cymru* fel Griffith Edwards, Clafdy. Bu yma hefyd flaenor o'r enw Owen Williams. Y mae llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol y cyfnod hwn yn peri i ni ddeall fod yma dri blaenor cyn William Owen. Y cyntaf wedi ei groesi mor drwm—fel arwydd ei fod wedi marw—fel nas gallwn wneyd allan yr enw; yr ail ydyw Owen Williams; y trydydd ydyw Richard Bulkeley; y pedwerydd ydyw Griffith Edwards; a'r pummed ydyw William Owen. Y mae y tri enw cyntaf wedi eu hysgrifenu gan law wahanol i'r ddau ddiweddaf; ac ysgrifenydd y tri enw cyntaf oedd ysgrifenydd cyntaf y cyfnod. Yn y llyfr yr ydym yn cyfeirio ato y mae enwau y pregethwyr a'r blaenoriaid yn gymmysg, ac yn cael eu galw oll yn olygwyr. Nid ydym yn gwybod fod pregethwyr wedi bod yma yn y cyfnod hwn; rhaid, felly, mai blaenoriaid oeddynt. Yr oedd y capel cyntaf yma yn un bychan iawn—yn meddu lle tân, a chwpbwrdd wrth ochr y tân, un rhes o seddau o'i amgylch, ychydig

o feingciau yn y canol, a'i lawr yn bridd. Yn y capel hwn y dewiswyd William Roberts, Fargen wen, yn flaenor, yr hwn oedd yn hynod o ffyddlawn. Y blaenor nesaf a ddewiswyd oedd Robert Owen, Tandabal, yr hwn oedd yn frawd i dad y Parch. Owen Thomas, D.D., Liverpool. Yr oedd y gŵr hwn yn flaenor da, yn ddyn duwiol iawn, yn meddu dawn uwch law y cyffredin, parod i bob gwaith, ac yn llym yn erbyn pob drwg. Symmudodd oddi yma i Glasinfryn, ac yno y bu farw. Yn y cyfnod hwn, ceid Cadwaladr Jones, Tan-y-coed, yn flaenor yma. Gŵr o feddwl isel a digalon, ac yn drafferthus gyda'i amgylchiadau; ond o gymmeriad da. Symmudodd i Liverpool, ac yno y bu farw.

Lled dywyll ydyw hanes dechreuad Methodistiaeth yn Llangoed yn *Methodistiaeth Cymru*. Y mae yn dechreu trwy roddi disgrifiad o arferion isel y trigolion rhwng y blynyddoedd 1802 ac 1808. Yn y blynyddoedd hyn, ymddengys yr arferai yr ardalwyr fyned ar brydnawniau Sabbothau i ben bryn a elwir y Marian Dyrus—yr ieuaingc i gampio, a'r hen i adrodd chwedlau. Y moddion penaf a fendithiwyd i gael yr hen arferion llygredig hyn i lawr oedd gweinidogaeth yr efengyl a'r Ysgol Sabbothol. Ar ddiwedd cyfarfod gweddi, rhyw nos Sabbath, deallodd y brodyr fod cyfarfod o dan yr enw 'noswaith lawen' i'w gynnal y noswaith hono, mewn lle a elwir Porto Bello. Effeithiodd y dealltwriaeth yn fawr ar un o'r brodyr, sef Richard Bulkeley—un o'r blaenoriaid—fel na allasai fyned adref heb wneyd rhyw ymgais i'w rhybuddio, ac i'w hachub. Anfonodd at y *warden*, o'r enw John Rowlands, Tyddyn Grugor, yr hwn ei hun oedd yn y cyfarfod gweddi, i erchi arno ddyfod gydag ef i Porto Bello i'w gynnorthwyo yn ei amcan. Danfonodd yntau yn ol gyda'r genad ar iddo fyned adref, a pheidio gwirioni, na wnai pobl y 'noswaith lawen' ond chwerthin am ei ben, os peidient a gwneyd niwed iddo. 'Ond,' ebai efe, 'am danaf fi, ni ddeuaf fi yn agos atynt.' 'Nid oes mo'r help,' ebai Richard Bulkeley, ''Cleddyf yr Arglwydd a Gideon,' mi af yno, doed a ddelo o honof.' Ac yno yr aeth yr hen ŵr, a chyfarchodd y bobl, gan ddywedyd, 'Wel, langciau bach, syn genych, mae'n debyg,

fy ngweled i yma yn eich mysg. Y gwir ydyw, nid oedd ffrwyth ynof i fyn'd adref a'ch gadael chwi yn y fan yma, i fyn'd y ffordd unionaf i uffern, heb eich rhybuddio.' Teimlodd rhyw un awch y cyfarchiad gonest hwn yn brathu ei gydwybod, a galwodd am gasglu y *siot*, fel y gallent fyned adref yn ddioed. Cyttunwyd âg ef yn y cynnygiad gan bawb ond un, a hwnw yn fab i rïeni crefyddol. A dywedodd hwn, 'Na wnewch sylw o'r hen ddyn; gadewch iddo ef fyned adref, ond paham yr awn ni ar ei gais ef?' Ond i ffordd yr aethant oll; ac nid hir y bu y rhan fwyaf o honynt heb wneuthur proffes gyhoeddus o'r Arglwydd Iesu; ïe, bu yr un a ddangosasai y gwrthwynebiad mwyaf i gais Richard Bulkeley yn henuriad ffyddlawn yn eglwys Llangoed hyd ddiwedd ei oes! Y mae cleddyf yr Arglwydd a Gideon wedi gwneyd gwrolwaith lawer gwaith ar ol hyn. Cymmerodd hyn le rhwng 1802 a 1808. Y mae yn rhaid fod Methodistiaeth yn Llangoed flynyddoedd cyn hyn, fel y crybwyllasom; o blegid symmudodd Griffith Edward, Clafdy, o Langoed i'r Aberffraw yn y flwyddyn 1785, neu yn fuan wedi hyny; ac yr oedd yn flaenor yn Llangoed cyn dyfod i'r Aberffraw. Bu farw yn y flwyddyn 1847, yn 86ain mlwydd oed, wedi gwasanaethu fel swyddog dros 68ain o flynyddoedd; rhaid, felly, ei fod yn flaenor yn Llangoed yn 1779. Dywed *Methodistiaeth Cymru* hefyd y byddai cyfeillion o Ben-y-garnedd a Llangoed yn arfer myned i Beaumaris i'r cyfarfodydd a gedwid yn yr hen lofft allan — cartref cyntaf Methodistiaeth yn y dref; ac yr oedd hyn flynyddoedd cyn y flwyddyn 1802. Ymddengys fod rhai yn Llangoed yn tueddu i wneyd gwawd o'r Methodistiaid. Daeth dyn i mewn unwaith i un o'r cyfarfodydd, a cheseiliad o bŷs ar ei wellt ganddo o dan ei gôt, a bwytäai y pŷs er mwyn tynu sylw pawb ato ei hun. Yr oedd John Rowland, Tyddyn Crugor, yn ddyn grymus iawn o gorph; ac yn arfer taflu aflonyddwyr allan wrth y cwpl, fel pe lluchiai un gwpl o gorgwn. Aeth at y bwytäwr pŷs, a dywedodd wrtho, 'Onid ei di allan ar frys mi a dy dafla di allan.' Clybu hen ŵr crefyddol y bygythiad, a dywedodd, 'Na, gadewch iddo, John Rowland, mi af fi ato, ac a'i perswadiaf ef i fyned allan rhag

aflonyddu yr addoliad.' Fe aeth ato, a llwyddodd i gael ganddo gau ei gôb ar y pŷs, a bod yn llonydd. Y noson hono, deffrodd ei gydwybod; ac nid hir y bu heb ddyfod yn aelod eglwysig. Yr oedd gŵr ieuangc medrus i ddynwaredu pregethwyr Methodistaidd, o'r enw Robert Owen, yn ngwasanaeth Mrs. Griffith, Tyddyn-y-gwynt, yr hon oedd yn llochi cryn lawer o ragfarn at Fethodistiaeth. Un tro, digwyddodd y gŵr ieuangc fyned i gyfarfod gweddi, gan ddisgwyl cael rhyw destyn difyrwch a gwawd. Ond Duw yn ei ras a feddyliodd beth gwell. Yn y cyfarfod, daeth saeth oddi wrth Dduw i'w galon. Dychwelodd i'w le—nid i wawdio mwy. Daeth yn Fethodist ei hun, yr hyn a barodd flinder mawr i Mrs. Griffith. Galwodd y llengcyn ati, a rhybuddiodd ef y byddai yn rhaid iddo ymadael â'i Fethodistiaeth, neu ymadael â'i gwasanaeth. A dewisodd y gŵr ieuangc—mab i Owen Thomas, y Fron bach, plwyf Penmon—ymadael â gwasanaeth Mrs. Griffith, Tyddyn-y-gwynt, yn hytrach nag ymadael â gwasanaeth yr Arglwydd Iesu Grist; ac ni chafodd achos i edifarhau am y dewisiad a wnaethai. Yr oedd hyn tua dechreu y ganrif bresennol. Bu Henry Parry, Waen; Dafydd Jones, Tŷ du; a Rowland Jones, Hen dŷ, yn flaenoriaid yn yr eglwys hon yn y cyfnod hwn.

Waeneura.—Ymddengys fod yma ryw fath o gapel, o blegid ceir yn nghofnodion y Cyfarfod Misol gyfeiriad at y *leases* a roddodd Richard Samuel, Gwaeneura. Golygwyr yr achos yma yn y cyfnod hwn oeddynt Owen Ellis, Caenewydd; Hugh Evans, Moelfre; Thomas Owen, 'Refail; a Morris Williams, Ty'n-y-mynydd. Yn y cywydd a gyfansoddodd Mathafarn, er côf am Rowland Jones, o'r Hen dŷ, Penmon (gynt o Frynhyrddin, ac wedi hyny o Bodeilio), ac a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am Tachwedd, 1844, cyfeiria at bedwar o flaenoriaid oeddynt yma pan yr aeth ef a Rowland Jones yno gyntaf—naill ai yn niwedd y cyfnod cyntaf, neu yn nechreu yr ail. Y pedwar oeddynt y rhai crybwylledig. Nid oedd yr un yn fyw yn y flwyddyn 1844 ag oedd yn Waeneura pan yr aeth yr hen Fathafarn yno gyntaf. Ceir yr un enwau yn llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol; ond fod 'gôf' ar ol

enw Thomas Owen yn lle 'Olgref fawr;' a bod enw arall yn eu mysg, sef Richard Jones—yr hwn a geir yn flaenor yn Mhen-y-garnedd ar ol hyn, y mae yn debyg.

Pen-y-garnedd.—Y mae y lle uchod rhyw ddwy filldir o Bentraeth, ar y ffordd sydd yn arwain i Borthaethwy. Dechreuodd Methodistiaeth yma mewn tŷ o'r enw Cae newydd (tŷ un o flaenoriaid Waeneura—O. Ellis). Nis gallwn nodi y flwyddyn y dechreuodd. Ymddengys nad oedd achos yma yn y cyfnod blaenorol. Tybir gan rai fod Ysgol Sabbothol wedi ei dechreu yma tua'r flwyddyn 1784, os nad yn y fl. 1782. Daeth gŵr hynod yn ei berthynas â Methodistiaeth i fyw i Rhos Owen bach, tua'r flwyddyn 1790; a symmudodd yr achos, yn y flwyddyn grybwylledig, o Cae newydd i Rhos Owen, a bu yma am bedair neu bum mlynedd: Owen Ellis, Cae newydd; Thomas Owen, 'Refail; a Richard Jones, yn flaenoriaid. Ceir enw y gŵr diweddaf mewn cyssylltiad â'r achos yn Beaumaris. Ganwyd ef yn Tŷ newydd, yn mhlwyf Pentraeth, yn y flwyddyn 1767. Pan oedd yn ugain mlwydd oed, argyhoeddwyd ef wrth wrandaw ar John Jones, Amlwch (Edeyrn wedi hyny), yn pregethu yn Mhentraeth, ar 2 *Cor.* v. 10. Bu mewn argyhoeddiad dwfn am o ddeutu dwy flynedd. Wrth wrandaw ar Jones, Llangan, yn pregethu ar *Gal.* iii. 10, yn Beaumaris, y cafodd olwg ar drefn Duw i achub trwy Iesu Grist. Ymunodd â'r eglwys Fethodistaidd yn Waeneura. Daeth i Rhos Owen trwy briodi. Adeiladwyd capel Pen-y-garnedd naill ai yn y flwyddyn 1794 neu 1795. Rhyw gangen o Waeneura ydoedd Pen-y-garnedd. Yn y fl. 1797, ceid yr eglwys hon yn rhestr eglwysi y sir. Ceir enwau y tri blaenor yn mhlith blaenoriaid eglwys Waeneura yn nechreu y cyfnod hwn.

Peniel, Llanddona.—Nis gallwn nodi y flwyddyn y dechreuodd Methodistiaeth yn Llanddona. Wedi disgwyl cael ychydig hanes gan rai o'r brodyr yno, ond yn ofer, digwyddasom, wrth chwilio rhai cyfrolau o'r *Drysorfa,* daraw wrth ychydig linellau o eiddo y diweddar Barch. E. Davies, Llanerch-y-medd, ar ol Jane, gweddw Owen Jones, Bryn Castell, y rhai ydynt yn taflu ychydig o oleuni ar ddechreuad yr achos yn y lle hwn:—'Dygwyd

hi (Jane Jones) i fyny o'i mebyd mewn lle a elwir Wern, yn y plwyf hwn; a chan nad oedd un capel y pryd hwn yn y gymmydogaeth yn nes nag o fewn pedair milldir o amgylchedd, pregethid yno (Wern) bron bob nos Sadwrn; ac mor fynych ag y gellid ar y Sabbath hefyd. Trwy hyn, fel moddion, ymwelodd yr Arglwydd â'i meddwl pan oedd yn ieuangc iawn. Derbyniwyd hi i gymmundeb eglwysig yn Nglasinfryn, pan oedd yn 17eg mlwydd oed, pryd y gweinyddid Swper yr Arglwydd gan Jones, Llangan.' Yr oedd Jane Jones yn 83ain mlwydd oed pan y bu hi farw, yr hyn a gymmerodd le yn y flwyddyn 1866; rhaid, felly, iddi gael ei geni yn y flwyddyn 1783. Gallwn fod yn lled sicr fod pregethu yma o ddeutu y flwyddyn y ganed Jane Jones. Nid oedd yma eglwys gorphoredig yn y fl. 1800—y flwyddyn y derbyniwyd hi yn Nglasinfryn. Dywedir fod pregethu wedi bod mewn tŷ gwâg o'r enw Gorslwyd. Y mae yn debyg mai ar ol y Wern y bu hyn, neu yn yr un amser. Yn y fl. 1814, adeiladwyd y capel cyntaf yma. Yn y fl. 1815, ceid eglwys Llanddona gyntaf yn mysg eglwysi y sir. Y blaenoriaid cyntaf oeddynt Hugh Hughes, Godreddi bach; Richard Williams, Tyddyn-y-waen; ac Owen Jones, Bryn Castell. Arferai Hugh Hughes, am wyth mlynedd cyn adeiladu y capel, fyned i seiat Llangoed, tair milldir o ffordd; ac ni chollodd yn nghorph yr wyth mlynedd ond dau gyfarfod eglwysig. Yr ydym yn cofio Owen Jones. Dyn duwiol a ffyddlawn iawn ydoedd. Bu farw yn y fl. 1857, a'i wraig yn y fl. 1866. Teg ydyw hysbysu i ni dderbyn ychydig o hanes yr eglwys hon wedi i ni ysgrifenu; ond ni raid i ni wneyd unrhyw gyfnewidiad.

Llanallgo.—Y lle y pregethid ynddo cyn adeiladu y capel oedd y Gell. Nid oedd Ceryg Llithir yn mhell oddi yma. Ymddengys i'r capel gael ei adeiladu yn y flwyddyn 1805; canys ceir yn llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol y nodyn canlynol:—'Mawrth 25, 1805, yn seiat fisol Ty'n-y-maen, addawyd i bobl y Gell, at adeiladu eu capel, y swm o 50*p*.' Yn Chwefror 29ain, 1806, cadwyd Cyfarfod Misol yn y Gell. Gelwid ef yn Gapel y Gell ar y dechreu, ac nid yn Gapel Llanallgo. Yn y fl. 1806 y

ceir yr eglwys hon gyntaf yn mysg eglwysi y sir. Y blaenoriaid cyntaf a gofiai Richard Rowlands, Tyddyn isaf, yma—ac y mae efe yr un oed a'r capel—oeddynt Hugh Evans, Tŷ Moel—crydd wrth ei alwedigaeth, a gŵr hynod mewn gwybodaeth ysgrythyrol; Edward Williams, Glan-yr-afon—gŵr haelionus at yr achos; a Richard Jones, Ty'n-y-graig.

PEN-Y-SARN, neu LEDTROED.—Saif y lle hwn rhyw ddwy filldir o Amlwch. Dechreuwyd yr achos yma mewn tai annedd. Cynnelid cyfarfodydd gweddi ac Ysgol Sabbothol, a phregethid yn achlysurol, yn un o'r tai. Enw un o'r tai oedd Maes-y-groes. Y gwŷr a fuont yn offerynau i sefydlu achos yn yr ardal hon oeddynt John Evans, Lledtroed, a Chornelius Pritchard, Twŵr Llechiad. Ganwyd John Evans yn Talwrn, yn y fl. 1746. Daeth yn brentis o saer coed i Sandhall Dulas, at ŵr o'r enw Thomas Jones, ac yn mhen amser ymbriododd â chwaer ei feistr. Ymddengys fod John Evans yn ŵr crefyddol cyn dyfod yma. Byddai ar y cyntaf yn arfer myned i Ros-y-meirch. Cafodd waith yn *Parys Mine,* fel pen saer; ac aeth i fyw i dyddyn o'r enw Lledtroed, perthynol i Ardalydd Môn. Adeiladwyd tŷ newydd, ysgubor, a beudŷ iddo; a thrwy fod y goruchwyliwr ac yntau ar delerau hynod o gyfeillgar, caniatawyd iddo adeiladu capel yn nhalcen ei dŷ, a hwn ydyw capel Lledtroed. Tybir iddo gael ei adeiladu tua'r fl. 1780—yn nechreuad y cyfnod hwn. Crybwyllasom am Cornelius Pritchard, yn y drydedd bennod, yn amddiffyn pregethwr dyeithr yn Llanerchymedd. Ceir ei enw yn mysg ymddiriedolwyr capel Tŷ mawr a chapel Llanfair P.G. Yr ydym yn cael, yn llyfr cofnodion y Cyfarfod Misol y cyfnod hwn, fod amryw flaenoriaid, neu olygwyr, yma heb law John Evans a Chornelius Pritchard; sef, Owen Thomas, John Roberts, John Edwards, Harri Owen, David Griffith, a Richard Williams. Cangen o Ledtroed yw Pen-y-graig wen. Tybia rhai i'r gwrthwyneb; fod yr achos yn y lle diweddaf yn hynach nag ydyw yn y lle cyntaf. Lledtroed yw y fam eglwys. Cynnaliwyd Cyfarfod Misol yn Mhen-y-sarn yn Chwefror 1af, 1788, a derbyniwyd ynddo 14*p*. 1*s*. 9*c*. tuag at y capelau.

Pen-y-graig Wen.—Y mae y lle hwn tua dwy filldir o Lledtroed, Pen-y-sarn. Dywedir mai y prif rai yn nghychwyniad Methodistiaeth yn y lle hwn oedd hen wehydd cloff; a John Hughes, Pen-y-graig wen—taid y diweddar William Hughes, fferyllydd, Amlwch; a Catherine Williams, Penlan. Yr hen wehydd yn cymmeryd gofal y rhan bwysicaf o'r gwaith, sef yr ysbrydol, a John Hughes yr allanol. Yr oedd yr hen wehydd cloff yn fwy cymmhwys at y mewnol, a John Hughes at yr allanol. Bu Williams, Pant-y-celyn, yn pregethu yn Mhen-y-graig wen; ac wedi gorphen pregethu, tynodd lyfr o'i logell, a rhoddodd ef i John Hughes, gan ddywedyd, 'Hwda, John, dyma i ti lyfr o fy mola i i gyd.' Ymddengys mai llyfr hymnau o'i waith ef ei hun ydoedd. Dechreuodd yr achos yma yn nechreu y ganrif bresennol. Y blaenor cyntaf a ddewiswyd yn rheolaidd yma oedd Griffith Jones, Cefn-dwy-ffrwd. Y nesaf oedd John Hughes, Glan-y-gors. Er i'r brodyr hyn gael eu dewis yn swyddogion yn y cyfnod hwn, etto dynion y cyfnod nesaf ydynt hwy yn benaf; o blegid yn niwedd y cyfnod hwn y dewiswyd hwy. Yn y flwyddyn 1800, ceid yr eglwys hon gyntaf yn rhestr eglwysi y sir; ond ceid Lledtroed yn y fl. 1787.

Rhos-y-bol, neu Y Gorslwyd.—Y mae y lle hwn tua thair milldir o Lanerchymedd, ar y ffordd i Amlwch. Dywedir nad oedd ond un yn proffesu crefydd yn ei ffurf Fethodistaidd, yn y gymmydogaeth hon, yn y fl. 1784, sef Ellen Pritchard, o'r Glas grug isa', yr hon, ar y pryd, oedd yn aelod yn Amlwch. Y mae yn rhaid, felly, nad oedd yma eglwys Fethodistaidd yn nechreu y cyfnod hwn. Yn lled fuan ar ol y flwyddyn 1784, daeth un Richard William Meredith, yr hwn oedd yn aelod yn Lledtroed, Pen-y-sarn, ar y pryd, i Glas grug bach, i fyw. Teneu ei thrigolion oedd yr ardal ar y pryd; ond tua'r flwyddyn 1791, rhanwyd dwy fferm yn fân dyddynod, a gosodwyd hwy, o dan brydlesoedd, i'r bobl i godi tai arnynt, a pharodd hyn liosogiad ar y trigolion. Y cyntaf o'r dyfodiaid hyn, yn proffesu Methodistiaeth, oedd un John Pritchard, yr hwn a ddaeth yma o Lanerch-y-medd; a pharodd ei ddyfodiad gryf hâd yn meddyliau y

ddau eraill i geisio cael pregethu i'r ardal. Felly, cymmerasant dŷ annedd i'r pwrpas crybwylledig; a gelwir y tŷ hyd heddyw yn Gapel bach. Cynnyddodd yr achos yn lled gyflym ar ol hyn, nes y daeth y Capel bach yn rhy fychan. Bellach, yr oedd dau o feibion Ellen Pritchard—John a William—ynghyd â Thomas Jones, Pen gŵydd, a William Jones, o'r Gaer, wedi ymuno â'r tri eraill. Gan fod y Capel bach wedi dyfod yn rhy fychan, adeiladwyd capel newydd ar ryw ran o'r tir ag oedd wedi ei ddosranu. Trwy ddylanwad rhyw wŷr eglwysig, meddir, gorchymynodd boneddwr (os teilwng o'r enw) yr oedd y cyfryw awdurdod yn ei law, dynu y capel i lawr. Ac yn ol y gorchymyn y gwnaed, a chludwyd y pulpud a'r eisteddleoedd i Fynydd Parys; a gwnaed cais ar eu gwerthu mewn arwerthiad cyhoeddus. Ond pan oedd yr arwerthwr yn eu gosod i fyny i'w gwerthu, daeth amaethwr, yr hwn oedd yn byw yn y gymmydogaeth, yn mlaen, ac a waeddodd yn groch, 'Gwyliwch, bobl, a chymmerwch ofal ar eich hoedlau na chyffyrddwch â llestri y deml; cofiwch Belsassar!' Ar hyn, dyrysodd yr arwerthiant, am na cheid neb a'u prynai; a gadawyd hwy i bydru yn y lle. Yr oedd yn y gymmydogaeth ŵr crefyddol, o'r enw Richard William Meredith, yr hwn a aeth at un Mr. Williams, Treban, a chafodd ganddo le i adeiladu capel arall. Wedi cael tir, yr oedd yn anhawdd cael ceryg. Cafodd gan un Mr. Williams, siopwr, o Lanerchymedd, i fyned gydag ef at Mrs. Llwyd, o Lwydiarth, i ofyn caniatâd i godi ceryg ar ei thir; ac wedi iddo adrodd iddi ei drallod, hi a ganiataodd ei ddeisyfiad. Un diwrnod, pan oedd bachgen Henry Jones, o'r Pwll coch, yn cario ceryg ato, cyfarfu y goruchwyliwr âg ef, a gofynodd, 'I ba le yr wyt ti yn cario ceryg?' 'I adeiladu capel newydd, syr, yn lle yr un a dynasoch chwi i lawr,' oedd yr atteb. Dyma fel y ceir hanes helynt y capel yn *Methodistiaeth Cymru*. Teimlem fod rhywbeth yn ddiffygiol yn yr hanes. Yr oeddym yn methu gweled pa fodd y gallai perchen y tir dynu y capel i lawr, os oedd efe wedi rhoddi prydles ar y tir. Ymddengys yr hanes canlynol yn fwy naturiol i ni:—Yr oedd yn anhawdd cael tir yn y gymmydogaeth hon i adeiladu capel, fel yn y

rhan fwyaf o leoedd. O'r diwedd, daeth gŵr yn aelod o'r eglwys oedd newydd gael prydles ar ddarn o dir. Yr oedd y gŵr hwn newydd adeiladu tŷ ar ran o'r tir, ac wedi cau o'i amgylch, o ddeutu erw a hanner. Cynnygiodd i'r cyfeillion crefyddol le i adeiladu capel yn ymyl talcen ei dŷ. Derbyniwyd ei gynnygiad; ac adeiladwyd y capel gyda phrysurdeb; 'canys yr oedd y bobl â chalon ynddynt i weithio.' Ond yr oedd parson y plwyf wedi ffromi yn aruthr, a'r goruchwyliwr hefyd, o herwydd fod y capel wedi ei adeiladu ar ei ystâd. Er hyny, yr oedd pob peth yn myned yn mlaen yn llwyddiannus. Arferid tŷ y gŵr a roddodd y tir fel tŷ capel, o herwydd fod y naill yn gorphwys ar bwys y llall. Rhyw ddiwrnod, yn ffair Llanerchymedd, meddwodd y gŵr crybwylledig, a chynnhyrfodd yr holl ffair; ac mewn canlyniad, dïarddelwyd ef o'r eglwys. Er mwyn dïal ar yr eglwys, o herwydd ei ddïarddeliad, aeth at y goruchwyliwr i'w hysbysu nad oedd y capel wedi ei adeiladu ar ei dir ef; ond ar lain o dir a gauwyd i mewn ganddo yn chwanegol at y mesur a berthynai iddo, ac nad oedd neb yn gwybod hyny ond efe ei hun yn unig. Wedi edrych ar y map, gwelid hyny yn eglur. Y canlyniad o hyn fu, i'r goruchwyliwr alw ar fwnwyr Mynydd Parys i ddyfod gyda'u trosolion i chwalu y capel. Gwnaed hyn mewn ychydig oriau, a chludwyd yr eisteddleoedd i Fynydd Parys, gyda bwriad o'u rhoddi o dan forthwyl yr arwerthwr. Richard William Meredith oedd y gŵr a waeddodd, 'Bobl, edrychwch beth yr ydych yn myned i wneyd!' &c. Y gwaethaf, yn ein barn ni, yn yr helynt hwn oedd, y Methodist twyllodrus a meddw. Dangosodd y gwrthwynebwyr bob parodrwydd i wasgu hyd y gallent ar y Methodistiaid. Cafodd y crybwylledig John Pritchard ei dynu gerfydd ei glust o renc y gwirfoddoliaid yn Amlwch, am iddo esgeuluso myned i'r eglwys y Sabbath. Rheswm y boneddwr a roes y sarhâd arno dros yr hyn a wnaeth ydoedd, 'Yr wyf yn deall dy fod ti yn un o ddysgyblion y Prophwyd Elias,' gan gyfeirio, y mae yn debyg, at y Parch. John Elias. Isel fu yr achos yn y capel newydd dros rai blynyddoedd. Syrthiodd digalondid ar Richard William Meredith, Glas grug bach, nes iddo fyned at y Prophwyd

Elias, i Lanfechell, i roddi pob peth i fyny allan o'i ddwylaw. Ond yn y flwyddyn 1811—12, wedi hirnos dywell, torodd gwawr ar Fethodistiaeth yn y Gorslwyd. Chwanegwyd 'nifer mawr at yr eglwys o'r rhai fyddent gadwedig.' Y fath lawenydd i eglwys Dduw, wedi bod yn ddieppil am dymmhor, ydyw cael bod 'yn llawen fam plant:' —Duw yn llewyrchu ei wyneb arni, fel na ellir dywedyd am dani *Asubah* (gwrthodedig), nac am ei thir *Shemmah* (anghyfannedd); ond y gelwir hi yn *Hephsibah*, a'i thir yn *Beulah*. Yr oedd Seion yn y Gorslwyd, pan oedd yr achos yn isel, ac yn cael ei wrthwynebu mor benderfynol gan y gelynion, yn barod i ddywedyd, 'Yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd.' Ond gofynodd yr Arglwydd iddi, trwy y chwanegiad a gafodd, 'A anghofia gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturia wrth fab ei chroth? ïe, hwy a allant anghofio; etto, myfi nid anghofiaf di. Wele, ar gledr fy nwylaw y'th argrephais; dy furiau sydd ger fy mron yn wastad.' Yn y flwyddyn 1797 y ceir yr eglwys hon gyntaf yn rhestr eglwysi y sir.

Yn y cyfnod hwn, yr oedd llyfr yn perthyn i'r Cyfarfod Misol, yn yr hwn y ceid enwau yr eglwysi, y lleoedd, a'r dyddiadau y cynnelid y cyfarfodydd misol, a swm y casgliadau a dderbynid at yr achosion cyffredinol o'r gwahanol eglwysi, ac enwau y swyddogion. Y mae y llyfr hwn wedi bod yn nwylaw plant, a'r rhai hyny yn ceisio gwneyd math o luniau arno; yr hyn sydd yn brawf nad oedd eu rhïeni yn meddwl dim o hono, neu buasent yn ei gadw allan o'u cyrhaedd. Er hyny, cymmerodd Rhagluniaeth ei ofal drwy y càn mlynedd diweddaf, ac a'i cadwodd yn ddiogel hyd yr amser y byddai *Methodistiaeth Môn* yn cael ei ysgrifenu. Credwn y bydd yn dda gan Fethodistiaid yr oes hon, a'r oesoedd a ddêl, gael crynodeb o gynnwysiad yr hen lyfr hwn. Enw y llyfr ydyw *Coffadwriaethau a Threfniadau Cymmanfa Fisol y Methodistiaid yn sir Fôn.* Yr oedd yr ysgrifenydd cyntaf yn meddu un o'r llawysgrifau prydferthaf a welsom erioed. Credwn mai Owen Owens, Amlwch, ydoedd efe. Y peth cyntaf ynddo ydyw cofnodau o brydlesoedd pedwar capel; sef, Gwaeneura, Amlwch, Tŷ mawr, a'r Aberffraw. Yna,

ceir enwau yr eglwysi—Amlwch, Pen-y-sarn, Tŷ mawr, Waeneura, Llangoed, Llanfair P. G., Llanddaniel, Bryn-siencyn, Niwbwrch, Llangristiolus, Aberffraw, Trewalch-mai, Pentre, Caergeiliog, Caergybi, Llanrhyddlad, Pant-y-coli, a Llanerchymedd. Y Cyfarfod Misol cyntaf sydd wedi ei gofnodi ynddo ydyw yr un a gynnaliwyd yn Aberffraw, Mawrth 25ain, 1787. Swm yr arian a dderbyniwyd ynddo tuag at adgyweirio capel Llangristiolus oedd 11*p*. 7*s*. 6*c*. Yn Nghyfarfod Misol Amlwch, Medi 22ain, 1787, derbyniwyd 5*p*. 15*s*. 1*c*., tuag at adeiladu capelau. Yn Rhagfyr 4ydd, 1787, derbyniwyd ardreth y capelau, 9*p*. 12*s*. 4½*c*. Yn Nghyfarfod Misol Waeneura, Hydref 30ain, 1787, derbyniwyd, i gynnorthwyo Richard Dafydd (yr hen bregethwr, y mae'n debyg), 8*p*. 18*s*. 9*c*. Yn y Pentre, Rhagfyr 4ydd, 1787, derbyniwyd y casgliad chwarterol, 6*p*. 9*s*. 8*c*. Yn Nghyfarfod Misol Beaumaris, Ionawr 1af, 1788, derbyniwyd, at gynnorthwyo y Parch. Mr. Jones, Llangan, a W. Humphrey, 21*p*. 1*s*. 5*c*. Yn Mhen-y-sarn, Chwefror 7fed, 1788, derbyniwyd tuag at adeiladu capel Liverpool, 14*p*. 1*s*. 9*c*. Yn Aberffraw, Mawrth 24ain, 1788, derbyniwyd, tuag at gynnorthwyo O. Owens, Rhoscolyn, 5*p*. 13*s*. 8*c*.; ac at adeiladu capelau, 5*p*. 13*s*. 3*c*. Yn Nghaergybi, Mai 27ain, 1788, derbyniwyd at gynnorthwyo John Lewis, 9*p*. 4*s*. 10*c*.; ac at adeiladu capelau, 6*p*. 16*s*. Yn Llanddaniel, Gorphenaf 22ain, 1788, derbyniwyd tuag at dalu am brydles capel Beaumaris, a'i adgyweirio, ac amryw o achosion bychain eraill, 7*p*. 7*s*. 6*c*. Yn Ngwalchmai, Medi 27ain, 1788, derbyniwyd at achos y capelau, 7*p*. 8*s*. 3*c*. Yn Llangristiolus, Rhagfyr 26ain, 1788, at adeiladu capelau, yr hwn a elwir Casgliad Chwarterol, 7*p*. 9*s*. 10*c*.; a thuag at gynnorthwyo y tlodion, 14*p*. Yn Nghaergeiliog, Ionawr 27ain, 1789, derbyniwyd at dalu ardrethion capelau, neu dai cyfarfodydd, ar hyd sir Fôn, 11*p*. 19*s*. 4*c*. Yn Amlwch, Chwefror 24ain, 1789, tuag at gynnorthwyo a thalu dyledion William Humphrey, 15*p*. 14*s*. 3*c*. Yn Waeneura, Mawrth 24ain, 1789, tuag at Hugh Williams, 5*p*. 0*s*. 7*c*.; ac at y capelau, 7*p*. 14*s*. 7*c*. Yn Aberffraw, Awst 21ain, 1789, tuag at gapelau Llanddaniel, Caergybi, a Llanrhyddlad, 21*p*. 10*s*. 6*c*. A rhanwyd y swm fel y

canlyn:—Llanddaniel, 6*p.*; Caergybi, 7*p.*; Llanrhyddlad, 5*p.* 15*s.* 6*c.*; ac i'r Doctor yn Amlwch, 2*p.* 15*s.* Yn Llanfair, Medi 30ain, 1789, tuag at gynnaliaeth Mrs. Davies, o Gastellnedd, 6*p.* 9*s.* 7*c.*; a'r casgliad chwarterol, 7*p.* 5*s.* 11*c.* Yn Mhentre-bwäau, Hydref 27ain, 1789, derbyniwyd 13*p.* 6*s.* 5*c.* Yn Llanrhyddlad, Rhag. 22ain, 1789, 17*p.* 16*s.* 1*c.* Yr holl gasgliadau a dderbyniwyd yn nghorph y flwyddyn 1789 yn y cyfarfodydd misol oeddynt 125*p.* 4*s.* 10*c.* Y mae hyn yn ddigon mewn trefn i ni gael tryolygiad (*insight*) i mewn i'r gwaith, a'r modd y dygent ef yn mlaen. Cofier mai deunaw eglwys oedd yn gwneyd y swm hwn mewn blwyddyn, a'r eglwysi hyny yn weiniaid, mewn cymmhariaeth, a bod arian yn brin yn y blynyddoedd hyny. Rhaid fod yr eglwysi yn ffyddlawn yn ol eu gallu.

Bu ymosodiad brwnt ar Fethodistiaeth Môn yn niwedd y cyfnod hwn; canys cyhoeddwyd traethodau yn dwyn yr enwau '*Methodism Unmasked,*' gan y Parch. T. E. Owen, parson Llandyfrydog, a'r '*Hints to Heads of Families,*' a 'Chynghor Difrif Periglor i'w Blwyfolion,' gan barson Aber. Yn y flwyddyn 1802, cyhoeddwyd y *Welsh Methodists Vindicated,*' gan Charles, o'r Bala, a Jones, o Ddinbych, a'r 'Gân ar Barson Parys,' gan Twm o'r Nant. Syrthiodd y parsoniaid hyn i ddwylaw eu trech. Yr oedd boneddigeiddrwydd Charles yn eu llorio yn lân. Cyfeiriai at yr ymadroddion chwerwon canlynol:—'*Let us,' said the author of the 'Hints,' 'from the highest to the lowest, avoid all connection with those who have virtually disclaimed all communion with us. Let us show the enemies of our religion neither favour, affection, or encouragement.*' A therfyna Charles drwy ddyfynu dywediad o eiddo yr Esgob Burnet am ymddygiad mwy priodol a Christionogol tuag atynt; sef, '*Out-live, out-pray, and out-preach them.*' I'r hyn y dywedai yntau 'AMEN.' Yr oedd fflangell duchanol Jones yn tori at y gwaed. Ac yn sicr, yr oedd 'Cân Twm o'r Nant' yn fath o fflangell ysgorpionog annioddefol. Dechreuai Twm, mewn cyfeiriad at Fôn, yn yr ymadroddion canlynol:—

'Clywch, hawyr! mae cloch rhywun er sŵn yn erwin sôn,
Yn canu alarwm cynwr, oer fwstwr yn sir Fôn,' &c.

A therfyna gyda'r llinellau canlynol:—

'Offeiriaid Môn a minnau sy'n poeni 'n penau poeth,
Yn atteb yr ynfydrwydd mewn annynadrwydd noeth;
Bydd 'ffeiriad Aber, debyg, yn ddig na chawsai ddarn—
Ni thalai hwn mo'i atteb, cyssondeb careg sarn.'

O herwydd i Elias a Lloyd fyned drosodd i Ddublin i bregethu i'r milwyr Cymreig oedd yno, fe geisiwyd eu cyhuddo iddynt fyned yno i gynnhyrfu y milwyr i godi yn erbyn y llywodraeth, a bygythiwyd eu rhoddi yn ngharchar. Y parsoniaid oedd wrth wraidd hyn etto. Mewn canlyniad, canodd Twm o'r Nant fel y canlyn:—

'Mae hwn o'i felldigedig, wenwynig ryfyg rwyd,
Yn edliw fod Elias, ddull addas gyda Llwyd,
I'r Werddon wedi myned, a rhoi pregethau'n gaeth,
I Gymry oedd yno 'n sawdwyr, a'u troi 'n arswydus waeth;
'Roedd hyny'n gelwydd caled—fe'i profid yn mhob rhan,
Gan y gwrandawyr cyhoedd oedd filoedd yn 'run fan,
Na ddarfu'r ddau bregethwr ddim gweithio math o frâd,
Ond adrodd y gwirionedd am reddf trugaredd râd!'

Yr oedd ynadon y sir, o dan ddylanwad y parsoniaid, yn dra rhagfarnllyd tuag at y pregethwyr Ymneillduol—gyda'r eithriad o ambell un tebyg i Mr. Rowlands, o'r Plas gwyn. Dywedir i Cadi Rondol, pan oedd yn y Plas gwyn yn trin plyf, gael cyfle i ddadleu achos y pregethwyr gyda'r ynad, ac iddi lwyddo i'r fath raddau fel y mynodd efe gael gan ei gyd-ynadon ganiatau trwyddedau i nifer mawr o honynt.

PENNOD VII.

PREGETHWYR YR AIL GYFNOD.

John Jones, Bodynolwyn, ydoedd prif bregethwr y cyfnod hwn. Esgob Methodistiaid Môn ydoedd efe yn ei ddydd—y gŵr mwyaf ei ddylanwad yn y cyfundeb yn yr ynys, a blaenor y Cyfarfod Misol am yr holl amser y bu yn preswylio yn y wlad. Yr oedd pregethwyr y cyfnod cyntaf

yn dechreu heneiddio pan y daeth efe i'r sir, ac nid oedd rhyw lawer o gymmhwysderau ynddynt i lywyddu. O ganlyniad, efe fyddai y llywydd yn mhob Cyfarfod Misol, os byddai yn bresennol. Yr oedd John Jones wedi cael gwell dygiad i fyny, a mwy o fanteision addysg, nag oedd pregethwyr y cyfnod cyntaf wedi ei gael. Dioddefodd y gŵr da hwn raddau o erledigaeth, fel y rhai blaenorol—lluchid tom a cheryg ato ar rai achlysuron; ond cyfrifai hi yn fraint ei fod yn cael ei gyfrif yn deilwng i ddioddef ammharch er mwyn enw Crist. Yr oedd yn hynod am ei ffyddlondeb i gyflawni ei gyhoeddiadau, ac yn fanwl iawn i ddechreu yr addoliad yn yr amser a gyhoeddwyd. Yr oedd yn wrthwynebol i adeiladu capelau o dan ddyled. Rhuai fel llew yn y goedwig yn erbyn hyn. Bu y Parch. William Roberts, Amlwch, yn debyg iddo yn y pethau uchod. Fe allai iddynt attal llwyddiant yr achos trwy fod yn orfanwl yn hyn. Yn sicr, ni ddylid gadael dyled ar gapel, os gellir ei thalu; ond nid ydym yn credu y dylid bod heb gapel os na ellir talu am dano ddiwrnod yr agoriad. Fe allai fod brodyr o'r meddwl a'r teimlad yma yn angenrheidiol i gadw rhai lled ryfygus rhag rhedeg i rhyw ormod rhysedd. Pa fodd bynag, y mae eu hôl ar Fethodistiaid Môn yn hyn hyd heddyw. Y mae Môn yn llawn o gapelau, ac heb fod ond ychydig iawn o ddyled arnynt. Cyfrifid John Jones yn ŵr cywir, fel gwladwr ac fel Cristion: arferai y gair garwaf yn mlaenaf; ond yr oedd yn hynod o hynaws at y truan a'r gorthrymedig. Dywedir fod ei lais, fel pregethwr, yn groch ac yn soniarus, a'i fod ef yn boblogaidd iawn. Bu y gwas defnyddiol hwn i Grist farw yn nghanol ei ddefnyddioldeb, cyn i henaint ammharu dim arno. Nid oedd ond o ddeutu 67ain mlwydd oed pan y bu farw.

John Jones, Amlwch, yr hwn a adwaenid wrth yr enw John Jones, Edeyrn, a fu yn pregethu am rai blynyddoedd yn y cyfnod hwn. Yr oedd yn lled ddigrefydd pan oedd yn 20ain oed. Ond cymmhellwyd ef, rhyw foreu Sabbath, gan ddau ŵr crefyddol i ddyfod gyda hwynt i Ledtroed, i wrandaw pregeth—ac efe a aeth; ac fe ymddengys iddo deimlo argyhoeddiad, ac ymroddodd i wrandaw yr efengyl mewn canlyniad. Dywedir iddo

glywed Catrin Randle (Rondol) yn tyngu, ac iddo ddywedyd wrthi, 'Catrin bach, er mwyn Duw a'ch enaid eich hun, edrychwch beth a ddywedwch;' ac iddi redeg ar ei ol gyda chyllell, gan fwriadu ei niweidio. Gweinidogaeth Dafydd Morris, Tŵr gwyn, sir Aberteifi, a fu yn foddion i'w ddwyn i broffesu Crist. Dechreuodd bregethu yn y fl. 1784, fel yr ydym wedi crybwyll yn y bennod flaenorol. Yr oedd yn bregethwr grymus iawn, a'i ymadrodd yn nodedig o ffraeth; ymollyngai weithiau i wneyd sŵn, neu ystum a fyddai yn cydweddu â'r ffaith a ddarluniai—megys, pan yn llefaru am Pedr yn gwadu, a'r ceiliog yn canu, fe wnai sŵn fel ceiliog. Byddai llawer yn dyfod i wrandaw arno er mwyn difyrwch, fel ar y Parch. John Davies, Nerquis, yn y cyfnodau dilynol. Yr oedd ei weinidogaeth ar y dechreu yn daranllyd; a dywedir i 90 gael eu dychwelyd trwy un bregeth o'i eiddo yn yr Aberffraw. Dywedir iddo gael benthyg ceffyl i fyned o Amlwch i Gyfarfod Misol Niwbwrch; a thaflodd y ceffyl ef i'r ffôs, a rhoddodd iddo gic yn nghroth ei goes: a dywedai na bu yr un dau erioed yn fwy boddlawn i ymadael â'u gilydd nag yr oedd efe a'r ceffyl. Yn mhen tair blynedd wedi iddo ddechreu pregethu, efe a symmudodd o Amlwch i Edeyrn.

Owen Owens, Amlwch, oedd bregethwr call, ond lled sych. Yr oedd wedi cael mwy o fanteision addysg na'r rhan fwyaf o bregethwyr Môn yn y cyfnod hwn; ond gan na pharhaodd i bregethu hyd ddiwedd ei oes, ni a'i gadawn ef yn y fan hon.

Richard Thomas, Amlwch, oedd bregethwr am beth amser; ond diarddelwyd yntau.

Y Parch. John Parry, Caergybi, a ddechreuodd bregethu yn Brynsiencyn—rhyw dair blynedd cyn diwedd y cyfnod cyntaf, ac a symmudodd o'r Bryn i Gaergybi, yn nechreuad yr ail gyfnod, fel y crybwyllasom yn y bennod flaenorol. Mewn perthynas i'w gychwyniad yn Nghaergybi, efe a gofnododd i'r perwyl canlynol:—'Pan ddaethum i Gaergybi, cefais ysgoldy cysurus iawn, ac mewn sefyllfa dra dymunol. Ar y Sabbothau, byddwn yn pregethu yn y dref, ac yn yr addoldai amgylchynol. Ond yn mhen tua phythefnos ar ol dyfod yma, ymaflodd ynof

anwyd trwm iawn, fel y bu gorfod i mi ymgadw yn fy ngwely dros rai dyddiau, a gosod un o'm cyfeillion i gadw yr ysgol yn fy lle. Etto, bûm yn alluog i ddychwelyd at fy ngorchwyl yn lled fuan.' Yr oedd John Parry yn llawn o ysbryd pregethu, a daeth yn ddyn pwysig yn y cyfundeb. Yn y flwyddyn 1830, gosodwyd y *Drysorfa*, misolyn y cyfundeb, o dan ei olygiaeth. Yn sicr, yr oedd meddwl y gŵr da hwn wedi cael mwy o amaethiad na neb fu o'i flaen ef yn Môn. Bu yn pregethu am yn agos i hanner cant o flynyddoedd. Yr oedd yn ŵr o ysbryd rhydd, diragfarn, a thangnefeddus—o dymmher gyfeillgar, yn ddiargyhoedd ei ymarweddiad, yn iraidd o ran ei brofiad ysbrydol, yn bregethwr efengylaidd, eglur, blasus, a defnyddiol, ac yn hynod o adeiladol yn y cyfarfodydd eglwysig. Bu farw yn y fl. 1846, yn agos i 71ain mlwydd oed. Y gŵr hwn oedd y Parch. J. Parry, o Gaer.

John Edwards, o Dre'r Dryw, yn agos i Brynsiencyn, ydoedd bregethwr addysgiadol. Er nad oedd yn hynod o darawiadol o ran ei ddawn ymadrodd; ac er fod ganddo arferiad corphol heb fod yn un o'r rhai harddaf, etto ystyrid fod ei sylwadau yn fuddiol. Attaliwyd iddo bregethu, o herwydd iddo gychwyn ar y Sabbath i Lundain, mewn trefn i fod yno mewn pryd i roddi tystiolaeth mewn llys. Y mae yn ammheus genym a fuasai Methodistiaid Môn, yn yr oes hon, yn ei attal ef am hyny.

Manuel Evans, Ty'nllwyn, oedd bregethwr cymmeradwy iawn. Dechreuodd bregethu yn Amlwch, fel y sylwasom yn y bennod flaenorol. Yr oedd yn llithrig a phert ei ddawn. Bu ychydig o anghydwelediad rhyngddo a'i frodyr cyn terfynu ei dymmor, yr hyn a barai iddo anghysur—rhyw anghydfod rhyngddo â blaenor. Dywedir fod y rhan fwyaf o'r eglwys o'r un farn a Manuel Evans; ond fod y Cyfarfod Misol o'r un farn a'r blaenor. Bu Manuel Evans am beth amser gyda'r Annibynwyr; ond dychwelodd yn ol at y Methodistiaid; ond nid adferwyd ef i bregethu.

William Evans, Aberffraw, oedd bregethwr tra chymmeradwy yn ei ddydd, ac yn un o hynafiaid y Parch. Robert Evans, y cenhadwr, yn Mryniau Cassia. Yr oedd

efe yn bregethwr lled boblogaidd. Ei weinidogaeth yn Nghemmaes bach a fu o fendith i Lloyd, Beaumaris. Efe a fu yn pregethu gyntaf yn hen ystordy York street, Manchester, yn Hydref, 1796. Bu farw yn nhŷ capel Gwalchmai.

Thomas Jones, Llanddaniel, oedd bregethwr gyda'r Methodistiaid am dymmor. Dechreuodd bregethu yn Amlwch; ond diweddodd ei oes gyda'r Annibynwyr.

Richard Morris, Llanfair P. G., oedd bregethwr defnyddiol. Daeth i Lanfair yn y fl. 1785, i gadw ysgol. Yn y fl. 1794 y dechreuodd bregethu. Daeth pymtheg i'r eglwys noswaith ei gladdedigaeth, gan ddywedyd iddynt gael lleshâd trwy ei weinidogaeth. Bu ar gyhoeddiad gyda'r Parch. John Parry, Caergybi ar y pryd, trwy amryw o siroedd Gogledd Cymru. Bu farw yn y fl. 1814, ac nid yn y fl. 1824, fel y dywed *Methodistiaeth Cymru.*

Edward Jones, Pen-dre, ac wed'yn o Maen Eryr, oedd bregethwr ffyddlawn. Nid oedd yn rhagori mewn dawn, ond yr oedd yn enwog mewn duwioldeb. Sicrheir na thorodd gyhoeddiad erioed, ac iddo barhau i bregethu nes yr oedd dros 80ain mlwydd oed.

Y Parch. William Lloyd, Rhoscolyn, oedd hardd yn ei berson, yn siriol ei dymmher, ac yn foneddigaidd ei foes; ond yr oedd efe ar y dechreu yn amddifad o gymmhwysderau gweinidogaethol, fel yr oedd y rhan fwyaf o'i frodyr yn yr Eglwys Sefydledig yn Môn. Cafodd argyhoeddiad mewn ffordd ryfedd iawn. Digwyddodd fod 'gwledd bedydd' yn nhŷ rhyw foneddwr ar y Sabbath. Cafodd fenthyg ceffyl i fyned i'r wledd. Ar ei ddychweliad gartref, yn lled hwyr, gorchymynodd i'r gwas roddi llyffethair am draed y ceffyl. Ond wedi i'r gwas sicrhau un egwyd i'r anifail, fe ddiangodd o'i afael cyn iddo sicrhau yr egwyd arall. Yr oedd y gadwen, bellach, yn rhwym gerfydd un pen wrth yr anifail; yr hwn, trwy ei fod yn rhedeg yn wyllt, a gurid yn arswydus gan y gadwen, nes ei archolli yn drwm. Teimlodd Lloyd yn fawr mewn canlyniad; a dechreuodd feddwl mai yr achos o'r digwyddiad oedd toriad y Sabbath—gwledda ar ddydd yr Arglwydd o dan esgus ordinhâd grefyddol. Deffrodd ei gydwybod i bwrpas. Yn y cyfamser, efe a ddaeth yn

gydnabyddus â hen ŵr duwiol yn Rhoscolyn, yr hwn oedd yn Fethodist, ac a'i harweiniodd at y Ceidwad; ac yna cafodd orphwysdra i'w enaid. Bellach, yr oedd yn ddyn newydd yn y pulpud, ac yn bregethwr newydd—a phob peth yn newydd. Wedi iddo ddyfod yn ddyn byw, y mae yn anadlu anadl einioes yn yr holl wasanaeth. Swynai dyrfaoedd i wrandaw arno i'r llanau cyn iddo ymuno â'r Methodistiaid. Derbyniwyd ef yn Fethodist yn eglwys Caergeiliog—y fam eglwys—ac ymgyflwynodd i'r Cyfarfod Misol. Dymunwyd arno gan y frawdoliaeth yn y sir lwyr ymroddi i'r gwaith, gan sicrhau iddo na byddai arno eisieu dim. Yn Nghyfarfod Misol Llanrhyddlad, Mai 23ain, 1808, penderfynwyd talu am fwrdd y Parch. W. Lloyd, 20*p*. yn y flwyddyn. Ond yn mhen peth amser, dewisodd ymaflyd mewn galwedigaeth fydol, a phregethu ar y Sabbothau. Aeth i Gaernarfon i gadw ysgol, a bu yno am o naw i ddeng mlynedd. Wedi iddo briodi, rhoddodd yr ysgol i fyny, ac ymroddodd i bregethu. Bu farw Ebrill 16eg, 1841.

PENNOD VIII.

Y PERSONAU MWYAF HYNOD YN MYSG METHODISTIAID MON YN YR AIL GYFNOD.

Griffith Edward, o'r Clafdy, oedd flaenor gwasanaethgar iawn, nid yn unig i eglwys yr Aberffraw, ond hefyd i eglwysi Methodistaidd y sir. Dywedir ei fod yn flaenor cyn iddo ddyfod i'r Aberffraw, sef yn Llangoed. Galwyd ef at grefydd pan oedd tua deunaw mlwydd oed; ac y mae yn ymddangos iddo weithredu fel blaenor, neu henuriad, cyn cael ei alw yn rheolaidd i'r swydd, fel y dechreuodd rhai bregethu heb fyned o dan unrhyw arholiad. Bu farw yn y fl. 1847, yn 86ain mlwydd oed, wedi gwasanaethu y swydd o flaenor yn dda dros wyth-a-thrigain o flynyddoedd. Yr oedd wedi dechreu felly yn y cyfnod

cyntaf. Arferai ddywedyd ei fod yn hynach na Chyfarfod Misol Môn. Bu ei dŷ hefyd yn lletty i'r pregethwyr am drigain mlynedd. 'Da, was da a ffyddlawn!'

John Hughes, o'r Allt, a William Hughes, o'r Hen dŷ, Niwbwrch, a fuont yn arolygu yr achos yn Niwbwrch, gyda Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid, am 30ain o flynyddoedd. Dywed *Methodistiaeth Cymru* fod cymmhwysder yn y naill i lenwi diffyg y llall:—'Thomas Williams fyddai yn dal, William Hughes yn blingo, a John Hughes yn meddyginiaethu.'

Rice Hughes, o Bodafon, ydoedd flaenor parchus. Yr oedd canfod gŵr o gyfreithiwr yn arddelwi cyssylltiad â'r Methodistiaid, yn wylo fel y gwlaw ac yn toddi fel y cŵyr o dan y pregethau, yn olygfa anghyffredin ar y pryd. Yr un gŵr ydyw efe ag a fu yn byw yn Nhrefeirwydd, ac a fu yn ysgrifenydd cyfreithiol Dinam, ac a gollodd ei le o herwydd iddo ddyfod yn Fethodist. Cafodd Rice Hughes le gyda Mr. Williams, Llanidan. Ymddengys ei fod yn fedrus gyda'i bin, ac yr arferai Mr. Williams ddywedyd, 'Rice a'i bin, a Goodman a'i ben, ac nid ofnaf, gyda hwy, na dyn na d—l.' Byddai yn arfer pregethu ychydig. Bu farw yn y fl. 1794, yn 42ain oed.

Owen Jones, Cwyrt, wedi ei ymlid o Leyn, a sefydlu yn Môn, a ymroddodd o ddifrif i wasanaethu crefydd yn ei ffurf Fethodistaidd. Cyssegrodd ei amser, ei ddawn, ei dŷ, a mesur helaeth o'i feddiannau, at achos y Gwaredwr. Fel y crybwyllasom yn y chweched bennod, efe oedd cynnrychiolydd Môn yn y gynnadledd bwysig o berthynas i'r neillduad cyntaf a fu ar weinidogion i'r cyfundeb; yr hyn oedd brawf arbenig o'r cyfrif a wneid o hono gan y Cyfarfod Misol. Ni fynai rhai o'r brodyr yn y gynnadledd neillduo ond un i sir Fôn; ond fe fynai Owen Jones gael dau, a bu gryn ddadl ar hyny; ond o'r diwedd, gofynwyd iddo a foddlonai efe i farn y Parch. Thomas Charles. 'Gwnaf,' ebai yntau, 'ond i mi gael gosod y mater o'i flaen ef fy hun.' Caniatawyd hyn iddo; felly, aeth ef a brawd arall at Charles. A'r canlyniad fu, iddo ennill y gŵr enwog hwnw i'r un golygiad ag ef ei hun. Gwrandawai bob Sabbath y byddai gartref mewn tri chapel; sef, yn Llanddaniel (Gaerwen), Brynsiencyn, a

Niwbwrch; o blegid yr oedd y tri lle yn daith Sabbath. Y mae yn rhaid, felly, y teithiai tua phymtheng milldir bob Sabbath. Trwy ei ffyddlondeb a'i egni ef, i raddau mawr, yr adeiladwyd capel yn Mrynsiencyn. Treuliodd tuag 28ain o flynyddoedd yn Môn. Gobeithiwn y gwna ein prif flaenoriaid yn Môn, yn yr oes hon, ddysgu rhyw un wers neillduol oddi wrth y blaenor ffyddlawn hwn. Ni nodwn allan y wers; ond gadawn iddynt hwy gael y pleser o'i darganfod hi. Yr oedd y gŵr hwn yn daid i Syr Hugh Owen, Llundain.

Griffith Owen, Caergybi, a fu yn flaenor ffyddlawn a defnyddiol iawn. Mewn undeb âg eraill o'i gyd-weithwyr, rhoddodd ysgogiad chwanegol i Fethodistiaeth yn ei flaen yn Nghaergybi. Bu yntau yn dra llettygar i bregethwyr [gwel y chweched bennod.] Daeth i Fôn yn y flwyddyn 1789, a bu farw Chwefror 12fed, 1836, yn 73ain mlwydd oed, wedi bod yn flaenor am tua 47ain o flynyddoedd.

Edward Elias, Plas-yn-glyn, oedd flaenor parchus yn Llanfwrog. Yr oedd yn daid i O. Elias, y Glyn, Bodafon.

Owen Lewis, Fferam isaf, Llanbabo, oedd flaenor yn Bethlehem, Careg lefn, ac yn un o'r dynion duwiolaf yn Môn. Bron na ddywedwn ei fod yn ddiarebol dduwiol. Ni allesid defnyddio iaith gryfach yn y plwyf i osod allan hynodrwydd dyn mewn duwioldeb na dywedyd—'Y mae efe mor dduwiol ag Owen Lewis, Fferam isaf.' Yr oedd efe yn ŵr mawr ei ddylanwad yn y Cyfarfod Misol. Dywedir iddo alw y Parch. John Elias i gyfrif am ddefnyddio penau yn ei bregeth. Tybiai yr hen flaenor parchus fod y fath ddull yn arogli o gnawd. 'Cynghori' y gelwid pregethu gwŷr heb urddau eglwysig y pryd hwn. Yr hen 'offeiriaid' Methodistaidd oedd i bregethu, ac i ddefnyddio penau yn y bregeth, a phawb eraill i 'gynghori.' Cymmerodd hyn le yn lled fuan wedi i Elias ddyfod i Fôn. Derbyniodd y pregethwr y cerydd yn garedig, a cheisiodd argyhoeddi y blaenor o fuddioldeb defnyddio penau mewn pregethau. Yr oedd Jane, gwraig Owen Lewis, yn un hynod mewn crefydd, fel ei gŵr. Yr oeddynt, fel Zechariah ac Elizabeth, 'ill dau yn gyfiawn.' Nis gwyddom pa flwyddyn y bu efe farw.

William Owen, Chwaen wen, neu Gwilym Alaw, oedd lenor lled wych, ac ystyrid ef yn fardd. Fel gwladwr, cyfrifid ef yn ddyn gwybodus a defnyddiol. Fel crefyddwr, yr oedd yn dalentog, ac yn dduwinydd galluog. Byddai Charles, o'r Bala, yn gwneyd sylw mawr o hono pan y deuai trwy y sir, ac yn gofyn cwestiynau iddo mewn cymdeithasfaoedd. Yr oedd wedi darllen llawer, a chyfansoddi ychydig o ddarnau bychain cymmeradwy. Yn eglwys Ty'n-y-maen y gweinyddai fel blaenor. Y mae yn wir ddrwg genym ddywedyd i gymmylau duon ddyfod dros William Owen. Gorchfygwyd ef gan y ddïod feddwol, a dyrysodd yn ei amgylchiadau bydol, y rhai a fu unwaith yn llwyddiannus. Yn Nghaergybi y treuliodd flynyddoedd diweddaf ei oes. Cofus genym ei weled yno pan oeddym yno yn yr ysgol, a'i fod yn dilyn y cyfarfodydd eglwysig; ond yr oedd yr eglwys yn gwrthod ei dderbyn yn gyflawn aelod, o herwydd ei fod yn gwrthod dyfod yn llwyr-ymwrthodwr oddi wrth y diodydd meddwol.

Richard Bulkeley, Hen dŷ, Llanfihangel, oedd flaenor yn Llangoed, yn yr ail gyfnod. Yr oedd y blaenor hwn yn hynod mewn duwioldeb, o feddwl cryf, ac yn ddarllenwr mawr. Byddai yn myned yn fynych i gadw cyfarfodydd eglwysig i wahanol ardaloedd. Yr oedd yn fedrus iawn i drin dynion mewn anghydfod. Anfonodd y Parch. R. Lloyd ef i ymweled âg eglwys lle yr oedd yr anghysur hwn. Wedi iddo glywed y ddwy ochr, dywedodd, 'Y mae yn Llanfihangel acw wartheg â chyrn mawr, hirion, ganddynt—ond cyrph bychain, a'r peth goreu a allant wneyd ydyw cornio eu gilydd; a'r rheswm fod eu cyrn mor hirion yw, eu bod yn pori ar dir gwael. Felly yr ydych chwithau, y mae yn bur amlwg—eich cyrn yn bur hirion—ac y mae hyny yn dangos eich bod yn pori ar dir gwael. Pe baech yn pori mwy yn meusydd breision y Gair Sanctaidd, fe fyddai eich cyrn yn llawer byrach, a byddai llawer gwell golwg ar eich ysbryd.' Bu y gŵr da hwn fyw am rai blynyddoedd yn y trydydd cyfnod. Bu farw cyn y fl. 1831.

Hugh Jones, Tyddyn melus, Capel coch, oedd flaenor yn meddu llawer o hynodrwydd. Y peth cyntaf a wnai

yn y cyfarfod eglwysig fyddai myned, yn y gauaf, gyda chanwyll yn ei law, drwy y gynnulleidfa, i edrych pwy fyddai yn bresennol, ac yn absennol. Byddai yn gofyn i'r holl absennolion o'r cyfarfod blaenorol beth oedd yr achos o'u habsennoldeb; ac os na byddai ganddynt reswm digonol i'w foddhau ef, byddai yn eu ceryddu yn llym. Yr oedd John Lewis, Tŷ mawr, yr hwn a fu yn flaenor ffyddlawn yma yn y cyfnod dilynol, yn ŵr ieuangc, wedi cael pâr o ddillad newydd, yn cynnwys clôs pen glin, hosanau gleision, ac esgidiau yn meddu byclau gloewon; a rhyw ddiwrnod, daeth Hugh Jones ato ef, a dywedodd wrtho ei fod yn friwedig iawn o herwydd y dillad newydd oedd ganddo—eu bod yn hollol anweddus i grefyddwr. Bu raid i John Lewis eu gwisgo pan na welai yr hen flaenor hwy. Un noswaith, yn y cyfarfod eglwysig, aeth at wraig ieuangc, gŵr yr hon oedd yn gweithio ar un o ffermydd y gymmydogaeth, a dywedodd wrthi ei fod wedi clywed iddi brynu *set* o lestri tê, yr un fath ag eiddo ei meistres; a charai gael gwybod a ydoedd yr hyn a glywodd yn wir, ai nad oedd? Yr attebiad oedd, ei fod yn wir. A chafodd wers dda o herwydd ei balchder. Yr oedd efe yn byw yn y rhan olaf o'r ail gyfnod, a'r rhan flaenaf o'r trydydd. Bu farw o ddeutu y fl. 1826.

John Owen, Plas Llangwyfan, oedd ŵr galluog yn y byd, yn barchus fel gwladwr, ac yn ŵr dichlynaidd a hardd fel crefyddwr. Cafodd wrthwynebiad cryf oddi wrth ei wraig, yr hon oedd yn dra gelynol at y Methodistiaid. Ymdrechai i'w attal i'r cyfarfodydd. Unwaith y gwelwyd hi yn plygu ei gliniau ar amser y ddyledswydd deuluaidd; sef, pan oedd tymmhestl o fellt a tharanau. Ond ar ol i'r ystorm fyned heibio, yr un un ydoedd hi—os nad gwaeth. Un tro, fel yr oedd hi yn ei flino ef, galwodd John Owen ar y gwas i ddwyn y ceffyl wedi ei gyfrwyo iddo at y drws. Aeth ar ei gefn, fel un parod i daith, a galwodd ar ei wraig ato, gan ddywedyd—'Wel, Annas, yr wyf yn barnu ein bod yn llawer tebycach i fod yn felldith i'n gilydd nag yn fendith. Yr wyf wedi penderfynu mai gwell bod mewn congl ar nen tŷ, nag mewn tŷ mawr ëang, gyda gwraig anynad; ac felly, yr wyf yn ffarwelio â thi heno am byth! Y mae yn well genyf

ymadael â thi nag â chrefydd Iesu Grist!' Dychrynodd yn ofnadwy. Torodd allan i wylo; a chyda dagrau, ymbiliodd arno i beidio ei gadael. 'Disgynwch, John Owen bach, ac ni ddywedaf air wrthych yn erbyn eich crefydd byth!' meddai—a chadwodd ei haddewid.

Robert Pierce a Thomas Williams, Ty'n-y-merddyn, a fuont yn flaenoriaid ffyddlawn yn y cyfnod hwn. Dewiswyd y blaenaf yn 1775, bum blynedd cyn diwedd y cyfnod cyntaf; ac yn y fl. 1781 y daeth yr olaf o Bentrebwäau i Dy'n-y-merddyn. Yr oedd Thomas Williams yn un o flaenoriaid y cyfnod cyntaf. [Gwel y drydedd a'r bummed bennod.] Y mae gŵr o'r enw William Owen, yr hwn a fu gyda'r brodyr, rhwng Ty'n-y-merddyn a'r capel, tua 60ain o flynyddoedd; a John Jones, y Cefn, yr hwn a gafodd y fraint o gydweithio â'r gŵr da hyn, trwy ddechreu y canu, cyhoeddi yr odfeuon, a gofalu am geffylau y pregethwyr, am fwy na deugain mlynedd, yn deilwng o goffhâd.

John Roberts, Erw Ddraenog, oedd yn gyd-henuriad â Rice Hughes, Bodafon. Yr oedd y blaenaf yn ddisglaer mewn duwioldeb, ac yn meddu dawn nodedig mewn gweddi. Yr oedd hefyd yn brydydd canmoladwy. A thrwy y naill dalent a'r llall, ond yn benaf trwy ei ysbryd iraidd a'i weddïau gwlithog, ennillodd barch a dylanwad mawr. Diweddodd ei oes yn Brynsiencyn.

Evan Thomas, Amlwch, a fu yn gwasanaethu achos yr efengyl yn mhlith y Methodistiaid am yr ysbaid o 60ain o flynyddoedd. Gwel y chweched bennod.

John Thomas, Llanfwrog, oedd ddyn cyflawn iawn, yn feddiannol ar synwyr cyffredin cryf, meddwl bywiog, barn addfed, ac yn Gristion cywir—'yn Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd twyll.' Gwel y chweched bennod.

Elinor Williams, neu Elin Dryhurst, a fu byw am un mlynedd ar ddeg yn yr ail gyfnod. Yn y cyfnod cyntaf, yn Mhentre-bwäau yr oedd Thomas a hithau yn byw. Yn y fl. 1781, daethant i fyw i Dy'n-y-merddyn, Caergeiliog—tyddyn o'u heiddo eu hunain. Yr oedd y chwaer hon yn parhau yn hynod yn yr ail gyfnod, fel yn y cyfnod cyntaf. Dywed *Methodistiaeth Cymru* ei bod hi yn un o wragedd hynotaf ei hoes. Yr oedd hi megys Miriam

yn y gwersyll, neu fel Deborah, yn fam yn Israel. Gelwid arni yn fynych i weithredu yn gyhoeddus. Cafodd gŵr o'r enw Robert Jones, Cae'r-ddol, ar ei feddwl i bregethu heb ond ychydig o gymmhwysderau i'r gwaith. Rhyw noswaith, daeth achos y brawd o dan sylw yr eglwys; a gofynodd Elinor Williams iddo, 'At bwy y mae dy genadwri di?—ai at y byd, ynte ai at yr eglwys.' 'At yr eglwys,' oedd yr attebiad. 'O'r goreu,' ebe hithau, 'wele gyfleusdra i ti ei thraddodi. Dôs ar dy draed ar y dimpan yna, a gâd i ni ei chlywed.' Ufuddhaodd Robert i'r gorchymyn; ond tywyllodd a dyrysodd ei feddyliau, a chafwyd llonydd ganddo am byth. Dychwelodd Elinor Williams i Bentre-bwäau i ddiweddu ei hoes.

Mrs. Edwards, gwraig Griffith Edward, Clafdy, oedd o'r un ysbryd caredig a'i gŵr. Y mae'n sicr fod gweithredoedd da y teulu hwn yn eu canlyn i'r byd arall.

Mrs. Jones, Bodynolwyn, ynghyd â gwraig Pen-dre, gwraig Ty'n-y-maen, gwraig Plas-yn-glyn, gwraig Aberalaw (sef, mam Dr. Roberts, Mynydd-y-gôf, a John Roberts, Caergybi), a gwraig Chwaen wen, oeddynt yn mhlith chwiorydd hynod y cyfnod hwn am eu defnyddioldeb a'u llettygarwch.

Catrin Rondol, yr hon oedd yn preswylio ger Amlwch, oedd fenyw dda a duwiol, a thra adnabyddus yn yr holl sir. Ymddengys fod Catrin mor hynod yn ngwasanaeth yr un drwg, cyn iddi gael tröedigaeth, ag ydoedd yn ngwasanaeth Duw wedi cael tröedigaeth. Y mae rhai yn sicr o fod ar y blaen, pa ochr bynag y byddant, fel Saul o Tarsus. Cyn ei dröedigaeth, yr oedd yn arch-gablwr ac yn arch-erlidiwr; ond wedi hyny, yr oedd yn arch-apostol. Yr un modd Catrin Rondol. Cyn cael crefydd, tyngai a rhegai yn arswydus [gwel y seithfed bennod]; ond wedi iddi gael crefydd, yr oedd yn un o'r rhai hynotaf mewn duwioldeb o'i rhyw. [Gwel y chweched bennod.] Byddai yn tori allan, weithiau, mewn cân a moliant. Gwaeddodd allan, unwaith, yn yr oedfa—'Os yw yr eples yn rhedeg dros y badell, beth yw hyny i ti, ddiafol? Ai nid fy eiddo i ydyw—ac nid dy eiddo di?' Credai Catrin fod y diafol yn ei haflonyddu yn yr oedfa trwy ddywedyd fod yr eples yn rhedeg dros y badell.

Anne Williams, Plas Goronwy, merch Michael Thomas, Garnan wen, a mam y Parch. William Williams, Tŷ calch, ydoedd wraig rinweddol, a helaeth o ran ei gwybodaeth a'i phrofiad crefyddol.

Elizabeth Prytherch, merch John Rowlands, o'r Dyffryn, a gwraig y Parch. John Prytherch, a ddewisodd adfyd pobl Dduw, pan yn ieuangc, o flaen mwyniant pechod dros amser; a bu ei rhodiad yn addas i'r efengyl hyd ei marwolaeth. Cymmaint oedd ei henwogrwydd mewn crefydd fel y byddai yn ofalus am gadw dyledswydd deuluaidd yn mysg ei theulu lliosog bob boreu a hwyr pan y byddai ei gŵr oddi cartref.

Elizabeth Pritchard, Caergoll, Llandrygarn, a anwyd yn Neuadd, Coedana. Merch i William ac Anne Thomas ydoedd. Wedi marw ei thad, priododd ei mam â Lewis Jones, Tŷ mawr, Llanfihangel Tre'rbeirdd. Yr oedd cynnulleidfa fechan o Fethodistiaid yn Nghae-maes-gafr, ac arferai hithau fyned yno; yr oedd ei thad-yn-nghyfraith a'i mam yn wrthwynebol iawn iddi, o blegid Eglwyswyr oeddynt hwy; ond ni pharhaodd eu gwrthwynebiad yn hir. Hwn yw y Lewis Jones a ganiataodd dir i adeiladu Capel Coch, am yr hwn y crybwyllasom yn flaenorol. Priododd y ferch hon â Morris Jones, ger Amlwch; ond bu ef farw yn fuan, a phriododd William Pritchard, ac aethant i fyw i Caergoll. Deuent am hir amser i Lanerchymedd i addoli; ar ol hyny, aethant i Pentrebwäau. Wedi adeiladu Capel Seion, yn y fl. 1817, gadawodd yn ei hewyllys anrheg iddo. Daeth at Fethodistiaeth pan oedd yn 19eg mlwydd oed. Bu farw Hydref 23ain, 1849, yn 92ain mlwydd oed. Rhaid, felly, ei bod hi wedi ymuno â'r Methodistiaid yn y fl. 1757.

PENNOD IX.

METHODISTIAETH YN CYNNYDDU YN MON.—Y TRYDYDD CYFNOD.

Yr ydym yn dechreu yn y bennod hon ar y cyfnod mwyaf llwyddiannus ar Fethodistiaeth yn Môn; sef, cyfnod y Parch. John Elias. Edrycha *Methodistiaeth Cymru* ar y cyfnod hwn yn dechreu yn nechreuad y ganrif bresennol, gyda dyfodiad Elias i'r sir; ond gan i John Jones, Bodynolwyn, fyw am ryw dair neu bedair blynedd ar ddeg wedi i Elias ddyfod yma, a chan iddo barhau yn ei ddylanwad hyd ei farwolaeth, yr ydym yn tueddu i edrych ar gyfnod John Jones yn diweddu yn ei farwolaeth, a chyfnod Elias yn dechreu yr un amser. Y mae yn wir fod Elias wedi dechreu ar ei waith llwyddiannus pan y daeth i Fôn; ond nid ydym yn ewyllysio taflu yr hen Fodynolwyn o'i esgobaeth i wneyd lle i Elias hyd nes y teflir ef gan angeu. John Jones oedd yr esgob mewn gwirionedd hyd ei farwolaeth. Dywedir fod Elias yn traethu yn y Cyfarfod Misol ar ryw bwngc, ac i John Jones ddywedyd ei fod yn gyfeiliornus, ac i Elias, mewn amddiffyniad, ddywedyd fod Burkitt yn dywedyd fel y dywedodd ef; ac i John Jones ddywedyd—'Ni waeth genyf fi beth a ddywed dy Farcud di.' Bu William Lewis, Glasinfryn, a Richard Morris, Llanfair P. G., fyw am rai blynyddau yn y cyfnod hwn. Yr oedd prif bregethwyr y cyfnod wedi dechreu pregethu yn yr un blaenorol. Dechreuodd y Parch. Richard Lloyd bregethu yn y fl. 1794; rhaid, felly, ei fod wedi cydoesi â John Jones am yn agos i ugain mlynedd. Daeth Elias i Fôn yn y fl. 1799; rhaid ei fod yntau wedi cydlafurio âg ef am o ddeutu pedair blynedd ar ddeg. Dechreuodd y Parch. Cadwaladr Williams bregethu yn y fl. 1804; felly, cafodd yntau gydoesi âg ef am o ddeutu naw mlynedd. Dechreuodd y Parch. John Prytherch bregethu yn y fl. 1806; rhaid ei fod yntau wedi cydweithio âg ef am o ddeutu saith mlynedd. Dechreuodd y Parch. William Roberts, Amlwch, bregethu yn y flwyddyn 1807; yr oedd, felly,

wedi dechreu chwech neu saith mlynedd cyn marwolaeth John Jones. Dywedir y byddai y diweddaf â'i lygaid ar Elias a Lloyd fel y ddau ŵr penaf a fyddai yn arweinyddion y cyfundeb yn Môn wedi ei farwolaeth. Yr ydym yn galw y cyfnod hwn yn un llwyddiannus o blegid y cynnydd mawr a fu ar Fethodistiaeth ynddo. Pan y daeth Roberts, Amlwch, i berthynas â Chyfarfod Misol Môn, a hyny rhyw chwech neu saith mlynedd cyn diwedd y cyfnod blaenorol, nid oedd gan y Methodistiaid yn Môn ond 24 o gapelau, a thua 27 neu 28 o gymdeithasau eglwysig; ac felly, yr oedd rhai o honynt yn gorfod ymgynnull mewn tai annedd, neu mewn ysguboriau.

Y mae yn arferiad yn mysg y Methodistiaid yn Môn i anfon ymwelwyr i edrych ansawdd yr eglwysi; ac yr ydym ninnau yn cychwyn i'n taith ymweliadol. Dechreuwn yn

Llanrhyddlad, lle y mae y Parch. John Elias—esgob Methodistiaid Môn yn y cyfnod hwn—yn aelod eglwysig. Adeiladwyd y capel, fel yr oedd hyd ddiwedd y cyfnod hwn, yn yr un flwyddyn ag y daeth Elias yn aelod o'r eglwys ynddo. Gwêl y chweched bennod. Cynnaliwyd moddion yn y capel hwn am ysbaid maith—nid llai na 41 o flynyddoedd. Yn y fl. 1840, ail adeiladwyd ef, a gwnaed ef yn gapel cyfleus. Yn y fl. 1801, rhyw ddwy flynedd wedi dyfodiad Elias i'r gymmydogaeth, wythnos cyn y Pasc, darfu i amryw o drigolion cymmydogaeth Llanrhyddlad ddysgu coeg-chwareu (*interlude*), pob un ei ran bennodol o honi, gan fwriadu ei chwareu ar ddydd Llun y Pasc ar esgynlawr (*stage*) cyhoeddus. Clywodd Elias am eu bwriad; a'r Sabbath cyn y Llun, pregethodd yn erbyn yr arferiad annuwiol gyda'r fath nerth oddi ar ail adeiladu Iericho (*Ios.* vi. 26), nes yr oedd yr holl gynnulleidfa mewn braw a dychryn mawr. Aeth y bobl oedd wedi dysgu y coeg-chwareu i'w cartrefi ar frys, llosgasant eu llyfrau, ac ni fu sôn byth mwy am gynnal y fath chwareuyddiaeth yn y gymmydogaeth. Arferai trigolion Llanfair-yn-Nghornwy ymgasglu at eu gilydd ar Sabbath y Sulgwyn i losgi nyth y gigfran, yr hon a arferai nythu bob blwyddyn ar ysgythredd craig serth, a elwir y 'Gadair.' Gwneid hyn ar y dŷb fod yn y nyth gywion ar

y pryd. Rhwyment â thrês haiarn rhyw swp enfawr o eithin a grûg; ac wedi ei danio, gollyngent ef i waered wrth gadwen, ac yna tynent ef i fyny at y lle; ac yn nghanol banllefau y fintai, rhoddid y nyth ar dân, a llosgid y cywion a fyddent ynddo. Er saled y difyrwch, etto ymgasglai tyrfaoedd lliosog i'r lle; ac yn y diwedd, ymosodai yr ynfydion ar eu gilydd, a rhuthrent y naill ar y llall mewn ymladdfeydd gwaedlyd. Penderfynodd Elias wneyd cais ar ddarostwng yr anfadrwydd uchod. Aeth yno, a phregethodd yn erbyn halogiad dydd yr Arglwydd, a chyhoeddodd waeau arswydlawn y Beibl yn erbyn halogwyr y Sabbath, nes llenwi yr euogion â braw; a rhoddwyd heibio yr arferiad am byth. Y mae yr hanesion hyn ar lafar gwlad pan yr ydym yn ysgrifenu. Yr oedd yn Llanrhyddlad henuriad ffyddlawn a pharchus, o'r enw John Jones. Y mae yma gladdfa mewn cyssylltiad â'r capel, a gweddillion yr hen flaenor crybwylledig a gladdwyd ynddi gyntaf. Yr oedd William Owen, Ysgubor-onwy; Richard Parry, Llanfflewyn; a John Hughes, Pedair Croeslon, yn flaenoriaid yn yr eglwys hon yn y cyfnod hwn. Bu Llanrhyddlad, Mynydd Mechell, a'r Gareg lefn, yn daith Sabbath am rhyw dymmor. Yr oedd yn perthyn i Lanrhyddlad ddwy gangen ysgol yn y cyfnod hwn—un yn Llanfair-yn-Nghornwy, a'r llall yn Nghemlyn. Dechreuodd y gyntaf mewn tŷ o'r enw Erw caws, o ddeutu y fl. 1819. Pregethid yn achlysurol yma ar nos Sadyrnau, ac mewn dau dŷ arall a elwid Pen-y-graig a Hendy. Y dynion mwyaf blaenllaw gyda'r ysgol oeddynt William Owen, Ysgubor-onwy (un o flaenoriaid eglwys Llanrhyddlad, a dyn gwir dduwiol); Roger Jones, gôf; Griffith Pritchard, Hendy; William Williams, Mynydd Ithel; John Hughes, Tŷ Croes; ac Evan Thomas, Tŷ Wian. Tua'r fl. 1839, adeiladwyd capel bychan, a galwyd ef Salem. Yn Nghemlyn yr oedd yr ysgol arall —cymmydogaeth o ddeutu dwy filldir i'r gogledd-orllewin o Gemmaes. Cyn sefydliad Ysgol Sabbothol yma, ymgasglai y trigolion ar y Sabbothau ar ddwy bongc i chwareu gwahanol gampau. Dechreuodd yr Ysgol Sabbothol yma tua'r fl. 1817, mewn tŷ o'r enw Taldrwst. Symmudodd oddi yno i Nanner bach, a thrachefn

i Tyddyn Sydna; ac o herwydd nad oedd y lle diweddaf yn ganolog, ac felly yn gyfleus i'r holl gymmydogaeth, sefydlwyd cangen ysgol yn Caerdegog. O ddeutu y fl. 1829, adeiladwyd ysgoldy, neu gapel bychan, ar un o'r ddwy bongc lle yr ymgasglai y trigolion, rhyw ddeuddeg mlynedd cyn hyn, i chwareu ar y Sabbothau. Y prif ddynion gyda'r Ysgol Sabbothol ar ei chychwyniad yma oeddynt Owen Williams, Caerdegog; William Williams, Mynydd Ithel; a Robert Hughes, dyrnwr, Cafnan. Byddai dau frawd o Gemmaes yn dyfod yma i gynnorthwyo; sef, William Roberts, Ty'n-yr-allt; a Lewis Roberts, dilledydd. Pan y dechreuwyd pregethu rheolaidd yma, cyssylltwyd ef â Llanrhyddlad ac â Llanfair-yn-Nghornwy.

Cemmaes.—Gadawsom y lle hwn yn y cyfnod blaenorol gyda bod capel bychan wedi ei adeiladu yn y pentref yn y fl. 1786, a'r gynnulleidfa yn cynnyddu. Parhaodd yr achos i lwyddo, ac i chwanegu; daeth y capel yn rhy fychan, a chafwyd tir gan y Parch. John Elias, yr hwn oedd wedi priodi Miss Broadhead, Tre'r-gôf; ac ar ran o'r tir a berthynai iddi, adeiladwyd capel newydd yn y fl. 1817, a galwyd ef Bethesda. Ystyrid ef yn gapel da a phrydferth yn y cyfnod hwn. Yr oedd yn yr eglwys hon ddynion da yn flaenoriaid yn y cyfnod hwn; sef, Henry Parry, Bwlch; Richard Price, Cafnan; Hugh Owen, William Hughes, a William Roberts, Tai hen—tad y Parch. John Roberts, o'r un lle. Yr oedd y gwŷr hyn yn allu ac yn nerth yn yr eglwys. Dywedir y buasai Hugh Owen yn flaenor lled dda; ond mynai bregethu, a phregethwr pur sâl ydoedd. Cofus genym y byddai yr hen frawd yn ceisio bod yn debyg i Elias. Y mae *Methodistiaeth Cymru* yn awgrymu na bu llawer o erlid yn y gymmydogaeth hon.

Yn y cyfnod hwn yr adeiladwyd Moriah—ysgoldy heb fod yn mhell o'r Tŷ du—lle y pregethid yn y cyfnod cyntaf. Cedwid Ysgol Sabbothol yma ar y dechreu yn ysgubor Llanlliana. Y prif ddynion gyda'r ysgol oeddynt John Evans, Richard Roberts, a Hugh Jones. Adeiladwyd yr ysgoldy, neu y capel bychan, yn y fl. 1826, neu o ddeutu hyny. Pregethid yma cyn diwedd y cyfnod

hwn. Cymmydogaeth lled ammhoblog ydoedd; ac felly, ni bu achos cryf yma erioed. Llanrhyddlad, Careg lefn, a Chemmaes, oedd y daith Sabbothol cyn i Moriah ddyfod yn lle i bregethu; ond cyssylltwyd Moriah a Chemmaes â'u gilydd yn daith. Canlyniad i ŵr ieuangc, o'r enw John Parry—gwas Cae Adda—gadw ysgol ar noson waith yn Nghae Adda, i ddysgu ychydig o blant i ddarllen, ydoedd sefydliad Ysgol Sabbothol yn ysgubor Llanlliana. Dewiswyd y gŵr ieuangc yn flaenor yn eglwys Amlwch cyn diwedd y cyfnod hwn.

Llanfechell.—Nid oedd yma achos Methodistaidd yn y cyfnod blaenorol. Yn flaenorol i sefydliad achos yn y lle, byddai trigolion y pentref a'r cymmydogaethau yn myned i addoli i wahanol fanau—rhai i Bethesda, Cemmaes; eraill i Bethlehem, Gareg lefn; a'r gweddill i Lanrhyddlad. Yn y fl. 1815, sefydlwyd ysgol yn Hafod lâs, tua milldir a hanner o bentref Llanfechell. Yr oedd gofal yr ysgol yn benaf ar y diweddar John Elias—mab y Parch. John Elias—yr hwn oedd yn ŵr ieuangc bywiog, ac yn llawn sêl dros yr achos, fel yr oedd ei hybarch dad. Tua'r fl. 1823, dechreuwyd cadw ysgol yn y pentref, ar nos Iau, yn ngweithdŷ gŵr o'r enw William Parry, saer. Y prif ddynion gyda'r symmudiad hwn oeddynt, John Elias, William Hughes, gwehydd; William Parry, a Benjamin Edwards. Pregethid yn achlysurol ar nos Sadyrnau, gan y pregethwr a ddigwyddai fod yn nhaith Cemmaes y Sabbath dilynol; a byddai y Parch. John Elias yn pregethu yma yn fynych, a hyny gyda nerth mawr. Byddai ganddynt gyfarfodydd gweddi bob boreu Sabbath am chwech, ar gylch, yn nhai y pentref; ac yr ydym yn cofio yn dda eu bod yn cael eu cadw yn nghymmydogaeth Amlwch yr un modd. Yn mhen tymmhor heb fod yn faith, dechreuwyd cadw ysgol ar y Sabbath, a hyny yn llofft yr Hen Siop. Nid oedd y lle hwn yn fanteisiol iddi. Ymddengys fod cais wedi ei wneyd at beriglor y plwyf; sef, y Parch. John Lewis, am gael gwasanaeth y Llan i gynnal yr ysgol, a chaniatawyd hyny ar delerau neillduol; sef, nad oedd neb i weddïo ar ddechreu a diwedd yr ysgol ond trwy ddarllen rhai o'r gweddïau o'r *Llyfr Gweddi Cyffredin*. Ymddengys na

chadwodd y cyfeillion at y telerau. Anfonodd y periglor ei forwyn, un Sabbath, i edrych pa fodd yr oedd pethau yn myned yn mlaen yn y lle cyssegredig. Deallodd fod yno rywbeth na charai ei meistr; a dychwelodd i'w hysbysu. Mewn canlyniad, cynnhyrfodd y gŵr parchedig yn aruthr; ac o dan ddylanwad y cynnhyrfiad, daeth i'r llan i gael gweled beth oedd yn myned yn mlaen yno. Ac erbyn iddo fyned yno, dyna lle yr oedd John Elias yn gweddïo, yn niwedd yr ysgol, mewn hwyl, a'r hen chwiorydd mewn hwyl gydag ef; a dywedir fod yr olygfa wedi ei barlysu mor fawr fel y curai ei liniau y naill wrth y llall. Pa fodd bynag, gallodd fyned at y gweddïwr, ac ymaflyd yn ngholer ei gôt, gan waeddi allan, gyda llais crynedig, '*Get up, John!*' Rhoddodd hyn derfyniad ar y weddi heb yr 'Amen.' Torodd un hen chwaer allan i ganu mewn hwyl gorfoledd:—

'Nid fy nef yw ar y ddaear,
Pe goreu man dan gwmpas haul;
Fy nef yw tawel bresennoldeb
Wyneb siriol Adda'r Ail."

'Ceir heddwch i'w addoli yno.' Bu raid symmud o'r llan i weithdŷ William Parry. Yn y fl. 1832, adeiladwyd ysgoldy bychan ar dir John Hughes, Lleugwy, yr hwn a roddodd ar brydles. Yn mhen rhai blynyddoedd wedi hyny, adgyweiriwyd yr adeilad, a chwanegwyd pedair llath at ei faintioli.

Mynydd Mechell.—Tua'r fl. 1812, dechreuwyd cadw Ysgol Sabbothol yn y gymmydogaeth, yn nhŷ Thomas Evans, Hafod lâs—mab i Evan Thomas, Maes-y-brethynbrych, yr hwn a brynasai y tyddyn. Yn fuan iawn, lliosogodd yr ysgol, nes y daeth y tŷ yn rhy fychan i'w chynnal. I Lanrhyddlad a Chareg lefn yr arferai hyny o Fethodistiaid oedd yn y gymmydogaeth fyned i wrandaw. Y pryd hwn, meddyliasant y dylent gael capel yn y Mynydd, i gadw Ysgol Sabbothol, moddion gweddi, a phregethu yr efengyl. Yn y fl. 1817, yn mhen pum mlynedd wedi dechreu Ysgol Sabbothol, adeiladwyd y capel cyntaf—un bychan, wyth llath wrth saith llath. Ni wnaed eisteddleoedd ynddo, ond gwnaed ynddo bulpud lled fawr. Yn y flwyddyn 1827, yn mhen deng mlynedd,

helaethwyd ef, gan chwanegu pedair llath at ei hyd; a gwnaed ynddo eisteddleoedd—un o'i amgylch, ac ychydig wrth y pulpud. Yn nechreuad yr achos nid oedd yma yr un blaenor rheolaidd. Bu y diweddar John Elias—mab y Parch. John Elias—yn ymdrechgar iawn gyda'r Ysgol Sabbothol yma, pan ydoedd yn ei babandod. Yr hwn a gymmerai yr arweiniad yma oedd Hugh Pritchard, Babell, yr hwn, er nad oedd ond darllenwr bychan, etto, yr oedd yn weddïwr mawr, ac yn siaradwr doniol. Yr oedd pawb yn foddlawn iddo gael y flaenoriaeth, o herwydd ei sêl a'i oedran. Byddai yn galw ar y brodyr i gymmeryd rhan yn y gwaith yn hynod awdurdodol. Byddai Thomas Evans, Hafod lâs, weithiau, yn lled annyben i ufuddhau; yna, dywedai yr hen arweinydd, 'Tyr'd, Twm,' gan roddi pigiad iddo â blaen ei ffon, nes y byddai Thomas Evans yn neidio; ond ni ufuddhäai byth wedi cael y pigiad. Y blaenor rheolaidd cyntaf oedd Richard Parry, Llanfflewyn, yr hwn, gyda'i holl deulu, a ymfudodd i America, tua'r fl. 1855.

Careg Lefn, neu Bethlehem.—Gadawsom yr achos, yn y cyfnod blaenorol, yn y capel a adeiladwyd yn y fl. 1806. Llwyddodd Methodistiaeth wedi cael capel yma. Cafodd yr eglwys hon ei bendithio â blaenoriaid da. Y cyntaf a nodwn ydoedd Owen Lewis, Fferam isaf, yr hwn a ystyrid yn un o brif flaenoriaid y sir. Yr oedd efe yn swyddog yn y cyfnod blaenorol. Blaenor arall yma ydoedd William Owen Dafydd, Yr Hald—gŵr tlawd yn y byd, ond yn gyfoethog mewn gras. Un arall ydoedd William Cadwaladr, Llwyn-yr-arth—tad y Parch. Cadwaladr Williams, Penceint, yr hwn oedd yn ffermwr cyfrifol o ran ei alwedigaeth—gŵr o dalent fechan, ond o grefydd ddiffuant. Byddai yn gwrandaw pregethau â'i ddwylaw yn blethedig; ac yn dywedyd wrtho ei hun, 'Bendigedig,' a 'Diolch.' Blaenor arall yma ydoedd Rowland Jones, Y Caban—gŵr tlawd o ran pethau y byd hwn, ond ystyrid ef yn gyfoethog mewn gwybodaeth dduwinyddol, yr hyn oedd yn fanteisiol iawn i'w ddefnyddioldeb, ac er adeiladaeth yr eglwys. Y mae cyfoeth a gwybodaeth mewn swyddog eglwysig, dan ddylanwad duwioldeb, yn fendith fawr i eglwys. Yr oedd Rowland

Jones yn helaeth ei wybodaeth yn y Beibl, ac yn deall yr hen iaith Gymraeg yn dda, canys yr oedd yn hyddysg iawn yn ei gwreiddiau. Gorchfygodd Charles, o'r Bala, yn hyn. Pan oedd y diweddaf yn yr ardal yn pregethu, rhyw dro, 'Yr ydych,' meddai wrtho, 'wedi camgymmeryd yn y *Geiriadur* ynghylch y gair 'gwartheg;' yr ydych yn dywedyd fod y gair yn tarddu o'r gair 'gwarth,' ond dim y fath beth, syr; ei ranau yw 'gwâr' a 'theg,' ac y mae y fuwch felly;' a syrthiodd Charles yn ddiwarafun i'w olygiad. Y nesaf ydoedd John Owen, Fferam isaf—mab i'r Owen Lewis crybwylledig, o'r un lle. Yr oedd y gŵr hwn yn un o brif flaenoriaid y sir pan y daethom i'r Cyfarfod Misol. Daw o dan sylw etto yn yr unfed bennod ar ddeg. Y nesaf oedd John Williams—brawd y Parch. Cadwaladr Williams, yr hwn a ystyrid yn ddyn pwysig, fel ei frawd, mewn athrawiaeth. Y nesaf ydoedd John Elias—mab y Parch. John Elias. Bu yn ysgrifenydd yn yr eglwys hon am ddeugain mlynedd; ac yn flaenor ynddi am bump neu chwech ar hugain o flynyddau. Galwyd ef yn flaenor yn y fl. 1829. Daw y gŵr hwn hefyd o dan ein sylw yn yr unfed bennod ar ddeg.

Amlwch.—Yn gynnar yn y cyfnod hwn, sef yn y fl. 1817, ymsefydlodd y Parch. William Roberts yn y dref, yr hwn a fu yn noddwr mawr i Fethodistiaeth yn y lle. Yn y fl. 1818, yn mhen y flwyddyn wedi iddo ddyfod yma i fyw, ail-adeiladwyd y capel—gwnaed ef yn gapel ëang a chyfleus, a galwyd ef yn Gapel Mawr. Yr oedd gan Roberts feddwl mawr o'r capel, ac nid heb achos. Yn y cyfnod hwn, daeth Thomas Jones yma i gadw ysgol. Yr oedd y ddau bregethwr fel Dafydd a Jonathan, o ran eu cariad at eu gilydd. Yr oedd yr eglwys Fethodistaidd yn Amlwch yn ei gogoniant o ddyfodiad y ddau i'r dref hyd farwolaeth Wm. Roberts. Pob un yn enwog yn ei waith priodol ei hun:—Thomas Jones yn agor y doluriau i'w golchi a'u glanhau, pan y byddai eisieu hyny mewn dysgyblaeth; a Roberts yn rhoddi olew arnynt, ac yn eu rhwymo. Y blaenoriaid yn nechreuad y cyfnod hwn oeddynt John Ellis, Tyddyn Crythor; John Rowlands, Pentre-gwïan; William Morgan, siopwr, yr hwn a ymddiswyddodd; William Jones, y cigydd; a John Roberts,

Llangollen, fel y gelwid ef. Yr ydym yn cofio yr oll o honynt, ond y cyntaf. Yr oedd John Rowland yn un o'r rhai mwyaf adnabyddus i bregethwyr teithiol y cyfnod hwn, ac yn un o ddynion duwiolaf yr oes; ond nid oedd yn flaenor i ddiwedd ei oes. Gŵr arall a ddewiswyd yn flaenor ydoedd John Williams, y crydd—dyn yn llygad i gyd, fel y dywedir am ddyn meddylgar. Yn y fl. 1822, cafwyd diwygiad grymus yn Amlwch. Cynnelid yma gyfarfod gweddi bob wythnos i ofyn am adfywiad; a chynnhyrfwyd a chryfhawyd yr awydd am dano wrth glywed am yr ymweliadau grymus a nerthol a fwynheid yn Nolyddelen a Beddgelert. Un Sabbath yn y flwyddyn uchod, yr oedd yr Hybarch Griffith Davies, Llanerchymedd, yn pregethu yn nerthol; ac arosodd gŵr ieuangc yn y cyfarfod eglwysig. Wedi cael ei enw ef, dywedodd yr hen bregethwr—'O'r goreu, ni a roddwn iddo enw newydd heno. Ni a'i galwn ef yn 'Gad; canys y mae tyrfa yn dyfod.'' Ac fe brophwydodd yn gywir. Yn mhen ychydig wythnosau, yr oedd ugeiniau wedi eu chwanegu at yr eglwys. Yr oedd merch ieuangc o deulu parchus ryw noson yn ei gwely, ac yno fe'i hargyhoeddwyd yn ddwfn o'i chyflwr pechadurus a thruenus. Bu raid iddi godi o'i gwely, a myned o ystafell i ystafell, gan lefain a gofyn, fel ceidwad y carchar, 'Beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf cadwedig?' Deffrodd yr holl deulu, a galwyd rhai o'r cymmydogion i mewn i geisio ei chysuro. A chyn y boreu, llewyrchodd i'w meddwl cythryblus oleuni mawr. Cynnyrchodd hyny yn ei mynwes obaith. Yna, hi a dorodd allan i ganmawl gras Duw. Y Sabbath cyntaf ar ol deffroad meddwl y ferch ieuangc hon, yr oedd cyhoeddiad y diweddar Barchn. Michael Roberts, o Bwllheli, a Moses Jones, o Ben-cae-newydd, i fod yn y Gareg lefn am chwech. Ond ni ddaeth Michael Roberts o herwydd afiechyd; ond daeth Moses Jones, yr hwn oedd yn ŵr ieuangc newydd ddechreu pregethu. Aeth y ferch ieuangc y cyfeiriasom ati, ynghyd â lliaws eraill, i Gareg lefn, a chawsant un o'r pregethau mwyaf llewyrchus a nerthol. Torodd yn orfoledd mawr yno; ac yn mhlith y lliaws, yr oedd y ferch ieuangc o Amlwch, ac eraill o'r un gymmydogaeth. Dychwelasant i Amlwch

mewn sain cân a moliant, fel tyrfa yn cadw gŵyl. Y nos Iau canlynol, rhoddasant eu hunain i bobl yr Arglwydd yn Amlwch. Chwanegwyd at yr eglwys hon cyn diwedd y flwyddyn ynghylch saith ugain o eneidiau. Yr oedd yr eglwys yn barod i ddywedyd, 'O'r Arglwydd y daeth hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni.' Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, am hyny yr ydym yn llawen.' Y mae ein calon ninnau yn yr oes hon yn ymlenwi â diolchgarwch, a'n llygaid yn llawnion o ddagrau wrth ysgrifenu gweithredoedd nerthol yr Arglwydd i'n tadau a'n mamau yn yr eglwys y magwyd ni ynddi. Yr oedd ein hen frawd anwyl, y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, yn un o blant y diwygiad hwn. Y nesaf a alwyd yn flaenor yma oedd William Williams, y Werthyr—ŵyr i W. Pritchard, Clwchdernog, a mab i J. W. Pritchard, Plas-y-brain, Glasinfryn—ffermwr parchus wrth ei alwedigaeth. Galwyd ef yn swyddog eglwysig yn y fl. 1831, a bu farw yn 1834, wedi gwasanaethu yn ei swydd ddim ond tair blynedd. Bu y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, yn flaenor yn eglwys Amlwch am beth amser yn y cyfnod hwn, ac yma y dechreuodd bregethu. Daw efe o dan sylw yn y pennodau dilynol. Dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw Owen Rowland, bregethu yn y lle hwn. Nid oedd yn frodor o Amlwch—mab Rowland, Tŷ fry, oedd ef—ond yr oedd yn gwasanaethu fel fferyllydd gyda William Hughes, fferyllydd, gŵr tra adnabyddus yn y dref. Tybiem fod y gŵr ieuangc yn meddwl myned yn genhadwr; ond nid aeth—gwrthodwyd ef gan Gymdeithas Genhadol Llundain. Symmudodd o Amlwch i Dundee yn Ysgotland, os ydym yn cofio yn dda, a bu farw yno o'r *cholera*. Nid oedd ganddo ddawn pregethu ond i raddau bychan iawn; ond yr oedd yn ŵr ieuangc crefyddol a dichlynaidd. Dywedir iddo gael pregeth nerthol unwaith yn Nghyfarfod Misol Gaerwen. Yn mlaen yn y cyfnod hwn, galwyd John Williams, Gaerwen, yn nghymmydogaeth Burwen, a Robert Jones, *coal merchant*, yn flaenoriaid. Yr oedd y cyntaf yn ddyn bychan diniwed, ond yn hynod o ffyddlawn. Efe a fyddai yn cynnrychioli yr eglwys yn y Cyfarfod Misol, ac yn chwilio am gyhoeddiadau pregethwyr; ond am y diweddaf, yr

oedd yn llygad i gyd, fel yr oedd John Williams, y crydd, o'i flaen ef, yn adnabod yr holl aelodau, ac yn gwybod bron eu holl hanes. Daw yntau o dan sylw yn un o'r pennodau dilynol. Yr oedd yn yr eglwys hon yn y cyfnod hwn ddynion eraill heb fod yn flaenoriaid yn haeddu coffhâd—megys, Hugh Griffith, y dilledydd, yr hwn a fyddai yn dechreu yr odfeuon i'r hynafgwyr a'r gweiniaid; Ellis Thomas, Wrth-yr-afon, yr hwn a fyddai yn edrych ar ol ceffylau pregethwyr; a John Edwards, gwehydd, cyn hyny. Yr oedd y cyntaf yn cael ei ystyried yn wybodus, ac yn brofiadol iawn mewn crefydd. Richard Owen, Llechog isaf, ac Owen Rowland, *Machine*, oeddynt ddynion parchus, caredig, a ffyddlawn. Arweinyddion y canu oeddynt John Roberts, mab John Roberts, y blaenor; Daniel Edwards, ieuengaf; Hugh Parry, a Joseph Roberts. Yn y cyfnod hwn, yr oedd Hugh Jones, gŵr dall, ond duwiol iawn, yma; efe ydyw awdwr y pennill—

'Cenir yno am y gwaed
Gliriodd feiau,' &c.

Yr oedd yn yr eglwys hon chwiorydd hefyd teilwng o goffhâd—megys, Margaret Griffith, gwraig Hugh Griffith, y dilledydd; Miriam Parry, merch Hugh a Margaret Griffith, a gwraig Hugh Parry, arweinydd y canu; Grace Owen, Llechog; a Catherine Rowland, *Machine*.

Yn mhen rhyw dair blynedd wedi dyfodiad y Parch. William Roberts i Amlwch; sef, yn y fl. 1820, dechreuwyd Ysgol Sabbothol yn Mhorth Amlwch. Cadwyd hi yn nhŷ David Owen, clogsiwr, am un flwyddyn. Cynnorthwywyd ef gan y Cadben Pritchard, William Thomas, y cychwr; William Williams, *coalmeter;* a William Jones, gwehydd. Yn mhen y flwyddyn, symmudwyd hi i hen ystordy ger llaw y porthladd. Yn mhen dwy flynedd, symmudwyd hi drachefn i dŷ bychan yn agos i'r lle y mae y capel wedi ei adeiladu, a bu yno am tua phedair blynedd. Dywed rhai iddi fod mewn un lle arall. Yn y fl. 1827, adeiladwyd ysgoldy, a phregethid ynddo mewn cyssylltiad â'r Capel Mawr bob yn ail Sabbath â'r Burwen, heb ddim eglwys yn y lle—holl Fethodistiaid Porth Amlwch yn aelodau o eglwys Capel Mawr. Wedi hyn, bu y Borth, mewn cyssylltiad â Siloh ac â Nebo, yn cael

pregeth bob Sabbath; a byddai y Parch. Griffith Davies, Nebo, yn gweinidogaethu yma bob mis, fel y byddai y Parch. William Roberts yn y capel arall. Yr oedd yn y Borth frodyr teilwng o goffhâd y pryd hwn; sef, Owen Rowland, *Machine;* Owen Owens, Pwll lli; ac eraill a ddaw o dan sylw etto.

Burwen sydd ardal rhyw filldir a hanner o Amlwch, ar ffordd Cemmaes. Dechreuodd yr achos yma mewn Ysgol Sabbothol, yr hon a gedwid, ar y cyntaf, mewn tŷ o'r enw Pig-y-rhos, tua'r fl. 1801. Y colofnau yn cynnal yr ysgol y pryd hwn oeddynt John Ellis, Tyddyn crythor; Thomas Williams, Gaerwen; Richard Moses, dyrnwr, Bodhunod; a John Williams, Gaerwen—mab i Thomas Williams, o'r un lle. Yr oedd Richard Moses yn ŵr crefyddol iawn, a'i grefydd yn dylanwadu yn dda ar ei deulu. Yr oedd gan John Williams, Gaerwen, ddosbarth o hen wragedd, yn ceisio dysgu y wyddor. Synai yr hen wragedd at ei ddysgeidiaeth; a dywedent wrth eu gilydd, 'Onid yw yr hogyn yn ysgolar mawr!' Yn y fl. 1816, symmudodd i dŷ, yr ochr arall i'r ffordd, gyferbyn â'r capel presennol. Gelwir y tŷ hyd heddyw yn 'Tŷ'r ysgol.' Yma, yn chwanegol, yr oedd William Williams, Werthyr; Richard Owen, Llechog isaf; Richard Jones, Shop; William Thomas, Pen'rorsedd; David Hughes, Terfyn; Hugh Jones, Bodhunod bach; Evan Roberts, Ffynnon Clochau; Rowland Williams, Pen-y-parc; a William Owen, Tyddyn. Yr oedd yma rai heb fod yn aelodau eglwysig yn selog gyda'r ysgol; sef, Henry Williams, Tyddyn-y-waen, yr hwn oedd yn arweinydd y canu; a Thomas James, Llywarch, yr hwn a fyddai yn gwrandaw y deg gorchymyn yn cael eu hadrodd. Byddai pregethu yn y tŷ hwn bob yn ail Sabbath a Phorth Amlwch am rai blynyddoedd. O ddeutu y fl. 1840, adeiladwyd y capel presennol. Yr oedd y Parch. John Elias yn pregethu yn ei agoriad, ar 'Bydded genyt ffurf yr ymadroddion iachus.' Dewiswyd John Williams, Gaerwen, yn flaenor gan eglwys Amlwch rai blynyddoedd cyn diwedd y cyfnod hwn; ac felly, yr oedd yma flaenor cyn bod eglwys. Yn yr ardal hon y trigai Thomas Jones, y pregethwr,

Gorslwyd.—Gadawsom y lle hwn, yn y cyfnod o'r blaen, mewn gwedd siriol a llwyddiannus, wedi bod yn flaenorol mewn cyflwr ddigalon ac aflwyddiannus. Yn y fl. 1822, cafodd yr eglwys hon ymweliad neillduol. Yn y flwyddyn grybwylledig, cynnaliwyd Cyfarfod Misol yma; ac yr oedd y gynnulleidfa mor fawr fel y cynnaliwyd y moddion cyhoeddus ar y maes, ger llaw y capel. Yr oedd adfywiad grymus yn yr ynys ar y pryd, ond y Cyfarfod Misol a fu yn foddion arbenig i'w ddwyn i'r Gorslwyd. Torodd ugeiniau allan i ymofyn yn bryderus, fel y miloedd yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost, 'Ha! wŷr frodyr, beth a wnawn ni?' Un Sabbath, pan oedd y gweinidog yn pregethu, rhoes y ddylath ar ei draws glec uchel, nes yr ofnodd y pregethwr a'r gwrandawyr fod nen y capel yn syrthio arnynt. Cynnyrchodd yr amgylchiad hwn argyhoeddiad ei bod yn llawn bryd cael capel mwy a chadarnach, yr hyn a wnaed yn y fl. 1827. Tua'r adeg hon y dechreuodd y Parch. Robert Williams bregethu; symmudodd oddi yma i Gemmaes yn y fl. 1834, trwy briodi; ac oddi yno drachefn i America, yn 1836. Bu pregethwr yn byw yma am rai blynyddoedd, o'r enw Hugh Owen; a blaenor parchus, o'r enw John Owen, Penrhyn. Pregethwr bychan iawn oedd Hugh Owen. Symmudodd oddi yma i Lanfair P. G.; a dyrysodd yn ei amgylchiadau.

Llanerchymedd.—Gadawsom yr achos yn y lle hwn gydag adeiladaeth y capel cyntaf. Yn fuan wedi adeiladu capel Llwyndrain, daeth Charles, o'r Bala, i bregethu yma; ac annogodd yr eglwys i ddechreu Ysgol Sabbothol, a gwnaed yn ol ei annogaeth, yn y fl. 1792. Cynnygiodd Charles iddynt swllt am bob dau swllt a gasglent i dalu i'r athrawon. Daeth ynghyd o hanner cant i drigain o ysgolorion am rai blynyddoedd. Yn y fl. 1803, cafwyd diwygiad crefyddol yn y gymmydogaeth; ac fel ffrwyth y diwygiad, cafwyd mwy o athrawon gwirfoddol. Daeth Elias yma, a phregethodd bregeth ar yr Ysgol Sabbothol; mewn canlyniad, cynnyddodd yn fuan i o ddeutu 600. Yn y fl. 1808, dygwyd yr ysgol i well trefn; a sefydlwyd Cymdeithas Plant, a chafwyd cymmanfa i'r plant yn niwedd y flwyddyn hon, neu yn nechreu yr un ddilynol. Yn

1812, sefydlwyd cangen ysgol yn Nant Daenog, a daeth y deiliaid yn fuan i rifo o ddeg a phedwar ugain i gant mewn nifer. Yn y fl. 1816, neu 1818, dechreuwyd ysgol arall mewn lle a elwid Tŷ newydd; a daeth deiliaid hon hefyd yn naw a phedwar ugain o nifer. Un o'i phrif sylfaenwyr ydoedd Thomas Williams, Eirianallt goch, yr hwn oedd yn flaenor yn Llanerchymedd. Yn fuan ar ol hyn, dechreuwyd Ysgol Sabbothol yn Coedana, a daeth y deiliaid yn ddeugain mewn nifer. Dyma dair cangen yn perthyn i ysgol Llanerchymedd. Erbyn hyn, yr oedd capel Llwyndrain yn rhy fychan; ac yn y fl. 1818, adeiladwyd capel mawr yn nghanol y pentref. Dywedir fod nifer deiliaid yr Ysgol Sabbothol—y fam ysgol a'i thair merch—tua saith gant. Cynnyddodd y gynnulleidfa a'r eglwys yn y capel newydd. Dywedir fod nifer yr aelodau eglwysig yma yn 460. Yn fuan, adeiladwyd capel Carmel. Cangen o eglwys Llanerchymedd ydyw yr eglwys hon. Agorwyd capel Carmel Hydref 17eg, 1826. Daeth Carmel yn gartref i ysgolion Nant Daenog a'r Tŷ newydd. Daw Carmel o dan sylw etto. Ymddengys fod Methodistiaid Llanerchymedd, yn y cyfnod hwn, yn weithgar iawn. Yr oedd ganddynt liosogrwydd o gyfarfodydd gweddïo, a chyfarfodydd neillduol gyda'r plant a'r ieuengctyd; a choronid y cyfarfodydd hyn yn fynych â llewyrchiadau gwyneb Duw. Cynnelid, yn nhŷ un Siôn Thomas, gyfarfod i weddïo bob boreu Sabbath, am saith o'r gloch. Arferai un Harri Owen hefyd gadw cyfarfod plant yn gysson unwaith yn yr wythnos; ac ymddengys mai yn y cyfarfod hwn y dechreuodd y diwygiad y crybwyllasom am dano. Yr oedd gŵr o'r enw Owen Owens hefyd yn ffyddlawn gyda'r plant. Bu yr Ysgol Sabbothol yn fwy enwog a llewyrchus yn y lle hwn am flynyddoedd nag yn un lle arall yn Môn. Ai nid dyma yr achos fod mwy o ddynion enwog wedi codi i'r weinidogaeth yn Llanerchymedd nag mewn unrhyw le arall yn yr ynys? Yn y cyfnod hwn, dechreuodd y Parchn. Griffith Davies, Hugh Jones, Ebenezer Davies, William Roberts, D.D.; a Richard Roberts, bregethu. Bu Edward Jones—mab i'r hybarch John Jones, Bodynolwyn wen—yn byw yma, ac yn pregethu am dymmhor; ond ymddyrysodd

gyda negeseuon y bywyd hwn, a chollodd ei goron. Ond er na ddychwelwyd ef i'r pulpud, gobeithir iddo gael ei ddychwelyd at y Gwaredwr. Y blaenoriaid yma, yn y cyfnod hwn, oeddynt William Jones, Hafod-y-myn; Richard Parry (*Gwalchmai*); Wm. Williams, Prys Owen; Richard Roberts, crydd; Thomas Williams, Eirianallt; Hugh Jones, Bull Inn (yr Hafod wedi hyny); John Hughes—tad y Parch. John Hughes, D.D., Liverpool, yr hwn a ystyrid yn ŵr duwiol iawn; John Owen, dilledydd; Richard William Meredith; a David Davies, cyllidydd. Yma hefyd y dechreuodd yr olaf bregethu. Nid oedd y gwŷr hyn oll yn flaenoriaid yr un amser, ond mewn gwahanol flynyddoedd yn y cyfnod hwn. Yr oedd yma frodyr eraill teilwng o goffâd; sef, W. Thomas, *tinman;* David Pritchard; Morris Griffith, *saddler;* Evan Thomas, ac Edward Griffith, y bragwr. Yr oedd Eleanor Hughes, Tŷ capel—mam Dr. Hughes—yn rhagori mewn meddylgarwch.

CARMEL.—Crybwyllasom am ddechreuad yr achos yn y lle hwn ynglŷn â'r achos yn Llanerchymedd; ond y mae yn haeddu mwy o sylw nag a gafodd yn ei berthynas â'r lle diweddaf. Fel y crybwyllasom, dechreuodd Methodistiaeth yn yr ardal hon mewn Ysgol Sabbothol, yr hon a gedwid yn Nantanog, o ddeutu milldir oddi wrth y lle yr adeiladwyd y capel. Y gwŷr ag oedd yn byw yn Nantanog oeddynt Griffith a John Hughes—dau hen langc. Nid oedd ond un o honynt yn aelod eglwysig. Yr oedd ganddynt frawd yn byw mewn rhyw hanner can' rhwd oddi wrthynt yn aelod, ac yr oedd yn un o'r gwŷr a ymgymmerodd â chodi yr ysgol hon. Y rhai eraill a fuont hynod weithgar gyda'r ysgolion oeddynt Robert ac Evan Pritchard, Caergwrle—dau frawd; William Pritchard, Pen-y-llidiart; Robert Davies, Ceryg-y-meingciau; John Edwards; a William Jones, Wilpol. Symmudwyd yr ysgol o Nantanog i dŷ William Jones, Wilpol. Aeth y gŵr hwn i America; ac mewn canlyniad, symmudwyd yr ysgol i eglwys Gwredog. Yn mhen amser, symmudwyd drachefn i Ben-y-llidiart: oddi yno i Geryg-y-meingciau; ac o'r diwedd, adeiladwyd ysgoldy ar dir Cadben Verney; ac y mae yn cael ei ystyried yn un anenwadol. Yr ysgol

arall ydoedd yr un a gedwid yn Nhŷ newydd. Gwŷr selog gyda'r ysgol hon, heb law T. Williams, Eirianallt goch, oeddynt Griffith Williams, Ty'n-y-gongl; a Thomas Jones, Maes-y-gwyddel. Yr oedd y tri hyn yn ddynion gwir grefyddol. Byddent weithiau yn troi at dâs redyn fyddai yn yr Eirianallt i ymddiddan am grefydd, a byddent yno hyd y boreu. Byddai Thomas Williams yn tori allan, ambell waith, i orfoleddu ac i ganmawl y Gwaredwr yn ei ystafell wely, a'r wraig yn ymuno âg ef. Yr oedd Hugh Lloyd, Llwyn-ysgan, ac Owen Owens, Chwaen-ddu, hefyd yn mysg y ffyddloniaid. Byddai pregethu yn achlysurol yn Nhŷ newydd. Wedi symmud capel Llanerch-y-medd i'r dref—rhyw chwarter milldir pellach o'r gymmydogaeth hon—meddyliodd Methodistiaid y gymmydogaeth y dylent gael capel, ac adeiladasant un yn y fl. 1826, a galwyd ei enw ef Carmel. Nid oedd ond capel bychan a llwydaidd yr olwg arno. Yn mhen rhyw ddeuddeng mlynedd, adeiladwyd dwy oriel—un yn mhob talcen; a galwai yr Hybarch John Hughes, Pont-robert, hwy yn 'ddwy glwyd ieir.' Yn fuan, ffurfiwyd eglwys yma; ac unwyd Carmel a Llanerchymedd yn daith Sabbath. Byddai rhai o swyddogion eglwys Llanerchymedd yn arfer dyfod yma i gadw cyfarfodydd eglwysig. Ymddengys mai eglwys Llanerchymedd a ddewisodd y swyddogion cyntaf yma; sef, Owen Owens, Chwaen ddu; a Griffith Williams, Ty'n-y-gongl. Bechan a gwan oedd yr eglwys yma am beth amser. Bu Owen Owens yn flaenor ffyddlawn am hir amser. Ni bu Griffith Williams yn swyddog yn hir. Cododd rhyw ystorm, a thaflwyd ef allan o'r flaenoriaeth.

Llandrygarn—Yn Mhentre bwäau yr oedd yr achos am tua'r tair blynedd cyntaf o'r cyfnod hwn. Yn y fl. 1817, adeiladwyd capel Seion. Yr oedd John Williams, Caegwyn, ac Owen Hughes, Llandrygarn, yn flaenoriaid yma yn y blynyddoedd hyn. Enwogodd y diweddaf ei hun ynglŷn â cherddoriaeth y cyssegr yn yr ynys. Ei frawd, William Hughes, oedd y prif gerddor, neu arweinydd yr ysgogiad cerddorol cyffredinol a gymmerodd le trwy yr holl ynys yn y cyfnod hwn; ac Owen Hughes oedd y prif areithiwr o blaid yr ysgogiad. Aeth Owen Hughes

i America, a dechreuodd bregethu yno; a bu yn ddefnyddiol iawn yno fel pregethwr am flynyddoedd lawer. Bu William Hughes farw yn lled ieuangc.

Elim.—Cangen o eglwys Ty'n-y-maen yw hon. Bu pregethu yn y cyfnod cyntaf yn y gymmydogaeth hon, megys Chwaen hen a Thŷ mawr, Llantrisant. Nid oedd Bodynolwyn wen, cartref John Jones, yn mhell oddi yma. Ymddengys nad oedd yma yr un lle sefydlog i gynnal moddion cyn adeiladaeth y capel; ond byddai pregethu achlysurol, mewn gwahanol dai, yn nechreu y cyfnod hwn; sef, yn Nhŷ newydd a'r Marian yn fynychaf. Yn y lle cyntaf preswyliai gŵr o'r enw Hugh Hughes; ac yn y lle diweddaf, gŵr o'r enw Richard Hughes: ei wraig oedd Mary Jones, merch John Jones, Bodynolwyn wen. Dechreuwyd Ysgol Sabbothol yn Marian yn lled foreu; a chynnelid cyfarfod gweddi wythnosol yn y Tŷ newydd a'r Marian bob yn ail. Bu raid i deulu y Marian ymadael oddi yno; a symmudwyd yr ysgol i le o'r enw Creigiau llwydion, yn mhlwyf Llantrisant. Symmudwyd hi drachefn i Efail Hafren. Y prif ddynion gyda'r ysgol y pryd hwn oedd Edward Hughes a Robert Jones—y cyntaf yn flaenor yn Bethel hen, Llanrhyddlad, a'r diweddaf yn Nhy'n-y-maen. Yn y fl. 1822, adeiladwyd capel yma, a galwyd ef yn Elim. Cafwyd tir gan foneddwr o'r enw Pritchard, Gors, Caergybi, am hanner coron yn y flwyddyn o gydnabyddiaeth. Y blaenoriaid cyntaf yma oeddynt E. Hughes, Pont-y-synydd ('Rhen bont, wedi hyny), a Robert Jones, Tanlan (Cremlyn, wedi hyny). Daeth y cyntaf yma o eglwys Llanrhyddlad, a'r diweddaf o eglwys Ty'n-y-maen. Y Parch. J. Prytherch a aeth drwy y seremoni o agor y capel. Ystyrid y ddau flaenor yn wŷr rhagorol. Robert Jones (tad-yn-nghyfraith y Parch. D. Roberts, Gwalchmai), yn meddu gallu ac ewyllys i ofalu am amgylchiadau yr achos; ac Edward Hughes yn ddawnus i gadw cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd yma ddynion defnyddiol iawn y pryd hwn heb fod yn swyddogion, megys Owen Parry, crydd, wedi bwyta *Llyfr Gurnal;* William Edwards, Tŷ mawr, yr hwn oedd yn well cynnorthwywr nag o arweinydd; a Hugh Owen, Gadfa, yr hwn a dynid allan trwy ofyn cwestiynau iddo.

Nifer yr eglwys y pryd hwn oedd o ddeugain i ddeg-a-deugain. Symmudodd Robert Jones oddi yma i'r Cremlyn, yr hyn oedd yn golled i Elim. Y blaenor cyntaf a ddewiswyd yma oedd William Hughes, Clymwr—gŵr o farn addfed, ac yn barod i bob gwaith o fewn ei allu. Yn y cyfnod hwn, daeth blaenor lled ddawnus o Lanrhyddlad, o'r enw Morris Edwards, i fyw i Dŷ'r Capel—un o hiliogaeth teulu Careg gam ydoedd. Diswyddwyd Edward Hughes o herwydd rhyw ddyryswch yn ei amgylchiadau. Yr oedd W. Hughes wedi marw, a Robert Jones wedi symmud o'r gymmydogaeth; o ganlyniad, nid oedd yma swyddog ond Morris Edwards. Bu yma ychydig o anghydfod o berthynas i arweiniad y canu. Byddai y Cyfarfod Misol yn anfon brodyr yma i gynnorthwyo yn y cyfarfod eglwysig, ac yn eu plith y Parch. W. Williams, Grianfryn. Diweddodd yr anghydfod yn niswyddiad Edward Morris. Bu Elim, Ty'n-y-maen, a Llanfwrog, mewn cyssylltiad â'u gilydd, yn daith Sabbothol, yn y cyfnod hwn. Bu Thomas Jones, Amlwch, yn pregethu yma un Sabbath yn y mis am rai blynyddoedd. Dychwelodd Robert Jones yn ol yma; ond symmudodd drachefn i Fodeillion, yn agos i Seion.

Ty'n-y-maen.—Nid oes genym ond ychydig o hanes yr eglwys hon yn y cyfnod hwn. Yr oedd sefydlu eglwysi yn yr ardaloedd cylchynol yn rhwym o effeithio er lleihau nifer aelodau yr eglwys a'r gynnulleidfa. Fel y crybwyllasom, darfu sefydliad eglwys yn Llanfwrog effeithio arni i raddau. Yr un modd y gwnaeth adeiladaeth capel Elim, yn y fl. 1822. Yn y fl. 1839 hefyd, adeiladwyd capel Llanfaethlu. Felly, cawn Dy'n-y-maen wedi ei amgylchu â thri capel; ac nid yw yr ardal ei hun yn un boblog. Byddai rhai teuluoedd, yn y cyfnod hwn, yn arfer gwrandaw yn y ddau le; sef, Llanfwrog a Thy'n-y-maen; ac felly, byddai cynnulleidfaoedd da yn y ddau gapel. Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd William Owen, Chwaen wen; Richard Jones, Llanfaethlu; a Hugh Roberts, Pen-y-bont, yn flaenoriaid yma. Bu Richard Owen, Pendryll, a Robert Jones, Tanlan, yn swyddogion yma yn y cyfnod hwn. Yn niwedd y cyfnod yr oedd Owen Hughes ac Edward Edwards, Dronwy, yma yn

flaenoriaid. Yr oedd Ty'n-y-maen, Llanfwrog, ac Elim, yn daith am beth amser; ond wedi adeiladu capel Llanfaethlu, unwyd Elim â Seion, ac â Charmel.

Llanfaethlu sydd gangen o eglwys Ty'n-y-maen. Dechreuodd yr achos Methodistaidd yn y plwyf hwn mewn Ysgol Sabbothol. Nis gallwn enwi y flwyddyn y dechreuodd. Ymddengys iddi gael ei chynnal yn nhymmorau yr haf y blynyddoedd cyntaf. Dywed rhai mai mewn tŷ o'r enw Rhos tŷ mawr y cedwid hi gyntaf, a dywed eraill mai yn eglwys y plwyf; wedi hyny yn yr Hen ysgol, neu yn ol adroddiad arall, yn ysgubor Penrhos ddu, ac oddi yno i ystordy Trefadog, ar lan y môr. Y mae pob sicrwydd iddi fod yn eglwys y plwyf—yr ysgubor a'r ystordy. Yn mhen amser, ardrethwyd tŷ gwâg, o'r enw Ty'n-y-lôn, i gadw ysgol trwy y flwyddyn. Prif sylfaenydd yr ysgol oedd Richard Jones, Penrhos ddu—tad David a Robert Jones—gwŷr cyhoeddus gyda Methodistiaeth yn y plwyf hwn. Yr oedd Richard Jones yn flaenor yn eglwys Ty'n-y-maen. O'r diwedd, teimlai yn awyddus i gael pregethu yr efengyl yn y gymmydogaeth. Dywedai yn fynych fod arno ofn y byddai gwaed trigolion Llanfaethlu yn gorphwys arno, o herwydd nad oedd wedi gwneyd ei oreu i gael manteision crefyddol i'w cyrhaedd. Penderfynodd ddwyn yr achos i'r Cyfarfod Misol, a gofynodd am ganiatâd i adeiladu capel bychan; ond cyfarfu yno â gwrthwynebiad cryf, yn enwedig oddi wrth y gweinidogion. Eu gwrthddadl yn erbyn ydoedd y byddai ei adeiladu yn rhwym o effeithio er lleihau cynnulleidfaoedd Llanfwrog a Llanrhyddlad. Ond parhaodd Richard Jones i ddadleu yn eu herbyn. Wedi hir ddadleu yn erbyn, ac o blaid, cyfododd y Parch. William Roberts, Amlwch, ar ei draed—un o gyfeillion mwyaf mynwesol Richard Jones—a dywedodd, 'Pa un bynag a wnewch chwi, fel Cyfarfod Misol, ai rhoddi caniatâd i adeiladu ai peidio, adeiladu capel a wna y brawd.' Bu hyn yn foddion i roddi terfyn ar y ddadl, ac i roddi caniatâd i adeiladu capel. Dechreuodd Richard Jones yn union ar y gwaith; cafodd hanner acer o dir gan Arglwydd Stanley, ar brydles am 1p. yn y flwyddyn o ardreth. Adeiladwyd y capel yn un llath ar ddeg o hyd, a naw o led.

Dechreuwyd ei adeiladu yn y fl. 1838. Ni chafodd Richard Jones weled gorpheniad y capel. Bu farw Gorphenaf 9fed, 1839, yn 54ain mlwydd oed. Erbyn hyn, edrychai amgylchiadau yr achos yn dywyll a chymmylog —y dyn goreu yn y gymmydogaeth wedi ei symmud o ganol ei waith a'i ddefnyddioldeb. Syrthiodd y cyfrifoldeb ar ei fab a'i ferch, y rhai a drigent gydag ef yn Penrhos ddu, pan yr oedd ef yn fyw. Y mab ydoedd David Jones, a'r ferch oedd yr hon a fu yn briod gyda'r Parch. John Jones, Wrecsam; ac wed'yn gyda John Frimston, Manchester. Dewiswyd David Jones, pan yn ŵr ieuangc, yn flaenor yn Llanfwrog, ac i gymmeryd gofal yr achos yn Llanfaethlu. Cyn diwedd y fl. 1839, gorphenwyd y capel. Yn y gwasanaeth agoriadol, pregethai y Parchn. John Elias, W. Roberts, a T. Jones, Amlwch; W. Williams, Llanfachreth; a T. Owen, Llangefni. Yn fuan, cafwyd pregethu cysson. Cyssylltwyd Llanfaethlu, Llanfwrog, a Thy'n-y-maen, yn daith Sabbath. Nid oedd yma ond tua deuddeg o aelodau ar y pryd—rhai o honynt yn aelodau yn Llanrhyddlad, a'r lleill yn Llanfwrog; a dim ond cyfarfod eglwysig yn achlysurol yn Llanfaethlu, ac ambell un ar ol y bregeth. Yn yr adeg hon, daeth W. Charles, Gwalchmai, yma i bregethu ar noson waith, ac arddelwyd y weinidogaeth yn y fath fodd fel yr arosodd nifer o'r trigolion yn y cyfarfod eglwysig oedd ar ol y bregeth. Mewn canlyniad i'r chwanegiad hwn, barnwyd ei bod yn llawn bryd anfon cais i'r Cyfarfod Misol am iddo anfon brodyr yma i'w corphori yn eglwys; a gwnaethpwyd yn ol y cais. Dymunwyd ar William Hughes, Llanfwrog, fyned yno i gynnorthwyo David Jones, y blaenor ieuangc oedd yn byw yn y gymmydogaeth, ac yn aelod o'r eglwys newydd. Daeth yr achos yn mlaen, a dewiswyd dau frawd yn flaenoriaid at David Jones; sef, Richard Evans, Cilmaenau, meddyg esgyrn enwog. Yr oedd yn hynafgwr pan y dewiswyd ef, a bu farw yn y fl. 1855. Y llall ydoedd Robert Jones, Brynmaethlu—mab arall i Richard Jones, a brawd i David Jones. Yr oedd y diweddaf yn ŵr call a chrefyddol iawn. Pan briododd Miss Jones, Penrhos ddu, ac yr aeth i Wrecsam i fyw, cafodd Methodistiaeth Llanfaethlu

golled fawr; ond gofalodd Rhagluniaeth am ddwyn un yma yn ei lle a fu yn fam yn Israel; sef, Elizabeth—merch y Parch. W. Roberts, Amlwch—a chafodd ein hanwyl frawd, David Jones, ymgeledd gymmhwys ynddi.

Llanfwrog.—Bu John Thomas fyw am o ddeutu pymtheg mlynedd o'r cyfnod hwn. Y swyddog nesaf a ddewiswyd yma, y mae'n debyg, ydoedd Edward Elias, Plas-yn-glyn, am yr hwn y crybwyllasom yn y cyfnod blaenorol. Bu John Thomas farw Ebrill 12fed, 1829, yn 75ain mlwydd oed. Yn y cyfnod hwn, dewiswyd John Hughes, Twll-y-clawdd, a William Hughes, y Dafarn, yn flaenoriaid—dau ŵr rhagorol oedd y rhai hyn. Dewiswyd dau ŵr arall yma yn flaenoriaid yn y cyfnod hwn; sef, Edward Parry, yr hwn a symmudodd oddi yma i Gaergybi; ac Owen Jones, Aberalaw. Byddai yr olaf yn dilyn moddion gras yn Llanfwrog ac yn Nhy'n-y-maen. Byddai Thomas Jones, Amlwch, yn pregethu ac yn bugeilio yma yn fwy na'r un pregethwr arall. Er ei fod yn aelod a swyddog yn eglwys Ty'n-y-maen, byddai Richard Jones, Llanfaethlu, yn dilyn y moddion yma yn fynych.

Bodedern.—Tua'r fl. 1815, helaethwyd y capel. Rhaid fod cryn lwyddiant wedi coroni yr achos yn y lle hwn, gan fod yn angenrheidiol helaethu y capel mewn ysbaid o bum mlynedd. Yr helaethiad a wnaethpwyd ydoedd dwy oriel—un yn mhob talcen i'r adeilad. Yn y cyfnod hwn, bu y diweddar Thomas Jones (Amlwch, wedi hyny), yn byw yma, yn cadw ysgol ddyddiol, ac yn ffermio tyddyn am beth amser. Bu y Parch. W. Roberts, D.D., America, yn cadw ysgol yma ar ol Thomas Jones. Yma y bu John Evans yn byw y rhan fwyaf o'i oes bregethwrol. Y blaenoriaid yma yn y cyfnod hwn oeddynt David Roberts, Mynydd y gôf; Richard Williams, Cleifiog; a Michael Parry, Tre rhys. Yr oedd Dr. Roberts yn fab i John Roberts, Aberalaw, yn feddyg wrth ei alwedigaeth, ac yn un o'r blaenoriaid mwyaf parchus a dylanwadol yn y Cyfarfod Misol. Adeiladwyd yr ail gapel yma yn y fl. 1836. Yn niwedd y cyfnod hwn, dechreuodd y Parch. Ebenezer Evans bregethu.

Caergeiliog.—Gadawsom y fan hon yn y cyfnod

blaenorol gyda marwolaeth yr hen flaenor parchus, Robert Lewis. Ychydig cyn ei farwolaeth, ymunodd Rees Lloyd, Treflasg, â'r achos. Y pryd hwn, eglwys fechan iawn oedd yma. Nid oedd yr un yn yr eglwys, ond David Lloyd, tad Rees Lloyd, a allai ddarllen pennod yn gywir, wedi marwolaeth yr hen flaenor crybwylledig. Pan y cynnygiodd y Parch. William Lloyd, Rhoscolyn, ei hun iddi, nid oedd ynddi y noson hono, meddai y diweddar Thomas Jones, Amlwch, ond rhyw ddeunaw o bersonau. Gofynodd yr hynafgwr David Lloyd i'r gŵr parchedig a oedd efe yn bwriadu arddel crefydd fel y'i harddelir genym ni, yn ei gwaradwydd, ynte galw am dro a wnaeth? Attebodd y gŵr parchedig, 'Ydwyf, gan fy mod yn credu eich bod yn galw ar enw yr Arglwydd o galon bur; ac yr wyf yn bwriadu treulio fy oes yn eich plith.' Pan aeth y gweinidog hwn i'r Cyfarfod Misol y tro cyntaf, yr oedd Rees Lloyd a Thomas Jones, yr hwn a adwaenid ar ol hyn wrth yr enw Thomas Jones, Amlwch, yn myned gydag ef. Cafodd eglwys Fethodistaidd y lle hwn flaenor rhagorol yn Rees Lloyd. Bu John Lewis, Ceryg baban, yn gyd-flaenor â Rees Lloyd, yr hwn oedd yn ŵr unplyg a gonest-galon, yn fwy o ddysgyblwr nag o feithrinwr. Yr oedd yma chwiorydd hynod; sef, Letitia Lewis, Margaret Lloyd, Treflasg, a Catherine Roberts, Aberalaw.

Valley, rhyw dair milldir o Gaergybi.—Dechreuwyd yma, fel mewn llawer o leoedd eraill, gydag Ysgol Sabbothol, yn y fl. 1818. Bu yn symmudol am o ddeutu deng mlynedd. Yn gyntaf, ceir ef yn ysgubor Tŷ Newydd. Symmudwyd ef o'r ysgubor i eglwys y plwyf. Dyma godiad mawr iddi! Ond nid oedd yno iddi ddinas barhaus. Bu raid iddi symmud o'r llan i le a elwir y 'Rallt—tŷ un o'r enw John Roberts, yr hwn nad oedd yn aelod eglwysig gyda'r Methodistiaid. O'r Allt, symmudodd i ystordy Richard Salisbury, Gorad; oddi yno, i ysgubor Pen'rodyn; ac oddi yno, i Gleifiog fawr; ac oddi yno, i dŷ gwâg a elwir Pen-yr-efail, yn agos i lan y môr. Y prif ddynion â'u hysgwyddau o dan yr arch oeddynt Richard Salisbury, Gorad; Lewis Pritchard, Tŷ newydd; Thomas Jones, *Turnpike;* a Thomas Pritchard, Tŷ mawr. Yn y fl. 1824, adeiladwyd ysgoldy, a galwyd ef Tabor; a

chwanegwyd at y brodyr blaenorol Hugh Roberts, Gorad, a Rhys Jones, Penmorfa. Yn y fl. 1830, daeth Richard Williams, Pentre Iago, Rhoscolyn, yma; ac yn y fl. 1838, unwyd Tabor â Bodedern. Yn y fl. 1857, adeiladwyd capel yma yn lle yr ysgoldy. Y blaenor yma yn y cyfnod hwn oedd Richard Williams, Cleifiog.

KINGSTOWN, Caergybi.—Dechreuodd Methodistiaeth yma gydag Ysgol Sabbothol, o ddeutu y fl. 1813, mewn tŷ o'r enw Bodwradd isaf. Prif offerynau ei sefydliad oeddynt John Bagshaw, yr hwn oedd yn preswylio yn Bodwradd isaf, a John Edwards, Bodwradd uchaf. Bu yr ysgol yn cartrefu yn y lle hwn am o ddeutu pum mlynedd. Symmudwyd hi o Bodwradd i ysgubor Pontysgyrog, lle y bu am o ddeutu blwyddyn a hanner. Yna o Bontysgyrog i'r Ogof bach, lle y bu am o ddeutu chwe mis. Symmudwyd yn ol o'r Ogof bach i Bontysgyrog, lle y bu am o chwech i saith mlynedd drachefn. Y ffyddloniaid gyda'r ysgol yn Pontysgyrog oeddynt John Bagshaw, Bodwradd isaf; John Thomas, Cweryd; William Jones, Tŷ mawr; ac Evan Jones, Pontysgyrog. Yn y fl. 1826, adeiladwyd ysgoldy Cweryd, a chartrefodd yr ysgol yma am o ddeutu 24ain o flynyddoedd. Yma, bu Edward Edwards, goruchwyliwr Penrhos, a William Thomas, Melin Heli, yn weithgar, gydag eraill. Nid oedd yma bregethu ond yn achlysurol yn y cyfnod hwn.

HYFRYDLE, CAERGYBI.—Y blaenor mwyaf galluog yma, yn y cyfnod blaenorol, oedd Richard Jones; ac yr ydym yn credu mai Richard Jones—mab y cyntaf—ydoedd y mwyaf llafurus a gofalus am yr achos yn y cyfnod hwn. Dywed *Methodistiaeth Cymru* nad oedd y mab yn ol i'w dad mewn cymmeriad uchel fel crefyddwr. Nis gallwn wneyd cymmhariaeth rhwng y ddau, o blegid nid oeddym yn adnabod yr hynaf, ond yr oeddym yn adnabod yr ieuengaf yn dda. Gwyddom, trwy brofiad, mai un o'r blaenoriaid goreu a feddai Methodistiaid Môn ydoedd. Y mae ei goffadwriaeth yn anwyl genym. Gŵr arall oedd yn flaenor parchus yma, yn cydweithio â Richard Jones, oedd John Roberts, cwriwr. Yr oedd Mrs. Roberts yn chwaer i Richard Jones, ieuengaf. Yr oedd yntau yn un o'r dynion mwyaf parchus yn y dref. Ei dduwioldeb tu

hwnt i bob ammheuaeth, ac yn ŵr o ddylanwad mawr yn Nghyfarfod Misol Môn. Yr oedd o deulu Methodistaidd. Ei rïeni oeddynt John a Catherine Roberts, Aberalaw. Yr oedd yma yn cydweithio â'r ddau grybwylledig ddau arall, o'r enwau Griffith Parry—tad y Parch. John Parry, Liverpool—a Thomas Roberts, gwehydd. Yr oedd y cyntaf yn ŵr hynod iawn. Yr oedd yma hefyd flaenor a adnabyddid wrth yr enw Edward Edwards, Penrhos—goruchwyliwr ar etifeddiaeth Penrhos. Yr oedd y Parch. Hugh Jones yma y cyfnod hwn, ac yn bur barchus yn y dref. Yr oedd y Parch. William Roberts yn byw yma, ac yn cadw *Grammar School*, yn gystal a phregethu. Bu llawer o weinidogion y Methodistiaid yn cael eu hyfforddio yn mhen eu ffordd ganddo. Yr oedd yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn Môn ar y pryd. Yr oedd ef a Hugh Jones yma yn y rhan olaf o'r cyfnod hwn, a'r rhan flaenaf o'r cyfnod dilynol.

Yn y cyfnod hwn, codwyd Ysgol Sabbothol yn Penrhosfeilw—ardal fynyddig o ddeutu dwy filldir i'r deorllewin o Gaergybi. Yr oedd trigolion yr ardal hon yn hynod o ddifater am foddion gras, ac yn amddifad o barch i'r Sabbath. Ymgasglent at eu gilydd ar y bryniau, a chreigiau y môr, i chwareu, ac i chwedleua am bethau anweddus ar Ddydd yr Arglwydd. Pan oeddynt yn yr agwedd hon, anturiodd John Roberts, y blaenor crybwylledig, yno; a thrwy gynnorthwy tyddynwr o'r enw Owen Morris, yr hwn a roddes ei dŷ, sefydlodd Ysgol Sabbothol yn y lle. Bu yn cerdded yno bob boreu Sabbath am flynyddoedd lawer; a bu llwyddiant ar ei lafur. Cafodd yr hyfrydwch o weled ysgoldy cyfleus wedi ei adeiladu yma.

Ysgol arall a godwyd yn y cyfnod hwn ydoedd Llaingoch, wrth droed Mynydd Tŵr. Y mae capel hardd yn awr yn y lle hwn.

Yn y cyfnod hwn, rhwng y blynyddoedd 1805 ac 1810, digwyddodd i long fyned yn ddrylliau ar y creigiau ger Caergybi, yr hon oedd yn llwythog o gotwm a thybaco. Golchwyd llawer o'r nwyddau hyn i'r lan gan y môr; ac ystyriai y trigolion, yn y dyddiau hyny, fod ganddynt hawl gyfreithlawn i ba bethau bynag a ddygid i dir gan

y tònau. Yn sicr, ni edrychid ar gymmeryd nwyddau a yrid i'r lan oddi wrth longau drylliedig yn ddrwg moesol yn y mesur lleiaf. Ymddengys nad oedd proffeswyr crefydd, yn hyn, yn rhagori ar eraill; canys dywedir fod holl Fethodistiaid Caergybi—yn swyddogion ac yn aelodau—wedi ymhalogi trwy gymmeryd nwyddau a ddaethant i'r lan oddi wrth y llongddrylliad dan sylw. Daeth yr achos ger bron Cyfarfod Misol Môn. Pennodwyd Elias i fyned yno i chwilio i mewn i'r peth. Darfu iddo yntau fyned yno, a chael fod pob aelod, i fesur mwy neu lai, yn euog; ac efe a ddïarddelodd yr holl eglwys—yn swyddogion ac yn aelodau—am fis. Gorchymynodd iddynt oll fyned allan yn y fan, yr hyn hefyd a wnaethant. Yn mhen tua mis o amser wedi hyny, cafodd y cyfan eu derbyn yn ol, ar eu cyfaddefiad o'u bai, a'u proffes o edifeirwch o'i herwydd. Dyma fel y ceir yr hanes yn *Nghofiant y Parch. John Elias*, yr hwn a ysgrifenwyd yn mhen rhyw ddeugain neu bump-a-deugain o flynyddoedd wedi i'r peth gymmeryd lle, pan oedd llawer o'r rhai a ddïarddelwyd yn fyw; ond ymddengys fod y Parch. John Parry, Liverpool, yn ammheu gwirionedd yr hanes—fod yr oll, heb un eithriad, wedi eu dïarddel.

Llaingoch, Caergybi.—Dechreuodd Methodistiaeth yn y lle hwn tua'r fl. 1823, mewn tŷ o'r enw Llaingoch—tŷ annedd yn cael ei breswylio gan ŵr o'r enw William Owen. Y ffurf a gymmerodd Methodistiaeth yma ar y cyntaf, fel mewn llawer o leoedd eraill, oedd Ysgol Sabbothol. Y mae yn ymddangos iddi symmud o Laingoch i Gaefabli, ac adeiladwyd ysgoldy yn y fl. 1835. Richard Moses, Mynydd Ifan, oedd un o'r dynion mwyaf ymroddgar yn y gymmydogaeth gyda'r ysgol. Byddai cyfeillion Caergybi yn arfer dyfod yma i gynnorthwyo. Nid oedd yma eglwys Fethodistaidd, na phregethu, oddi eithr yn achlysurol, yn y cyfnod hwn. Yr oedd holl Fethodistiaid plwyf Caergybi yn aelodau o eglwys Hyfrydle.

Rhoscolyn.—Ymddengys fod dwy gangen o Ysgolion Sabbothol wedi eu sefydlu yn y cyfnod hwn; sef, Ysgol Bangol ac Ysgol y Bont. Tybir mai yn y Greiglwyd bach y cedwid y ddiweddaf. Nis gellir nodi y flwyddyn y sefydlwyd yr ysgolion hyn. Ceid eu bod yn y fl. 1818.

Ymddengys hefyd i Ysgol Sabbothol gael ei sefydlu yn Crecrist, yn nhŷ John James, *Turnpike*, o ddeutu y fl. 1832, ac iddi lyngcu y ddwy eraill iddi ei hun; ond cynnaliwyd ysgol am amser byr yn Ty'ntywyn. O ddeutu y fl. 1835, adeiladwyd yr ysgoldy presennol yn Crecrist. Tybiem fod Methodistiaid Rhoscolyn am feddiannu pob cŵr o'r maes. Yr un gŵr ag a roddodd dir i adeiladu y capel a roddodd dir hefyd i adeiladu ysgoldy Crecrist. Y blaenoriaid yma yn y cyfnod hwn oeddynt Hugh Williams a Thomas Williams. Bu y cyntaf farw yn y fl. 1847, a'r diweddaf yn y fl. 1854. Yr oedd Rhoscolyn a Chaergybi, yn daith Sabbath, yn yr adeg hon.

Bryn du.—Yn y fl. 1814 yr adeiladwyd yr ail gapel yma; ac yr oedd yn rhagori llawer ar yr hen. Rywbryd yn y cyfnod hwn, daeth gŵr ieuangc o'r enw Cadwaladr Williams—mab i William Cadwaladr, Llwyn-yr-arth, Llanbabo—i gadw ysgol ddyddiol yn y capel; a dechreuodd bregethu tua'r fl. 1804. Y gŵr hwn a adnabyddid yn Môn ar ol hyn fel y Parch. Cadwaladr Williams, Penceint. Dywedir i'r Parch. Christmas Evans ddyfod i gymmydogaeth Bryn du, a'i fod yn bedyddio, ac yn dyfynu 1 *Cor.* x. 12:—'Ac ni fynwn i chwi fod heb wybod, frodyr, fod ein tadau oll dan y cwmmwl, a'u myned oll trwy y môr; a'u bedyddio hwy oll i Moses;' ac iddo wneyd y sylw—'Tadau a fedyddiwyd, ac nid plant;' ac i Cadwaladr Williams ddywedyd, gan wenu—'Ië, tadau oeddynt pan oedd Paul yn ysgrifenu; ond plant oedd miloedd o honynt pan fedyddiwyd hwy i Moses.' Yn y fl. 1824, bu farw John Owen, y Fferam. Colled fawr i'r achos oedd marwolaeth yr hen dad o'r Fferam; ond elw mawr iddo ef. Wedi marwolaeth John Owen, Richard Williams, y saer, yr hwn oedd yn byw yn Rhosneigr, oedd yn blaenori. Yr oedd y gŵr hwn o wybodaeth a dylanwad mawr. Yr oedd William Evans, Rhosbadrig; Owen Williams, Neuadd; a William Owen, Bryn gwyn, yn wasanaethgar. Yr ydym yn cael y tri hyn yn flaenoriaid yn y cyfnod dilynol, ac y mae yn debyg eu bod yn y cyfnod hwn hefyd. Bu y Parch. David Elias yn byw yn y gymmydogaeth hon am beth amser yn y cyfnod hwn. Yma y dechreuodd y Parch. William Williams bregethu; ac

yr oedd yn cael ei ystyried yn bregethwr rhagorol. Symmudodd oddi yma i Fanceinion.

PARAN, RHOSNEIGR, sydd gangen o Fryn du. Dywedir i'r achos ddechreu yn y gymmydogaeth hon mewn Ysgol Sabbothol, mewn lle o'r enw Rhosmor Feri. Tybir mai cangen o hono a ddaeth i Rhosneigr. Y lle cyntaf y cafodd yr ysgol ei throed i lawr yn Rhosneigr ydoedd Belan—tŷ gŵr o'r enw Henry Pritchard. Symmudodd oddi yno i Cefn-y-dre'—tŷ William Rowlands—ac oddi yno i'r Ffrwd—tŷ Thomas a John Owen. Bu yr ysgol yn y Ffrwd am o ddeutu pum mlynedd. Symmudodd oddi yno i Dy'nlôn—tŷ Margaret Hughes. Yn y fl. 1827, adeiladwyd capel yma, os teilwng o'r enw. Nid oedd yr un eisteddle ynddo—dim ond ceryg o amgylch, a choed ar y rhai hyny. Y rhai mwyaf selog gyda'r achos yn y cyfnod hwn oeddynt John Pritchard, Peithor; William Owen, Ffrwd; Robert Chambers, Ty'n-y-pwll; John Owen, Ty'n-y-ceryg; William Rowlands, Cefn-y-dref; William Hughes, hwsmon Tŷ hen; a Hugh Hughes, Glan-y-llyn. Y mae yn debyg fod yma wahanol gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn yr adeilad a elwid yn gapel.

ABERFFRAW.—Yr oedd Griffith Edwards a Thomas Evans yn fyw yn y cyfnod hwn, ac yn weithgar a defnyddiol iawn. Yn eu hamser hwy, yr oedd hen frawd lled hynod, o'r enw Humphrey Ellis, yn byw yn Nhŷ'r capel, yr hwn oedd yn seren ddisglaer, er nad oedd yn swyddog. Pan y byddai y cyfarfod eglwysig yn lled drymaidd a marwaidd, elai Griffith Edwards at yr hen frawd, a gofynai iddo—'Beth sydd ar dy feddwl di, Humphrey?' A'r attebiad bob amser fyddai, 'Canys nid appwyntiodd Duw nyni i ddigofaint, ond i gaffael iachawdwriaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist.' Yna, codai ei fraich i fyny, a dywedai, nes y byddai y trymder a'r marweidd-dra yn troi yn ysgafnder a bywyd—'Y mae arnaf chwant dangos gogoniant yr iachawdwriaeth i'r holl fyd.' Yna, dywedai adnod arall; sef, 'Y rhai trwy allu Duw ydych gadwedig trwy ffydd i iachawdwriaeth.' Y peth rhyfedd oedd hyn; er mai yr un adnodau a ddywedai bob amser, etto dywedai hwy yn y fath fodd nes cynnyrchu bywyd a hwyl yn y cyfarfodydd.

Yn y cyfnod hwn y dechreuasant achos mewn lle o'r enw Pen-y-cnwc (Beulah yn bresennol) tua dwy filldir o'r Aberffraw. Y ddau frawd nesaf a ddewiswyd yn flaenoriaid yma oeddynt John Jones, Llangwyfan, a Daniel Jones, Bodgedwydd. Yr oedd John Jones yn fab i John Owen, Llangwyfan, yr hwn oedd yn flaenor parchus yn yr eglwys hon yn yr ail gyfnod. Yr oedd ei gydswyddog, Daniel Jones, yn ddyn da—yn meddu yr hyn a elwir yn ddawn gweddi; byddai weithiau yn fwy dylanwadol ar y gynnulleidfa na neb yn yr eglwys. Symmudodd oddi yma i Gad, ac o Gad i Gaergybi; ac yno y gorphenodd ei yrfa. Yr oedd Evan Griffith, Siop, a William Evans, Eagles, yn flaenoriaid yma. Ymddengys mai â'r eglwys hon yr ymunodd Owen Rowlands, y pregethwr, gyntaf. Yn y cyfnod hwn, tua'r fl. 1822, torodd diwygiad crefyddol nerthol allan yn yr Aberffraw, fel mewn lleoedd eraill yn y sir. Yn Bethel y dechreuodd yn y cymmydogaethau hyn; ond cerddodd yn mlaen, o ardal i ardal, a daeth i Aberffraw gyda nerth mawr; a chwanegwyd llawer at yr eglwys o bob oedran. Yn yr adeg hon, yr oedd Cymmanfa Llangefni i fod; yr oll o Aberffraw a aethant i Langefni; ymgasglasant yn y capel, a chychwynasant oddi yno yn un dyrfa; ac erbyn cyrhaedd Bethel, yr oedd y dyrfa mor fawr nes llenwi y ffordd, a chadwyd cyfarfod gweddi ar ganol y ffordd fawr. Lle rhyfedd oedd yn Llangefni yn y Gymmanfa hon—y pregethwyr a'r gwrandawyr yn llawn tân nefol. Yr oedd yr ynys yn fedyddiedig â'r Ysbryd Glân, ac â thân ysbrydol.

Bryngwran.—Yma cawn achos newydd; nid oedd yn y gymmydogaeth hon eglwys Fethodistaidd yn y cyfnodau blaenorol. Symmudodd yr hen bregethwr, Owen Rowlands, o'r Aberffraw i'r gymmydogaeth hon i fyw; Nid oedd yma achos Methodistaidd; ac yr oedd yn rhaid iddo fyned i le o'r enw Bryn du i addoli. Yr oedd yma hefyd flaenor o'r enw John Thomas, wedi symmud o Brynsiencyn i fyw i ffermdy o'r enw Tŷ moel, yn mhlwyf Ceirchiog. Yr oedd efe a'i wraig yn bur grefyddol; rhieni Mrs. Lewis, gweddw Richard Lewis, fferyllydd, Bodedern, oeddynt. I Gwalchmai y byddent

hwythau yn myned. Dechreuwyd Ysgolion Sabbothol yn Nhyddyn Meredydd, Tŷ hen, Rhos-yr-ŵyn, a Chae'rddôl. Yr oedd yma ŵr o'r enw William Jones, Plas Llechylched; er nad oedd yn aelod eglwysig, yr oedd yn hynod o ffyddlawn gyda'r Ysgol Sabbothol. Yr oedd ei fam, Anne Hughes, yn aelod, ac yn haelionus iawn. Yr oedd gŵr arall, o'r enw Hugh Williams, Tŷ hen, yn weithgar iawn gyda'r ysgol; nid oedd yn aelod eglwysig, ond yr oedd ei fam yn aelod tra defnyddiol. William Jones, neu Hugh Williams, fyddai ysgrifenydd yr ysgol tra y buont byw. Yn y fl. 1824, adeiladwyd capel, a galwyd ef Hebron. Yr oedd yma bregethwr a blaenor cyn bod eglwys na chapel. Yn lled fuan wedi sefydlu eglwys yma, dewiswyd Richard Griffith, Cae'rddôl, yn flaenor. Ac ar ei ol, dewiswyd Henry Jones, Grug, a John Hughes, Pen-y-bryn. Bu y cyntaf yn hynod o ffyddlawn, er fod ganddo tua dwy filldir o ffordd i'r capel. Daeth y diweddaf yn aelod yn yr Aberffraw yn amser y diwygiad y crybwyllasom am dano. Yr oedd ei ddychweliad at Dduw mewn edifeirwch yn amlwg iawn, a mwynhaodd ei enaid orfoledd yr efengyl hyd ddiwedd ei oes. Symmudodd o Hebron i Lanallgo, a bu o ddefnydd yno fel yn Hebron.

GWALCHMAI.—Gadawsom yr achos yma yn y cyfnod blaenorol gydag adeiladaeth yr ail gapel, yn y fl. 1810. Nid aeth llawer o flynyddoedd heibio hyd nes y daeth yr anwyl John Charles i'r golwg. Bu William Thomas, Siop, yn flaenor yma am flynyddoedd. Daeth yma i fyw yn y fl. 1788. Yr oedd William Hughes, Ty'nllidiart; William Parry, Cefn-cae'r-fôr; William Jones, Drip bach; ac Evan Griffith, Crugor—mab i William Evans, o'r un lle—yn flaenoriaid yma. Yr oedd gan W. Thomas, Siop, fab o'r enw Owen Thomas, yr hwn a ymunodd â'r Methodistiaid yn Ngwalchmai yn y fl. 1810. Llwyr ennillwyd ei feddwl at grefydd wrth wrandaw y Parch. Thomas Richards, o'r Deheudir, yn pregethu oddi ar 2 *Cor.* v. 9. Pan y clywodd am ei farwolaeth, llanwyd ei lygaid â dagrau gloewon, a dywedodd fel Eliseus am Elias—'Fy nhad, fy nhad!' Dewiswyd ef yn flaenor yn y fl. 1817. Yn y cyfnod hwn, dechreuodd dau o feibion y Parch.

John Charles bregethu; sef, Hugh a William Charles. Yr oedd y cyntaf yn bregethwr da iawn; ond y diweddaf oedd y pregethwr mwyaf nerthol a phoblogaidd. Bu gŵr o'r enw Rhys Rowlands yn pregethu am rai blynyddoedd; ond fe ddyrysodd yn ei amgylchiadau. Yma y dechreuodd William Williams, Llanfachreth, bregethu. Yr oedd yma flaenor arall, o'r enw William Williams, Ysgubor Esgob. Yn y fl. 1829, ordeiniwyd y Parch. John Charles, yr hwn a fu yn llafurio fel gweinidog am lawer o flynyddoedd gyda chymmeradwyaeth mawr.

Bethel.—Gadawsom yr achos yn y lle hwn yn y cyfnod blaenorol mewn gwedd lwyddiannus. Yn y fl. 1822, cafodd yr eglwys hon, fel eglwysi eraill yn Môn, adfywiad nerthol a grymus. Yn yr adeg hon, yr oedd hi 'yn llawen fam plant,' ac 'yn dyfod mewn gorfoledd, gan gasglu ei hysgubau.' Yr oedd y weinidogaeth gyda'r fath nerth fel nas gallai y mwyaf cyndyn ei gwrthsefyll. Yr oedd teimladau anghysurus ag oedd rhwng crefyddwyr a'u gilydd yn toddi ymaith fel yr iâ gan wres yr haul. Yr oedd Haul y Cyfiawnder yn tywynu â meddyginiaeth yn ei esgyll, a'r Ysbryd Glân yn cael ei dywallt ar bob cnawd—hen ac ieuangc, gwryw a banyw, ar fyd ac eglwys. Y blaenoriaid oeddynt William Williams, Siop; John Rowlands, Fferam; a Thomas Jones, Bodwrdin. Yr oeddynt yn flaenoriaid da. Adwaenem y ddau gyntaf fel dynion hynod mewn duwioldeb.

Soar.—Cangen ydyw yr achos yn y fan hon o eglwys Bethel. Yn agos i'r lle hwn, y mae craig uchel, o'r enw Dinas; a byddai ieuengctyd yr ardal yn arfer ymgasglu yno ar y Sabbothau i chwareu. Tua'r fl. 1814, dechreuwyd Ysgol Sabbothol yma, i geisio attal yr ieuengctyd fyned i ben y graig ar y Sabbothau. Sylfaenwyr yr ysgol oeddynt William Rowlands, Fferam-dryfol, a gŵr o'r enw Hugh Roberts. Y lle cyntaf y cadwyd yr ysgol ynddo ydoedd ysgubor y diweddaf. Pan oerodd yr hîn, symmudodd i dŷ gŵr o'r enw Owen Hughes, lle y bu am o ddeutu blwyddyn; oddi yno drachefn i'r Fferam, tŷ William Rowlands, lle y bu am o ddeutu chwe blynedd. Aelodau o eglwys Gwalchmai oedd William Rowlands a'i wraig ar y pryd. Daeth Hugh Williams, Cefn du, yma i

gynnorthwyo. Cyn iddo ef ddyfod, ni fyddai gweddïo yn nechreu na diwedd yr ysgol—dim ond darllen pennod o'r Beibl a chanu. Symmudodd yr ysgol drachefn i Gareg-onen, lle y bu am ychydig wythnosau; ac oddi yno i Ben-y-bryn, gyferbyn â'r capel a elwir yn y pummed cyfnod yn Soar. Y pryd hwn, daeth gŵr duwiol iawn, o'r enw Richard Roberts, aelod o eglwys Bethel, yma. Prynodd gŵr o'r enw Robert Evans, aelod arall o eglwys Bethel, Ty'nrhos, a rhoddodd gongl cae i adeiladu capel arno yn y fl. 1823. Helaethwyd ef yn lled fuan. Pregethid ynddo yn achlysurol yn y cyfnod hwn. Yr oedd gan W. Rowlands, Fferam, feibion a fuont yn ffyddlawn gyda'r achos, o'r enwau John a William Rowlands. Yr oedd John Rowlands yn flaenor yn Bethel; ac yr oedd Thomas Jones, Bodwrdin, yn flaenor yn yr un eglwys; ac yr oedd y ddau yn flaenoriaid yn Soar hefyd. Bu William Rowlands—brawd John Rowlands—yn weithgar am flynyddoedd yn Soar. Yr oedd John a William Rowlands yn ddisgynyddion o'r ddau deulu mwyaf parchus a chrefyddol yn Môn. Yr oedd William Pritchard, Clwchdernog, yn hen daid iddynt, a Thomas Williams, Ty'n-y-merddyn, Caergeiliog, yr un modd. Y mae brawd i'r ddau yn aros hyd heddyw, ac yn flaenor yn Birkenhead; sef, Richard Williams.

Yr oedd Methodistiaeth, yn y ffurf o Ysgol Sabbothol, yn y cyfnod hwn, mewn lle o'r enw Iard Malltraeth, rhwng Bethel a Niwbwrch, rhyw filldir a hanner o'r lle cyntaf, a thua dwy filldir o'r lle diweddaf. Dechreuodd yr Ysgol Sabbothol yma mewn tŷ annedd o'r enw Frechden, tua'r fl. 1790. Yn mhen amser, symmudodd i dŷ arall yn yr Iard, yr hwn a alwyd o hyny hyd yr amser yr ydym yn ysgrifenu yn Ysgoldy. Ar ol hyn, symmudwyd hi i lofft ëang a chyfleus, yr hon a elwid Llofft-y-storws. Bu yma am lawer o flynyddoedd, ac yma y pregethwyd y bregeth gyntaf yn yr Iard. Byddai pentŵr o ŷd yn un pen iddi pan fyddai yr ysgol yn cael ei chynnal. Prif golofnau yr ysgol oeddynt Edward Meredith, Perth hwfa—yr hwn oedd yn ddechreuwr canu talentog; a Rowland Pritchard—tad y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor. Cafwyd tir gan feddiannwyr Morfa Malltraeth i adeiladu

ysgoldy, ar yr ammod, meddir, na byddai pregethu ynddo; ac adeiladwyd yr ysgoldy yn y fl. 1831. Dechreuwyd pregethu yn yr ysgoldy yn lled fuan, er nad oedd y weithred yn caniatau hyny. Y daith Sabbath ydoedd Llangristiolus, Bethel, Soar, a'r Iard—pregeth bob Sabbath yn y ddau le cyntaf, a phregeth bob yn ail Sabbath yn y ddau le diweddaf. Yr oedd yr achos yma yn ennill nerth y naill flwyddyn ar ol y llall, a thrwy bob symmudiad. Nid oedd yma eglwys gorphoredig yn niwedd y cyfnod hwn.

Llangristiolus.—Yr oedd yma flaenor o'r enw John Williams, Bryn-glas. Byddai yn lled dywyll arno, weithiau, pan y dechreuai y cyfarfod gweddi; ond os cynnhyrfid ef, mynai weddïo eilwaith yn yr un cyfarfod; ac yn y cyffredin, byddai yn hwyliog dros ben yr ail waith. Yr oedd yma ŵr o'r enw Thomas Williams, Llanfawr, yn flaenor gydag ef; ond ni pharhaodd yn swyddog hyd ei farwolaeth. Bu yma, yn y cyfnod hwn, flaenor o'r enw John Roberts, Cefn. Dywed y diweddar Barch. Owen Owens, Bethel, yn Mywgraffiad William Williams, Bethel, yr hwn a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am Gorphenaf, 1858, fod diwygiad grymus wedi tori allan yn Nhrefdraeth, a'i chyffiniau. Cyn hyny, arferai lliaws o ieuengctyd yr ardal ymgyfarfod mewn cae cyfagos i gartref William Williams, i chwareu pêl droed, a champau cyffelyb, ar y Sabbothau. Yn eu plith, byddai yntau yn cymmeryd ei ran; ond rhyw brydnawn Sabbath, wedi i'r chwareuwyr ddyfod ynghyd, dyma un o honynt, er syndod i'r lleill oll, yn dywedyd fod dau o'r pencampwyr wedi myned i'r seiat yr wythnos o'r blaen, i gapel Llangristiolus. Cafodd hyn y fath argraph ddaionus ar eu meddyliau fel na feiddiasant fyned yn mlaen gyda'u campau y Sabbath hwnw. Aeth William Williams gartref, gan ddywedyd ynddo ei hun, 'Wel, wel! y rhai'n a'r rhai'n wedi myned i'r seiat!—beth a ddaw o hona' i?' Torodd allan i wylo, ac aeth i'r beudŷ i geisio gweddïo; ond methodd a dywedyd yr un gair, er iddo fyned ar ei liniau, gan mor llym y cyhuddid ef gan ei gydwybod am halogi y Sabbath. Wedi hir ymryson, efe a aeth, ac un arall o'i gyfoedion gydag ef, gan gyfeirio eu camrau tua

hen gapel Llangristiolus, i ymofyn am le yn nhŷ Dduw. Safasant wrth y drws am beth amser, fel rhai heb nerth ynddynt i fyned i mewn. Wrth weled y bobl yn myned i mewn, y naill ar ol y llall, gan gau y drws ar eu holau, heb wneyd nemawr sylw o honynt hwy eill dau, aethant yn athrist iawn. Fe allai fod yr hen Fethodistiaid yn myned i un eithaf yn y cyfnod hwn, pan y mae Methodistiaid yr oes hon yn rhedeg i eithaf gwrthgyferbyniol. Ai tybed mai nid rhwng y ddau eithaf yw y diogelaf? O'r diwedd, daeth hen chwaer dduwiol a meddylgar; ac wrth fyned i mewn, gwenodd yn serchog ar y ddau, a gadawodd ddrws y capel yn gil-agored ar ei hol, fel arwydd iddynt fod croesaw iddynt hwythau ddyfod i mewn. Gwnaeth gwên yr hen chwaer hwy yn ddigon gwrol i fentro i mewn. Yn y dydd y cynnelid y cyfarfod eglwysig hwn, ac nid yn y nos. Yn y fl. 1822, cafodd Llangristiolus, fel lleoedd eraill yn Môn, ddiwygiad crefyddol grymus. Yr oedd y flwyddyn hon yn un o 'flynyddoedd deheulaw y Goruchaf' yn Môn. Yn yr adfywiad hwn y daeth ein hanwyl frawd Hugh Hughes, Cefn mawr, yn Fethodist, ac yn Gristion cywir. Daeth ef, a'i wraig, y naill oddi wrth ei alwedigaeth, a'r llall oddi cartref, yn gwbl ddiarwybod i'w gilydd, i'r cyfarfod eglwysig. Yn y fl. 1836, dewiswyd ef yn flaenor. Yn y cyfnod hwn, yr oedd Hugh Hughes, Tŷ newydd, yn flaenor yma—dyn rhagorol, a thad y ddau Hughes sydd yn flaenoriaid yn yr Iard.

Bethania, yn mhlwyf Llangaffo, sydd gangen o eglwys Niwbwrch. Yn mhell yn y cyfnod hwn y sefydlwyd eglwys Bethania. I leoedd eraill y byddai yr ychydig Fethodistiaid oedd yn y gymmydogaeth hon yn myned. Nid oedd Niwbwrch, Dwyran, a Bethel, yn mhell oddi yma. Byddai y Methodistiaid a'r Annibynwyr yn arfer cadw cyfarfodydd gweddïau ac Ysgol Sabbothol gyda'u gilydd yn yr ardal hon. Yr oedd Ysgol Sabbothol mewn lle a elwir Groeslon; ond yn lled aflwyddiannus. Cedwid y cyfarfodydd gweddïau yn y tŷ hwn, ac yn y tŷ arall. O'r diwedd, awgrymodd rhywun, ai ni byddai yn well gofyn i'r parson a ellid cael benthyg yr 'Ysgubor Ddegwm' dros rhyw dymmhor, i gadw Ysgol Sabbothol ynddi?

Cipiwyd yr awgrym i fyny, ac aed at y gŵr parchedig; a chaniataodd efe iddynt eu cais gyda hynawsedd mawr. Yr oedd hyn yn Chwefror, 1831. Dechreuwyd yr ysgol yn ddioed yn yr ysgubor. Dechreuodd rhyw Sanbalat a Thobia wawdio a gwatwar. Galwent yr ysgol yn 'Gyfarfod Degwm.' Yr oedd y degwm yn ffieiddbeth y pryd hwn, fel yn awr. Pa fodd bynag, cafwyd pregethu yn achlysurol yma ar nos Sadyrnau. Llwyddodd yr achos yn raddol. Nifer yr aelodau eglwysig ar y dechreu oedd un-ar-hugain; a chwanegwyd deg-ar-hugain eraill atynt yn lled fuan. Penderfynasant gasglu tuag at gael capel, a chasglwyd yn fuan y swm o 64*p*. Cafwyd tir mewn ammod-rwym am 99ain o flynyddoedd; ac adeiladwyd y capel, a galwyd ef yn Bethania (Tŷ y Palmwydd), yr hwn a agorwyd Tach. 2il, 1832. Y blaenoriaid yn y blynyddoedd hyn oeddynt Hugh Williams, Fron-deg, ac Owen Dafydd, Marquis. Daeth y Parch. John Jones i fyw yma, tua'r un amser, o Niwbwrch. Clywsom fod dadl boeth wedi bod rhwng Hugh Williams, Fron-deg, yn y Cyfarfod Misol, o berthynas i'r capel. Barnai Roberts, Amlwch, nad oedd eisieu capel yma—fod rhai eraill yn ddigon agos; ond gorchfygodd Hugh Williams un o'r dynion mwyaf yn Nghymru; a dywedodd Roberts y cymmerai ofal nad äi efe byth i ddadl âg ef drachefn. Ond Hugh Williams oedd ar yr iawn; ac felly, nid rhyfedd iddo orchfygu y cawr o Amlwch. Gofaled y rhai bychain fod ar yr iawn, a gorchfygant gewri pan ar gam.

Niwbwrch.—Y blaenor cyntaf a geir yn yr eglwys hon, ar ol y tô cyntaf, oedd Robert Jones, Cwning-gaer—gŵr penderfynol a didderbyn-wyneb oedd efe, a lled wyllt ei dymmher hefyd; ond deuai ato ei hun yn fuan. Yr oedd yn dueddol i gredu pob peth a glywai, a byddai hyny yn ei arwain, weithiau, i brofedigaeth gyda'r ddysgyblaeth, trwy alw rhai o'r aelodau i gyfrif heb fod sail i'r cyhuddiadau. Byddai yn llym iawn wrth yr euog, ond yn dyner iawn wrth yr edifeiriol. Yr oedd y blaenor hwn yn frawd i'r Parch. David Jones, o'r Dwyran. Gŵr arall a geir yma yn flaenor ydoedd Hugh Evans, y saer. Yn ei dŷ ef y byddai Elias yn llettya. Bu y gŵr hwn yn golofn gref o dan yr achos am lawer o flynyddoedd.

Yr oedd gan Hugh Evans wraig rinweddol iawn. Bu fyw drwy yr holl gyfnod hwn, ac am tuag wyth mlynedd o'r cyfnod nesaf. Bu farw yn y fl. 1849. Yn yr amser hwn, ceid David Roberts, Maes-y-ceirchodir, yn flaenor yma. Dyn bychan o gorpholaeth, fel Zaccheus, oedd efe; ond o synwyr cyffredin lled gryf. Yr oedd wedi bod yn Lloegr, ac wedi dysgu Saesneg; ac yr oedd hyn yn peri iddo ragori, fel dyn, yn yr adeg hon. Bu farw yn y fl. 1847. Yn agos i ddiwedd y cyfnod hwn, bu yma ddiwygiad. Gelwid ef yn ddiwygiad Griffith Williams, Bwlan; o blegid trwyddo ef, fel offeryn, y cychwynwyd ef. Daw y diwygiad hwn dan sylw etto.

Dwyran.—Yn nechreuad y cyfnod hwn, sef yn y fl. 1814, y daeth yr eglwys hon i restr eglwysi y sir. Yn y flwyddyn ddilynol, ceir y Cyfarfod Misol cyntaf yn cael ei gynnal yma, ar Ebrill 10fed; yn yr hwn y derbyniwyd y swm o 53*p*. 11*s*. 4*c*. tuag at yr achos cenhadol. Yn yr amser hwn, ceir yr un gwŷr yn flaenoriaid ag a nodasom yn niwedd y cyfnod blaenorol. Perthyn i'r blynyddau hyn yr oeddynt mewn gwirionedd. Y gwŷr oedd W. Hughes, o'r Hen-dŷ; Evan Evans, o'r Penrhyn bach; a Richard Pierce, 'Refail. Symmudodd y diweddaf oddi yma i gymmydogaeth Brynsiencyn; a chollodd ei swyddogaeth a'i aelodaeth trwy ddïarddeliad. Ai tybed na bu Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid, ddim yn flaenor yma? Buasai y Dwyran yn nes iddo ef na Niwbwrch; ond fe allai iddo farw cyn hyn. Dewiswyd John Humphreys, Glasynys, a Hugh Pritchard, Bryntirion, yn henuriaid yma yn y cyfnod hwn. Yr oedd William Hughes, o'r Hen-dŷ, yn ŵr crefyddol, a chywir dros ben. Cyflawnodd ei swydd fel blaenor gyda gonestrwydd mawr. Dywedir i'w feistres tir, yr hon oedd yn aelod yn y Dwyran, gyflawni rhyw drosedd, fel y bu raid ei rhoddi dan gerydd eglwysig; ac i W. Hughes fod yn llym iawn tuag ati. Ond yn lle digio wrth ei thenant, meddyliodd fwy o hono ef, ac anfonodd ei gwêdd i'w helpu i lafurio ei dir yn y gwanwyn canlynol. Yr oedd y Parch. D. Jones yma yn weinidog, neu yn bregethwr. Yn y fl. 1835, ordeiniwyd ef. Yr oedd swyddogion cyntaf yr eglwys hon yn gymmeriadau lled hynod. Byddai

David Jones, weithiau, yn lled bigog—yr oedd efe yn naturiol felly; Evan Evans yn lled gyrhaeddgar yn ei ddywediadau; a John Humphreys yn lled wyllt a sydyn. Mewn cyfarfod eglwysig, dywedai David Jones, 'Yr wyf yn cofio y tô cyntaf o henuriaid yn Môn, ac yr oeddynt fel gwartheg tir da, yn meddu cyrph mawrion a chyrn bychain; ond y mae y rhai presennol fel gwartheg tir gwael, yn meddu cyrph bychain ond cyrn mawrion; fel y rhai sydd genyt ti, Siôn. [meddai wrth J. Humphreys] Hwyrach y gwyddost ti pa fodd y maent felly?' Attebodd yr hen flaenor ef mewn tipyn o wylltineb, 'Na wn i ddim.' Mewn Cyfarfod Misol, yr oedd y blaenoriaid yn dyweyd ychydig o hanes yr achos yn y lle, a Roberts, Amlwch, yn eu gwrandaw, ac yn eu holi. Dywedodd Evan Evans—tad Thomas Evans, Castell (Gilead)—'Yr ydym yn cael digon o waith yma i chwalu pridd y wâl; ond yn methu dal y twrch.' Deallodd Roberts y ffugr, ac ni anghofiodd ef tra bu byw. Deallodd efe pwy oedd y twrch; ond fe allai na ddeallodd pawb oedd yn y Cyfarfod Misol ef. Y mae tyrchod yn ngwinllan yr eglwys yn rhoddi llawer iawn o waith i chwalu pridd y wâl—i ddadwneyd eu gwaith; ond y mae yn anhawdd eu dal hwynt. Bu y Dwyran, Niwbwrch, a Bethania, mewn cyssylltiad â'u gilydd, yn daith Sabbath am lawer o flynyddoedd. Yn y fl. 1841, ail adeiladwyd capel Dwyran, neu adgyweiriwyd ef o'i fewn, ac adeiladwyd oriel ynddo. Yr oedd yma chwiorydd crefyddol a duwiol iawn; megys Mrs. Owen, Rhyddgar; Mrs. Griffith, Hendy; a Mrs. Owen, Foel—merch Owen Jones, Cwyrt, a mam Syr Hugh Owen, Llundain.

Brynsiencyn.—Gadawsom y lle hwn, yn y cyfnod blaenorol, gyda'r diwygiad crefyddol yn y flwyddyn 1794. Adeiladwyd capel yma, fel yn y Dwyran, trwy egni a ffyddlondeb Owen Jones, Cwyrt. Effeithiodd y diwygiad crybwylledig yn rymus ar yr ardaloedd cylchynol. Nid oedd ond dau o'r aelodau eglwysig yn Mrynsiencyn na orchfygwyd hwy i'r graddau na allent ymattal heb lefain; a dywedir am un wraig, na wnaeth hi ddim yn mron am un wythnos gyfan ond canu a chanmawl. Yr oedd William Williams, Gwydryn; John Elias, Porth-

amel; William Dafydd, Ty'n lôn; Robert Jones, Gwrach ddu—mab i Owen Jones, Cwyrt; Richard Pierce, Ysgubor fawr; William Williams, saer; a John Thomas, yr hwn a symmudodd i ardal Hebron, yn flaenoriaid yn eglwys Brynsiencyn, yn y cyfnod hwn. Yn ei ddiwedd, neu ddechreu y nesaf, daeth y Parch. William Griffith yma; ond nid arosodd efe ond am dymmhor byr. Diarddelwyd Robert Pierce. Bu brawd o bregethwr o'r Deheudir, am beth amser, yn cadw ysgol ddyddiol yma.

Gaerwen.—Yn y fl. 1827, adeiladwyd capel newydd yma; sef, yr ail gapel. Tua'r fl. 1829, galwyd Griffith Roberts, Cefn du, yn flaenor. Yn y cyfamser, bu Owen Williams, Gaerwen, yn swyddog. Nid oedd yn swyddog hyd ddiwedd ei oes; ond yr oedd yn ŵr crefyddol hyd y diwedd. Symmudodd o'r Gaerwen i gymmydogaeth Llanallgo, a bu ef a Mrs. Williams yn ffyddlawn i grefydd hyd angeu. Bu dau bregethwr yma hefyd yn lled gynnar yn y cyfnod hwn; sef, Thomas Jones, yr hwn a ddaeth yma o Amlwch, ac a ymunodd â'r Annibynwyr cyn diwedd ei oes; ac Edward Jones, Maeneryr. Tua'r fl. 1829, daeth y Parch. Robert Hughes yma i gadw ysgol ddyddiol, a bu ei ddyfodiad ef yn fantais fawr i Fethodistiaeth yr ardal. Daw efe o dan sylw yn y pennodau dilynol. Cyn diwedd y cyfnod hwn, dewiswyd gŵr o'r enw William Owen yn flaenor, yr hwn a ddiswyddwyd yn mhen blynyddoedd. Yr oedd Methodistiaeth yma mewn gwedd lewyrchus y pryd hwn, ar y cyfan. Nid un anenwog oedd Anne Roberts—mam y Parch. R. Hughes. Yr oedd hi yn fam yn Israel; a dewiswyd pump o'i meibion yn swyddogion eglwysig.

Llanfair P. G.—Gadawsom yr achos yn yr ardal hon, yn y cyfnod blaenorol, mewn gwedd lwyddiannus, o dan ofal Richard Morris a Richard Evans; ac yr ydym yn ei gael, yn bresennol, yn yr un wedd. Yn y flwyddyn y bu farw Richard Morris, bu chwanegiad mawr at yr eglwys:—daeth pymtheg o'r newydd y noson y claddwyd ef, a deugain eraill yn ystod y flwyddyn. Y blaenoriaid yma yn yr adeg hwn oeddynt William Pritchard, Siop; Evan Williams, Ty'n-y-coed; Hugh Evans, Bryn eira; a Richard Edwards, Glan rhos.

Porthaethwy.—Planwyd Methodistiaeth yn Llanfair tua 30ain mlynedd yn gynt nag yn y Borth. Ysbrigyn o'r pren a dyfodd yn y lle cyntaf yw yr achos yn y lle diweddaf. Arferai amryw fyned o'r Borth i wrandaw i Lanfair; ac yr oedd rhai o honynt yn aelodau eglwysig yno. Daeth y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, yma; ac annogodd y cyfeillion i ddechreu Ysgol Sabbothol; a gwnaethant yn ol ei annogaeth. Dechreuwyd yr ysgol mewn bwthyn, neu feudŷ bychan, perthynol i Dy'n-yr-onen, rhwng y blynyddoedd 1808 ac 1810. Dywedai un a fu yno mai y papyr newydd oedd ganddo ef i ddysgu y llythyrenau. O'r bwthyn, symmudodd i feudŷ Ty'n-y-ffordd; oddi yno i Lan Afon Cadnant; ac oddi yno i dŷ Harri a Grasi Morgan, lle y bu am tua naw mlynedd —y parlwr i'r plant, y siamber i'r merched, a'r gegin i'r dynion. Yr oedd boneddwr wedi adeiladu palasdy yn agos i Cadnant, a chlywai y canu o'i dŷ yn yr ysgol, ac yr oedd hyny yn ofid blin iddo—y canu, yn lle ymlid yr ysbryd drwg oddi wrtho, yn ei ddwyn ato. Y mae yn rhaid fod y canu yn aflafar iawn yn yr ysgol, neu nid oedd dim cerddoriaeth yn natur y boneddwr. Yn ffortunus, yr oedd tŷ Harri a Grasi Morgan dan brydles: ni allai unrhyw ddylanwad eu gyru allan o hono. Cofrestrasant ef hefyd, fel y gellid pregethu ynddo yn achlysurol. Yr oedd yr holl achos hyd yma yn lled wan. Pan oedd Pont Menai yn cael ei hadeiladu, daeth llawer o bobl yma i weithio. Nid oedd y Borth yn lle poblog y pryd hwnw, fel y mae yn bresennol. Wedi i'r boblogaeth gynnyddu, cafwyd llofft uwch ben ystabl, yn y fl. 1820, neu 1821, i gynnal y cyfarfodydd crefyddol. Cymmerai y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, ddyddordeb mawr yn yr achos yn y lle hwn, a dodrefnodd ef â meingciau. Pregethid, weithiau, yn yr ystordy oedd dan yr un tô a'r llofft, a phryd arall ar Bongc y Ffair. Daeth Hugh Williams, gôf, gynt o Gaergybi—tad Hugh Williams, masnachwr, Porthaethwy; a William Hughes, y Bont, yma; a buont yn ddefnyddiol iawn. O'r ystabl, symmudwyd i le a elwid Hotel bach am ychydig amser: oddi yno i Marquis, ac wedi hyny i lofft Margaret Roberts. Bu yr achos yn y lle hwn tua phum mlynedd; ac oddi yma symmudodd i

Cambria. Ymddengys fod Henry Roberts a David Roberts, Bangor, wedi bod yn ffyddlawn iawn i ddyfod yma i gynnorthwyo yr achos yn ei fabandod, ac yn ei wendid. Tua'r amser hwn, dechreuodd brodyr Llandegfan dalu sylw i'r achos, ac anfonasant un o'r enw Lewis Williams i'w cynnorthwyo. Bu gŵr o'r enw William Thomas, Bwlch-glâs, yn wasanaethgar iawn. Daeth y gŵr hwn at grefydd yn Llanerchymedd, pan oedd yn 21ain oed, yn y fl. 1804. Arferai bregethu, heb gael ei ystyried yn bregethwr. Tua'r fl. 1834, cymmerodd y Cyfarfod Misol yr achos o dan ei nodded, a gosododd John Williams, Tyddyn tô, yn flaenor; ac unwyd y Borth, Llandegfan, a Llanddona, yn daith Sabbath. Yn 1837, cafwyd prydles ar ddarn o dir gan Ardalydd Môn, ac adeiladwyd capel yma, gwerth 350*p*. Talwyd 150*p*. o'r ddyled, a benthyciwyd 200*p*. Chwanegwyd at John Williams, Tyddyn tô, William Thomas, *builder;* a daeth brawd yma, o'r enw Owen Rowlands, o Landegfan. Erbyn hyn y mae yma dri o flaenoriaid.

Llandegfan.—Yn y cyfnod hwn, ymestynodd Methodistiaeth o Lanfair P. G. i'r gymmydogaeth hon. Nid oedd yma achos yn y cyfnod blaenorol. Hyny o Fethodistiaid oedd yn y plwyf, i Lanfair y byddent yn myned. Nis gellir bod yn sicr o'r flwyddyn y dechreuodd yr achos yma—dechreuodd naill ai yn y fl. 1816, neu 1817. Yr ysgogydd ydoedd William Humphreys, Pen lôn; yr hwn a ofynodd i Lewis Williams, Nyth y Dryw, ar y ffordd i Lanfair P. G., ar ryw foreu Sabbath, 'Ai nid gwell fyddai i ni bellach sefydlu Ysgol Sabbothol yn ein plwyf ein hunain? Os na wnawn, ni bydd yn Llandegfan un o gwbl.' A chyttunodd y ddau i geisio sefydlu Ysgol Sabbothol yn uniongyrchol. Yr wythnos ganlynol, aethant i ymofyn am le, a chawsant dŷ annedd am ardreth resymol. Y mae y tŷ yn aros hyd heddyw, fel rhyw gofgolofn o ddechreuad Methodistiaeth yn y lle. Wedi cael y tŷ, aeth y ddau frawd at y diweddar Barch. Richard Lloyd, Beaumaris, i ymgynghori âg ef, ac i ofyn am ei gynnorthwy. Yr oedd Lloyd fel esgob y rhan yma o'r sir. Cawsant bob cefnogaeth ganddo, a sicrwydd y gwnai ei oreu i'w cynnorthwyo. Yn ol ei addewid, daeth

yma i bregethu unwaith yn y mis hyd ddiwedd ei oes, yn rhad ac am ddim. Yr oedd hyn yn rhinwedd ynddo ef; o blegid nid oedd lle fel hyn yn y dechreu yn meddu modd i gydnabod y weinidogaeth; ac yr oedd yntau mewn amgylchiadau cysurus. Cymmhellodd Lloyd Thomas Williams, Bryn-y-mêl, yr hwn oedd yn flaenor yn Beaumaris, ac yn byw yn mhlwyf Llandegfan, i ymuno â'r brodyr crybwylledig; yr hyn a wnaeth gyda ffyddlondeb tra y bu byw. Wedi hyn, symmudodd gŵr o'r enw Richard Jones, Cyttir mawr, o Beaumaris yma; a bu yn ffyddlawn a llafurus gyda'r gwaith. Yn mhen amser, teimlodd y frawdoliaeth y byddai yn well cael brawd o flaenor i gynnorthwyo Thomas Williams, yr hwn oedd yn heneiddio, a'r eglwys yn dechreu cynnyddu. Erbyn hyn, yr oedd yma eglwys o ugain o aelodau cyflawn. Dewiswyd Richard Jones, Cyttir mawr, yn unfrydol. Bu yn ffyddlawn iawn i fyned i bob Cyfarfod Misol i chwilio am bregethwyr i bregethu ar y Sabbothau. Yn fuan iawn, aeth y tŷ yn rhy fychan, a gorfu iddynt chwilio am dir i adeiladu capel arno. Nid oedd yn hawdd cael tir; o blegid yr oedd y tirfeddiannwyr yn wrthwynebol i Fethodistiaeth. Yn ffodus, yr oedd gan Robert Parry, y Frigan—tad-yn-nghyfraith y Parchn. John Phillips a John Richard Hughes—dair erw o dir yn y gymmydogaeth; a rhoddodd brydles iddynt am 999 o flynyddoedd. Adeiladwyd y capel cyntaf arno yn y fl. 1822. Dywedir i Parry golli ei fferm o herwydd rhoddi lle i adeiladu capel Methodistaidd. Nid oedd yr ysbryd erledigaethus wedi marw yn hollol yn Môn yn y cyfnod hwn. Enwyd y capel gan Lloyd yn Barachia, ar ddydd ei agoriad. Yn fuan wedi agoriad y capel, daeth y Parch. Hugh Hughes, Beaumaris, yma i gadw ysgol ddyddiol; a bu yn gynnorthwy mawr i'r ychydig frodyr oedd yma. Yr oedd gwaith mawr i'w wneyd mewn trefn i ymlid tywyllwch ac anfoesoldeb y trigolion. Fel enghraifft o'u tywyllwch, gofynodd un i Richard Jones, Cyttir, a gâi efe roddi pennill i'w ganu ar hanner yr ysgol—yr hyn a ganiataodd gyda llawenydd. Ond er ei syndod, dyma'r pennill—

'Mae gen i iâr yn gori
Ar ben y Penmon mawr,' &c.

Yna fe waeddodd yr hen frawd, Richard Jones, allan—'Taw! taw! nid pennill ydyw hwn yna.' O ddeutu yr adeg hon yr oedd Gŵyl Mabsant lygredig i gael ei chynnal, yr hon a achosai ofid dirfawr i'r ychydig Fethodistiaid oedd yma. Penderfynasant gael cyfarfod pregethu ddydd Llun y Pasc, a chymmerodd yr eglwys y cyfarfod pregethu yn destyn gweddi ddyfal. Gwrandawodd yr Arglwydd weddi ei eglwys, a gwisgodd yr hen bregethwr, y Parch. John Williams, Llecheiddior, 'â nerth o'r uchelder;' a chwanegwyd y diwrnod hwnw o ddeutu ugain at yr eglwys, y rhai a barhasant hyd y diwedd. Dywedodd yn ofnadwy, yn ol ei arfer, yn erbyn y Gŵyl Mabsant oedd i gael ei chynnal y dydd canlynol; a gweddïodd yn daer am i'r Arglwydd suro pob dafn o'r ddiod feddwol oedd wedi ei pharotoi ar ei chyfer:—a gwrandawyd ei weddi. Aethai gŵr o'r enw John Edwards, pilot, i'r dafarn wrth ddyfod i'r capel, i gael gwydraid o gwrw; ac yr oedd fel pob cwrw arall y pryd hwnw. Aeth yno drachefn wrth ddychwelyd o'r capel, i edrych a oedd y weddi wedi cael ei gwrandaw, ai nad oedd; ac yr oedd y ddïod mor sûr fel nad allai ond ei brofi. Ni bu yma Wyl Mabsant byth ar ol hyn. Cafodd ein hysbysydd yr hanes gan John Edwards ei hun ychydig cyn ei farwolaeth. Mewn canlyniad i'r chwanegiad, teimlai yr eglwys y byddai yn ddoeth dewis blaenor chwanegol. Syrthiodd y coelbren ar Thomas Lewis, yr ysgol; a bu yn ffyddlawn hyd ddydd ei farwolaeth. Hwn oedd y gŵr ddechreuodd ddysgu canu yma gyda'r nodau. Ar ol marwolaeth Thomas Williams, Bryn-y-mêl, dewiswyd Owen Rowlands, Bryn melyn; ond symmudodd yn lled fuan i Borthaethwy, ac yno y diweddodd ei oes.

Beaumaris.—Gadawsom y lle hwn yn y cyfnod o'r blaen o dan ofal y Parch. Richard Lloyd. Bu y gŵr hwn o ddefnydd mawr yn y dref, a'r cymmydogaethau cylchynol. Yr oedd efe yn ddyn ennillgar iawn—sirioldeb ei wedd a mwyneidd-dra ei ysbryd yn attyniadol. Ond bu farw yn y fl. 1834, pan nad oedd ond 63ain mlwydd oed. Cafodd Methodistiaeth yn Beaumaris golled fawr yn hyn. Ond yr oedd Pen yr eglwys wedi gofalu am ei achos yn y lle cyn marwolaeth Lloyd, trwy ddwyn y Parch. Hugh

Hughes yma rhyw dair blynedd cyn ei fynediad ef i'r nefoedd. Bu yma flaenoriaid da yn gofalu am yr achos yn y cyfnod hwn; ac yn eu plith, yr oedd gŵr o'r enw William Bryan. Yr oedd hwn yn meddu llawer o ysmaldod yn ei natur. Rhoddai weithiau i ambell un swm lled fawr o *peppermints*, wedi eu rhwymo i fyny mewn papyr, yn lle arian; ac erbyn i'r gŵr gyrhaedd adref, byddai *post office order* yno o'i flaen. Yr oedd yn ddigon doeth i wybod gyda phwy i wneyd rhyw ddireidi fel hyn. Galwyd ef yn flaenor yn y fl. 1830. Yr oedd Thomas Williams, Bryn-y-mêl, yn flaenor yma yn nechreu y cyfnod hwn. Yr oedd gan y Parch. R. Lloyd fab o'r enw John Lloyd; a dyma fel yr ysgrifena y Parch. Owen Jones, Llandudno, am dano—'Gŵr aiddgar am bob gwybodaeth. Yn mysg ei gyfoed, nid oedd yr un i'w gael yn hyddysgach mewn hanesiaeth—hen a diweddar, eglwysol a gwladol, allmor a chartrefol. Llawer orig ddymunol a dreuliodd mewn cyd-ymddiddan am ragorion amrafael ddoethion Groeg a Rhufain, yn gystal a dysgedigion diweddaraf Ewrop. Ond hoff faes ei lafur myfyriol ydoedd dysgeidiaeth ysgrythyrol. Y Beibl a gâi y parch mwyaf ganddo. Yr oedd yn gydnabyddus â rheolau rheitheg a rhesymeg. Ysgrifenai yn achlysurol i'r newyddiaduron Saesnig. Yr oedd yn selog gyda'r Ysgol Sabbothol, yn areithiwr hyawdl o'i phlaid, ac yn holwyddorwr medrus. Blodeuyn hardd yn dechreu ymagor yn foreu ydoedd; ond torwyd ef i lawr cyn cyrhaedd canol dydd.' Cafodd Methodistiaid Beaumaris a Methodistiaid Môn, os nad Cymru oll, golled yn marwolaeth y gŵr ieuangc addawol hwn. Yma, yn y cyfnod hwn, y dechreuodd y Parch. Hugh Jones, Caergybi, bregethu, tua'r fl. 1824, a'r Parch. Owen Jones, Llandudno, tua'r fl. 1827. Yr oedd y diweddaf ar y pryd yn athraw teuluaidd yn Cremlyn uchaf. Yn mhen rhyw dair blynedd, symmudodd oddi yma i Langoed, i gadw ysgol. Dyma ŵr y gellir ei alw yn *self-taught man*—gŵr y mae Môn, mam Cymru, yn falch ei fod yn un o'i meibion hi.

Llangoed.—Yn nechreu y cyfnod hwn, nid oedd holl ddygasedd trigolion Llangoed at Fethodistiaeth wedi darfod. Yr oedd gŵr a gwraig, o'r enw Rowland ac

Elizabeth Thomas, yn byw yn y fl. 1814, yn mhorth-dŷ yr Henllys, ac yn gwasanaethu y boneddwr oedd yno. Yr oeddynt wedi dyfod yn Fethodistiaid; a daeth y boneddwr i wybod. Ennynodd ei ddigofaint yn erbyn y porthor; galwodd ef ato, a gofynodd iddo yn ffyrnig pa fodd y meiddiai ddewis crefydd wahanol i eiddo ei feistr? A dywedai wrtho nad oedd ond ei grefydd neu ei wasanaeth iddo gael. Yr oedd gan Rowland Thomas, erbyn hyn, ddau blentyn; ac nid oedd ganddo na thŷ na gwaith mewn golwg. Yna, gofynodd i'w feistr a oedd ganddo ryw achwyniad yn ei erbyn, heb law a berthynai i'w grefydd. 'Nac oes,' ebe y meistr, 'ddim arall. Ië, mi roddwn lawer yn eich ffordd, pe ymadewch â'r sectariaid hyn.' 'Hyny,' ebe y gweithiwr, 'nis gallaf. Ac er nad wyf yn gwybod pa le yr äf, na pha beth a'm cyferfydd i, a fy ngwraig, a'm dau blentyn; etto, ni chaiff un ystyriaeth am bethau y bywyd hwn beri i mi archolli fy nghydwybod.' *Well done,* Rowland Thomas! Cyfoded dy wroldeb crefyddol gywilydd i wynebau cynffonwyr dïegwyddor yr oes hon! Aeth y gweithiwr gartref, a hysbysodd y cwbl i'w wraig. Hithau, fel ymgeledd gymmhwys, a'i cysurodd, gan ddyweyd ei bod yn credu y gofalai Rhagluniaeth am danynt, ac y cyfodai ymwared o le arall. Gwych iawn, Elizabeth Thomas! Fe ddywed y gŵr yr wyt ti yn ymddiried ynddo—'Bydded i ti fel yr wyt yn ewyllysio.' Yn mhen tua hanner awr, daeth mam Rowland Thomas i mewn, â llythyr yn ei llaw, ysgrifenedig gan ŵr a gymmerasai waith mawr i'w wneyd gan y llywodraeth yn Nghaergybi, yn ymofyn am ddwylaw chwanegol ato. Fel hyn, gofalodd Duw am drefnu llwybr i'r gorthrymedig gael bywoliaeth llawn cystal, os nad gwell, a chael ei ryddid crefyddol hefyd. Yr ydym yn teimlo ein calon yn ymlenwi â diolchgarwch i Dduw dros y teulu bach hwn. Cyfaddefodd y boneddwr ar ol hyn mai Owens, Llandyfrydog; Lloyd, Maes-y-porth; a Mrs. Jones, Henllys, oedd y prif ymyrwyr yn yr achos. Yn y cyfnod hwn yr oedd y Parch. Richard Lloyd yn byw yn Beaumaris; a bu yn ffyddlawn iawn i'r achos yn Llangoed, fel mewn lleoedd eraill cyfagos. Yn y fl. 1822, ail adeiladwyd y capel; ac yr oedd Lloyd yn teimlo

dyddordeb dwfn yn yr adeiladaeth. Cafwyd chwanegiad mawr yma yn y fl. 1822, fel y cafwyd mewn lleoedd eraill. Yn y cyfamser, symmudodd y Parch. Owen Jones, Llandudno, yma, tua'r fl. 1831, i gadw ysgol ddyddiol. Hyd y mae yr hybarch frawd o Landudno yn cofio, nid oedd yn y lle yr un swyddog rheolaidd pan y daeth yma. Yr oedd Richard Bulkeley wedi marw, a Robert Owen, Tan-dabal, wedi symmud i Glasinfryn. Byddai yr hybarch Richard Lloyd yn dyfod yma yn fynych i weini ymgeledd i'r eglwys; a than yr amgylchiadau hyny, cynghorai yr eglwys i neillduo diwrnod i ymprydio, ac i weddïo am gyfarwyddyd yr Arglwydd. Yn ystod y cyfarfodydd gweddïau y diwrnod hwnw, disgynodd meddyliau yr holl frawdoliaeth yn dra unfrydol ar ŵr ieuangc, o'r enw Griffith Williams—mab i William Rogers, Tyddyn paun; ac yn fuan, dewiswyd ef yn flaenor. Dewiswyd ef pan oedd ond 19eg oed, a bu farw yn 29ain mlwydd oed. Yr oedd yn ŵr ieuangc duwiol iawn, yn ddarllenwr mawr, ac yn awdwr lled dda. Cyfansoddodd amryw o draethodau; ac ymddangosodd rhai o honynt yn y *Drysorfa*. Y blaenor nesaf a ddewiswyd oedd Henry Parry, Tyddyn waen. Dyma y gŵr y cyfeirir ato yn *Methodistiaeth Cymru*, yr hwn a geisiodd gan ei gyfeillion yn Porto Bello beidio ufuddhau i Richard Bulkeley. Wedi iddo newid ei feistr, yr oedd mor selog a thanbaid gydag achos ei Feistr newydd ag oedd gydag achos yr hen un. Pan oedd anghydfod rhwng dau frawd, a chyfeisteddfod yn cyfarfod i chwilio i mewn iddo, a'r beïus yn eithaf amlwg; wrth ddyfod allan, dywedai Henry Parry wrth Griffith Roberts, Rhyd—'Wyddost ti beth, Griffith, yr oedd arnaf fi flys rhoddi hwn yn ei gêg o,' gan ddangos yr 'hwn.' Pan yr oedd y Parch. R. Lloyd yn annog y gwrandawyr i beidio poeri sugn *tobacco* yn y capel, ac mai y ffordd i beidio oedd peidio rhoddi *tobacco* yn eu safnau, 'Yn wir, nid oes modd peidio, syr,' meddai Henry Parry. Pan yr aeth efe i'r Cyfarfod Misol i'w dderbyn fel blaenor, dywedai Lloyd—'Y mae o wedi bod yn flaenor gydag enwad arall, a elwir *Pinchers*, yn Llangoed—gan gyfeirio at ryw ddosbarth fyddont yn tyru at eu gilydd ar ben Marian Dyrus ar y Sabbothau, i gyn-

llunio pa fodd i wneyd drygioni; a'r gŵr hwn fyddai y blaenor yno. Ond cafodd dro amlwg; daeth yn greadur newydd, a phob peth yn newydd. Yn y cyfamser, daeth Rowland Jones, o Bodeilio, Llanddyfnan, i fyw i'r Hen-dy, Penmon. Yr oedd ef yn flaenor cyn dyfod yma —sef, yn Talwrn, a Glasinfryn cyn hyny—ac yn ddyn galluog a phenderfynol, ac yn ysgolhaig gwych, meddir. Cyfeirir ato gan Mathafarn, yn ei gywydd coffadwriaethol i hen flaenoriaid Waeneura, yr hon a ymddangosodd yn y *Drysorfa*, Tachwedd, 1844. Blaenor arall yma yn y cyfnod hwn oedd David Jones, Tŷ du, Penmon. Byddai y blaenor hwn yn cerdded ar hyd llawr y capel, gan sylwi yn fanwl pwy a fyddai yn bresennol, a phwy a fyddai yn absennol; ac yn y cyfarfod eglwysig canlynol, byddai yn sicr o fyned at yr absennolion, a gofyn iddynt eu rhesymau dros eu habsennoldeb. Bu y tri blaenor diweddaf a enwyd farw yn yr un flwyddyn; ac felly, gadawyd yr eglwys hon drachefn heb un blaenor. Yn y fl. 1840, dewiswyd Griffith Roberts, Rhyd, ac Owen Jones, Pen-y-maen, yn flaenoriaid. Diswyddwyd y diweddaf yn y fl. 1850. Crybwyllasom am ddyfodiad y Parch. Owen Jones, Llandudno, yma; a bu yn ddefnyddiol iawn am yr ysbaid y bu yma, gan bregethu mewn tai annedd mewn gwahanol ranau o'r gymmydogaeth. Bu yma Gyfarfod Misol yn amser ei arosiad, ac yr oedd yn pregethu nos Sabbath cyn y Cyfarfod Misol. Y noson olaf, yr oedd yr hybarch R. Lloyd i bregethu; ond galwyd ef gartref ychydig oriau cyn amser dechreu yr oedfa. Mewn canlyniad, bu raid i'r pregethwr ieuangc cartrefol bregethu, ac yntau heb bregeth gyfansoddedig. Darllenodd *Galat.* i. 4. yn destyn. Wedi iddo weddïo yn niwedd y bregeth, syrthiodd rhyw ddylanwad dyeithrol arno, fel na allasai ymattal heb ail ddechreu gweddïo; a thra yn gweddïo yr ail waith, ymdorodd yn gynnhwrf trwy y gynnulleidfa—rhai yn ymgreinio yn ngwaelod y seddau, ac eraill yn llefain am eu bywyd; a'r hen frodyr a'r chwiorydd yn gorfoleddu. A thrwy ymdrech y ddau flaenor, cafwyd tawelwch; ac arosodd un a deugain o'r newydd yn ymgeiswyr am aelodaeth eglwysig. Cymmerodd hyn le yn lled gynnar yn y cyfnod hwn—tua'r fl. 1831, neu 1832.

PENIEL, LLANDDONA.—Yr oedd blaenoriaid y cyfnod blaenorol yn parhau yn eu swydd yn yr un presennol. Blaenoriaid y cyfnod hwn oeddynt mewn gwirionedd; o blegid yn y flwyddyn ddiweddaf o'r un blaenorol yr adeiladwyd y capel; ac yn y flwyddyn gyntaf o'r un presennol yr ymrestrodd eglwys Llanddona yn mysg eglwysi y sir. Yn y cyfamser, chwanegwyd atynt William Owen, Bryn glas; ond bu farw yn y fl. 1859. Bu Llanddona, Llandegfan, a Phorthaethwy, yn daith Sabbath mewn rhan o'r cyfnod hwn. Y pryd hwn, dewiswyd William Williams, y Felin, yn flaenor; a bu farw yn y fl. 1864. Gallem feddwl fod achos siriol yma yn y blynyddoedd hyn, a llawer o bobl dduwiol yn perthyn i'r eglwys. Yn y fl. 1823, neu 1824, daeth gŵr ieuangc o'r enw Owen Jones yma i gadw ysgol ddyddiol—yr hwn y cyfeiriwyd ato yn y sylwadau blaenorol dan yr enw, y Parch. Owen Jones, Llandudno. Daeth yma o Ben-y-garnedd, ac arosodd yma am o ddeutu dwy flynedd. Bu yn weithgar a llwyddiannus iawn.

PEN-Y-GARNEDD.—Y blaenoriaid yn y cyfnod hwn oeddynt Owen Ellis, Cae newydd; Thomas Owen, 'Refail; Richard Jones, Rhos-owen-bach; a William Roberts, o Gae'r-gors. Disgrifiad y Parch. Owen Jones, Llandudno, o honynt ydyw—'Tua'r fl. 1820, yr oedd Thomas Owen yn hynafgwr penwyn—hynod am ei dduwiolfrydedd—ond heb ryw gyrhaeddiadau mawrion. William Roberts, Cae'r-gors, oedd ddyn bychan o gorpholaeth, ond yn rhagori ar ei gyd-swyddogion mewn gwybodaeth a lledneisrwydd. Richard Jones, Rhos-owen-bach, oedd ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau; ac efe, yn benaf, a flaenorai yn y cyfarfodydd eglwysig. Os byddent heb bregethwr ambell Sabbath, elai ef trwy y daith, gan draddodi cyfarchiadau ar rai o Ddammegion Crist, gan amlaf. Yr oedd yn hynafgwr o awdurdod yn yr eglwys. Byddai y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, yn ei anfon yn fynych yn ei le pan y byddai yn analluog i fyned.' Yn y fl. 1820, daeth y Parch. Owen Jones, Llandudno, i'r gymmydogaeth hon i wasanaethu, pan yn fachgen tua thair blwydd ar ddeg oed; ac yma y daeth yn aelod eglwysig. Cafodd Pen-y-garnedd deimlo nerth y diwygiad yn y fl. 1822.

Yn y cyfnod hwn, dewiswyd John Thomas, Hen Drefor, yn flaenor; amaethwr cefnog, a phorthmon gwartheg, oedd efe wrth ei alwedigaeth. Tua diwedd y fl. 1831, neu 1832, daeth y Parch. Owen Jones, Llandudno, yma i gadw ysgol yn y capel. Yn y cyfnod hwn, dewiswyd Thomas Owen, Llansadwrn, a Thomas Owen, Penhescyn, yn flaenoriaid. Aeth y cyntaf oddi yma i Cremlyn, ger Beaumaris, tua'r fl. 1832; a bu yno yn flaenor hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le yn y fl. 1841. Symmudodd y diweddaf oddi yma i Gilëad, pan y sefydlwyd achos yno. Effeithiodd adeiladaeth Nazareth, yn y fl. 1829, a Pen-uchel-dref a Gilëad, o ddeutu y fl. 1833, ar Ben-y-garnedd. Wedi symmudiad y ddau Thomas Owen, dewiswyd Hugh Jones, Cae uchaf, yn flaenor—gŵr yn llawn o dân yr Ysbryd; a byddai yn tori allan yn fynych mewn gorfoledd. Yn y cyfnod hwn, bu dadl frwd yma, pa un ai buddioldeb ai balchder oedd yr achos fod dwy ferch ieuangc oeddynt yn aelodau yn arfer gwlawleni. Cymmerodd yr henuriad, William Roberts, eu plaid; a diangasant yn ddigerydd. Yn y fl. 1840, bu farw yr hen flaenor, Thomas Owen, 'Refail. Yr oedd yma hen ferch, o'r enw Margaret Williams, Cae'r mynydd. Byddai hi yn myned i Sassiwn y Bala bron bob blwyddyn; a dywedir iddi fod yno o ddeutu pedair-ar-ddeg o weithiau. Cerdded y byddai yno. Cychwynai tua phythefnos cyn y Sassiwn, a byddai yn cael pregethau ar y ffordd. Yr oedd hi yn dra adnabyddus o Fôn i'r Bala. 'Begi bach sir Fôn' oedd yr enw yn lled gyffredin arni, neu 'Margaret y canu.' Yr oedd hi yn gantores dda yn ei dydd. Os byddai yn lled hwyr arni yn cyrhaedd i'r Bala, byddai llawer yn gofyn—'Ai tybed na ddaw Margaret yma heddyw?' neu, 'Beth yw yr achos na buasai Begi bach sir Fôn yma heddyw?' Byddai yn adrodd y pregethau yn y tai pan yn myned iddynt i nyddu; o blegid dyna oedd ei galwedigaeth: a dywedir y byddai llawer yn y cyfarfodydd eglwysig yn adrodd yr hyn y byddai Margaret wedi ei ddywedyd wrthynt o'r Bala. Rhyw noswaith seiat, yr oedd gwraig grefyddol, o'r enw Catherine Hughes, Minffordd, a geneth iddi, wedi pasio y capel; a phwy a'u cyfarfyddodd ond William Roberts, Cae'r-gors,

a gofynodd i'r fam—'I bl'e 'rei di, Cadi? A wyddost ti ddim fod seiat heno?' 'Wel, gwn wir, William Roberts,' oedd yr attebiad; ac fel rheswm dros ei hymddygiad, dywedai—'Y mae ar yr hogen yma ofn myned adref ei hun, ac felly y mae yn rhaid i mi fyned i'w danfon.' 'Wel, pa'm na ddoi di â hi hefo ti i'r capel?' 'Wyddoch chi, W. Roberts, nad ydi yr hogen wedi ei derbyn yn aelod o'r seiat; ac felly, ni chaiff hi ddyfod.' 'Peth ofnadwy ydi nyna,' meddai yr hen flaenor; 'tyr'd ti â'r lodes i'r capel, Cadi, a gâd rhyngof â hi.' Felly fu. A dyna lle yr oedd llygad pawb yn craffu ar yr eneth. Dechreuodd W. Roberts y seiat, a darllenodd y bennod y ceir hanes yr Arglwydd Iesu yn derbyn plant bychain. A phan ddaeth at yr adnod—'Gadewch i blant bychain ddyfod ataf fi,' &c., taflodd ei olwg at Catherine Hughes, a'i geneth, a dywedodd—'Y mae yn dda genyf fod Catrin Hughes wedi ufuddhau i orchymyn y Gwaredwr Mawr, trwy ddyfod â'i lodes hefo hi yma heno. Y mae hi wedi rhoddi esampl dda i'r oll o honoch sydd yn magu plant.' A phan y daeth at y frawddeg—'Efe a'u bendithiodd hwy,' dywedodd, 'A phwy a ŵyr na bydd Begi bach yn cael ei fendith hefyd.' Bu hyn yn agoriad drws i'r plant yn Mhen-y-garnedd, er fod yn yr eglwys rai yn dra gwrthwynebus. Yn y fl. 1824, adeiladwyd capel newydd yma.

Pentraeth.—Yn y cyfnodau blaenorol, yr oedd yr aelodau Methodistaidd a breswylient yn y pentref, a'r amgylchoedd hyn, yn myned i Glasinfryn a Phen-y-garnedd, yn ol eu cyfleusdra. Yr oedd y Parch. David Elias wedi dyfod yma i fyw, ac efe oedd y prif ysgogydd ynglŷn â chychwyniad a dygiad yr achos yn mlaen yn y lle. Gŵr blaenllaw arall gyda'r achos y pryd hwn, ac am lawer o flynyddoedd ar ol hyn, oedd John Price, neu Siôn Prys, Tan'rallt—gŵr synwyrol a gwir grefyddol ydoedd, ac wedi cael manteision addysg gwell na'r cyffredin. Efe oedd ysgrifenydd yr achos. Adeiladwyd y capel yn y fl. 1829, a galwyd ef 'Nazareth.' Yma y dechreuodd y Parch. David Davies, yr hwn a fu yn byw wed'yn yn Llanerchymedd, Caergybi, Bangor, a'r Bontnewydd, ar ei filwriaeth ysbrydol, neu ei yrfa grefyddol. Byddai Richard Jones a William Roberts, Pen-y-garnedd,

yn dyfod yma i gynnorthwyo yn y cyfarfodydd eglwysig, a phregethwyr o wahanol fanau yn achlysurol. Bu Llanddona, Pen-y-garnedd, a Phentraeth, yn daith Sabbothol yn y cyfnod hwn. Ymddengys fod yr eglwys ieuangc hon yn ofalus iawn yn y blynyddoedd hyn am y tlodion. Y mae eglwysi Crist i deimlo dyddordeb yn y tlodion. Un o brofion yr Arglwydd Iesu o'i Fessïaeth ydoedd, ei fod yn pregethu i'r tlodion; a bydd caredigrwydd i'r saint tlodion yn cael ei gyhoeddi a'i ddwyn i'r golwg ddydd y farn, nid gan y rhai a wnaethant y caredigrwydd, ond gan y Barnwr ei hun—'Yn gymmaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch.' Yn y cyfnod hwn, yr oedd John Pryce, Griffith Thomas, gôf, a John Williams, Fron-goch, yn henuriaid. Yr oedd y diweddaf yn ŵr cyfoethog yn y byd, ac yn ddyn o ddylanwad mawr yn y Cyfarfod Misol. Yr oedd efe a Mrs. Williams yn garedig iawn i bregethwyr—eu tŷ yn agored bob amser. Symmudasant i sir Gaernarfon, ac oddi yno i Fachynlleth. Bu John Thomas, Tros-yr-afon, yn ddechreuwr canu yma am lawer o flynyddoedd. Yr oedd yn hoff iawn o ganu. Canu y byddai ar hyd y ffyrdd, canu yn y meusydd, canu wrth ei orchwyl, canu yn mhob man—a diddadl ydyw mai 'canu Cân Moses a Chân yr Oen' y mae yn bresennol.

Glasinfryn.—Ychydig iawn o hanes Methodistiaeth yn y gymmydogaeth hon, yn y cyfnod hwn, sydd genym. Yn y blynyddoedd hyn, sefydlwyd eglwys y Tabernacl. Cangen o Glasinfryn ydoedd; ac aeth nerth Glasinfryn i'r gangen. Buwyd heb bregethu am beth amser yn Nglasinfryn wedi adeiladu y Tabernacl; ond ail ddechreuwyd pregethu yn mhen ennyd. Y swyddogion yma oedd Robert Owen, yr hwn a fu farw yn y fl. 1854; Robert Parry, Frigan; John Williams, Cog-fryn; a Henry Williams, Tŷ croes. Yr oeddym yn adnabod y diweddaf. Yr oedd yn frawd diniwed a chynnhes iawn. Gwelsom ef lawer gwaith yn tori allan mewn hwyl orfoleddus wrth wrandaw yr efengyl. Fe allai mai i'r cyfnod nesaf y perthynai, yn hytrach nag i hwn. Yr oedd y capel yn un gwael iawn. Bu John William Pritchard, Plas-y-brain, yn aelod yma; yr hwn oedd yn fab i William Pritchard,

Clwchdernog. Yr oedd efe yn fardd ac yn hynafiaethydd enwog yn ei ddydd. Dywedir ei fod wedi astudio llysieuaeth y wlad yn dda; ac y mae nifer o'i gynghorion meddygol ar gael hyd heddyw. Rhyfedd iawn na buasai y fath ŵr wedi ei ddewis yn swyddog eglwysig!

Tabernacl.—Cangen o Glasinfryn yw yr eglwys hon. Dechreuodd mewn lle a elwir yn Ty'n-y-gongl. Gellir dywedyd fod Ysgolion Sabbothol yn yr ardal cyn bod eglwys yn Nhy'n-y-gongl. Yr oedd un mewn lle a elwid Frigan-dafarn, heb fod yn mhell oddi wrth yr ysgoldy a elwir y Babell. Cedwid hi yno am flynyddoedd wedi sefydlu achos yn Nhy'n-y-gongl. Y prif offerynau yn nygiad yr ysgol yn mlaen oeddynt Owen Williams, Nant isaf, a Robert Parry, Frigan—yr hwn hefyd oedd yn flaenor yn Nglasinfryn. Pregethid yn achlysurol yn y lle hwn. Ar yr un adeg, cynnelid Ysgol Sabbothol yn Ysgubor y Gell, rhwng Llanallgo a'r Traeth Coch. Yr ysgol hon oedd dechreuad yr achos yn Llanallgo. Capel y Gell y gelwid Capel Llanallgo ar y cyntaf. Tua'r fl. 1820, sefydlwyd achos yn Nhy'n-y-gongl. Adeiladodd gŵr, o'r enw William Pritchard, ar ran o'i dyddyn a ddaliai dan brydles, gapel, yn y flwyddyn a nodwyd, a rhoddodd fenthyg y capel i'r Methodistiaid; ond ei eiddo ef ydoedd, ac nid eiddo y cyfundeb. Humphrey Roberts, Tyddyn-iolyn; David Jones, Tyddyn-rhedyn; William Jones, Ysgubor-lwyd; William Thomas, Rhos-boeth; William Thomas, yr *House;* Owen Jones (*Owen Mathafarn*), Minffordd; ac Owen Williams, Monachlog, oeddynt golofnau yr achos; a Humphrey Roberts oedd arweinydd y canu yn Nhy'n-y-gongl. Yr oedd David Jones a William Jones yn ddau frawd; ac y mae y diweddaf yn aros hyd ddiwedd y pummed cyfnod. William Thomas, Rhos-boeth, oedd ddyn da: gorfoleddai, weithiau, ar hyd y ffordd o'r capel i'w gartref. Byddai ei 'amen' cynnhes yn gymmhorth i lawer pregethwr. Y mae llawer yn fyw i ddiwedd y pummed cyfnod yn ei gofio yn aelod ffyddlawn yn Llanallgo. Yr oedd William Thomas, Yr *House*, yn un o ffyddloniaid y tir. Yr oedd Owen Mathafarn yn ddyn anghyffredin fel llenor, a bardd. Efe oedd y prif ddyn yn Nhy'n-y-gongl. A bu yn dra defnyddiol i bobl

ieuaingc y gymmydogaeth. Yr oedd yn ŵr o wybodaeth ac o brofiad crefyddol. Byddai yn arfer dyfod i'r capel trwy gymmhorth baglau. Ei benderfyniad oedd, 'Preswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd.' Yr oedd Owen Williams, Monachlog, yn flaenor ffyddlawn yn Nhy'n-y-gongl tra y bu achos yno, ac yr oedd yn flaenor yn Nglasinfryn cyn bod achos yn Nhy'n-y-gongl. Nid blaenor cyffredin ydoedd y gŵr hwn; ond yr oedd yn ddyn o dalent uwch law y cyffredin, yn wlithog mewn gweddi, yn hyddysg yn yr Ysgrythyrau, ac yn ddoniol i gadw cyfarfodydd eglwysig. Yn y fl. 1824, helaethwyd capel Ty'n-y-gongl, a'r draul oedd 63*p*. 13*s*. 6*c*. Yn y fl. 1834, adeiladwyd capel Tabernacl. Bu ryw anghydfod rhwng William Pritchard, perchenog Capel Ty'n-y-gongl, a'r eglwys, a bu raid gweinyddu dysgyblaeth arno; a chwerwodd hyny ei ysbryd at yr eglwys, fel y cynnygiodd wasanaeth y capel i'r Annibynwyr. Ymddengys fod Methodistiaeth wedi symmud o Dy'n-y-gongl cyn i'r Tabernacl gael ei adeiladu. Cafodd yr Ysgol Sabbothol noddfa yn eglwys plwyf Llanfair Mathafarn-eithaf—y ferch yn cael cartref yn nhŷ ei mam; a phregethu yn y Monachlog, cartref yr hen flaenor Owen Williams. Bwriedid i'r Tabernacl fod yn gartref i'r ddwy eglwys; sef, eglwys Ty'n-y-gongl ac eglwys Glasinfryn; a bu felly am o ddeutu dwy flynedd wedi agor y capel. Yr oedd yn Nglasinfryn flaenor, o'r enw Robert Owen; ac y mae yn debyg fod John Charles yn flaenor yno hefyd; ac felly, yr oeddynt yn flaenoriaid yn y Tabernacl. Bu Robert Parry, Frigan, yn flaenor yn Nglasinfryn. Y mae yn debyg iddo farw cyn y symmudiad i'r Tabernacl. Yn mhen rhyw ddwy flynedd, ail ddechreuwyd achos yn Nglasinfryn. Dychwelodd Robert Owen yno; ond yr oedd John Charles yn aros yma, yn flaenor da. Dywedir ei fod yn well blaenor nag ydoedd o bregethwr. Yn y cyfamser, dewiswyd Owen Thomas, Tŷ mawr, yn flaenor. Yr oedd y swyddog hwn yn hynod am ei ffyddlondeb a'i brydlondeb. Caffai hwyl fendigedig, weithiau, mewn gweddi. Y nesaf a alwyd yn flaenor yma oedd Richard Thomas, Olgra fawr—brawd i Owen Thomas. Yr oedd y blaenor hwn a'i wraig yn garedig dros ben tuag at

Fethodistiaeth; ond bu efe farw yn y fl. 1852; ac y mae ei blant, er wedi cael eu chwalu yma ac acw, yn ymlynu wrth Fethodistiaeth. Yn y cyfnod hwn, daeth gŵr o'r enw John Williams, o Amlwch, i fyw i'r *House;* ond bu rhyw ddyryswch yn ei amgylchiadau, wedi iddo symmud yma, a'i hanghymmhwysodd i weini fel blaenor. Yn y cyfnod hwn, tua'r fl. 1837, dechreuodd y Parch. John Charles bregethu; ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1851. Bu y Parch. Wm. Williams, Tŷ calch, yma am dymmhor byr.

Llanallgo.—Yn y fl. 1817, daeth William Davies i fyw i Parc bach, Pen-rhos-lleugwy. Yr oedd yn flaenor yn Mrynsiencyn cyn dyfod yma. Yr oedd y gŵr hwn yn flaenor rhagorol iawn—yn wybodus yn yr Ysgrythyrau, yn ddysgyblwr mawr, ac yn ffyddlawn yn ei holl dŷ. Yr oedd yn sicr o'i alwedigaeth a'i etholedigaeth. Ymddengys na fu rhyw bethau nerthol a grymus iawn yn Llanallgo, fel y bu mewn rhai lleoedd eraill yn y sir. Llîn yn mygu, ac heb ddiffodd, ydoedd yr achos yma yn y cyfnod hwn. Hen gapel gwael iawn oedd yma. Yr oedd Llanallgo a'r Tabernacl yn daith Sabbath. Yn nghorph yr amser, yr oedd Richard Davies, Richard Jones, Ty'n-y-graig; ac Owen Williams, yn flaenoriaid gyda William Davies, Parc bach. Bu y diweddaf farw yn y fl. 1848, a Richard Jones, yn y fl. 1855.

Salem, Mynydd Bodafon.—Cangen o Lanallgo a Thŷ mawr. Dechreuodd Methodistiaeth yma mewn Ysgol Sabbothol, tua'r fl. 1815, mewn tŷ o'r enw Neuadd, preswylfod gŵr o'r enw Owen Williams. Symmudwyd oddi yno i'r Glyn, preswylfod William Thomas; oddi yno i Ben-yr-hafn, preswylfod John Hughes; oddi yno i Llain wen, preswylfod William Pritchard; ac oddi yno i Gae'r mynydd, preswylfod Andreas Griffiths. Symmudodd ddwywaith drachefn i ddau dŷ gwâg. Tua'r fl. 1840, adeiladwyd ysgoldy, a galwyd ef Salem; a chyssylltwyd ef â Thŷ mawr a'r Parc yn daith Sabbothol. Bu pregethu yn y gymmydogaeth hon yn foreu iawn. Yn yr ardal hon yr oedd Ceryg-llithir—tŷ John Rowlands; a Llain wen—tŷ Richard Hughes; ond ni chartrefodd yma y pryd hwnw. Mewn pebyll y trigai yr achos; ond yn y cyfnod hwn, cafodd dŷ i drigo ynddo.

Capel Coch, neu Ty Mawr.—Nid oes genym lawer o hanes yr eglwys hon yn y cyfnod hwn. Yr oedd rhai o flaenoriaid yr un diweddaf yn fyw am ran fawr o'r un presennol. Dewiswyd gŵr, o'r enw Hugh Jones, yn flaenor; ond symmudodd oddi yma i Gad. Yn y cyfamser y dewiswyd John Lewis, Tŷ mawr, yn flaenor. Yr oedd y swyddog hwn yn barchus yn yr eglwys, ac yn y Cyfarfod Misol. Bu Hugh Charles—mab y Parch. John Charles, Gwalchmai, yr hwn oedd yn bregethwr poblogaidd—yn aelod o'r eglwys hon; ond bu farw yn y fl. 1839. Tua diwedd y cyfnod hwn y dechreuodd y Parch. William Owen Williams bregethu yma. Bu y gweinidog hwn yn boblogaidd iawn yn y sir fel holwyddorwr. Symmudodd oddi yma i Dremeirchion; oddi yno i Bwllheli; oddi yno i Benmaenmawr; ac oddi yno i Liverpool. Yr oedd y gŵr hwn yn fwy galluog na llawer o'i frodyr yn y weinidogaeth. Clywsom ef yn pregethu yn nerthol rai gweithiau. Cyfieithodd yr Epistol at yr Ephesiaid o'r Groeg i'r Gymraeg, ac ymddangosodd y cyfieithiad yn y *Traethodydd*. Yr oedd yn enwog fel seryddwr, ac yn aelod o Gymdeithas Seryddol Frenhinol Prydain. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1857.

Talwrn.—Gadawsom yr eglwys hon, yn y cyfnod blaenorol, gyda rhyw ddeuddeg neu bymtheg o aelodau. Yn niwedd yr un blaenorol, ac yn nechreu yr un presennol; sef, yn y blynyddoedd o 1813 hyd 1815, bu yma adfywiad grymus; a chwanegwyd y pryd hwn at yr eglwys o ddeutu trigain o eneidiau; ac ni wrthgiliodd o honynt ond un mab a thair merch. Yma yr oedd y Parchn. Cadwaladr Williams a John Prytherch yn aelodau; Hugh Roberts, Nant, a John Thomas, Llwynysgaw, oedd y blaenoriaid yma yn niwedd y cyfnod hwn.

Llangefni.—Bu y Parch. Cadwaladr Williams yn byw yn y lle hwn cyn iddo fyned i Penceint. Nid ydym yn sicr o'r flwyddyn y daeth y Parch. Thomas Owen yma. Daeth o gymmydogaeth Ty'n-y-gongl. Yr oedd yn cadw ysgol yma yn y fl. 1807. Dechreuodd bregethu yn y fl. 1812. Yn y fl. 1830, daeth y Parch. John Elias yma i fyw, yr hyn a fu o fendith fawr i eglwys Llangefni. Tua'r fl. 1835, adeiladwyd capel newydd. Y blaen-

oriaid oeddynt Robert Williams; John Jones, Tyddyn tlodion; Griffith Parry, a Richard Davies—tad Richard Davies, Arglwydd Raglaw sir Fôn. Yr oedd y gŵyr hyn yn alluog fel swyddogion. Y mae yn debyg na fu yr un blaenor yn Môn a gymmerodd fwy o lafur i ddysgu moesau da i'r gynnulleidfa nag a gymmerodd Richard Davies. Dywedir mai W. Lloyd, *saddler*, oedd trysorydd yr eglwys, er nad oedd yn flaenor; a Samuel Dew—tad y blaenor o'r un enw—oedd yr ysgrifenydd, er nad oedd yn aelod. Yr oedd Methodistiaeth yn llwyddiannus yma yn y cyfnod hwn. John Jones oedd arweinydd y canu, ac yr oedd ganddo lais fel udgorn. Dywedir nad oedd Griffith Parry yn ddawnus, ond ei fod yn ddarllenwr lled fawr. Cadwai ddyledswydd deuluaidd dair gwaith yn y dydd; ac yr oedd yn haelionus yn ol ei sefyllfa. Yr oedd yn Robert Williams lawer o bertrwydd. Plygai ei fawd yn od iawn pan y twymnai. Daeth un gŵr ieuangc yn aelod o'r eglwys Fethodistaidd hon. Yn yr ail gyfarfod eglwysig dywedodd Robert Williams wrtho, 'Dafydd, mae eisio i ti ddiweddu y seiat.' 'Na,' meddai Dafydd, 'gwell genyf beidio.' Yna dywedodd yr hen flaenor wrtho, 'Os na wnei di heno, ni chei ddyfod i'r seiat, Dafydd.' Yr oedd yn well ganddo wneyd na chael ei droi o'r seiat. Daeth Dafydd yn weddïwr hynod iawn ar ol hyn. Dafydd Thomas oedd enw y gŵr. Bu John Williams, Lledwigan, yn flaenor yma am rai blynyddoedd; ond symmudodd i Frongoch. Bu y teulu hwn yn llettygar iawn i bregethwyr. Yr oedd Mrs. Williams yn ferch i Thomas Ffoulkes, o Fachynlleth; ac yr oedd, felly, o deulu gwir grefyddol. Daeth William Edwards, fferyllydd, yn swyddog yma yn niwedd y cyfnod hwn. Bu efe yn arolygwr yr ysgol am ugain mlynedd.

Llangwyllog.—Tlodaidd iawn yr ymddangosai yr addoldy trwy y cyfnod hwn, hyd o fewn rhyw chwe blynedd i'w ddiwedd. Yr oedd y brodyr yn foddlawn ar y lle tywyll oedd ganddynt hyd y fl. 1835. Credwn fod yma oleuni ysbrydol cryf yn eu cyfarfodydd pan y byddai y goleuni naturiol yn lled brin. Yn y flwyddyn grybwylledig, adeiladasant gapel da yn y man y saif yr un presennol, a galwyd ef Gosen. Ni chafodd Hugh

Jones, Yr Hafod, ei fwynhau ond am ryw wyth mlynedd. Yr oedd Owen Thomas, Yr Hafod, yma yn flaenor, ac yn ŵr rhagorol. Daw ef o dan sylw yn y cyfnod nesaf; o blegid cafodd fyw am ychydig o flynyddoedd yn hwnw. Yr oedd blaenoriaid fel y ddau hyn o werth mawr i eglwys. Y mae lle i gredu fod Hugh Jones yn un o'r dynion goreu i gadw cyfarfodydd eglwysig.

Pen-y-graig-wen.—Nid oedd Methodistiaeth ond yn ei babandod yma pan y gadawsom ef yn y cyfnod blaenorol. Bu yr achos yma am o ddeutu ugain mlynedd. Yn y fl. 1821, adeiladwyd capel newydd, yr hwn a ystyrid, y pryd hwnw, yn gapel cyfleus a hardd, tua thri chwarter milldir o'r hen le, a gelwid ef Capel Parc. Y ddau flaenor yn y cyfnod hwn etto oeddynt Griffith Jones, Cefn-ddwyffrwd, yr hwn oedd yn ŵyr i Hugh Griffith, yr hen bregethwr yn y rhaniad cyntaf; a John Hughes, Cae-gors. Yr oedd y ddau yn gallu cydweithio, er eu bod o dueddiadau naturiol gwahanol. Byddai y cyntaf, os byddai eisieu, yn agor y clwyfau, ac yn eu golchi; a'r diweddaf yn tywallt olew iddynt i'w hesmwythau, ac i'w gwella. Yr oedd efe yn fedrus i ddwyn adnod fel olew i leddfu y boen. Un o'r swyddogion goreu a fu yn y Parc oedd Griffith Jones. Yr oedd yr achos yn siriol o dan ofal y ddau flaenor hyn.

Nebo.—Y mae natur yn ymagor mewn golygfeydd arderchog o ben Nebo. Ni anghofiwn yr argraph gyntaf a gafodd y golygfeydd hyn arnom tra byddwn byw. Ond nid i syllu ar olygfeydd natur yr awn ni yno yn bresennol, ond i weled gras Duw yn ymgeleddu pechaduriaid. Ymddengys mai yn Nebo—y gymmydogaeth lle y mae y capel hwn—y dechreuodd Methodistiaeth gyntaf, ac nid yn Lledtroed, neu Pensarn. Enw un tŷ ydoedd Maes-y-groes, a'r tŷ arall Tyddyn-engan. Ymddengys i'r eglwys symmud o Ledtroed i Nebo, tua'r fl. 1825. Yn y blynyddoedd olaf o'r cyfnod hwn, ceir Jeremiah Pritchard, Tŷ capel; William Williams, Rhos wen; a William Williams, masnachwr, yn flaenoriaid. Symmudodd y cyntaf i Landudno, a bu yn swyddog defnyddiol yno. Ystyrid y brawd hwn yn weddïwr dylanwadol iawn ar y gynnulleidfa, a gobeithiwn yn y

nefoedd yn ogystal. Diswyddwyd y diweddaf yn gynnar yn y cyfnod dilynol; sef, yn 1845. Yr oedd yr henuriad arall yn ŵr diniwed a ffyddlawn. Yr oedd yma eglwys lled liosog, a chynnulleidfa lled fawr cyn diwedd y cyfnod hwn. Yn y fl. 1837, daeth y Parch. Griffith Davies, o Lanerchymedd, yma, ar ddymuniad y Cyfarfod Misol. Yr oedd yma rhyw ymrafaelion ar y pryd. Lled auafaidd oedd hi tra y bu yr hen weinidog byw; ond nid oedd yn rhew ac eira annioddefol. Byddai ef yn pregethu yma bob mis. Bu Nebo, Seilo, a'r Gorslwyd, yn daith Sabbothol am rai blynyddoedd yn y cyfnod hwn. Yr oedd yma rai dynion crefyddol iawn; a byddai y weinidogaeth, ar rai prydiau, yn bur nerthol—llawer yn tori allan mewn sain cân a moliant. Nid oedd yn yr holl sir gynnulleidfa hawddach pregethu iddi.

Llaneilian.—Yn y fl. 1817, ceid Ysgol Sabbothol mewn amaethdy a elwir Plas Llaneilian, gyferbyn â phorth y fynwent. Sefydlwyr yr ysgol oeddynt Joseph Hughes, Robert Evans, yr Hen felin—tad y diweddar Barch. William Roberts, Amlwch; Owen Jones, Tŷ Sacri; William Hughes, Tros-y-mynydd; Hugh Owen, Balog; Richard Williams, Cae ficar—taid y Parch. Richard Jones, Nebo. Aelodau oedd y gwŷr hyn o eglwys Lledtroed, Pen-y-sarn. Trwy ganiatâd y periglor, y Parch. William Lewis, symmudwyd yr ysgol i eglwys y plwyf. Ymddengys mai hen ŵr di-ddrwg di-dda oedd y periglor, yn gofalu mwy am y degwm nag am y bobl. Byddai ef, a'r teulu, a'r dyeithriaid fyddai ar ymweliad â hwynt, yn dyfod at ddrws yr eglwys erbyn diwedd yr ysgol, er mwyn cael clywed y Penau Cryniaid yn gweddïo heb lyfr; a byddai gwrandaw arnynt yn fforddio ychydig o ddifyrwch iddynt. Wedi terfynu y gwasanaeth, arweiniai y periglor y plant at lyn a elwir Llyn yr Alarch i bysgota, a hawliai yr holl bysgod iddo ei hun; nis gwyddom paham, os nad fel tâl am fenthyg yr eglwys i gadw yr ysgol. Y mae hyn yn profi iselder moesau yr hen beriglor. Achosai hyn ofid blin i'r hen Fethodistiaid yn y gymmydogaeth. Mewn canlyniad, symmudwyd yr ysgol o'r llan i Bant-y-groes, ac oddi yno i ysgubor Tros-y-mynydd. O herwydd pellder y lle diweddaf i'r rhai

oeddynt yn byw i lawr yn y gwastad, sefydlwyd cangen ysgol arall am ychydig amser yn Aberach bach. Wedi hyn, ardrethwyd tŷ a elwid Pengorphwysfa, a dodrefnwyd ef â meingciau. Pan y cynnelid yr ysgol yn y lle diweddaf, symmudodd y fam-eglwys o Lledtroed i Nebo. Yn hytrach na dringo i fyny i ben Nebo, penderfynodd Methodistiaid Llaneilian chwilio am dir i adeiladu capel arno, fel y gallent gael gweinidogaeth yr efengyl yn gystal ag Ysgol Sabbothol. Cafwyd darn o dir gan ŵr a adnabyddid wrth yr enw Owen Williams, Tyddyn bach, ac adeiladwyd capel bychan arno tua'r fl. 1826, a galwyd ef Siloh—enw Hebraeg yn arwyddo heddwch, neu lonyddwch. Ac y mae yr achos wedi cael llonyddwch yma hyd yn hyn. Yr ydym yn cofio y capel hwn. Tynwyd ef i lawr, ac adeiladwyd un mwy cyn diwedd y cyfnod hwn. Y blaenor cyntaf yma oedd Joseph Hughes—gŵr difrifol a ffyddlawn iawn. Y nesaf oedd Hugh Jones, Ty'n-y-mynydd—dyn duwiol iawn. Pan y lliosogodd yr eglwys, gofynodd Joseph Hughes iddi am ganiatâd i gymmeryd Hugh Jones i'w gynnorthwyo, a chaniataodd iddo ei ddymuniad trwy godi llaw. Nid oedd yma ddewisiad rheolaidd fel sydd yn ein dyddiau ni. Yn sicr, Hugh Jones oedd y dyn goreu a galluocaf yn yr eglwys ar y pryd. Y gwaith cyntaf a roddodd Joseph Hughes i'r blaenor newydd oedd cario y ganwyll drwy y capel, er mwyn i'r cyntaf allu gweled ac adnabod y brodyr a'r chwiorydd yr ymddiddanai â hwynt ynghylch eu profiadau crefyddol. Dengys hyn mor ddiaddurn oedd y cyssegr yn allanol, a bod yr holl ogoniant yn fewnol ac yn ysbrydol. O! mor syml rhaid fod eu cyfarfodydd eglwysig. Nid oedd dim ynddynt ond presennoldeb Pen yr Eglwys i dynu dynion iddynt.

PENNOD X.

PREGETHWYR Y TRYDYDD CYFNOD.

Y Parch. John Elias a anwyd Mai 6ed, 1774, yn Mryn-llwyn bach, yn mhlwyf Abereirch, yn swydd Gaernarfon. Ni chafodd fanteision addysg fydol foreuol; ond cafodd addysg grefyddol foreuol gan ei daid. Dysgodd yr hen ŵr iddo ddarllen yn saith oed. Daeth yn aelod eglwysig yn y fl. 1793. Yr oedd wedi ei argyhoeddi yn ddwfn cyn iddo gyrhaedd un-ar-bymtheg oed; ac wedi dechreu cadw dyledswydd deuluaidd cyn dyfod yn aelod eglwysig. Dechreuodd bregethu yn y fl. 1794; ond yn Nghyfarfod Misol Bryn-yr-odyn y cafodd ganiatâd i ddechreu yn rheolaidd. Yno y newidiwyd ei enw o fod yn John Jones yn John Elias—rhag bod gormod o Jonesiaid yn mhlith y pregethwyr. Deallwyd yn fuan ei fod yn bregethwr anghyffredin—elai y wlad ar ei ol. Cynnygiodd Methodistiaid Manchester roddi iddo fwyd, dillad, ac ysgol, ond iddo aros yno i bregethu ar y Sabbothau; ond ni chaniataodd Cyfarfod Misol sir Gaernarfon iddo aros, rhag ofn iddo ddyfod yn rhy ddysgedig a balch; ond caniatawyd iddo fyned am rai misoedd at y Parch. Evan Richardson i Gaernarfon; ac yno y dysgodd Saesneg. Gwahoddwyd ef i'r Deheudir; ond braidd yr oedd yr hen frodyr yn foddlawn iddo fyned. Yn y fl. 1797, cafodd bregethu y tro cyntaf yn Nghymdeithasfa y Bala. Ei destyn oedd *Esa.* liii. 11. Pregethodd yn mhob Cymdeithasfa ar ol hon tra y bu byw ond un, pan gyfarfyddodd â damwain wrth fyned yno. Yn y fl. 1799, daeth i Fôn, trwy briodi Miss Broadhead, yr hon a ddechreuasai ddwyn yn mlaen fasnach yn Llanfechell. Nid oes dim ammheuaeth nad efe oedd prif offeryn llwyddiant Methodistiaeth Môn yn y cyfnod hwn. Dywed Gwalchmai, yn *Enwogion Môn,* fod ei ddylanwad fel pregethwr uwch law y cyffredin; a'i fod, fel areithiwr, yn sefyll yn uwch na neb arall yn Nghymru ar lawer o gyfrifon. Yr oedd ei boblogrwydd yn ddiarhebol. Yr oedd ei gyhoeddiad mewn unrhyw gymmydogaeth yn Nghymru, hyd yn oed

ar ganol diwrnod gwaith, ïe, yn amser mwyaf prysur y cynhauaf, yn ddigon dylanwadol i gael gŵyl gyffredinol, er mwyn i'r cyhoedd gael ei wrandaw. Nid yn unig yr oedd fel esgob y cyfundeb yn Môn; ond yr oedd fel archesgob y cyfundeb yn Nghymru, mewn dylanwad. Yr oedd fel enaid y Gymdeithasfa yn ei chyfarfodydd preifat, ac fel meistr y gynnulleidfa ar yr esgynlawr. Gwelid dynion cryfion yn syrthio ar *Green* y Bala o dan ddylanwad nerthol ei weinidogaeth. Hynododd ei hun mewn cyfarfodydd cyhoeddus mewn cyssylltiad â Chymdeithasau y Beiblau, y Cenhadau, a'r Ysgol Sabbothol. Gwnaeth ei oreu yn erbyn môr-ladraeth ar lanau y môr, ac yn erbyn holl anfoesoldeb yr oes. Yn mhen amser wedi marw ei wraig gyntaf, ymbriododd â gweddw Syr John Bulkeley, Presaddfed, ac ymsefydlodd yn y Fron, Llangefni; ac ymroddodd hefyd i bregethu yr efengyl wedi myned yno. Pregethodd yn nghyfarfodydd misol Môn am ddeugain mlynedd yn olynol; a byth ni chlywid ganddo yr un bregeth ond unwaith ynddynt. Dywedai y Parch. Ebenezer Richards, Tregaron, am dano—'Llawer gwaith y bu braidd ofn arnaf glywed ei fod yn dyfod trwy y wlad, gan gymmaint y sŵn a fyddai am ei ddyfodiad. Yr oedd arnaf ofn rhag y buasai yn cael ei ddarostwng yn ein mysg; ond wedi iddo ddyfod, byddai pawb yn cael mwy na'u disgwyliad. Ni welais neb yn codi yr achos âg un bregeth, yn ngolwg pawb, fel y gwnai efe.' Dywedai y Parch. David Charles, 'Ni chlywais am un gweinidog ag y bu ei weinidogaeth mor gyffredinol yn fendithiol i ddychwelyd pechaduriaid ag y bu yr eiddo Mr. John Elias.' Yr oedd yn un o'r wyth cyntaf a ordeiniwyd gan y Methodistiaid yn y Gogledd. Bu farw yn y Fron, Llangefni, Mehefin 8fed, 1841, yn 67ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llanfaes, ger llaw Beaumaris, gan ddeng mil o alarwyr—yr orymdaith yn filldir a hanner o hyd. Diweddwn gyda'r gŵr mawr hwn yn Israel yn ngeiriau Gwilym Hiraethog:—

'Cawr eu nerth a'u coron hwy—a giliodd,
Mae 'n galed y gofwy;
Geir sôn o Fôn i Fynwy
Fyth o'u mewn am ei fath mwy?'

Y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, a anwyd yn Nantdaenog, Llantrisant, yn y fl. 1771. Yr oedd ei fam yn ferch i William Pritchard, Clwchdernog. Daeth yn aelod o'r eglwys Fethodistaidd yn Ngwalchmai, yn y fl. 1789. Dewiswyd ef yn flaenor yn 1790, a dechreuodd bregethu yn 1794. Yn y fl. 1800, priododd â merch John Roberts, o'r Garnedd wen, Llanfair P. G., ac a symmudodd i Beaumaris. Y disgrifiad a rydd y Parch. Owen Thomas, D.D., Liverpool, yn *Nghofiant John Jones, Talsarn*, o Lloyd ydyw:—'Yr hwn yr oedd ei wynebpryd hardd, ei ddawn naturiol a serchiadol, ei dymmher hawddgar ac ennillgar, ei ddull agos a chyfeillgar, a'i sylwadau deheuig ac eglur, yn rhwymo ei gynnulleidfa i'w wrandaw; a rhyw eneiniad nefol yn fynych ar ei ysbryd, ac yn disgyn oddi wrtho ar y bobl, nes y byddai pawb braidd yn y lle mewn hwyl hyfryd, ac yn ymadael yn llawn awydd am ei glywed ef drachefn.' Cafodd oedfa anghyffredin—oedfa fawr ei oes—yn Nghymmanfa y Wyddgrug, yn y fl. 1830. Oedfa a gofir byth gan y rhai oeddynt yno. Noson gyntaf y Gymmanfa ydoedd, ar ol y Parch. John Hughes, sir Drefaldwyn. Ei destyn ydoedd—'A'r Sabbath oedd y diwrnod hwnw.' Yr oedd y Parch. J. Jones, Talsarn, yn bresennol; a dywedir ei fod wedi myned o'r oedfa i'w letty, Cefn-y-gader, a'r lle yr oedd Lloyd, ac eraill, yn llettya. Yr oedd John Jones wedi cyrhaedd y tŷ, ac yn eistedd wrth y tân, ac yn meddwl yn ddifrifol am y bregeth hynod a glywsai, a'r effeithiau rhyfedd a deimlid ganddo ef ei hunan a'r gynnulleidfa oll wrth ei gwrandaw, pan y daeth Lloyd i mewn. 'Yr oeddwn,' meddai, 'ar ei dderbyn megys angel Duw, pan y gwelwn ef yn neidio oddi wrth y llawr fel bachgen direidus, ac yn gwaeddi yn chwareus—'Curo Llanllyfni fawr! Curo Llanllyfni fawr!' Nid oes eisieu dywedyd wrth y rhai a adwaenent Mr. Lloyd,' meddai Dr. Thomas, 'nad oedd hyn oll ond digrifwch naturiol diniweidrwydd perffaith, heb un radd o ymffrost gwâg a hunanol ynddo.' Ordeiniwyd ef yr un adeg ag yr ordeiniwyd Elias; ac felly, yr oedd yn un o'r wyth cyntaf o'r Gogledd a ordeiniwyd. Bu yn cydweithio ac yn cyd-deithio llawer âg Elias; ac y mae llwch y ddau yn gorwedd yn agos at eu gilydd yn

mynwent Llanfaes, ger llaw Beaumaris. Yr oedd yn hynod o ffraeth a pharod, a chyfarfyddai yn aml â rhai tebyg iddo ef ei hun. Pan yr oedd yn myned i Langoed un boreu Sabbath, clywai wraig oedd am y gwrych âg ef yn canu rhyw eiriau ysgafn, gan hwian y plentyn. 'Holo, Mari,' meddai, 'ai canu gwagedd yr wyt ti ar y Sabbath?' Hithau, mewn dychryn, pan ddeallodd pwy ydoedd, a attebodd, 'O, Mr. Lloyd bach, gollwng y peth drwg allan yr ydwyf, i gael lle i beth da.' Nid oedd ganddo ddim i'w ddywedyd, ond 'Brysia dithau i'r capel.' Ar foreu Sabbath arall, ar y ffordd i'r un lle, pwy a welai dros y clawdd yn tori gwellt medi ond y clochydd; a dywedodd wrtho, 'Holo, Hugh, ai tori y deg gorchymyn yr wyt ti?' Mewn attebiad, dywedodd y clochydd, 'Mr. Lloyd bach, nid oes ond naw yn Llangoed.' 'Pa le y mae y degfed wedi myned, Hugh?' gofynai yntau. Yr attebiad oedd, 'Mae Lewis, yr ysgol, wedi ei dori yn dipiau mân ulw trwy chwennych tir ei gymmydog.' Nid oedd gan Lloyd ond myned yn ei flaen, gan deimlo fod yr hen glochydd wedi ei gyfarfod y tro hwn. Y mae yn debyg mai Methodist oedd Lewis. Byddai yn hoff iawn o ofyn cwestiynau yn y cyfarfodydd eglwysig. Un tro, aeth at y chwiorydd, a gofynodd i un oedd yn eistedd ar ben y faingc, 'Boba Shân, pa greadur a fyddent yn ei ladd ar y Pasc o dan yr hen oruchwyliaeth?' 'Yn wir, nid wyf yn gwybod,' oedd yr attebiad. 'Beth yr wyt ti yn ei ddywedyd?' gofynai i un arall. 'Nid wyf finnau yn cofio,' oedd yr attebiad. Ar hyn, dyma fenyw lled fawr ag oedd yn eistedd o'r tu ol i'r chwiorydd hyn yn codi ar ei thraed, ac yn dywedyd mai 'aderyn tô' a fyddai yn cael ei ladd ar y Pasc. 'Eistedd i lawr, yr hen beth fawr wirion,' meddai yntau wrthi. Pan oedd capel Beaumaris yn cael ei adeiladu, daeth un o'r enw Ned ato i ofyn am waith, gan ddywedyd, 'A oes genych ddim gwaith tua'r capel yna i mi, Mr. Lloyd?' 'Un diog iawn wyt ti, Ned,' meddai yntau. 'Nid oes neb diog i'w gael yn awr, syr,' meddai Ned. 'Pa le y maent wedi myned?' gofynai Lloyd. 'Y maent wedi myned yn bregethwyr,' attebai Ned. 'Dyna hwn a hwn, y mae gan ddioced a'i swm, ond y mae yn eithaf pregethwr.' Byddai yn cyfarfod

weithiau â rhai ffraeth fel ef ei hunan. Y mae ymddygiadau dynion weithiau tuag at ddyn fel Lloyd yn dangos y fath ddyn oedd efe. Bu y gweinidog anwyl hwn farw Mai 25ain, 1834, yn 63ain mlwydd oed.

Y Parch. CADWALADR WILLIAMS, Penceint.—Hanodd o rïeni crefyddol, o'r enwau William a Margaret Cadwaladr. Ganwyd ef mewn lle crybwylledig rai gweithiau yn y pennodau blaenorol; sef, Pant-y-coli. Pan oedd Williams yn lled ieuangc, symmudodd ei rïeni i fferm helaeth a elwir Llwyn'rarth, yn mhlwyf Llanbabo, lle y buasai hynafiaid Syr William Jones, yr ieithydd enwog, yn cyfanneddu. Yr oedd tad Williams yn hynod yn ei oes yn ei ymroddiad i weddïo. Byddai yn trydar ei weddïau at yr Arglwydd yn fynych pan eisteddai mewn cwmpeini, ac y cerddai ar hyd y ffordd. Gellir casglu yn naturiol iddo gael ei ddwyn i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Cafodd fanteision addysg gyda'r Parch. Zaccheus Davies, gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Llanddeusant. Daeth yn gydnabyddus â'r Parch. John Elias yn lled ieuangc; ac yr oedd ef, fel eraill, yn ei edmygu yn fawr. Symmudodd o Lwyn'rarth i Bryn-du, i gadw ysgol ddyddiol; ac yno, annogwyd ef gan yr eglwys i feddwl am bregethu, ac efe a ddechreuodd yn y fl. 1804. O herwydd ei gyfeillgarwch âg Elias, gelwid ef gan rai yn 'bregethwr John Elias.' Math o goegni oedd hyn. Ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth gyda Roberts, Amlwch, yn y fl. 1817. Yr oedd, cyn ei ordeinio, yn ysgrifenydd i'r Cyfarfod Misol a'r Gymdeithasfa. Yr oedd yn un o'r nifer a alwyd i gydymgynghori er ffurfio 'Cyffes Ffydd y Methodistiaid Calfinaidd,' ac yn un o ysgrifenyddion y cyfeisteddfod hwnw. Yn y fl. 1815, ymbriododd â merch ieuangc o'r enw Miss Mary Jones, o Lanbrynmair, sir Drefaldwyn, gyda'r hon y cyfanneddodd dros bedair-a-deugain o flynyddoedd. Buont byw am beth amser ar ol priodi yn Llangefni; ac oddi yno symmudasant i Penceint, yn mhlwyf Llanffinan. Ystyrid Williams yn ddyn o wybodaeth gyffredinol helaeth. Nid oedd neb yn Môn yn fwy cydnabyddus â ffeithiau Ysgrythyrol nag ef; ac yr oedd yn meddu llawer o allu esboniadol yn ei ddull ei hun. Credai rhai ei fod yn un

o'r dynion mwyaf; ïe, y duwinydd penaf yn Môn, os nad yn Nghymru. Yr oedd ganddo ei ragoriaethau meddyliol; ond nid mewn gwir fawredd a dyfnder meddyliol yr oedd hyn, ond mewn côf da, a rhwyddineb i siarad ar bob pwngc yn ddifyfyr. Yr oedd Williams yn ddyn tawel a boddlawn: gwenai ar bethau a fyddai yn achosi dagrau i Roberts, Amlwch. Ystyrid ef yn bregethwr sych. Yn Nghymdeithasfa Dolgellau, yn y fl. 1821, pregethai ar *Heb.* xiii. 20. Yn yr Ysgol Sabbothol, darllenai gŵr, o'r enw Hugh Lloyd, grynodeb o'r bregeth, pan oedd Edward Ffoulkes yn gadeirydd. Darllenai hi mor dda fel y diolchodd y cadeirydd iddo, gan ddadgan iddo gael mwy o flâs ar y bregeth yn cael ei darllen gan Hugh Lloyd nag a gafodd pan oedd hi yn cael ei phregethu gan Williams. Yn Nghymdeithasfa Llanelwy, yn y fl. 1844, pregethai ar *Salm* l. 5. Dywedai y diweddar Barch. Richard Humphreys, Dyffryn, wrth gyfaill iddo oedd yn ei ymyl—'Y mae efe yn dywedyd y gwir, mi goeliaf; ond nid oes dim ynddo yn ein temtio i wrandaw arno, ai oes? Da i'n calon fod yr hen gyfaill o Amlwch i bregethu ar ei ol ef.' Yr oedd y werin yn Môn yn meddwl yn lled uchel o hono fel dyn yn gwybod llawer. Nid oedd gan neb a'i hadwaenai ammheuaeth o'i dduwioldeb. Ar yr 11eg o Chwefror, 1860, pan ymbarotoai i fyned at ei gyhoeddiad i Amlwch, tarawyd ef gan y parlys mud, ac yn fud y bu hyd ei farwolaeth. Ar yr 22ain o'r un mis, claddwyd ef yn Llanffinan, yn mhresennoldeb tyrfa liosog o'i gyfeillion. Bu yn pregethu am 56ain o flynyddoedd.

Y Parch. William Roberts, Amlwch, a anwyd Medi 19eg, 1784, yn Aberarch, yn mhlwyf Llaneilian, sir Fôn. Yr oedd ei dad, Robert Evans, yn gefnder i Elias Jones, tad y Parch. John Elias. Yr oedd ei fam, Elizabeth Pritchard—ei henw morwynol—yn hanu o hen deuluoedd Môn—ei thaid hi, a thaid y diweddar Arglwydd Dinorben, yn ddau frawd. Pan oedd Roberts yn ddeg oed, aeth i weithio i Fynydd Parys. Ni chafodd fanteision addysg gan ei rïeni. Teimlodd argraphiadau crefyddol ar ei feddwl yn lled ieuangc, wrth wrandaw ar y Parch. Peter Williams a Robert Roberts, Clynog; ond trwy

weinidogaeth y Parch. John Elias y penderfynodd roddi ei hunan 'yn gyntaf i'r Arglwydd, ac wedi hyny i'w bobl.' Daeth yn aelod eglwysig pan tua dwy-ar-bymtheg oed, yn Lledtroed. Pan oedd tua phedair-ar-bymtheg oed, aeth i'r ysgol am dri mis, at y Parch. John Evans, yr hwn oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Mhorth Amlwch; a dyna'r holl ysgol a gafodd yn ei holl fywyd. Ar ol hyn, aeth i Lanerchymedd, i weithio fel gwas ar y tir yr oedd David Roberts yn ei ddal. Ymroddodd yn Llanerchymedd i fywyd crefyddol. Tynodd sylw yr eglwys fechan oedd yno ar y pryd fel gŵr ieuangc duwiol ac addawol. Tynai y cyfeillion ef yn mlaen, ac annogent ef i ddyweyd ychydig oddi wrth y bennod, cyn gweddïo. Byddai y cyfarchiadau hyn, weithiau, yn nerthol iawn, ac yn ddylanwadol ar y gynnulleidfa. Wedi aros yn Llanerchymedd am flwyddyn, symmudodd i Amlwch; a'i waith oedd gwneyd canwyllau, a gweithio ar y tir. Pan oedd yn un-ar-hugain oed, dewiswyd ef yn flaenor; a phan yn dair-ar-hugain, dechreuodd bregethu. Yn y fl. 1817, efe a ymsefydlodd mewn masnach drosto ei hun yn Amlwch; ac yn yr un flwyddyn, neillduwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn Nghymdeithasfa y Bala. Nid oedd ond dau wedi eu hordeinio o Fôn o'i flaen ef; sef, y Parchn. John Elias, a Richard Lloyd. Yn Mawrth 2il, 1818, efe a briododd â Miss Sarah Jones, Gwernihywel, yn agos i'r Ysbytty. Ganwyd iddynt naw o blant; o ba rai nid oes ond un yn fyw; sef, Sarah, gweddw y Parch. Rees Jones, Felinheli. Ar Ionawr 11eg, 1864, bu farw Mrs. Roberts, yr hyn oedd yn brofedigaeth chwerw iddo. Cofus genym am y diwrnod. Yr oeddym yn y tŷ gyda'i bod hi wedi huno, cyn iddo ef ddyfod i lawr o'r llofft. Yn mhen ychydig funydau, daeth i lawr dan wylo. Wedi iddo feddiannu ychydig arno ei hun, neu lywodraethu ei deimlad, cyfarchodd ni gan ddyweyd—'Wel, John bach, y mae hi wedi ein gadael ni.' 'Ydyw, ydyw,' meddwn innau, gan wylo yn hidl gydag ef. 'A wyddoch chwi beth oedd y gair diweddaf a ddywedodd hi?' Attebais nas gwyddwn. Yna dywedodd mai y gair diweddaf oedd 'Mrs. John Pritchard,' yr hon a gollasom ychydig wythnosau yn gynt. Yna mi a ofynais iddo—'Mr. Roberts,

pa fodd yr ydych chwi yn deall peth fel yna?' Attebodd yntau, gan ddywedyd—'Peidiwch a gofyn y fath ofyniad i mi. Y mae yn hawdd gofyn cwestiynau, ond y mae yn anhawdd eu hatteb.' Ond yr argraph a adawodd ar ein meddwl oedd, ei fod yn credu fod rhyw gymdeithas rhyngddynt â'u gilydd. A phwy a ŵyr nad oedd? Yn mhen ychydig o wythnosau wedi claddu Mrs. Roberts, fe'i cymmerwyd yntau yn glaf iawn; ac wedi dioddef am rai misoedd arteithiau cystudd trwm, ar y 19eg o Orphenaf, 1864, gorphenodd ei yrfa; a chafodd goron cyfiawnder yn wobr gwaith a llafurus gariad, pan yr oedd agos yn 80ain mlwydd oed. Fel y crybwyllasom, ni chafodd ond tri mis o ysgol; ond trwy ymroddiad a llafur nid bychan, llwyddodd i feistroli yr iaith Saesneg yn lled dda. Llwyddodd i ddeall ychydig o'r Hebraeg a'r Groeg, fel ag i'w alluogi, trwy gymmhorth geiriaduron, i gael allan y gwahanol gyfieithiadau ac ystyron a roddid i'r un geiriau mewn gwahanol leoedd yn yr Ysgrythyrau. Er mwyn dangos ei ddull o astudio, ac o gyfansoddi ei bregethau, rhoddwn un enghraifft. Pregethai ar *Salm* xciv. 19:—'Yn amlder fy meddyliau o'm mewn, dy ddyddanwch di a lawenycha fy enaid.' Yn rhywle yn y bregeth, dywedai fod y gair a gyfieithir yn ei destyn yn 'llawenycha,' yn cael ei gyfieithu yn *Esaiah* xi. 8. yn 'chwery:'—'A'r plentyn sugno a chwery wrth dwll yr asp.' Yna dywedai—'Y mae dyddanwch yr efengyl yn rhoddi modd i'r Cristion chwareu yn nghanol gorthrymderau y byd.' Yna dywedodd fod yr un gair yn cael ei gyfieithu yn *Esaiah* lxvi. 13, 'dyddana:'—'Fel un, yr hwn y dyddana ei fam ef, felly y dyddanaf fi chwi.' Pa fodd y mae y fam yn dyddanu ei phlentyn? Y mae hi yn ei ddyddanu trwy ei ddandlio a'i süo i gysgu. Felly y mae Duw yn dyddanu ei blentyn—yn ei ddandlio—ei süo i gysgu yn nghanol profedigaethau. Yna, dywedai fod y gair a gyfieithir yn ei destyn yn 'feddyliau' yn cael ei gyfieithu yn *Num.* xxi. 6, yn 'seirph tanllyd.' Yna dywedai, 'fod gan ddyn, fel pechadur argyhoeddedig, feddyliau fel seirph tanllyd—cyhuddiadau cydwybod euog; ond fod dyddanwch yr efengyl yn gallu llonyddu meddyliau sydd fel seirph tanllyd. 'Cymmer gysur, maddeuwyd i ti dy bechodau.'

'Gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tuag at Dduw trwy ein Harglwydd Iesu Grist.' Yr oedd y dylanwad gyda'r sylw hwn yn rymus dros ben. Credwn ei fod wedi gwneyd ychydig o gamgymmeriad o berthynas i'r gair yn Numeri. Edrychedyr Hebreigwr. Fel pregethwr, yr oedd ar ei ben ei hun. Yn ol ein barn ostyngedig ni, yr oedd yn rhagori, nid yn unig ar holl bregethwyr Methodistaidd Môn, ond ar holl bregethwyr y cyfundeb yn Nghymru, o ran gwreiddiolder, treiddgarwch, annibyniaeth, a nerth. Nid ydym wedi anghofio mawredd John Elias; ond nid mewn gwreiddiolder ac annibyniaeth yr oedd ei fawredd ef, ond mewn areithyddiaeth. Prif areithiwr Cymru oedd Elias. Dywedai un gŵr Eglwysig am dano—'Ac fel areithiwr, edrychwn arno yn gyfartal i Demosthenes.' Ond fel meddyliwr gwreiddiol ac annibynol, credwn mai Roberts oedd y mwyaf a fu yn ein cyfundeb. Mae'n wir fod rhai, trwy eu mawredd meddyliol, a'u dysgeidiaeth dwfn, wedi rhagori fel duwinyddion ac ysgrifenwyr. Wedi y bregeth nerthol hono yn Nghymdeithasfa Caernarfon, ar y mynediad i mewn i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist, dywedwyd wrthym mai dyna a ddywedodd yr hybarch Ddr. Edwards, o'r Bala, wedi iddo fyned i'w letty—'Hen ddyn ofnadwy ydyw efe!' Mewn difrifwch gyda'r weinidogaeth, ni welodd cynnulleidfaoedd Môn neb yn rhagori arno. O berthynas i'w ddylanwad yn y Cyfarfod Misol, dywed Dr. Hughes, Liverpool, yn ei lythyr yn *Nghofiant y Parch. Ebenezer Davies*—'Anhawdd ydyw meddwl am neb yn meddu mwy o allu ar ddynion nag oedd gan Mr. Roberts ar Gyfarfod Misol Môn. Yr oedd natur a gras wedi ei wneuthur yn frenin mewn llu.' Yr oedd yn meddu callineb y sarph. Yr oedd yn awyddus i ŵr ieuangc oedd wedi ei fagu yn yr eglwys o dan ei ofal gael ychydig o ysgol, gan dybied y gallai fod o ddefnydd gyda theyrnas yr Arglwydd Iesu. Nid oedd Cyfarfod Misol Môn y pryd hwnw mor ffafriol i roddi dysgeidiaeth i bregethwyr ieuaingc ag ydyw yn bresennol. Cynnygiodd Roberts i roddi rhan o'r casgliad cenhadol i'r Morafiaid! Gwyddai o'r goreu, er ei holl ddylanwad, na allai ddwyn ei gynnyg

i fuddugoliaeth. Gwrthwynebwyd ef yn benderfynol, a chollodd ef trwy fwyafrif mawr. Yna, cyn i neb ddywedyd un gair, cododd i fyny drachefn, a dywedodd—'Y mae genyf fi gynnygiad arall, a gwrthodwch hwn etto os mynwch. Y mae genym ni ŵr ieuangc yn Amlwch y carem iddo gael tipyn o ysgol, o blegid tybiem y gall efe fod o ryw ddefnydd gyda'r achos; ac yr ydym yn gofyn a wna y Cyfarfod Misol roddi cymmhorth iddo i fyned at William Roberts i Gaergybi.' Dyma rhyw frawd yn codi ar ei draed i eilio ei gynnygiad bron cyn iddo orphen siarad, a phasiwyd ef heb gymmaint ag un gwrthwynebiad. Yr oedd yn dda gan y cyfarfod gael gwneyd hynnid er mwyn y gŵr ieuangc, ond mewn trefn i wella y clwyf yr oeddynt yn ofni eu bod wedi achosi i'w feddwl wrth wrthod y cynnygiad cyntaf. Gwyddai yn eithaf da mai dyna oedd yr amser iddo wneyd ei gynnygiad. Y mae yn rhaid addef y byddai Roberts yn ymddangos weithiau yn lled drwsgl a chlogyrnaidd ei ddawn; ond wedi iddo gael ei gynnhyrfu, tywalltai raiadrau aruthrol o hyawdledd; neu wedi tawelwch bron annioddefol, deuai cynnhyrfiad fel tymmhestl o fellt a tharanau, a gwlaw, nes y byddai yr holl gynnulleidfa mewn dychryn. Diweddwn gyda'r gŵr mawr hwn yn ngeiriau Eliseus—'Fy nhad, fy nhad!'

Y Parch. David Jones, Dwyran.—Ganwyd ef yn y fl. 1784. Yr oedd John Davies (Siôn Dafydd), Ty'n-yr-allt, ger llaw pentref Niwbwrch, am yr hwn y crybwyllasom yn y drydedd a'r bummed bennod, yn daid iddo. Ar ddiwedd dydd yr ympryd gwladol a gynnelid yn achos y rhyfel oedd rhwng y wlad hon a Ffraingc, yr oedd gŵr yn holwyddori y plant; ond ar ganol y gorchwyl, bu raid i'r holwyddorwr syrthio ar ei liniau i weddïo. Disgynodd cyffelyb deimladau ar y plant, ac yn eu plith yr oedd David Jones. Bu hyn yn ddechreuad diwygiad cryf yn y cymmydogaethau. Daeth David Jones yn Gristion penderfynol, ac o'r diwedd yn bregethwr. Ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1835. Fel dyn, yr oedd yn lled gâs a phigog—yn ddiserch, o'i gymmharu â rhai o'i gyfoedion; etto, yn ddyn cywir o'r iawn ryw; a hoffid ef yn fawr gan y rhai a'i hadwaenent ef.

Nid oedd mor boblogaidd fel pregethwr a rhai o'i gyfoedion; ond bron na chredem ei fod yn fwy nag un o honynt, ond y Parchn. John Elias, a William Roberts, Amlwch. Nid oedd ei ddawn mor rwydd, na'i lais mor soniarus, a'r eiddo John Charles, Gwalchmai, ond rhagorai mewn nerth meddwl; ac weithiau, byddai yn nerthol a grymus iawn; ac yn fynych, byddai ei weinidogaeth yn defnynu fel gwlaw, ac yn dyferu fel gwlith—fel gwlithwlaw ar irwellt, ac fel cawodydd ar laswellt. Cofus genym mai gydag ef y sangasom gyntaf yn mhulpud capel Amlwch. Dywedodd yn nhŷ y capel—'Jack, tyred gyda mi i ddechreu yr oedfa i mi.' Yr oeddym yn digwydd bod gartref, ac heb ddechreu pregethu; ond yn Athrofa y Bala yn parotoi ar gyfer hyny. Ac ar ei bregeth, dywedodd—'Yn yr anialwch y bu Ioan yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth, ac nid yn y coleg.' Bu farw Ebrill 4ydd, 1853, o dan effeithiau difäol y cancr ar ei wefus.

Hugh Owen, Cemmaes.—Dewiswyd y gŵr hwn yn flaenor cyn iddo ddechreu pregethu. Tystia rhai mai mewn canlyniad iddo ddangos awydd i geisio pregethu y dewiswyd ef, fel rhyw ragbarotoad i bregethu. Y farn gyffredin ydoedd, mai aros yn flaenor a fuasai fwyaf anrhydeddus iddo, yn hytrach na cheisio pregethu. Cofus genym mai lled annerbyniol ydoedd fel pregethwr, ac y byddai yn ceisio dynwared Elias yn ysgydwad ei fys. Perchid ef yn fawr fel Cristion. Credwn iddo farw rai blynyddoedd cyn diwedd y trydydd cyfnod.

Y Parch. John Prytherch oedd fab hynaf William Prytherch, Tŷ calch, Llangristiolus. Ymddengys iddo deimlo argraphiadau crefyddol yn foreu yn Niwbwrch, pan yr oedd ei gyfoedion, o'r un sefyllfa ag ef, yn dirmygu crefydd yn ei ffurf Fethodistaidd. Byddai weithiau yn canu, ac yn gorfoleddu, nes y clywid ef o Langristiolus, dros Forfa Malltraeth, yn nghymmydogaeth Niwbwrch. Dechreuodd bregethu tua'r fl. 1806, ac ordeiniwyd ef yn 1831. Y lle y bu efe yn trigiannu am y rhan fwyaf o'i oes oedd Dyffryn gwyn, Llanddyfnan. Yr oedd yn ddyn hardd o bryd a gwedd, ei lais yn beraidd a soniarus, ei barabl yn hyawdl, a'i sêl yn ei ysu. Yr oedd yn feddiannol ar y rhinwedd ag y mae y wobr fwyaf

yn gyssylltiedig âg ef; sef, ffyddlondeb. Dechreuai pob moddion yn eu hamser; a gofalai am i gynnadleddau y cyfarfodydd misol gael eu dechreu yn eu hamser. Yr oedd efe yn selog ac yn weithgar gyda'r Ysgol Sabbothol. Gellid ei alw yn apostol y plant yn Môn. Byddai holl blant yr ardaloedd yn cyfodi, fel un gŵr, i'w gyfarfod, i gael eu holi ganddo; a dyna lle y byddai yntau â'i law ar goryn un, ac yn tremio ei olygon i lygaid y llall; a byddai yr hwyl a gaffai yn nghynnulleidfa y plant yn gwefreiddio rhai mewn oed wrth wrandaw. Pan y gweddïai yn gyhoeddus, curai ei ddeudroed, un bob yn ail, yn y llawr; dyrchafai ei ddwylaw i fyny; a disgynai dagrau tryloewon dros ei ruddiau. Er nad oedd o alluoedd meddyliol cryfion iawn, etto yr oedd ganddo gôf da, dawn ymadrodd llithrig, deniadol, ac effeithiol. Dewisai eiriau lled ddyeithrol, weithiau, yn destynau. Perchid ef yn fawr gan bawb—byd ac eglwys. Anrhydeddwyd ef â'i bortrëad yn yr *Eurgrawn Efengylaidd.* Yr oedd y Parch. Cadwaladr Williams yn trigo yn yr un ardal, a'r ddau yn aelodau o'r un eglwys, ac yn gyfeillion calon—Prytherch yn ddiniwed fel y golomen, a Williams yn gall fel y sarph. Bu farw Chwefror 28ain, 1864, yn 90ain mlwydd oed, wedi bod yn efengylu am yr ysbaid maith o 58ain o flynyddoedd; a chafodd angladd anrhydeddus yn mynwent Llangristiolus.

Y Parch. John Charles, Gwalchmai, a anwyd tua'r fl. 1784. Dechreuodd bregethu tua'r fl. 1812, pan oedd tua 28ain oed. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1829. Cafodd weled pedwar o'i feibion yn y weinidogaeth; sef, y Parchn. John, Hugh, William, a David Charles. Fel dyn, yr oedd y Parch. John Charles yn un o'r rhai mwyaf hynaws a diniweid a fu yn Ynys Môn. Ië, yr oedd yn ddiniwed fel y golomen—yn un o rai llariaidd y ddaear, ac 'yn Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oedd twyll.' Dyma oedd ei gymmeriad yn ngolwg y wlad. Un waith y gwelsom beth tebyg i ragrith ynddo; ond rhagrith diniwed iawn ydoedd. Tybiai nad oeddwn yn ddigon gostyngedig fel dyn ieuangc oedd yn parotoi ar gyfer y weinidogaeth yn ngolwg rhai o'r hen frodyr, a'r cynghor a roddodd i ni ydoedd, 'John, rhagrithiwch dipyn.' Yr oedd efe hefyd,

fel dyn, yn un o'r rhai mwyaf cyfeillgar a charedig wrth bregethwyr ieuaingc. Yr oedd yn gallu mwynhau ei hun gyda phregethwyr ieuaingc gymmaint a chyda'i gyfoedion, os nad yn fwy. Cofus genym, pan y daethom i'r Cyfarfod Misol cyntaf, iddo gynnyg nad oeddym i fyned o dan arholiad, gan sicrhau fy mod yn iach yn y ffydd; ond cododd y Parch. David Elias ar ei draed, a dywedodd fod yn rhaid ymddwyn tuag ataf fi fel y gwneir tuag at bob gŵr ieuangc arall. Fel Cristion, yr oedd yn dduwiolfrydig, yn afaelgar mewn gweddi, ac yn sanctaidd mewn ymarweddiad. Fel pregethwr, nid oedd yn fawr; ond yr oedd ganddo lais mwyn a soniarus, traddodiad hapus a naturiol, a rhwyddineb ymadrodd bron yn ymylu ar ormodedd, gweinidogaeth efengylaidd, a bywiogrwydd ysbryd. Yr oedd mor boblogaidd ag un o'r hen bregethwyr, os nad yn fwy na'r rhan fwyaf o honynt; ond nid oedd mor alluog a rhai o honynt. Yr oedd yn hardd ei olwg—heb fod yn fwy na'r cyffredin o ran taldra. Nid llawer y bu efe allan o sir Fôn. Dywedai Dr. Hughes, yn y *Traethodydd,* mai ei arwyddair, a rheol ei fywyd, oedd 'Gwarchod gartref.' Bu farw Tachwedd 1af, 1858, yn 74ain mlwydd oed, a chladdwyd ei weddillion marwol yn mynwent capel Gwalchmai. Ei wraig ddiweddaf oedd Grace Hughes, merch i William Hughes, cadben llong. Bu gweddw William Hughes, a mam Grace Charles, yn cadw y *Bull Inn* yn Llanerchymedd, yr hon a briododd Hugh Jones, Yr Hafod; ac felly, cafodd Grace Charles ei dwyn i fyny gyda'r hen flaenor parchus Hugh Jones. Yr oedd hi yn eneth grefyddol pan yn y *Bull.* Yno, byddai yn cael pleser mawr mewn gwneyd cymmwynasau bychain i bregethwyr. O'r diwedd, daeth yn wraig i bregethwr, ac yn fam i'r ddau bregethwr a gyfrifid yn mysg y rhai mwyaf poblogaidd; sef, William a David Charles. Yr oedd hi yn wraig o synwyr cryf, ac o dduwioldeb diammheuol.

Y Parch. Griffith Davies, Nebo, a anwyd yn y fl. 1777, mewn annedd ar dir Gwredog Isaf, ger llaw Llanerchymedd. Ni chafodd fanteision addysg yn ei febyd. Dysgodd grefft gwehydd. Ymunodd â chrefydd yn foreu, a dechreuodd bregethu yn lled gynnar. Priododd

un o'r enw Catherine Pritchard, yr hon a fu yn wraig rinweddol a chrefyddol. A hwy oeddynt rïeni y diweddar Barch. Ebenezer Davies. Dywedir iddo ddechreu pregethu yn y Cae Mawr, mewn cyfarfod gweddi, heb ganiatâd na Chyfarfod Misol nac eglwys, tua'r fl. 1811. Symmudodd o Lanerchymedd i Nebo, yn 1837. Yr achos o'i symmudiad i Nebo oedd yr ymrafaelion oedd yn yr eglwys; ac nid rhyw dymmhor hafaidd a gafodd yntau yno. Fel pregethwr, efe oedd y gwaeddwr mwyaf a glywsom erioed. Dywedai fod gwaeddi wrth bregethu yn iechyd iddo. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1848. Yr oedd yn bregethwr cymmeradwy, ac yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau. Bu yn ffyddlawn ac yn ddefnyddiol. Parhäai i wneyd pregethau newyddion yn ei hen ddyddiau. Bu farw yn y fl. 1856, yn 79ain oed, wedi bod yn pregethu dros bump-a-deugain o flynyddoedd; a chladdwyd ef yn Llanerchymedd. Dangoswyd parch mawr i'w goffadwriaeth gan dyrfa liosog a ddaeth ynghyd i hebrwng ei gorph i dŷ ei hir gartref.

Y Parch. David Elias, Pentraeth, a anwyd yn Abereirch, Lleyn. Yr oedd efe yn frawd i'r pregethwr enwog, y Parch. John Elias. Yn sir Gaernarfon y dechreuodd bregethu, fel ei frawd, tua'r fl. 1815. Ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn 1835. I Fryn du y daeth i breswylio gyntaf yn Môn; a symmudodd oddi yno i Bentraeth. Yr oedd yn briod â Mary Roose, Mill Bank, Amlwch. Cadwai Mrs. Elias fasnachdy, tra yr ymgyflwynai ef, yn benaf, i'r weinidogaeth. Nid oedd wedi cael addysg gyffredin yn moreu ei oes; etto, trwy lafur ac ymroddiad, daeth i feddu gwybodaeth dduwinyddol helaeth. Pregethai yn llym yn erbyn pechodau. Yr oedd efe yn fwy o Foanerges nag o Farnabas. 'Gosodai edifeirwch allan yn y fath fodd,' meddai y Parch. David Jones, Caernarfon, 'fel na ddymunai neb ei gael ef.' Edrychai ar yr ochr dywyll i'r golofn braidd bob amser. Yr oedd fel oen yn ei dŷ—yn garedig dros ben; ond fel llew yn y Cyfarfod Misol—yn lled lym. Ystyrid ef yn ŵr gonest a didwyll iawn. Ysgrifenodd fwy na llawer o'i gyfoedion. Bu farw Mai 29ain, 1856, yn 66ain oed.

John Evans, Bodedern, a anwyd yn y flwyddyn 1775.

Dechreuodd bregethu yn 1808, yn Nghaergybi. Galwyd ef yn flaenor bedair blynedd cyn hyny. Yr oedd yn nodedig am ei dduwioldeb; ac yn bregethwr sylweddol, rheolaidd, a bywiog. Byddai yn cael ambell oedfa wlithog iawn. Nid oedd o gyfansoddiad corphorol cryf. Gellir dywedyd fod ganddo, fel Timotheus, ei 'fynych wendid;' ond parhaodd i lafurio gyda phregethu nes i ddamwain ofidus achlysuro ei farwolaeth. Mab iddo ef ydyw y Parch. Ebenezer Evans, Bodedern; ac ŵyr iddo ydyw William Evans, un o flaenoriaid parchus Anfield road, Liverpool. Bu farw Ebrill 21ain, 1845, wedi pregethu am ddwy-ar-bymtheg-ar-hugain o flynyddoedd, ond heb ei ordeinio. Rhy ddrwg oedd hyn yn ein hen dadau.

Thomas Jones, Amlwch.—Ganwyd ef yn Ffrwd-win, yn mhlwyf Llanfwrog, Mehefin 28ain, 1777. Mab oedd i John Thomas, Llanfwrog [gwel pennodau 6ed a'r 8fed], Dechreuodd bregethu yn y fl. 1807, pan oedd yn 30ain mlwydd oed. Fel dyn, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf didwyll, gonest, plaen, a didderbyn-wyneb o fewn Môn. Fel ysgolhaig, *self-taught* ydoedd. Ychydig o fanteision addysg a gafodd pan oedd yn ieuangc—dim ond rhyw ddwy flynedd a hanner pan yn fachgenyn. Trwy lafur caled a diwydrwydd mawr cyrhaeddodd wybodaeth lled ëang mewn ieithyddiaeth, rhifyddiaeth, daearyddiaeth, a mesuroniaeth. Bu yn cadw ysgol yn Modedern am beth amser; ac wedi hyny yn Amlwch. Fel Cristion, yr oedd iddo air da gan y saint, a chan y rhai oedd oddi allan. Fel pregethwr, nid oedd yn feddiannol ar anhebgorion pregethwr poblogaidd; ond yr oedd yn bregethwr call, sylweddol, a chryno, ac yn bregethwr o wybodaeth gyffredinol. Ni ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth. *Too bad!* Bu farw yn sydyn o'r parlys, Gorphenaf 6ed, 1847, yn 70ain mlwydd oed, wedi pregethu am bedair-ar-bymtheg-ar-hugain o flynyddoedd; ac wedi cyfieithu amryw o lyfrau buddiol o'r iaith Saesneg i'r iaith Gymraeg. Na aflonydded neb ar ei lwch yn mynwent Llanfwrog hyd ganiad yr udgorn diweddaf!

Robert Hughes, Gad, oedd frodor o sir Gaernarfon. Dechreuodd bregethu cyn dyfod i Fôn, tua'r fl. 1816. I Niwbwrch y daeth efe i breswylio gyntaf yn Môn; a

symmudodd oddi yno i Gad, yn agos i Langefni. Nid oes ammheuaeth nad oedd yn Gristion cywir—ond yn bregethwr lled ammhoblogaidd. Credem y byddai ganddo well pregethau nag ambell un oedd yn fwy cymmeradwy nag ef gan y cynnulleidfaoedd; a'r achos o hyn oedd tlodi ei ddawn traddodi. Bu farw Gorphenaf 1af, 1862, yn 74ain mlwydd oed, wedi pregethu am o ddeutu chwe blynedd a deugain.

Y Parch. Thomas Owen, Llangefni, a ddechreuodd bregethu tua'r fl. 1812. Yn y deng-mlynedd-ar-hugain cyntaf o'i weinidogaeth, byddai yn teithio cryn lawer, yn ol arfer y dyddiau hyny. Yr oedd yn bregethwr poblogaidd, o blegid cynnhesrwydd ei ysbryd, ystwythder a phereidd-dra ei lais, a gwlithogrwydd ei ddawn. Clywsom yr hen bobl, mewn siroedd eraill, yn siarad yn barchus am dano, ac am ei weinidogaeth. Mab dyddanwch a thangnefedd ydoedd ar hyd ei oes. Ordeiniwyd ef yn 1854. Bu farw Mai 11eg, 1874, yn 86ain mlwydd oed, wedi pregethu am bedair-a-thrigain o flynyddoedd.

Thomas Jones, Tŷ croes, Llangeinwen—neu, Thomas Jones, Niwbwrch, fel y gelwid ef yn aml—a anwyd yn y flwyddyn 1792. Yr oedd y pregethwr ieuangc addawol hwn o deulu crefyddol. Bu farw ei dad yn ieuangc, trwy gael oerfel pan allan y nos yn gorfoleddu. Ei fam ydoedd Elizabeth Smith—merch Tŷ croes; yr hon, trwy farwolaeth ei phriod, a adawyd yn weddw ieuangc, gydag un plentyn; a chymmerwyd ef gan ei daid, o du ei fam, i'r Tŷ croes. Ymddengys iddo gael ei gydfagu gyda'i ewythr, Thomas Smith:—hen frawd a adwaenem yn dda yn nyddiau ein ieuengctid, yr hwn na flinai yn sôn am ei nai. Gŵr ieuangc o bryd goleu, ac o olwg siriol ydoedd. Dywedir ei fod, nid yn unig yn dduwiol, ond yn dduwiol iawn—gweddïai fwy a mwy mewn hen chwarel oedd yn un o'r caeau. Daeth yn grefyddol yn fachgen 14eg oed. Dechreuodd bregethu tuag 1817, pan yn 25ain mlwydd oed. Ymddengys iddo gyrhaedd poblogrwydd mawr fel pregethwr yn fuan; ac y buasai yn dyfod yn un o brif bregethwyr Môn, os nad Cymru, pe y cawsai fyw am ychydig flynyddoedd yn hwy. Bu ar daith bregethwrol trwy ranau o'r Deheudir gyda'r Parch. David Elias; a

dywedai y Deheuwyr wrtho, 'Am beidio â dyfod yno etto yn was bach i neb; ond am iddo ddyfod yn fuan â gwas bach gydag ef.' Dywedai dau bregethwr o'r Deheudir, pan ar eu taith trwy Fôn, fod 'Y mawr yn pregethu yn dda; ond mai y bychan oedd yn ei gweyd hi.' Cafodd bregeth anghyffredin o nerthol yn Nghaernarfon—naill ai wrth fyned neu ddychwelyd o'r daith hon. Pan yn dychwelyd o'i gyhoeddiad, cymmerwyd ef yn glaf yn Nghaernarfon, a bu farw yn mhen tridiau, ar ol dioddef cystudd trwm. Dyddiad ei farwolaeth oedd Mai 18fed, 1820, yn 28ain mlwydd oed; ac wedi pregethu ychydig llai na thair blynedd.

Owen Rowlands, Amlwch, oedd fab i Rowlands, Tŷ fry. Dechreuodd bregethu o ddeutu y fl. 1831, pan oedd efe yn fferyllydd gyda W. M. Hughes, Amlwch. Meddyliodd fyned yn genhadwr, a chynnygiodd ei hun i Gymdeithas Genhadol Llundain; ond gwrthodwyd ef. Yr oedd ei wrthodiad yn un o achosion ymadawiad y Methodistiaid oddi wrth y gymdeithas uchod. Mewn canlyniad, aeth i Dundee, yn Ysgotland, i fasnachu. Daeth yn ŵr parchus iawn yno, a bu farw o'r *cholera*.

Owen Rowland, Hebron.—Ganwyd ef tua'r fl. 1786. Dechreuasai ei yrfa grefyddol gyda'r Bedyddwyr; a bu yn pregethu gyda hwynt am chwech neu saith mlynedd. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid, tuag 1819. Yr oedd efe yn frawd serchog a ffyddlawn, yn weddïwr gwlithog—ond pregethwr bach iawn. Dywedir iddo gael rhai odfeuon nerthol. Teithiodd lawer trwy Gymru fel 'cyfaill' i bregethwyr eraill. Ei hobi yn ei flynyddoedd diweddaf fyddai canu o'r pulpud, 'Hen Feibl mawr fy Mam.' Byddai yn cael yn gyffredin fwy o hwyl wrth ganu nag wrth bregethu. Bu farw Chwefror 24ain, 1865, yn 79ain mlwydd oed, wedi pregethu gyda'r Methodistiaid am tua chwech a deugain o flynyddoedd.

Y Parch. John Jones, Bethania, a ddechreuodd bregethu tua'r fl. 1820, pan oedd tua 30ain mlwydd oed. Yr oedd yn dra pharchus; er nad oedd yn bregethwr mawr, na phoblogaidd chwaith. Yr oedd efe yn un o ffyddloniaid y tir i ddilyn y cyfarfodydd misol a'r Gymdeithasfa Chwarterol yn mhob sir yn y Gogledd. Mynych yr aeth

yn gyfaill i bregethwyr mwy nag ef ei hun i gymdeithasfaoedd y Deheudir, a byddai yn llwyddiannus iawn i gael cyhoeddiadau brodyr dyeithr i ddyfod trwy yr ynys i bregethu yr efengyl. Yr oedd rhyw rwngc yn ei wddf pan gyfodai ei lais; a pharai hyny iddo daflu ei ben fel pe buasai am ymwrthod âg ef. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1854. Er pob peth, yr oedd i'r brawd hwn barch dwfn yn Môn. Bu farw Ionawr 8fed, 1858, yn 68ain mlwydd oed, wedi pregethu am 38ain o flynyddoedd.

Y Parch. William Williams, Bryn du (ac wedi hyny o Fanchester), a anwyd tua'r fl. 1805. Nis gwyddom y flwyddyn y dechreuodd efe bregethu, ond gwyddom iddo ddechreu yn hynod ieuangc. Yr oedd o duedd siriol a chymmwynasgar, wedi cyrhaedd gwybodaeth ëang, ac yn feddiannol ar ddawn naturiol mwy na'r cyffredin o lawer o bregethwyr. Gellir dywedyd ei fod wedi ei gynnysgaeddu â doniau y weinidogaeth yn helaeth. Symmudodd o Fôn i fod yn oruchwyliwr masnachol. Pan oeddym yn Athrofa y Bala, a phan y deuai yntau i'r dref fel goruchwyliwr, anfonai am danom i dalu ymweliad âg ef yn y gwestty, am ein bod yn dyfod o Fôn. Bu farw yn ddisymmwth ac yn annisgwyliadwy, yn nghanol ei ddefnyddioldeb, Mehefin 2il, 1846, yn 41ain mlwydd oed.

William Williams, Llanfachreth, a ystyrid yn frawd duwiol ac anwyl iawn. Ennillodd iddo ei hun barch ac anrhydedd oddi wrth bawb o'i gydnabod, ac yn enwedig teulu parchus Aberalaw, lle y llettyai. Bu yn oruchwyliwr dros Felin Llanfachreth am rai blynyddoedd. Yr oedd yn bregethwr synwyrol a buddiol. Bu farw Medi 11eg, 1843, wedi pregethu am o ddeutu un mlynedd ar bymtheg.

Y Parch. Robert Williams, Gorslwyd:—Moriah, Ohio, America, wedi hyny. Ganwyd ef yn Mhorth Amlwch, Rhagfyr 25ain, 1802. Gesyd enw y gŵr hwn anrhydedd ar y lle yn ngolwg Methodistiaid America. Pan oedd ychydig fisoedd o oed, symmudodd ei rïeni i Liverpool; ond collodd hwynt pan yn chwech neu saith oed. Bu gyda chefnder i'w dad mewn lle o'r enw Cefn Emrys, ger Caernarfon, nes yr oedd tuag un-ar-ddeg oed. Yn y cyfnod hwn, arferai fyned at yr enwog Evan Richardson

i'r ysgol. Oddi yno, daeth i Ros-y-bol, at ei ewythr, Thomas Griffith, a'i fodryb Ellen, chwaer ei fam; ac yno yr arosodd nes iddo briodi. Bu yn gweithio yn Mynydd Parys am rai blynyddoedd. Dewiswyd ef yn flaenor gan eglwys y Gorslwyd pan yr oedd tua 19eg mlwydd oed, a dechreuodd bregethu pan oedd tua 25ain mlwydd oed, o ddeutu y fl. 1827. Priododd Miss Mary Jones, Neuadd, Cemmaes, Llanbadrig, yn y fl. 1834; ac yn mhen dwy flynedd, efe a symmudodd i America; ac yn y fl. 1838, ordeiniwyd ef. Bu farw Mrs. Williams yn y fl. 1855; ac yn mhen tair blynedd, unwyd ef drachefn mewn priodas â Miss Margaret Thomas, merch i William Thomas, Cefnrhyd-coed, ger Llanymddyfri, Deheudir Cymru. Yr oedd ei dduwioldeb yn amlwg, ei onestrwydd a'i gydwybodolrwydd yn dyfod i'r golwg yn mhob amgylchiad. Nodweddion ei bregethau oeddynt y sylweddol a'r cymmhwysiadol. Ystyrid ef yn un o'r pregethwyr mwyaf syml a dirodres. Dywedai y diweddar Barch. John Owen, Ty'n-llwyn, wedi iddo ddychwelyd o America, mai y tebycaf i'r Parch. William Roberts, Amlwch, a welodd efe erioed ydoedd, o ran dawn, dylanwad, ac awdurdod. Bu farw Medi 10fed, 1876, yn 74ain mlwydd oed, wedi pregethu yn agos i hanner can mlynedd.

Hugh Charles, Tŷ mawr, a aned Hydref 4ydd, 1806. Mab ydoedd i'r Parch. John Charles, Gwalchmai. Cafodd ei ddwyn i fyny yn eglwys Dduw gan ei rïeni, a derbyniwyd ef yn gyflawn aelod pan yn 17eg mlwydd oed. Cafodd addysg lled dda, ac ystyried yr oes hono: gallai ddeall awduron Seisnig. Dechreuodd bregethu pan oedd tua 23ain mlwydd oed. Priododd yn y fl. 1836, âg un o'r enw Ellen Thomas, Carwad, ger llaw Beaumaris; ac aeth i gadw siop yn agos i gapel Tŷ mawr. Yr oedd yn bregethwr cymmeradwy; ond nid oedd mor boblogaidd a'i ddau frawd—sef, William a David Charles. Cofus genym y byddai yn bloeddio cyn diwedd y bregeth. Y mae un peth anesboniadwy i ni yn ei hanes; sef, fod pregeth ar *Rhuf.* viii. 32, yn *Y Pregethwr,* âg enw Hugh Charles wrthi fel ei hawdwr; ac y mae yr un bregeth yn *Seren Gomer,* âg enw Joseph Harris, gweinidog galluog gyda'r Bedyddwyr, wrthi, fel ei hawdwr. Nis gall yr un

bregeth fod yn eiddo gwirioneddol i'r ddau. Nis gallwn gredu am funyd i Harris roddi pregeth Hugh Charles yn y *Seren* fel ei eiddo ei hun; ac y mae yn anhawdd iawn credu fod H. Charles mor annoeth a chymmeryd pregeth Harris o'r *Seren*, a'i hanfon i'r *Pregethwr* fel yr eiddo ei hun. Y peth tebycaf ydyw, nad yw yn eiddo yr un o'r ddau; ond ei bod yn eiddo i ryw Sais, a bod y ddau wedi ei chyfieithu; ac o herwydd hyny, ymddygasant tuag ati fel yr eiddynt. Nid ydyw fod Joseph Harris yn ddyn galluog yn gwneyd y dybiaeth yn ammhossibl; o blegid gallem brofi fod rhai a ystyrid mor alluog ag yntau yn euog o hyn. Os cymmerodd Hugh Charles hi o'r *Seren Gomer*, a'i hanfon hi i'r *Pregethwr* fel yr eiddo ei hun, wfft, meddwn, i'w annoethineb! Pa fodd bynag y rhoddir cyfrif am y digwyddiad uchod, yr oedd H. Charles yn bregethwr doniol; ac yn meddu gallu i gyfansoddi pregethau cymmeradwy. Pregethodd y Sabbath olaf yn Waen fawr. Tua dwy awr cyn iddo farw, pregethodd, yn ei wely, yn felus ac effeithiol, am o ddeutu ugain munyd, ar y geiriau hyny, 'Etto, mi a gefais drugaredd.' Bu farw Rhagfyr 1af, 1839, yn 33ain mlwydd oed, wedi pregethu am o ddeutu deng mlynedd.

Y Parch. David Davies, Caergybi, a ddaeth at grefydd yn Mhentraeth. Cyllidydd ydoedd wrth ei alwedigaeth; o ganlyniad, bu yn preswylio mewn amryw leoedd. Yn Llanerchymedd y dewiswyd ef yn flaenor; ac yno y dechreuodd bregethu, yn y trydydd cyfnod. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1851. Bu yn preswylio yn Mangor, Aber, Bont newydd, a Bethel, ger Tremadog. Yr oedd yn ŵr da a duwiol—yn anwyl fel dyn a Christion. Fel pregethwr, nid oedd efe yn rhagori mewn meddylgarwch na hyawdledd. Cofus genym ei glywed yn pregethu ar y geiriau hyny, 'Onid hwn yw Mab y saer?' Ei faterion oeddynt, 'Iesu. Grist yn Fab saer y greadigaeth, Mab saer rhagluniaeth, a mab saer iachawdwriaeth.' Yr oedd ei ysbryd da yn peri i amryw gael blâs ar y materion. hyn. Bu farw tua'r fl. 1872, neu 1873.

Dr. William Roberts, Caergybi (Utica, America, wedi hyny), a anwyd yn Llanerchymedd, ar y 25ain o Fedi, 1809. Anfonwyd ef i'r ysgol at y Parch. John Pritchard,

periglor Llanerchymedd. Wedi hyny, bu yn ysgolion Evan Thomas, Cornelius Pritchard, a Mesech Forsyth. Pan oedd yn 15eg oed, aeth i'r Ysgol Rammadegol yn Nghaergybi, o dan arolygiaeth y Parch. William Griffith —gweinidog parchus gyda'r Annibynwyr. Dechreuodd bregethu yn Nghaergybi, yn y fl. 1830, pan oedd yn 20ain mlwydd oed. Yn y fl. 1831, aeth i Athrofa Bresbyteraidd Ormod Oway, Dublin. Pan oedd yn Nublin, dechreuodd achos Cymraeg i'r morwyr a ddeuent yno. Wedi dychwelyd i Fôn, cyflogwyd ef gan Dr. Roberts, Mynydd-y-gôf, yn athraw i'w blant. Bu yno am dair blynedd a hanner, yn dysgu plant y Dr., ynghyd âg ychydig eraill yn y gymmydogaeth. Yn y fl. 1835, priododd Miss Mary Evans, o Bron-y-berllan, Abergele—chwaer i'r diweddar Barch. Emrys Evans, Cotton Hall, Dinbych. Cynnyrch y briodas hon yw John E. Roberts, *Providence R. J.*, America. Yn y fl. 1836, bu farw ei briod. Yn y flwyddyn hon, efe a ddechreuodd ysgol yn Nghaergybi. Bu amryw bregethwyr gydag ef yn yr ysgol hon:—yn eu plith yr oedd y Parchn. W. Charles, Gwalchmai; John Pritchard, Amlwch; David Roberts, Gwalchmai; Hugh Jones, Liverpool; William Jones, Dwyran; Robert Jones, ac Evan Thomas, Caergybi. Yn y fl. 1843, ymbriododd yr ail waith â Miss Kate Parry, Yr Allt Goch, Llanfaethlu. Yn mhlith cynnyrchion y briodas hon y mae y Parch. W. H. Roberts, D. D., proffeswr yn Lane Seminary, Cincinnati, Ohio. Yn y fl. 1849, symmudodd i Runcorn, i fugeilio eglwys Saesneg St. John. Yn y fl. 1855, ymfudodd i America, i fugeilio eglwys Fethodistaidd New York. Yno adeiladodd gapel newydd hardd. Yn y fl. 1865, anrhegwyd ef â'r urddeitl o D. D., gan Brif Athrofa New York. Yn y fl. 1869, symmudodd i Belle Vue, Scranton, Pa., i fugeilio yr eglwys Fethodistaidd, ac adeiladodd gapel hardd yno hefyd. Yn y fl. 1877, symmudodd i Utica, i gymmeryd gofal yr eglwys Fethodistaidd yno; ac adeiladwyd capel newydd yno hefyd yn ei amser ef. Bu yn olygydd ar *Y Cyfaill* am un mlynedd ar bymtheg. Yr oedd Dr. Roberts, pan yn Môn, yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn yr ynys; ac felly hefyd yn America. Yr

oedd yn bregethwr destlus, cryno, a chlir; ïe, yr oedd yn bregethwr bywiog, gwresog, a hyawdl. Cafodd rai pregethau nerthol a grymus dros ben yn Nghymru, ac yn America. Fel dyn, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf caredig a fagodd Ynys Môn, Mam Cymru! O, fy mrawd! fy athraw! a'm cyfaill! y mae fy nghalon yn llawn gofid, a'm llygaid yn llawn dagrau, wrth ysgrifenu y nodiadau hyn. Cu iawn fuost genym; rhyfeddol oedd dy gariad tithau tuag atom ninnau; ond y mae yn rhaid i ni ysgrifenu, 'Ac efe a fu farw Hydref 2il, 1887, yn 78ain mlwydd oed, ac a gladdwyd Hydref 6ed, yn mynwent Cypress Hill, Long Island.

Y Parch. Rees Jones, Browyr, sir Forganwg, oedd fab i John Thomas, blaenor cyntaf Llanfwrog, ac yn frawd i Thomas Jones, Amlwch. Cafodd alwad i weinidogaethu yn un o gapelau yr Anrhydeddus Arglwyddes Barham, yn agos i Abertawe. Ymddengys mai y Parch. J. Elias a'i cyflwynodd i sylw yr eglwys hon. Yr oedd yn bregethwr poblogaidd—llawer mwy felly na'i frawd, Thomas Jones. Byddai yn cael ei boeni, weithiau, gan y pruddglwyf. Efe a wnaeth gryn gynnhwrf unwaith yn nghymmydogaeth Amlwch, trwy bregethu ar fedydd. Rhyfedd fel y mae sylw ar yr ordinhâd hon mewn pregeth yn achosi cynnhwrf mewn cymmydogaethau. Y mae yn llawn bryd i ni gyttuno â'n gilydd i oddef ein gilydd i wahaniaethu tipyn yn ein syniadau. Y tro diweddaf y pregethodd Rees Jones, gwnaeth hyny oddi ar ei eistedd, o herwydd ei wendid corphorol. Ei destyn oedd *Rhuf.* v. 1. Dywedir ei fod ef a'r gynnulleidfa yn foddfa o ddagrau. Wedi hyny, gweinyddai yr ordinhâd o Swper yr Arglwydd; ond nis gallai ddywedyd yr un gair. Bu farw Chwefror 18fed, 1829.

William Charles, Gwalchmai. Ganwyd ef Hydref 1af, yn y fl. 1817, yn y Tŷ newydd, Gwalchmai. Ei rïeni oeddynt John a Grace Charles. Dangosodd William Charles duedd foreu i bregethu. Byddai ganddo leoedd ac amseroedd pennodedig i bregethu. Y gwrandawyr, yn y cyffredin, fyddai yr anifeiliaid. Byddai yn casglu y gwyddau i un o'r tai allan, ac yn pregethu iddynt. Pan gyfodai ei lais, effeithiai hyny ar y gwrandawyr nes peri

iddynt glegru; a byddai eu clegar yn achosi iddo yntau i fyned i fwy o hwyl. Gan y byddai pregethwyr yr oes hono yn gwisgo botasau, byddai yntau yn rhoddi rhai am ei draed, nes y byddai bron i gyd o'r golwg ynddynt. Cofier mai plentyneiddrwydd y plentyn oedd hyn. Gwnaeth ei dad bob ymdrech i'w attal yn y chwareuon hyn. Pan oedd yn 13eg mlwydd oed, daeth i bryder ynghylch ei gyflwr, a rhoes y chwareu pregethu heibio. Daeth yn fachgen crefyddol iawn:—derbyniwyd ef yn gyflawn aelod yn 14eg oed, a gweddïai yn gyhoeddus yn 15eg oed. Dechreuai yr odfeuon, a byddai mwy o sôn am y weddi nag am y bregeth. Cafodd glefyd trwm, a bu yn wael am rai misoedd; ac ni chyrhaeddodd ei nerth blaenorol byth. Aeth i'r ysgol at y Parch. W. Roberts, Bodedern—ond yr hwn a adnabyddir yn bresennol wrth yr enw y Parch. William Roberts, D.D., America. Bu tua blwyddyn yn Modedern, a bu tua blwyddyn a chwarter gyda Roberts yn Nghaergybi; ac yno y dechreuodd bregethu. Pregethai cyn i'w achos ddyfod ger bron y Cyfarfod Misol, pan oedd tua 17eg oed. Dechreuodd yn rheolaidd cyn bod yn 19eg oed. Aeth i Athrofa y Bala pan yn 20ain oed. Priododd Miss Eleanor Edwards, Bodwrog, pan yn 24ain oed. Bu ganddynt dri o blant, ond nid oes ond un yn fyw; sef, y Parch. William Charles, Denver, Col., America. Fel dyn, yr oedd yn hynaws, fel ei dad. Fel Cristion, dysgybl cariad ydoedd—y dysgybl a garai yr Iesu, ac a garai holl ddysgyblion Methodistaidd yn Môn. Fel pregethwr, y mwyaf poblogaidd yn Môn yn ei ddydd. Byddai y capeli hanner gweigion gyda'r rhan fwyaf o lawer o bregethwyr Môn yn orlawn gyda William Charles. Yr oedd yn bregethwr tlws—ei bregeth yn llawn o flodau wedi eu casglu o baradwys Duw; sef, y Beibl. Yr oedd yn bregethwr effeithiol, a llwyddiannus—a bu yn offeryn i ddwyn llawer at grefydd. Gwelid y cynnulleidfaoedd yn fynych yn wylo yn hidl, a llawer yn tori allan mewn cân a moliant pan y byddai yn pregethu. Nid yn aml y pregethai am y tair blynedd olaf; ond pan y gwnai, byddai yn nerthol iawn, er ei holl wendid. Bu farw Ionawr 13eg, 1849, yn 31ain oed, heb ei ordeinio. Wfft i Fethodistiaid ei oes!

PENNOD XI.

PRIF FLAENORIAID Y TRYDYDD CYFNOD.

Hugh Jones, yr Hafod, oedd ddyn hynod yn ei ddydd. Trwy weinidogaeth Robert Jones, Rhoslan, y daeth i feddwl o ddifrif am grefydd, ac efe yn bedair blwydd ar ddeg oed. Galwyd ef yn flaenor pan oedd yn 21ain mlwydd oed. Yr oedd, fel Ioan gynt, yn ddysgybl cariad—ei hoff waith oedd cynnal y gweiniaid à photelau, a'u cysuro âg afalau. Trefnai ei dŷ, fel y Sunamees, yn gyfleus i'r prophwyd i droi i mewn a gorphwys, fel y gwnaeth ei dad, John Rowland, yn Ngheryg llithir. Yr oedd tawelwch ei natur a llarieidd-dra ei ysbryd yn ei wneyd fel Moses yn ngolwg ei gyfoedion. Pan oedd tua 80ain mlwydd oed, aeth trwy y sir i gadw cyfarfodydd eglwysig, ac i gasglu at gael capel bychan i gadw Ysgol Sabbothol, ac i bregethu yr efengyl ynddo, mewn ardal oedd yn cwynfan—'Cyfyng yw y lle hwn, dod i mi le fel y preswyliwyf.' Y capel ydoedd yr hwn a elwir Gad, yn ardal Bodffordd. Yr oedd yn un hynod yn y cyfarfodydd eglwysig—yn feddiannol ar ddawn arbenig i'w gwneyd yn adeiladol. Wedi iddo gael yr eglwys i hwyl nefolaidd, diweddai fel Paul, gan ddywedyd—'Hefyd am y casgl;' a gwelid y cyfoethogion, a'r weddw dlawd, yn bwrw i'r drysorfa. Ac ar ddiwrnod yr agoriad, nid oedd dim dyled ar yr addoldy. Goddefodd gystudd yn dawel am chwe mis; ond gorweddai, i olwg ei gyfeillion, 'mewn porfeydd gwelltog, ger llaw y dyfroedd tawel.' Bu farw Awst 16eg, 1843, yn 83ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llangwyllog gyda'i deulu.

Rees Lloyd, Treflasg, ydoedd fab i David ac Elizabeth Lloyd. Ganed David Lloyd yn Chwaen hen. Bu ei fam yn briod âg Evan Griffith—un o bregethwyr cyntaf y Methodistiaid yn Môn. Ganed Rees Lloyd yn Ty'n-y-merddyn, plwyf Bodedern, yn y fl. 1775. Mab iddo ef ydyw Thomas Lloyd, Llywenan. Yr oedd efe o deulu crefyddol. Pan yr oedd o ddeutu 29ain mlwydd oed,

teimlodd yn ddwys o dan weinidogaeth y Parch. Michael Roberts. Ymunodd â'r eglwys Fethodistaidd yn Nghaergeiliog yn mhen rhyw dri mis wedi gwrandaw y bregeth grybwylledig. Y blaenor ar y pryd oedd Robert Lewis; ond yr oedd y pryd hwn ar ei glaf wely. Pan adroddid iddo fod Rees Lloyd wedi ymuno â'r eglwys bach yn Nghaergeiliog, dywedodd—'Yr wyf yn foddlawn i farw bellach.' Dyma ŵr a wir ofala am achos Duw. Yn mhen ychydig amser, dewiswyd Rees Lloyd yn flaenor. Yr oedd efe, fel dyn, yn feddiannol ar alluoedd meddyliol cryfion, yn ŵr o farn bwyllog, ac yn mesur a phwyso cyn gwneyd ei farn i fyny. Gelwid ef yn fynych yn ganolwr rhwng pleidiau. Aeth gŵr tlawd ato i ofyn iddo werthu ychydig o haidd iddo. Attebai yntau—'Nid oes genyf ond digon i hau y maes, ac i ddiwallu y teulu hyd y cynhauaf. Paham nad ewch at hwn a hwn? y mae ganddo ef gyflawnder.' 'Wel, oes' (ebai y tlawd), eithr rhaid cael arian i fyned ato ef, ac nid oes genyf finnau mo honynt.' 'O!' meddai yntau, 'os felly y mae, chwi a gewch yr hyn sydd arnoch eisieu, a thalu pan fyddo gyfleus.' Dyma ŵr trugarog wrth y tlawd. Dywedai y Parch. William Roberts, Amlwch, am dano—'Fel henuriad eglwysig, ei ddoethineb, ei ffyddlondeb, a'i arafwch, oedd amlwg i bawb a'i hadwaenent.' Bu farw Medi 2il, 1844, yn 64ain mlwydd oed.

Robert Jones, Wrach ddu, ydoedd fab i Owen Jones, Cwyrt. Ganwyd ef yn Lleyn, yn y fl. 1777. Credai y Parch. John Elias ei fod yn ddyn duwiol cyn iddo ymuno â'r eglwys. A dyma yw y drefn ddwyfol—'rhoddi ein hunain yn gyntaf i'r Arglwydd, ac yna i'w bobl.' Pan oedd yn 27ain mlwydd oed, priododd â Jane Hughes, Plas bach, ac aethant i fyw i Wrach ddu, yn agos i Brynsiencyn. Bu yn oruchwyliwr ar ystâd Coed Helen am ddeugain mlynedd. Yr oedd yn ŵr rhydd, siriol, a chymdeithasgar. Pan oedd ei fawrhydi brenhinol, Sior iv., yn Môn, yn Awst, 1821, pennododd y Cyfarfod Misol ef i barotoi cyfarchiad oddi wrth Fethodistiaid Môn at ei fawrhydi; yr hwn a ddarllenwyd, ac a gyflwynwyd i'w sylw yn Mhlas newydd, gan y diweddar Barchn. Richard Lloyd, a John Prytherch, ac yntau. Dewiswyd ef a

William Williams, Trefriw, yn flaenoriaid yn Brynsiencyn. Dywedai y Parch. W. Roberts, Amlwch—'Pa faint bynag o weithredoedd da a'i canlynasant ef i'w orphwysfa draw, erys llawer o honynt yn ngolwg pawb yn Brynsiencyn.' Efe yn benaf, yn ei amser, oedd yn gofalu am arch Duw yn yr ardal. Yr oedd ef, a'i briod, yn hynod am eu llettygarwch i bregethwyr. Byddai yn gynnrychiolydd i'r Cymdeithasfaoedd mor aml a neb, os nad yn amlach. Bu farw Tachwedd 9fed, 1849, yn 72ain mlwydd oed.

John Owen, Fferam isaf, Bethlehem, oedd fab i Owen Lewis, o'r un lle, ac yn flaenor yn yr un eglwys. Ganwyd ef yn y fl. 1777. Nid ydym yn gwybod y flwyddyn y galwyd ef yn flaenor. Dyn duwiol iawn oedd y gŵr hwn. Dywedai ambell un am dano ei fod ef mor dduwiol a'i dad: ac nid adnabyddid dyn yn y gymmydogaeth duwiolach nag Owen Lewis, Fferam isaf; ond credai rhai fod John Owen, Fferam isaf, mor dduwiol ag oedd Owen Lewis, Fferam isaf. Yr oedd y ddau yn wŷr o ddylanwad yn y Cyfarfod Misol. Yr oedd John Owen, pan y daethom ni i'r Cyfarfod Misol, yn un o'r rhai 'cyfrifol.' Dyn pwyllog ac arafaidd—yn meddiannu ei enaid bob amser mewn amynedd, oedd efe. Yr oedd ei bresennoldeb yn ofn i weithredoedd drwg. Ni feiddiai un bachgen arfer un llŵ yn ei glyw, na chanu dim gwageddol, os byddai efe yn agos. Yr oedd yn hynod o haelionus i'r tlawd. Tad oedd i'r anghenog, a'r cŵyn ni wyddai a chwiliai allan. Yr oedd crefydd deuluaidd yn uchel iawn yn Fferam isaf. Dydd y farn yn unig a ddengys nifer y bechgyn a'r genethod a deimlodd argraphiadau crefyddol gyntaf ar eu meddyliau pan yn gwasanaethu yn Fferam isaf. Clywsom un o'r dynion duwiolaf a welsom yn dywedyd mewn cyfarfod eglwysig mai yno y dechreuodd y gwaith da ar ei feddwl. Efe a'i dad a ddechreuodd yr Ysgol Sabbothol yn Bethlehem. Yr oedd yn ffyddlawn i ddilyn y Cyfarfodydd Misol. Anfynych y byddai heb fod ynddynt. Efe oedd trysorydd y casgliad bach am flynyddoedd; ac yr oedd y swydd hon yn cael ei hystyried yn un anrhydeddus. Y mae yn debyg i'n hanwyl frawd o'r Ucheldref-goed gael yr anrhydedd am ei fod yn fab-yn-nghyfraith iddo; ac nid ydym yn adnabod

neb yn y Cyfarfod Misol cymmhwysach nag ef i'r swydd. Byddai yn cael ei anfon i'r eglwysi cylchynol i gynnorthwyo i ddewis blaenoriaid, ac i godi pregethwyr. A gorchwyl mawr diweddaf ei fywyd oedd trafferthu i gael capel newydd; sef, y capel presennol. Bu Fferam isaf yn gartref i bregethwyr am lawer o flynyddoedd. Yr oedd croesaw calon i weinidogion yr efengyl deimlo ei fod yn gartref iddynt. Yr oedd Mrs. Owen yn fam yn Israel, fel yr oedd John Owen yn dad, yn y blynyddoedd cyntaf o'n gweinidogaeth ni. Yr oedd y mab a'r merched yn deilwng o'u rhïeni. Y mae John Owen, y mab, wedi ei gasglu at ei dadau; ond y mae y tair merch yn fyw, ac yn glynu wrth Arglwydd Dduw eu tadau. Claddwyd ef Chwefror 1af, 1854, yn 77ain mlwydd oed.

William Jones, Carmel, a anwyd yn y fl. 1780. Mab i John ac Ellin Pritchard, Glasgrug isaf, Amlwch, ydoedd efe. Ei fam oedd y Methodist cyntaf yn Rhos-y-bol. Daeth William Jones yn Fethodist pan oedd yn bedair blwydd ar ddeg oed. Daeth i Lanerchymedd i gadw ysgol Gymraeg—un o ysgolion Charles—a phriododd ferch Hafod-y-myn. Dewiswyd ef yn flaenor yn Llanerchymedd yn y fl. 1813, a gwasanaethodd ei swydd yma am tua deng mlynedd ar hugain. Collodd ei wraig; a phriododd yn mhen amser weddw Evan Thomas, siopwr, o'r un lle. Symmudodd o Lanerchymedd i Garmel, a gwasanaethodd fel blaenor yno am tuag un mlynedd ar ddeg. Yr oedd yn dra adnabyddus fel arweinydd y canu yn nghymmanfaoedd Môn. Gwahoddwyd ef i Gymdeithasfa Caernarfon ddwywaith, ac i Fangor unwaith, i arwain y canu. Nid oedd efe yn deall canu yn gystal a llawer; ond yr oedd ganddo lais da, ac yn bur sicr o'r dôn. Bu farw Ionawr 11eg, 1857, yn 75ain mlwydd oed.

William Williams, Bethel, a anwyd yn y fl. 1783. Daeth at grefydd yn 1798, a dewiswyd ef yn flaenor gan eglwys Bethel, yn y fl. 1819. Disgrifiad y diweddar Barch. David Jones, Treborth, o'r blaenor hwn ydyw:—'Dangosodd yn amlwg yn ei fywyd am flynyddau lawer at ba wlad yn y byd arall yr oedd yn cyfeirio ei gerddediad. Yr oedd yn teithio yn wastadol â'i wyneb tua'r dwyrain, at godiad haul; o'r diwedd, cyrhaeddodd i

doriad boregwaith disglaer, heb gymmylau, heb ofni nos mwyach.' Darllenai ei Feibl gyda blâs. Dywedodd yn fynych wrth ei gau, wedi bod yn darllen, 'Y mae y Beibl yn felus.' Yr oedd wedi gwneyd achos yr Arglwydd yn achos iddo ei hun. O ganlyniad, yr oedd ei dŷ yn agored bob amser i weinidogion yr efengyl. Dywedai y byddai yn cael pob peth gan Dduw, a geisiai iddo ei hun mewn gweddi; ac nid ychydig a ofynai. Mab tangnefedd oedd yr hen frawd hwn. Gwasanaethodd fel blaenor yn Bethel am o ddeutu un mlynedd ar bymtheg ar hugain. Yr oedd yn meddu dylanwad anghyffredin yn yr eglwys, ond dylanwad tadol ydoedd. Yr oedd yn llawn o ysbryd mabwysiad—teimlad mabaidd. Ei eiriau olaf oeddynt, 'O fy Nhad anwyl! O fy Iesu anwyl!' Bu farw Medi 2il, yn y fl. 1855.

Richard Jones, Caergybi. Crybwyllasom am y blaenor hwn yn y nawfed bennod. Yr oedd yn gynlluniwr rhagorol: ond hwyrach fod rhai gwell i weithio y cynlluniau allan. Yr oedd yn un o'r blaenoriaid mwyaf gofalus am bobl ieuaingc yr eglwys. Nid ydym yn gwybod am gymmaint ag un o hen flaenoriaid y cyfnod hwn yn gyfartal âg ef mewn pryder a gofal am ieuengctyd yr eglwys. Yr oedd ar y blaen mewn cefnogaeth i bregethwyr ieuaingc. Clywsom ef yn dywedyd lawer gwaith, 'Os ydym am gael ychain, y mae yn rhaid i ni fagu lloi.' Y mae llawer am gael ychain, ond nid ydynt am fagu lloi. Ni chrëodd Duw ond un dyn erioed yn nghyflawnder ei faintioli. Babanod wedi eu magu yw y dynion mwyaf a welodd ein byd ni erioed; felly yr oedd yr henuriad hwn am gael dynion mawrion i'r pulpud trwy fagu babanod yn ddynion mawrion. Mab iddo ef ydoedd y gŵr a adnabyddir, yn y cyfnod dilynol, fel y Parch. Richard Jones, Caergybi. Bu farw yn y fl. 1847.

Owen Thomas, Gwalchmai, oedd fab i William Thomas, un o hen flaenoriaid Gwalchmai yn y cyfnod blaenorol. Ganwyd ef Hydref 17eg, 1784. Ymunodd â'r eglwys Fethodistaidd yn Ngwalchmai yn y fl. 1810; a dewiswyd ef yn flaenor yn y fl. 1817. Yr oedd yn ddyn cyflawn iawn. Dywedodd gŵr lled uchel yn y byd, pan y clywodd am ei farwolaeth, 'Nid oes saith gyda'u gilydd yn

Ngwalchmai a all lenwi ei le.' Yr oedd gan y byd, fel yr eglwys, feddwl mawr o hono. Yr oedd yn ŵr call a phwyllog, yn gystal ag yn grefyddol iawn. Yr oedd efe a'i wraig, Anne Thomas, yn llettygar dros ben—eu drws yn agored bob amser i dderbyn gweinidogion yr efengyl. Yr oedd yn flaenor goleu, a chadarn yn egwyddorion Cristionogaeth; ac yn gallu dywedyd ei feddwl yn eglur, cryno, a grymus, er nad oedd llawer o dân ynddo. Yr oedd yn wir ofalus am yr achos—am y plant a phobl ieuaingc yr eglwys. Ychydig cyn ei farwolaeth, anrhegodd yr ardal â thir i adeiladu ysgoldy i addysgu plant y gymmydogaeth. Bu y gŵr da a'r blaenor ffyddlawn hwn farw mewn tangnefedd, Chwefror 2il, 1857, yn 72ain oed, wedi gwasanaethu ei swydd fel henuriad am ddeugain mlynedd.

Richard Jones, Pen-y-garnedd, a anwyd yn y fl. 1767, a daeth yn Fethodist tua'r fl. 1789. Nis gallwn nodi y flwyddyn y dechreuodd flaenori. Yr oedd pregethu yn ei dŷ o'r fl. 1790 hyd 1795, ac efe oedd yn blaenori yn y blynyddoedd hyn. Yr oedd yn ŵr athrawaidd a di-dderbyn-wyneb; ac yn llettŷgar i bregethwyr am ddwy flynedd ar bymtheg a deugain. Collodd ei wraig, ac ail briododd âg Ellin Jones, Bryn mawr, rhyw bymtheng mlynedd cyn ei farwolaeth. Arferai am flynyddoedd fyned i Beaumaris i gynnorthwyo Methodistiaeth yno yn ei gwendid. Byddai yn pregethu weithiau, pan y torai pregethwr ei gyhoeddiad. Nid ystyrid ef yn bregethwr, ond blaenor yn pregethu. Credwn y gallai, ac y dylai rhai o'r blaenoriaid goreu arfer rhoddi cyfarchiadau yn absennoldeb gweinidog. Byddai y blaenor hwn yn arfer hyny, a byddai ei gyfarchiadau yn dderbyniol. Bu farw Chwefror 11eg, 1845.

Thomas Evans, Aberffraw, oedd ddyn nodedig o dduwiol, yn meddu gwybodaeth Ysgrythyrol helaeth, ac yn meddu profiadau cysurus o wirioneddau yr efengyl. Yr oedd efe yn dra defnyddiol yn y cyfarfodydd eglwysig, ac yn cael ei barchu gan ei gymmydogion o herwydd ei dduwioldeb. Bu farw Ebrill, 1834.

John Jones, Llangwyfan, oedd flaenor rhagorol yn eglwys Aberffraw. Daeth at grefydd pan oedd tua 18eg

mlwydd oed; ond bu allan o'r eglwys am ychydig o flynyddoedd. Daeth yn ol yn y fl. 1813. Dewiswyd ef yn flaenor yn 1817. Yr oedd yn wir grefyddol. Bu Robert Evans, Gwalchmai, yn ei wasanaeth am wyth mlynedd; a dywed ei fod yn fanwl gyda dyledswyddau dirgel, yn gystal a chyhoeddus, crefydd. Y lle cyntaf y byddai yn myned iddo, pan ddeuai allan yn y boreu o'r tŷ, fyddai llofft ystabl, a'i waith yno fyddai gweddïo. Byddai yn myned yno ddwywaith yn y dydd—boreu a phrydnawn. Byddai yn cadw y ddyledswydd deuluaidd yn gysson ddwy waith yn y dydd. Ar rai adegau o'r flwyddyn, byddai yn darllen gyda'r gweinidogion, ac yn eu holi. Pan y byddai gwŷr dyeithr yn dyfod trwy y wlad i bregethu, byddai ef a'i holl weinidogion yn myned i'r bregeth—ïe, ar ganol cynhauaf. Byddai yn ymddiddan am grefydd gyda'i weinidogion wrth fyned a dychwelyd o'r capel. Byddai yn cadw cyfarfod gweddi bob boreu dydd cyntaf o'r flwyddyn, i ddiolch i'r Arglwydd am ei drugareddau y flwyddyn fyddai wedi myned heibio, ac i ofyn ei fendith a'i nawdd drostynt fel teulu am y flwyddyn oedd yn dechreu. Yr oedd ei grefydd, y mae yn sicr, yn un o'r rhai disgleiriaf. Bu farw Mai 20fed, 1852.

Richard Davies, Llangefni—tad Richard Davies, Treborth, Arglwydd Raglaw sir Fôn—oedd flaenor hynod gyda'r Methodistiaid yn Llangefni. Gadawodd ei ôl ar Langefni am amser lled faith wedi ei farwolaeth. Byddai yn dysgu y gynnulleidfa i ddyfod i'r addoldy mewn dull gweddaidd—teilwng o dŷ Dduw. Dywedai wrthynt—'Ewch i'ch eisteddleoedd, fel y mae William Lloyd, y *saddler*, yn myned.' Gosodai W. Lloyd yn esampl iddynt oll. Byddai yn arferiad yn y cyfnod hwn mewn llawer o leoedd yn Môn, heb law Llangefni, gan wŷr ieuaingc aros gyda'u gilydd yn nghyntedd y capel, yn lle myned i mewn; ond parai ymddangosiad y boneddwr hwn iddynt fyned i mewn yn y fan. Byddai yn myned i dai y gweithwyr foreu Sabbath i'w cymmhell i ddyfod i'r Ysgol Sabbothol. Aeth un boreu Sabbath i dŷ gŵr o'r enw Edward Thomas. Yr oedd Ned, fel y gelwid ef, yn ei wely; ond yr oedd Mari, ei wraig, wedi codi. Gofynodd iddi—'Pa le y mae Ned?' Dywedodd ei fod yn ei wely. Yna

dywedodd yntau—'Ned, côd i ddyfod i'r ysgol; a gwna dithau frecwest iddo, Mari.' Dywedodd Ned o'i wely—'Mr. Davies, y mae fy het i yn rhy wael i mi ddyfod i'r ysgol heddyw.' Mewn attebiad, dywedodd yntau—'Mari, gâd i mi gael gweled ei het ef?' Yna, dangosodd Mari hi iddo. Yna dywedodd—'Ned, y mae dy het di yn eithaf. Brysia, côd!' Yna cododd Ned, a bwytaodd ei frecwest. A phan oedd Ned am roddi ei het am ei ben, rhoddodd y blaenor ei het ef ei hun i Ned, a rhoddodd ei het yntau am ei ben ei hun. Dyma ddau rinwedd yn dyfod i'r golwg yn hanes yr het—haelioni y boneddwr yn rhoddi ei het dda i Ned, a'i ostyngeiddrwydd yn myned i'r ysgol gyda'r het yr oedd ar Ned gywilydd myned gyda hi. Yr oedd efe yn ŵr didderbyn-wyneb. Mewn dysgyblaeth eglwysig, os na phlygai y troseddwr, dangosai y drws iddo yn y fan. Byddai cymmeryd enw yr Anfeidrol yn ofer mewn gweddi yn annioddefol iddo. Gofynai yn niwedd y cyfarfod i ambell un—'A wyddost ti pa sawl gwaith y cymmeraist di enw Duw yn ofer? Ti a'i cymmeraist ef o ddeutu ugain o weithiau yn ofer.' Ystyriai fod teirgwaith yn ddigon i ddyn mewn gweddi gymmeryd enw Duw—yn y dechreu, yn y canol, ac yn y diwedd. O! am fwy o swyddogion o'r fath yma—dynion a ddywedant y gwir wrth eu cyd-ddynion, heb ofni y canlyniadau! Bu y blaenor rhagorol hwn farw yn y fl. 1849.

Richard Jones, Llanfaethlu, a anwyd o ddeutu y fl. 1775. Daeth at grefydd yn lled foreu. Bu yn dilyn y cyfarfodydd eglwysig hynod hyny yn Chwaen wen. Dewiswyd ef yn flaenor tua'r fl. 1807, yn Nhy'n-y-maen, pan oedd tua 24ain mlwydd oed. Teimlai ddyddordeb mawr yn yr achos yn Llanfwrog. Gellir ei ystyried ef yn swyddog yno hefyd. Bu farw cyn gorpheniad capel Llanfaethlu. Yr oedd yr henuriad hwn yn ŵr duwiol a defnyddiol iawn. Cyfarfu âg aml a blin gystuddiau; ond yr oedd yn gallu distewi yn yr Arglwydd yn eu canol. Gallai ddywedyd yn ngeiriau y Salmydd, 'Yn amlder fy meddyliau o'm mewn dy ddyddanwch di a lawenychai fy enaid.' Dywedir ei fod o dymmher naturiol lled sydyn a gwyllt; ond gwnaeth gras ef fel Moses mewn amynedd,

ac fel Ioan mewn cariad. Yr oedd yn feddiannol ar synwyr cyffredin cryf, a chôf da. Dywedir fod ei ddull yn gwrandaw yr efengyl yn esampl i eraill. Bu farw cyn cyrhaedd oedran teg, yn y fl. 1839, yn 56ain oed. Pregethodd y diweddar Barch. William Roberts, Amlwch, bregeth angladdol iddo, oddi ar 1 *Thes.* iv. 13, 14. Galwyd dau o'i feibion yn flaenoriaid yn Llanfaethlu; sef, David a Robert, a galwyd ei fab Thomas yn flaenor yn eglwys Chatham, Liverpool. Y mae y ddau ddiweddaf wedi marw.

Edward Hughes, Elim, a gafodd y fraint o ymgyssylltu âg achos yr Arglwydd yn mhlith y Methodistiaid pan oedd o ddeutu 20ain mlwydd oed, yn ardal Cemlyn. Bu yn gwasanaethu gyda'r hybarch John Jones, Bodynolwyn. Symmudodd i gymmydogaeth Llanerchymedd, ac wedi hyny i Chwaen wen, o dan aden William Owen; yr hwn a ystyrid, y pryd hwnw, yn dywysog blaenoriaid Môn. Yr oedd E. Hughes yn flaenor yn Llanrhyddlad, cyn dyfod i Elim. Yr oedd yn ŵr doniol, ac yr oedd gan liaws farn uchel am ei grefydd. Gwir iddo dynu cwmmwl lled ddu uwch ei ben trwy ei ymdrafodaeth â'r byd; ond meddyliai ei gyfeillion agos am dano yn dra gwahanol i'r hyn y meddyliai cyfeillion Job am y gŵr o wlad Us yn nghanol ei brofedigaethau chwerwon. Yr oedd yn selog gyda'r cyfarfodydd ysgolion, cyfarfodydd misol, a'r cymdeithasfaoedd yn Môn. Yr oedd yn ddirwestwr selog iawn. Yr oedd ganddo fwy o allu i gadw cyfarfodydd eglwysig na'r cyffredin. Yr oedd yn byw, yn niwedd ei oes, yn nhŷ'r capel; a gwir ofalai, nid yn unig am y pregethwr, ond hefyd am ei anifail. Bu farw Awst 15fed, 1858; ac felly, cafodd fyw am o ddeutu un mlynedd a'r bymtheg o'r cyfnod dilynol.

Thomas Owen, Penhescyn, Gilead.—Fel y crybwyllasom yn un o'r pennodau blaenorol, argyhoeddwyd y gŵr hwn wrth wrandaw pregeth mewn lle o'r enw Felin engan, ger Gilead presennol. Ymunodd âg eglwys Pen-y-garnedd, ac yno y dewiswyd ef yn flaenor. Nis gallwn nodi y flwyddyn y galwyd ef; ond nis gallwn fod yn mhell o'n lle wrth nodi y fl. 1830. Wedi adeiladu Gilead, symmudodd o Ben-y-garnedd yno. Amaethwr parchus

oedd o ran ei alwedigaeth, ac yr oedd mewn amgylchiadau cysurus. Bu fyw a marw yn ddibrïod. Yr oedd yn barchus iawn yn eglwys Gilead. Bu Penhescyn yn gartref i bregethwyr Methodistaidd am flynyddoedd. Yr oedd yn ŵr o ddylanwad mawr yn y Cyfarfod Misol—yn cael ei fendithio yn fynych â swyddogaethau, megys cael ei anfon yn gynnrychiolwr i'r cymdeithasfaoedd, ac yn ymwelwr â'r eglwysi i'w cynnorthwyo i ddewis blaenoriaid. Ni bu digon o gymdeithas rhyngom âg ef fel y gallwn ddadansoddi ei gymmeriad. Bu farw yn fuan wedi i ni ddychwelyd yma o Fancot; ac nid ydym yn cofio, ar hyn o bryd, i ni fod yn ymddiddan yn ei gylch â rhai a gawsant well manteision i'w adnabod ef na nyni. Gwyddom ei fod yn cael ei ystyried yn ddyn da, yn flaenor parchus, ac felly yn teilyngu lle yn y bennod hon. Bu farw yn y fl. 1855.

William Roberts, Cae'r-gors, Pen-y-garnedd. Y mae yn ymddangos mai dyfod i Gae'r-gors i wasanaethu a wnaeth W. Roberts, a phriodi ei feistres. Nis gallwn nodi y flwyddyn y dewiswyd ef yn flaenor; ond yr oedd yn gweinyddu ei swydd yn y fl. 1820. 'Dyn bychan o gorpholaeth ydoedd; ond yn rhagori ar ei gydswyddogion mewn gwybodaeth a lledneisrwydd,' medd y Parch. Owen Jones, Llandudno. 'Byddai ganddo damaid newydd a blasus erbyn pob seiat,' medd Mrs. Williams, Tŷ calch. Yr oedd yn Gristion, ac yn un gloyw. Efe yw y gŵr a anturiodd agor drws eglwys Fethodistaidd Pen-y-garnedd i blant yr aelodau gael dyfod i mewn iddi. Yr oedd yno rai am gau y drws yn eu herbyn; ond mynai W. Roberts gael ei agor. Gwaharddai rhai i blant gael dyfod i mewn; ond dywedai W. Roberts, 'Na waharddwch iddynt; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd.' Efe oedd y dadleuydd yn yr eglwys o blaid pobl y gwlawleni—nad oeddynt wedi pechu wrth eu dal uwch eu penau ar ddiwrnod gwlawog [gwel 'Pen-y-garnedd' yn y trydydd cyfnod]. Yr oedd W. Roberts o flaen ei oes. Efe oedd holwr yr Ysgol Sabbothol. Pan yn holi y plant unwaith, gofynodd iddynt, 'Beth yw ffydd, fy mhlant i?' 'Credu,' meddai y plant. Yna gofynodd iddynt, 'Beth yw credu?' Ond nis gallai y plant atteb.

'Wel, tebyg i hyn, fy mhlant i,' meddai yntau. 'Meddyliwch fy mod i yn dywedyd wrthych fod pen y felin wynt wedi syrthio, a chwithau ddim yn gweled, ond yn fy nghoelio am fy mod i yn dywedyd. Peth fel yna ydyw credu.' Yn mhen rhyw ddau Sabbath yr oedd y Parch. John Prytherch yn holi yr un plant, a gofynodd yntau, 'Beth yw credu?' Y plant yn fud. 'Deudwch, hogiau. Y maent yn gwybod yn iawn,' meddai W. Roberts. 'Wel, fy mhlant bach anwyl i, beth yw credu? Beth yr wyt ti yn ei feddwl, Wil?' gofynai, gan nodi un o'r plant. 'Wel, dwn i ddim, os nad coelio W. Roberts, Cae'r-gors, pan y bydd efe yn dywedyd celwydd.' 'Beth yr wyt yn ei ddywedyd, Wil?' gofynai yr hen weinidog; a dyma'r plant yn atteb gyda'u gilydd, 'Coelio W. Roberts, Cae'r-gors, pan y bydd yn dywedyd celwydd.' Nis gallasai hyd yn oed apostol y plant yn Môn fyned yn mlaen yn mhellach. Y celwydd oedd dywedyd fod pen y felin wynt wedi syrthio. Bu W. Roberts farw yn y fl. 1855.

William Davies (Dafydd), Parc bach, Lleugwy, oedd fab i David a Mary Morris, Myfyrian isaf, Llanidan—rhai o'r llin cyntaf gyda'r Methodistiaid yn Môn. Argyhoeddwyd William Dafydd o dan weinidogaeth Dafydd Cadwaladr, pan oedd yn pregethu ar nos Sadwrn mewn tŷ yn Llanddaniel. Yr oedd tua 13eg oed ar y pryd. Yr oedd cyfarfod pregethu yn Llanfair P. G. ar ddydd Llun y Pasc, ac arosodd yntau yn y cyfarfod eglwysig. Galwyd ef yn flaenor pan oedd yn 23ain oed. Bu mewn gwahanol leoedd—Gaerwen, Llanrhyddlad, Cae'r-geiliog, a Chemmaes; ac yr oedd yn gweinyddu fel blaenor ynddynt oll. Dychwelodd yn ol i'r Gaerwen. Priododd, a sefydlodd yn Mrynsiencyn, a bu yno tua thair blynedd ar ddeg. Yna symmudodd i'r Parc bach, a bu yno am tua deng mlynedd ar hugain, ac yn flaenor yn Llanallgo. Yr oedd yn ŵr da, yn meddu chwaeth dda at y weinidogaeth. Gwyddai beth oedd pregeth dda. Ystyrid ef yn wrol, unplyg, a ffyddlawn. Bu farw Rhagfyr 29ain, 1848, yn 76ain mlwydd oed.

Griffith Parry, Caergybi, oedd frodor o Landegai, yn sir Gaernarfon. Ganwyd ef yn y fl. 1777. Daeth i Gaergybi tua'r fl. 1801. Ymunodd â'r Methodistiaid yn

fuan wedi iddo ddyfod yno. Dewiswyd ef yn flaenor o ddeutu y fl. 1815. Yr oedd y gŵr hwn yn hynod mewn duwioldeb; ac yn dra ffyddlawn a chydwybodol yn holl waith ei swydd—mewn cynghori, hyfforddi, a cheryddu. Yr oedd yn fedrus i gadw cyfarfod eglwysig—yn alluog i gael gan yr aelodau i adrodd eu profiadau. Nid pob dyn mawr sydd yn meddu y gallu hwn. Gellir edrych arni yn ddawn ar ei phen ei hun; ond yr oedd y ddawn gan y blaenor hwn. Llawer gwaith y gwelwyd ef, pan y digwyddai y cyfarfod eglwysig fod yn farwaidd, yn codi ar ei draed; ac mewn ychydig funydau, drwy ychydig eiriau, yn gwneyd yr holl eglwys yn ferw byw drwyddi—rhai yn wylo, a rhai yn chwerthin, a phawb wrth eu bodd. Yr oedd yn ddyn gonest a chydwybodol iawn. Yr oedd cŵynion mynych yn cael eu dwyn yn erbyn rhyw frawd; ond yr oedd yn ammhossibl cael neb i sefyll fel tyst i wirionedd y cŵynion, o blegid bygythiai gyfraith ar bwy bynag a wnai hyny. Pa fodd bynag, penderfynwyd dwyn ei achos ger bron yr eglwys. Y noswaith a ddaeth. Dechreuwyd ar y gwaith. Safai y cyhuddedig ar ei draed; ac edrychai i bob cyfeiriad, fel pe buasai yn hèrfeiddio pawb. Nid oedd neb yn meiddio dywedyd gair, ond pawb fel wedi eu taraw â mudandod. O'r diwedd, yn nghanol y distawrwydd, cyfododd Griffith Parry ar ei draed; a chan edrych yn myw llygaid y cyhuddedig, dywedai yn ddibetrus, 'Yn y fan a'r fan, y pryd a'r pryd, canfyddwyd dyn yn feddw, ac yn feddw iawn, *a ti yw y gŵr*. Nid wyf yn gofalu dim am ganlyniadau yr hyn wyf yn ei ddywedyd; gadawaf chwi a'ch bygythion yn llaw y Gŵr bïa'r gwaith.' Eisteddodd y dyn yn y fan, fel pe buasai wedi ei wànu â phicell. Poenid yr eglwys yn fawr gan ryw frawd, trwy weddïo yn hir, ac arfer gormod o hyfdra cnawdol pan yn cyfarch yr Anfeidrol. Ryw noswaith, bu yn fwy siaradus ar ei liniau nag arferol. Gydag iddo ddywedyd 'Amen,' cododd Griffith Parry i fyny, a rhoddodd yr hen bennill hwnw i'w ganu—

'O! Arglwydd, gosod rhag gair ffraeth,
Gadwraeth ar fy ngenau.'

Dyma flaenor mewn gwirionedd, ac nid mewn enw. Yr oedd yr holl dref yn meddwl yn fawr o'i grefydd ef.

Mewn cynnulliad lliosog o foneddigion, yn mhlith pethau eraill, daeth crefydd a chrefyddwyr yn destyn ymddiddan, pryd y dywedai gŵr parchus o Sais, *'If there is a godly man in Holyhead, Griffith Parry is one.'* Y mae amryw yn fyw yn cofio y blaenor hwn, ac yn gwybod mai gŵr fel hyn oedd efe; ond trwy anhwyldeb blin—iselder ysbryd—fe'i collwyd yn llwyr o'r holl gylchoedd crefyddol yr arferai droi ynddynt, flynyddoedd lawer cyn marw. Mab iddo ef yw y Parch. John Parry, Liverpool; ac ŵyr iddo ydyw G. P. Griffith, un o flaenoriaid presennol Hyfrydle, Caergybi. Bu farw yn y fl. 1859, yn 82ain mlwydd oed.

Owen Williams, Monachlog, oedd flaenor rhagorol yn Glasinfryn—wed'yn yn Ty'n-y-gongl. Nid dyn cyffredin, ac nid blaenor cyffredin oedd efe. Ystyrid ef yn ddyn cywir—dyn o ymddiried, ac o alluoedd a thalentau uwch law y cyffredin o flaenoriaid y cyfnod hwn. Yr oedd yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau, yn fawr mewn gweddi, ac yn alluog i gadw cyfarfod eglwysig. Byddai yn cael ei anfon i gynnrychioli y sir i'r cymdeithasfaoedd. Adroddir hanesyn tarawiadol am dano yn myned unwaith ar ddiwrnod pur wlawog, gyda chyfaill iddo, o Fôn i Sassiwn y Bala. O fewn tuag wyth milldir i'r dref, galwasant yn nrws amaethdy gwledig, a daeth y forwyn atynt; gofynasant am letty noswaith, gan eu bod yn lluddedig, yn wlybion, ac yn ofni colli y ffordd ar y mynydd. Aeth y forwyn at ei meistres; a daeth hithau i'r drws, a dywedodd nad oedd ganddynt le i lettya neb, gan ddywedyd wrth ei gŵr—'Nac oes, Siôn?' A daeth yntau atynt i gadarnhau tystiolaeth y wraig. Gofynasant yn dra gostyngedig a gawsent hwy ddyfod i fewn i lechu at y tân. Caniatawyd hyn iddynt. Tân eithin oedd ganddynt. Dywedai y dyeithriaid y byddai yn dda ganddynt gael aros wrth y tân trwy y nos i sychu eu dillad, os caniateid iddynt; addawyd hyn iddynt wedi peth petrusder. Ymddengys mai twymno potes i swper yr oedd y forwyn, a chafodd y ddau ŵr dyeithr gyfranogi o hono. Ar ol swper, gofynodd Owen Williams a gaent hwy ddarllen rhan o'r Beibl, a gorchymyn eu gilydd i ofal Duw. 'Nid oes yma Feibl yn y tŷ,' attebai y gŵr. 'Oes, Siôn,' ebe

y wraig; 'y mae ar ben yr hen gwpbwrdd mawr tridar (tridarn) yna ryw lyfr mawr gwerthfawr, wedi ei adael gan y dyn oedd yma o'n blaen ni: dywedai ei fod yn llyfr da, a'i fod yn ei adael i ni i gofio am dano. Fe allai y gŵyr y dynion yma, os Beibl ydyw—estyn ef, Siôn.' Ac erbyn ei gael i lawr, Beibl ydoedd. Darllenwyd rhan o hono, a gweddïwyd yn daer dros y teulu, a throstynt eu hunain. Yna galwodd y wraig ar Siôn o'r neilldu, a dywedodd—'Wyddost ti beth, Siôn, dynion garw ydyw y rhai hyn; rhaid i ni wneyd lle iddynt gysgu. Ddaliai i fotwm crwn fod y rhai hyn yn myned i'r Bala i'r cyfarfod pregethu. Y mae yr hen botes yma yn rhy hen i ddynion dyeithr fel hyn yn y boreu; rhaid i ni godi y forwyn yn foreu i ferwi potes ffres. Y mae arnaf flys myned i'r cyfarfod, Siôn. A ddeui dithau?' Cyttunodd i fyned gyda hi. Cafodd y ddau ŵr dyeithr y gwely goreu yn y tŷ, a photes ffres i'w boreufwyd. A bu y tŷ yn agored o hyny allan i deithwyr i Sassiwn y Bala tra y bu y gŵr a'r wraig fyw. Daeth y gŵr a'r wraig yn grefyddwyr yn bur fuan. Bu Owen Williams farw cyn adeiladu y Tabernacl.

Hugh Hughes, Tŷ newydd, Llangristiolus, oedd un o ragorolion Môn yn y trydydd cyfnod. Ymddengys mai yr hen flaenor, John Williams, Bryn glâs, a'i dewisodd ef yn flaenor—ac nid eglwys Llangristiolus. Yr oedd gan yr henuriad hwn allu i adnabod cymmeriadau. Meddyliai yn wael o ŵr lled fawr yn y byd oedd yn gyd-swyddog gydag ef; a phrofodd ymddygiad y diweddaf gywirdeb syniad y cyntaf am dano. Yr un modd, profodd bywyd Hugh Hughes nad oedd John Williams wedi meddwl yn rhy uchel o hono. Yr holl ffurf o ddewis a gymmerodd le oedd gwaith un yn gofyn i'r llall ddyfod gydag ef i Gyfarfod Misol Pant-y-coli. Nid ydym yn gwybod fod Hugh Hughes wedi bod o dan unrhyw arholiad yn y Cyfarfod Misol chwaith; ond cafodd y fraint o fod yn bresennol pan oedd David Jones (Brynsiencyn y pryd hwnw, a Dwyran wed'yn), yn cael ei holi a'i dderbyn yn bregethwr gan John Jones, Bodynolwyn; Evan Richardson, Caernarfon; a John Elias. Gwelwyd yn lled fuan fod Pen yr eglwys wedi dywedyd wrth John Williams—

'Neilldua i mi Hugh Hughes, Tŷ newydd; canys llanwodd y swydd cystal ag y llanwodd yr un blaenor yn Môn hi.' Dywedir ei fod yn ŵr mawr mewn gweddi—fod ganddo y peth a elwir gan ddynion yn ddawn gweddi; a mwy na hyny, fod ganddo ysbryd gweddi. Yr oedd yn orchfygwr gyda Duw a dynion mewn gweddi. Yr oedd hyn yn ei wneyd ef yn ŵr o ddylanwad yn yr eglwys. Hysbysa Mrs. Williams, Tŷ calch, ni yn y geiriau canlynol:—'Bu rai gweithiau gyda phregethwyr ar daith yn y Deheudir, yn amser yr hen drefn fendigedig—pregethu teithiol—a phob taith o dan wlith bendith y nefoedd.' Yr oedd y blaenor hwn yn alluog i gadw cyfarfodydd eglwysig, ac yn ddoniol iawn i osod achos gŵr tlawd o flaen y gynnulleidfa. Bu fyw mewn rhan o dri chyfnod—cyfnod John Jones, John Elias, a William Roberts.

Meibion iddo ef ydyw Samuel Hughes, Glan-yr-afon, a William Hughes, Tŷ newydd—blaenoriaid Sardis, Iard Malldraeth. Bu farw yn y fl. 1855, yn 80ain mlwydd oed. Nis gwyddom y flwyddyn y bu John Williams farw.

Griffith Jones, Cefn-dwy-ffrwd, Parc, oedd flaenor rhagorol yn y cyfnod hwn, a rhan o'r un dilynol. Ymddengys fod a fyno ef â Methodistiaeth pan yr oedd yn bur ieuangc yn Nghaer-maes-gafr, tua'r fl. 1785. Yr oedd yr hen bregethwr, Hugh Griffith, Llanddaniel, yn daid iddo. Dewiswyd ef yn swyddog yn Mhen-graigwen, cyn diwedd yr ail gyfnod. Yr oedd efe yn un o'r blaenoriaid goreu a mwyaf defnyddiol a fu yn eglwys y Parc. Yr ydym yn ei gofio yn dda yn gwrandaw gyda sirioldeb y tro cyntaf yr oeddym yno yn pregethu; ac yr oedd yno rai wedi tori allan i foliannu cyn y diwedd, a'r hen flaenor yn ymddangos mor hapus a phe buasai yn y nefoedd, a'i gyd-swyddog, John Hughes—tad Thomas Hughes, Nebo, yn y pummed cyfnod—yn ymddangos mor hapus ag yntau. Yr oedd y diweddaf wedi dyfod i Nebo gyda cheffyl i'n cyfarfod pan oeddym yn ieuangc. Yr oedd y ddau yn hynod o dduwiol a defnyddiol. Bu Griffith Jones farw yn y fl. 1855, a J. Hughes yn 1849.

William Owen, Ysgubor-onwy, Llanrhwydrus, a anwyd yn y fl. 1773. Ymunodd â'r Methodistiaid yn 1801, yn Llanrhyddlad. Yr oedd efe yn ddyn o gyfansoddiad

corphol hardd, o alluoedd meddyliol cryfion, bywiog, a threiddgar. Yr oedd yn dra sychedig am wybodaeth. Byddai ef, a dau o'i gyfeillion, yn myned at eu gilydd, a byddai un yn darllen rhan o lyfr, a'r ddau eraill yn gwrandaw. Yna, byddent yn ymddiddan â'u gilydd yn nghylch yr hyn a ddarllenasid. Weithiau, byddent yn dadleu yn selog ar ryw fater y byddent yn methu cydweled â'u gilydd o berthynas iddo; ac os na allent, trwy ddadleu, ddyfod i gydweled â'u gilydd, byddent yn myned at y Parch. John Elias, i Lanfechell, i ofyn ei farn ef. Cadwent ysgol nos mewn ystafell berthynol i Neuadd Cemlŷn. Cefnogwyd hwy gan John Hughes, Neuadd, a Shadrach Williams, Fron ddu. Bu yr ysgol hon yn flodeuog am beth amser. Yr oedd W. Owen yn gefnogydd gwresog i'r Ysgol Sabbothol. Ystyrid ef yn ddarllenwr rhagorol, a dewiswyd ef yn ymwelydd â'r Ysgolion Sabbothol yn Môn. Yn y flwyddyn 1815, dewiswyd ef yn flaenor, ac ystyrid ef yn un rhagorol. Byddai yn lled bruddglwyfus weithiau yn y cyfarfodydd eglwysig, os na byddai yr hen flaenor, John Jones, yn bresennol. Yr oedd yn gefnogol iawn i gerddoriaeth y cyssegr, ac yn hynod o gymmeradwy yn y gymmydogaeth. Wrth ddychwelyd o Gyfarfod Misol Bodedern, cafodd anwyd trwm. Bu farw yn y fl. 1841, yn 64ain mlwydd oed, wedi gwasanaethu ei swydd fel blaenor am o ddeutu chwe blynedd ar hugain.

William Williams, Garnan goch, Gaerwen.—Yr oedd efe o gyfansoddiad cryf, ac yn chwareuwr mawr yn y campau oedd yn yr ynys ar y pryd. Bu yn rhwystr i'w wraig am beth amser yn ei gyrfa grefyddol. Ganwyd ef yn y fl. 1770. Pan oedd o ddeutu 25ain mlwydd oed, argyhoeddwyd ef, yn mron fel Saul o Tarsus; ac ymunodd â'r Methodistiaid yn Llanddaniel. O herwydd ei Fethodistiaeth, bygythiwyd ei droi ef o'i dyddyn—a chyflawnwyd y bygythiad. Aeth at y goruchwyliwr i eiriol am gael aros yn ei dyddyn, a chadwodd ef allan yn y rhew a'r eira bron am ddiwrnod cyn rhoddi atteb iddo; ond ymadael a fu raid iddo. Gofalodd Duw yn ei ragluniaeth ddoeth a da am dano er hyny, a chafodd y Garnan goch. Galwyd ef yn flaenor tua'r fl. 1800, pan oedd o ddeutu

deg ar hugain oed. Yr oedd yn gymmeradwy iawn fel blaenor. Bu gyda phregethwyr ar daith trwy ranau o'r Gogledd a'r Deheudir. Efe fyddai yn dechreu canu yn y Gaerwen am flynyddoedd; a dyma'r gŵr y crybwyllasom am dano yn dechreu canu y testyn. Awst 24ain, 1836, bu farw, yn 66ain mlwydd oed, wedi gwasanaethu yn ei swydd am o ddeutu un mlynedd ar bymtheg ar hugain. Bu Elizabeth, ei wraig, farw Mawrth 6ed, 1838, yn 66ain mlwydd oed.

William Hughes, Llandrygarn, a anwyd yn y fl. 1806, mewn ffermdy o'r enw Cromlech, yn mhlwyf Llanfechell. Ei dad oedd William Hughes, Pen'rorsedd, Llandrygarn, a'i fam oedd Eleanor Owen, Erw fawr, Llan-yn-nghenedl. Symmudodd ei rïeni o Gromlech i Blas Llandrygarn, i'w hetifeddiaeth eu hunain. Nid oedd William Hughes yn flaenor, nac yn bregethwr; a bron na thybiem fod rhai o'n darllenwyr yn gofyn paham y mae efe yn cael lle yn y bennod hon? Am mai efe oedd y mwyaf poblogaidd yn yr ynys yn y cyfnod hwn fel cerddor. Nid ydym yn dywedyd mai efe oedd y cerddor goreu yn Môn ar y pryd; ond yr ydym yn dywedyd yn hyf mai efe oedd y cerddor mwyaf poblogaidd a gododd yn mysg Methodistiaid Môn, er dechreuad Methodistiaeth hyd yr amser yr ydym yn ysgrifenu. Carai cantorion y cyfnod presennol —sef y pummed—gael gwybod ychydig o hanes y dyn anwyl hwn. Wedi gorphen ei addysgiad, prentisiwyd ef yn fasnachwr gyda'r boneddwr, Richard Davies, Llangefni; ennillodd iddo ei hun gymmeriad uchel yn ngolwg ei feistr, a safle anrhydeddus yn ei wasanaeth. Anfonwyd ef i Draeth coch i edrych ar ol eiddo ei feistr, ac oddi yno i Borthaethwy. Un diwrnod, fel yr oedd efe yn edrych ar ol y dynion a gludai goed o long, safai ar fin y môr, llithrodd ei droed, a syrthiodd i'r môr. Digwyddodd fod ei feistr ger llaw, yn canfod ei gwymp a'i drochfa, a gwaeddodd, 'Wel, William, onid wyt ti yn un trwstan?' Y dydd canlynol, safai ei feistr yn yr un man, a digwyddodd yr un anffawd iddo yntau; a dywedodd William Hughes, 'Wel, meistr, onid ydych yn un trwstan?' Ond William Hughes fel cerddor sydd genym. Nid ydym yn gwybod iddo fôd o dan ddysgyblaeth neb.

Na: y mae yn ymddangos iddo astudio elfenau cerddoriaeth heb gymmhorth athraw, oddi eithr yr ychydig wersi a gafodd efe, ac eraill yn y gymmydogaeth, gan ŵr o'r enw Hugh Hughes, y Clymwr. Yr oedd wedi ei eni yn gerddor—yn meddu cymmhwysderau cerddorol yn ei natur, mwy na'r cyffredin. Yr oedd yn un o'r lleiswyr goreu a glywsom erioed yn canu. Yn y fl. 1834, sefydlodd gymdeithas ganu yn y sir, a ffurfiodd iddi reolau; a phwy bynag a'u troseddent a ddïarddelid; ond derbynid ef yn ol ar ei edifeirwch. Rhoddodd, yn yr adeg hon, o ddeutu dwy flynedd o'i amser yn rhad at wasanaeth y Methodistiaid—trafaeliodd ar hyd a lled yr ynys i sefydlu cymdeithasau cerddorol, a bu yn llwyddiannus i sefydlu un yn mhob capel Methodistaidd trwy yr ynys. Byddai rhai yn dyfod gydag ef i'r gwahanol gapelau i ganu y tro cyntaf, a byddai y capelau yn orlawn o wrandawyr. Cedwid math o gymmanfa ganu ar y gŵyliau Nadolig, Pasc, a'r Sulgwyn, ac un yn Hydref, er mwyn rhoddi cyfleusdra i gantorion y gwahanol gapelau i gydganu. Yr oedd William Hughes yn arweinydd dirodres, ac yn anwyl gan ei ddysgyblion. Byddai y canu ar noswaith sefydliad y gymdeithas mor nerthol fel y byddai yn lladd pob gwrthwynebiad a rhagfarn yn yr hen bobl yn ei erbyn. Yr oedd efe mor boblogaidd fel y mynai y cantorion wneyd tysteb iddo; ac os bu dyn erioed yn deilwng o dysteb, dyma'r gŵr yr oedd ei lafur yn haeddu hyny. Ond gwrthododd, o blegid dewisai roddi ei amser a'i lafur yn rhad. Cyfansoddodd rai tônau, a chyfieithodd ddarnau cerddorol o'r Saesneg i'r Gymraeg, megys '*Dying Christian*' a'r '*Dead March*,' &c. Ei ragoriaeth fel canwr oedd ei lais. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf peraidd ac ystwyth ei lais a glywsom erioed. Pan y byddai yn canu yr *alto*, byddai ei lais swynol a threiddgar yn cyrhaedd pob calon, ac yn gwefreiddio yr holl gynnulleidfa. Byddai yn arfer talu ymweliadau â'r cymdeithasau, mewn trefn i'w calonogi yn y gwaith. Symmudodd oddi wrth Richard Davies at weddw oedd yn cadw siop yn Mhont-y-tŵr, yn agos i Bethesda, Arfon. Bu yno am o ddeutu dwy flynedd—o 1839 i 1841. Oddi yno symmudodd i gadw masnachdy ei hun, yn ei hen

ardal, lle y bu am o ddeutu blwyddyn a hanner; a symmudodd drachefn i Fodedern. Tra yr oedd yn y lle diweddaf, teithiai ar hyd a lled yr ynys gyda'r un gwaith; ac ar ei daith i gapel Siloh, yn agos i Amlwch, cafodd wlaw trwm, a gwlychodd, fel y gafaelodd anwyd drwg yn ei gyfansoddiad. Bu yn wael am o ddeutu pythefnos neu dair wythnos; a dechreuodd droi at wellhau, er mawr lawenydd i'w gyfeillion, yn y gobaith y caent glywed ei lais soniarus yn eu plith fel arferol. Ond ymddengys fod y nefoedd wedi syrthio mewn cariad âg ef, a'i bod mewn brys am gael ei glywed yn seinio yr anthem bêr, 'Iddo ef, yr hwn a'n carodd, ac a'n golchodd oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun,' mewn awyrgylch bur a nefolaidd. Aeth yn wael drachefn, a bu yn gorwedd am o ddeutu pythefnos; a hunodd yn yr Iesu, Hydref 6ed, 1843, yn 37ain mlwydd oed. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono y dydd Mawrth canlynol, yn mynwent eglwys Llandrygarn. Cafodd un o'r angladdau mwyaf a welwyd yn Môn; ac yr oedd y dagrau gloewon oedd yn rhedeg dros ruddiau y dyrfa fawr yn dywedyd mai un o anwyliaid Methodistiaid Môn oedd yn cael ei hebrwng i dŷ ei hir gartref. Heddwch i'w lwch, hyd ganiad yr udgorn diweddaf!

PENNOD XII.

METHODISTIAETH YN YMGADARNHAU YN MON. Y PEDWERYDD CYFNOD.

Edrychwn ar y cyfnod hwn yn dechreu yn marwolaeth y Parch. John Elias; yr hyn a gymmerodd le yn y fl. 1841. Fel yr oedd Evan Griffith, Chwaen hen, yn brif ddyn y cyfnod cyntaf; John Jones, Bodynolwyn wen, yn brif ddyn yr ail gyfnod; a John Elias yn brif ddyn y trydydd cyfnod; felly yr oedd y Parch. William Roberts, Amlwch, yn brif ddyn y cyfnod hwn; sef, y pedwerydd. Yr oedd

William Roberts yn cydweithio â John Elias drwy y cyfnod blaenorol; ond Elias oedd y cadfridog, a Roberts yn îs-gadben. Ond pan y bu farw y blaenaf, daeth yr olaf yn naturiol yn gadfridog, a chafodd fyw am dair blynedd ar hugain ar ol ei flaenorydd. Bu y Parch. Cadwaladr Williams fyw am bedair blynedd ar bymtheg o'r cyfnod hwn, y Parch. John Prytherch am dair blynedd ar hugain, y Parch. David Jones am ddeuddeng mlynedd, y Parch. John Charles am bedair blynedd ar ddeg, y Parch. Griffith Davies am bymtheng mlynedd, a Thomas Jones am chwe blynedd. Yr oedd amryw weinidogion eraill wedi bod yn pregethu am lawer o flynyddoedd yn y cyfnod blaenorol; ond yn hwn y daethant i'w llawn maint a nerth fel pregethwyr; megys, y Parchn. Hugh Hughes, Beaumaris; Hugh Jones, Llanerchymedd; Hugh Jones, Caergybi; Ebenezer Davies, Llanerchymedd; Robert Hughes, Gaerwen; a William Williams, Tŷ calch.

Temtir ni i geisio rhoddi disgrifiad o Gyfarfod Misol Môn, pan y gwelsom ef yn nechreuad y cyfnod hwn:—Dyma ddyn wedi ei gynnyg, ei eilio, a'i gymmeradwyo gan y cyfarfod trwy godi llaw, yn ol arferiad y cyfnod hwn, i eistedd yn y gadair lywyddol. Dyma yntau, yn lled anfoddog yr olwg arno, yn codi, ac yn eistedd yn y gadair, fel dyn heb falio dim am yr anrhydedd. Y mae yn ŵr lled dal, teneu, gyda gwynebpryd lled dywyll, llygaid llymion a threiddgar, talcen uchel, ac aeliau trymion. Efe, yn ddïau, yw y meddyliwr dyfnaf a mwyaf gwreiddiol, a'r duwinydd penaf yn yr holl gynnulliad. Y mae yn uwch o'i ysgwyddau i fyny na neb sydd yn bresennol. Dyna fe, yn codi i fyny, i ddechreu ar ei waith. Y mae yn siarad fel un âg awdurdod ganddo: ac wedi rhoddi pethau mewn hwyl, y mae yn eistedd yn y gadair, â'i lygaid yn gauad, weithiau, fel pe na byddai yn gofalu pa beth a wneir, na pha beth a ddywedir. Ië, ymddengys fel pe byddai yn cysgu; ond er hyny, fel y dywed Dr. Hughes, Liverpool, 'Nid oes dim yn dïangc rhagddo.' Y mae yn gweled ac yn clywed y cwbl—ond yr hyn ni fŷn. Y gwirionedd yw, y mae y gŵr hwn, yn Nghyfarfod Misol Môn, yn debycach i'r prif weinidog yn Nhŷ y Cyffredin nag i gadeirydd. A thybiem mai nid

cadeirydd a ddylasai fod. Dyna fe ar ei draed drachefn, yn rhoddi rhyw gynnygiad i fyny i'r cyfarfod. Dyma olwg urddasol a thywysogaidd: yr ydym yn caru edrych arni, ac yn teimlo yn falch o'r dyn, o blegid tad tywysogaidd ydyw efe yn ein golwg. Nid yw yn ymwybodol o'i ymddangosiad urddasol. Pwy na charai y dyn hwn? Ni welodd Cyfarfod Misol Môn, nac un Cyfarfod Misol arall, ddyn yn meddu golwg mwy parchedig. Tybiem fod ein darllenwyr yn gofyn, Pwy oedd efe? Er mwyn yr oes bresennol, yr ydym yn atteb, Dyma'r Parch. William Roberts, Amlwch; esgob Methodistaidd Môn yn y cyfnod sydd dan sylw.

Y nesaf at y cadeirydd mewn swydd ydoedd yr ysgrifenydd. Dyma ddyn bychan, o brydwedd tywyll, gyda dau lygad cyflym-dreiddiol, yn gweled ac yn clywed yr hyn na fynai y cadeirydd ei weled a'i glywed. Yr oedd yn rhaid gwylio hwn; o blegid gallai dywallt ffrydlif o goeg-wawdiaeth ar ben dyn, ac hefyd dywallt potelaid o olew ar friw. Yr oedd ei lais yn naturiol uchel, fel y dywed ei fywgraphydd—'Gallai hanner byddariaid ei glywed.' Yr oedd yr ysgrifenydd hwn yn rhan fawr o fywyd y Cyfarfod Misol. Nid ydym, drwy hyn, yn awgrymu na wyddai pa bryd i siarad, na pha bryd i dewi. Gwyddai yn dda; o blegid yr oedd yn gall fel y sarph, ac yn fedrus i lenwi ei swydd. Os byddai ar y cadeirydd eisieu rhyw gymmhorth ganddo, efe a'i caffai; o blegid yr oedd yn ei hanner addoli. Pwy oedd hwn? Nis gallai hwn fod yn neb ond yr hynod Barch. Ebenezer Davies, Llanerchymedd. Y nesaf mewn dylanwad i'r cadeirydd yn y Cyfarfod Misol ydoedd y gŵr sydd yn siarad yn awr —gŵr o gorpholaeth cryf a phybyr, dyn siriol, a gwên ar ei wyneb braidd bob amser, yn ymddangos fel pe byddai yn siarad trwy ei ffroenau, yn gystal a thrwy ei enau, yn hollol un-donog o'r dechreu i'r diwedd. I dori ar unffurfiaeth ei oslef, ymollyngai weithiau i arfer ychydig o ddigrifwch. Ni edrychai y gŵr hwn byth ond ar yr ochr oleu i'r golofn. Tuedd y cadeirydd ydoedd edrych ar yr ochr dywyll; ond tuedd y gŵr hwn oedd edrych ar yr ochr oleu bob amser. Yr oedd efe yn llygad i'r Cyfarfod Misol i edrych ar y dymunol. Nid dyn cyffredin oedd

hwn. Gwyddai yr Ysgrythyr Lân er yn fachgen; ac adnodau y Beibl ganddo wrth law at bob pwngc. Yr oedd fel Mynegair Ysgrythyrol. Y mae arnom ofn fod ychydig o eiddigedd dibechod ynddo at y cadeirydd o herwydd ei ddylanwad mawr. Ond cofier eu bod yn gyfeillion, ac wedi eu hordeinio gyda'u gilydd. Y gŵr hwn oedd y Parch. Cadwaladr Williams. Dyna ŵr arall yn codi i siarad—gŵr tal, harddwych, bywiog, llawn yni, ei frwdfrydedd a'i sêl yn ei ysu. Yr oedd y gŵr hwn a'r Parch. Cadwaladr Williams, fel Jonathan a Dafydd, mewn anwyldeb at eu gilydd. Llanwai y gŵr hwn le pwysig yn y Cyfarfod Misol. Efe oedd yn gofalu am oed y lleuad, mewn trefn i benu y cyfarfodydd misol i fod ar ddyddiau y ceid goleuni y lloer i arwain y cynnrychiolwyr yn ddiogel i'w llettyau. Yr oedd y gŵr hwn yn barchus iawn yn y Cyfarfod Misol, a'i enw ydoedd y Parch. John Prytherch. Dyma ddyn tal, esgyrniog, lled afrosgo ei symmudiadau, â golwg lled anfoddog arno, yn codi i fyny i gyfarch y cyfarfod. Y gŵr hwn oedd amddiffynydd y ffydd. Yr oedd yn dwyn mawr sêl dros iachusrwydd yr athrawiaeth, fel pe buasai bywyd ac iechyd yr athrawiaeth yn ymddibynu arno ef yn unig. Gwelai y peryglon o bell; a bron na thybiem ei fod yn eu gweled pan nad oeddynt, ond yn ei ofnau ef. Cofier nad oedd dyn yn perthyn i Gyfarfod Misol Môn mwy cywir a chydwybodol na'r gweinidog hwn. Adnabyddid ef fel y Parch. David Elias. Wele un arall ar ei draed, ac yn dechreu siarad yn lled annyben, yn dechreu pigo i fyny y gwallau, yn lled bigog ei eiriau, crâs ei lais, a golwg lled ddiserch arno ar y cyfan. Ond dyn o'r iawn ryw ydoedd efe, er hyny. Nid ceiliog gwynt, yn troi gyda phob awel ydoedd hwn; ond hen dderwen gadarn. Ei enw ydoedd y Parch. David Jones, Dwyran. Gyda hyn, dyma Ioan, y dysgybl anwyl, yn codi, yn llawn tynerwch a chariad. Os oedd dadl yn flaenorol, ni chyffyrddai â hi mwy na phe buasai hi yn wahanglwyfus. Yr oedd diniweidrwydd yn disgleirio yn ei wynebpryd, ei ymddangosiad yn ennillgar dros ben, ei lais yn beraidd ac yn hyfryd, a'i ysbryd yn hwyliog. Pwy oedd hwn̄? Pwy hefyd? ond yr anwyl John Charles, Gwalchmai. Dyma ŵr arall yn ymddangos

ar hyd y cyfarfod yn lled aflonydd, ac yn symmud o'r naill le i'r llall, yn cerdded yn ol ac yn mlaen, â'i ddwylaw ar ei gefn, a'i ffon yn ei ddwylaw. O'r diwedd, galwodd y cadeirydd ar y gŵr hwn i ymddiddan â swyddogion newyddion. Yna gofynodd yntau i un o honynt—'Pa lyfrau fyddwch chwi yn arfer eu darllen?' Yr attebiad oedd—'Nid oes genyf lawer o lyfrau i'w darllen.' Yna gofynodd iddo—'A ydyw gwaith Jonathan Edwards ar *Hanes y Prynedigaeth* genych?' Yr atteb ydoedd—'Nac ydyw.' Gofynodd drachefn—'A ydyw Y *Serchiadau Crefyddol* genych?' 'Nac ydyw.' Y gofyniad diweddaf ydoedd—'A ydyw *Esboniad Scott ar y Prophwydi* genych?' Yr attebiad i hwn etto ydoedd—'Nac ydyw.' Cofier mai llyfrau cyfieithiedig ganddo ef oedd y rhai hyn. Yna tröai at y cyfarfod, a gofynai—'Pa reswm yw gosod dyn fel hyn yn fugail ar eglwys?' Y mae brodyr ieuaingc yr oes hon yn barod i ofyn—Pwy oedd hwn? Dyma Thomas Jones, Amlwch—y gŵr oedd hanner càn mlynedd o flaen ei oes mewn rhai pethau. Yr oedd yma hen frodyr anwyl eraill—megys, Thomas Owen, Llangefni; Griffith Davies, Nebo; a John Jones, Bethania. Yr oedd yma ddynion ieuangach—dynion a ddaethant yn brif ddynion y Cyfarfod Misol; megys, y Parchn. Hugh Hughes, Beaumaris, a Robert Hughes, Gaerwen. Yr oedd yma nifer mawr o bregethwyr, heb eu hordeinio, a ddylasent fod wedi eu hordeinio er's blynyddoedd—megys, Hugh Jones a William Roberts, Caergybi; William Williams, Ty'n-y-maen (o'r Tŷ calch wedi hyny); William Charles, Gwalchmai; Richard Roberts, Llanerchymedd; David Davies, Caergybi; a John Charles, Tabernacl. Yr oedd yma ddau ŵr ieuangc—Ebenezer Evans, Bodedern, a William O. Williams, Tŷ mawr. Yr oedd hefyd dri brawd newydd ddyfod o siroedd eraill; sef, John Roberts, Llanerchymedd; Griffith Williams, Cemmaes; a'r Parch. John Phillips, Tabernacl; yr hwn oedd yn ŵr anwyl a dylanwadol yn y Cyfarfod Misol. Yr oedd yma flaenoriaid o radd uchel yn y cyfnod hwn—megys, David Roberts, Mynydd-y-gôf; John Williams, Fron goch; John Owen, Fferam isaf; Owen Thomas, Gwalchmai; Hugh Hughes, Tŷ newydd, Llangristiolus;

Thomas Owen, Penhescyn; William Roberts, Tai hen; John Pritchard, Ty'n-yr-onen; William Jones, Carmel; Griffith Roberts, Cefn du; Robert Jones, Amlwch; John Elias, Tre'r-gôf; William Williams, Bethel; Hugh Hughes, Ceinwen House, Llangaffo; Roger Evans, Porthaethwy; a llawer eraill. Fel yr oedd y cyfnod yn dyfod yn mlaen, daeth i'r Cyfarfod Misol flaenoriaid ieuangach ac addawol —megys, Samuel Dew, Llangefni; a Richard Davies, Arglwydd Raglaw sir Fôn yn bresennol.

Yn lled fuan yn y cyfnod hwn, gwnaeth y Parchn. David Roberts, Llangristiolus (Gwalchmai yn bresennol); Owen Williams, Llanddaniel (Llanrhyddlad wedi hyny); Daniel Rowlands, M.A., Llangefni (Bangor yn bresennol); a John Hughes, D.D., Llanerchymedd (Liverpool yn bresennol), eu hymddangosiad yn y Cyfarfod Misol. Anfynych iawn yr oeddym ni yn cael y fraint o gael bod yn bresennol yn Nghyfarfodydd Misol Môn am y chwe blynedd cyntaf o'n gweinidogaeth; o blegid yr oeddym yn byw yn Mancott, ger Penelaeg, sir Fflint; ond yn aelod o Gyfarfod Misol Môn, ac yn cael ein cynnaliaeth ganddo, ac nid gan y Gymdeithas Genhadol Gartrefol. Yn lled fuan yn y cyfnod hwn, daeth y Parch. James Donne i fyw i Langefni; a dychwelasom ninnau o Fancott i Amlwch yn y fl. 1852, ac felly i well mantais i ddilyn y cyfarfodydd misol.

Yn bresennol, cychwynwn i'n taith ymweliadol â'r eglwysi a gynnrychiolir yn y Cyfarfod Misol y ceisiasom ei ddisgrifio. Gan mai yn Amlwch yr oedd esgob Methodistiaid Môn yn y cyfnod hwn yn byw, ni a awn yno yn gyntaf, mewn trefn i gael golwg ar Fethodistiaeth yn ymgadarnhau. Yma yr oedd y Parch. William Roberts, un o brif bregethwyr Cymru, yn pregethu un Sabbath yn mhob mis, ac yn bugeilio yr eglwys, er na alwasid ef yn fugail:—ac yr oedd yn gwneyd y gwaith crybwylledig yn rhad ac am ddim. Yr oedd Thomas Jones yn gynnorthwywr iddo, a'r ddau yn caru eu gilydd yn yr Arglwydd. Enwau y blaenoriaid yn nechreu y cyfnod hwn oeddynt Robert Jones, masnachydd glô; John Williams, y Gaerwen; John Parry, yn agos i Parys Farm—gŵr oedd wedi dysgu allan holl erthyglau y *Cyffes Ffydd;* a

William Hughes, gŵr a ddaeth o Gemmaes. Yn y fl. 1846, dechreuasom ninnau bregethu, a symmudasom yn yr un flwyddyn i Fancott. Wedi marw Thomas Jones, ac erbyn i ni ddychwelyd yn ol, yr oedd y Parch. Ellis Foulkes yma yn byw; ond nid arosodd yn hir. Wedi ymadawiad y Parch. Ellis Foulkes, daeth yma y Parch. David Hughes, Llangamarch—gŵr a fagesid yn y lle; ond a ddechreuodd bregethu yn y Deheudir. Yn y fl. 1849, dewisodd yr eglwys Rice Williams yn flaenor—gŵr anwyl iawn; y mwyaf athrawaidd o'r holl flaenoriaid, a'r hwn oedd wedi astudio *'Catecism Brown,'* a *'Phedwar Cyflwr Dyn,'* o waith Boston, yn lled drwyadl. Ni chafodd fyw i wasanaethu ei swydd ond rhyw bedair blynedd. Bu farw yn y fl. 1853. Yn y fl. 1853, dewiswyd Richard Hughes, *founder*, yn flaenor. Yr oedd yn ŵr caredig iawn wrth dlodion yr eglwys; ond ni chafodd yntau wasanaethu yr eglwys ond tua chwe blynedd. Bu farw yn y fl. 1859; ac yr oedd ei farwolaeth yn golled fawr i'r eglwys. Yn 1855, dewiswyd Hugh Hughes, llyfrwerthydd; ac y mae efe yn aros hyd heddyw. Yn y fl. 1860, dewiswyd Owen Owens, Melin Adda, ac Elias Jones, U.H., Gwredog. Yr oedd y cyntaf a'i wraig yn garedig iawn i'r achos; ond ymddyrysodd gyda negeseuon y bywyd hwn. Aeth i Galiffornia; a dewiswyd ef yno yn swyddog eglwysig gan yr Henaduriaethwyr Seisnig. Y mae yntau wedi marw. Ond am y diweddaf, y mae yn aros hyd heddyw; ac yr ydym yn barod i ddywedyd wrtho—'O! frawd, bydd fyw byth!'

Yn agos i ddiwedd y cyfnod hwn y dechreuodd y Parch. John Williams bregethu. Cafwyd adfywiad crefyddol cryf yn y lle hwn yn niwedd y fl. 1859, a dechreu 1860, pryd y chwanegwyd at rifedi yr eglwys o ddeutu 120. Yn y fl. 1848, bu farw Thomas Jones. Ac yn y fl. 1864, bu farw y Parch. William Roberts. Bu Mrs. Roberts farw ychydig fisoedd o'i flaen ef. Yr oedd Mrs. Roberts yn fammaeth i Fethodistiaeth yn Amlwch; a gwasanaethodd lawer ar bregethwyr y Methodistiaid pan y byddent yma. Gwnaeth ei rhan i gynnorthwyo ei phriod trwy ei galonogi i fyned i'w gyhoeddiadau pan y byddai efe yn teimlo tuedd i lwfrhau. Caredig iawn i Fethodistiaeth

ydoedd William Hughes, fferyllydd, a Miss M. Hughes, ei chwaer; a rhagorai hi mewn meddylgarwch ar yr oll o'i rhyw yn yr eglwys hon ar y pryd. Yr oedd yma hen gymmeriad hynod, o'r enw Morris Edward—gwas i'r Parch. W. Roberts. Yr oedd efe yn hynod am waeddi yn y pregethau; a chredai Thomas Jones y byddai rhyw ysbryd heb fod yn un da yn ei gynnhyrfu. Ond credwn ni, er hyny, mai dyn duwiol ydoedd.

Burwen.—Nid oedd yma eglwys gorphoredig yn y cyfnod hwn. Yn yr ardal hon y trigai Thomas Jones, y pregethwr; ond aelodau o eglwys Amlwch ydoedd holl Fethodistiaid y gymmydogaeth. Yn y fl. 1860, daeth gŵr o'r enw Evan Evans yma o Aberffraw; a chydnabyddwyd ef yn swyddog yn eglwys Amlwch nes y corphorwyd eglwys yn y Burwen. Richard a Grace Owen, Llechog, a ddangosasant fwyaf o garedigrwydd yma i bregethwyr yn y blynyddoedd hyn. Y mae merch, ac ŵyrion, ac ŵyresau iddynt, yn glynu wrth Fethodistiaeth hyd ddiwedd y pummed cyfnod. Pan gyssylltwyd Porth Amlwch â Seilo, ac â Nebo, yn daith Sabbath, daeth Burwen ac Amlwch yn daith:—cafwyd un bregeth y Sabbath yn y lle cyntaf, a dwy yn y lle diweddaf.

Peniel, Porth Amlwch.—Yn y cyfnod blaenorol, nid oedd yma eglwys gorphoredig—dim ond un bregeth, ac ysgol ar y Sabbath, a'r holl Fethodistiaid yn dyfod i'r Capel Mawr y nos. Erbyn hyn, yr oedd yma dri o wŷr ieuaingc gweithgar iawn, yn teimlo dyddordeb mawr yn yr achos, ac yn penderfynu gwneuthur eu goreu i gael eglwys gorphoredig ar wahân oddi wrth eglwys y Capel Mawr. Y gwŷr ieuaingc oeddynt Owen Owens, *agent;* William Williams, Madyn; a John Jones, Pont-rhydtalog. Yr oedd yr hen frodyr yn y Capel Mawr, ac yn y Borth, ar y dechreu, yn bur wrthwynebol; ond trwy eu diwydrwydd a'u doethineb, ennillasant yr hen frodyr yn y ddau le i fod yn foddlawn i sefydlu achos ar wahân oddi wrth yr hen achos yn y pen arall i'r dref. Pan sefydlwyd eglwys yma, sef yn y fl. 1850, dewiswyd dau o'r tri brawd ieuaingc crybwylledig yn flaenoriaid; sef, Owen Owens a William Williams. Cyn hir, ymunodd Porth Amlwch â'r Gors-lwyd, yn daith Sabbothol, er mwyn

iddynt gael dwy bregeth bob yn ail Sabbath. Yn rhan o'r cyfnod hwn, yr oedd y Parch. Hugh Jones, ieuangc, o Lanerchymedd (Liverpool yn bresennol), yn pregethu yma bob Sabbath cyntaf yn y mis am beth amser; ac y mae anwyldeb mawr yn parhau rhwng yr eglwys a'r gweinidog hwn hyd y dydd heddyw. Yn y fl. 1861, adeiladasant gapel newydd, gwerth 900*p.*; ac yn y fl. 1862, dewiswyd gŵr o'r enw Thomas Hughes yn flaenor. Yr oedd yma chwiorydd hynod o dduwiol a charedig i'r achos: yn enwedig Mrs. Rowlands, *machine;* Mrs. Catherine Morgans, Miss Jones, a Miss Elizabeth Thomas. Yr oedd Miss Jones yn un o'r rhai duwiolaf yn yr oes hono. Dyma ydoedd barn yr holl gymmydogaeth am dani. Ychydig cyn diwedd y cyfnod, daeth Edward Jones, pregethwr cynnorthwyol gyda'r Annibynwyr, at y Methodistiaid yn y lle hwn. Cafodd ei alw yn flaenor cyn pen hir. Dyn tawel, call, a chrefyddol oedd efe. Yn y cyfnod nesaf cawn ef yn dechreu pregethu.

Bethesda, Cemmaes.—Yn nechreu y cyfnod hwn, y swyddogion oeddynt Richard Pryce, Cafnan; William Hughes; William Roberts, Tai hen; a David Griffith, yr hwn a ddiswyddwyd yn y fl. 1851. Yr oedd yma hen Gristion hynod heb fod yn swyddog, o'r enw David Hughes (tad David Hughes, u. h., Wylfa). Gwnaeth ei oreu yn erbyn 'priodasau gwâdd.' Yn y fl. 1856, dewiswyd Owen Pryce, Cafnan, yn henuriad. Ychydig o droion y gwelsom ef yn y Cyfarfod Misol; ond yr oedd yn ddyn gwir alluog. Bu teulu Cafnan yn llettygar iawn i bregethwyr y cyfnod hwn. Yr oedd Mrs. Pryce yn hynod o haelionus i'r tlodion, ac i bawb, yn mhell ac yn agos, fyddent mewn profedigaethau a chaledi. Yr un modd yr oedd rhïeni Owen Pryce o'i flaen. Yn y fl. 1857, dewiswyd William Owen, masnachwr, yn flaenor. Bu farw Richard Pryce yn y fl. 1862, a William Pritchard yn 1863. Bu yma henuriad da arall, o'r enw Owen Jones, yr Ycroes. O sir Gaernarfon y daeth efe yma; a symmudodd yn ei ol i Arfon, yn y fl. 1864. Yn y fl. 1864, dewiswyd John Owen—mab i William Owen—yn flaenor; ac yn yr un flwyddyn, rhoddodd John Elias, Tre'r-gôf, y capel bychan sydd yn y Penrhyn, a'r tir ar

ba un y mae Capel Bethesda wedi ei adeiladu, yn rhoddion i'r cyfundeb. Y mae Morïah yn parhau yn gangen o Bethesda.

Llanfechell.—Yn y cyfnod blaenorol, gadawsom yr achos mewn ysgoldy bychan, digon di-addurn. Yn y fl. 1850, tynwyd ef i lawr, a chyfodwyd un destlusach a helaethach yn ei le; a galwyd ef Libanus. Yr oedd yma eglwys reolaidd erbyn hyn, a phregethu cysson bob Sabbath mewn cyssylltiad â'r Hafod lâs (Mynydd Mechell), ac â Bethlehem, fel taith Sabbath. Bu y diweddar Barch. Griffith Williams, Llanfachreth, yn byw yma am beth amser. Yn y fl. 1854, dechreuodd y Parch. John Roberts, Tai hen, bregethu. Pan sefydlwyd eglwys yn y lle, yr oedd yn naturiol i John Elias ymaelodi yma, lle y preswyliai. Efe oedd y blaenor cyntaf, ac yr oedd yn ŵr o ddylanwad mawr yn y gymmydogaeth. Daw ef o dan sylw etto. Yn y fl. 1851, dewiswyd Edward Jones yn flaenor. Ysgrifenodd John Elias gofiant iddo yn y *Drysorfa,* o dan y penawd, 'Y Blaenor Gwledig.' Er mai gŵr tlawd oedd efe, o ran amgylchiadau bydol, ymddengys fod ei gymmeriad Cristionogol yn ei wneyd yn dywysog mewn dylanwad yn yr ardal. Yn y fl. 1854, dewiswyd John Williams, gwehydd, yn swyddog; ond bu ef farw y flwyddyn ganlynol. Yn y fl. 1863, dewiswyd Hugh Jones, saer, a Robert Williams, yn flaenoriaid. Symmudodd y cyntaf i Lanerchymedd; ac yno y ceir ef yn y cyfnod nesaf yn swyddog cymmeradwy. Cafodd yr eglwys hon, yn y fl. 1859 a'r fl. 1860, ei bedyddio yn lled helaeth â'r ysbryd diwygiadol oedd yn yr ynys. Cafodd ei siomi yn ei disgwyliad wrth y Parch. David Morgan, Ysbytty. Mewn canlyniad, cyfarfu un-ar-ddeg o wŷr ieuaingc, a dau frawd mewn oed, i gadw cyfarfod gweddi. Bedyddiwyd hwynt yn y cyfarfod â thân: torasant allan mewn mawl a gorfoledd, yn gystal ag mewn gweddi. Aeth yr hanes trwy y pentref; daeth y trigolion i'r capel, a bu yno le rhyfedd am oriau. Cafodd y saint eu hadeiladu, a chwanegwyd llawer at yr eglwys. Bu Edward Jones farw yn y fl. 1862.

Jerusalem, Mynydd Mechell.—Llwyddodd Methodistiaeth yma yn y cyfnod hwn. Yn y fl. 1851, galwyd

Robert Williams, Tan-y-graig, yn flaenor—dyn da a ffyddlawn ydyw, ac un a werthfawrogir yn fawr gan yr eglwys fel dyn yn meddu gwybodaeth athrawiaethol a phrofiadol, a dawn neillduol i ddywedyd ei feddwl. Yn y fl. 1852, helaethwyd y capel am y drydedd waith, gan chwanegu tair llath at ei led, yr hyn a'i gwnaeth yn ddeuddeg llath wrth ddeg llath. Yn y fl. 1854, dewiswyd William Thomas, Uchel-dref-goed, a Robert Edwards, Twll-y-clawdd, yn flaenoriaid. Trodd y ddau frawd hyn allan yn ddynion defnyddiol iawn. Ennillodd y cyntaf le mawr yn y Cyfarfod Misol, fel ei dad-yn-nghyfraith, John Owen, Fferam isaf; ac nid yw wedi colli y lle hwnw hyd heddyw. Ceir y diweddaf yn pregethu yn y cyfnod nesaf. Nid oedd Methodistiaeth, yn niwedd y cyfnod hwn, ond tua naw-ar-hugain mlwydd oed yn yr ardal hon. Yr oedd Libanus, Jerusalem, a Bethlehem, mewn cyssylltiad â'u gilydd, yn daith Sabbath, y pryd hwn.

Llanrhyddlad.—Yma yr oedd John Jones, a John Hughes, a Richard Parry, yn swyddogion yn nechreu y cyfnod hwn. Ond bu John Jones farw yn y fl. 1846; a symmudodd Richard Parry i America, yn y fl. 1857. Yn y fl. 1845, dewiswyd John Wright yn flaenor, ond ymddiswyddodd; ac yn y fl. 1860, dewiswyd Thomas Davies, Cefn coch, a William Thomas, Tŷ-wïan, yn henuriaid. Symmudodd y diweddaf i Birmingham. Yn y cyfnod hwn, yr oedd dau ysgoldy mewn cyssylltiad â Llanrhyddlad yn daith Sabbothol; sef, Llanfair-yn-Nghornwy a Chemlyn. Yr oedd yn Llanrhyddlad eglwys lled gref, a chynnulleidfa fawr ar nos Sabbothau yn y cyfnod hwn, gan na chynnelid gwasanaeth ar nos Sabbothau mewn un o'r ddau le arall ond yn achlysurol. I'r eglwys hon y perthynai y ddiweddar Mrs. Hughes, Pen-yr-orsedd—un o'r gwragedd mwyaf meddylgar a deallus yn y sir, os nad yn Nghymru. Yr oedd wedi darllen a deall nid ychydig o'r awduron goreu yn yr iaith Saesneg. Gallai siarad yn fedrus am athroniaeth a duwinyddiaeth. Cofus genym ei chlywed hi a'r diweddar Dr. Parry, o'r Bala, yn ymddiddan â'u gilydd ar lan y môr ynghylch gofidiau y byd hwn. Dywedai Dr. Parry ei fod yn synu fod cymmaint o ofidiau wedi dyfod i fyd Duw mor dda.

Ymddangosai ar y pryd yn ei wendid a'i nychdod, fel pe yn methu cyssoni y gofidiau â daioni Duw. Mewn attebiad iddo, dywedodd Mrs. Hughes, 'Rhyfeddu y byddaf fi fod can lleied o ofidiau, a chymmaint o gysuron, mewn byd mor bechadurus.' Teimlodd Dr. Parry i'r byw oddi wrth ei dywediad, a chydnabyddodd mai hi oedd yn edrych ar y mater mewn gwir oleuni. Daeth Mrs. Hughes at grefydd pan oedd tua 29ain mlwydd oed, ac yn eglwys Bethesda, Cemmaes, yr ymunodd gyntaf; ond symmudodd oddi yno i Lanrhyddlad, o herwydd fod y ffordd ychydig yn fyrach.

Llanfair-yn-Nghornwy.—Nid oedd yma eglwys gorphoredig hyd ddiwedd y cyfnod hwn. Yr oedd yma bregethu bob Sabbath, ac Ysgol Sabbothol yn cael ei chynnal yn gysson; ond holl Fethodistiaid yr ardal yn aelodau eglwysig yn Llanrhyddlad. Tua'r fl. 1863, corphorwyd eglwys yma. Yr oedd un o flaenoriaid Llanrhyddlad, gŵr o'r enw Richard Williams, yn byw yn y Taldrwst, yn agos i'r capel hwn; ond symmudodd oddi yma i Gad, ac yno y bu efe farw. Yr oedd Llanrhyddlad, Llanfair-yn-Nghornwy, a Chemlyn, yn daith Sabbath.

Siloam, Cemlyn.—Nid oedd yma eglwys gorphoredig yn y cyfnod hwn, mwy nag oedd yn yr un blaenorol; ond holl Fethodistiaid yr ardal yn aelodau, naill ai yn Llanrhyddlad, neu yn Nghemmaes. Nid oedd yma ond ysgol a phregeth ar y Sabbath, a'r aelodau a'r gwrandawyr yn myned i'r capelau cylchynol ar nos Sabbothau. Yr oedd David Griffith, un o flaenoriaid Bethesda, Cemmaes; teulu Cafnau; a theulu Pen'rorsedd, yn arfer dilyn y gwahanol foddion hyn, er eu bod yn aelodau mewn eglwysi eraill.

Bethlehem, Careg-lefn.—Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd John Owen, o'r Fferam isaf; John Elias—mab y diweddar Barch. John Elias; a John Elias, Y Creigiau, yn flaenoriaid. Bu John Owen farw yn y fl. 1854. Yr un flwyddyn, adeiladwyd capel newydd. Yn y fl. 1851, dewiswyd Richard Jones, Y Siop, a John Roberts, Dŵmcha, yn flaenoriaid. Ni bu ffyddlonach brawd yn Ynys Môn na Richard Jones. Yr oedd yn ffyddlawn i ddilyn y cyfarfodydd ysgolion a'r cyfarfodydd misol. Ei nefoedd oedd cael gwneyd cymmwynasau bychain i weinidogion

yr efengyl; ac yn enwedig i'r diweddar Barch. William Roberts, Amlwch. Yr oedd ei briod, a'i blant hefyd, wedi yfed yn helaeth o'r un ysbryd ag yntau. Byddai derbyniad croesawgar bob amser i bregethwr yn Siop y Gareg-lefn. Yn y fl. 1860, dewiswyd Richard Thomas; John Owen, Fferam isaf (mab i'r John Owen blaenorol); Hugh Roberts, Pen-bôl; a John Roberts, Tŷ capel, yn swyddogion. Bu y Parch. John Charles, Tabernacl, yn gweinidogaethu yma am dymmhor un Sabbath yn y mis. Y daith y pryd hwn oedd Llanfechell, Jerusalem, a Bethlehem. Cofus genym am y nos Sabbath cyntaf y gwnaed casgliad cyhoeddus at gynnal y weinidogaeth. Yr oedd yr hen flaenor parchus, Richard Jones, wedi gwneyd ei oreu yn erbyn i'r gynnulleidfa gael y fraint o gyfranu at y weinidogaeth. Yr oeddym yn gosod yr achos ger bron y gwrandawyr, ac yn dywedyd wrthynt mai er gwaethaf yr hen flaenor yr oeddynt yn cael y fraint; ond y cyntaf a ymaflodd yn y blwch casglu, ac a roddodd ddarn o arian ynddo oedd Richard Jones ei hun.

Rhosbeirio sydd ryw ddwy filldir o Lanfechell. Dechreuodd Methodistiaeth yn y plwyf bychan hwn mewn Ysgol Sabbothol. Cedwid hi, ar y cyntaf, mewn lle a elwir Melin Rhos. Nis gallwn nodi y flwyddyn y dechreuwyd hi. Credwn na byddem yn mhell o'n lle pe nodem o ddeutu y fl. 1817. Nis gallwn ddywedyd rhif y blynyddoedd y bu yn y Felin chwaith; ond symmudwyd hi oddi yno, y mae yn ymddangos, i'r Ffactri; ac oddi yno i eglwys y plwyf. Bron na thybiem iddi gael ei throi allan oddi yno, rhag iddi aflanhau y lle sanctaidd, fel y gwnaed â'i chwaer ysgol yn Llanfechell. Os cywir ein hysbysiad, dychwelodd yn ol o'r llan i'r Ffactri. Bu yn symmudol, heb gartref, am o ddeutu ugain mlynedd. Yn y fl. 1850, adeiladwyd capel bychan yma; a symmudwyd yr ysgol iddo. Yn y blynyddoedd cyntaf wedi adeiladu y capel, nid oedd pregethu ynddo bob Sabbath. Byddai Bethesda yn gollwng y pregethwr fyddai yn y daith i fyned iddo ambell Sabbath. Yr oedd yn yr ardal rai teuluoedd ffyddlawn i Fethodistiaeth, ond yn aelodau naill ai yn Methesda, neu yn Bethlehem. Yn eu plith, yr oedd teulu Tai-hen. Yr oedd y penteulu yn flaenor

yn Bethesda; ac felly, yn blaenori yn Rhosbeirio hefyd. Yn y cyfnod hwn, unwyd Rhosbeirio a Bethlehem â'u gilydd yn daith Sabbath—un bregeth yn y blaenaf, a dwy yn yr olaf. Nis gallwn nodi y flwyddyn y corphorwyd yr eglwys. Yn y fl. 1863, dewiswyd Rice Owen, Rhosbeirio, yn flaenor. Efe oedd y cyntaf a ddewiswyd gan yr eglwys, a bu yn ffyddlawn iawn. Daeth at grefydd pan oedd tua deunaw mlwydd oed. Yr oedd yn ŵr anwyl a hoffus, a llawn o deimlad crefyddol. Byddai yn wylo dagrau o lawenydd wrth wrandaw yr efengyl. Bu ef, a Mrs. Owen, yn garedig iawn wrth Fethodistiaeth yn yr ardal hon.

Gorslwyd.—Gadawsom Fethodistiaeth yn y lle hwn, yn y cyfnod o'r blaen, mewn gwedd lewyrchus. Yn yr un presennol, dewiswyd y brodyr Evan Jones a William Pritchard yn flaenoriaid—y diweddaf yn y fl. 1850. Yr oedd y cyntaf yn ddyn bywiog, siriol, a charedig; a'r diweddaf yn ddyn tawel ac arafaidd, ond yn alluocach nag un a fu yma o'i flaen yn gwasanaethu y swydd o flaenor, oddi eithr y Parch. Robert Williams. Yn ol ein barn ni, dylasai fod yn y weinidogaeth. Nid oedd ganddo allu i weithio ei ffordd yn mlaen, ac nid oedd neb yn y Gorslwyd ar y pryd i'w dynu allan. Credwn fod y weinidogaeth wedi cael colled na buasai rhywun yn meddu tipyn o ddylanwad yn cymmhell y gŵr hwn i ymroddi iddi. Yn sicr, cafodd yr eglwys, ynddo ef, un i'w phorthi â gwybodaeth ac â deall. Ymddangosai Methodistiaeth yn y lle, yn y cyfnod hwn, yn ymgadarnhau. Bu yma swyddog arall am beth amser, o'r enw John Phillips; ond symmudodd i Arfon yn y fl. 1854. Yn y flwyddyn 1861, dewiswyd Hugh Jones, y mŵnwr, yn flaenor.

Llanerchymedd.—Y mae yr achos yn ymgadarnhau yn y lle hwn o fewn y cyfnod dan sylw, er nad yw yr eglwys mor liosog; o blegid fod eglwysi newyddion wedi eu sefydlu yn y cymmydogaethau cylchynol. Y blaenoriaid yn y blynyddoedd hyn oeddynt John Williams, *rope maker*, a William F. Williams, *draper*. Yr oedd yma dri phregethwr—y Parchn. Hugh Jones, Ebenezer Davies, a Richard Roberts. Yn lled gynnar yn y cyfnod hwn, sef

yn y fl. 1848, daeth John Hughes (y Parch. Dr. Hughes, Liverpool, yn awr), yn aelod o'r Cyfarfod Misol. Gwnaed ef yn flaenor am ychydig, er mwyn iddo gael gwybod, trwy brofiad, pa beth oedd gwaith a chyfrifoldeb yr holl swyddau eglwysig. Erbyn 1849, ennillodd iddo ei hun radd dda fel blaenor, a chafodd ei restru yn mhlith y pregethwyr. Derbyniwyd ef, a phump eraill o honom, yn Nghymdeithasfa Llangefni, yn y fl. 1849. Yn y fl. 1851, dewiswyd gŵr o'r enw Richard Jones yn flaenor yma. Yn y fl. 1852, daeth y Parch. John Williams yn aelod o'r Cyfarfod Misol; ac yn y fl. 1855, daeth yntau i restr y pregethwyr. Yn y fl. 1852, dechreuodd y Parch. Hugh Jones, Liverpool, bregethu, pan oedd yn y Bala. Yn y fl. 1857, dechreuodd gŵr ieuangc arall, o'r enw Edward Jones—mab i Richard Jones, un o'r blaenoriaid —bregethu; ond bu farw yn y fl. 1859.

Carmel.—Yn y fl. 1843, daeth William Jones, Hafod-y-mŷn, trwy drefniad y Cyfarfod Misol, i fyw i dŷ'r capel, ac i gynnorthwyo yr achos yn ei holl ranau, yn enwedig yn y cyfarfodydd eglwysig. Bu yn ffyddlawn a llwyddiannus yn y gymmydogaeth. Bu farw Ionawr, 1855, wedi bod yma am tua deuddeng mlynedd. Yn y fl. 1850, dewiswyd Hugh Jones yn flaenor—gŵr ieuangc crefyddol, tuag ugain mlwydd oed. Yn y fl. 1858, symmudodd i restr y pregethwyr; ac yn y fl. 1865, ordeiniwyd ef. Dyma'r brawd anwyl a adnabyddid yn Môn fel y Parch. Hugh Jones, Beaumaris. Yn y fl. 1854, adeiladwyd capel newydd, ar dir Mr. Jones, Geirn. Cafwyd prydles am bum cant o flynyddoedd; ac y mae yn gapel destlus a chymmhwys i'r gymmydogaeth. Yn y fl. 1855, dewiswyd William Williams, Tyddyn bach, yn flaenor; ac yn 1858, Edmund Roberts; ond symmudodd oddi yma yn lled fuan wedi iddo gael ei ddewis. Y mae efe yn byw yn bresennol yn Hanley. Yn y fl. 1860, dewiswyd John Jones, Eirianallt goch, yn henuriad; a bu farw yn y fl. 1871. Yr oedd y brawd hwn, a'i wraig, yn garedig iawn i weinidogion yr efengyl.

Elim.—Yn y fl. 1845, yr oedd Thomas Owen, Bodynolwyn hir, a William Edwards, yn flaenoriaid yn y lle hwn. Ond symmudodd y diweddaf oddi yma. Yr oedd

Thomas Owen yn ddyn call, o synwyr cryf, ac yn meddu dirnadaeth glir o wirioneddau yr efengyl. Yn 1851, adferwyd Edward Hughes i'w swydd; ond bu farw yn y fl. 1858. Yn y fl. 1858, dewiswyd Thomas Jones, Melin Llynon, yn flaenor. Bu y Parch. David Roberts, Gwalchmai, yma yn byw yn y cyfnod hwn, a bu yn ddefnyddiol iawn. Yr oedd hi yn ganol Mehefin ar yr eglwys y pryd hwn. Symmudodd y Parch. David Roberts oddi yma i Gwalchmai, yn y fl. 1863; ond yr oedd capel newydd wedi ei adeiladu cyn iddo symmud—yn y blynyddoedd rhwng 1860 ac 1863. Yn y cyfamser, unwyd Elim a Thy'n-y-maen yn daith Sabbath. Yn y fl. 1860, dewiswyd John Hughes, Llaindelyn, a William Jones, Bodynolwyn, yn flaenoriaid. Yr oedd y cyntaf yn un o ddisgynyddion John Jones, Bodynolwyn, ac yn meddu llawer o hynodion. Yr oedd y diweddaf yn fab i Robert Jones, o'r un lle. Bu Edmund Roberts hefyd yn flaenor yma am beth amser.

Ty'n-y-maen.—Yn y fl. 1849, dewiswyd gŵr o'r enw William Roberts yn flaenor; ond symmudodd i Laingoch. Bu y cyfnod hwn am rai blynyddoedd yn un ystormus iawn i'r eglwys hon. Yn Nghyfarfod Misol Glasinfryn, Hydref 13eg, 1851, cynghorwyd Edward Edwards, Dronwy, i 'beidio gweithredu fel blaenor yn Nhy'n-y-maen hyd nes y delai yr eglwys yno i well teimlad tuag ato.' Yn y fl. 1854, dewiswyd Richard Davies, Bottan, yn flaenor, at Owen Hughes. Yn y fl. 1855, dewiswyd John Williams, Tre-moel-goch, yn flaenor, ac ail osodwyd Edward Edwards yn ei swydd. Yn y fl. 1857, ymddiswyddodd Richard Davies a John Williams; ac annogwyd Edward Edwards, yn yr un Cyfarfod Misol ag y derbyniwyd ymddiswyddiad y ddau eraill drachefn, i beidio gweithredu. Aeth Richard Davies i Lanfaethlu, a John Williams i Elim. Nid oedd un swyddog yn yr eglwys hon ar hyn o bryd, ond Owen Hughes. Dymunwyd ar y Parch. Griffith Williams, Llanfachreth, i olygu dros yr eglwys, ac addawodd blaenoriaid Llanfwrog ei gynnorthwyo. Wedi hyn, cyflwynwyd yr eglwys hon i ofal yr eglwysi cylchynol. Yn y Cyfarfod Misol dilynol, pennodwyd cenhadau i fyned i Dy'n-y-maen, i hysbysu yr

eglwys fod pawb nad oeddynt yn dewis rhodio mewn heddwch i gael eu diarddel ar ol hyn. Bu y Parchn. Ebenezer Evans a David Roberts yn cymmeryd gofal yr eglwys am beth amser. Yn fuan, ymddiswyddodd Edward Edwards, a chynghorodd y Cyfarfod Misol ef i ymadael i ryw eglwys arall. Dewiswyd trysorydd ac ysgrifenydd heb fod yn swyddogion. Rhagfyr 13eg, 1859, cynnaliwyd Cyfarfod Misol yn Nhy'n-y-maen, a chafwyd golwg mwy dymunol a gobeithiol ar yr achos; a dymunwyd ar y Parch. Owen Williams, Llanrhyddlad, ac un o frodyr Llanfaethlu, i fyned i'r cyfarfod eglwysig i gydnabod ffyddlondeb y chwiorydd yn eu gofal am yr achos yn y nos. Bu sylw ar Ty'n-y-maen yn Nghyfarfod Misol Nebo, Awst 8fed, 1859, ac anfonwyd pedwar o genhadau yno; a'r penderfyniad y daethpwyd iddo oedd, cyflwyno gofal yr eglwys yno dros ryw hyd i'r Parch. Hugh Jones, Llanerchymedd. Yn y fl. 1860, unwyd Ty'n-y-maen ac Elim â'u gilydd yn daith Sabbath; ac addawodd y Cyfarfod Misol gymmhorth i Dy'n-y-maen. Fe wêl y darllenydd fod yr eglwys hon wedi bod yn y cyfnod hwn mewn ystormydd blinion, a bron boddi lawer gwaith. Yr oedd Owen Hughes yn un hynod iawn—yn ŵr pwyllog ac arafaidd; ond yn lled gyrhaeddgar yn ei eiriau. Yr oedd yn swyddog yn nghanol yr ystormydd; ond nid oedd yn gallu llywodraethu. Bu y Parch. William Williams yma mewn rhan o'r cyfnod hwn.

Llanfaethlu.—Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd yma dri o flaenoriaid, y rhai a ddewiswyd yn yr un blaenorol. Aeth yr hynaf o honynt—sef, Richard Evans—i orphwys oddi wrth ei lafur tua'r fl. 1851. Yr oedd y ddau frawd arall—David a Robert Jones—yma trwy yr holl gyfnod, yn ddynion parchus a ffyddlawn i achos y Gwaredwr; a'r achos yn llwyddo o dan eu harolygiaeth. Ennillodd David Jones le mawr yn mynwes y frawdoliaeth yn y Cyfarfod Misol, fel yr ennillodd ei dad o'i flaen. Yr oedd Mrs. Jones, yr hon oedd yn ferch i'r Parch. W. Roberts, Amlwch, yn wir ddiacones—heb gael ei dewis ond gan Dduw—ac yn dyfal ofalu am achos crefydd, fel am ei thŷ ei hun. Yr oedd yr achos yn agos at ei chalon, fel yr oedd at galon ei thad. Bendith fawr i eglwys ydyw fod

gwragedd ei swyddogion â'u holl galon gyda'r achos. Yn gyffelyb, yr oedd ei frawd, Robert Jones, 'yn ffyddlawn yn yr holl dŷ' yn y cyfnod hwn.

Llanfwrog.—Yn y fl. 1855, dewiswyd William Rowlands, Yr Efail, yn flaenor. Yn y fl. 1859, derbyniwyd Edward Elias, Pen-y-mynydd, yn aelod o'r Cyfarfod Misol; Owen Griffiths, Trelywarch, a Robert Thomas, Bodfarddan ddu, yn y fl. 1860. Yn y cyfnod hwn, bu y Parch. Griffith Williams yn aelod o'r eglwys hon. Yr oedd Llanfwrog, Ty'n-y-maen, a Llanfaethlu, yn daith Sabbath. Cedwid Ysgol Sabbothol yn y blynyddoedd hyn yn Llanfachreth; ac yn y fl. 1858, ail adeiladwyd capel Llanfwrog. Yr oedd yma ddynion da heb fod yn flaenoriaid—megys, Thomas Elias, Plas-yn-nglyn; Robert Hughes, Ty'n-y-cae; ac Owen Jones, Ty'n-y-llan. Gwnaed ail gais i godi tafarn yma, ond ni chafodd gefnogaeth; darfyddodd fel yr un flaenorol, ac ni cheisiwyd codi un byth mwy yma.

Llanfachreth.—Dechreuodd Methodistiaeth yn yr ardal hon mewn Ysgol Sabbothol. Ymddengys fod yma ysgol cyn diwedd yr ail gyfnod. Cynnelid hi ar y dechreu yn eglwys y plwyf. Preswyliai hen ŵr tra chrefyddol mewn ffermdy o'r enw Bryn pybur; a dywedir y byddai cyfarfod eglwysig yn cael ei gynnal yn fynych yno. Yr oedd hyn cyn adeiladu capel Ty'n-y-maen a chapel Llanfwrog. Adeiladwyd y cyntaf yn y fl. 1800, a'r diweddaf yn y fl. 1811. Wedi adeiladu y capelau hyn, rhoddwyd ysgol Llanfachreth i fyny; ac aeth holl Fethodistiaid y gymmydogaeth i'r naill neu y llall o honynt. Yn y fl. 1828, ail ddechreuwyd Ysgol Sabbothol yma, trwy offerynoliaeth Edward Edwards, Dronwy, ac Owen Jones, Aberalaw; a chynnaliwyd hi am beth amser mewn lle o'r enw Hendy. Symmudodd oddi yno i eglwys y plwyf; ond ar ddyfodiad gweinidog newydd i'r plwyf, taflwyd yr ysgol allan o'r llan. Ar ol hyn, cynnelid hi mewn tŷ gwâg, a elwid yr Hen Ysgoldy, yn y pentref. Yr ydym yn cofio ein bod yn pregethu yma ar brydnawn Sabbath—a daeth Dr. Roberts, Mynydd-y-gôf, gyda ni; —ac yr oedd y lle mor llawn, fel y torodd y Dr. un o 'gwareli' y ffenestr mewn trefn i ollwng awyr i mewn.

Yn y fl. 1862, adeiladwyd capel, a galwyd ef Abarim. Wedi cael addoldy destlus, sefydlwyd eglwys, a chafwyd pregethu rheolaidd yma ar y Sabbath, mewn cyssylltiad â Llanfwrog a Llanfaethlu, fel taith Sabbath. Pan sefydlwyd eglwys yn y lle, daeth Owen Jones, Aberalaw, a'r Parch. Griffith Williams, yn aelodau yma; ac ymddiriedwyd arolygiaeth yr achos i'w gofal hwy.

Bodedern.—Yn nechreu y cyfnod hwn, cawn John Evans yma yn bregethwr; a Dr. Roberts, Richard Williams, Cleifiog, a Michael Parry, Tre-rhys, yn flaenoriaid. Yn y fl. 1845, bu farw John Evans. Yn y fl. 1849, dewiswyd Richard Lewis, fferyllydd, yn flaenor. Richard Williams, Cleifiog, ydoedd ŵr o ddylanwad lled fawr yn y Cyfarfod Misol. Richard Lewis a ystyrid yn ŵr call a llenor da, a Michael Parry yn llawn bywyd. Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd Bodedern, Tabor, a Chae'rgeiliog, yn daith Sabbath; ond cyn ei ddiwedd, Tabor a Bodedern yn unig oedd mewn undeb. Wedi i'r eglwys hon golli gwasanaeth yr hen bregethwr, John Evans, cafodd wasanaeth ei fab; sef, y Parch. Ebenezer Evans, yr hwn a werthfawrogid ganddi. Yn y cyfamser, daeth gŵr ieuangc o bregethwr oddi wrth yr Annibynwyr at y Methodistiaid; sef, William Jones, Trehowa.

Tabor, Valley.—Yn y cyfnod hwn, yr oedd Tabor mewn cyssylltiad â Bodedern; a Richard Williams, Cleifiog, yn flaenor yma ac yn Modedern. Yn y fl. 1861, dewiswyd Richard Roberts, Cleifiog—mab i David Roberts, Mynydd-y-gôf—yn flaenor; ond symmudodd ef i Lanerchymedd. Ymddengys fod yn y lle hwn eglwys gorphoredig cyn diwedd y cyfnod hwn.

Rhoscolyn.—Yn y fl. 1849, dewiswyd William Williams, Bunwerth, yn flaenor. Yn y fl. 1859, ceid William Williams, Porth-diana, yn henuriad yma—yr oedd yn swyddog cyn iddo ddyfod i Rhoscolyn. Yn y fl. 1861, dewiswyd William Owen a William Hughes yn henuriaid. Cyn diwedd y cyfnod hwn, cyssylltwyd Rhoscolyn a Kingstown yn daith Sabbath—dwy bregeth bob yn ail Sabbath yn mhob un. Yr oedd Hugh Williams a Thomas Williams yn aros yn flaenoriaid yma. Hen frawd anwyl iawn oedd Hugh Williams; yr oedd ef yn frawd i William

Williams, Bunwerth, ac Owen Williams, Glan-y-gors, Bryn du. Nid adwaenem dri brawd yn meddu mwy o lywodraeth arnynt eu hunain. Yr oedd y tri yn ddynion hynaws a charedig iawn. Bu Hugh Williams farw yn y fl. 1854. Nid ydym yn gallu galw Thomas Williams i gôf. Bu farw yn y fl. 1847.

Caergybi.—Nid oedd yn nechreuad y cyfnod hwn ond un eglwys Fethodistaidd yn y dref; ond yr oedd yma ddau neu dri o ysgoldai yn perthyn i Hyfrydle; sef, Llaingoch, Penrhosfeilw, a Cweryd. Hefyd, yr oedd yma dri o bregethwyr; sef, y Parchn. Hugh Jones, William Roberts, a David Davies. Symmudodd y diweddaf i Fangor yn y fl. 1845. Ordeiniwyd y Parchn. Hugh Jones a William Roberts yn y fl. 1848. Symmudodd y diweddaf i Runcorn yn y fl. 1849. Yn y cyfamser, yr oedd John Roberts, Richard Jones, Griffith Parry, Edward Parry, Edward Edwards, Robert Roberts, a William Thomas, yn flaenoriaid yma. Bu Richard Jones farw yn y fl. 1847, a cholled fawr i bobl ieuaingc eglwys Hyfrydle oedd marwolaeth yr henuriad hwn. Bu John Roberts farw yn y fl. 1856; colled etto am un o'r dynion mwyaf caredig a thangnefeddus. Symmudodd Edward Edwards o Fôn yn y fl. 1855. Bu William Thomas farw yn y fl. 1857. Gŵr da oedd yntau. Pan oedd rhyw rai yn erbyn i ŵr ieuangc gael dechreu pregethu, prophwydodd wrth yr eglwys mai pregethu y byddai ef er eu gwaethaf; a daeth ei brophwydoliaeth i ben. Yn y fl. 1855, galwyd pedwar o flaenoriaid at y rhai oeddynt yn aros; sef, Richard Roberts, *currier*—mab i'r diweddar John Roberts, o'r un alwedigaeth; John Jones, gôf; Hugh G. Hughes, fferyllydd; ac Evan P. Gruffydd, *draper*. Yn y fl. 1859, daeth John Jones, crydd, yma, o Llanfair P. G. Yn y fl. 1848, dechreuodd y Parch. Richard Jones—mab i'r diweddar Richard Jones, y blaenor—bregethu; ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1857. Yn y fl. 1851, daeth y Parch. Robert Jones yma o Fflint, a'r Parch. Evan Thomas o Arfon, yn y fl. 1852. O ddeutu y fl. 1858, sefydlwyd eglwysi Llaingoch a Kingstown. Yn y fl. 1859, symmudodd y Parch. Owen Hughes o Nebo yma. Yn y blynyddoedd hyn, yr oedd yma amryw o frodyr heb fod yn swyddogion a

haeddant goffhâd. Un ydoedd Rowland Thomas, yr hwn a gynnelid gan yr eglwys i ymweled â'r cleifion. Yr oedd yn ewythr i'r Parch. Owen Thomas, D.D., Liverpool. Efe oedd y gŵr a drowyd allan o borthordy Henllys, Llangoed, o herwydd ei Fethodistiaeth. Gŵr arall parchus ydoedd Hugh Williams, *dock*—tad i Hugh Williams, *Admiralty House*, ac i Mrs. Pritchard, Fron-dirion, Amlwch. William Jones, y *gas*, a Richard Hughes, Well street, hefyd oeddynt ddynion gweithgar. Thomas Jones, *draper*—mab i Richard Jones, Penrhos ddu, Llanfaethlu, a mab-yn-nghyfraith i John Roberts, y blaenor —oedd yn ŵr parchus a charedig i Fethodistiaeth yn y dref hon; ond symmudodd i Liverpool, lle y galwyd ef yn flaenor gan eglwys Chatham street. Bu yma ddau frawd yn ceisio dechreu pregethu; ond methasant ag ennill cymmeradwyaeth yr eglwys. Eu henwau oeddynt John Roberts a Benjamin Jones. Dewiswyd y cyntaf yn flaenor gan eglwys Armenia.

Bethphage, Llaingoch.—Adeiladwyd capel bychan cyfleus yn y lle hwn yr un amser ag yr adeiladwyd capel Kingstown; sef, tua'r fl. 1850; a sefydlwyd eglwys, a chafwyd pregethu rheolaidd ar y Sabbothau yno hefyd. Y blaenoriaid cyntaf a ddewiswyd oeddynt Henry Williams, saer, a William Jones, masnachwr. Cymmerodd hyn le yn y fl. 1850. Symmudodd y cyntaf i Armenia, a'r diweddaf i America, yn y fl. 1858. Yn y fl. 1855, dewiswyd Thomas Jones, masnachwr, yn flaenor; a chyn diwedd yr un cyfnod, dechreuodd bregethu. Symmudodd gŵr o'r enw William Roberts o Dy'n-y-maen i fyw yma; ond am ychydig amser yr arosodd; symmudodd i Liverpool, ac oddi yno i America, lle y mae yn henuriad gyda'r Henaduriaethwyr. Yn y fl. 1858, dewiswyd Griffith Owen, mŵnwr, yn flaenor; ond symmudodd i Fryn du. Yn y fl. 1860, dewiswyd Owen Owens, Porth-y-felin, a John Pritchard, crydd, yn swyddogion. Bu y cyntaf farw tua'r fl. 1870, a symmudodd y diweddaf i Gaergeiliog. Tua'r fl. 1859, dechreuodd y Parch. Simon A. Frazer bregethu; ond aeth oddi yma i Lanfair P. G. yn y fl. 1862. Yn agos i ddiwedd y cyfnod hwn, cymmerodd cyfnewidiad le yn y teithiau. Daeth Penrhos-feilw a

Llain-goch yn daith Sabbath. Bu Llain-goch unwaith yn lle poblog mewn cymmhariaeth i'r hyn ydyw yn awr. Yr oedd yma hen gymmeriad hynod iawn, o'r enw Robert Owen, Merddyn melyn. Meddai gynneddfau meddyliol cryfion, ond heb eu diwyllio i'r graddau lleiaf. Arferai ddyfod i'r Ysgol Sabbothol yn achlysurol cyn adeiladu y capel. Pan adeiladwyd y capel, arferai ddyfod i wrandaw yn lled gysson; ac ä'i ar ei union i'r sêt fawr, fel hen flaenor, er nad oedd yn aelod. Ymddengys nad oedd Robert Owen yn gwybod beth oedd cywilydd. Yn mhen o ddeutu blwyddyn neu ddwy ar ol adeiladu y capel, a chael pregethu cysson ynddo, arosodd ar ol yn y cyfarfod eglwysig ryw nos Sabbath, a theimlai y blaenoriaid ieuaingc ofn ymyraeth âg ef; a'r cyfan a wnaethant oedd caniatau iddo ddyfod drachefn, heb i air gael ei ddyweyd wrtho. Y Sabbath canlynol, yr oedd y Parch. Morris Jones, 'yr hen brophwyd,' o Bethesda, Arfon, yno yn pregethu, a dywedasant wrtho pa fath un oedd efe, ac am iddo ef ymddiddan âg ef yn y cyfarfod eglwysig ar ol y bregeth. Aeth 'yr hen brophwyd' ato yn gawraidd, yn ol ei arfer, a gofynodd iddo—'Be wnaeth i chwi ddyfod i'r seiat, wedi dyfod i'r oed yma, ys gwn i?' Robert Owen a'i hattebodd, gan ddywedyd—'Wel, mi ddeuda i ti, Morris—gweled fy llestr wedi myned yn agos iawn i'r creigiau, wel di-di, yr oeddwn i; ac felly, yr oeddwn i yn meddwl ei bod hi yn llawn bryd i mi ymofyn am bilot, rhag ofn iddi fyned yn *shipwreck* arnaf fi, wel di-di.' Tarawyd yr hen brophwyd â syndod gan yr attebiad hwn, ac aeth yn fud am ennyd, gan ystyried pa beth a ddywedai wrtho. Yn y cyfwng hwn, dywedodd Robert Owen wrtho—'Wel, dyna fi wedi atteb dy gwestiwn di, Morris; 'rŵan, mi ofyna innau gwestiwn i tithau. Fedri di ddeyd i mi be ydi yr achos fod ar bobl annuwiol yr oes hon lai o ofn crefyddwrs nag oedd ar bobl annuwiol er's talwm? Pan oeddwn i, wel di-di, yn llefnyn, wel di-di, yr oeddwn i yn un eithaf drwg, a byddwn gyda *gang* o rai yr un fath a mi fy hun; ond pan welem ni grefyddwrs, neidiem dros y cloddiau, a rhedem ar hyd y caeau rhag iddyn nhw ein hadnabod ni; ond 'does ar bobol annuwiol yr oes yma yr un blewyn mwy o ofn crefyddwrs

nag sydd arnyn nhw o ofn dynion eraill. A fedri di ddeyd wrthyf fi be ydi yr achos o hyn?' Parodd gofyniad Robert Owen i'r hen brophwyd synu mwy fyth, a rhoddodd yr ymddiddan i fyny. Meddyliodd 'yr hen brophwyd' dori asgwrn cefn yr hen Robert Owen; ond ymddengys mai Robert Owen a dorodd asgwrn cefn 'yr hen brophwyd' y tro hwn. Bu yr hen ŵr fyw am rai blynyddoedd, ac argyhoeddodd yr eglwys ei fod wedi derbyn *pilot* i'w arwain rhwng y creigiau yn ddidramgwydd i'r eglwys, ac yn ddiogel i'r 'hafan ddymunol.' Byddai gwrandaw arno yn gweddïo yn argyhoeddi pawb mai 'pentewyn wedi ei achub o'r tân' ydoedd. Bu yma achos siriol a lled gryf yn y cyfnod hwn am o ddeutu deng mlynedd, pan oedd y porthladd yn cael ei wneyd.

Ebenezer, Kingstown, Caergybi.—Am o ddeutu y naw mlynedd cyntaf o'r cyfnod hwn, nid oedd yn Kingstown ond Ysgol Sabbothol, cyfarfod gweddi, a phregeth yn achlysurol. Yn y fl. 1850, adeiladwyd capel, a galwyd ef Ebenezer. Bu ynddo bregethu ar y Sabbath am rai blynyddoedd cyn corphori yr eglwys; sef, am ddau o'r gloch yn y prydnawn. Byddai cyfarfodydd eglwysig yn cael eu cynnal am rai blynyddoedd cyn corphoriad yr eglwys; a swyddogion Hyfrydle yn dyfod yno i'w cynnal. Yn y fl. 1857, dewiswyd Dr. William Jones a John Moses, Tyddyn bach, yn flaenoriaid. Yn y fl. 1861, dewiswyd Owen Morris yn flaenor. Yn y fl. 1864, unwyd Kingstown a Rhoscolyn yn daith Sabbath. Ar ol yr adfywiad yn 1859—60, helaethwyd y capel; ond o herwydd nad oedd ei led yn cyfatteb i'w hyd, nid oedd, bellach, yn un cysurus. Chwanegwyd amryw at yr eglwys trwy y diwygiad crybwylledig. Bu Dr. Jones yn weithgar a ffyddlawn yma, hyd nes y symmudodd i Graianfryn.

Armenia, Caergybi.—Wedi adeiladu y capel cyntaf yn Nghaergybi, ac iddo gael ei lenwi, dywedir mai lled annyben oedd yr hen Fethodistiaid i helaethu lle eu pabell; a rhoddir yr un gŵyn yn erbyn eu holynwyr hyd y genhedlaeth bresennol; a sicrheir fod Methodistiaeth wedi dioddef llawer yn herwydd hyn. Yn nechreu y fl. 1854, cyfarfu y diweddar Cadben Evan Lloyd a'r diweddar John Roberts, *Gas works*, â'u gilydd yn ddamweiniol, yn

nhŷ y Parch. Evan Thomas, yn Well street. Yn nghwrs yr ymddiddan, cymmerwyd golwg ar sefyllfa foesol y gymmydogaeth a elwir Glan-y-môr. Penderfynasant gychwyn ysgol garpiog yno. Aeth yr hen gadben trwy le a elwir Ponc-yr-efail, i chwilio am le i godi ysgol, a gwelai fod yno dŷ gwâg pur adfeiliedig yr olwg arno, heb ddrws na ffenestr iddo. Safai o flaen y tŷ, gan ddyweyd, 'Dyma y lle.' Aeth at y perchenog, a gwnaeth gais am y tŷ i gadw Ysgol Sabbothol ynddo. Cafodd ef am ardreth a ystyrid yn rhesymol. Yn mhen mis yr oedd y tŷ yn barod, a dechreuwyd cadw yr ysgol yn y llofft, yr hon a adnabyddid ar ol hyny fel 'Yr Oruwch Ystafell,' a chafwyd uwch law cant o ddeiliaid iddi ar y dechreu. Pennodwyd John Roberts, *Gas works*, yn arolygwr; ac Owen Pritchard, *Clock House*, yn ysgrifenydd; a Robert Meredith i ofalu am y canu. Cafwyd digonedd o athrawon ac athrawesau; ac mewn canlyniad, daeth yn ysgol reolaidd, a hynod o lwyddiannus. Cynnelid cyfarfodydd gweddïau, a thraddodid pregethau yn achlysurol yn 'Yr Oruwch Ystafell,' a byddai y lle yn llawn o bobl. Yn y fl. 1860, penderfynasant chwilio am le i adeiladu capel, a chafwyd tir gan foneddwr o'r enw Mr. Jacob. Adeiladwyd capel gwerth 1,100*p.*, a galwyd ef Armenia. Wedi dechreu adeiladu, dangosodd y diweddar Anrhydeddus William Owen Stanley, Penrhos, fod ganddo ef hawl i rwystro mynediad i'r capel, yr hyn a barodd raddau o dristwch i'r brodyr; ond byr fu ei barhâd, gan i'r ddau dirfeddiannwr ddyfod i gyd-ddealltwriaeth ar y mater. Erbyn hyn, y mae y tir yn feddiant i'r cyfundeb. Yn nechreu 1861, corphorwyd eglwys yn Armenia, yn rhifo dros ddau gant. Yr oedd gofal yr achos yn ei gychwyniad ar y Parchn. Hugh Jones ac Evan Thomas fel gweinidogion; ac Edward Parry, gwerthwr glô, a Hugh G. Hughes, fferyllydd, fel blaenoriaid. Daeth y pedwar hyn o Hyfrydle i Armenia.

Caergeiliog.—Yn nechreu y cyfnod hwn, Rees Lloyd, Treflasg; Owen Edward, Ysbylltir; a David Griffith, Bryn, oedd y blaenoriaid. Diswyddwyd y diweddaf yn y fl. 1849. Bu Rees Lloyd farw yn y fl. 1844, ac Owen Edwards yn y fl. 1863. Yn y fl. 1859, dewiswyd William

Owen yn swyddog. Daeth Griffith Evans yma o Leyn, tua'r fl. 1851; ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1859; ond diswyddwyd ef yn y fl. 1861. Yn y fl. 1860, dewiswyd Thomas Lloyd, Treflasg—mab Rees Lloyd—yn flaenor. Gan iddo symmud o Dreflasg i Lywenan i fyw, ymunodd âg eglwys Bodedern. Cafodd eglwys Caergeiliog golled fawr yn symmudiad y brawd hwn, o blegid ystyrid ef, gan ei frodyr, yn ŵr call, doeth, a da.

Hebron.—John Thomas, Tŷ moel; Richard Griffith, Caer ddol; Henry Jones, Grug; a John Hughes, Pen-y-bryn, oedd y blaenoriaid yn Hebron yn nechreu y cyfnod dan sylw. Diarddelwyd Richard Griffith yn y fl. 1854. Bu John Thomas farw yn y fl. 1859. Yr un flwyddyn, dewiswyd John Williams, Cae gwyn, yn flaenor. Yr oedd yr hen bregethwr Owen Rowlands hefyd yma y pryd hwn. Cychwynwyd Ysgol Sabbothol mewn ardal a elwir Ceirchiog, o herwydd pellder y ffordd i Hebron. Dechreuwyd hi yn y cyfnod blaenorol, o ddeutu y fl. 1839. Yr oedd John Hughes, Pen-y-bryn—un o flaenoriaid eglwys Hebron—yn byw yn y gymmydogaeth; ac efe, gyda Henry Owen, Ty'n-y-coed, a John Jones, Gardd Efa, oeddynt brif offerynau ei sefydliad. Y mae yn debyg mai mewn tŷ annedd y cedwid hi; o blegid yn y cyfnod nesaf yr adeiladwyd yr ysgoldy a elwir 'Engedi.' Symmudodd John Hughes i Lanallgo.

Bryn du.—Yr un blaenoriaid oedd yma yn nechreu y cyfnod hwn ag oedd yn niwedd yr un blaenorol. Yn y fl. 1846, dewiswyd Owen Williams, Glan-y-gors, i'r swydd; ac yn 1856, Hugh Owen, Y Fferam; John Hughes; ac Owen Williams, masnachwr. Yn y fl. 1859, adeiladwyd capel newydd; sef, y trydydd. Bu Owen Williams, Neuadd, farw yn y fl. 1859, a Richard Williams yn yr un ddilynol. Unwyd Bryn du a Paran yn daith Sabbath yn lled gynnar yn y cyfnod hwn.

Paran, Rhosneigr.—Yn y fl. 1850, adeiladwyd capel gwell, a llawer mwy cyfleus; a chafwyd pregethu bob Sabbath. Cyssylltwyd ef â Bryn du yn daith Sabbath. Y bregeth ynddo am ddau o'r gloch. Yn y fl. 1857, fe'i hadgyweiriwyd. Nid oedd yma eglwys gorphoredig yn y cyfnod hwn; ac aelodau o eglwys Bryn du oedd holl

Fethodistiaid yr ardal; ac o herwydd hyny, nid oedd yma swyddogion wedi eu dewis i edrych ar ol yr achos. Golwg led lwydaidd oedd ar Fethodistiaeth yn Rhosneigr yn y blynyddoedd hyn.

Aberffraw.—Y blaenoriaid a ddewiswyd gyntaf yn y cyfnod hwn oeddynt Owen Thomas, dilledydd, ac Evan Evans, Church street. Dewiswyd hwy yn y fl. 1853. Yn mhen dwy flynedd, dewiswyd Lewis Roberts, Ty'n-yr-allt, yn swyddog. Bu John Jones, Llangwyfan, farw yn y fl. 1852; ac Evan Griffith yn y fl. 1853. Tua'r fl. 1860, adeiladwyd capel newydd yma; a'r flwyddyn ddilynol, dewiswyd Robert Jones, Cae mawr, yn flaenor. Yr oedd achos bychan, ac eglwys wan—cangen o eglwys Aberffraw—mewn lle a elwir Pen-y-cnwc, Beulah yn awr. Bu y Parch. John Williams, Llanerchymedd, yn byw yn Aberffraw, ac yn bugeilio yr eglwys hon am ychydig o flynyddoedd yn niwedd y cyfnod hwn. Yr oedd efe yma yn y fl. 1858, ac am rai blynyddoedd ar ol hyny. Yn y fl. 1864, dewiswyd dau henuriad yn chwanegol; sef, Owen Thomas, ieuengaf, a Richard Williams, *nailer*.

Sardis, Iard Malltraeth.—Yn y fl. 1859, prynwyd erw o dir mewn cyssylltiad â'r ysgoldy, ac adeiladwyd arno gapel hardd, tuag un lath ar bymtheg wrth bedair-ar-ddeg; ac y mae y tir a'r capel yn ddiddyled. Yn y fl. 1860, corphorwyd yr eglwys, dan arolygiaeth y Parch. Owen Owens, Bethel. Cyn hyn, aelodau o eglwys Bethel oedd y rhan liosocaf o Fethodistiaid y gymmydogaeth. Yr un flwyddyn, dewiswyd William Roberts, Ty'n-lôn, ac Owen Jones, Ty'n-morfa, yn flaenoriaid. Cyn sefydlu yr eglwys, bu Richard Owen, Cae-wydd, ac Owen Tibbot —mab i'r Parch. Abraham Tibbot, hen weinidog gyda'r Annibynwyr—yn weithgar iawn yma. Dywedir fod Owen Tibbot yn meddu syniadau hynod wreiddiol, a chryn ffraethineb ymadrodd. Yr oedd W. Roberts, y blaenor, yn ddyn diniwed a diddichell iawn. 'Gwyn fyd y gŵr ni fyddo dichell yn ei ysbryd.' Bu y cyntaf o'r ddau flaenor farw yn y fl. 1877, a'r diweddaf yn y fl. 1865. Penderfynwyd, yn Nghyfarfod Misol Bethel, Ionawr 29ain, 1855, prynu y tir sydd o dan gapel Iard Malltraeth, a'r tŷ capel, am 30*p*.; ac ymddengys i erw arall gael ei

phrynu yn y fl. 1859. Yn y cyfnod hwn, daeth Bethel, Soar, a Sardis yn daith Sabbath.

Bethel.—Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd William Williams, Siop, a John Rowland, Fferam, yn aros yma fel swyddogion. Bu y cyntaf farw yn y fl. 1855, a'r diweddaf yn y fl. 1859. Yn y fl. 1852, dewiswyd Hugh Williams—mab i William Williams, yr hen flaenor—yn henuriad. Gŵr da, gweithgar, a thra defnyddiol oedd hwn, yn yr eglwys ac yn y Cyfarfod Misol. Yn y fl. 1858, dewiswyd William Rowlands, dilledydd, yn flaenor. Yn y fl. 1854, cawn y Parch. Owen Owens yma. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1859. Yn y fl. 1863, dechreuodd gŵr ieuangc crefyddol iawn, o'r enw Humphrey Hughes, bregethu; ond bu farw yn y fl. 1866. Yn y blynyddoedd hyn, yr oedd yr achos yn siriol iawn yn Bethel. Y daith Sabbath oedd Bethel a Llangristiolus yn nechreu y cyfnod; ond cyn ei ddiwedd, gwnaed Bethel, Soar, a Sardis yn daith. Ymddengys fod Soar eisoes yn eglwys gorphoredig; ac Owen Jones, Bodwrdin, wedi ei ddewis yn flaenor yn y fl. 1861.

Llangristiolus.—Yr oedd yr hen flaenor parchus, Hugh Hughes, Tŷ newydd, yn fyw yn nechreu y cyfnod hwn, a chafodd fyw hyd y fl. 1860. Yr oedd Hugh Jones, Capel, yn flaenor yma yn y flwyddyn 1845; ond nis gwyddom pa flwyddyn y dewiswyd ef. Dyn crefyddol iawn, ac yn hynod o fanwl gyda'r ddyledswydd deuluaidd hyd yn oed yn ei afiechyd diweddaf. Yn y Cyfarfod Misol a gynnaliwyd yn Elim, Ebrill 21ain, 1845, derbyniwyd y Parch. David Roberts fel blaenor; ac yn Nghyfarfod Misol y Gaerwen, Tachwedd 10fed, yn yr un flwyddyn, cafodd ganiatâd i ddechreu pregethu. Yn y fl. 1855, dewiswyd John Roberts, siop, a Samuel Hughes, mab i'r hen flaenor Hugh Hughes, yn flaenoriaid. Yma yr oedd y Parch. W. Williams, Tŷ calch, y rhan olaf o'r cyfnod hwn. Yn y fl. 1861, dechreuodd y Parch. Richard Owen bregethu; sef, y brawd a adwaenir yn y dyfodol fel diwygiwr llwyddiannus. Yn y blynyddoedd hyn hefyd, yr oedd y Parch. David Hughes, gynt o Amlwch, yn byw yma, ac yn dra chymmeradwy yn nghyfarfodydd neillduol yr eglwys. Yn y fl. 1864, daeth y Parch. W.

Rowlands (brawd-yn-nghyfraith y Parch. D. Hughes), yma—gŵr ieuangc genedigol o Fôn, ond wedi dechreu pregethu yn sir Forganwg. Symmudodd i sir Fflint; ac y mae yn byw yn bresennol yn y Towyn, ger llaw Abergele. Yr oedd Mrs. Williams, Tŷ calch, priod y Parch. W. Williams, a merch y Parch. J. Prytherch, yn aelod yma yn y cyfnod hwn, ac yn aros hyd yn bresennol, yn wraig wir grefyddol a duwiol. Yn y cyfnod hwn, corphorwyd cangen o'r eglwys hon yn eglwys mewn lle a elwir Cana. Perthynai dwy Gangen-ysgol Sabbothol i Langristiolus—un yn y Llanfawr, a'r llall yn y Coed-eithin, a changen berthynol i Langefni mewn lle a elwid Frondeg; ac nid oedd y tair yn mhell iawn oddi wrth eu gilydd. Tua'r fl. 1827, rhoddodd Richard Davies, Llangefni, dir iddynt i adeiladu ysgoldy, neu gapel bychan, fel y gellid uno y tair ysgol hyn yn un; a dyma ddechreuad yr achos yn Cana. Yn nghofnodion Cyfarfod Misol Bethesda, Mawrth 19eg, 1860, ceir y penderfyniad canlynol:—'Fod y gynnulleidfa yn Cana yn cael ei chorphori yn eglwys o dan ofal swyddogion Llangristiolus.' Y mae y ddwy eglwys yn daith Sabbath hyd heddyw. Yn y fl. 1862, dewiswyd gŵr o'r enw Hugh Jones yn flaenor. Nid oedd y gymmydogaeth yn un boblog; ac am hyny, achos lled wan oedd yma—un bregeth a geid ar y Sabbath.

Gwalchmai.—Yn nechreu y cyfnod hwn, ceid Owen Thomas, William Jones, a William Williams, yn aros fel blaenoriaid yn Ngwalchmai, a'r Parch. John Charles fel gweinidog. Yn y fl. 1848, dechreuodd y Parch. David Charles bregethu; ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1857. Yn yr un flwyddyn hefyd, dewiswyd Robert Edwards, Glan-gorsddu; Robert Evans, Tŷ newydd; Owen Jones, yr Hafod; William Jones, Bodwina; a John Hughes, Bodwrog; yn swyddogion. Bu Owen Jones farw yn y fl. 1858. Robert Edwards ydoedd ddyn galluog—yn meddu gwybodaeth a dawn i borthi yr eglwys. John Hughes oedd foneddwr anwyl, a gŵr cywir, gonest, a chroesawgar. Adeiladwyd y trydydd capel yn y fl. 1849. Bu William Charles farw yn y fl. 1849, y Parch. John Charles yn y fl. 1858, a'r Parch. David Charles yn y fl. 1860. Gan y Parch. John

Charles yr oedd mab arall, o'r enw Thomas, yr hwn, pe cawsai fyw, a fuasai, yn ddïau, yn bregethwr rhagorol; ond bu farw cyn dechreu. Yn y cyfnod hwn, cynnaliwyd cyfarfod pregethu yn Ngwalchmai. Yn mhlith eraill, yr oedd y diweddar Barch. John Jones, Talsarn, yn pregethu ar 'Cymmer afael ar y bywyd tragwyddol;' un o bregethau mwyaf nerthol ei oes. Ar ganol y bregeth, dywedai—'Dyma gyfarfod nad aiff byth yn ofer, mi gymmeraf fy llŵ.' Ac nid aeth yn ofer chwaith. Chwanegwyd at yr eglwys tua deugain, a mwy o lawer at eglwys Bryn du, mewn canlyniad iddo; ac o blith y dychweledigion hyn, cafwyd amryw o flaenoriaid i eglwys Bryn du. Yn y cyfnod hwn hefyd, cafwyd cyfarfod eglwysig hynod iawn yn Ngwalchmai. Yr oedd Robert Edwards, un o'r blaenoriaid, wedi bod yn Nghyfarfod Misol Niwbwrch, lle yr oedd diwygiad crefyddol lled gryf wedi tori allan; ac ymddengys ei fod yntau wedi cyfranogi o wrês yr adfywiad. Ar ol derbyn y casgliad misol, trowyd y cyfarfod eglwysig yn gyfarfod gweddi, i ofyn am adfywiad ar grefydd yn y gymmydogaeth hono. Aeth dau i weddi—pob peth yn ddigon hapus ac esmwyth, heb ddim neillduol; ond yn drydydd, aeth Robert Edwards i weddïo; ac mor lawn o'r tân nefol oedd efe ei hun fel yr aeth pawb oedd yn bresennol ar dân gydag ef. Dyn tawel a phwyllog oedd efe; ond dechreuodd guro y bwrdd nes oedd yr arian arno yn neidio, ac yn tincian, a thorodd y gynnulleidfa allan mewn cân a gorfoledd; a phan y dychwelodd y Parch. David Charles gartref, yr oedd hi yn bump o'r gloch y boreu, wedi bod yn y capel trwy y nos, a'r capel wedi ei lenwi gan bobl y pentref. Yr oedd hyn yn Nhachwedd, 1859. Dechreuodd y Parch. Hugh Williams bregethu yn y fl. 1860, ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1874.

Dothan.—Adeiladwyd ysgoldy, neu gapel bychan, yma, yn y cyfnod hwn. Nid ydym yn sicr o'r flwyddyn; ond tybir mai tua'r fl. 1849. Ceir cyfeiriadau at Dothan yn nghofnodion y Cyfarfod Misol rai blynyddoedd ar ol y flwyddyn grybwylledig. Yn Nghyfarfod Misol Bodedern, Mawrth 22ain, 1858, ceir y penderfyniad canlynol:—'Gorchymynwyd cyflwyno y papyrau ynghylch

Dothan i Mr. Dew, gan ddymuno iddo ymddiddan â chyfreithiwr yr ystâd.' Yn Nghyfarfod Misol Dwyran, Mai 3ydd, 1858, penderfynwyd—'Ein bod yn rhoddi pob hawl yn ysgoldy Dothan i fyny; ond ein bod i'w gymeryd am *rent* blynyddol cymmedrol, heb fod yn rhwym ond i chwe mis o *notice.*' Ymddengys fod rhyw ychydig o annealltwriaeth yn ffynu o berthynas i'r ysgoldy. Yn y fl. 1859, corphorwyd eglwys yma; a dewiswyd Owen Evans, Ceryg-hafael, yn henuriad; a Hugh Roberts yn y fl. 1863. Tua'r fl. 1860, ail adeiladwyd y capel. Yn nghofnodion y Cyfarfod Misol a gynnaliwyd yn Llanrhyddlad, Mai 12fed, 1862, 'penderfynwyd cael gwneyd *lease* newydd ar gapel Dothan am 999 o flynyddoedd, am 1*p.* yn y flwyddyn o *ground rent.*' Yr oedd yma bregethu rheolaidd mewn cyssylltiad â Gwalchmai, a golwg siriol ar yr achos, ac ystyried nad oedd, ac nad yw y gymmydogaeth yn un boblog.

Seion.—Yn y fl. 1847, dewiswyd John Thomas a Hugh Hughes, Cors-yr-eira, yn flaenoriaid; ac yn y fl. 1855, dewiswyd Thomas Griffith. Bu gŵr o'r enw William Williams hefyd yma am beth amser yn flaenor yn y cyfnod hwn. Daeth yma o Talwrn, a symmudodd i Rhoscolyn. Y daith Sabbath y pryd hwn oedd Seion, Carmel, ac Elim. Nid oedd y gymmydogaeth yn un boblog iawn; ac felly, nid oedd yma eglwys gref; er hyny, yr oedd yn un siriol a gweithgar.

Gosen, Llangwyllog.—Gadawsom yr eglwys hon yn y cyfnod blaenorol gyda marwolaeth Hugh Jones, yr Hafod, yr hyn a gymmerodd le yn y fl. 1843. Yn y cyfamser, yr oedd John Pritchard, Ty'n-yr-onen, ac Owen Thomas, yr Hafod, wedi eu dewis yn flaenoriaid. Yr oeddynt yn ddynion parchus yn eu cymmydogaeth, yn gystal ag yn yr eglwys. Bu Ty'n-yr-onen yn gartref i bregethwyr am flynyddoedd lawer, a pharhâ felly hyd heddyw. Bu John Pritchard farw yn y fl. 1859. Yr oedd Owen Thomas wedi marw er y fl. 1847, ac felly, ni chawsom ddim cymdeithas âg ef; ond yr ydym yn cofio ei weled ef. Arferai yr hynod John Owen, Ceryg-ddewi, ei ganmawl, gan roddi y cymmeriad uchaf iddo. Yn y fl. 1849, dewiswyd Hugh Jones,

Yr Hafod, yn flaenor; a bu farw yn y fl. 1860. Yr oedd ef yn fab i'r enwog H. Jones, o'r un lle. Ceid yma amryw deuluoedd caredig i'r achos, a llettygar i bregethwyr. Cofus genym weled pethau nerthol yn y lle hwn ychydig flynyddau cyn diwedd y cyfnod hwn. Yn y fl. 1855, dewiswyd John Owen, Ceryg-ddewi, a David Williams, Tŷ Capel, yn flaenoriaid.

Gad.—Rhyw ddwy filldir, neu lai, o Gosen, y mae pentref a elwir Bodffordd, yn mhlwyf Hen-eglwys. Yn nechreu y cyfnod hwn, neu ddiwedd yr un blaenorol, cynnelid Ysgol Sabbothol mewn lle a elwir Cae-yr-ychain; wedi hyny, mewn lle o'r enw Ty'n-yr-allt; ac ar ol hyny, mewn Ysgubor Ddegwm. Ceid pregeth yn achlysurol yma yn y cyfnod hwn. Yn y fl. 1842, yr adeiladwyd y capel, a galwyd ef Gad. Talwyd ei ddyled cyn ei agoriad, trwy i Hugh Jones, Yr Hafod, fyned ar daith trwy y sir i gadw cyfarfodydd eglwysig, ac i gasglu ato, pan oedd efe yn ei 80ain mlwydd oed. Cafwyd tir gan Francis Hughes, Bodhenlli. Gwnaeth rhai boneddigion eu goreu i rwystro iddo gael ei adeiladu yn y lle y gwnaed; o blegid ei fod yn rhy agos i'r parsondy, a bod yn rhaid i'r parson fyned heibio iddo wrth fyned i a dyfod o'r eglwys; ac, wrth gwrs, y byddai hyny yn ddolur llygad i'r gŵr parchedig. Gwnaed yr eglwys hon i fyny ar y cyntaf â rhai o Gosen a rhai o Walchmai. Bu pregethu yn y gymmydogaeth yn y cyfnod cyntaf; sef, yn Mhen-yr-allt, tŷ Thomas Thomas—un o'r tri brawd o'r Tŷ gwyn—tra y bu efe byw; ond bu yn amddifad o foddion gras o'r pryd hwnw hyd y cyfnod hwn. Y blaenoriaid cyntaf oeddynt Daniel Jones, yr hwn a ddaeth o Aberffraw, ac a symmudodd oddi yma i Gaergybi; a Hugh Jones, yr hwn a ddaeth o Dŷ mawr, ac a fu farw yn y fl. 1868. Yn y fl. 1847, dewiswyd Evan Jones, Ty'n-rhos, a William Jones, Ty'n-'rallt, yn flaenoriaid. Yn y fl. 1858, dewiswyd John Evans, Ty'n-rhos—mab i Evan Jones, o'r un lle, yn flaenor. Bu Evan Jones farw yn y fl. 1857.

Llangefni.—Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd y Parch. Thomas Owen yn byw yma, ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1854. Richard Davies, Griffith Parry, William

Edwards, fferyllydd; a William Jones, Ty'n-y-coed, oeddynt y blaenoriaid. Bu Richard Davies farw yn y fl. 1849. Diswyddwyd William Edwards yn y fl. 1851; a bu farw William Jones yn y fl. 1855. Yn y fl. 1850, dewiswyd Samuel Dew, Y Fron, yn flaenor, yr hwn a fu am lawer o flynyddoedd yn ŵr o farn a dylanwad yn yr eglwys, y dref, a'r Cyfarfod Misol. Daeth yn un o brif henuriaid Methodistaidd yr ynys. Mrs. Dew, hefyd, yd-oedd yn un o'r gwragedd duwiolaf yn yr holl sir. Yn y fl. 1847, daeth y Parch. James Donne i Langefni i fyw, ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1851. Bu yn masnachu, yn pregethu, ac yn bugeilio yr eglwys am flynyddoedd. Dyma oedd sefyllfa pethau yr adeg hon. Yn y fl. 1847, dechreuodd y Parch. Daniel Rowlands, M.A. (Bangor), bregethu. Wedi iddo orphen ei addysg, cafodd alwad i fugeilio yr eglwys Fethodistaidd yn Llanidloes. Ordein-iwyd ef yn y fl. 1857, ac y mae yn un o'r dynion mwyaf gweithgar yn y cyfundeb. Yn y fl. 1854, dewiswyd Wil-liam Rowlands, Carog; William Roberts, Lledwigan; Owen Williams, Pen-yr-orsedd; ac ail-ddewiswyd Wil-liam Edwards, y fferyllydd, yn flaenoriaid; ac yn y fl. 1856, daeth Thomas Lloyd yma o Liverpool. Bu William Edwards farw yn y fl. 1856, yn mhen o ddeutu blwyddyn ar ol ei ail-ddewisiad. Yr oedd yma eglwys gref a chyn-nulleidfa liosog yn y cyfnod hwn. Cynnulleidfa Llan-gefni oedd un o'r rhai goreu yn yr holl sir am ddyfod i oedfa boreu Sabbath. Yr oedd yma hefyd ganu da.

Gaerwen.—Yn y cyfnod hwn, yr oedd y Parch. Robert Hughes yma, ac yn pregethu yn y daith yn amlach nag un pregethwr arall. Y blaenoriaid yn nechreu y cyfnod oeddynt Griffith Roberts, Cefn du; Owen Williams, Gaerwen; a William Owen; ond diswyddwyd Owen Wil-liams yn y fl. 1846, a William Owen yn y fl. 1852. Yn y fl. 1858, dewiswyd John Hughes, brawd y Parch. R. Hughes, yn flaenor. Yn y cyfamser, bu gŵr o'r enw John Thomas yn swyddog yma—wedi dyfod i Gaerwen o Talwrn. Yn y fl. 1860, dewiswyd Owen Morris, Tŷ croes, a Hugh Lewis, Pentre berw, yn henuriaid. Ym-fudodd y cyntaf i America. Yn y fl. 1847, dechreuodd y Parch. Owen Williams, o Lanrhyddlad, bregethu; ac

ordeiniwyd ef yn y fl. 1857. Symmudodd oddi yma i Niwbwrch, ac oddi yno i Lanrhyddlad, lle y bu farw. Yn y fl. 1859, dechreuodd y Parch. William Jones bregethu; ond symmudodd i Barrow, ac oddi yno i'r Amwythig.

Bethania.—Hugh Williams, Fron deg, ac Owen Davies, Marquis, a geid yma yn flaenoriaid yn nechreu y cyfnod dan sylw; a'r Parch. John Jones yn bugeilio gyda hwy, yn ol yr hen drefn. Cafodd ef ei ordeinio yn y fl. 1854. Bu Hugh Williams farw yn y fl. 1848. Yn y fl. 1849, dewiswyd Owen Williams, Fron deg, yn flaenor. Symmudodd Hugh Hughes hefyd o Langristiolus i'r lle hwn, a bu yn weithgar a ffyddlawn hyd angeu, nid yn unig yn Methania, ond hefyd yn y Cyfarfod Misol. Ystyrid ef yn un o brif flaenoriaid y sir, ac anfonid ef yn fynych i dalu ymweliadau âg eglwysi ar achosion neillduol. Perthynai llawer o hynodion i'r hen frawd hwn. Gorweddai achos crefydd yn agos iawn at ei galon. Nid oedd ei ffyddlonach yn y sir i ddilyn y Cyfarfod Misol. Daw dan sylw etto. Bu Owen Davies farw yn y fl. 1862. Adeiladwyd capel newydd yma yn y fl. 1851.

Niwbwrch.—Yn y cyfnod hwn, yr oedd Escw Davies yn flaenor; ond, o herwydd rhywbeth, ymunodd à'r Annibynwyr. Yn 1845, dewiswyd Robert Hughes, Tyddyn pwrpas, un o'r dynion ffyddlonaf yn y sir. Ni byddai byth yn colli unrhyw foddion o ras, ond gadawai bob gwaith er mwyn myned i'r capel; ac yr oedd yn ŵr gonest a chywir yn mhob peth. Cafodd argyhoeddiad dwfn yn nechreuad ei yrfa grefyddol; ac am hyny, gellid disgwyl iddo fod yn ŵr o ddifrif. Bu yn gwasanaethu fel blaenor am o ddeutu deugain mlynedd; a bu farw yn y fl. 1887. Dewiswyd William Roberts, mab i Owen Roberts, Maes-y-ceirchdir, yn flaenor; ond. ni chafodd fwy nag un Cyfarfod Misol ar ol ei ddewis. Yn y fl. 1857, gwnaed Richard Jones, tad y Parch. W. Jones, yn swyddog; ac yn y fl. 1861, William Jones ei hun. Yn y fl. 1860, adeiladwyd capel newydd. Ceid yma eglwys gref, a chynnulleidfa liosog, yn y cyfnod hwn. Yn y fl. 1859, mwynhawyd diwygiad nerthol yn Niwbwrch, canlyniadau daionus yr hwn sydd i'w ganfod hyd heddyw.

Dwyran.—Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd y Parch. D. Jones yn weinidog yn y Dwyran, ac Evan Evans a John Humphreys, yn flaenoriaid. Tua'r fl. 1846 y dewiswyd Thomas Jones, Cae llechau (Gelliniog goch yn bresennol), yn flaenor. Bu Evan Evans farw yn y fl. 1847. Tua'r un flwyddyn, daeth y Cadben Lloyd yma. Gŵr plaen ac unplyg iawn oedd David Jones. Daeth gwas Gelliniog goch i'r seiat, a gofynodd D. Jones iddo, 'Pa'm y daethost ti yma heno, Will?' Wedi i Will roddi atteb-iad, gofynodd drachefn iddo, 'A wyt ti yn peidio hela ar ol rhai o'r merched yma? Clywais dy fod yn troi o gwmpas Betsi, morwyn y Rhyddgaer.' Pa fodd bynag, gallodd Will glirio ei hunan; a chyn y diwedd, cafwyd allan fod Betsi yn cymdeithasu âg un arall, i'r hwn, yn fuan, y daeth yn wraig. Byddai David Jones yn pregethu ei bregeth newydd yn gyffredin ar noson waith yn y Dwyran; ond byddai yn hynod anhwylus weithiau, a dywedai, ar y prydiau hyny, yn fynych, yr ymadrodd, 'Craffwch, fy mhobl i;' ac wedi myned allan, sylwai hen frawd doniol, o'r enw Henry Williams, 'David Jones yn peri i ni graffu; ond methais i yn glir a gweled fod ganddo ddim heno gwerth craffu arno.' Bu y Parch. D. Jones farw yn y fl. 1853. Yn 1852, ceid yma ŵr o'r enw Benjamin Jones yn dechreu pregethu; ond ymadawodd yn y fl. 1854. Yn y fl. 1854, dewiswyd Robert Pritchard, Cae du, a William Ellis, Tal-y-pongciau, yn flaenoriaid. Symmudodd y cyntaf i Frynsiencyn; a diswyddwyd y diweddaf yn 1863. Bu J. Humphreys farw yn y fl. 1861, ac H. Pritchard yn y fl. 1863. Yn y fl. 1859, dewiswyd Griffith Jones, Bryn teg, ac Elias Jones, Pen craig, mab i'r Parch. D. Jones, yn swyddogion. Yn y fl. 1864, symmudodd John Hughes i'r Erw goch o Fynydd Bodafon. Yr oedd ef yn flaenor cyn dyfod yma, yn Nghaersalem. Yn y cyfnod hwn, yr oedd Dwyran, Niwbwrch, a Bethania, yn daith Sabbath – un bregeth yn mhob un o'r tri. Weithiau byddai dau bregethwr yn y daith. Yn y cyfnod hwn, sef yn 1854, symmudodd y Parch. William Jones yma o Frynsiencyn.

Brynsiencyn.—Yn y cyfnod hwn, symmudodd Robert Jones, Wrach ddu, i sir Gaernarfon; a bu William

Williams farw yn yr un flwyddyn, sef 1846. Diarddelwyd Richard Pierce yn y fl. 1844. Dewiswyd John Roberts, Siop, a William Jones, garddwr, yn flaenoriaid yn y fl. 1845; a William Jones, Llyslew, a William Jones, Tŷ mawr, yn y fl. 1847. Yr oedd John Roberts yn un o'r dynion mwyaf hynaws wrth bregethwyr, a'i briod yn wastraffus mewn caredigrwydd; ac am William Jones, Llyslew, ei wraig, a'i blant, gellir dyweyd iddynt fod yn ymgeleddwyr o'r fath oreu i Fethodistiaeth. Ni fu teulu mwy caredig i bregethwyr o fewn Ynys Môn na theulu Llyslew: eu tŷ yn agored bob amser iddynt. Bu William Jones farw yn y fl. 1864. Yn y fl. 1858, adeiladwyd oriel ar y capel, ac yr oedd hyn yn welliant mawr arno. Yr oedd yma eglwys gref, a chynnulleidfa dda, yn y cyfnod hwn. Brynsiencyn a Llanfair P. G. a ffurfient y daith Sabbath. Bu y Parch. William Jones yma cyn myned i'r Dwyran: wedi dyfod yma o Arfon, yn y fl. 1851.

Cefn Bach, yn mhlwyf Llanedwen, sydd gapel newydd. Bu ar galon aml Fethodist adeiladu tŷ i'r Arglwydd yn y gymmydogaeth hon, fel y bu ar galon Dafydd wneyd; ond buont feirw, fel yntau, heb wneyd, o herwydd fod boneddigion yr ardal yn gommedd lle iddynt. Dechreuwyd yr achos yn yr ardal hon, fel mewn llawer o ardaloedd eraill, yn y ffurf o Ysgol Sabbothol. Bu yma Ysgol Sabbothol am tua deugain mlynedd cyn adeiladu capel. Dechreuodd mewn lle o'r enw y *Finger*. Aeth oddi yno i lofft yr ystordy Moel-y-don, ac oddi yno i Ysgubor Ddegwm Pen-y-bryn coch. Y prif weithwyr gyda hi oeddynt Robert Jones, Gwrach ddu, a John Hughes, Moel-y-don —brawd i'r diweddar Barch. Hugh Hughes, Beaumaris. Dywedir hefyd, yn y *Drysorfa*, am 1863, i'r ysgol fod yn y Wrach ddu. Yr ydym yn credu mai camgymmeriad yw hyn. Wedi marwolaeth Robert Jones, aeth yr ysgol i lawr; ond tua'r fl. 1856, ail ddechreuodd, pan y cymmerwyd tŷ bychan o dan ardreth, yr hwn a ddaeth, mewn amser, yn rhy gyfyng i'w chynnal. Gwnaed cais drachefn am le i adeiladu capel, ond yn hollol ofer. Parhawyd gyda'r ysgol, er yr holl anfantais, a chynnelid cyfarfodydd gweddi yn wythnosol; ac yn y rhai hyn gof-

ynid ynddynt i Wrandäwr gweddi, yn llaw yr hwn y mae calonau mawrion y tir, i gyffwrdd â'u calonau, nes peri iddynt roddi lle i helaethu y babell. Trwy lafur diflino Lewis Jones, Llwyn Onn; John Roberts, Glan-yr-afon; a Richard Owen, Gwrach ddu, llwyddwyd i gael, gan Ardalydd Môn, le cyfleus ar fin y ffordd sydd yn arwain o Foel-y-dòn i Gaerwen. Yn y flwyddyn 1863, adeiladwyd capel hardd, yn dair llath ar ddeg wrth naw a hanner oddi mewn. Nid oedd yr eglwys a'r gynnulleidfa ond bychain mewn cymmhariaeth. Rhif yr eglwys ar y dechreu oedd tua thrigain. Casglwyd, cyn agor y capel, 140*p*. Rhoddodd W. B. Hughes, Ysw., geryg at ei adeiladu; a bu amaethwyr yr ardal yn ffyddlawn i gludo y defnyddiau ato. Anrhegwyd yr eglwys hefyd â Beibl a llyfr hymnau gan Miss Mary Williams, Porthedwen, ynghyd â llestri cymmundeb gan Miss Mary Roberts, Glan-yr-afon. Y blaenoriaid yn y cyfnod hwn oeddynt William Evans, Lewis Jones, a David Jones. Dewiswyd hwy yn y fl. 1863. Bu William Evans farw yn y fl. 1866.

Llanfair.—Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd William Pritchard, dilledydd, a John Jones, crydd (Caergybi yn awr), yn henuriaid. Dewiswyd y diweddaf yn y fl. 1845. Yn y fl. 1852, dewiswyd John Hughes a William Jones, Siop. Bu y cyntaf farw yn y fl. 1859; ac yn yr un flwyddyn, dewiswyd Madog Jones ac Owen Prytherch i'r swydd. Yn y cyfnod hwn hefyd, helaethwyd y capel. Bu William Pritchard farw Mawrth 8fed, 1864, yn 75ain mlwydd oed, wedi bod yn flaenor am naw ar hugain o flynyddoedd. Bu yma deulu caredig iawn i'r achos yn y cyfnod dan sylw; sef, teulu y Cadben William Evans, *Post Office*. Yr oedd W. Evans yn ŵr anwyl, tawel, ac ystwyth; yn ddirwestwr selog, ac nid anghofiodd letty-garwch. Bu farw Gorphenaf 21ain, 1867, yn 88ain mlwydd oed. Griffith Roberts, Garnedd wen, oedd ŵr crefyddol a llettygar; Thomas Lewis, y Graig, Treddafydd, oedd dra haelionus; ac Humphrey Roberts, Pwllfanog, oedd hen frawd â llawer o neillduolion yn perthyn iddo. Dywedir mai ychydig yn mhlith feibion Môn a fu yn offerynau i ddysgu mwy o fechgyn i ddarllen nag ef.

Porthaethwy.—Y blaenoriaid yma yn nechreu y cyfnod hwn oeddynt William Thomas, John Williams, ac Owen Rowlands. Bu y cyntaf farw yn 1852, a'r trydydd yn 1848. Yn nechreu y fl. 1845, caniatawyd i Dr. Charles gael rhyddid i gynghori yn y dosbarth dwyreiniol o'r ynys. Yn y fl. 1842, dewiswyd Roger Evans yn henuriad; a bu yn un o'r rhai mwyaf gweithgar yn yr ynys yn y cyfnod hwn a'r un dilynol. Yn y fl. 1851, dewiswyd Richard Davies, Arglwydd Raglaw sir Fôn—gŵr anrhydeddus mewn byd ac eglwys. Daeth blaenor o'r enw William Jones yma o Landegfan hefyd. Yn y fl. 1852, dewiswyd Hugh Williams, y Graig—tad y Parch. Hugh Williams, M.A., Bala. Yn y fl. 1861, syrthiodd y dewisiad ar Hugh Williams, masnachwr, a William Evans, mab Roger Evans. Ceir sylwi yn y cyfnod nesaf ar y cyntaf. Cafwyd siomedigaeth fawr yn y diweddaf, er ei fod yn ŵr ieuangc galluog ac addawol iawn ar y dechreu; a gobeithiwn y dychwel at esgob a bugail eneidiau cyn y dychwel ei gorph i'r pridd. Ail adeiladwyd y capel yn y fl. 1856. Bu y Parch. John Hughes, D.D., Liverpool, yma am rai blynyddoedd yn y cyfnod hwn. Yr oedd ef yma yn y fl. 1853; ac yn 1858, symmudodd i Liverpool. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1854. Cydnabyddir Dr. Hughes yn un o'r pregethwyr mwyaf galluog yn ein cyfundeb. Y mae Môn—mam Cymru—yn falch o hono ef, fel un o'i meibion; a dylai yntau fod yn falch o'r fam a'i magodd.

Penmynydd, rhwng Porthaethwy a Llangefni.—Dechreuodd yr achos mewn lle o'r enw Dragon wen, lle y trigai William Pritchard, yr hwn a symmudodd i Lanfair P. G. Tua'r fl. 1827, neu ychydig o flynyddoedd yn gynt, pregethid a chynnelid Ysgolion Sabbothol yn Dragon bach ac yn Felin-engan. Dywedir mai yn y lle diweddaf yr argyhoeddwyd Thomas Owen, Penhescyn, a'r Parch. Owen Jones, Llandudno. Yr oedd y diweddaf yn gwasanaethu ar y pryd yn Penhescyn. Yn y fl. 1833, adeiladwyd capel, a galwyd ef Gilëad. Y mae y capel hwn yn agos i Minffordd—y lle cyntaf a gofrestrwyd i bregethu gan William Pritchard, Plas Penmynydd. Yr oedd Thomas Owen, Penhescyn, yn flaenor yn Mhen-y-

garnedd; ond pan ffurfiwyd eglwys Gilëad, daeth yn swyddog ynddi. Yma y dewiswyd Hugh Roberts, Nant, cyn iddo fyned i Talwrn. Dewiswyd John Hughes, Ty'n-buarth, yn henuriad hefyd. Thomas Owen a John Hughes a fuont yn swyddogion ffyddlawn am flynyddoedd, a Phenhescyn a Thy'nbuarth yn gartrefi i bregethwyr. Bu Thomas Owen farw yn y fl. 1852. Yn y fl. 1853, dewiswyd Thomas Evans, Castell, yn flaenor. Heb law ei hynodrwydd ef ei hun, yr oedd efe yn disgyn o hen foncyffion hynod; sef, o Thomas Williams, Pwll-yr-hwyaid, yr hwn oedd yn daid iddo o du ei fam, ac o Evan Evans, Penrhyn bach—un o flaenoriaid y Dwyran yn y cyfnod blaenorol—yr hwn oedd yn dad iddo. Yn y fl. 1859, dewiswyd Thomas Hughes, Ty'n-y-buarth—mab i John Hughes, o'r un lle; ond symmudodd ef i Frynsiencyn. Yn y fl. 1863, dewiswyd Owen Hughes—mab arall i John Hughes—a Thomas Jones, Sarnfraint. Bu John Hughes farw yn y fl. 1871. Adeiladwyd y capel newydd yn y fl. 1856. Eglwys a chynnulleidfa fechain sydd yma, am nad yw y boblogaeth ond teneu. Pan y daeth Thomas Evans yma o ardal y Dwyran, dywedai y Parch. David Jones fod yn rhaid dinystrio tair oes yn yr ardal cyn y byddai trefn arni, o herwydd yr erlid a fu ynddi. Gofynodd y Parch. W. Roberts, Amlwch, i Thomas Evans, pa fodd yr oedd efe yn caru y fath gymmydogaeth; a dywedodd yntau yr hyn a ddywedasai David Jones wrtho. Yna dywedodd Roberts—'Peidiwch a'i gredu ef; ond cofiwch eiriau Crist, 'gan ddechreu yn Ierusalem.'' Bu Gilëad mewn cyssylltiad â'r Gaerwen yn daith Sabbath am flynyddoedd.

Llandegfan.—Sefydlwyd Methodistiaeth yn Mhorthaethwy yn gynt nag yn Llandegfan; ond yr ydym yn cael y lle diweddaf yn anfon cynnorthwy i'r lle cyntaf. Yn y fl. 1848, dewiswyd Lewis Williams, David Roberts, a John Hughes, yr hwn a ymfudodd i America yn y fl. 1857, yn flaenoriaid. Bu yma swyddog arall am ychydig amser; sef, William Jones; daeth yma o Langefni, ond symmudodd i Borthaethwy. Yn y fl. 1858, dewiswyd Thomas Lewis, a John Hughes, Cyttir. Yn y fl. 1859, dechreuodd y Parch. Thomas Grey, Manchester, bregethu.

Ordeiniwyd ef yn y fl. 1865; ac y mae efe yn bregethwr poblogaidd. Symmudodd i'r Trallwm, oddi yno i Rhyl, ac oddi yno i Fanchester. Chwanegodd yr Arglwydd beunydd at yr eglwys hon, fel y daeth y capel yn rhy fychan; a chafodd ei ail adeiladu yn y fl. 1859. Ail agorwyd ef ar y Sabbath cyntaf yn Ionawr, 1860. Cafwyd cyfarfod nerthol a llwyddiannus. Chwanegwyd at yr eglwys o ddeutu deugain. Yr oedd diwygiad grymus iawn yn y sir ar y pryd; a chafodd yr eglwys hon ran helaeth o hono.

Beaumaris.—William Bryan, *grocer;* Thomas Owen, Cremlyn; Robert Jones, Ysgubor wen; a Robert Jones, Cremlyn, oeddynt y blaenoriaid yma yn nechreu y cyfnod dan sylw. Bu y cyntaf farw yn y fl. 1853, yn 48ain mlwydd oed. Yn y fl. 1847, dewiswyd Josiah Williams, *ironmonger,* yn flaenor. Yn y fl. 1857, dewiswyd Owen Parry, masnachwr, yn swyddog; ond symmudodd i'r Derri, yn agos i'r Parc; ac y mae yn awr yn y Ffynnogion, ger Rhuthyn, ac yn gwasanaethu ei swydd yn ffyddlawn yn nghapel y Rhiw. Yn y fl. 1861, dewiswyd John Williams, masnachwr; Richard Ll. Humphreys, *clerk;* Robert Parry, *wheelwright;* a Thomas Parry, saer ceryg, yn flaenoriaid. Yr oedd y Parch. Hugh Hughes yn pregethu yma y Sabbath cyntaf o bob mis trwy y cyfnod hwn. Y daith Sabbath y pryd hwn oedd Beaumaris a Llangoed. Bu Robert Jones, Ysgubor wen, farw yn y fl. 1862; Thomas Parry, saer ceryg, tad y Parch. O. Parry, Cefn bach, yn y fl. 1866; Josiah Williams, yn y fl. 1875; Robert Parry, yn y fl. 1877; a John Williams, masnachwr, yn y fl. 1878.

Llangoed.—Griffith Roberts, Rhyd, oedd y swyddog yma yn y cyfnod hwn. Wedi diswyddo Owen Jones, Pen-y-maen, disgynodd gofal yr achos ar y brawd Griffith Roberts; a bu efe a'i briod, Elizabeth Roberts, yn gynnorthwy mawr i Fethodistiaeth—eu tŷ yn agored i weinidogion yr efengyl bob amser. Cyfarfyddasant â phrofedigaeth lem, trwy i'w masnachdy, yr holl nwyddau, a'r holl adeiladau, fyned ar dân. Buont mewn perygl mawr am eu bywydau, canys cyrhaeddodd y tân i'w hystafell wely cyn iddynt ddeffro. Am nad oeddynt wedi yswirio eu

heiddo, yr oedd y golled yn fawr; ond ni chafodd neb golled trwy yr holl helynt hwn ond y teulu. Gwenodd Rhagluniaeth arnynt drachefn, a daeth Rhyd newydd yn gartref i Fethodistiaeth megys cynt, ac yn y cyfnod dilynol hefyd. Bu Thomas Davies, Glan-yr-afon, yn swyddog yma am rai blynyddoedd, a bu yn dra ffyddlawn; ond bu farw yn y fl. 1850. Yn yr un flwyddyn, dewiswyd Owen Roberts, Tyddyn paun; a bu yntau yn gefn mawr i'r achos am lawer o flynyddoedd. Byddai ef a Griffith Roberts yn myned gyda'u gilydd i ymweled â'r cleifion, ac i gadw cyfarfodydd gweddi yn y tai. Er nad oedd Owen Roberts yn ddoniol, yr oedd o gymmeriad pur a charedig; ac felly, yn meddu dylanwad mawr. Bu farw yn y fl. 1862. Yn y fl. 1851, dewiswyd Thomas Hughes, Tyddyn crwn, yn flaenor.

Peniel, Llanddona.—Adeiladwyd y capel presennol yn y fl. 1849. Tua'r adeg hon, daeth gŵr ieuangc o'r enw Owen Owens yma i gadw ysgol ddyddiol i'r hen gapel. Yn y fl. 1851, dechreuodd bregethu, a symmudodd i ardal Bethel; a dyma y gweinidog parchus a adnabyddid fel y Parch. Owen Owens, Bethel. Yn yr un flwyddyn, dewiswyd John Owen, Bryn glas, yn flaenor; yn y fl. 1857, John Oliver, Carwad; ac yn y fl. 1859, Henry Owen, Bryn Castell—mab i'r hen flaenor parchus Owen Jones, o'r un lle; ond diarddelwyd ef yn y fl. 1873. Yn yr un flwyddyn (1859), dewiswyd Thomas Owen, Bryn glas, yn flaenor. Yn y cyfnod hwn, Llanddona, Pen-uchel-dref, a Phen-y-garnedd, ydoedd y daith Sabbath. Yr oedd y Parch. Richard Owen, Pen-y-garnedd, yn arfer pregethu yn y daith un Sabbath yn y mis. Yr oedd yma eglwys liosog a chynnulleidfa dda yn y cyfnod hwn, pan ystyrir mai ardal wledig ydyw.

Pen-uchel-dref.—Y mae yr ardal hon rhwng Pen-y-garnedd a Llanddona, heb fod yn mhell o Landegfan a Beaumaris. Nid yw Methodistiaeth yn hen sefydliad yma. Arferai holl Fethodistiaid y gymmydogaeth fyned i'r naill neu y llall o'r lleoedd crybwylledig. Yr oedd yma Ysgol Sabbothol a phregethu yn y trydydd cyfnod. Adeiladwyd y capel tua'r fl. 1831; ond yn y fl. 1845 y corphorwyd yr eglwys, o dan ofal Robert

Jones, Cremlyn, yr hwn oedd yn flaenor yn Beaumaris. Yn y fl. 1846, dewiswyd Hugh Thomas, *College;* ond bu farw yn y fl. 1858; a symmudodd Robert Jones hefyd i gymmydogaeth Elim. Yn y fl. 1856, dewiswyd John Jones, Rhos-owen, a Robert Thomas, Rhos; ond bu y diweddaf farw yn y fl. 1876, a symmudodd y cyntaf i Ben-y-garnedd. Yn y fl. 1861, dewiswyd Thomas Edwards, Uchel-dref, yn swyddog; a bu yntau farw yn y fl. 1866. Pen-uchel-dref, Llanddona, a Phen-y-garnedd, oedd y daith Sabbath yn y blynyddoedd hyn.

Pen-y-garnedd.—Yn y fl. 1843, bu farw John Thomas, o'r Hen Drefor, yn 72ain mlwydd oed. Yn fuan wedi hyny, daeth Thomas Williams, o Bethesda, yma, trwy briodi merch iddo; ac arosodd yma hyd y fl. 1854, pan ymfudodd i America, lle y dechreuodd bregethu tua'r fl. 1856. Daeth yn ol i Gymru yn y fl. 1861; a bu farw yn y fl. 1877, yn 69ain mlwydd oed. Yn y fl. 1845, bu farw Richard Jones, Bryn mawr (Rhos-owen gynt), yn 79ain mlwydd oed. Yn y fl. 1846, daeth y Parch. Richard Owen yma o Arfon. Yn 1867, ordeiniwyd ef. Nid oes dim ammheuaeth na fu y gweinidog hwn yn weithgar ac yn ffyddlawn i bregethu mewn wylnosau, ac angladdau, yn y cyfnod hwn. Yn y flwyddyn 1851, dewiswyd Owen Jones, Ty'n-y-llan, yn flaenor, gŵr ieuangc tua 23ain mlwydd oed; a blaenorodd yn ngwir ystyr y gair, trwy ofalu am yr achos yn ei allanolion, ac am ieuengctyd yr eglwys, a cherddoriaeth y cyssegr. Bu farw yn y fl. 1880. Yn y fl. 1849, cafodd yr eglwys hon chwanegiad lled fawr. Yn y fl. 1855, bu farw William Roberts, Cae'r-gors. Yn y fl. 1858, symmudodd John Owen o Ben-uchel-dref i Rhos-owen i fyw, yr hwn oedd yn swyddog cyn iddo ddyfod yma; a chydnabyddwyd ef yn flaenor. Yn y fl. 1860, daeth William Evans hefyd o Lanallgo i'r Orsedd i fyw; a chydnabyddwyd yntau yn flaenor. Yn y fl. 1861, symmudodd Hugh Jones, Cae uchaf, i Fangor; ond bu raid i Gyfarfod Misol Môn ei ddiswyddo ef.

Nazareth, Pentraeth.—Yn nechreu y cyfnod presennol, John Williams, Fron goch, a Griffith Thomas, gôf, oeddynt yr henuriaid yn Nazareth. Symmudodd y cyntaf

i Arfon, a bu y diweddaf farw yn y fl. 1850. Yr oedd y Parch. David Elias hefyd yma yn y cyfnod hwn. Yn y fl. 1848, dewiswyd gŵr o'r enw Robert Hughes yn flaenor, ond bu farw yn mhen o ddeutu tair blynedd. Yn 1855, galwyd Griffith Thomas, gôf—mab i'r hen flaenor o'r un enw—yn swyddog; a'r flwyddyn ganlynol, dewiswyd gŵr o'r enw Robert Jones, Pandy; ond symmudodd ef i Arfon yn 1864. Bu Griffith Thomas farw yn 1861. Gŵr ieuangc crefyddol a duwiol iawn oedd efe; a chafodd eglwys Nazareth golled fawr yn ei farwolaeth; ond nid oes yr ammheuaeth leiaf yn meddwl y rhai a'i hadwaenai nad oedd dydd ei farwolaeth yn well iddo ef na dydd ei enedigaeth. Y flwyddyn hono, dewiswyd gŵr o'r enw William Hughes, crydd, yn flaenor; ond bu farw yn y fl. 1875. Y mae Nazareth a Glasinfryn yn daith Sabbath—dwy bregeth bob Sabbath yn Nazareth, ac un yn Nglasinfryn. Ail-adeiladwyd y capel yn 1860.

Glasinfryn.—Adeiladwyd capel newydd yn y lle hwn o fewn y cyfnod dan sylw. Mewn Cyfarfod Misol yn Nglasinfryn y cafodd y Parch. William Roberts, Amlwch, un o bregethau mwyaf nerthol ei oes, ar y geiriau, 'Ewch o amgylch Seion,' &c. Cofus genym sylwi ar y brawd Thomas Jones, Dwyran, yn sefyll ar y faingc yn un o'r seddau, ac yn edrych i fyny i ben y capel, fel pe buasai yn gweled trwy y tô, a'i ddwy law i fyny, ac yn gwaeddi, 'O Dduw Mawr!' Gwlaw taranau oedd hwn. Sychodd i fyny yn fuan: nid oedd dim o'i ol erbyn y prydnawn. Y Parch. Ffoulk Evans, Machynlleth, a ninnau, a bregethem; ac nid oedd dim neillduol yn yr oedfa hon. Yn y fl. 1861, dewiswyd William Pritchard, Maesydd, yn flaenor. Pentraeth a Glasinfryn a ffurfient y daith Sabbath y blynyddoedd hyn.

Tabernacl.—Yn y fl. 1848, dewiswyd Richard Williams, Olgra-geryg, a Hugh Thomas, Plas-thelwal, i fod yn flaenoriaid. Bu y ddau o wasanaeth mawr i'r achos yn y lle. Yr oedd y cyntaf yn ddyn hynaws, parod i wneyd unrhyw beth a phob peth a allai. Yr oedd yn wylaidd ac ufudd. Bu yn arweinydd y canu am flynyddoedd. Y diweddaf ydoedd ddyn galluog iawn, a buasai yn sicr o ddyfod yn un o brif flaenoriaid y Cyfarfod Misol, oni

bae i'w amgylchiadau ddyrysu. Symmudodd i Liverpool, a da iawn genym ddeall ei fod wedi ei ddewis yn flaenor gan eglwys Waterloo. Yn 1860, dewiswyd Owen Jones, Minffordd, yr hwn oedd yn fab i Owen Mathafarn, ac yn ddyn distaw a gwylaidd; ond bu farw yn 1879. Yr oedd golwg lewyrchus ar yr achos yn y Tabernacl yn y blynyddoedd hyn. Ffurfiai Llanallgo a'r Tabernacl daith Sabbath y pryd hwn—dwy bregeth yn y Tabernacl ac un yn Llanallgo. Byddai y Tabernacl yn rhoddi oedfa am ddau o'r gloch, weithiau, i Traeth coch. Bu y Parch. John Phillips yma am beth amser; a chyn diwedd y cyfnod, daeth y Parch. John R. Hughes yma o sir Drefaldwyn.

Talwrn.—Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd y Parchn. Cadwaladr Williams a John Prytherch yma fel pregethwyr; a Hugh Roberts, Nant, a John Thomas fel henaduriaid. Diswyddwyd Hugh Roberts yn 1852, a symmudodd John Thomas i'r Gaerwen. Yn 1848, dewiswyd gŵr o'r enw John Griffith; ond symmudodd i Hebron, a diarddelwyd ef yn y fl. 1851. Yn y fl. 1853, dewiswyd John Owen, Tŷ hen; ac yn 1859, yr oedd Hugh Owen ac Edmund Roberts yn flaenoriaid yma. Bu y Parch. Cadwaladr Williams farw yn 1860, a'r Parch. John Prytherch yn 1864. Teimlai yr eglwys yn chwith iawn ar ol y ddau weinidog hyn; wedi iddynt fod yn ei bugeilio cyhyd o amser. Hwy oeddynt bob peth ynddi, a byddent bob amser yr un farn, fel pe na buasai ond un enaid mewn dau gorph. Yr oedd Hugh Roberts yn ŵr caredig iawn. Bu y Nant yn gartref clud i bregethwyr y Methodistiaid am un cyfnod; ond yn anffodus, dyrysodd yn ei amgylchiadau. Y Talwrn, Cefniwrch, a Llangwyllog oedd y daith Sabbath yn y cyfnod hwn.

Cefn-iwrch.—Lle bychan ydyw hwn—y gymmydogaeth heb fod yn boblog. Yr oedd Ysgol Sabbothol yma tua'r fl. 1819, a phregethu yn y cyfnod blaenorol; ond yn yr un presennol y dechreuwyd cadw cyfarfodydd eglwysig yma, tua'r fl. 1841. Cychwynwyr yr ysgol oeddynt W. Samson a J. Jones, Cefn-iwrch, yr hwn a roddodd dir i adeiladu capel tua'r fl. 1828. Yr oedd gan y Parchn. J. Prytherch a C. Williams law yn y gwaith hwn. Elai dau flaenor o Talwrn yno i gynnorthwyo; sef, William

Williams, Pen-y-fan (yr hwn a symmudodd i Gilëad, wedi hyny i Seion, ac yn ddiweddaf i Rhos-colyn), a John Thomas, Llwyn ysgaw. Byddai brodyr eraill hefyd yn myned yno i gynnorthwyo, er nad oeddynt yn flaenoriaid; sef, Richard Parry, Pen-y-cefn, a John Rowlands, garddwr, Plas, Llanddyfnan. Yn y fl. 1856, dewiswyd Hugh Owen, Yr Erw, Tre gaean, yn flaenor—y swyddog cyntaf a ddewiswyd gan yr eglwys hon. Ceir y brawd hwn yn swyddog yn Nhalwrn yn y cyfnod olaf. Y flwyddyn ddilynol, chwanegwyd William Jones, Llys-y-gwynt, ato. Y pryd hwn, yr oedd Gosen, Cefn-iwrch, a Talwrn mewn cyssylltiad â'u gilydd fel taith Sabbath.

Ty Mawr.—Yma, yn y cyfnod hwn, yr oedd John Lewis yn flaenor gweithgar. Yn 1849, dewiswyd gŵr arall yn flaenor; sef, Thomas Owen, Ddreiniog; ond symmudodd i Bentraeth. Yn 1857, syrthiodd y dewisiad ar Owen Pritchard, Ty'n-y-llan—brawd i John Pritchard, Ty'n-yr-onen. Ennillodd efe le yn y cyfarfodydd misol; ond ymddyrysodd yn ei amgylchiadau; ac felly, ni bu yn flaenor hyd ddiwedd ei oes. Yn y cyfamser, yr oedd Tŷ mawr, Mynydd Bodafon, a'r Parc yn daith Sabbath. Bu y Parch. David Hughes yn byw yn y gymmydogaeth, ac yn aelod o'r eglwys yn y cyfnod hwn, hyd nes y symmudodd i Langristiolus. Adgyweiriwyd y capel, naill ai yn niwedd y cyfnod hwn, neu yn nechreu yr un dilynol. Yr oedd teuluoedd Tŷ mawr, Ty'n-y-llan, a Tyddyn melus, yn dra charedig i weinidogion yr efengyl yn y blynyddoedd hyn.

Salem, Mynydd Bodafon.—Yn mlynyddoedd cyntaf y cyfnod hwn, yr oedd Salem mewn cyssylltiad â Thŷ mawr, ac â'r Parc, yn ffurfio taith Sabbothol. Gwasanaethai Richard Rowlands, Tyddyn isaf, fel swyddog yma, ac yn Llanallgo. Yn y lle diweddaf y dewiswyd ef yn y fl. 1849; a byddai yn yr Ysgol Sabbothol yn Mryn-yr-efail, ac yn Salem yn y bregeth. Ar un tymmhor, bu yn dilyn moddion gras mewn tri lle—Salem, Bryn-yr-efail, a Llanallgo. Yn y fl. 1854, dewiswyd Richard Williams, Bodafon. Symmudwyd yr achos i'r lle y mae yn bresennol, ac adeiladwyd capel newydd, a galwyd ef yn Gaersalem, yn 1860. Y flwyddyn ganlynol, dewiswyd

John Hughes a Griffith Griffiths yn flaenoriaid yma; ond symmudodd y cyntaf i Ddwyran, a diswyddwyd y diweddaf ar ol rhyw bum mlynedd o wasanaeth.

Llanallgo.—Tua'r fl. 1844, chwanegwyd dau frawd at y blaenoriaid a ddewiswyd yn flaenorol; sef, Owen Williams, Felin bach, a Richard Davies. Hynodrwydd y cyntaf oedd ei ddawn mewn gweddi. Collwyd William Davies (Dafydd) trwy farwolaeth yn 1848, a Richard Jones, Ty'n-y-graig, yn 1855. Yn 1849, gosodwyd Ismael Owen, Tŷ croes, a Richard Rowlands, Tyddyn isaf, yn y swydd. Yn y cyfnod hwn, symmudodd gŵr o'r enw John Hughes i'r gymmydogaeth i fyw, yr hwn oedd wedi ei alw yn flaenor yn Hebron, a bu yn ffyddlawn yma hefyd. Bu O. Williams farw yn 1864. Yn y cyfamser, daeth William Evans o'r Aberffraw i Glan-yr-afon i fyw. Yr oedd efe wedi ei ddewis yn flaenor yn Aberffraw. Tad oedd efe i'r Parch. Robert Evans, Cassia, a thad-yn-nghyfraith i'r diweddar Barch. Richard Owen ('Y Diwygiwr'). Yn y fl. 1861, dewiswyd John Roberts yn flaenor; gŵr crefyddol a defnyddiol iawn fel swyddog eglwysig. Ail-adeiladwyd y capel naill ai yn y fl. 1856 neu yr un ganlynol.

Penrhoslleugwy, neu Bryn-yr-efail.—Yr oedd yma ddau neu dri o Fethodistiaid duwiol iawn cyn diwedd yr ail gyfnod, yn enwedig William Hughes, Ty'n-rhos, a'i wraig; William Griffith, Gamddalochi; a Rowland Evans, brawd i Hugh Evans, hen flaenor Llanallgo, y rhai a fuont yn ffyddlawn iawn yma. Yn niwedd y cyfnod blaenorol, arferai preswylwyr yr ardal ymgasglu ar y Sabbothau i ben y pongciau i chwareuon gwâg ac ofer; ac wedi i'r dydd ddarfod, byddent yn myned i'r dafarn, ac yn aros yno yn aml hyd y boreu. Dyma ystâd yr ardal tua'r fl. 1809. Ond o ddeutu y pryd hwn, dechreuodd Owen Edward, Bryn eithinog, gadw ysgol nos ac Ysgol Sabbothol, yr hyn, yn fuan iawn, a fu yn effeithiol i roddi terfyn ar y chwareuon hyn ar y Sabbath. Bu pregethu am flynyddoedd yn nhŷ Owen Edward gan y brodyr y Wesleyaid. Tŷ lled fychan oedd Bryn eithinog; a symmudwyd yr ysgol o herwydd hyny i dŷ helaethach, o'r enw Pen-y-braich; a chymmaint fu y cynnydd arni

fel y byddai yn llon'd y tŷ hwn a'r llofft. Daeth amryw yn y gymmydogaeth at grefydd, gan ymuno âg eglwys Llanallgo. Cedwid cyfarfodydd gweddi yn y tai, a pharhawyd felly am flynyddoedd. O herwydd i'r frech wen ymosod ar deulu Pen-y-braich, symmudwyd yr ysgol i'r Tyddyn isaf; ac yno yr arosodd am rai blynyddoedd—yn yr ysgubor yn yr haf, ac yn y tŷ yn y gauaf. O'r Tyddyn isaf, symmudwyd hi drachefn i'r Parc bach—tŷ William Davies, un o flaenoriaid Llanallgo; ac oddi yno i eglwys y plwyf. Ymddengys fod y periglor yn selog gyda'r ysgol. Rhoddai lyfrau i'r plant, a holwyddorai hefyd o'r *Hyfforddwr*. Bu yr ysgol yn yr eglwys tra y bu y Parch. Mr. Williams byw. Pan y daeth parson arall i'r plwyf yn ei le, bu raid i'r ysgol ymadael o'r adeilad gyssegredig, tua'r fl. 1845. Yn awr, penderfynwyd gwneyd cais at Arglwydd Boston am dir i adeiladu ysgoldy arno; a chaniatawyd y cais yn 1847, ond ar yr ammod nad oedd dim pregethu i fod ynddo ef. Cynnelid cyfarfodydd gweddi ynddo, ond dim pregethu. Teimlai y brodyr yn dra anesmwyth heb bregethu. Dechreuasant ofyn i ambell bregethwr ddyfod yno; ac yn mhlith eraill, daeth y diweddar Barch. David Morgan, Ysbytty, a bu yn foddion i ddwyn lliaws i'r eglwys; ond yr oedd pregethu yn doriad ar yr ammod. Gofynwyd i W. Roberts, Lledwigan, fyned at oruchwyliwr ei arglwyddiaeth i ofyn caniatâd i bregethu yn yr ysgoldy; ond yn lle myned at y goruchwyliwr, ysgrifenodd ef at Arglwydd Boston ei hun; a'r attebiad a gafodd oedd, y ceid tir i adeiladu capel arno. Yn 1860, adeiladwyd capel yma, gwerth dros 400*p*., gyferbyn â Thy'n-yr-efail, lle y bu Owen Thomas Rowlands yn byw, a gelwir ef Bryn-yr-efail. Symmudodd Richard Rowlands o Lanallgo i Salem, Bodafon; ond wedi adeiladu Bryn-yr-efail, symmudodd o Salem i'r eglwys hon. Y flwyddyn ddilynol, dewiswyd David Davies, a Griffith Williams, Pentre Eirianellt, i fod yn flaenoriaid. Bu y cyntaf farw yn y fl. 1866. Yr oedd Bryn-yr-efail mewn cyssylltiad â'r Parc fel taith Sabbath am beth amser yn y cyfnod hwn.

Parc.—Nid ydym yn gwybod y flwyddyn y dewiswyd Robert Jones, Ty'n-y-gareg, yn flaenor; ond dywed ein

hysbysydd mai oes fèr a gafodd. Gwyddom ei fod yn swyddog yma yn 1845, ac iddo farw yn 1850. Yn 1859, dewiswyd Owen Jones, Bodneithior; Richard Williams, Derri; a William Griffith, Pen-y-graig-wen. Ystyrid fod Owen Jones yn meddu cymmhwysderau neillduol i ymweled â chleifion yr eglwys; a meddai gryn allu i fyned i mewn i deimladau ei frodyr a'i chwiorydd yn y cyfarfoddydd eglwysig. Bu y brawd William Griffith hefyd yn weithgar a ffyddlawn yn yr holl gylch. Meddai yntau lawer o allu, a chai bleser wrth ei roddi ar waith. Helaethwyd y capel, ac adeiladwyd tŷ newydd, ystabl, a llofft fawr uwch ben, yn gyfleus ar adegau y Cyfarfod Misol, yma yn 1860; ac nid oes dyled ar y meddiannau. Yr un flwyddyn, dewiswyd John Williams, Cae gors, hefyd yn swyddog. Daeth Owen Parry yma o Beaumaris tua diwedd y cyfnod hwn. Bu John Hughes farw yn y fl. 1849, a Griffith Jones yn 1855.

Nebo.—Yr oedd y Parch. Griffith Davies, a William Williams, Rhoswen, yn aros yma am rai blynyddoedd yn y cyfnod hwn. Bu y cyntaf farw Mehefin 26ain, 1856, a'r diweddaf yn 1861. Yn 1848, dewiswyd Hugh Hughes, Rhos-y-mynach, a David Griffith, Rhos-y-mynach, yn flaenoriaid; ond diswyddwyd y ddau yn mhen tua phedair blynedd. Yn 1856, dewiswyd Thomas Hughes, crydd, a Robert Roberts, Plas uchaf. Diswyddwyd y ddau hyn hefyd; y cyntaf yn 1865, a'r diweddaf yn 1861. Yn 1860, dewiswyd John Williams—mab Richard Williams,—yr hwn oedd yn swyddog yn Lledtroed yn yr ail gyfnod; ac yn 1863, Robert Davies. Yr oedd y gŵr hwn yn ddyn lled feddylgar, a bu yn ceisio pregethu rai gweithiau. Yn 1849, dechreuodd y Parch. Owen Hughes bregethu; ac yn 1851, daeth i restr y pregethwyr, a symmudodd i Gaergybi. Yn y fl. 1862, dechreuodd y Parch. Richard Williams bregethu. Daeth yntau i restr y pregethwyr yn 1865; a symmudodd i Gosen yn lled fuan wedi iddo ddechreu pregethu. Ceid yn Nebo ddynion crefyddol a thanbaid iawn yn y cyfnod hwn. Torodd yn orfoledd mawr yno unwaith pan oedd Thomas Jones, Amlwch, yn pregethu, er ei fod ef yn dra gwrthwynebol i bob peth o'r fath; ond credodd fod yr hwyl a

gafodd ef yn Nebo yn rhywbeth rhyfedd iawn. Yr oedd yma un o 'rai rhagorol y ddaear,' o'r enw John Hughes, yr hwn, trwy ei Amen cynnhes, a'i ddiolch hwyliog, a fu yn gymmhorth i lawer pregethwr. O bawb a glywsom yn 'porthi y gwasanaeth,' efe oedd y mwyaf naturiol; yn gwneyd hyny heb ddyrysu dim ar y pregethwr. Cynnyrchai hwyl yn ysbryd y pregethwr pan y byddai yn lled amddifad o honi. Gŵr duwiol iawn oedd hwn. Cauwyd ef yn y gwaith mŵn unwaith; a'r arwydd cyntaf a gafodd y dynion oedd yn symmud y ceryg a'r malurion oeddynt yn cau arno, ei fod yn fyw, oedd ei glywed yn canu mewn hwyl nefolaidd. Byddai yn siarad llawer âg ef ei hun wrth gerdded. Un prydnawn Sabbath, aeth gyda'i wraig i odro, gan gludo yr ystên a'r llaeth yn ei law. Yna, dechreuodd siarad âg ef ei hun, gan ddywedyd—'Nid âg arian ac aur y'ch prynwyd oddi wrth eich ofer ymarweddiad. Wel, â pha beth, ynte? Ond â gwerthfawr waed Crist;' ac yna, taflodd y piser a'r llaeth o'i law. Nid ymddiriedodd y wraig y llestr a'r llaeth iddo mwy. Dro arall, pan yn gwrandaw ar y diweddar Barch. J. Jones, Tal-y-sarn, mewn cyfarfod yn Amlwch, â chanddo fara ceirch, ac ychydig o ymenyn arno, yn ei het, wele dafliad i'r het nes yr oedd y bara mewn gwahanol fanau yn y capel.

Siloh.—Yn y cyfnod blaenorol, adeiladwyd dau gapel yma; ac yn y cyfnod hwn, adeiladwyd y trydydd; neu yn hytrach, helaethwyd yr ail, ac ail-wnaed ef o fewn. Chwanegwyd at y swyddogion blaenorol William Lewis, Ponc-y-taldrwst, a William Roberts, yr Hen felin, yn 1848:—y cyntaf yn ddyn tawel, crefyddol, a pharchus; a'r diweddaf yr un modd; ac yn llettygar i bregethwyr am flynyddoedd lawer. Bu Siloh, mewn cyssylltiad â Nebo a'r Gorslwyd, yn daith Sabbath am flynyddoedd; ac wedi hyny mewn cyssylltiad â Phorth Amlwch, ac â Nebo. Yn 1860, dewiswyd John Herbert, yr Henblas, a William Edwards, Cae pant, yn flaenoriaid. Yr oedd achos siriol yn Siloh yn y blynyddoedd hyn, er nad oedd yr eglwys yn lliosog; o blegid nid oedd (ac nid yw) y gymmydogaeth yn boblog. Bu William Lewis farw yn y fl. 1864. Yma y terfyna ein taith drwy y sir.

PENNOD XIII.

PREGETHWYR Y PEDWERYDD CYFNOD.

Yr oedd amryw o'r pregethwyr a geir yn y rhestr hon wedi bod yn pregethu am flynyddoedd yn y cyfnod blaenorol; ond yn yr un presennol y daethant i'w llawn faint, a bu amryw o honynt fyw am flynyddoedd yn yr un dilynol. Fe wêl y darllenydd nad ydyw y rhai byw yn y rhestr hon.

Y Parch. Hugh Hughes, Beaumaris, a anwyd yn mhlwyf Llangwyllog, yn y fl. 1798. Cafodd foddion addysg yn moreu ei oes fwy na llawer. Ymunodd â'r eglwys Fethodistaidd yn Llangwyllog, yn 17eg mlwydd oed. Dechreuodd bregethu yn 1821. Symmudodd i Beaumaris tua'r fl. 1831; ac ordeiniwyd ef yn 1841. Fel dyn, meddai lawer o'r digrifol yn ei natur; ond o dan reolaeth synwyr cyffredin cryf. Ystyrid ef hefyd yn ddyn caredig a chymdeithasgar. Fel pregethwr, byddai weithiau yn felus, ac yn dyferu fel y diliau mêl. Pregethodd un Sabbath yn mhob mis am flynyddoedd yn Beaumaris. Bu farw Chwefror 14eg, 1877, yn 79ain mlwydd oed, wedi pregethu am un mlynedd ar bymtheg a deugain.

Y Parch. Hugh Jones, Caergybi, oedd frodor o sir Aberteifi. Daeth i Fôn yn ŵr ieuangc; ac ymsefydlodd ar y cyntaf yn Beaumaris, gan ddilyn ei alwedigaeth fel *hatter*. Yno y dechreuodd bregethu. Symmudodd yn lled fuan i Gaergybi, a llwyddodd yn lled helaeth yn ei alwedigaeth. Bu yntau yn pregethu am un mlynedd ar bymtheg a deugain, os nad rhagor. Ordeiniwyd ef yn 1848. Fel dyn, ystyrid ef yn ŵr o ymddiried, a pherchid ef yn y dref fel gwladwr. Fel Cristion, yr oedd yn gywir ac yn ddiargyhoedd. Fel Methodist, un o'r hen ysgol ydoedd. Fel pregethwr, nid oedd yn ddoniol, hyawdl, na phoblogaidd; etto, yn ysgrythyrol, efengylaidd, a sylweddol. Am y rhan fwyaf o'i oes, bu yn aelod yn Hyfrydle; ond pan adeiladwyd Armenia, symmudodd yno. Bu farw Hydref 19eg, 1879, yn 79ain mlwydd oed.

Dangosodd masnachwyr y dref eu parch i'w goffadwriaeth trwy gau eu masnachdai ar adeg ei gladdedigaeth.

Y Parch. Hugh Jones, Llanerchymedd, a anwyd yn 1782. Bu yn proffesu crefydd am tua deunaw mlynedd a thrigain; canys daeth at grefydd pan oedd yn bedair-ar-ddeg oed. Medrai ddarllen Cymraeg yn saith oed. Bu yn athraw yn yr Ysgol Sabbothol er yn fachgen, hyd nes y dechreuodd bregethu. Dechreuodd gadw dyledswydd deuluaidd pan yn bedair-ar-ddeg oed, a pharhaodd gyda'r gwasanaeth hwn hyd o fewn ychydig ddyddiau i'w farwolaeth. Yn 1824, pan yn 32ain mlwydd oed, y dechreuodd bregethu. Ordeiniwyd ef yn 1851. Pallodd ei olwg tua thair blynedd cyn iddo farw. Mab iddo ef yw y Parch. Hugh Jones, Liverpool. Fel dyn, yr oedd yn un o'r rhai cywiraf—llym iawn fel ceryddwr am fai, ond tyner iawn wrth droseddwr edifeiriol. Fel pregethwr, yr oedd yn gymmeradwy iawn; a chafodd rai odfeuon tra nerthol. Cofir gan lawer am ei bregeth yn Nghyfarfod Misol Hyfrydle, Caergybi, pan nad oedd yn mhell oddi wrth 90ain mlwydd, ar 'Mair a ddewisodd y rhan dda.' Bu farw Rhagfyr 28ain, 1884, wedi pregethu am tua thrigain mlynedd; a chladdwyd ef Ionawr 2il, 1885, yn y fynwent blwyfol, o dan y drefn newydd. Noswaith y claddedigaeth, pregethasom bregeth angladdol iddo yn y capel, oddi ar *Luc* ii. 25, 26.

Y Parch. Ebenezer Davies, Llanerchymedd.—Ganwyd ef yn y fl. 1804. Mab ydoedd i'r Parch. Griffith Davies, o Nebo. Cafodd fwy na llawer o fanteision addysg yn moreu ei oes; ac, wrth gwrs, addysg grefyddol dda gan ei rïeni. Dechreuodd bregethu yn 1825, pan oedd yn 21ain mlwydd oed; ac ordeiniwyd ef yn 1841. Fel dyn, yr oedd yn gall fel y sarph; ac etto, yr oedd llawer iawn o dynerwch yn ei natur. Fel pregethwr, yr oedd ar ei ben ei hun—heb ei debyg; yn nodedig am ei wreiddioldeb, ei fywiogrwydd, ei wresogrwydd, a'i arabedd wrth bregethu. Gwaeddai fel ei dad; ond yr oedd yn dra gwahanol yn mhob peth arall. Pan y teimlid yn nghynnadleddau y cyfarfodydd misol fod yr awyr yn lled drymaidd, ychydig o eiriau tanllyd o'i eiddo ef a barai i'r awyr ysgafnhau. Bu yn ysgrifenydd y Cyfarfod Misol am o

ddeutu deng mlynedd ar hugain gyda chymmeradwyaeth mawr. Ysgrifenodd ugeiniau o lythyrau dros y Cyfarfod Misol at wahanol bersonau mewn afiechyd a phrofedigaethau. Meddai ddawn neillduol i ysgrifenu llythyr. Cafodd lawer o brofedigaethau. Yn 1867, cyhoeddodd gyfrol o'i bregethau—'*Y Fasgedaid Friwfwyd.*' Bu farw Rhagfyr 7fed, 1875, yn 70ain mlwydd oed, wedi pregethu am hanner cant o flynyddoedd.

Y Parch. William Williams, Tŷ Calch.—Yr oedd taid W. Williams, o du ei dad, yn gefnder i'r enwog Lewis Morris (*Llewelyn Ddu o Fôn*), Pentre Eirianellt; a Michael Thomas, o'r Garnedd wen, un o bregethwyr cyfnod cyntaf y Methodistiaid yn Môn, yn daid iddo o du ei fam. Y mae ei weddw yn ferch i'r diweddar Barch. John Prytherch, o'r Dyffryn gwyn; a William Prytherch Williams, Llundain, yn fab iddo. Dechreuodd W. Williams bregethu yn 1829; a neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1848. Yr oedd yn ŵr o synwyr naturiol cryf. Dywedai y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, wrtho, pan y derbyniwyd ef i'r Cyfarfod Misol, 'William, tipyn mwy o'r oen sydd arnoch chwi ei eisieu. Y mae genych ddigon o'r llall.' Yr oedd R. Lloyd yn ei adnabod yn dda; o blegid bu yn gwasanaethu yn ei fasnachdy am tua thair blynedd. Pregethwr athrawiaethol oedd W. Williams—manwl iawn; fe allai yn rhy fanwl, weithiau, gan y cynnulleidfaoedd. Bu heb bregethu am beth amser; ond adferwyd ef, ac ni chafwyd achos i edifarhau o herwydd ei adferiad. Yr oedd ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu yn myned yn gryfach hyd y diwedd. Bu farw Mehefin 30ain, 1884, yn 77ain mlwydd oed.

Y Parch. John Phillips, Brynteg, a anwyd yn y fl. 1810. Ei rïeni oeddynt David a Mary Phillips, Pont-rhyd-fendigaid, sir Aberteifi. Dechreuodd bregethu yn lled ieuangc. Ei ysgol gyntaf oedd Ystrad Meurig. Yn 1829, aeth i'r ysgol at Edwards, yn Llangeitho. Wedi hyny, bu yn genhadwr yn Rhaiadr am dymmhor. Yn 1832, daeth ar daith i Fôn, a chlafychodd yma. Ar ol hyn, efe a aeth gyda'i athraw, Edwards, i Edinburgh. Yn Mai, 1835, daeth i Dreffynnon i fugeilio yr eglwys Fethodistaidd yno. Ordeiniwyd ef yn y Bala, yn 1837. Yn 1843,

daeth i Fôn i fyw. Yr oedd wedi priodi flwyddyn neu ddwy yn gynt, â Miss Parry, o'r Frigan, yn agos i gapel y Tabernacl. Pennodwyd ef gan Gymdeithas yr Ysgol Frytanaidd a Thramor yn oruchwyliwr iddi dros Ogledd Cymru. Yn 1847, ymsefydlodd yn Mangor. Cafodd alwad gan yr eglwys yno fel bugail; ond rhoddodd y fugeiliaeth i fyny yn lled fuan, o blegid deallodd fod yno amryw yn ei herbyn. Ystyrid Phillips yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y cyfundeb; a'i weinidogaeth mor nerthol, am rai blynyddoedd, ag eiddo neb yn Nghymru. Cafodd oedfa nerthol iawn yn Nghymdeithasfa Caernarfon, pan yr oedd efe yn byw yn Môn, yn 1845, ar y 'Ffigysbren diffrwyth.' Efe a gynnhyrfodd y genedl i adeiladu coleg athrawol yn Mangor. Bu farw Hydref 9fed, 1867, yn 57ain mlwydd oed, yn Mrynteg, a chladdwyd ef yn Llaneugrad.

Y Parch. John Charles, Penhescyn.—Ganwyd ef yn 1809. Mab ydoedd i'r Parch. John Charles, Gwalchmai. Galwyd ef yn flaenor am dymmor yn Nglasinfryn, cyn adeiladu y Tabernacl. Dechreuodd bregethu tua'r fl. 1837, ac ordeiniwyd ef 1851. Symmudodd o'r Tabernacl i Benhescyn; a bu ef a'i wraig yn ddefnyddiol iawn yn Ngilëad. Yr oedd yn ddyn caruaidd a chyfeillgar iawn, ac yn Gristion cywir; ond ni ddaeth yn agos i'w dad a'i frodyr fel pregethwr. Cyfrifid ei dad yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn ei ddydd, a William a David yn fwy felly na'r tad. Bu farw Gorphenaf 25ain, 1865, yn 56ain mlwydd oed, wedi pregethu am tuag wyth mlynedd ar hugain.

Y Parch. Griffith Williams, Llanfachreth, oedd enedigol o Drefriw; ac yno y dechreuodd bregethu. Cafodd gymdeithas y Parchn. John Jones, Tal-y-sarn, ac Ieuan Glan Geirionydd, yn moreu ei oes. Bu am ychydig yn yr ysgol yn Ngwrecsam, gyda'r Parch. John Hughes; ac am rai blynyddoedd bu fyw yn Mhontcyssyllte. Symmudodd, pan yn 40ain mlwydd oed, i Gemmaes, Môn, fel ysgolfeistr; oddi yno i Lanfechell; ac oddi yno i Lanfachreth. Fel dyn, hoffid ef gan bawb. Fel Cristion, cerid ef yn fawr. Fel gweddïwr, fe'i hystyrid yn un o'r rhai hynotaf. Fel pregethwr, nid oedd efe yn fawr, nac yn

boblogaidd; er hyny, yn gymmeradwy. Cymmeriad ar ei ben ei hun oedd Griffith Williams. Teimlir yn chwith ar ei ol. Ordeiniwyd ef yn 1865. Bu farw Rhagfyr 17eg, 1879, yn 82ain mlwydd oed.

Y Parch. Richard Roberts, Llanerchymedd.—Ganwyd ef tua'r fl. 1803, a dechreuodd bregethu yn 1833, neu y flwyddyn ganlynol. Ordeiniwyd ef yn 1867. Yr oedd efe yn dra chydnabyddus â duwinyddiaeth yn ei gwedd fwyaf Calfinaidd, a rhoddodd gychwyniad i aml un mewn gwybodaeth dduwinyddol. Dywed y Parch. John Hughes, D.D., Liverpool, am dano, yn ei lythyr yn *Nghofiant y Parch. Ebenezer Davies,* mai efe oedd 'arwr y bechgyn mwyaf ymofyngar' yn Llanerchymedd; ac 'nad oes heddyw ar y ddaear un duwinydd yn dyfod i fyny â'r syniad oedd gan rai o honynt am dano ef.' Yr oedd hyn yn fanteisiol i'r athraw i ddysgu ei ysgolorion—eu bod yn meddwl ei fod yn fwy nag ydoedd. Efe a fu farw yn y fl. 1884.

Y Parch. Ellis Foulkes, Amlwch.—Dechreuodd bregethu yn Arfon, tua'r fl. 1834, ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1845. Ystyrid ef yn ddyn call, tawel, a thangnefeddus, ac yn bregethwr cymmeradwy—heb fod yn fawr, nac yn boblogaidd. Symmudodd o Amlwch i Ddublin, ac oddi yno i Fangor. Bu farw Hydref 17eg, 1869, yn 57ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am bymtheng mlynedd ar hugain.

Y Parch. David Hughes, Llangristiolus, a anwyd yn y fl. 1817, yn Amlwch. Cafodd ei ddwyn i fyny yn grefyddol. Pregethai ef, a gŵr ieuangc o'r enw Richard Williams—mab i un o flaenoriaid eglwys Amlwch—lawer yn nghreigiau y môr. Un tro, aethant i Borthllechog, y naill du i Amlwch, pan oedd cysgodau yr hwyr wedi ymdaenu, a phregethasant i'w gilydd. Testyn Richard Williams oedd, 'Deugain niwrnod a fydd etto, a Phorthllechog a gwympir;' a'i destyn yntau ar ei ol ef oedd, 'Onid edifarhewch, chwi a ddyfethir oll yr un modd.' Yn y cyfarfod eglwysig cyntaf ar ol yr oedfa hon, daeth gwraig o'r gymmydogaeth uchod i ymofyn lle yn yr eglwys, mewn canlyniad iddi glywed angylion yn pregethu, ac yn ei rhybuddio; a pharhaodd yn aelod diofid

o'r eglwys hyd ei bedd. Symmudodd David Hughes yn bur ieuangc i'r Tai bach, sir Forganwg, ac yno y dechreuodd bregethu. Derbyniodd ei addysg athrofäol yn Nhrefecca. Ar ei ddyfodiad o'r athrofa, aeth i Langamarch fel bugail, lle y bu am dair blynedd; ac ordeiniwyd ef yn Nghymdeithasfa Llandeilo, yn Awst, 1849. Treuliodd y tair blynedd ar ddeg olaf o'i oes yn Môn. Yr oedd efe yn ddyn cyfeillgar, cywir, a ffyddlawn. Fel pregethwr, nid oedd yn boblogaidd; ond yr oedd yn adeiladol iawn yn y cyfarfodydd eglwysig; a byddai ei bregethau bob amser yn drefnus a buddiol. Cychwynodd gyda'r Parch. William Jones, Dwyran, ar gyhoeddiad i sir Benfro, pan y cymmerwyd ef yn glaf ar y ffordd; a bu farw yn y Graig, Eglwys fach, sir Aberteifi, Mawrth 18fed, 1864, wedi pregethu am chwe blynedd ar hugain.

Y Parch. Owen Williams, Llanrhyddlad.—Mab oedd efe i John a Jane Williams, Brynsiencyn; a ganwyd ef yn y flwyddyn 1816. Yr oedd ei dad yn flaenor parchus. Ni chafodd efe fanteision addysg yn moreu ei oes; ac ar ol priodi, dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1846. Aelod o eglwys y Gaerwen oedd efe ar y pryd. Ordeiniwyd ef yn 1857. Bu yn byw yn Niwbwrch am dymmhor; ond yn Llanrhyddlad y treuliodd y blynyddoedd olaf. Yr oedd y brawd hwn yn ddyn siriol, dirodres, hynaws, cywir, heb ddim twyll ynddo, ac yn bregethwr cymmeradwy. Buom gyda'n gilydd am daith trwy siroedd Aberteifi a Phenfro yn adeg y diwygiad yn 1859; ac yr ydym yn cofio yn dda iddo gael aml i oedfa wlithog yn y daith hon. Nis gallwn ei ddisgrifio yn well nag y gwna y diweddar Barch. Ebenezer Davies:—'Yr oedd yn aelod esmwyth o'r Cyfarfod Misol—yn un o 'ffrwythau'r dyffryn,' yn arogli yn beraidd yn ffroenau Duw a dynion.' Bu farw Chwefror 5ed, 1870, yn 54ain mlwydd oed, wedi pregethu am o ddeutu pedair blynedd ar hugain. 'O! fy mrawd, fy mrawd!' Pregethasom bregeth angladdol iddo, oddi ar *Rhuf.* xiv. 7—9.

Y Parch. David Charles, Gwalchmai, oedd yn fab i'r Parch. John Charles, o'r un lle. Ganwyd ef yn y fl. 1823. Dechreuodd bregethu tua'r fl. 1848, ac ordeiniwyd ef yn 1857. Gellir dywedyd iddo gael ei fagu yn

grefyddol; ei fod yn gwybod yr Ysgrythyr Lân er yn fachgen; fod gwirioneddau y Beibl yn egwyddorion yn ei galon, ac yn rhinweddau yn ei fuchedd. Yr oedd mor agos a neb a adwaenem i'r safon a roddodd yr Arglwydd Iesu i'w ddysgyblion, 'Byddwch gall fel y sarph, ac yn ddiniwed fel y golomen.' Fel pregethwr, yr oedd yn dra phoblogaidd, fel ei frawd, William Charles. Meddai lais clir a swynol, iaith syml a choeth; ei ddull yn naturiol, difrifol, a dirodres; a'i bregethau yn darawiadol, cynnhyrfiol, a chyfeiriol. Credir fod iddo gannoedd o blant yn y ffydd. Cyfansoddiad corphol gwanaidd iawn a gafodd. Ond er cystal pregethwr ydoedd, ni ddeuai yn agos i'w frawd William. Ni bu yn y Bala; a theimlai ei golled o'r herwydd yn y blynyddoedd olaf. Dywedai wrthym ei fod wedi rhoddi allan gymmaint ag oedd ganddo. Bu farw, gan dystio ei fod 'ar y Graig,' ar y 10fed o Hydref, 1860, yn 37ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am tua deuddeng mlynedd gyda llwyddiant mawr.

Y Parch. William Jones, Dwyran, oedd frodor o Arfon—mab i'r hen flaenor hynod Thomas Jones, Bryn llys, Carneddi, a nai i'r hen brophwyd, y Parch. Morris Jones, Jerusalem. Dechreuodd bregethu yn Arfon, tua'r fl. 1849; ac ordeiniwyd ef yn 1859. Ni ddaeth hynodion ei dad a'i ewythr i'r golwg yn ei gymmeriad na'i weinidogaeth; etto, yr oedd rhywbeth ynddo oedd yn ei osod ar ei ben ei hun. Tueddai i fod yn gwta (*short*) a miniog (*sharp*) ei attebion; ond er hyny, yr oedd yn un o'r dynion cywiraf; ei grefydd yn ddiammheuol, a'i gymmeriad yn ddisglaer. Fel pregethwr, yr oedd yn sylweddol, yn fyr, ac yn wlithog. Buom gyda'n gilydd yn Nghymdeithasfa Llangadoc, sir Gaerfyrddin; a chawsom lawer o hyfrydwch wrth ei wrandaw ar y daith hono. Dywedir fod ganddo fedr neillduol i gadw cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd yn bleidiwr neillduol a gwresog i ddirwest yn ei holl ffurfiau. Bu farw Chwefror 27ain, 1879, yn 56ain mlwydd oed, wedi pregethu dros ddeng mlynedd ar hugain.

Y Parch. William Griffith, Brynsiencyn, oedd frodor o sir Gaernarfon; ac yno y dechreuodd bregethu, tua'r fl.

1832; ac ordeiniwyd ef yn 1841. Yr oedd yn bregethwr gwlithog ac effeithiol. Cofus genym iddo ddyfod ar gyhoeddiad trwy Fôn cyn iddo ddyfod i fyw i'r Bryn, a'i fod yn boblogaidd iawn. Yr oedd tuedd dda yn ei weinidogaeth, er nad oedd llawer o feddylgarwch ynddi. Bu yn pregethu gyda'r Bedyddwyr cyn iddo ddyfod at y Methodistiaid. Mab iddo ef yw y Parch. John Griffiths, Southport. Symmudodd o Fôn i Ddublin, ac oddi yno i Gaernarfon. Bu farw Medi 6ed, 1870, yn 60ain mlwydd oed, wedi bod yn pregethu am dair blynedd ar bymtheg ar hugain.

Y Parch. JOHN ROBERTS, Llanerchymedd, oedd enedigol o Lanrwst. Dechreuasai bregethu cyn dyfod i Fôn. Daeth i Lanerchymedd i gadw ysgol, ond ni arosodd yno lawer o flynyddoedd. Aeth i Ddinbych yn niwedd y fl. 1856, i fod yn un o olygwyr y FANER. Ordeiniwyd ef yn y fl. 1876. Tybiem fod Methodistiaid sir Ddinbych wedi bod yn rhy hwyrfrydig i'w ordeinio ef; o blegid ystyrid ef yn ddyn meddylgar. Ennillodd wobr a roddodd Cyfarfod Misol Môn am y traethawd goreu ar 'Anonestrwydd.' Y mae yn wir nad oedd yn bregethwr poblogaidd, er ei feddylgarwch; o blegid nid oedd yn gyfoethog mewn dawn traddodi. Yr oedd yn ddyn da yn y cyfarfod eglwysig. Bu farw Rhagfyr 24ain, 1884.

PENNOD XIV.

PRIF FLAENORIAID Y PEDWERYDD CYFNOD.

DAVID ROBERTS, o Mynydd-y-gôf, ydoedd fab i John Roberts, o Aber alaw, Llanfachreth. Ganwyd ef tua'r flwyddyn 1788. Meddyg ydoedd, yn ol ei alwedigaeth. Dewiswyd ef yn flaenor yn 1816. Yr oedd yn ŵr o ddylanwad mawr mewn byd ac eglwys. Gellir ei alw yn arch-ddiacon Methodistiaid Môn yn niwedd y trydydd cyfnod, a dechreu y pedwerydd. Gwnaeth y goreu o'r

ddau fyd. Ystyriai ei fod yn gwasanaethu yr Arglwydd Crist wrth wneyd ei ddyledswyddau gyda'r byd hwn. Arferai, trwy ei oes, godi yn foreu. Byddai yn galed iawn ar rai pregethwyr i godi yno erbyn eu boreufwyd. Yr oedd yn ddyn darllengar a myfyrgar; ac yn sobr a difrifol. Byddai ysgafnder gyda phethau crefyddol yn annioddefol ganddo. Yr oedd yn weddïwr mawr—ei weddïau yn llawn o wylder, ac amddifad o hyawdledd. Yr oedd yn dra haelionus, ag ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi. Rhoddodd 100*p*. at gronfa Athrofa y Bala. Bu Mynydd-y-gôf am bedair blynedd ar ddeg a deugain o flynyddoedd yn gartref i bregethwyr. Er ei fod yn Fethodist Calfinaidd o'r fath fwyaf selog, etto yr oedd yn haelfrydig tuag at gymdeithasau cenhadol y Wesleyaid, y Bedyddwyr, y Morafiaid, Cymdeithas Genhadol Llundain, yn gystal ag i'r un berthynol i'w enwad ei hun. Caredig iawn y cawsom ef hefyd fel trysorydd sirol Athrofa y Bala. Bu farw Ionawr 12fed, 1869, yn yr oedran teg o 81ain mlwydd oed. Claddwyd ef ar yr 16eg o Ionawr, yn mynwent Llanfachreth.

John Pritchard, Ty'n-yr-onen, Llangwyllog, a anwyd yn Nhy'n-y-llan, Tregaean. Yr oedd ei fam yn ddynes hynod o grefyddol, a dïau i'w duwioldeb hi gario dylanwad da ar ei mab. Ymunodd â'r eglwys Fethodistaidd yn Tŷ mawr, tua'r fl. 1799, pan oedd yn 23ain mlwydd oed; a dewiswyd ef yn flaenor tua'r fl. 1812. Symmudodd i Dy'n-yr-onen; a galwyd ef i wasanaethu fel blaenor yn Gosen. Nid oedd yn alluog o ran meddylgarwch, na dawn; ond yr oedd yn feddiannol ar beth gwell; sef, ffyddlondeb. Yr oedd yn hynod o garedig i weinidogion yr efengyl—Ty'n-yr-onen yn gartref i bregethwr pan y mynai fyned yno. Byddai yn gysson yn moddion grâs; a byddai ei holl weision yn gadael eu gorchwylion i fyned i'r capel ganol dydd gwaith, i wrandaw gwŷr dyeithr yn pregethu. Byddai yn cadw dyledswydd deuluaidd yn gysson, ddwy waith bob dydd. Bu ei fam-yn-nghyfraith am rai blynyddoedd yn analluog i adael ei hystafell wely, a gwnaed agorfa yn llawr ei llofft, â dôr arno, fel y gallai, wedi ei agor, eu clywed, ac ymuno â'r teulu yn yr addoliad. Cadwai ferlen, a fu yn wasanaethgar iawn i gludo

pregethwyr. Bu y ferlen hon gyda rhai pregethwyr o'r sir yn y Deheudir. Bu efe farw Ebrill 21ain, 1859, yn 83ain mlwydd oed.

Owen Hughes, Ty'n-y-maen, oedd yn gymmeriad lled hynod. Yr oedd yn un o'r rhai ffyddlonaf gydag achos ei Waredwr. Dilynai y cyfarfodydd misol yn gysson. Gwelwyd ef lawer gwaith yn cychwyn iddo boreu ddydd Llun, fe allai bymtheg milldir o ffordd, a hyny ar ei draed, ac yn dychwelyd adref yn hwyr nos Fawrth. Yr oedd rhyw drwstaneiddiwch naturiol rhyfedd yn perthyn iddo. Rhyw bryd, daeth y diweddar John Jones, o Dreffynnon, gyda'r Parch. William Morris, Carmel (Rhuddlan, wedi hyny), i bregethu i Dy'n-y-maen, ar ddydd gwaith; a daeth lot o gŵn yno, ac yn eu plith yr oedd dau gi lled fawr; a phan oedd W. Morris yn pregethu, cynnhyrfwyd hwy, ac aeth y ddau i ymladd yn ffyrnig, nes oedd y bobl yn ffoi allan o'r capel. Aeth O. Hughes atynt i geisio eu meistroli trwy eu cicio yn bur dda, a John Jones yn gwaeddi—'Hyna! rhowch iddyn nhw yn iawn. Maent wedi gwneyd gwerth cyrn eu gyddfau er's meityn—d'rysu pregeth 'mrawd!' Llwyddwyd i'w cael allan; ac yn lle cau y drws arnynt, aeth O. Hughes ar eu holau i'r ffordd, a daeth â hwy i'r capel o'i flaen wed'yn. 'Wel, a welsoch chwi erioed y fath beth,' ebe John Jones, 'y dyn yn dwyn y cŵn i'r capel etto!' Ond cafwyd hwy allan drachefn, a chauwyd y drws. Bu O. Hughes farw yn y fl. 1861, yn 89ain mlwydd oed.

Hugh Hughes, Cefn mawr.—Ganwyd ef yn mhlwyf Llangristiolus, yn 1797. Ni chafodd fanteision addysg fydol yn moreu ei oes; ond bu raid iddo droi allan i weithio, a gweithiwr i bwrpas ydoedd. Pa beth bynag yr ymaflai ei law ynddo i'w wneuthur, efe a'i gwnai â'i holl egni. Bu yn dra llwyddiannus yn y byd; canys casglodd gryn gyfoeth. Yn 1822, pan yn 25ain oed, daeth yn Fethodist mewn adeg o ddiwygiad ar grefydd; ac yn 1836, fe'i dewiswyd yn flaenor yn Llangristiolus. Symmudodd oddi yno i Langeinwen, a daeth yn aelod ac yn flaenor yn Bethania. Daeth hefyd yn un o brif flaenoriaid y Cyfarfod Misol. Yr oedd yn ŵr haelionus iawn. Ni wnaeth yr un o flaenoriaid Môn fwy, os cymmaint,

tuag at sicrhau cydnabyddiaeth anrhydeddus am y weinidogaeth nag a wnaeth ef yn y cyfnod hwn. Ei hyfrydwch oedd croesawu pregethwyr yn ei dŷ. Nis gwyddom pa un oedd yn fwyaf hapus, ai efe wrth groesawu, ynte y pregethwyr wrth gael eu croesawu ganddo. Gallesid meddwl, weithiau, wrth ei siarad yn y cyfarfodydd misol nad oedd yn malio dim yn y pregethwyr; ond pan y byddai un o honynt mewn rhyw gyfyngder, pwy ond efe a agorai ei galon a'i logell gyntaf i gynnorthwyo! Dylai coffadwriaeth yr hen flaenor hwn fod yn barchus gan bregethwyr Môn. Yr oedd yn ddirwestwr selog, ac yn Rhyddfrydwr egwyddorol. Nodiad arbenig arall yn ei gymmeriad oedd maddeugarwch. Yn wir, gallai unrhyw ddyn ei wrthwynebu hyd yr eithaf, a byddai yn gyfaill calon iddo wed'yn. I'r bibell, yr oedd yn elyn calon. Bu farw, gan orfoleddu dan obaith gogoniant Duw, ar yr 17eg o Awst, 1876, yn agos i 80 mlwydd oed, wedi gwasanaethu swydd blaenor am tua deugain mlynedd. Ar yr 21ain o Awst, claddwyd ef yn mynwent Llangaffo; a chafodd gladdedigaeth anrhydeddus.

Robert Jones, Amlwch, oedd fab i flaenor, o'r enw William Jones, yn eglwys Bethesda, Amlwch, yn y cyfnod blaenorol. Nid oedd yn ŵr o ddylanwad mawr yn y Cyfarfod Misol; o blegid nid oedd yn ei ddilyn yn gysson. Pe y gwnaethai hyny, sicr yw y buasai yn mysg y rhai blaenaf eu dylanwad ynddo. Yr oedd ganddo ei ddiffygion, y rhai oeddynt yn cyfodi o'i dymmher naturiol yn benaf; sef, ystyfnigrwydd a chwerwedd, y rhai a'i dygodd rai gweithiau i helyntion blinion. Ond yr oedd yn feddiannol ar rinweddau oeddynt yn gorbwyso ei holl ddiffygion; sef, cywirdeb, gonestrwydd, a gwir ofal am yr achos. Pa fodd bynag, nid dyn cyffredin oedd efe, a chymmeryd pob peth gyda'u gilydd. Nid oedd yma, yn ei ddyddiau ef, ar ol John Williams, y crydd, neb yn y flaenoriaeth cyfuwch ei ysgwyddau ag ef. Y mae yn sicr genym fod cyfrifon eglwys Amlwch yn cael eu cadw ganddo mor ddestlus a manwl ag eiddo un eglwys o fewn y sir yn y cyfnod hwn. Yr oedd Mrs. Jones, ei wraig, hefyd, yn dra chrefyddol a duwiol; a rhoddodd, cyn diwedd ei hoes, 100*p*. i eglwys Amlwch. Bu farw Robert Jones yn 1872.

Edward Parry, Caergybi, a anwyd tua'r fl. 1796, yn nghymmydogaeth Llanfechell, mewn lle a elwir Plas-y-brain. Symmudodd oddi yno i fod yn hwsmon yn Nhrelywarch, Llanfwrog; ac yn yr eglwys Fethodistaidd yn y plwyf uchod y dewiswyd ef yn flaenor; ond nis gwyddom pa flwyddyn. Symmudodd o Lanfwrog i Gaergybi. Bu yn flaenor am flynyddoedd yn Hyfrydle; ond pan yr adeiladwyd Armenia, symmudodd yntau i'r capel newydd. Yr oedd ef, a'r Parch. Hugh Jones, yn gyfeillion mawr. Symmudodd y diweddaf hefyd o Hyfrydle i Armenia; ac y mae yn sicr fod Edward Parry yn dywedyd wrth Hugh Jones yn debyg fel y dywedodd Ruth wrth Naomi—'Os i Armenia yr elych di, yno yr äf finnau;' ac am hyny, gan mai i Armenia yr aeth y Parch. H. Jones, yno yr aeth Edward Parry. Yr ydym yn credu fod yr hen weinidog mor barod i ddywedyd wrth yr hen flaenor hefyd—'Y lle yr elych di, yr äf finnau.' Hyn oedd y goreu iddynt hwy, ac i'r achos, yn ddïau. Nid dyn cyffredin oedd Edward Parry. Meddai wybodaeth ëang yn yr Ysgrythyrau; ac yr oedd yn ddyn doniol i siarad yn y cyfarfodydd eglwysig. Yr oedd yn dra chydnabyddus â dywediadau ffraeth-bert Gurnal, a bob amser yn eu hadrodd yn y cyfarfodydd eglwysig gyda blâs. Byddai yn hoff o gymmhariaethau wedi eu cymmeryd o'r Ysgrythyrau. Yn sicr, byddai y blaenor hwn mor fedrus yn y cyfarfodydd eglwysig ag un o'r pregethwyr oedd yn Nghaergybi. Mwynhäai newydd-deb mewn pregeth tu hwnt i fesur. Cofus genym ei glywed yn dywedyd ychydig flynyddoedd cyn ei farwolaeth wrthym—'Diolch yn fawr i chwi am destyn newydd—testyn nad wyf yn cofio clywed neb yn pregethu arno; ac am bregeth newydd hefyd. Weithiau, ceir testyn lled ddyeithr, ond pregeth pur gyffredin ar destyn dyeithr.' Byddem yn caru ei glywed yn gweddïo. Yn wir, byddem yn caru ei glywed yn cyflawni unrhyw wasanaeth crefyddol. Y mae yn rhaid fod rhyw swŷn yn ei ddawn i ni, gan y byddem mor hoff o'i wrandaw; o blegid nid oedd dim cyfeillgarwch neillduol rhyngom; ond gobeithiwn nad oedd dim oerfelgarwch chwaith. Bu farw yn y fl. 1869, yn 73ain mlwydd oed.

John Williams, Fron goch.—Ganwyd ef yn Lledwigan,

ger llaw Llangefni, Mai 7fed, 1787. Perthynai i deulu parchus, a chafodd foddion addysg dda gan ei rïeni. Dygwyd ef i fyny fel tir-fesurydd. Pan o ddeutu 20ain mlwydd oed, dychwelodd i Ledwigan. Dechreuodd argraphiadau crefyddol ar ei feddwl pan yn lled ieuangc; cafodd argyhoeddiad dwfn, a bu ar fin anobaith. Weithiau, tueddai at yr Eglwys Sefydledig; bryd arall, at y Wesleyaid; a phryd arall, at yr Annibynwyr. Dan weinidogaeth John Huxley, o Gaernarfon, y daeth yn Fethodist. Parodd athrawiaeth etholedigaeth lawer o boen a phryder iddo. Ymddengys fod dyfodiad John Williams yn Fethodist wedi cynnyrchu cryn lawer o sylw yn y sir, o herwydd ei fod yn aelod o deulu lled uchel. Daeth yn ddyn gwir grefyddol a darllengar. Dewiswyd ef yn flaenor yn Llangefni pan oedd tua 29ain mlwydd oed. Yn 1819, ymunodd mewn priodas gyda Miss Elizabeth Foulkes, merch i'r diweddar T. Foulkes, o Fachynlleth; yr hon a fu yn wraig barchus a chrefyddol iawn. Yn 1835, symmudodd i'r Fron goch, ger llaw Pentraeth. Pan y daethom ni yn aelod o'r Cyfarfod Misol, yr oedd yn un o brif flaenoriaid y sir. Edrychai ar ol gweithredoedd y capelau, arolygai y cyhoeddiadau am rai blynyddoedd, a gofalai am bregethwyr i wasanaethu yr achos yn Dublin. Bu am ysbaid yn drysorydd sirol y Feibl Gymdeithas. Rhoddodd 200*p*. o waddol i gyllid y Fam Gymdeithas yn ei ewyllys. Byddai y Fron goch yn gartref i bregethwyr. Anfonid ef yn fynych i gynnrychioli y sir i'r Cymdeithasfaoedd Chwarterol. Symmudodd o'r Fron goch yn 1855, i Glanbeuno, ger llaw Caernarfon; a thrachefn, yn 1863, i Fachynlleth. Bu farw yn y fl. 1867, a dygwyd yr hyn oedd farwol o hono i'w gladdu yn mynwent Ceidio, ger Llanerchymedd. Bu Mrs. Williams fyw am flynyddoedd ar ei ol yn Machynlleth, yn ddefnyddiol ac yn haelionus. Yr oedd hi yn un o'r chwiorydd mwyaf rhagorol yn nghyfundeb y Methodistiaid.

Robert Jones, Brynmaethlu, ydoedd fab i'r hen flaenor parchus, Richard Jones, Penrhos-ddu, Llanfaethlu; a dïau iddo gael ei ddwyn i fyny yn grefyddol o'i febyd. Nis gallwn nodi y flwyddyn y dewiswyd ef yn flaenor gan eglwys Llanfaethlu—naill ai yn niwedd y cyfnod blaen-

orol, neu yn nechreu yr un presennol. Yr oedd yn ŵr call, synwyrol, crefyddol, a duwiol. Perchid ef yn fawr gan ei gymmydogion, a chan yr eglwys. Yr oedd o duedd naturiol siriol; ond o dan effeithiau diffyg treuliad, fel pawb a ddioddefant oddi wrth yr afiechyd hwnw, blinid ef gan iselder meddwl weithiau. Yr oedd yn ŵr cyfeillgar iawn—gallai gyfeillachu yn rhydd â phregethwyr ieuaingc, os byddai yn meddwl fod rhywbeth ynddynt. Magodd fab addawol iawn fel llenor a bardd; sef, Ioan Maethlu, yr hwn a fu farw yn mlodeu ei ddyddiau, yr hyn oedd yn brofedigaeth fawr i'w dad. Cafodd ei deulu a'r eglwys siomedigaeth chwerw yn ei farwolaeth gynnarol. Mwynhäai Robert Jones ymddiddan, ac hyd yn oed tipyn o ddadl ar bwngc crefyddol—pwngc o dduwinyddiaeth. Yr oedd mwy o hyn yn y cyfnod hwn nag yn yr un dilynol—mwy o hono yn nhai y capelydd, ac yn y tai y llettyai y pregethwyr. Llenwid ef gan gariad cryf at Fethodistiaeth, a chafodd hi golled fawr yn ei farwolaeth; ond y mae cariad cryf yn aros etto ati yn Mrynmaethlu, yn nghalonau ei fab a'i ferch, y rhai ydynt yn trigiannu yno.

William Roberts, Tai hen—tad y Parch. J. Roberts, o'r un lle—oedd flaenor nid anenwog. Yr oedd yn hynod o siriol pan yn ŵr ieuangc—yn fywyd cymdeithas cyn iddo gael crefydd. Pan oedd dan argyhoeddiad o bechod, aeth i briodas wâdd, a dywedodd un o'r gwyddfodolion mewn llawenydd—'Dyma'r hen *commodore* wedi dyfod; bydd yma ddigon o *life* bellach.' Ond yr oedd yr argyhoeddiad wedi ysbeilio y gŵr ieuangc o'r bywyd a garai pobl y briodas, a dyfnhaodd y cyfarchiad hwn yr argyhoeddiad. Wedi iddo ddyfod at grefydd, yr oedd siriol-deb a difrifoldeb wedi eu cyfuno yn hapus ynddo. Yr oedd ef yn un o'r blaenoriaid oedd yn meddu y parch mwyaf i bregethwyr. Nid yn unig meddai barch i'r rhai mwyaf, ond hefyd i'r rhai lleiaf—nid yn unig parchai John Elias, ond parchai Hugh Owen hefyd. Yr oedd yn rhwydd ei ddawn, yn llawn teimlad, ac o ddylanwad mawr yn eglwys Bethesda. Nid oedd ganddo yn ei afiechyd diweddaf un ammheuaeth pa le y cai efe ei hun yn y byd arall. Bu farw yn y fl. 1867.

John Elias, Tre'r-gôf, oedd fab i'r diweddar Barch. J. Elias. Cafodd ddygiad i fyny crefyddol gan ei rïeni. Dechreuodd weithio gyda chrefydd yn lled ieuangc. Aelod o eglwys Bethlehem, Careg-lefn, ydoedd yn mlynyddoedd ei ieuengctid, ei dad yn aelod yn Llanrhyddlad, a'i fam yn Bethesda, Cemmaes. Efe oedd ysgrifenydd eglwys Bethlehem am flynyddoedd cyn iddo gael ei ddewis yn flaenor. Nis gallwn nodi y flwyddyn y dewiswyd ef. Bu yn ffyddlawn gyda'r Ysgol Sabbothol yn Hafodlas (Jerusalem), cyn bod un yn Llanfechell. Yr oedd ganddo law yn sefydliad yr ysgol yn Llanfechell; o blegid yno yr oedd efe a'i rïeni yn byw ar y pryd. Yr oedd yn ŵr ymroddgar i grefydd, yn ysu gan sêl o blaid yr hyn a ystyriai yn iawn, ac yn erbyn yr hyn a ystyriai yn ddrwg. Dygai fawr sêl dros ddirwest, ac o blaid y Seithfed Reol. Nid ydym yn gwybod am ddim anghyssondeb rhwng ei fywyd a'i sêl gyda'r achos dirwestol. Gellir dywedyd am dano, fel y dywed Iago am un o'i flaen ef—'Ac Elias oedd ddyn.' Nid oedd Elias y prophwyd yn berffaith—uwch law bod yn ddyn ffaeledig; yr un modd nid oedd Elias, y blaenor Methodistaidd yn eglwys Llanfechell, yn anffaeledig, ond meddai ei wendidau fel dyn arall. Yr oedd yn Fethodist o'r hen ysgol, ac nid o'r ysgol newydd. 'Megys yr oedd yn y dechreu' y dymunai efe iddi fod yr awrhon, ac yn dragywydd. Credwn mai dyn Duw oedd John Elias—gweddïwr mawr, cysson, taer, ac yn llawn teimlad. Yr oedd yn ddyn o allu mawr yn y cyfarfodydd eglwysig—yn debyg i'w dad mewn sêl a thanbeidrwydd. Ni allai draddodi araeth â thipyn o hyd ynddi—llosgai allan gan sêl yn lled fuan. Yr oedd yn ŵr o ddylanwad yn y Cyfarfod Misol hefyd; dilynai ef yn gysson; ac felly, yr oedd yn un o brif henuriaid y sir. Anfonid ef yn fynych yn gynnrychiolydd i'r cymdeithasfaoedd, ac yn ymwelwr â'r eglwysi. Bu gyda'r Parch. James Donne ar gyhoeddiad trwy sir Aberteifi, yn dechreu yr odfeuon, ac yn cadw cyfarfodydd eglwysig ar ol y bregeth. Ysgrifenodd lawer i'r *Drysorfa*, ac yr oedd ei ysgrifau yn dra darllenadwy. Bu yn garedig iawn at yr achos mawr. Rhoddodd dir i adeiladu Capel Bethesda, Cemmaes, a chapel bychan yn Mhenrhyn Cemmaes,

yn rhad, ac am byth, i'r cyfundeb. Yr oedd ef a Mrs. Elias yn dra llettygar i bregethwyr. Ceid lletty clud a chroesawgar yn Nhre'-y-gôf bob amser. Y mae ei weddw yn byw yn bresennol yn Ngwrecsam, ac yn parhau yn garedig a haelionus at achos y Gwaredwr. Bu John Elias farw yn 1875.

Richard Lewis, Bodedern, a anwyd Mehefin 21ain, 1817, mewn lle o'r enw yr Ysgol, yn mhlwyf Llandegfan. Enw ei dad oedd Thomas Lewis, yr hwn a fu yn flaenor ffyddlawn yn eglwys Barachia, Llandegfan. Yr oedd Richard Lewis 'er yn fachgen yn gwybod yr Ysgrythyr Lân.' Treuliodd flynyddoedd ei brentisiaeth yn Mangor. Derbyniwyd ef yn gyflawn aelod yn 1833, pan oedd tuag 16eg mlwydd oed; ac yna dechreuodd gadw dyledswydd deuluaidd yn ei gylch. Yn 1840, aeth i Lundain, lle y teimlodd nerth temtasiynau; ond trwy gymmhorth Duw, gorchfygodd hwynt. Yn 1844, daeth i Fodedern, a gwasgodd at y frawdoliaeth yno. Sefydlodd gymdeithas gŵŷr ieuaingc i ddarllen y Beibl, ac i ddysgu grammadeg. Yn 1849, dewiswyd ef yn flaenor, a meddai gymmhwysderau neillduol i lenwi y swydd. Yr oedd yn ŵr hynod o wylaidd a gostyngedig, ac yn dra boneddigaidd yn ei ymddangosiad a'i ymddygiadau. Yr oedd gan bawb a'i hadwaenent air da iddo, a'r nefoedd ei hunan yn ei chwennychu. Ystyrid ef yn llenor a bardd gwych. Ysgrifenai i'r *Traethodydd*, a chyhoeddwyd llyfryn bychan o dan yr enw *Y Rhosyn*, yn cynnwys darnau barddonol o'i eiddo. Bu y blaenor anwyl hwn farw yn sydyn; o'r braidd y teimlodd oerder y dwfr, gan mor fyred oedd yr amser y bu ynddo, Mawrth 2il, 1865.

Griffith Roberts, Cefn du, a'i ddau fab.—Amaethwr parchus oedd Griffith Roberts wrth ei alwedigaeth. Nis gallwn nodi y flwyddyn y dewiswyd ef yn flaenor gan eglwys y Gaerwen; ond cymmerodd le yn y cyfnod blaenorol, tua'r fl. 1829. Dyn lled ddistaw a thawel oedd y gŵr da hwn. Gallem feddwl mai tangnefeddwr ydoedd. Bu y Cefn du yn dŷ agored i bregethwyr Methodistaidd am lawer o flynyddoedd, er ei fod yn barchus iawn gan ac yn y Cyfarfod Misol, yr oedd yn rhy dawedog i gael ei ystyried yn un o brif flaenoriaid y

cyfnod. Richard Roberts, Boston House, oedd fab iddo. Cafodd y mab ei ddwyn i fyny yn grefyddol gan ei rïeni. Dewiswyd ef yn flaenor yn eglwys Pen-y-sarn Berw, yn 1867. O ganlyniad, i'r cyfnod nesaf y perthynai efe. Bu yn weithgar a ffyddlawn gydag adeiladaeth y capel. Yr oedd Boston House, fel y Cefn du, yn agored i bregethwyr bob amser; a Richard Roberts yn barchus yn y Cyfarfod Misol; ond, fel ei dad, yn rhy dawedog i gael ei ystyried yn un o'r prif flaenoriaid. William Roberts, Cefn du, hefyd, oedd fab i Griffith Roberts. Cafodd yntau yr un fagwraeth grefyddol a'i frawd. Dewiswyd ef yn flaenor yn eglwys y Gaerwen, yn 1868. I'r cyfnod nesaf y perthynai yntau. Symmudodd am ychydig i ardal Bryn du; ond dychwelodd yn ol i Gefn du. Gŵr haelionus iawn at achos y Gwaredwr oedd y brawd, a bu yn dra defnyddiol gyda cherddoriaeth y cyssegr. Pe cawsai y gŵr hwn fyw, credwn y buasai yn dyfod i fysg y dosbarth blaenaf o flaenoriaid y cyfnod olaf. Bu Griffith Roberts farw yn 1869, yn 81ain mlwydd oed; Richard Roberts yn 1881; a William Roberts yn 1885.

John Owen, Ceryg ddewi, Llangwyllog.—Ganwyd ef tua'r fl. 1806. Yn 1855, dewiswyd ef yn flaenor gan eglwys Gosen. Yr oedd yn lled fawr o ran corph, ond nid oedd ei alluoedd meddyliol ond yn debyg i'r cyffredin. Nid oedd yn un o brif flaenoriaid y Cyfarfod Misol. Ni chlywsom ef erioed yn siarad yno; ond yn unig yn adrodd ei brofiad crefyddol, pan y byddai y Cyfarfod Misol yn Gosen. Dyn ofnus a gwylaidd iawn mewn cynnulleidfa oedd efe. Gallech feddwl, wrth ei glywed yn siarad yn ei dŷ gyda'r pregethwyr yr oedd efe yn dra chyfeillgar â hwynt, mai cawr o ddyn ydoedd—heb ofn dyn na bwgan; ond byddai yn crynu gan ofn y ddau. Fe allai fod y darllenydd nad oedd yn ei adnabod yn barod i ofyn paham y rhoddir lle iddo yn y bennod hon, yn mhlith prif flaenoriaid Môn yn y cyfnod hwn? Yr atteb-iad ydyw, o blegid ei hynodrwydd; yr oedd ef ar ei ben ei hun, heb neb tebyg iddo trwy yr holl ynys, nac yntau yn debyg i neb arall. Buasai pregethwyr y cyfnod hwn yn teimlo diffyg mawr yn Methodistiaeth Môn heb fod John Owen, Ceryg ddewi, yn cael lle amlwg ynddo. Un

hynodrwydd ynddo, rhagor holl flaenoriaid Môn yn y cyfnod hwn, oedd ei chwareugarwch. Yr oedd yn llawn o ddireidi diniwed, a hollol ddibechod. Byddai fel boneddwr yn ei ymddygiad tuag at y cyffredin; ond byddai fel hogyn direidus gyda'i gyfeillion; nid yn unig gyda phregethwyr ieuaingc fel ni, ar y pryd, ond gyda rhai o oedran y Parchn. David Jones, Dwyran, a Hugh Jones, Llanerchymedd. Byddai raid iddynt hwythau ei wylio, fel y rhai ieuengach. Hynodrwydd arall ynddo oedd ei garedigrwydd i bregethwyr. Yr oedd Ceryg ddewi yn gartref fforddolion. Byddai amryw bregethwyr yma ar nos Sadyrnau; ac ni byddai ei geffylau yn cael gorphwysfa ar y Sabbothau, am y byddai raid iddynt gludo pregethwyr i'w teithiau; ac weithiau, byddai raid anfon at hen langc caredig arall; sef, William Jones, Ystabl Bodffordd, am fenthyg anifail, am fod cynnifer o bregethwyr wedi dyfod i Geryg ddewi. Hen langc oedd John Owen—ac am hyny, heb wraig na phlant i gymdeithasu â hwynt; ac am ei fod yntau o duedd gymdeithasgar, o ganlyniad, ei 'hobi' fyddai cael pregethwyr i'w dŷ. Mewn un adeg, yr oedd ganddo ful, a hwnw a roddai i'r pregethwr a ystyriai yn un balch, er mwyn tynu y *starch* o hono! Ar adeg arall, yr oedd ganddo asen, ac anfonai hono i gyfarfod ambell un. Byddai rhai yn ffromi yn aruthr, ac eraill yn mwynhau ei ddigrifwch, ac yn dyfod trwy y prawf a roddai arnynt yn anrhydeddus, gan ennill iddynt eu hunain radd dda yn ei farn am danynt; a chaent eu cyrchu a'u danfon byth wedi hyny mewn cerbyd cysurus. Teimlai yn anniddig ar nos Sadwrn os na byddai pregethwr wedi dyfod yno. Ond, a oedd efe yn wir grefyddol? Gwir grefyddol a ofynaist ti, ddarllenydd? Oedd, yn un o'r dynion cywiraf, gonestaf, caredicaf, mwyaf llettygar, a haelionus yn Môn. Nid oedd calon yn yr ynys yn llawnach o gariad at y Gwaredwr a'i achos na chalon John Owen. Nid cariad yn siarad llawer oedd ei gariad ef; ond cariad yn cyfranu; cariad o'r un natur â chariad Duw:—'Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd.' Gellir dywedyd am John Owen, 'Canys felly y carodd, fel y rhoddodd ei dŷ, ei geffylau, ei weision, a'i arian, at wasanaeth ei

Waredwr.' Y mae y rhoddion hyn yn fwy eu gwerth i deyrnas yr Arglwydd Iesu na llawer o eiriau. Ceid ef weithiau yn nghanol ei gyfeillion, wedi anghofio pob digrifwch, ac yn gwledda ar ddanteithion yr efengyl. Llawer boreu Sabbath y deffrowyd ni ganddo trwy ei waith yn canu pennillion Williams, Pant-y-celyn, mewn hwyl nefolaidd, nes rhoddi ein telyn ninnau mewn hwyl i gadw gŵyl i'r Arglwydd. Ni chafodd gystudd maith; a bu farw Chwefror 4ydd, 1868, yn 66ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Llangwyllog, Chwefror 8fed. Nis gallwn beidio edrych yn hiraethus o'r trên wrth fyned heibio ar fynwent Llangwyllog, o herwydd fod yr hyn sydd farwol o'n hanwyl hen gyfaill John Owen, Ceryg ddewi, yn gorwedd ynddi. O fynwent gyssegredig! Nid o herwydd fod unrhyw esgob, gyda'i wenwisg, wedi dy gyssegru; ond o herwydd fod gweddillion marwol John Rowland, Ceryg llithir; Hugh Jones ac Owen Thomas, Yr Hafod; a John Owen, Ceryg ddewi, yn huno yn dawel yn dy fynwes, ac yn ymbarotoi i gyfodi mewn anllygredigaeth ac anfarwoldeb!

PENNOD XV.

METHODISTIAETH YN YMBERFFEITHIO YN MON.—Y PUMMED CYFNOD.

Edrychwn ar y cyfnod presennol fel yn dechreu yn y fl. 1864, gyda marwolaeth y Parch. William Roberts, Amlwch. Colled fawr i Fethodistiaid Môn oedd marwolaeth y gweinidog da hwn i Iesu Grist; o blegid nid oedd genym ŵr o alluoedd meddyliol, doethineb, a nerth gweinidogaethol cyffelyb iddo ef i eistedd yn ei gadair, ac i arwain y cyfundeb o fewn y sir. Er hyny, nid oedd yr Arglwydd wedi ein gadael heb ŵr o gymmeriad da fel Cristion, o weinidogaeth efengylaidd, a buddiol fel pregethwr, ac o bwyll fel arweinydd yn y Cyfarfod Misol; a'r

gŵr hwnw oedd y Parch. Robert Hughes, Gaerwen—nai o fab chwaer i'r diweddar Barch. William Roberts. Wedi marwolaeth yr ewythr, nid oedd yr un gweinidog yn Nghyfarfod Misol Môn yn meddu mwy o ddylanwad na'r nai. Cyd-gyfarfyddiad o amryw ragoriaethau, ac nid rhyw un rhagoriaeth mawr, oedd yn rhoddi iddo ef flaenoriaeth yn mysg ei frodyr. Credwn fod mwyafrif mawr o aelodau y Cyfarfod Misol, wedi marwolaeth W. Roberts, yn disgwyl i R. Hughes gymmeryd yr arweiniad; ac ni siomwyd hwy yn eu disgwyliad. Bu ef yn was ffyddlawn, doeth, a chymmeradwy gan liaws y frawdoliaeth, yn ei holl ymwneyd âg achosion perthynol i'r Cyfarfod Misol. Erbyn hyn, y mae yntau yn heneiddio, wedi cyrhaedd dros 83ain mlwydd oed, fel nas gellir disgwyl iddo ddilyn y cyfarfodydd mor gysson ag yr arferai. Ac ystyried ei oed, ymddengys yn gryf a bywiog; a gobeithiwn y caiff fyw am amryw o flynyddoedd etto, a pharhau yn ddefnyddiol hyd ei fedd.

Yn nechreuad y cyfnod hwn, yr oedd yma frodyr eraill yn y weinidogaeth yn agos o ran oedran iddo—rhai ychydig yn hynach, a rhai ychydig yn ieuengach. Yr oedd y Parch. Hugh Hughes, Beaumaris, wedi dechreu pregethu, ac wedi ei ordeinio o'i flaen ef. Ordeiniwyd y naill yn 1841, a'r llall yn 1843. Yr oedd y Parch. Ebenezer Davies, Llanerchymedd, hefyd, wedi dechreu pregethu, ac wedi ei ordeinio o'i flaen ef. Ordeiniwyd yntau yn 1841, yr un pryd a H. Hughes, Beaumaris. Y Parchn. Hugh Jones, Llanerchymedd, a Hugh Jones, Caergybi, yn ogystal, oeddynt wedi dechreu pregethu o'i flaen; ond ar ei ol yr ordeiniwyd hwy. Yr oedd y Parch. William Williams, Tŷ calch, ychydig yn ieuengach nag ef, heb law amryw o weinidogion ieuengach fyth—megys, y Parchn. John Charles, Penhescyn; James Donne, Llangefni; Ebenezer Evans, Bodedern; David Roberts, Tyddyn Saddler; Owen Williams, Llanrhyddlad; John Pritchard, Amlwch; William Jones, Dwyran; Hugh Jones, Llanerchymedd (Liverpool yn awr); Owen Owens, Bethel; John Richard Hughes, Tabernacl; a John Williams, Llanerchymedd (Llangefni yn awr).

Hefyd, yr oedd yma liaws o flaenoriaid rhagorol yn

nechreu y cyfnod dan sylw—megys, Hugh Hughes, Cefn mawr; Hugh Williams, Bethel; David a Robert Jones, Llanfaethlu; William Thomas, Uchel-dref-goed; John Elias, Tre'rgôf; Samuel Dew, Llangefni; Richard Davies (Arglwydd Raglaw presennol sir Fôn); Roger Evans, Porthaethwy; a llawer eraill y cawn eu crybwyll wrth fyned yn mlaen. Bu y Parch. Ebenezer Davies, Llanerchymedd, yn ysgrifenydd y Cyfarfod Misol am tuag un mlynedd ar ddeg o'r cyfnod hwn. Wedi ei farwolaeth ef, dewiswyd y Parch. John Williams, Llanerchymedd, yn ysgrifenydd; ac efe sydd yn parhau yn y swydd trwy gael ei ail ddewis bob dwy flynedd.

Y mae y cyfarfodydd misol yn y cyfnod hwn yn wahanol iawn mewn rhai pethau i'r hyn oeddynt yn y ddau gyfnod blaenorol. Y mae cymmaint, os nad mwy, o gynnrychiolwyr yn eu dilyn yn bresennol ag oedd yn y cyfnodau blaenorol; ond yr oll o'r bron—yn flaenoriaid ac yn bregethwyr, gyda'r eithriad o'r ychydig a elwir i bregethu ynddynt—yn myned adref ar ol cynnadleddau y dydd cyntaf, pan na byddai neb, o'r bron, yn y ddau gyfnod blaenorol, yn meddwl dychwelyd hyd ar ol y pregethau am ddeg yr ail ddydd. Deil y cynnulleidfaoedd cyhoeddus yn y cyfarfodydd misol yn eu poblogrwydd yn dda iawn, a'r pregethau yn parhau yn lled rymus. Er nad oes genym na John Elias, na William Roberts, Amlwch, na neb tebyg iddynt, etto, y mae genym bregethwyr galluog—rhai wedi eu magu yn ein plith, ac eraill wedi dyfod i Fôn o siroedd eraill. Gwir yw ein bod, fel sir, wedi cael ein hysbeilio o rai o'n dynion goreu; ond dylasem wylio a pheidio gadael i'r 'lladron gloddio ein tŷ trwodd, a lladrata' y rhai a anesid ac a fagesid yn ein tŷ. Da iawn genym ddeall eu bod wedi methu 'tori trwodd' yn ddiweddar, tua'r Bryn, a 'lladrata' un o'n bechgyn. Ond 'gwyliwn, gan hyny, am na wyddom na'r dydd na'r awr y daw' y lladron etto i geisio cloddio ein tŷ, a lladrata ein dynion ieuainge goreu.

Yr ydym yn bresennol yn barod i gychwyn i'n taith ymweliadol ddiweddaf âg eglwysi Methodistiaid Môn. Dechreuwn yn

Amlwch, lle yr ydym yn byw. Wedi marwolaeth y

Parch. William Roberts, nid oedd yma weinidog ond un, ac nid oedd cyssylltiad arbenig rhyngddo yntau a'r eglwys, mwy nag oedd rhwng ein hybarch dad â hi. Yr oedd y Parch. John Williams, Amlwch, yn ŵr ieuangc yn Athrofa y Bala ar y pryd. Yn y cyfamser, cafodd y gweinidog oedd yma alwad gan eglwys Porth Amlwch, a symmudodd yno; ac eglwys Fethodistaidd Amlwch yn cael ei hun, mewn canlyniad, mewn sefyllfa wahanol iawn i'r hyn y bu ynddo trwy yr holl gyfnodau blaenorol. Yn ffodus, yr oedd y Cyfarfod Misol wedi addaw 20*p*. yn flynyddol i'r Parch. Hugh Jones (ieuangc), Llanerchymedd, ar yr ammod y byddai i rhyw eglwys yn y sir roddi galwad iddo fel gweinidog, a rhoddi iddo 20*p*., neu ragor, at y swm hwn, er mwyn ei gadw yn y sir; o blegid fod amryw o eglwysi, ac yn eu plith un o eglwysi Liverpool, â'u llygaid arno fel gŵr ieuangc addawol. Cafodd alwad gan eglwys Bethlehem, Careg-lefn; a bu yn myned yno am beth amser, heb symmud yno i fyw. Yn y cyfamser, rhoddodd eglwys Amlwch alwad iddo, a chydsyniodd yntau â hi. Daeth yma yn nechreu y fl. 1865; ond yn 1871, daeth corwynt cryf o'r dwyrain i ymosod arno; ac am ei fod yntau, fel y dywedai, wedi gwreiddio mewn daear lac, y canlyniad fu iddo gael ei ddadwreiddio o Amlwch, a'i drawsblanu yn Liverpool; ac ystyrir ef yn un o bregethwyr goreu y cyfundeb. Yn 1871, adeiladwyd yma gapel hardd ac ysgoldy; ac y maent yn ddidddyled erbyn hyn. Costiodd yr adeiladau tua 2,200*p*. Y blaenoriaid yn nechreu y cyfnod hwn oeddynt Robert Jones, masnachwr glô; Hugh Hughes, llyfrwerthydd; ac Elias Jones, Gwredog, U.H. Yn 1865, dewiswyd William Roberts—mab y diweddar Barch. William Roberts—yn flaenor; a bu farw yn y fl. 1880. Cafodd eglwys Amlwch golled drom yn marwolaeth yr henuriad hwn, er ei fod ychydig yn nwythus. Yn 1873, dewiswyd Hugh Thomas, Tyddyn bach, a John Matthews, *banker*, U.H. Yr oedd y cyntaf yn ddyn tawel a chrefyddol. Bu farw yn y fl. 1876. Y mae y diweddaf yn fyw—yn un o'r blaenoriaid mwyaf gweithgar yn y sir gyda'r Ysgol Sabbothol, yn selog gyda'r achos cenhadol a'r achos dirwestol; a Mrs. Matthews—merch Thomas Gee, o Ddinbych—yn un o'r

gwragedd doethaf, caredicaf, a mwyaf ymroddgar i wasanaethu yr Arglwydd Iesu a adwaenom. Y diffyg mwyaf yn ein cyfaill John Matthews, yn marn goreuon yr ynys yn y cyfnod hwn ydyw, ei fod yn anffyddiwr yn y fugeiliaeth, fel y mae llawer, ysywaeth, yn ein sir. Yn 1879, dewiswyd John Jones, Pentre'r-felin; Owen E. Jones, Ty'n-yr-heol; ac Owen Ll. Jones, Gwredog, yn flaenoriaid. Y mae y tri hyn yn ddynion lled ieuaingc, gweithgar, a gwir ofalus am yr achos. Y mae yma rai chwiorydd ffyddlawn iawn hefyd—megys, Mrs. Hughes, Tŷ coch—merch William Morgan, yr hwn a fu yn flaenor parchus yma yn y trydydd cyfnod, ac yn wraig i Richard Hughes, yr hwn a fu yn flaenor yma yn y pedwerydd cyfnod; Mrs. Jones, Ty'n-yr-heol, ynghyd â'i phriod, ydynt yn dra llettygar i weinidogion yr efengyl; a Miss Judd, hithau yn un o'r rhai ffyddlonaf, ac yn teimlo dyddordeb mawr yn llwyddiant yr achos. Y mae yma frodyr a chwiorydd eraill crefyddol a ffyddlawn; ond nis gallwn eu henwi oll. Gwredog yw prif gartref pregethwyr yn Amlwch. Y mae yr holl deulu—yn ŵr ac yn wraig, yn fab ac yn ferch, yn weision ac yn forwynion, yn geffylau ac yn gerbydau—yn barod i wasanaethu arnynt. Arweinydd y canu yn y cyfnod hwn yw Robert Roberts, dilledydd, Rhes-fawr. Ni fu ei ragorach yn y gwasanaeth hwn yn y cyfnodau blaenorol. Yn 1882, daethom yn aelod drachefn o'r eglwys yn yr hon y magesid ni. Er fod yma ddau o honom yn weinidogion i'r cyfundeb, nid oes dim cyssylltiad bugeiliol rhyngom a'r eglwys. Y mae un o honom yn dechreu heneiddio, yn 66ain mlwydd oed, a'r llall yn llawn trafferth gyda'r byd, a'i ddiffyg clyw yn anfantais fawr iddo fod o ddefnydd i'r eglwys, fel, rhwng pob peth, yr ydym yn credu fod yr eglwys yn cael cam. Yr ydym ni wedi gwneyd ein goreu i berswadio yr eglwys i alw brawd i'w bugeilio. Os yw yr eglwys yn Amlwch ar ei cholled, fel y credwn ei bod, am nad oes ganddi fugail, nid ydym yn rhanol yn y cyfrifoldeb; ac o'r ochr arall, os yw hi ar ei mantais am nad oes ganddi fugail, nid ydym yn rhanol yn y cyfrifoldeb hapus hwnw chwaith. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma ddau weinidog, chwech o flaenoriaid, dau gant a thri a phedwar ugain o

aelodau, pum cant a dau-ar-bymtheg a thrigain o wrandawyr, ynghyd â phedwar cant a phymtheg a thrigain yn yr Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 272*p*. 13*s*. 10*c*. Y mae Bethesda, Amlwch, a'r Burwen, yn daith Sabbath. I Bethesda, Amlwch, perthyna dwy gangen Ysgol Sabbothol; sef, y Llaethdy bach a Thy'n-lon, Gwredog. Dechreuwyd hwy yn lled fuan yn y ganrif hon—yn nechreu y trydydd cyfnod, neu ddiwedd yr ail. Dywedir i'r ysgol gyntaf gael ei dechreu mewn lle a elwir Careg cwrnach. Symmudwyd hi oddi yno i'r Llaethdy bach. Yr ydym yn ei chofio mewn dau dŷ gwahanol—tai ardrethol oeddynt—a byddai dosbarthiadau mewn tai annedd hefyd, o herwydd fod y tŷ ardrethol yn rhy fychan i gynnal yr holl ysgol. Y rhai yr ydym yn eu cofio gyntaf fel colofnau yr ysgol oeddynt John Rowlands, Pentre-gwian—gŵr a fu yn flaenor yn Bethesda yn y trydydd cyfnod; John Hughes, Pentre-gwian—gŵr hynod iawn oedd hwn, yn llawn o'r pruddglwyf, ond yn ysgrythyrwr mawr, ac yn ddoniol a gwlithog mewn gweddi. Colofnau eraill oeddynt y ddau Ddaniel Edwards, Pen-y-mynydd, Parys. Bu'r ieuengaf yn arwain y canu yn Amlwch am flynyddoedd; ond symmudodd i Liverpool. Y mae yn sicr i Evan Thomas, y gôf, hefyd, fod yn ffyddlawn yma gyda'r ysgol; o blegid yn yr ardal hon yr oedd yn byw; ond nid ydym yn ei gofio ef. Ni fyddai pregethu yma hyd yn ddiweddar, ond yn achlysurol. Yn 1860, adeiladwyd ysgoldy, neu gapel bychan, rhwng y Llaethdy bach a Melin Adda, yr hwn a elwir yn Llaethdy bach; ac y mae pregethu ynddo bob Sabbath mewn cyssylltiad â Phorth Amlwch er 1877. Nid oes yma eglwys gorphoredig, aelodau o eglwys Amlwch ydyw yr holl Fethodistiaid sydd yma. John Jones, Pentre'r felin—un o flaenoriaid eglwys Bethesda—sydd yn arolygu yr achos, ac yn garedig iawn tuag ato. Yr ydym yn cofio ysgol Ty'n-y-lôn, Gwredog, mewn tŷ tô gwellt—tŷ ar dir Gwredog; ond adgyweiriodd tad y Mrs. Jones presennol y tŷ, rhoddodd dô llechi arno, gwnaeth bulpud ynddo, ac ychydig o eisteddleoedd; mewn gair, gwnaeth ef yn lle clyd, a chafwyd ef yn rhad ac am ddim. Tybia rhai fod yr ysgol hon wedi bod mewn lle o'r enw

Tyddyn bach am ychydig amser. Y prif ddynion yr ydym yn eu cofio gyntaf gyda'r ysgol hon oeddynt John Parry, Ty'n-y-coed, yr hwn oedd yn un o flaenoriaid eglwys Bethesda yn y pedwerydd cyfnod; a Rice Williams, Penrhyd, yr hwn hefyd oedd yn flaenor yn yr un eglwys yn yr un tymmor. Wedi hyny, Hugh Thomas, Tyddyn bach; Elias Jones, U.H., Gwredog; ac Owen Ll. Jones, Gwredog. Bu ysgol hefyd yn Penrhyd yn y trydydd cyfnod; ond rhoddwyd hi i fyny; ac y mae gan yr Annibynwyr gapel yma yn bresennol.

Burwen.—Sefydlwyd eglwys yma yn y cyfnod hwn. Yn 1865, dewiswyd Thomas Williams, gôf, yn flaenor. Bu John Williams, Gaerwen, blaenor arall, farw yn 1873. Yn 1880, dewiswyd y Cadben Morgans, Bryn llwyd, yn flaenor. Y mae Thomas Williams yn swyddog doniol, yn llawn tân; a'r Cadben Morgans yn ofalus gyda'r allanolion. Y mae yr achos yn gysurus yn y Burwen, o dan ofal y ddau frawd hyn, a bydd croesaw i bregethwr yn Mryn llwyd bob amser. Nid yw yr ardal yn un boblog; ac felly, nis gellir disgwyl eglwys liosog yma. Bu John Hughes, *draper*—un o flaenoriaid Tabernacl, Ffestiniog—yn flaenor yma am ysbaid byr; ond symmudodd yn ol i Ffestiniog. John Parry, Werthyr, a John Jones, Bodhunod, hefyd, a fuont yn garedig i'r achos yn y lle hwn. Y mae Burwen ac Amlwch yn daith Sabbath. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma ddau flaenor, hanner cant o gymmunwyr, cant a thrigain o wrandawyr, a dau a phedwar ugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 40*p*. 16*s*. 7*c*.

Peniel, Porth Amlwch.—Yn nechreu y cyfnod presennol, daethom yma yn weinidog. Cawsom alwad fel bugail i Hermon, Dowlais; Heol dwfr, Caerfyrddin; a Llanymddyfri, bron yr un dyddiau. Yr oeddym yn tueddu i gydsynio âg un o'r galwadau hyn; ond cynnygiodd Cyfarfod Misol Môn 20*p*. yn y flwyddyn i ni, os arosem yn Mhorth Amlwch, ac i'r eglwys wneyd 20*p*. eraill i ni, yn flynyddol; ac mewn canlyniad i hyn, arosasom yma. Buom yma am yn agos i ugain mlynedd; a dyma yr ugain mlynedd mwyaf hapus yn ein hoes weinidog-

aethol. Yr oeddym yn hoff o'r eglwys, a'r eglwys yn hoff o honom ninnau. Cawsom amryw alwadau i symmud, ac addewid o 60*p*. yn y flwyddyn yn fwy nag oeddym yn ei gael yma; ond yr oedd yr undeb oedd rhyngom fel gweinidog ac eglwys yn rhy gryf i 60*p*. yn y flwyddyn allu ei dori. Nid ydym, wrth ddywedyd hyn, yn proffesu mai haf oedd hi trwy gorph yr ugain mlynedd. Na, gwelsom auaf digon oer rai gweithiau; gwyntoedd ystormus yn chwythu; ond byddent yn myned heibio heb wneyd ond ychydig iawn o niwed; ac weithiau, byddent yn gwneyd ychydig o les trwy oruwchlywodraeth Pen yr Eglwys. Yn y cyfamser, yr oedd dau o'n cyfoedion yn flaenoriaid; sef, William Williams, Madyn; ac Owen Owens, *draper*, &c. Er ein bod yn gyfoedion, ac felly, yn hyf iawn ar ein gilydd, ni bu tri swyddog mwy anwyl o'u gilydd erioed. Y mae William Williams wedi marw, ar ol ennill iddo ei hun y cymmeriad o fod yn Gristion ffyddlawn. Bu gyda ni am daith yn y Deheudir am chwech wythnos. Yr oedd yn yr eglwys hon ddynion mwy meddylgar a doniol nag ef; ond nid oedd yma neb yn fwy ffyddlawn, os mor ffyddlawn. Bu farw Rhagfyr 21ain, 1886. Y mae Owen Owens yn fyw etto; yn ddyn caredig, tawel, a llawer mwy meddylgar nag oedd ei gyfaill. O gariad at yr eglwys—ac y mae genym fwy o hono ati hi nag at yr un eglwys arall yn Môn—yr ydym yn dymuno hir oes iddo i fod yn ddefnyddiol ynddi; a phan y daw i'r pen, iddo gael 'mynediad helaeth i mewn i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist.' Yr oedd Edward Jones yn flaenor yma hefyd, a derbyniwyd ef yn bregethwr yn 1866; ond symmudodd yn fuan i Ddublin. Yn 1871, daeth William Hughes, Bodednyfed, yma o Fanchester. Yr oedd yn arfer cynghori ychydig weithiau ar ol dyfod yma; ac yn fynych iawn, pan oedd yn Manchester, yn y gwahanol drefydd cylchynol, byddai yn arfer dywedyd cyfarchiadau byrion hwyliog iawn yn y cyfarfodydd eglwysig. Bu farw yn 1885. Yn 1881, dewiswyd Richard Jones a Thomas Williams, *draper*, yn swyddogion. Y mae y cyntaf yn ddyn meddylgar a chraff, a'r diweddaf yn ddyn gofalus am yr achos. Yn

1887, chwanegwyd pedwar swyddog atynt; un o honynt ydyw Samuel Hughes, Bodednyfed, yr hwn a ddaeth yma o Bethel; ac sydd yn ŵr siriol, caredig, haelionus, ac yn feddiannol ar dymmher naturiol ragorol. Credwn y bydd ef a'i wraig, os cânt fyw, ac os arosant yma, yn noddwyr i Fethodistiaeth yn Mhorth Amlwch. Y mae ef yn fab i Richard Hughes—un o flaenoriaid eglwys Amlwch yn y cyfnod blaenorol; ac yn nai i'r Parch. Robert Hughes, Gaerwen. Y tri eraill ydynt, Hugh Pritchard, Lewis Hughes, a Robert Jones. Y mae y cyntaf yn dra doniol, ac yn frawd i'r Parch. Robert Hughes, Gaerwen; yr ail yn wleidyddwr galluog, a'r trydydd can galled ag un o honynt. Ceir yma deuluoedd caredig iawn i'r achos yn y cyfnod hwn, yn enwedig Cadben Thomas, Bryn eilian; David Edwards, fferyllydd; ynghyd â'u gwragedd; ac Owen Owens, *draper*, a'i ferch Ellen, yn rhagori mewn meddylgarwch. Bu yma rai dynion hynod o dduwiol yn y cyfnod hwn; sef, William Williams, y *Brewhouse*, neu fel y galwai rhai ef, William Williams, y gweddïwr; David Owen—tad Owen Owens, un o'r blaenoriaid; ni allai ef wrandaw, na siarad am y Gwaredwr, heb wylo yn hidl. Cadwaladr Williams, dilledydd; er mai dyn bychan a thlawd ydoedd, yr oedd yn Gristion mawr a chyfoethog, ac yn weddïwr gwlithog a hwyliog; a John Griffith, y cariwr, yntau yn hawdd iawn ganddo dori allan mewn hwyl clodforus. Nid oedd yn anhawdd cadw cyfarfodydd eglwysig gyda'r fath hyn. Mewn canlyniad i ni fyned i fyw i Fron dirion, dwy filldir o'r Borth, a bod sefyllfa ein hiechyd y cyfryw ar y pryd, barnasom na allem wneyd cyfiawnder, fel gweinidog, â'r eglwys; ac am hyny, rhoddasom ein bugeiliaeth i fyny yn 1881. Yn 1886, daeth yma bregethwr ieuangc, o'r enw William Matthews, M. A. Yn niwedd y flwyddyn hono, yr oedd yma un pregethwr, tri o flaenoriaid, cant a deg a phedwar ugain o gymmunwyr, tri chant a phedwar ugain o wrandawyr, a dau gant a deugain yn yr Ysgol Sabbothol. Cyrhaeddai cyfanswm yr holl gasgliadau 160*p*. 10*s*. 8½*c*.

Bethesda, Cemmaes.—Bu William Roberts, Tai hen, farw yn 1867. Yn 1866, dechreuodd John Isaac Hughes

bregethu; ond symmudodd oddi yma; ac y mae yn awr yn yr America. Yn 1869, dewiswyd Isaac Hughes, masnachwr, a John Williams, Tre'r-gôf, yn flaenoriaid. Bu y cyntaf farw yn 1883. Yr oedd yn ffyddlawn gyda'r achos. Efe oedd tad John Isaac Hughes, y pregethwr. Yn 1876, dewiswyd Robert Williams, Tyddyn-yr-onwy, yn swyddog. Yn yr un flwyddyn, dechreuodd gŵr ieuangc o'r enw Owen Jones bregethu; ond symmudodd i Liverpool. Yn 1880, bu William Hughes farw. Dyn gwir grefyddol oedd efe. Yn 1884, dewiswyd William Roberts, masnachwr, yn henuriad. Cydnabyddir David Hughes, Wylfa, U.H., hefyd, yn flaenor yma, pan y bydd yn bresennol. Y mae ef a Mrs. Hughes yn garedig i'r achos. Yn y cyfnod hwn, ceir y Parch. John Roberts, Tai hen, yma yn bugeilio, ac yn pregethu un Sabbath yn y mis; ac y mae ei weinidogaeth yn dra chymmeradwy. Y mae Mrs. Owen—gweddw John Owen, yr hwn a fu farw yn 1869—yn gymmwynasgar i Fethodistiaeth. Y mae Bethesda a Morïah, mewn cyssylltiad â'u gilydd, yn daith Sabbath. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pump o flaenoriaid, cant ac wyth a thrigain o gymmunwyr, tri chant o wrandawyr, a dau gant ac un-ar-bymtheg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 113*p*. 5*s*., a'r ddyled ar y capel yn 140*p*. Y mae Hugh Jones, Tre'r-gôf, yn swyddog. Daeth yma wedi ei dderbyn yn flaenor gan Gyfarfod Misol sir Fflint.

MORIAH.—Corphorwyd eglwys yma yn 1863, a dewiswyd John Hughes, Neuadd, yn flaenor. Bu y gŵr hwn yn ffyddlawn iawn am dymmhor; ond ymddiswyddodd o herwydd dyryswch yn ei amgylchiadau. Yn mhen tua dwy flynedd, dewiswyd John Williams, Penterfyn, a David Hughes, Tŷ capel, yn flaenoriaid. Bu y cyntaf farw yn yr un flwyddyn. Yr oedd John Williams yn ŵr crefyddol, llawn o deimlad, yn ffyddlawn, a meddai fwy o allu meddyliol na neb arall yn yr eglwys hon. Cafodd yr achos bychan hwn golled fawr yn ei farwolaeth ef. Bu David Hughes farw yn 1874. Yn 1867, dewiswyd Owen Roberts, Bryn neuadd; a John Edwards, Tŷ capel, yn flaenoriaid. Daeth y cyntaf yma o Liverpool, a bu

farw yn lled fuan wedi ei ddewis, ac yr oedd ei farwolaeth yn golled fawr i eglwys mor wan. Yn 1874, galwyd Sadrach Roberts, Glan-yr-afon, a Henry Griffith, Tŷ bach, garddwr, i'r flaenoriaeth. Diswyddwyd y cyntaf o herwydd rhyw anghydfod. Y mae yr achos yn parhau yn wan iawn yn y lle hwn, a'r boblogaeth yn deneu. Parhäai Bethesda a Morïah mewn cyssylltiad â'u gilydd yn daith Sabbath i ddiwedd y cyfnod hwn. Bu teulu Cae Adda—John Griffith, a'i ferch ar ei ol—yn garedig iawn i'r achos am flynyddoedd; ac y mae teulu Risallt—Richard Owen, a'i fab a'i ferch—yn parhau yr un mor garedig. Yn niwedd y flwyddyn 1886, yr oedd yma ddau flaenor, tri-ar-ddeg-ar-hugain o gymmunwyr, trigain o wrandawyr, a saith-a-deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 9*p*. 11*s*. 6*c*. Y mae y Cyfarfod Misol yn estyn ychydig gynnorthwy i'r eglwys hon.

Libanus, Llanfechell.—Yn y fl. 1870, dewiswyd Lewis Roberts, Bryn mechell, a Robert Edwards, Siop, yn flaenoriaid. Hefyd, daeth John Roberts, Dŵmcha, yma o Bethlehem, yr hwn oedd yn hen swyddog parchus yn yr eglwys hono. Y mae yr eglwys hon, yn y cyfnod hwn, yn lled lewyrchus, er nad ydyw yn lliosog. Y mae Robert Edwards yn flaenor gweithgar, ac yn frawd sydd wedi ennill ei le yn y Cyfarfod Misol. Yma y mae y Parch. Robert Edwards yn aelod, ac yn frawd cymmhwys i arwain yn y cyfarfodydd eglwysig. Y mae teulu Bryn Mechell yn dra charedig i weinidogion yr efengyl pan y deuant i Lanfechell. Yn 1883, adeiladwyd ystafell a elwir Elwyn Hall. Bu teulu Bodelwyn mor haelionus tuag at yr adeilad fel y galwodd yr eglwys hi yn Elwyn Hall. Y mae yr holl adeiladau yn rhydd-ddaliadol, ac yn hollol ddiddyled. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pedwar o flaenoriaid, pedwar ugain a deuddeg o gymmunwyr, cant a deg-a-thrigain o wrandawyr, a chant ac wyth yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau ydoedd 97*p*. 2*s*. 5½*c*. Llanfechell a Mynydd Mechell, mewn cyssylltiad â'u gilydd, a ffurfient y daith Sabbath. Bu John Roberts farw yn 1887.

Jerusalem, Mynydd Mechell.—Yn 1865, dewiswyd

John Williams, Ty'n-y-buarth, yn flaenor yma—gŵr ieuangc gobeithiol; ond bu farw yn 1880. Yr un flwyddyn, dewiswyd dau ŵr ieuangc arall; sef, Evan Williams, Tŷ newydd, a John R. Hughes, Coeden. Y flwyddyn hono, hefyd, yr adeiladwyd y capel am y bedwaredd waith. Helaethwyd ef i un llath ar bymtheg wrth ddeg oddi fewn; ac y mae yn gapel hynod o ddestlus. Y mae yr achos yn parhau yn llwyddiannus. Ceir yma swyddogion gweithgar a ffyddlawn. Yn eu plith, y mae William Thomas, Uchel-dref-goed; y brawd sydd wedi ennill iddo ei hun radd dda yn ei eglwys gartref, a'r un modd yn y Cyfarfod Misol. Y mae Uchel-dref-goed wedi bod yn gartref i bregethwyr er's llawer o flynyddoedd. Merch yw Mrs. Thomas i'r diweddar John Owen, Fferam isaf; ac felly, wedi arfer dangos caredigrwydd i weinidogion yr efengyl ar hyd ei hoes. Robert Williams a werthfawrogir yn fawr gan yr eglwys. Y mae Robert Edwards, Twll-y-clawdd, wedi symmud er's blynyddoedd i Lanfechell; ac wedi symmud o restr y blaenoriaid i restr y gweinidogion. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma bump o flaenoriaid, cant a chwech o gymmunwyr, dau gant o wrandawyr, cant a phedwar-ar-ddeg a thrigain yn yr Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 98*p*. 2*s*. 11*c*. Y mae Jerusalem a Llanfechell yn daith Sabbath. Dyled bresennol y capel, 88*p*. 5*s*. 3*c*.

Llanrhyddlad.—Yn y cyfnod hwn etto, y mae Llanrhyddlad, Salem, Llanfair-yn-Nghornwy, a Siloam, Cemlyn, yn gyssylltiol à'u gilydd, yn daith Sabbath. Yn 1866, dewiswyd Hugh Hughes, Cae newydd, yn flaenor. Yn 1869, bu farw John Hughes. Yn 1880, dewiswyd Richard Owen, Ysgubor ddu. Adgyweiriwyd y capel o fewn, a gwnaed ef yn addoldy teilwng o'r gynnulleidfa yn 1878. Nid yw yr achos mor gryf yn y cyfnod hwn ag ydoedd yn y cyfnod blaenorol; o blegid fod Salem a Siloam yn eglwysi corphoredig; ac yn meddu eu gwasanaeth crefyddol dair gwaith bob Sabbath. Yn y fl. 1885, symmudodd y Parch. John V. Williams, o Roscolyn, yma i fyw, a rhoddodd y ddwy eglwys—Llanrhyddlad a Salem—alwad iddo i'w bugeilio. Y mae y gweinidog hwn yn ddyn bywiog, siriol, a gweithgar.

Yn 1886, yr oedd yma un gweinidog, tri o flaenoriaid, cant a deg o gymmunwyr, dau gant ac un-ar-ddeg o wrandawyr, a chant a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 84*p*. 19*s*. 5*c*. Y mae teulu Cefn coch yn garedig iawn i bregethwyr, a'r caredigrwydd hwnw yn tarddu oddi ar gariad at yr hwn a bregethir ganddynt.

Salem, Llanfair-yn-Nghornwy.—Dewiswyd William Williams, Tŷ capel, ac Ismael Jones, Bryn colcerth, yn flaenoriaid, yn 1866. Bu y diweddaf farw yn 1876. Y flwyddyn ganlynol, dewiswyd Hugh Jones, Siop, ac yn 1883, Thomas Owen, Taldrwst. Bugeilia y Parch. John V. Williams yma, fel yn Llanrhyddlad. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yn Salem dri o flaenoriaid, un-a-deugain o gymmunwyr, cant a phedwar o wrandawyr, a phedwar ugain a dau yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 42*p*. 12*s*. 9*c*.

Siloam.—Ychydig gynnydd sydd yma, am nad yw y gymmydogaeth yn un boblog. Y mae yma eglwys gorphoredig yn bresennol. Yn 1866, dewiswyd Richard Williams, Cae'r degog, a William Williams, Fron ddu, yn flaenoriaid. Fel yr ydym eisoes wedi dyweyd, y mae Siloam, Salem, a Llanrhyddlad, yn daith Sabbath trwy y cyfnod hwn—dim ond un bregeth yn mhob un o honynt ar y Sabbath. Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau flaenor, wyth a deugain o gymmunwyr, cant a thri o wrandawyr, deunaw a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol; a chyfanswm yr holl gasgliadau yn 40*p*. 14*s*. 2*c*.

Bethlehem, Careg Lefn.—Yn y fl. 1869, derbyniwyd Edward Thomas yn bregethwr; ond symmudodd i sir Fflint yn 1871. Yn 1873, dewiswyd Hugh Roberts, U.H., Penbol, a Hugh Williams, Llwyn-yr-arth, yn flaenoriaid. Y mae y cyntaf yn fab i'r hen flaenor o'r un enw, ac o'r un lle, ac yn ŵr caredig, fel ei dad; a'r diweddaf yn nai i'r diweddar Barch. Cadwaladr Williams, ac yn ddyn meddylgar, fel yntau. Yn 1875, dewiswyd John T. Jones, Glan-y-gors, a William Owen, Fferam. Yn y cyfnod hwn, symmudodd John Owen, o Langoed, i Lanol i fyw, a chydnabyddwyd ef yn swyddog yma, tra y teimlir colled fawr ar ei ol yn y lle blaenaf. Yn niwedd y

cyfnod hwn, symmudodd Thomas Jones o'r Gorslwyd i'r Creigiau i fyw, a chydnabyddwyd yntau yn swyddog, er colled i'r Gorslwyd. Yn 1881, dechreuodd Ebenezer Owen, Rhos goch—yr hwn oedd yn ŵyr i'r diweddar Barch. Thomas Owen, Llangefni—bregethu. Yr oedd yn bregethwr addawol iawn; ond bu farw Mehefin 2il, 1884, wedi pregethu am o ddeutu tair blynedd. Yn 1885, dechreuodd William P. Owen, Llanol, bregethu. Mab ydyw efe i John Owen o'r un lle. Yn 1878, rhoddodd yr eglwys alwad i'r Parch. William Roberts, Pen-y-garnedd, i'w bugeilio, a chydsyniodd yntau i ddyfod; ac ordeiniwyd ef yn 1880. Bethlehem a Rhosbeirio yw y daith Sabbath. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma un gweinidog, un pregethwr, chwech o flaenoriaid, cant a phedwar ugain o gymmunwyr, tri chant a thri-ar-ddeg a deugain o wrandawyr, a dau gant a thri a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 159*p*. 5*s*. 2½*c*.

Rhosbeirio.—Yr oedd Rice Owen yn aros yma drwy y cyfnod presennol, oddi eithr blwyddyn neu ddwy. Yn 1885 y bu ef farw. Yn 1868, dewiswyd Thomas Jones, Bodewryd, a William W. Owen, Rhosbeirio—mab i Rice Owen, o'r un lle, yn flaenoriaid. Dyn tawel, pwyllog, a gostyngedig—yn meddwl ei fod yn llai yn mhob peth nag ydoedd mewn gwirionedd—oedd y cyntaf. Bu ef a Mrs. Jones yn garedig i Fethodistiaeth, fel teulu Rhosbeirio. Aelodau yn Bethlehem oedd teulu Bodewryd cyn corphori eglwys yn Rhosbeirio. Byddai y boneddwr hwn mor garedig fel y byddai, bob nos Sabbath y byddem yn Bethlehem, yn ein danfon adref yn ei gerbyd: a llawer ymgom grefyddol a fu rhyngom yn y cerbyd. Yr oedd yn ddyn gwir grefyddol. Bu farw yn 1875. Y mae William Owen yn aros yma, ac yn ddefnyddiol. Y mae plant Rhosbeirio a Bodewryd yn ffyddlawn i Fethodistiaeth, fel yr oedd eu rhïeni. Y mae Miss Owen yn ffyddlawn, ac yn garedig. Ni synem pe y gelwid un gŵr ieuangc yn 'bregethwr Miss Owen,' o herwydd ei charedigrwydd yn ei gynnorthwyo i gael dysg. Yn 1876, daeth Griffith Griffiths o Leyn i Nant-y-frân; a dewiswyd ef yn flaenor. Bydd y Parch. John Roberts, Tai hen, yn dilyn y cyfar-

fodydd eglwysig yma. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma ddau flaenor, tri-ar-ddeg ar hugain o gymmunwyr, pedwar ugain a phump o wrandawyr, a phedwar-ar-ddeg a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau yw 48*p*. 1*s*. 4*c*.

Gorslwyd.—Yn gynnar yn y cyfnod hwn—tua'r fl. 1865—adeiladwyd yma gapel newydd cysurus, a thŷ da. Bu W. Pritchard, Richard Jones, a Hugh Jones, yn flaenoriaid yma am rai blynyddoedd yn y cyfnod hwn. Bu y cyntaf farw yn 1879, yr ail yn 1881, a'r trydydd yn 1875. Yr oedd y cyntaf yn wir alluog, a'r trydydd yn fwy galluog na'r cyffredin o'i frodyr. Yn 1873, dewiswyd Thomas Jones, yr ysgolfeistr, yn swyddog; ond symmudodd i Bethlehem. Yn 1876, dewiswyd W. Lewis, gôf, a J. Owen, porthmon—dau frawd gwir ofalus am yr achos. Yn 1886, dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw Hugh Williams, bregethu. Y flwyddyn ganlynol, dewiswyd dau frawd yn flaenoriaid, at y ddau oedd yn flaenorol; sef, David Griffiths, Penrhyn, a Robert Jones, Gorslwyd bach. Y mae yma ddau deulu yn nodedig o garedig i weinidogion yr efengyl—teulu y *Post Office*, a theulu Pen-yr-orsedd. Yr oedd Mrs. Jones, y *Post Office*, yn un o'r gwragedd mwyaf caredig yn Môn i bregethwyr; ac y mae ei merch, Grace, yn dilyn esampl ei mam mewn caredigrwydd; ond ni allasai y fam a'r ferch ddangos y fath garedigrwydd oni buasai fod y gŵr a'r tad yn gyfranog o'r un rhinwedd. Y mae Mrs. Jones, Pen-yr-orsedd, yn llenwi lle mawr yn yr eglwys hon, ac yn ymroddgar i grefydd yn ei holl ddyledswyddau. Y mae cangen o'r eglwys hon yn Mynydd Parys. Cynnelid Ysgol Sabbothol yn nhŷ Hugh Parry; wedi hyny mewn adeilad berthynol i ŵr o'r enw O. Jones, tua'r fl. 1840. Yn 1851, adeiladwyd ysgoldy; ac yn 1863, dechreuwyd pregethu bob Sabbath; ond nid oes yma eglwys gorphoredig. Yn niwedd 1886, yr oedd yn y Gorslwyd ddau flaenor, cant a dau-ar-bymtheg ar hugain o gymmunwyr, dau gant a chwech o wrandawyr, a chant a naw a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 119*p*. 15*s*. 6*c*.

Llanerchymedd.—Yn nechreu y cyfnod hwn, nid oedd

yma ond John Williams a William F. Williams yn flaenoriaid; ac ymddiswyddasant yn 1867. Y flwyddyn ganlynol, dewiswyd Richard Jones, Ystryd fain, a William Griffith, canwyllwr, yr hwn a symmudodd i Fryn-twrog, yn flaenoriaid. Yn 1872, ail ddewiswyd William F. Williams; ond bu farw yn y fl. 1881. Yn y cyfamser, daeth Hugh Jones, y saer, o Lanfechell yma. Yn nechreuad y cyfnod presennol, ceid yn Llanerchymedd bedwar o weinidogion; sef, y Parchn. Ebenezer Davies, Hugh Jones, Richard Roberts, a John Williams; ond erbyn hyn, nid oes yno yr un. Bu y Parch. E. Davies farw yn 1875, y Parch. Hugh Jones a'r Parch. Richard Roberts yn 1884, a symmudodd y Parch. John Williams i Langefni yn 1887. Bu y Parch. John V. Williams, Llanrhyddlad, yma am ychydig amser wedi iddo ddychwelyd o America. Yn 1879, dewiswyd Hugh Pritchard, yr ysgolfeistr, yn flaenor; yn 1883, dechreuodd bregethu; ac yn 1886, ordeiniwyd ef. A symmudodd i fugeilio eglwysi Hebron a Chaergeiliog. Yr oedd gan H. Pritchard gymmhwysderau mwy na llawer i fugeilio eglwys. Daw ei farwolaeth i sylw etto. Yn 1884, dechreuodd dau ŵr ieuangc arall bregethu; sef, John Jones a William Davies. Nid ydynt hwy etto wedi gorphen eu hefrydiaeth athrofaol. Yn 1883, dewiswyd Richard Jones, Tŵr-celyn, yn flaenor; ac yn 1887, dau frawd arall; sef, John Owen a Robert Roberts. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma ddau bregethwr, tri o flaenoriaid, dau gant a hanner o gymmunwyr, chwe chant o wrandawyr, a thri chant ac un a deugain yn yr Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 202p. 17s. 3½c. Y mae Caersalem mewn cyssylltiad â Llanerchymedd fel taith Sabbothol. Dyled bresennol y capel yw 208p. Y mae yma ystafell ëang berthynol i'r capel; ac ar hon y mae y ddyled.

Carmel.—Yn nechreu y cyfnod hwn, Owen Owens a William Williams oedd y blaenoriaid; ond bu y cyntaf farw yn 1869. Yn 1865, dewiswyd Samuel Owen, Bodsuran, atynt; ond symmudodd oddi yma i Fryn du. Yn 1873, dewiswyd John Roberts, Geirn, a John Roberts, Rhys-owen, yn henuriaid; ac yn 1882, dau frawd arall,

o'r enwau David Owen, Chwaen ddu—ond diswyddwyd ef—a John Williams, Parc newydd. Y mae Carmel a Seion mewn cyssylltiad â'u gilydd yn daith Sabbath. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma bedwar o flaenoriaid, pedwar ugain a phedwar-ar-bymtheg o gymmunwyr, cant a thrigain a phedwar o wrandawyr, a chant a phymtheg ar hugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 230*p*. 10*s*. 9*c*.

Seion.—Yn mlynyddoedd cyntaf y cyfnod hwn, yr oedd Hugh Hughes, Cors-yr-eira, a Robert Jones, Bodeillion, yn flaenoriaid yma; ond bu y diweddaf farw yn 1870. Yn 1867, dewiswyd Robert Jones, Pen-cefn, mab Hugh Jones, yr Hafod, a Morris Jones. Bu y cyntaf farw yn 1875; a symmudodd y diweddaf i Lanfair. Yn 1873, dewiswyd Henry Roberts, Pentre'r-felin, yn swyddog; ac yn 1880, John Rowlands, Henblas, a Henry Jones, Tryfel. Dylasai William Jones gael ei grybwyll cyn y ddau ddiweddaf; o blegid dewiswyd ef yn y fl. 1879. Bu John Thomas, yr hwn a fu yn flaenor yma, farw yn 1880. Yn y cyfnod hwn, corphorwyd eglwys yn Mryn-twrog. Daeth rhai o Seion, ac eraill o Gosen yma i ffurfio eglwys. Daeth blaenor o bob un o'r ddau gapel hefyd; sef, Hugh Hughes, o Seion, a Richard Evans, o Gosen. Daeth pregethwr i gadw ysgol i ardal Seion; ac felly, yn aelod o'r eglwys yn bur ddiweddar, o'r enw Matthew J. Mills. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma un pregethwr, pedwar o flaenoriaid, pedwar ugain a phump o gymmunwyr, cant a phedwar ugain a deg o wrandawyr, a chant a naw yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 68*p*. 1*s*. 6*c*.

Elim.—Bu Thomas Owen, Bodynolwyn, farw yn 1868, a Thomas Jones, y Felin, yn 1869. Diswyddwyd William Jones yn 1867. Yn 1869, dewiswyd Richard Roberts, Llynon ffarm, a Griffith Griffiths, siop, Llanddeusant, yn flaenoriaid. Symmudodd y cyntaf i Landegfan, ac y mae yn swyddog yno. Yn 1870, dewiswyd W. Williams, Tremoel goch; a bu farw yn y fl. 1875. Yn 1876, dewiswyd Richard Roberts, Tyddyn Roger; yn 1879, Thomas Jones, Caergwrli, a John Thomas, Balog; ac yn 1887, William Hughes, Meiriogan. Bu yma ddau neu

dri bugail yn y cyfnod hwn; sef, y Parchn. Owen Owens (Liverpool)—pregethwr gwir dda; Henry Solomon Ellis; a Griffith Roberts (Carneddi). Symmudodd y cyntaf oddi yma i Liverpool yn 1872. Bu yr ail farw yn y fl. 1873. Daeth y diweddaf yma o Eifionydd, yn 1874, a symmudodd i Garneddi yn 1876. Y mae y gŵr hwn yn bregethwr galluog. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bedwar o flaenoriaid, cant a thrigain a dau o gymmunwyr, dau gant a deuddeg a thrigain o wrandawyr, a chant a phedwar ugain a phymtheg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau yw 105*p*. 1*s*. 1*c*. Dyled y capel yw 45*p*. Y mae Elim a Thy'n-y-maen yn parhau mewn cyssylltiad â'u gilydd yn daith Sabbath. Y mae yma hen frawd yn aros sydd yn cofio adeiladaeth y capel cyntaf; a bu yn dra gwasanaethgar fel arweinydd y canu, a chyda rhanau eraill o'r gwasanaeth. Ei enw yw Hugh Hughes.

Ty'n-y-maen.—Gadawsom yr eglwys hon yn y cyfnod blaenorol wedi dyfod trwy ystormydd mawrion; ond y mae yn dda genym gael talu ail ymweliad â hi, a chael ar ddeall fod y rhuthr-wyntoedd wedi myned heibio, a bod tawelwch mawr. Yr oedd yr hen flaenor, Owen Hughes, yn fyw yn nechreu y cyfnod hwn; ond bu farw yn 1867. Nid oes genym ammheuaeth nad aeth efe i dangnefedd. Yn lled gynnar yn y cyfnod hwn, daeth Dr. William Jones, o Gaergybi, i fyw i Graianfryn, yr hwn oedd yn henuriad cyn dyfod, a bu o fendith yma. Adgyweiriwyd y capel yn ei amser; ond symmudodd oddi yma i Gefn bach. Yn 1874, dewiswyd John Thomas a Thomas Williams, Cae-crin, yn flaenoriaid; a symmudodd W. Williams, Bryn-palma, o Lanfachreth yma. Y mae y Parch. William Jones, Tyddyn Watcyn, yn aelod o'r eglwys hon yn bresennol. Parhâ Ty'n-y-maen ac Elim yn daith Sabbath. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma un gweinidog, dau flaenor, pymtheg a deugain o gymmunwyr, cant o wrandawyr, a phedwar ugain a dau yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau ydoedd 35*p*. 15*s*. 5½*c*.

Llanfaethlu.—Y mae Methodistiaeth yn ymberffeithio yma yn y cyfnod hwn. Cafodd golled fawr yn marwol-

aeth Robert Jones, Bryn-maethlu, yr hyn a gymmerodd le yn y fl. 1875; ac nid colled fechan a gafodd yn marwolaeth Mrs. Jones, Penrhos-ddu, hefyd. Y mae David Jones a Richard Davies yn aros, ac yn dra defnyddiol trwy y cyfnod hwn. Nid dynion cyffredin yw y ddau flaenor hyn, ond gwŷr â dylanwad yn perthyn iddynt yn yr eglwys. Tua'r fl. 1878, adeiladwyd capel newydd destlus yma; ac y mae yma adeiladau cyfleus yn perthyn iddo. Yn 1887, dewiswyd Richard Jones, dilledydd, yn flaenor. Y mae Llanfaethlu, Llanfwrog, a Llanfachreth, yn daith Sabbath. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma ddau flaenor, cant a thri-ar-ddeg o gymmunwyr, dau gant a dau-ar-hugain o wrandawyr, a chant a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol; a chyfanswm yr holl gasgliadau yn 117*p*. 1*s*. 8½*c*.

Llanfwrog.—Bu Owen Griffith, Trelywarch, farw yn 1877. Ymadawodd Owen Jones, Aberalaw, oddi yma i Lanfachreth, yn niwedd y cyfnod blaenorol. Parodd sefydliad eglwys yn Llanfachreth i'r eglwys a'r gynnulleidfa leihau. Symmudodd Robert Thomas, Bodfarddan ddu, oddi yma i Aberffraw; ond dychwelodd yn ol. Yn 1876, dewiswyd Lewis Hughes, Pen-y-mynydd; ac yn 1885, William Jones, Ty'n-llan, a William Griffith, Plas-yn-nglyn—mab i'r hen flaenor Owen Griffiths, Trelywarch—yn flaenoriaid. Bu Edward Elias farw yn y fl. 1882. Y mae y tri lle; sef, Llanfwrog, Llanfachreth, a Llanfaethlu, yn parhau mewn cyssylltiad â'u gilydd yn daith Sabbath —un bregeth yn mhob un. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bump o flaenoriaid, deunaw a thrigain o gymmunwyr, cant a thrigain a phump o wrandawyr, a chant a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 84*p*. 2*s*. 4½*c*.

Llanfachreth.—Owen Jones, Aberalaw, sydd yma yn nechreu y cyfnod yn arolygu yr achos fel blaenor; ac yn 1864, galwyd ato ddau ŵr o'r enwau John Hughes, a William Williams, Bryn-palma. Yn 1874, dechreuodd Richard Jones (*Glanalaw*), bregethu; ond symmudodd i Millom. Yn 1876, dewiswyd Hugh H. Owens, Tan'rallt, yn flaenor; yr hwn a ymddiswyddodd. Bu y Parch. G. Williams farw yn 1880, O. Jones yn 1881, a J. Hughes

yn 1880. Dewiswyd dau frawd yn flaenoriaid, o'r enwau John Jones, ysgolfeistr, a Lewis Pritchard, Tŷ newydd, yn y fl. 1882. Daeth y Parch. W. Edwards, Gwalchmai, yma i fyw yn 1877; ond ymddiswyddodd yn 1886. Y mae yr achos yn fychan yn y lle hwn. Yr oedd y gymmydogaeth wedi ei meddiannu gan enwadau eraill cyn i Fethodistiaid ddechreu gweithio yma o ddifrif. Ystyrid fod capel Llanfwrog a chapel Ty'n-y-maen yn ddigon agos i Lanfachreth. Llanfachreth, Llanfwrog, a Llanfaethlu, yw y daith Sabbath yn y cyfnod hwn etto. Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau flaenor, pymtheg a deugain o gymmunwyr, cant a naw o wrandawyr, ac un-ar-bymtheg a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 51*p*. 8*s*. 8½*c*.

Bodedern.—Yn 1865, bu Richard Lewis, un o flaenoriaid yr eglwys hon, farw. Sefydlwyd eglwys yn Tabor hefyd yn y cyfnod hwn; ac ymadawodd Richard Williams, Cleifiog, yno. Yn y fl. 1865, dewiswyd Robert Lewis, gwas Dr. Roberts, Mynydd-y-gôf, a Hugh Jones, Einiog Chwith, yn flaenoriaid. Yr oedd y diweddaf yn fab i Hugh Jones, yr hwn oedd yn flaenor yma yn un o'r cyfnodau blaenorol; ac yr oedd Edward Jones, Maen-eryr, yn hen daid iddo. Bu Dr. Roberts farw yn 1869, a Michael Parry yn 1874. Yn y cyfamser, daeth Thomas Lloyd, Llywenan, yr hwn oedd yn flaenor yn Nghae'r-geiliog; a Robert Roberts, yr hwn oedd yn flaenor yn Tabor, yma i fyw; a dewiswyd y ddau. Dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw John Griffith, bregethu yma; ond attaliwyd ef, ac aeth at y Bedyddwyr. Y mae y Parch. Ebenezer Evans yn aros yma. Y mae ei deulu ef, a theulu Llywenan, yn garedig iawn i'r achos. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pedwar o flaenoriaid, cant a hanner o gymmunwyr, tri chant a phump o wrandawyr, a chant a phedwar ugain a deuddeg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 144*p*. 4*s*. 0½*c*.

Tabor, Valley.—Nid oedd yr addoldy yn y lle hwn yn y cyfnod blaenorol ond ysgoldy i gadw Ysgol Sabbothol, ac i bregethu am ddau prydnawn Sabbath. Byddai raid i'r trigolion gyrchu i Fodedern, neu i Gaergeiliog, at y

nos. O herwydd pellder y ffordd i'r naill le a'r llall, cadwai William Hughes, Cleifiog, ysgol ar nos Sabbothau i'r plant yn unig, ac yntau ei hun yn eu dysgu. O ddeutu y fl. 1857, gan fod yr hen ysgoldy yn wael a dïaddurn, adeiladwyd capel bychan cysurus ar safle yr hen ysgoldy. Yn 1868, ceid gŵr, o'r enw William Edwards, yn flaenor yma; ond bu farw yn y fl. 1872. Yn y fl. 1868, dewiswyd William Roberts, Tŷ hen; ac yn 1876, Robert Roberts, brawd William Roberts; John Owen, *Workhouse;* a John Hughes, siopwr, yn henuriaid; ond symmudodd Robert Roberts oddi yma i Fodedern, John Owen i Hebron, a John Hughes i Gaernarfon. Bu Richard Williams, Cleifiog, farw yn 1876. Yr oedd y gŵr hwn yn meddu dylanwad mawr yn ei gymmydogaeth, ac yn y Cyfarfod Misol, yn enwedig yn y cyfnod blaenorol. Yn 1881, symmudwyd y capel i'r Valley. Y mae yma gapel da a hardd. Bu William a Robert Roberts yn weithgar iawn gydag adeiladaeth y capel newydd hwn, ac yn haelionus tuag ato. Yn 1883, dewiswyd Thomas Roberts, Crossing, a John L. Pierce, a R. J. Jones, *Post Office,* yn flaenoriaid. Valley a Rhoscolyn yw y daith Sabbath—dwy bregeth bob yn ail Sabbath yn mhob un o'r ddau. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bedwar o flaenoriaid, cant ac un o gymmunwyr, cant a thrigain a deg o wrandawyr, a chant a deg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 104*p*. 18*s*. 6*c*. Dyled bresennol y capel yw 250*p*. Cafodd yr eglwys hon ei dolurio yn fawr gan Richard J. Jones, yn 1887; a bu raid iddi ei 'draddodi ef i Satan.' Ond gobeithiwn yn fawr mai i 'ddinystr y cnawd' yn unig, 'fel y byddo yr ysbryd yn gadwedig.'

Hyfrydle, Caergybi.—Yn 1867, ordeiniwyd y Parch. Robert Jones; ac yn 1885, bu farw. Yn 1866, bu farw yr henuriad Robert Roberts, y gwehydd. Diswyddwyd Richard Roberts, lledrwr, yn 1870; ond ail alwyd ef yn 1872; a bu farw yn 1875. Bu y gŵr hwn yn dra defnyddiol yn ei oes, ac ennillodd le yn y Cyfarfod Misol. Bu Evan P. Griffith farw yn 1871. Gŵr boneddigaidd a hynaws iawn oedd efe. Yn 1872, galwyd Hugh Williams, *Admiralty House,* yn flaenor. Yn lled gynnar yn y

cyfnod hwn, daeth Thomas Morris yma o Borthmadog, a chydnabyddwyd ef yn flaenor; ond diswyddwyd ef tua'r fl. 1879, o herwydd annoethineb; ond ail-ddewiswyd ef yn 1883, a bu farw yn lled fuan ar ol hyny; sef, yn 1884. Yn 1876, dewiswyd James Hughes a Thomas F. Evans, U.H., yn flaenoriaid. Diswyddwyd y cyntaf tua'r fl. 1879, o herwydd anghydfod. Yn 1885, galwyd Hugh Jones, Church Terrace; ac yn y flwyddyn ddilynol, Griffith P. Griffith—mab i'r diweddar Evan P. Griffith; John Hughes, Vulcan Street; a William Owen, gynt o'r Gors, yn flaenoriaid. Yn 1880, rhoddodd yr eglwys alwad i'r Parch. William R. Jones (*Goleufryn*), i'w bugeilio, a chydsyniodd â'r alwad. Gan Goleufryn y mae yr eglwys fwyaf yn Môn i'w bugeilio; a chan eglwys Hyfrydle y mae un o weinidogion mwyaf talentog yr ynys i'w gwasanaethu. A choron Goleufryn yw Mrs. Jones (*Diar.* xii. 4). Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, saith o flaenoriaid, pedwar cant a dau-ar-bymtheg a deugain o gymmunwyr, wyth gant a hanner o wrandawyr, a chwe chant a chwech a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 430*p*. 8*s*. 8½*c*. Adeiladodd eglwys Hyfrydle ddau gapel bychan eraill yn y cyfnod hwn, mewn gwahanol fanau yn y dref; sef, London Road, a Mill Bank; ac y mae hi ar ganol adeiladu capel newydd iddi ei hun—Hyfrydle Newydd, yn lle yr Hen Hyfrydle. Yr Hen Hyfrydle oedd y capel goreu yn Nghymru i siarad ynddo, yn ol ein barn ni. Gobeithiwn y bydd y newydd cystal ag yntau. Dyled bresennol y capel yw 500*p*.

Penrhosfeilw.—Yn 1867, dewiswyd Thomas Jones, Porth dafarch, ac Edward Morris, Ddraenen, yn flaenoriaid; ond bu y cyntaf farw yn 1873. Yr oedd y gŵr hwn yn ddyn da a phwyllog iawn. Yn awr, y mae Penrhosfeilw a Llain goch yn daith Sabbath. Gwir fod yr achos yn wan; ond y mae yr ychydig sydd yma yn ffyddlawn iawn, fel y dengys yr ystadegau. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma un blaenor, deuddeg-ar-hugain o gymmunwyr, trigain a chwech o wrandawyr, a deuddeg-a-deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau yw 39*p*. 13*s*. 4½*c*.

Ebenezer, Kingstown.—Yn y fl. 1866, dewiswyd Owen Edward, Tre-arthur, yn henuriad. Y flwyddyn ddilynol, galwyd John Moses, Tyddyn bach—mab i John Moses, un o'r hen flaenoriaid; ac Owen Jones, Tŷ mawr, i'r swydd. Bu John Moses hynaf farw yn 1881; a bu farw Owen Morris, Pont-ysgyrog, yn 1865. Yn 1880, dewiswyd William Thomas, Merddyn. Y mae y Parch. Owen Hughes yn aelod o'r eglwys hon, ac yn ei gwasanaethu yn ffyddlawn. Y mae adgyweiriad mewnol wedi bod ar y capel yn ddiweddar, ac y mae yn bresennol yn hardd o fewn, ac yn addoldy cysurus i bregethu ac i wrandaw ynddo. Y mae yr achos wedi llwyddo yma yn y cyfnod hwn. Er's blynyddoedd, y mae yr eglwys hon yn cadw gweinidog i'w gwasanaethu trwy y Sabbath. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pedwar blaenor, dau gant a thri-ar-ddeg a deugain o gymmunwyr, tri chant a phedwar ugain a dau o wrandawyr, a dau gant ac un-ar-bymtheg a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 188*p*. 10*s*. 9½*c*. Dyled bresennol y capel yw 150*p*.

Armenia.—Yn 1865, dewiswyd Owen Pritchard, *Clock House*, yn flaenor. Bu Edward Parry, *coal merchant*, farw yn 1869. Yn 1871, dewiswyd Owen Pritchard, ieuengaf; John Roberts, *Gas;* ac Owen T. Williams, cigydd, yn flaenoriaid. Bu y diweddaf farw yn 1872, ac Owen Pritchard, hynaf, yn y fl. 1871. Yn 1874, galwyd George Martin, a Cadben Richard Hughes. Bu y cyntaf farw yn 1878, a'r diweddaf yn 1886. Daeth Henry Williams yma o Lain-goch, ond bu farw yn y fl. 1883. Yn 1882, dewiswyd Owen Jones, Park Villa, a Richard Roberts, Park Street. Y mae y diweddaf yn arweinydd y canu yma hefyd. Yn y fl. 1884, dewiswyd Rice Ll. Davies, Cross Street; William Williams, Thomas Street; a William Pritchard—mab arall i Owen Pritchard, y *Clock House*—yn flaenoriaid. Ordeiniwyd y Parch. Evan Thomas yn 1865; a bu farw yn 1874, a'r Parch. Hugh Jones yn 1879. Bu y Parch. John Richard Hughes yn bugeilio yr eglwys hon am dymmhor byr. Bu y Parch. Richard Jones (*Glanalaw*) hefyd yn aelod ynddi am ychydig amser: yna efe a symmudodd i Bryn-yr-efail, i

fugeilio yr eglwys yno. Mae Richard M. Jones, B.A., yma yn cadw Ysgol Rammadegol, ac yn ddefnyddiol gyda'r achos. Adeiladwyd yma ystafell ëang a hynod o gyfleus yn ddiweddar i gynnal cyfarfodydd wythnosol. Costiodd yr adeilad hon 337*p*. Yn niwedd y fl. 1886, yr oedd yma un pregethwr, saith o flaenoriaid, dau gant a deg-ar-hugain o gymmunwyr, tri chant a phedwar ugain a phedwar-ar-ddeg o wrandawyr, a dau gant a phedwar ugain a naw yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 251*p*. 5*s*. 4½*c*. Dyled bresennol y capel yw 200*p*.

Bethphage, Llaingoch.—Parhâ Llaingoch a Phenrhosfeilw, hyd ddiwedd y cyfnod presennol, yn daith Sabbath. Yn 1873, dewiswyd Hugh Williams, masnachwr, a Hugh Jones, *diver*, yn flaenoriaid. Bu y cyntaf farw yn y fl. 1886. Yn y fl. 1877, dewiswyd Isaac Williams, y Fron, ac Owen Thomas; a bu y diweddaf farw yn 1881. Daeth John Owen hefyd yma o Hebron, ond bu yntau farw yn fuan wedi dyfod; sef, yn 1886. Yn niwedd yr un flwyddyn, yr oedd yma ddau flaenor, tri-ar-bymtheg a deugain o gymmunwyr, cant a phymtheg o wrandawyr, a chant a phump yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 67*p*. 1*s*. 0*c*.

Rhoscolyn.—Yn y flwyddyn 1875, bu farw William Williams, Porth Diana; a'r flwyddyn ganlynol, bu farw William Williams, Bumwerth. Dewiswyd Owen Hughes yn swyddog yn y fl. 1887. Ac yn y fl. 1884, dewiswyd William Hughes; Thomas Thomas, Llain wen; a Hugh Jones, Pendre cyndal, yn flaenoriaid. O ddeutu y fl. 1877, daeth y Parch. John V. Williams i fugeilio yr eglwys; a bu yma hyd 1886, yn dra chymmeradwy. Symmudodd i Lanrhyddlad. Yn yr un flwyddyn, daeth y Parch. Simon A. Frazer yma o Lanfair P. G. Er nad oes berthynas fugeiliol rhyngddo ef â'r eglwys, y mae yn gwneyd y gwaith, ac yn gymmeradwy gan yr eglwys. Y mae Rhoscolyn, mewn cyssylltiad â'r Valley, yn daith Sabbath. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pump o flaenoriaid, cant a dau o gymmunwyr, cant a phump a thrigain o wrandawyr. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 90*p*. 8*s*. 10½*c*.

Caergeiliog.—Y mae Thomas Lloyd wedi symmud o Treflasg i Llywenan; ac felly, yn aelod a swyddog yn eglwys Bodedern. Y mae William Owen yn aros hyd yn awr. Yn 1865, dewiswyd Henry Owen, Siop, yn henuriad. Yn 1868, ceid John Pritchard yn flaenor yma hefyd, yr hwn a ddaeth o Laingoch. Bu Henry Owen farw yn 1880. Yr oedd yn ddyn crefyddol, a selog iawn gyda'r achos. Yn 1882, dewiswyd Thomas Owen, Pen-y-mynydd; William Morris, a Griffith Owen, Bodowyr, yn swyddogion, a bu y diweddaf farw yn yr un flwyddyn.

Yn 1871, dechreuodd y Parch. Hugh Jones, Bryn du, bregethu, ac ordeiniwyd ef yn 1882; ond symmudodd oddi yma i Fryn du. Y mae y Parch. Hugh Pritchard, Hebron, yn fugail i'r eglwys hon, ac yn dra chymmeradwy ganddi. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bedwar o flaenoriaid, pedwar ugain a deuddeg o gymmunwyr, cant a thrigain o wrandawyr, a chant a deuddeg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 101*p*. 17*s*. 7*c*. Y mae Cae'rgeiliog a Hebron yn parhau yn daith Sabbath—dwy bregeth yn mhob un bob yn ail Sabbath.

Hebron.—Dewiswyd Owen Jones, Tŷ capel, a Richard Williams, Perth-y-rhiw, yn flaenoriaid yn 1873. Rhyw dair blynedd cyn hyny, rhoddwyd galwad i'r Parch. William Jones (gynt o Tre howa, ond yn bresennol yn Nhyddyn Watcyn), yn fugail; a pharhaodd y cyssylltiad yn hapus nes y symmudodd efe i Dy'n-y-maen. Galwyd tri o flaenoriaid drachefn yn 1872; sef, Robert Jones, Glan tywyn; Richard Rowlands, Bryn gwran; a Richard Williams, Gwaen fynydd. Symmudodd y cyntaf yn lled fuan i fyw i ardal Bryn du. Bu eglwys Hebron mor ddoeth, yn 1886, a rhoddi galwad i'r Parch. Hugh Pritchard, Llanerchymedd, yn fugail; a bu mor ffodus a'i gael. Adeiladwyd ysgoldy Ceirichiog, yr hwn a elwir Engedi, yn 1859. Gelwir ef gan rai 'Capel Robert Evans,' am mai yr hen frawd o'r Tŷ newydd a fu yn offerynol i'w godi. Ysgol Sabbothol a chyfarfodydd gweddi yn unig a gynnelir ynddo yn rheolaidd, a phregeth yn achlysurol. Yn y fl. 1879 y dechreuwyd adeiladu y capel presennol (Hebron), yr hwn a agorwyd ar adeg y Cyfarfod

Misol, y flwyddyn ddilynol. Costiodd y capel, a'r adeiladau cyssylltiedig âg ef, tua 1,200*p.*; ac erbyn hyn, nid oes ond 300*p.* o ddyled arnynt. Yn 1887, ceir yr eglwys hon yn adeiladu tŷ cyfleus i'r gweinidog. Gellir dyweyd ei bod yn deilwng o'r enw Hebron ('cymdeithas'), o blegid y mae ei gwaith yn profi fod undeb rhwng yr aelodau. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pedwar o flaenoriaid, dau gant o gymmunwyr, tri chant ac wyth a thrigain o wrandawyr, dau gant a chwech a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 160*p.* 19*s.* 4½*c.* Y mae Hebron a Chaergeiliog yn parhau yn daith Sabbath.

Y mae yn wir ofidus genym orfod chwanegu fod ein hanwyl frawd, y Parch. Hugh Pritchard, wedi marw ar ol i ni ysgrifenu ein nodiadau. Bu farw Rhagfyr 2il, 1887. Cafodd eglwys Hebron golled fawr, a holl eglwysi Môn hefyd, yn marwolaeth y gweinidog hwn.

Aberffraw.—Dewiswyd gŵr o'r enw William Owen, Llangwyfan, yn flaenor, yn y fl. 1881. Yr oedd Robert Jones, un arall o'r blaenoriaid, wedi marw tua thair blynedd cyn hyny. Cafodd Henry P. Thomas, fferyllydd, ei ddewis yn 1886, ac y mae yn gymmwynasgar i'r gweinidogion pan y deuant yma. Yr un flwyddyn, rhoddwyd galwad i'r Parch. John Thomas, yr hwn a fu am ychydig yn genhadwr yn Cassia; ond o herwydd afiechyd, a fu dan orfod dychwelyd i Gymru. Y mae efe yn debyg o fod yn dra defnyddiol yma. Aberffraw a Beulah ydyw y daith Sabbath. Y mae Beulah yn un o'r capelau bychain harddaf; ond yr eglwys yn un o'r rhai gwanaf, a'r gynnulleidfa yn un o'r rhai lleiaf yn y sir. Yn niwedd y cyfnod, nid oes yma yr un blaenor, dim ond un-ar-ddeg o gymmunwyr, a'r holl wrandawyr yn ddeuddeg-ar-hugain, ac aelodau yr Ysgol Sabbothol yn saith-ar-hugain. Yn niwedd 1886, yr oedd yn Aberffraw un gweinidog, tri o flaenoriaid, cant a thri-ar-ddeg-ar-hugain o gymmunwyr, tri chant a dau ar hugain o wrandawyr, a chant a dau-ar-bymtheg ar hugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 128*p.* 6*s.* 5*c.*

Bryn du.—Bu Hugh Owen, o'r Fferam, farw yn 1869. Bu Griffith Owen, o'r Siop, yma am beth amser yn y

cyfnod hwn, ac yr oedd yntau yn swyddog cyn dyfod; ond bu farw yr un flwyddyn a Hugh Owen. Cododd pregethwr yma, o'r enw William Hughes, tua'r fl. 1881; a daeth pregethwr o Gaergeiliog, o'r enw Hugh Jones, yma i fyw, yr hwn a ordeiniwyd yn 1882. Bu Owen Williams, Glan-y-gors, farw yn 1885, yn 78ain mlwydd oed; a blaenor arall, o'r un enw, yn mhen blwyddyn ar ei ol. Yr oedd yr hen flaenor o Glan-y-gors yn ŵr ffyddlawn, tawel, a charedig iawn. Daeth Samuel Owen yma o Garmel, a Robert Jones o Hebron. Y mae Mrs. Owen—gweddw G. Owen—yn llettŷgar i bregethwyr. Bryn du a Paran sydd yn ffurfio y daith Sabbath. Y mae yn Mryn du eglwys gref, wrth ystyried mai ardal wledig ydyw. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, un pregethwr, tri blaenor, dau gant o gymmunwyr, tri chant ac un o wrandawyr, a dau gant a thri yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 133*p*. 1*s*. 4*c*.

Paran, Rhosneigr.—Yn y fl. 1867 y rhoddwyd eisteddleoedd a phulpud gyntaf yn y capel hwn; ac yn 1884 y corphorwyd yr eglwys yma, ac y dewiswyd William Rowlands ac Owen Owens yn flaenoriaid. Rhydd y Cyfarfod Misol gynnorthwy i'r eglwys i gynnal y weinidogaeth. Sonir am adeiladu capel newydd pan yr ydym yn ysgrifenu. Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau flaenor, deuddeg ar hugain o gymmunwyr, a phump a phedwar ugain o wrandawyr, a phymtheg a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm y casgliadau oedd 17*p*. 12*s*. 1*c*.

Gwalchmai.—Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd yn Ngwalchmai chwech o flaenoriaid; sef, William Williams, Ysgubor Esgob; Henry Williams, yr hwn a symmudodd i Armenia; Robert Edwards, Glan-gors-ddu; Robert Evans, Tŷ newydd; William Jones, Bodwina; a John Hughes, Bodwrog. Bu John Hughes farw yn 1881, William Williams yn mhen dwy flynedd ar ei ol, a Robert Edwards yn mhen blwyddyn ar ei ol yntau. Y mae yma, yn bresennol, ddau weinidog; sef, y Parchn. David Roberts a Hugh Williams. Nid oes gyssylltiad bugeiliol rhwng yr un o honynt â'r eglwys; ond y maent

yn amaethwyr, yn gystal ag yn bregethwyr. Y mae y cyntaf wedi ennill iddo ei hun radd dda yn mysg ei frodyr; a'r diweddaf yn bregethwr cymmeradwy. Yn 1885, dewiswyd David Jones, siopwr; Robert Williams, masnachwr; a John Prytherch, Ty'n-y-dryfol, yn flaenoriaid. Yr hen frawd, Robert Evans, a erys hyd ddiwedd y cyfnod hwn, yn anwyl gan yr holl frawdoliaeth. Gallem feddwl fod Methodistiaeth yn ymberffeithio yn Ngwalchmai. Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau weinidog, pump o flaenoriaid, dau gant a dau-ar-bymtheg o gymmunwyr, pedwar cant a deg a thrigain o wrandawyr, a dau gant ac un a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau yn 170*p*. 14*s*. 0½*c*. Yn 1887, galwyd Daniel Jones i fod yn flaenor, yr hwn a ddaeth yma o Fodedern.

Dothan.—Symmudodd Owen Evans oddi yma i Langefni, yn 1878. Bu Hugh Roberts byw hyd y fl. 1883. Yn y fl. 1878, dewiswyd William Prytherch, Bodfeddan, a Thomas Williams, Meddiant; ac yn 1885, Owen Hughes, Groeslon, a Moses Williams, Glan-yr-afon, yn flaenoriaid. Lle bychan yw Dothan—ardal wledig, ammhoblog, mewn cymmhariaeth; ond y mae yma olwg siriol ar bob peth perthynol i'r achos. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bedwar o flaenoriaid, trigain a dau o gymmunwyr, cant a saith ar hugain o wrandawyr, a thri a phedwar ugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 47*p*. 6*s*. 0½*c*. Bu yma, yn y cyfnod hwn, am ychydig amser, bregethwr o'r enw William Roberts—mab i H. Roberts, yr hen flaenor—yn byw. Daeth yma o America, yn 1878, a dychwelodd yn ol yno yn mhen saith neu wyth mlynedd. Y mae Dothan yn parhau mewn cyssylltiad â Gwalchmai fel taith Sabbath.

Bethel.—Adeiladwyd capel newydd yma yn y fl. 1866. Cawsant 400*p*. gan y sir. Bu y Parch. Owen Owens yma yn weinidog defnyddiol a pharchus am y tair blynedd ar ddeg cyntaf o'r cyfnod hwn; a bu farw yn nghanol ei ddefnyddioldeb, yn 1877. Yn 1868, dewiswyd John Owen, Lodge, yn flaenor; ond bu farw yn y fl. 1877. Yr un flwyddyn, galwyd Richard Jones, Fferam beili, yn henuriad; ac yn 1880, syrthiodd y dewisiad ar

Griffith Owen, Gwna; ac yn y fl. 1885, ar Thomas Parry, Careg ceiliog. Bu William Rowland, y dilledydd, farw yn 1879. Bu Samuel Hughes, Bodednyfed, Amlwch, yn byw yma am rai blynyddoedd; ond symmudodd i Borth Amlwch yn 1886, ac yr oedd ei symmudiad yn golled i Bethel. Dangosodd yr eglwys hefyd, a'i gymmydogion, eu parch tuag ato trwy gyflwyno iddo anerchiad mewn ystramwaith eurog ar ei ymadawiad. Yma y mae y Parch. Owen Williams; ond nid oes cyssylltiad bugeiliol rhyngddo ef â'r eglwys. Y mae Bethel, Soar, a'r Iard, mewn cyssylltiad â'u gilydd, fel taith Sabbath; ond bydd pregethwr yn Bethel ei hun weithiau, a phregethwr arall yn Soar a Sardis. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pump o flaenoriaid, cant a chwech ar hugain o gymmunwyr, dau gant ac un-ar-bymtheg ar hugain o wrandawyr, a chant a deg a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 109*p*. 12*s*. 6½*c*. Yn 1887, dewiswyd Griffith Williams, Fferam parc, ac Owen Hughes, *station master*, i fod yn flaenoriaid.

Soar.—Y mae Owen Jones, Bodwrdin, yn flaenor yma, wedi ei ddewis yn 1861. Yn y fl. 1872, adgyweiriwyd y capel am y draul o 324*p*. Y flwyddyn ganlynol, galwyd John Lloyd, Treiddon; Richard Williams, Tre Ddafydd isaf; a Richard Jones, Ceryg-y-myna, yn flaenoriaid. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bedwar o flaenoriaid, saith a thrigain o gymmunwyr, cant a thrigain o wrandawyr, a phedwar-ar-ddeg a phedwar ugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 52*p*. 16*s*. 5*c*.

Sardis, Iard Malltraeth.—Yn y cyfnod hwn, daeth Samuel Hughes, o Langristiolus, i fyw i Glan-yr-afon; ac o ganlyniad, daeth yn aelod ac yn flaenor yn eglwys Sardis. Ceid ef yma yn 1868. Y mae y blaenor hwn yn fab i Hugh Hughes, Tŷ newydd—hen flaenor parchus yn Llangristiolus, yn y trydydd cyfnod, a rhan o'r pedwerydd. Y mae Samuel Hughes yn flaenor galluog—yn meddu dawn neillduol i ddywedyd ei feddwl. Yn 1877, dewiswyd William Hughes, o'r Tŷ newydd—mab arall i Hugh Hughes. Y mae y brawd hwn yn meddu cymmhwysderau neillduol i gyflawni gwaith y rhan ddiacon-

aidd o'r swydd, fel y mae ei frawd yn meddu cymmhwysderau i gyflawni y rhan henaduriaethol o honi. Yn 1881, dewiswyd Hugh Pritchard, Cae wydd; ac yn y fl. 1887, dewiswyd tri eraill; sef, Thomas Humphreys, Cwt; Thomas Williams, Ty'n-y-morfa; a Richard Jones, Ty'n lôn. Y mae Sardis, Soar, a Bethel, yn daith Sabbath. Bydd pregethwr yn Bethel ar hyd y dydd ddau Sabbath yn y mis; a bydd y ddau le arall yn cael dwy bregeth un Sabbath yn y mis. Yn niwedd 1886, yr oedd yma dri o flaenoriaid (chwech yn 1887), deunaw a phedwar ugain o gymmunwyr, dau gant a thri a deugain o wrandawyr, a chant a phump a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 64*p*. 15*s*. 8½*c*.

Llangristiolus.—Dewiswyd John Williams, Bryn-llwyd, yn flaenor yn 1865. Yn 1867, dechreuodd William P. Williams bregethu; ond symmudodd i Lundain, i'r *Borough Road College*, ac y mae wedi ennill y sefyllfa anrhydeddus o fod yn benaeth y coleg. Mab yw efe i'r diweddar Barch. William Williams, Tŷ calch, ac ŵyr i'r diweddar Barch. John Prytherch, Talwrn. Yn y fl. 1868, dewiswyd John Thomas, Cefn, yn flaenor. Bu farw yn y fl. 1886. Tua'r fl. 1874, dechreuodd y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, bregethu; ac ordeiniwyd ef yn y fl. 1877. Yn 1877, dewiswyd Owen Foulkes, Bodrwyn, a Thomas Thomas, Cefn, yn henuriaid. Bu J. Roberts, y Siop, farw yn 1884. Rhoddodd yr eglwys hon alwad i'r Parch. J. R. Jones, Dublin, i'w bugeilio y flwyddyn ganlynol; a chydsyniodd yntau â'i chais. Y mae Llangristiolus a Chana mewn cyssylltiad â'u gilydd yn un daith Sabbath—dwy bregeth yn Llangristiolus, ac un yn Cana. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, dau flaenor, cant a phedwar ugain a saith o gymmunwyr, pedwar cant a phump ar hugain o wrandawyr, cant a phedwar ugain ac wyth yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau yw 270*p*. 19*s*. 2½*c*. Dyled bresennol y capel yw 140*p*.

Cana.—Lled debyg yw Methodistiaeth yn y lle hwn i'r hyn ydoedd yn y cyfnod blaenorol; ond fod yma eglwys gorphoredig, yr hyn nad oedd hyd yn agos i ddiwedd y cyfnod hwnw. Yr un capel sydd yma; ac un lled

dlodaidd yr olwg arno ydyw. Bu y Parch. Richard Owen ('Y Diwygiwr'), yma am rai blynyddoedd yn y cyfnod hwn. Yn 1871, dewiswyd John Jones, Ty'n-rhos; yn 1873, William Williams, Siop; yn 1877, Hugh Edwards, Llwyn-y-bedw; ac yn 1882, Richard Jones, Fronheulog, yn flaenoriaid. Bu Hugh Jones, yr hwn a ddewiswyd yn y cyfnod blaenorol, farw yn 1865; a John Jones yn lled fuan wedi iddo gael ei ddewis. Yn niwedd 1886, yr oedd yma dri o flaenoriaid, deugain ac un o gymmunwyr, pedwar ugain a thri-ar-bymtheg o wrandawyr, a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 18*p*. 12*s*. 0*c*.

Gad.—Nid oes yma gynnydd ar yr hyn ydoedd yn y cyfnod blaenorol. Nid yw y gymmydogaeth yn boblog; ac am hyny, nis gellir disgwyl cynnydd mawr yn Gad. Bu Richard Williams farw yn 1872. Y flwyddyn nesaf, dewiswyd Richard Jones, Ystabl Bodffordd; ac yn y fl. 1878, Owen Hughes, Tyddyn-y-waen, yn henuriaid. Bu W. Jones farw yn 1874. Y mae Gad yn cael y fantais o fod mewn cyssylltiad â Llangefni, fel taith Sabbath—dwy bregeth yn Llangefni, ac un yn Gad. Yn niwedd 1886, yr oedd yma dri o flaenoriaid, trigain a naw o gymmunwyr, cant a thrigain a deg o wrandawyr, a thrigain a thri-ar-bymtheg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 66*p*. 3*s*. 11*c*.

Gosen, Llangwyllog.—Yma yr oedd yr hynod John Owen, Ceryg-ddewi, yn aelod, ac yn flaenor. Bu farw yn 1868; a bu David Williams, Tŷ capel, farw yn mhen tair blynedd ar ei ol. Yn 1869, symmudodd y Parch. Richard Williams o Nebo i Dy'n-yr-onen; ac y mae yn ddefnyddiol yma. Yn mhen dwy flynedd, ordeiniwyd ef. Yn 1868, dewiswyd Hugh Jones, Dolmeinir, a Richard Evans, Eirianallt wen, yn flaenoriaid; ond symmudodd Richard Evans i Bryntwrog. Yn 1879, rhoed galwad i Hugh Evans, Ty'n-yr-onen, ac Elias Jones, Penrhyn-oer, i'r swydd. Y mae y cyntaf yn llawn gwres crefyddol. Y mae yma gapel lled brydferth; adgyweiriwyd ef yn lled ddiweddar yn y cyfnod hwn, tua'r fl. 1883. Gosen a Bryntwrog sydd yn ffurfio y daith Sabbothol. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, tri blaenor,

pedwar ugain a phedwar-ar-ddeg o gymmunwyr, cant a phedwar ugain o wrandawyr, a chant a dau ar hugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 277*p*. 9*s*. 4*c*.

Bryntwrog.—Dechreuodd yr achos yma hefyd mewn Ysgol Sabbothol. Cedwid hi mewn tŷ o'r enw Bryntwrog. Nis gallwn nodi y flwyddyn. Dywedai y diweddar Barch. Hugh Jones, Llanerchymedd, iddo fod ynddi pan yn fachgen. Bu Hugh Jones, yr Hafod, yn myned iddi o Lanerchymedd, ac o'r Hafod. Daeth gŵr Eglwysig i fyw i Fryntwrog, a bu raid i'r ysgol chwilio am gartref newydd; a chafodd ef mewn lle a elwid Sarnfadog, yn mhlwyf Coedana. Tua'r fl. 1861, cafwyd tir gan Richard Davies, Arglwydd Raglaw sir Fôn, a'i frawd, Robert Davies, U. H., Bodlondeb, Bangor; ac adeiladwyd ysgoldy yma; a chafodd yr ysgol wedi hyny gartref i drigo ynddo. Yn 1879, corphorwyd eglwys yma. Symmudodd Hugh Hughes, Cors-yr-eira-bach, o Seion, a Richard Evans, Eirianallt wen, o Gosen, yma. Yn mhen o ddeutu dwy flynedd, dewiswyd Hugh Evans, Sarnfadog, yn flaenor. Symmudodd Richard Evans oddi yma i Gad; a daeth William Griffith, canwyllwr, o Lanerchymedd yma. Y mae Gosen a Bryntwrog yn daith Sabbath. Yn niwedd 1886, yr oedd yma dri blaenor, hanner cant o gymmunwyr, trigain a deg o wrandawyr, a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 150*p*. 15*s*. 1½*c*.

Cefniwrch.—Yn 1879, ffurfiwyd Cefniwrch a Thalwrn yn daith Sabbath—dwy bregeth bob Sabbath yn y cyntaf, ac un yn y diweddaf. Adgyweiriwyd y capel, naill ai yn niwedd y cyfnod blaenorol, neu yn nechreu yr un presennol. Bu William Jones, Llys-y-gwynt, farw yn 1866; a bu yr eglwys o dan ofal blaenoriaid Talwrn. Yn 1870, dewiswyd gŵr o'r enw Hugh Lloyd, Fagwyr bach, yn flaenor; a'r flwyddyn ddilynol, galwyd un arall, o'r enw David Hughes, ato; yr hwn a symmudodd oddi yma i Landegfan. Yn 1876, syrthiodd y dewisiad ar John Roberts, Bodgynda; ond fe ddiswyddwyd ef. Y mae y Parch. Richard Williams, Ty'n-yr-onen, yn arfer talu ymweliadau â'r eglwys hon. Yn niwedd 1886, yr oedd

yma ddau flaenor, deugain a chwech o gymmunwyr, cant a thri-ar-ddeg o wrandawyr, a thrigain a phedwar-ar-bymtheg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 28*p*. 17*s*. 7½*c*. Hysbyswyd ni fod gŵr o'r enw Robert Jones, Ty'n-y-mynydd, wedi bod yn flaenor yma, a'i fod wedi marw; a bod gŵr o'r enw William Williams, Llys-y-gwynt, yn flaenor yma yn bresennol; ond methasom a chael hyd i'w henwau yn llyfr y Cyfarfod Misol. Fe allai iddynt gael eu dewis mewn eglwysi eraill, a bod eu henwau yn y llyfr fel swyddogion dewisedig gan yr eglwysi hyny; neu gallai fod yr ysgrifenydd wedi anghofio rhoddi eu henwau yn y llyfr.

Talwrn.—Yn y fl. 1871, attaliwyd Hugh Owen i weinyddu ei swydd fel blaenor; ond adferwyd ef yn mhen y pum mlynedd. Symmudodd Edmund Roberts oddi yma i fyw. Yn 1864, dewiswyd Evan Williams, Pen-y-fan, yn flaenor; ond diswyddwyd ef o herwydd anghydfod. Yn 1872, galwyd Hugh Lewis, Gwen-llian, a John Owen, Bryn-gwallen, i'r swydd; ond symmudodd y cyntaf i Langwyllog. Yn y cyfnod hwn, fe adeiladwyd capel newydd hardd—un o'r rhai prydferthaf a fedd y sir. Yn y fl. 1876, dewiswyd Robert Owen, Hendre-howel; ac yn 1886, Hugh Williams, gôf, yn swyddogion. Y mae gwedd gysurus ar yr achos o dan ofal y brodyr hyn. Y mae yr eglwys hon ar y blaen i'r rhan fwyaf o eglwysi Môn mewn haelioni. Y mae Talwrn a Chefniwrch yn daith Sabbath—dwy bregeth bob Sabbath yn y Talwrn, ac un yn Cefniwrch. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bedwar blaenor, cant a thri-a-deugain o gymmunwyr, dau gant a phedwar ugain o wrandawyr, a chant a phedwar ugain a deg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 159*p*. 2*s*. 4*c*. Dyled ar y capel, 662*p*. 17*s*. 8*c*.

Llangefni.—Yr oedd yr eglwys hon yn y blynyddoedd hyn yn llewyrchus. Yr oedd y Parchn. Thomas Owen a James Donne yma yn nechreu y cyfnod. Bu Thomas Owen farw yn y fl. 1874. Y blaenoriaid oeddynt Samuel Dew, W. Rowlands, W. Roberts, Owen Williams, a T. Lloyd, yn y blynyddoedd cyntaf o'r cyfnod hwn. Bu y gwŷr hyn, a'u teuluoedd, yn gefnogwyr aiddgar i Fethod-

istiaeth yn Llangefni. Yr oedd teulu Lledwigan â'u drws bob amser yn agored i dderbyn gweinidogion yr efengyl, yn fwy felly na neb yn Llangefni. Bu W. Roberts farw yn 1876, ac O. Williams yn 1875. Symmudodd T. Lloyd i Draeth coch. Bu W. Rowlands, Carrog, farw yn 1885. Yn 1875, dewiswyd William Jones, llïeiniwr, a William Hughes, *artist*, yn flaenoriaid. Bu W. Hughes farw yn 1882, ac ymddiswyddodd W. Jones yn 1887. Yn 1878, daeth Owen Evans, o Dothan, yma. Y mae O. Evans yn hanu o deulu Evan Griffith, Chwaen hen—un o'r hen bregethwyr cyntaf yn Môn, ac o deulu William Pritchard, Clwchdernog—yr Ymneilldüwr cyntaf yn yr ynys. Yn y fl. 1882, dewiswyd Evan Roberts, arianwr, a Richard Davies, ysgolfeistr, yn flaenoriaid. Gellir disgwyl fod y cyntaf yn meddu cymmhwysderau neillduol i gyflawni y rhan ddiaconaidd o'r flaenoriaeth, a'r diweddaf y rhan addysgol o'r swydd. Dechreuodd Richard Davies bregethu; ond tybiodd y gallai ragori fel ysgolfeistr yn fwy nag fel pregethwr. Yn 1886, dewiswyd John Roberts, masnachwr; yr hwn sydd yn ŵr crefyddol a charedig. Yn 1879, dechreuodd gŵr ieuangc o'r enw Griffith Williams bregethu, a gŵr ieuangc arall yn 1878, yr hwn sydd wedi cyrhaedd graddau uchel mewn dysgeidiaeth; sef, y Parch. Thomas John Jones Lewis, B. A.; yr hwn a ordeiniwyd yn 1885. Y mae yma frawd iddo hefyd, o'r enw William Lewis Jones, yn pregethu; ond heb orphen ei efrydiaeth etto; a disgwylir y bydd iddo yntau gyrhaedd yr un graddau mewn dysgeidiaeth a'i frawd. Y mae y gwŷr ieuaingc gobeithiol hyn yn feibion i William Jones, y Fron, ac yn neiaint i Thomas Lewis, A. S. Bu T. Lewis yn flaenor am ychydig amser yn yr eglwys hon yn y cyfnod hwn. Ar y pryd, yr oedd yn aelod o ddau Gyfarfod Misol—Môn, ac Arfon. Ystyrir ef er's blynyddoedd yn un o brif flaenoriaid y cyfundeb —nid yn unig yn Môn ac Arfon, ond hefyd yn Nghymru. Genedigol o Fôn ydyw. Bu y Parch. James Donne yn y cyfnod hwn yn bugeilio yr eglwys hon am rai blynyddoedd heb ymyraeth â negeseuon y bywyd hwn; ac yr oedd yn gymmeradwy gan yr eglwys, a chan holl eglwysi y sir. Symmudodd yn 1886 i Fangor; ac oddi yno, aeth

i fyw i Landudno. Yn niwedd 1886, daeth y Parch. John Williams, o Lanerchymedd, yma; ac yn niwedd yr un flwyddyn, yr oedd yma un gweinidog, dau bregethwr, tri chant a thri-ar-hugain o gymmunwyr, pum cant ac ugain o wrandawyr, a thri chant ac wyth a deugain yn yr Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau yn y fl. 1886 oedd 270*p.* 19*s.* 2½*c.* Y mae Gad mewn cyssylltiad â Llangefni yn daith Sabbath.

Pen-y-sarn, Berw.—Y mae y lle hwn yn agos i'r Gaerwen. Yr ydym yn cael fod Ysgol Sabbothol yn cael ei chynnal yn eglwys Llanfihangel, Esgeifiog, mor foreu a'r fl. 1824. Prif offerynau ei sefydliad oeddynt Owen Jones, Tŷ mawr, a Robert Hughes, ysgolfeistr. Yr oedd y cyntaf yn aelod gyda'r Methodistiaid yn Talwrn. Yn 1827, symmudodd o'r eglwys i'r Ysgoldy Gwladwriaethol —lle y bu am dymmor lled faith. O'r diwedd, daeth yr ysgoldy yn rhy fychan; a byddai rhan o'r ysgol yn cael ei chadw yn y tŷ a berthynai i'r adeilad hon, a rhan arall mewn ystabl a berthynai i dŷ o'r enw 'Marquis.' Dywedir y byddai yr holl ysgolheigion yr adeg yma yn rhifo o gant a deg-ar-hugain i gant a hanner; a'r oll, ar adeg yr egwyddori cyhoeddus, yn dyfod i'r ysgoldy. Y brodyr mwyaf blaenllaw gyda'r ysgol y pryd hwn oeddynt John Griffith, Tan-y-graig; Griffith Evans, Ty'n-llan; Richard Evans, Ty'n-gate; Hugh Williams, Caerau; Owen Roberts, Bryn-yr-odyn; ac Owen Williams, Holland Arms. Yn 1846, daeth gweinidog newydd i eglwys y plwyf; a rhoddodd orchymyn fod yn rhaid newid ffurf y gwasanaeth yn nechreu a diwedd yr ysgol. Yn lle 'gweddïo o'r frest,' yr oedd yn rhaid gweddïo o'r *Llyfr Gweddi Cyffredin,* a holwyddori o *Gatecism* yr Eglwys Sefydledig. Ac o herwydd anufudd-dod i'r gorchymyn hwn, yr oedd drws yr ysgoldy yn glöedig yn erbyn yr ysgol. Gofynai Owen Williams, Holland Arms—'Pa beth a wnawn etto, frodyr bach?' Ond nid oedd neb yn gallu ei atteb. Yna torodd ar y distawrwydd—'Mi ddywedaf i chwi beth a wnawn; ni a'i cynnaliwn hi yn ein hysgubor ni. Ni bydd yn barod erbyn y Sabbath nesaf, ond bydd erbyn pythefnos i heddyw.' Yr oedd pawb yn llawen clywed fod drws yn agor wedi i'r gŵr Eglwysig, ac 'olynydd yr

apostolion,' gloi yr ysgoldy rhagddynt. Gwnaeth y lle yn gyfaddas erbyn yr amser pennodedig, a dechreuwyd yr ysgol yn ei lle newydd. Yr oedd ysgol yn Nhyddynhic—tŷ Richard Hughes—o dan ofal Rice Hughes, Trefeerwydd; a symmudodd yn 1830 i'r Berw uchaf, o dan nawdd y teulu yno; a bu yma hyd y fl. 1860. Yr oedd y chwaer, Mary Williams, yn fam yn Israel, yn meddu gwybodaeth ëang o'r Ysgrythyrau, ac yn athrawes alluog yn yr Ysgol Sabbothol. Anfonai yr eglwys Fethodistaidd yn y Gaerwen frodyr yno i'w cynnorthwyo. Bu pregethu yma brydnawn Sabbothau bob yn ail â Holland Arms am beth amser, a hyny mewn cyssylltiad â'r Gaerwen fel taith Sabbath. O herwydd rhyw amgylchiadau, rhoddwyd yr ysgol yn Berw uchaf i fyny, ac ymunodd rhan o honi â'r ysgol yn Holland Arms; ac o hyny allan, byddai y pregethu bob prydnawn Sabbath yn y lle diweddaf. Yn mhen rhyw ddeunaw mlynedd wedi i'r achos fod yn ysgubor Holland Arms, meddyliwyd am gael capel, a syrthiodd llygad y frawdoliaeth ar ddarn o dir ar etifeddiaeth y diweddar Mr. Griffiths, Gareg lwyd. Cafwyd gan Owen Price, Cafnan, fyned at y boneddwr hwnw i geisio y tir; a chafodd O. Price addewid am dano. Yn bur fuan, daeth gair oddi wrth y boneddwr yn holi pa mor agos oedd y lle a geisid i eglwys y plwyf? gan hysbysu, os oedd o fewn rhyw derfynau neillduol i'r llan, nad gwiw iddynt ddisgwyl ei gael; a chan ei fod o fewn y terfynau a nodid, gwrthododd roddi y lle. Ond gan fod yn rhaid cael capel, aed at Ardalydd Môn; a chafwyd chwarter erw ar ammodau tra rhesymol. Adnabyddid y lle wrth yr enw Pen-y-sarn, a galwyd y capel wrth yr un enw. Bu y diweddar Richard Roberts, Boston House—mab Griffith Roberts, Cefn du—yn hynod o ymdrechgar a llafurus gydag adeiladaeth y capel. Y mae y capel yn un hardd a chadarn, a thraul ei adeiladaeth tua 830*p*. Agorwyd ef Mai 12fed, 1867. Aethpwyd yn orymdaith dan ganu o ysgubor Holland Arms i Ben-y-sarn. Corphorwyd eglwys yno, a dewiswyd Richard Roberts, Boston House, yn flaenor; a bu yntau yn blaenori yma am rai blynyddoedd yn mhob peth. Yr oedd Hugh Lewis wedi ei ddewis yn flaenor yn eglwys y Gaerwen er y fl. 1860.

Yr oedd y ddau frawd hyn, gyda'u gilydd, yn llanw lle mawr yn yr eglwys ieuangc hon—Hugh Lewis yn henuriad, neu esgob i athrawiaethu; a Richard Roberts yn ddiacon, i edrych ar ol yr allanolion. Bu y diweddaf farw yn ddisymmwth, Chwefror 21ain, 1881. Y mae Hugh Lewis yn aros hyd heddyw, ac yn cael ei anwylo gan yr eglwys, a chan bawb a'i hadwaenant. Yn 1881, galwyd John Williams, Tŷ mawr, yn swyddog, a brawd arall; ond gan iddo anufuddhau, nid yw yn haeddu cael ei enwi yn *Methodistiaeth Môn*. Y mae teulu y Berw uchaf yn ffyddlawn a gweithgar yma. Y mae yma ystafell gyfleus wedi ei hadeiladu at gynnal gwahanol fathau o gyfarfodydd ynddi. Y mae Pen-y-sarn mewn cyssylltiad â'r Gaerwen fel taith Sabbath. Yn 1886, yr oedd yma dri o flaenoriaid, cant a chwech-ar-hugain o gymmunwyr, dau gant a deg o wrandawyr, a chant a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 73*p*. 12*s*. 7*c*.

Gaerwen.—Y mae y Parch. Robert Hughes yn aros yma hyd yn bresennol—wedi bod yma am ran lled helaeth o'r trydydd cyfnod, yn cydweithio â'r Parch. John Elias; a thrwy y pedwerydd cyfnod, yn cydweithio â'r Parch. William Roberts; ac y mae yn fyw i ddiwedd y pummed cyfnod—wedi bod y dyn mwyaf ei ddylanwad yn y sir gyda'r Methodistiaid am y tair blynedd ar hugain diweddaf. Yn nechreu y cyfnod hwn, yr oedd Griffith Roberts, Cefn du, yn aros yn henuriad parchus; ond bu farw yn 1869. Ceir John Hughes, brawd y Parch. R. Hughes, yn aros hyd ddiwedd y cyfnod; a gobeithiwn y caiff fyw flynyddoedd lawer etto. Bu yr henuriad, John Thomas, farw yn 1868. Y flwyddyn ganlynol, dewiswyd dau frawd ieuangc, o'r enwau William Roberts, Cefn du, a Samuel Hughes. Symmudodd y cyntaf i'r Bryn du yn 1873, yr hyn oedd yn golled i'r Gaerwen, ac yn ennill i Fryn du; ond dychwelodd yn ei ol i'r Gaerwen, a bu farw yn 1885. Symmudodd y diweddaf i Bethel, ac oddi yno i Borth Amlwch. Yn 1873, galwyd John Hughes, Careg-ddyfnallt; Owen Jones, Chwys; a John Roberts, yn henuriaid; ond diswyddwyd y diweddaf. Dewiswyd Thomas Davies, Cefn du, a John Thomas, Ty'n-y-cae,

hefyd, yn mhen rhyw dair blynedd ar ol hyny. Dechreuodd y Parch. Owen Hughes, o Dregynon, bregethu yn 1868; symmudodd oddi yma i Dregynon, sir Drefaldwyn, yn 1872, ac ordeiniwyd ef yn 1874. Er i ni ei golli o Fôn, y mae yn llawenydd genym ddeall ei fod yn gymmeradwy gan Fethodistiaid Maldwyn. Mab i John Hughes, y blaenor hynaf yn y Gaerwen, yw efe. Dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw Evan Jones, bregethu yma yn 1879; ond symmudodd oddi yma i Gaernarfon. Yn 1866, daeth yma bregethwr ieuangc o Lundain i gadw ysgol, o'r enw John Jones. Yn niwedd yr un flwyddyn, yr oedd yma un gweinidog, un pregethwr, pump o flaenoriaid, dau gant a deg o gymmunwyr, pedwar cant a deg o wrandawyr, a dau gant a saith a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 140*p.* 9*s.* 5½*c.* Y mae y Gaerwen a Phen-y-sarn mewn cyssylltiad â'u gilydd yn daith Sabbath.

Bethania.—Yn nechreu y cyfnod hwn, Hugh Hughes ac Owen Williams oedd y blaenoriaid. Dewiswyd Richard Hughes, o'r Cefn mawr—mab Hugh Hughes—ac Owen Owens, Tros-yr-afon, atynt yn 1865. Bu Owen Williams farw yn 1875. Y flwyddyn ddilynol, galwyd Edward Jones, Siop Sharp; Robert Roberts, Yr Allt; a Robert Pierce, Treferwydd, i'r swydd. Bu Hugh Hughes farw yr un flwyddyn, a Robert Roberts yn mhen y pedair blynedd ar ei ol. Y mae Richard Hughes wedi dyfod yn enwog yn y flaenoriaeth, fel ei dad; ystyrir ef yn un o'r blaenoriaid mwyaf gweithgar a dylanwadol yn y Cyfarfod Misol. Y mae teulu Cefn mawr—yn rhïeni ac yn blant—yn garedig i Fethodistiaeth—eu tŷ yn agored i weinidogion yr efengyl bob amser. Y mae yma deuluoedd eraill caredig iawn i'r achos mawr yn y gymmydogaeth hon. Dylem nodi un hen gymmeriad hynod, o'r enw Griffith Jones, o'r Cefn, sydd yma. Bu mewn tywydd mawr yn nechreuad ei grefydd. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bedwar o flaenoriaid, cant a phymtheg ar hugain o gymmunwyr, tri chant a phedwar ar hugain o wrandawyr, a dau gant a phedwar yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 130*p.* 13*s.* 9½*c.* Y mae Bethania a Niwbwrch yn daith Sabbath.

Niwbwrch.—Y mae Methodistiaeth yn llwyddiannus yma, er pob gwrthwynebiad sydd iddi. Yn 1866, dechreuodd y Parch. William Jones bregethu. Yr oedd yn aelod o'r Cyfarfod Misol bum mlynedd cyn hyny; ac yn 1875, ordeiniwyd ef. Dewiswyd y Cadben William Jones yn 1865; ond symmudodd oddi yma i Ddwyran. Yn mhen tua blwyddyn, galwyd William Roberts, ac Owen Lewis, saer, i'r swydd. Bu y cyntaf farw yn y fl. 1871. Syrthiodd y dewisiad ar Richard P. Jones, *draper*—mab arall i Richard Jones—yn 1877. Y mae y tad a'r mab yn flaenoriaid; a mab i un, a brawd i'r llall, yn weinidog yma. Yn 1884, dewiswyd Hugh Hughes, saer ceryg, ac Owen Evans, *flour dealer*, yn flaenoriaid. Dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw Robert Hughes, bregethu yn 1886. Yn y cyfnod hwn, adgyweiriwyd y capel oddi fewn; ac yn bresennol, y mae yn un o'r capelau goreu yn y sir. Gadawodd gŵr a anwyd ac a fagwyd yma, ac a fu farw yn Awstralia, rai cannoedd o bunnau yn ei ewyllys i Fethodistiaid Niwbwrch. Bu y brodyr, y Wesleyaid, yn bygwth myned i gyfraith (yn wir, mwy na bygwth), gan haeru mai hwy ydynt Fethodistiaid Niwbwrch. Niwbwrch a Bethania yw y daith Sabbath. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, un pregethwr, chwech o flaenoriaid, dau gant a deuddeg a deugain yn gymmunwyr, chwe chant a phedwar ugain a deuddeg o wrandawyr, a thri chant a thrigain a phump yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 192*p*. 16*s*. Dyled y capel yw 300*p*.

Dwyran.—Yn y cyfnod hwn, daeth yma flaenor o Gaersalem, o'r enw John Hughes, i fyw. Diswyddwyd Griffith Jones, Tŷ capel, yn 1873. Y flwyddyn ganlynol, daeth yma flaenor o Arfon, o'r enw David Williams, Maes-y-porth. Daeth y Cadben William Jones hefyd yma o Niwbwrch; ond diswyddwyd ef am beth amser o herwydd rhyw anghydfod. Ail ddewiswyd ef; a galwyd Thomas Owen, Rhyddgaer, yr un amser; sef, yn 1880. Yn 1868, dechreuodd gŵr ieuangc gobeithiol iawn bregethu yma—brodor o Fangor, o'r enw Henry Solomon Ellis; ond bu farw cyn pen pum mlynedd (gwêl yr unfed bennod ar bymtheg). Adeiladwyd capel hardd yma yn

1869—un o'r rhai harddaf mewn ardal wledig. Bu y Parch. William Jones farw yn 1879, ac Elias Jones yn 1885. Y mae Thomas Jones, Lliniog goch, wedi ennill iddo ei hun radd dda yn ei hen ddyddiau. Y mae efe yn rhestr y pregethwyr, ac yn dra chymmeradwy gan y cynnulleidfaoedd. Yn 1880, rhoddodd yr eglwys alwad i'r Parch. John Williams, Hermon, i'w bugeilio; a chydsyniodd yntau. Y mae yn bregethwr gwir dda, ac yn gymmeradwy gan gynnulleidfaoedd y sir. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, un pregethwr, dau gant a phedwar ugain a dau o gymmunwyr, pum cant a thri-ar-bymtheg o wrandawyr, a thri chant a phymtheg ar hugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Y mae yma gangen Ysgol Sabbothol mewn cŵr lled bell oddi wrth y capel, a elwir Ty'n-y-goeden. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 240*p*. 2*s*. 4*c*.

Brynsiencyn.—Yn nechreu y cyfnod hwn—sef, yn y fl. 1864—dewiswyd John Hughes, Llyslew, a David Williams, siopwr, yn flaenoriaid. Yr oedd y cyntaf yn fab i William Jones, o'r un lle, yr hwn oedd yn swyddog yn yr un eglwys; a'r diweddaf yn fab i John Williams, un arall o flaenoriaid yr eglwys hon yn y trydydd cyfnod. ac yn frawd i'r Parch. Owen Williams, Llanrhyddlad. Y mae Thomas Hughes, Tyddyn Adda, hefyd, yr hwn a ddaeth yma yn y cyfnod blaenorol o Gilead, yn un o'r swyddogion, ac yn ddyn profiadol. Yn y cyfnod hwn, daeth Griffith J. Roberts, Trefarthin, yma o Arfon, yr hwn oedd yn henuriad eisoes, a dewiswyd ef yn swyddog yma hefyd; a gobeithiwn y bydd mor ddefnyddiol yn Môn ag ydoedd yn Arfon. Yn 1878, rhoddodd yr eglwys hon alwad i'r Parch. John Williams, o Beaumaris, i'w bugeilio. Yr oedd rhai o'r brodyr â'u golwg arno pan oedd yn ŵr ieuangc yn yr Athrofa. Cydsyniodd â'r cais; ac y mae wedi gallu aros yma hyd yn hyn, a chael grâs i orchfygu temtasiynau cryfion i symmud i leoedd eraill. Ordeiniwyd ef yn y flwyddyn ddilynol. Yn 1883, adeiladwyd yma y capel harddaf yn y sir—gwerth 2,800*p*.; ac y maent wedi talu bron yr oll o'r ddyled. Y mae amryw wedi rhoddi yn haelionus at y capel newydd—yn enwedig O. Lewis, Bodrida, a Mrs. Roberts, gweddw yr hen

flaenor parchus, John Roberts. Y mae Brynsiencyn a'r Cefn bach yn daith Sabbath—dwy bregeth yn y Bryn, ac un yn y Cefn bach. Yn 1887, dewiswyd Rowland Hughes, Eden House; Robert Roberts, *Farm yard;* Robert Jones, Capel Hendref; a Hugh Williams, Gwydryn newydd, yn flaenoriaid. Bu John Hughes, Llyslew, farw yn 1886. Yn niwedd yr un flwyddyn, yr oedd yma un gweinidog, pedwar blaenor, tri chant o gymmunwyr, pum cant o wrandawyr, a thri chant a deg a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 678*p*. 9*s*. 11½*c*. Dyled y capel yn y fl. 1886 oedd 630*p*. Disgwylid y byddai yn ddiddyled yn niwedd 1887. Ymddengys ein bod wedi ysgrifenu *William* Williams yn lle *John* Williams, yn y tudal 162, yr hwn a ddewiswyd yn flaenor yn 1827, ac a fu farw yn 1837; a bu blaenor arall yma yn niwedd y trydydd cyfnod, a dechreu y pedwerydd, o'r enw William Williams, yr hwn a fu farw yn y fl. 1846. Gwêl 'Brynsiencyn,' y ddeuddegfed bennod.

Cefn Bach.—Yn 1876, dewiswyd Henry Jones, Ty'n-y-drain, yn flaenor; ac yn yr un flwyddyn, bu farw David Jones. Yn 1880, galwyd Hugh Williams, Gwydryn newydd, a John Jones, Llwyn onn, yn flaenoriaid. Symmudodd y cyntaf i Frynsiencyn. Daeth y Parch. Owen Parry, o Lanfrothen, yma, yn 1879; ac felly, daeth yn aelod o'r eglwys hon. Cafodd ei ordeinio yn y fl. 1877. Daeth Dr. W. Jones yma o Dy'n-y-maen; ond bu farw yn 1882. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pedwar o flaenoriaid, cant o gymmunwyr, a chant ac unar-ddeg a thrigain o wrandawyr, a chant a saith yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 107*p*. 0*s*. 7½*c*. Er nad yw y Parch. Owen Parry yn fugail i'r eglwys mewn enw, y mae yn sicr ei fod yn gaffaeliad gwerthfawr iddi. Y mae y lle hwn yn parhau mewn cyssylltiad â Brynsiencyn fel taith Sabbath.

Llanfair P. G.—Yr oedd William Jones yma yn agos i ddiwedd y cyfnod hwn, yn llawn teimlad o gariad at yr efengyl yn ei ffurf Fethodistaidd, ac at y rhai oedd yn ei phregethu. Yn 1865, dechreuodd y Parch. Owen Owens (Liverpool yn bresennol) bregethu. Ordeiniwyd ef yn

1871. Bu am beth amser yn fugail yn Elim; ond aflonyddwyd arno gan un o eglwysi Liverpool, a symmudodd yno; ac y mae yn weinidog cymmeradwy eglwys Anfield Road. Ystyrir ef yn un o'r bugeiliaid goreu yn Liverpool. Yn 1868, dewiswyd William Hughes, Siglan, ac Owen Thomas, dilledydd, yn flaenoriaid; ac yn 1874, daeth henuriad o'r enw Hugh Jones, o Bryn-teg, Arfon, yma i fyw, a chydnabyddodd yr eglwys hon ef yn swyddog. Bu Morris Jones, yr hwn a ddaeth yma o Seion, farw yn 1880. Yn 1885, galwyd John Jones—mab i'r diweddar William Jones a grybwyllir uchod; William Pritchard, adeiladydd; a William Roberts, Sarn faban, yn flaenoriaid. Tua'r fl. 1863, daeth y Parch. Simon A. Frazer yn aelod o'r eglwys hon. Ordeiniwyd ef yn 1867; ac yn 1885, symmudodd i Rhoscolyn. Y mae y gweinidog hwn wedi ennill iddo ei hun radd dda, a dylanwad yn mhlith ei frodyr; a gobeithiwn y caiff hir oes i fod yn ddefnyddiol. Bu William Jones farw yn 1883. Y mae Llanfair a Gilëad mewn cyssylltiad â'u gilydd fel taith Sabbath. Yn 1886, daeth y Parch. R. C. Jones yma, o sir Fflint. Yn niwedd yr un flwyddyn, yr oedd yma un gweinidog, wyth o flaenoriaid, dau gant a chwech a deugain o gymmunwyr, tri chant a deg a phedwar ugain o wrandawyr, a dau gant a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 184*p*. 7*s*. 7½*c*. Dyled bresennol y capel ydyw 395*p*. 16*s*. 3½*c*.

Gilead. — Nid oes yma ond ychydig o wahaniaeth rhwng yr achos yn y cyfnod hwn a'r cyfnod blaenorol; ond yr un a wnaed gan angeu. Y mae Thomas Evans, y Castell, ac Owen Hughes, Tyddyn buarth, yn fyw, ac yn weithgar. Bu Thomas Jones, Sarn fraint, farw yn 1882. Yn 1886, dewiswyd John Roberts, Penhescyn, yr hwn oedd gynt yn swyddog yn Mochdre; Evan Evans, mab Thomas Evans, Castell; a William Edward Williams, ysgolfeistr, yn flaenoriaid. Y mae Gilëad a Llanfair P. G. yn daith Sabbath. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bump o flaenoriaid, deuddeg a phedwar ugain o gymmunwyr, cant ac wyth a deugain o wrandawyr, a chant a dau-ar-bymtheg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 66*p*. 3*s*. 11*c*.

Porthaethwy.—Yn y fl. 1865, dechreuodd y Parch. Hugh Williams, M. A. (Bala), bregethu; ac ordeiniwyd ef yn 1873. Y flwyddyn ganlynol, symmudodd i'r Bala; ac yno y mae yn broffeswr yn Athrofa y Methodistiaid. Y mae Môn yn falch ei bod wedi magu gŵr cymmhwys i lanw sefyllfa mor anrhydeddus. Yn 1867, rhoddodd yr eglwys alwad i'r Parch. Joseph Jones, Gwrecsam, i'w bugeilio; ond y mae ein hanwyl frawd wedi ei hollol analluogi i bregethu, gan y parlys. Yn 1874, dewiswyd Eleazar Williams, masnachwr, a William Roberts, Rosemary Cottage, yn flaenoriaid; ac yn 1882, daeth y Parch. David Charles Evans, o Rhyl, yma i fyw, a'r Parch. Morris O. Jones, o Ben-y-garnedd, yn y fl. 1884. Yr un flwyddyn, galwyd Richard Jones, Pen Nebo, yn flaenor. Symmudodd Samuel Dew, o Langefni, yma yn 1879; a bu farw yn 1884. Bu Roger Evans farw ddwy flynedd cyn hyny. Dyma ddau o brif flaenoriaid Môn yn y cyfnod hwn—dynion duwiol a gweithgar iawn. Porthaethwy a Llandegfan, mewn cyssylltiad à'u gilydd, yn daith Sabbath. Bu Eleazar Williams farw yn 1882. Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau weinidog, saith o flaenoriaid, tri chant ac un-ar-bymtheg a deugain o gymmunwyr, chwe chant a dau a phedwar ugain o wrandawyr, a thri chant a phump ar hugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 407*p*. 14*s*. 11½*c*. Dyled bresennol y capel ydyw 200*p*. Yn 1887, rhoddodd yr eglwys hon alwad i'r Parch. Morris O. Jones i'w bugeilio. Cafodd yr eglwys brawf o hono cyn rhoddi galwad iddo, fel nad oes berygl iddi gael ei siomi ynddo. Yr un flwyddyn, dewiswyd Cadwaladr Davies yn flaenor. Tua'r fl. 1885, daeth Dr. Roberts, U. H., o Fanchester, yma, a dewiswyd ef yn henuriad yma hefyd. Y mae yn dda genym weled y boneddwr hwn yn teimlo dyddordeb yn y Cyfarfod Misol. Y mae Hugh Williams, masnachwr, yn weithgar yn y Cyfarfod Misol, fel yn eglwys y Borth. Y mae Richard Davies, Arglwydd Raglaw sir Fôn, yn aros yma yn flaenor, ac yn ŵr o farn a chynghor yn ein Cyfarfod Misol; a Mrs. Davies yn deilwng ferch o'i hybarch dad, y diweddar Barch. Henry Rees, Liverpool. Y mae Mrs. Roberts, Craig wen, yn parhau mewn llettygarwch.

Llandegfan.—Dechreuodd gŵr ieuangc o'r enw Thomas Roberts, Felin, bregethu yn 1866; ond bu farw yn fuan wedi iddo ddechreu. Yn 1871, dewiswyd Robert Lewis—mab i'r hen flaenor parchus Lewis Williams; a David Hughes, Tyddyn isaf, yn swyddogion; ac yn 1875, Morris Williams, Bryn meurig. Yn y cyfnod hwn, daeth Richard Roberts, Pant howel, o Elim, yma. Bu David Roberts farw yn 1884, a T. Lewis yn 1883. Yn 1886, cafodd John Williams, Porth wen; Robert Edwards; a Richard Williams, Porth wen, eu dewis. Yn 1885, dechreuodd John Jones, Pen-yr-orsedd, bregethu. Y mae Llandegfan mewn cyssylltiad â Phorthaethwy, yn daith Sabbath. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un pregethwr, saith o flaenoriaid, cant a phedwar a phedwar ugain o gymmunwyr, tri chant a deunaw a thrigain o wrandawyr, a dau gant ac un-ar-ddeg a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 126*p*. 9*s*. 1½*c*.

Beaumaris.—Yn nechreu y cyfnod hwn, ceid y Parchn. Hugh Hughes a Hugh Jones yma yn bugeilio yr eglwys, yn ol yr hen drefn Fethodistaidd; ond bu y ddau farw yn 1877. Daeth John Williams, un o flaenoriaid y Parc, yma, a chydnabyddwyd ef yn swyddog. Tad i'r Parch. John Williams, Brynsiencyn, yw efe. Yn 1876, dechreuodd dau ŵr ieuaingc bregethu yn yr eglwys hon; sef, John G. Jones a John Williams; ac ordeiniwyd hwy yn 1879. Symmudodd y cyntaf i Lanfair Caereinion; ond diarddelwyd ef yn 1885. Cafodd yr ail alwad i fugeilio eglwys Brynsiencyn; a dyma y gweinidog a adnabyddir yn awr wrth yr enw y Parch. John Williams, Brynsiencyn. Yn Mhorthaethwy y dechreuodd y diweddaf bregethu, ond Beaumaris oedd ei gartref. Yn 1877, dewiswyd Hugh Edwards, saer ceryg, yn flaenor. Bu John Williams, *flour merchant*, farw yn 1878; a Hugh Edwards y flwyddyn ganlynol. Ail wnaed y capel oddi mewn yn 1873; ac y mae dau dŷ yn perthyn iddo. Yn 1880, dewiswyd John Roberts, Bodlondeb, yn flaenor: gŵr haelionus a charedig iawn i Fethodistiaeth; a bu farw Tachwedd, 1887, yn 75ain mlwydd oed. Gadawodd rai cannoedd o bunnau yn ei lythyr cymmun i Fethodistiaid Beaumaris. Yn 1880, daeth y Parch. Richard Lloyd yma i fyw. Gŵr

ieuangc a ddechreuodd bregethu yn Llangristiolus, ac a fu gyda'r achos Saesnig yn Buckley, sir Fflint; ond dychwelodd i'w hen sir, a dewisodd Beaumaris fel lle i gartrefu. Y mae y Parch. Joseph Hillier yma hefyd. Daeth yma o Groesoswallt, i fugeilio yr eglwys Saesnig; ond yn bresennol, aelod o'r eglwys Gymraeg yw. Yn 1886, derbyniwyd William P. Jones yn bregethwr, ac yn aelod o'r Cyfarfod Misol. Yn niwedd y cyfnod hwn, ymunodd y Parch. Richard Lloyd â'r eglwys Saesnig. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, un pregethwr, pedwar o flaenoriaid, dau gant a phedwar o gymmunwyr, tri chant ac un-ar-ddeg o wrandawyr, a chant a thri a phedwar ugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 189*p*. 3*s*. 6½*c*.

Llangoed.—Y mae Griffith Roberts, Rhyd, a'i briod, yn aros hyd ddechreu y cyfnod hwn. Bu y cyntaf farw yn 1873, yn 69ain mlwydd oed. Bu Mrs. Roberts fyw am flynyddoedd ar ol ei gŵr, yn fammaeth ofalus yn Israel. Y mae Thomas Hughes yn aros hyd ddiwedd y cyfnod hwn. Yn 1871, dewiswyd David Roberts, Rhyd —mab i'r diweddar Griffith Roberts; a John Owen, Tŷ cydwys, yn flaenoriaid. Bu John Owen, Llanol, yma am beth amser yn flaenor. Symmudodd yma o Landdona, ac oddi yma i Lanol; ac felly, y mae yn aelod ac yn swyddog yn Bethlehem. Teimlir colled fawr ar ol y gŵr da hwn yn yr eglwys hon. Yn 1881, galwyd Morris Owen, Bryniau, yn flaenor. Y mae Owen Morris, ei frawd hefyd, yma yn swyddog. Bu efe yn America, ond wedi dychwelyd yn ei ol er's rhai blynyddoedd. Y mae yma gapel da yn bresennol, yr hwn a adeiladwyd ychydig flynyddoedd yn ol; ac y mae yr achos, yn ei holl ranau, yn gysurus. Dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw Edward Hughes, bregethu yn 1880, a bu farw yn 1886. Yr oedd y gŵr ieuangc hwn yn bur addawol. Yn 1881, ceid gŵr ieuangc o'r enw John Williams, Llangoed, yn rhestr y pregethwyr; ac yn 1887, dewiswyd ef yn fugail. Ceir yma swyddogion rhagorol. Y mae y Rhyd a'r Bryniau yn agored i weinidogion yr efengyl. Y mae yma ddwy gangen-ysgol Sabbothol—un yn Penmon, mewn tŷ ardrethol, wedi ei ddodrefnu i gadw ysgol; a'r llall yn

Llanfihangel, mewn ysgoldy, neu gapel bychan, newydd ei adeiladu, yn werth 200*p*. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un pregethwr, pump o flaenoriaid, dau gant ac ugain o gymmunwyr, pedwar cant a thrigain o wrandawyr, a thri chant a phymtheg ar hugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 228*p*. 8*s*. 3*c*. Nid oes yr un lle arall mewn cyssylltiad âg ef fel taith Sabbath.

Llanddona.—Yn 1864, dewiswyd John Owen, Rhos newydd, a Lewis Brewton, Glasgoed; ac yn 1874, Owen Hughes, Pentre llwyn, a Robert Hughes, Bryn teg, yn flaenoriaid. Dechreuodd Henry Davies bregethu yn 1879; a Henry E. Williams yn 1882. Symmudodd y diweddaf i Liverpool, yn lled fuan wedi iddo ddechreu. Yn 1882, hefyd, galwyd William Edwards, Rhos isaf, a Richard Williams, Tŷ du, yn swyddogion. Bu Thomas Owen, Bryn glas, farw yr un flwyddyn. Y mae John Oliver yn fyw, ac yn parhau yn swyddog defnyddiol a hoffus gan yr eglwys. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un pregethwr, chwech o flaenoriaid, cant a phedwar-arddeg ar hugain o gymmunwyr, tri chant a phedwar-arddeg ar hugain o wrandawyr, a dau gant a dau a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 103*p*. 13*s*. Yn niwedd y cyfnod hwn, y mae Llanddona ei hun yn daith Sabbath.

Pen-uchel-dref.—Yn y cyfnod hwn, ail wnaed y capel oddi mewn. Nid yw yr ardal yn un boblog; ac felly, nid oes yma nemawr o gynnydd; a bu cwerylon yn y cyfnod blaenorol a'r un presennol yn attalfa ar lwyddiant yr achos. Yn 1869, dewiswyd dau flaenor; sef, Ebenezer Owen, Fferam isaf (ond symmudodd i Beaumaris), a Hugh Williams, Minffordd; a diswyddwyd ef yn y fl. 1876. Bu Robert Thomas farw yn 1876. Y flwyddyn hono, galwyd Thomas Griffith, Cefn coch, a David Owen, Pen-uchel-dref, yn flaenoriaid; ond bu y diweddaf farw y flwyddyn ganlynol. Yn mhen blwyddyn drachefn, syrthiodd y dewisiad ar Thomas Edwards, Uchel-dref, ac Owen Humphreys, Fotty; ac yn 1883, ar John Williams, Rhos, a Hugh Williams, Brynhyfryd. O herwydd rhyw anghydfod, fe symmudodd John Williams a Thomas

Edwards i Nazareth. Pen-uchel-dref a Phen-y-garnedd yw y daith Sabbath yn y cyfnod hwn. Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau flaenor, deuddeg a thrigain o gymmunwyr, cant a dau a phedwar ugain o wrandawyr, a chant a phedwar yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 52*p*. 12*s*. 2½*c*.

PEN-Y-GARNEDD.—Yn y cyfnod hwn, sefydlwyd Ysgol Sabbothol yn ardal Rhos-y-cefn-hir, gan ferch o'r enw Mary Owen, yn cael ei chynnorthwyo gan gymmydoges, a gŵr ieuangc. Symmudwyd hi o dŷ Mary Owen i ystafell fwy, berthynol i Penrhos House, eiddo William Evans, y blaenor. Yn 1870, symmudwyd hi i ystafell arall, fwy cyfleus. Tua'r fl. 1867, daeth y Parch. Richard Owen yma o Langristiolus, trwy briodi merch William Evans, Penrhos House. Bu ef o wasanaeth nid bychan yma gyda'r bobl ieuaingc. Yn 1872, dechreuodd William Roberts, Cae'r gors, bregethu [gwel *Bethlehem*]. Dechreuodd y Parch. Robert Evans—mab William Evans, Penrhos House, bregethu yn 1874, a pharotoi ei hun i fyned yn genhadwr; ac yn 1878, aeth ef a'i briod—merch i'r diweddar Barch. John Phillips, Bangor, i Fryniau Cassia. Yn 1875 yr adeiladwyd y capel presennol. Dechreuodd y Parch. Morris Owen Jones (Porthaethwy) bregethu yn 1878. Y mae efe yn fab i'r Parch. Richard Owen, Pen-y-garnedd; ac ordeiniwyd ef yn 1882. Yn 1879, dechreuodd y Parch. John Owen—mab arall i'r Parch. Richard Owen—bregethu; a symmudodd yntau i Abergynolwyn yn 1885, i fugeilio yr eglwys yno. Y mae y ddau ŵr ieuangc hyn yn bregethwyr da, a gobeithiwn y cânt hir oes, ac y byddant yn ddefnyddiol iawn. Yn 1880, dewiswyd John Roberts, Cae'r gors, yn flaenor; a Lewis Morris, Cefn hir, a Lewis Owen, Rhos Owen, yn 1882. Yr oedd Lewis Morris yn dra gweithgar cyn iddo gael ei alw yn swyddog, ac y mae yn parhau felly wedi iddo gael ei alw. Bu Pen-y-garnedd, Pen-uchel-dref, a Llanddona, mewn cyssylltiad â'u gilydd, am flynyddoedd, yn daith Sabbath; ond yn ddiweddar, aeth Llanddona, yn daith ei hun, gan adael Pen-y-garnedd a Phen-uchel-dref gyda'u gilydd. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pedwar o flaenoriaid, cant a phump ar hugain

o gymmunwyr, dau gant a deuddeg ar hugain o wrandawyr, a chant a phedwar ugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 146*p*. 13*s* 5*c*. Dyled bresennol y capel ydyw 120*p*.

PENTRAETH.—Daeth Roger Evans, Fron goch, a Thomas Owen, Tan'rallt, yma—y cyntaf o Borthaethwy, a'r diweddaf o Gapel Coch, yn y cyfnod hwn. Yn 1865, dewiswyd William Evans, *Chapel Bank*, ac Humphrey Owen, ysgolfeistr, yn henuriaid. Bu y cyntaf o'r ddau hyn farw yn 1871. Yn 1869, dechreuodd y Parch. William Pritchard bregethu, ac ordeiniwyd ef yn 1875. Y mae efe wedi ei alw gan yr eglwys a'i magodd i'w bugeilio, yr hyn sydd yn siarad yn uchel am yr eglwys a'r gweinidog. Symmudodd Humphrey Owen i Langefni, a bu farw yn ŵr lled ieuangc, yn 1875. Yn 1872, dewiswyd William Jones, ac yn y fl. 1878, David Jones, Trefor, yn flaenoriaid; ac yn 1880, galwyd Hugh Hughes, Penrhyn, a Joseph Thomas, Ty'n-y-llan. Mewn canlyniad i'r adfywiad a gafwyd yn y blynyddoedd 1859—60, adeiladwyd capel newydd bychan destlus yn 1860, neu y flwyddyn ganlynol. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pump o flaenoriaid, cant a phedwar ar ddeg o gymmunwyr, cant a phedwar ugain a thri o wrandawyr, a thri-ar-ddeg a phedwar ugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 107*p*. 16*s*. 10½*c*. Nazareth a Glasinfryn yw y daith Sabbath—dwy bregeth yn Nazareth, ac un yn Nglasinfryn.

GLASINFRYN.—Dewiswyd Richard Hughes, Castell, yn flaenor yma yn 1874; ond bu farw yn 1881. Galwyd gŵr o'r enw Owen Jones yn yr un flwyddyn; ond ymddiswyddodd. Y flwyddyn ganlynol, syrthiodd y dewisiad ar Thomas Hughes, Plas bach, a Thomas Williams, Gwenfro. Y flwyddyn ddilynol, bu farw yr hen frawd Henry Williams, Tŷ croes. Yn y cyfnod hwn, bu yn Nglasinfryn rai ystormydd blinion; ond credwn fod yma dawelwch ar hyn o bryd. Y mae Glasinfryn a Nazareth yn parhau mewn cyssylltiad â'u gilydd yn daith Sabbath. Yn 1886, yr oedd yma dri o flaenoriaid, dau-ar-bymtheg a phedwar ugain o gymmunwyr, dau gant ac wyth a deugain o wrandawyr, a chant a thri-ar-ddeg yn

perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 54*p*. 19*s*. 10*c*.

Tabernacl.—Yn 1866, dechreuodd gŵr ieuangc o'r enw Richard Davies bregethu yma; ond rhoddodd y gwaith i fyny, ac ymroddodd i gymmhwyso ei hun yn ysgolfeistr. Dewiswyd John Jones, y Felin, a Richard Hughes, Garnedd, yn henuriaid yn 1867. Blaenor o ddifrif oedd y cyntaf—yn mawrhau ei swydd, ac yn ei llenwi yn fwy na llawer. Yr oedd yn hynod gefnogol i bobl ieuaingc; yn arfer ymweled â'r cleifion, ac yn fedrus i dywallt olew i'w doluriau; ond bu farw yn 1877. Y diweddaf ydoedd gymmeriad hynod; yn meddu llawer iawn o arabedd; ond bu yntau farw yn 1881. Yn 1877, dewiswyd John Thomas, y Bwlch, a Hugh Williams, Pant-y-saer, yn flaenoriaid; ac y mae y ddau yn aros, ac yn ddefnyddiol hyd ddiwedd y cyfnod hwn. Yn 1881, dewiswyd John P. Williams, *Post office*, a William Williams, Olgra geryg, yn flaenoriaid. Y mae y cyntaf o'r ddau yn dra charedig i weinidogion yr efengyl. Y mae ei dŷ wedi bod yn gartref iddynt, pan yn gwasanaethu yn y Tabernacl, er's o ddeutu ugain mlynedd. Yr oedd Mrs. Williams yn un o'r gwragedd mwyaf caredig i bregethwyr yn Môn; ond y mae hi wedi myned at ei gwobr. Tua'r fl. 1877, daeth y Parch. William Hughes yma o Awstralia. Daeth yma bregethwr ieuangc o sir Gaernarfon hefyd, o'r enw Thomas Hughes, ond dyrysodd yn ei amgylchiadau; ac felly, nid yw yn pregethu. Dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw John Roberts—mab i John Roberts, blaenor yn Llanallgo—bregethu yn 1879; a'r flwyddyn ganlynol, dechreuodd gŵr ieuangc arall, o'r enw John Jones—mab i'r diweddar John Jones, un o flaenoriaid eglwys Tabernacl—bregethu. Y mae y Parch. John R. Hughes yma yn y cyfnod hwn, ac yn wasanaethgar, er nad oes cyssylltiad bugeiliol rhyngddo â'r eglwys. Y mae cangen-ysgol berthynol i'r Tabernacl mewn lle a elwir Pen-llech; y mae yno ysgoldy, traul adeiladaeth yr hwn oedd yn 160*p*. Cynnelir cyfarfod gweddi yma bob wythnos, a phregethir yn achlysurol. Adgyweiriwyd Capel Tabernacl oddi mewn yn 1878. Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau weinidog, tri o bregeth-

wyr, pedwar o flaenoriaid, dau gant a dau-ar-bymtheg a deugain o gymmunwyr, pedwar cant a dau a deugain o wrandawyr, a thri chant a phedwar-ar-bymtheg ar hugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau ydoedd 193*p*. 19*s*. 11½*c*. Dyled y capel, 450*p*. Y mae y Tabernacl a'r Traeth Coch yn daith Sabbath.

Traeth Coch.—Cangen o eglwys y Tabernacl ydyw y Traeth Coch. Dechreuwyd cadw Ysgol Sabbothol yn yr ardal tua'r fl. 1807, a phregethid yn achlysurol mewn goruwch-ystafell; ond ceir pregethu cysson yma yn y cyfnod hwn. Tua'r fl. 1881, corphorwyd eglwys. Nid oedd yma gapel hyd yn ddiweddar. Y mae yma gapel prydferth yn bresennol, gwerth dros 700*p*., a gelwir ef Saron. Y mae Thomas Lloyd, Cei newydd, yr hwn a fu yn flaenor yn Llangefni, ac wedi hyny yn y Tabernacl, yn arolygu yr achos, ac y mae yn meddu llawer o gymmhwysderau i lanw ei swydd fel blaenor. Yn 1885, dewiswyd Owen Williams, Iard, a Griffith Williams, Plas gwyn, yn swyddogion. Yn niwedd 1886, yr oedd yma dri o flaenoriaid, deugain o gymmunwyr, pedwar-ar-ddeg a phedwar ugain o wrandawyr, a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau ydoedd 74*p*. 17*s*. 10*c*. Dyled y capel, 311*p*.

Llanallgo.—Yn y cyfnod hwn, symmudodd gŵr, o'r enw Owen Jones o'r Parc, yma, a chydnabyddwyd ef yn flaenor. Yn 1869, bu Richard Davies farw. Symmudodd William Evans i Ben-y-garnedd. Bu Ismael Owen farw yn 1878. Owen Jones—yr hwn a ddaethai yma o'r Parc—yn 1880, a John Hughes yn 1884. Yn 1865, dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw Hugh Owen, bregethu, ond bu farw yn 1877. Yn 1880, dewiswyd Owen Jones, Ty'n-y-lôn, a Thomas Williams, Marian glas, yn flaenoriaid. Y mae Llanallgo a Bryn-yr-efail, mewn cyssylltiad â'u gilydd, yn daith Sabbath, yn niwedd y cyfnod hwn. Yn niwedd 1886, yr oedd yma dri o flaenoriaid, cant a saith ar hugain o gymmunwyr, dau gant a deunaw a thrigain o wrandawyr, cant a phedwar-ar-ddeg a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau ydoedd 99*p*. 5*s*. 7½*c*. Y mae John Roberts yn aros yma, ac yn parhau yn ddefnyddiol.

Caersalem, Bodafon.—Yn y cyfnod hwn, dewiswyd Richard Hughes, Tŷ Capel, yn flaenor. Ymddiswyddodd Richard Williams, Bodafon, am ychydig; ond ail alwyd ef gan yr eglwys. Y mae y blaenor hwn wedi bod yn garedig iawn i'r achos yn yr ardal yn y ddau gyfnod diweddaf. Yn 1882, dewiswyd Owen Elias, Glyn, yn swyddog; ac y mae yn ŵr ieuangc gweithgar gyda'r cyfarfodydd ysgolion; a'i dad a'i fam o'i flaen wedi dangos caredigrwydd at Fethodistiaeth. Y mae Caersalem mewn cyssylltiad â Llanerchymedd yn daith Sabbath—dim ond pregeth am ddau o'r gloch. Yn niwedd 1886, yr oedd yma dri o flaenoriaid, trigain o gymmunwyr, cant ac un-ar-bymtheg ar hugain o wrandawyr, a phedwar ugain a dau yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 32*p*. 13*s*. 0½*c*.

Ty mawr.—Yn 1871, dewiswyd Richard Rowlands, Llidiart; yn 1874, Owen Jones, Cae-maes-gafr; yn 1881, Edward Jones, Nant; ac yn 1882, William Rowlands, Tŷ mawr, yn flaenoriaid. Bu y Parch. John Richard Hughes yn fugail yma am beth amser yn y cyfnod hwn, ond yn byw yn Brynteg. Yr oedd ei bresennoldeb yn y cyfarfodydd eglwysig yn rhwym o fod yn werthfawr iawn. Bu John Lewis farw yn 1880. Y mae gan Tŷ mawr ysgoldy a elwir Babell; ac y mae y ddau le mewn cyssylltiad â'u gilydd yn daith Sabbath. Daeth y Parch. William Roberts yma o America, o ddeutu y fl. 1875. Ordeiniwyd ef yn America yn 1860. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, tri o flaenoriaid, cant a phedwar o gymmunwyr, dau gant ac wyth ar hugain o wrandawyr, a chant a thri-ar-bymtheg ar hugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau, 81*p*. 9*s*. 7½*c*.

Parc.—Y blaenoriaid yn y Parc yn nechreu y cyfnod hwn oeddynt William Griffith, Owen Jones, ac Owen Parry. Bu Richard Williams farw cyn diwedd yr un blaenorol. Symmudodd John Williams i Beaumaris. Yn 1865, dewiswyd Robert Roberts, Tan-y-graig; ond symmudodd i Arfon. Yn y fl. 1869, galwyd Elias Jones yn swyddog; ond symmudodd yntau i Fryn du. Dewiswyd brawd arall yn yr un flwyddyn; ond anufuddhaodd

i alwad yr eglwys. Symmudodd Owen Parry i sir Ddinbych. Yn 1880, syrthiodd y dewisiad ar Robert Williams, Frondeg, ac ar y brawd a wrthododd yn flaenorol, yr hwn a wrthododd eilwaith. Barnwn nad yw ef yn deilwng o gael ei enw yn *Methodistiaeth Môn*, o herwydd ei anufudd-dod i ddwy alwad daer yr eglwys. Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau flaenor, cant a dau ar hugain o gymmunwyr, cant a phedwar ugain a deg o wrandawyr, a chant ac un-ar-bymtheg a deugain yn yr Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 98*p*. 4*s*. 2*c*. Y mae y Parc a Bozrah mewn cyssylltiad â'u gilydd yn daith Sabbath. Yn 1887, dewiswyd Richard Hughes—mab i'r hen flaenor, John Hughes, Llanallgo, yn swyddog; a'r un flwyddyn, bu yr hen frawd ffyddlawn, William Griffith, farw, er colled fawr i'r eglwys.

Nebo.—Yn 1865 y dechreuodd y Parch. Richard Jones bregethu; yn 1867, dodwyd ef yn rhestr y pregethwyr; ac yn 1875, ordeiniwyd ef. Y mae efe wedi aros yma, ac wedi cael galwad gan yr eglwys i'w bugeilio, yr hyn sydd yn glod iddo, ac i'r eglwys—un o'r meibion a fagodd yn gofalu am dani fel gweinidog. Y mae rhai eglwysi yn fyr eu golwg—nis gallant weled yn agos, ond gallant weled yn mhell. Yn 1866, dechreuodd gŵr ieuangc, o'r enw Owen Williams, bregethu yma; ond bu farw Hydref 8fed, 1867, yn 20ain mlwydd oed. Yn 1865, ymranodd yr eglwys yn ddwy, nid o herwydd unrhyw anghydfod, ond am fod capel newydd wedi ei adeiladu yn Pen-y-sarn—yn agos i'r hen Ledtroed. Yr oedd yma wahanol farnau ar y pryd pa beth a ddylasid ei wneyd. Mynai rhai helaethu Nebo; eraill oeddynt am adeiladu dau ysgoldy—un yn Ngheryg mân, a'r llall yn agos i Draeth Dulas; a'r drydedd blaid a fynai adeiladu capel yn Mhen-y-sarn; ac â'r ddiweddaf y cyttunai y Cyfarfod Misol. Bu pregethu am ychydig amser yn Ngheryg mân, pan oedd y capel yn cael ei adeiladu. Os ydym yn cofio yn iawn, byddai Ysgol Sabbothol yn cael ei chynnal yn Ngheryg mân rai blynyddoedd cyn adeiladu Bozrah. Bu Bozrah a Phorth Amlwch mewn cyssylltiad â'u gilydd yn daith Sabbath am flynyddoedd. Yn 1885, dewiswyd William Jones, *coal merchant*, yn flaenor yn Bozrah; a

bu farw yn y fl. 1879; ac yn 1867, dewiswyd Robert Griffith, Lledtroed; ond bu yntau farw y flwyddyn ddilynol. Yn 1869, dewiswyd Griffith Roberts, Corwas, a John Williams, yn flaenoriaid. Aeth Griffith Roberts i orphwys oddi wrth ei lafur yn 1886. Yn 1872, dewiswyd John Thomas, y Croesau, yn swyddog. Y mae y Cadben William Hughes, Trysglwyn, yn henuriad ffyddlawn a chymmeradwy yn yr eglwys hon; daeth yma o eglwys y Gorslwyd. Y mae Bozrah mewn cyssylltiad â'r Parc, yn daith Sabbath, ac yn cael dwy bregeth bob yn ail Sabbath. Y mae yma achos cynnhes; ond iselder masnach wedi peri i lawer ymadael o'r gymmydogaeth i leoedd eraill i fyw. Yn niwedd 1886, yr oedd yma dri o flåenoriaid, cant a phedwar-ar-bymtheg o gymmunwyr, dau gant a deuddeg ar hugain o wrandawyr, a chant ac un a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 88*p*. 11*s*. 6*c*. Yn Nebo, yn 1869, dewiswyd William Parry, Rhosmanarch, yn flaenor. Yn 1875, dewiswyd James Williams, Pen-y-sarn, a John Roberts, Tyddyn mawr, yr hwn a symmudodd i America; ac ail ddewiswyd Thomas Hughes, crydd, yn yr un flwyddyn. Adgyweiriwyd y capel oddi mewn yn y cyfnod hwn. Cafwyd pulpud hardd yn rhodd gan John Williams, Liverpool, yr hwn sydd enedigol o'r gymmydogaeth. Y mae Methodistiaeth yn dal ei thir yn yr ardal hon. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, tri o flaenoriaid, cant ac un ar hugain o gymmunwyr, tri chant a phedwar o wrandawyr, a chant a saith a deugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 103*p*. 19*s*. 2*c*. Dyled bresennol y capel ydyw 50*p*.

Siloh.—Ni ellir dywedyd fod yr achos wedi cynnyddu yma, o blegid fod poblogaeth yr ardal wedi lleihau. Yn nechreu y cyfnod hwn, William Roberts, yr Hen Felin; John Herbert, a William Edwards, oedd y swyddogion. Chwanegwyd William Rowlands, Glan-y-gors, a Hugh Jones, Fagwyr, atynt yn 1881; ac y mae pedwar o'r pump yn aros hyd heddyw. Bu William Roberts farw yn 1883, yr hyn oedd yn golled fawr i'r eglwys. Y mae y Parch. Richard Jones, Nebo, yn arfer myned yn fynych

i'r cyfarfod eglwysig, a'r frawdoliaeth yn gwerthfawrogi ei wasanaeth yn fawr. Yn niwedd 1886, yr oedd yma bedwar o flaenoriaid, pedwar ugain a deg o gymmunwyr, dau gant a hanner o wrandawyr, a chant a deg yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau ydoedd 72*p*. 12*s*. 1½*c*.

Yn niwedd y cyfnod hwn, y mae yn y sir dair eglwys Seisnig. Eglwys Porthaethwy yw y gyntaf. Ceid pregethu yma tua'r fl. 1868. Yn 1867, daeth y Parch. Joseph Jones yma o Wrecsam, i wasanaethu yr eglwys Gymraeg; ac yr oedd ei ddyfodiad yn rhwyddhau y ffordd i sefydlu achos Seisnig. Ymddengys mai Richard Davies, Arglwydd Raglaw y sir, a Bulkeley Price, U.H., a ddewiswyd yn henuriaid—y cyntaf yn swyddog yn y ddwy eglwys. Yn 1881, dewiswyd John R. Davies, U.H., a Robert W. Roberts, yn flaenoriaid. Hyd ddiwedd y cyfnod hwn, nid oes yma gapel Seisnig; ond addolir yn New Hall. Yn 1887, y mae yma gapel gwerth tua 5,000*p*. yn cael ei adeiladu gan Robert Davies, Ysw., Bodlondeb, ac i gael ei gyflwyno i'r cyfundeb. Dyma foneddwr ag y mae yr Arglwydd wedi ei fendithio â chyfoeth mawr, ac wedi agor ei galon i gyfranu at dai addoliad. Clywsom ei fod y dyddiau hyn wedi addaw 100*p*. tuag at gapel Rhosneigr, a 50*p*. arall tuag at gapel Traeth Coch. Ein dymuniad ydyw ar i'r Arglwydd ei ddigoni ef â hir ddyddiau, a dangos iddo ei iachawdwriaeth. Y mae ei frawd, Richard Davies, Arglwydd Raglaw y sir, yn teimlo dyddordeb mawr yn yr achos hwn, ac yn ei gynnorthwyo yn haelionus. Dywed Marc am yr Arglwydd Iesu, pan aeth i gyffiniau Tyrus a Sidon—'Ac ni fynasai i neb wybod; eithr ni allai efe fod yn guddiedig.' Gellir dywedyd hefyd am y ddau foneddwr hyn, na fynant i neb wybod am aml weithred dda a wnaethant; eithr nis gall ambell un fod yn guddiedig am byth—y mae hi yn sicr o ddyfod i'r golwg, a theg ydyw iddi ddyfod. Y mae yn wir na ddylai y rhoddwr udganu o'i flaen er mwyn cael ei weled gan ddynion; ond dylai goleuni y Cristion lewyrchu ger bron dynion, fel y gwelont ei weithredoedd da, ac y gogoneddont ei Dad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Ymddengys y mynasai y ddau foneddwr i'r hyn y cyfeir-

iwn ato fod yn guddiedig hyd ddydd y farn, ac na chawsai neb ei chyhoeddi ond y Barnwr y dydd diweddaf; ond un o ddeddfau llywodraeth Duw ydyw—'Nid oes dim cuddiedig a'r nas dadguddir, na dirgel a'r nas gwybyddir;' ac ymostynged y ddau i'r ddeddf anhyblyg hon, ac na ddigiant wrthym am i ni ei chyhoeddi yn *Methodistiaeth Môn*. Yr hyn y cyfeiriwn ato ydyw, rhoddion haelionus y ddau foneddwr i'r diweddar Barch. David Jones, Treborth, mewn trefn i'w attal ef i fyned i America, a thrwy hyny sicrhau ei weinidogaeth i Gymru. Rhoddodd y ddau iddo ef yn flynyddol 50*p*. bob un, tra y bu ef byw, ac efe a fu byw tua deuddeg mlynedd. Rhoddasant iddo felly tua 1,200*p*. Credwn fod holl Fethodistiaid Cymru ag oedd yn mawrhau gweinidogaeth y gweinidog anwyl o Dreborth—a phwy nad oedd yn ei mawrhau?—yn teimlo yn ddiolchgar i'r ddau foneddwr am eu gweithred glodwiw yn sicrhau i Ogledd Cymru, yn benaf, y fath weinidogaeth odidog am ddeuddeng mlynedd. I'r eglwys Seisnig yn y Borthaethwy y perthynai y Parch. Joseph Jones; ond y mae yn hollol analluog i gyflawni ei hoff waith. Yn niwedd 1886, yr oedd yma un gweinidog, pedwar o flaenoriaid, trigain a thri-ar-ddeg o gymmunwyr, cant a thrigain o wrandawyr, a chant a phedwar ugain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau ydoedd 384*p*. 1*s*. 3½*c*.

Yr ail eglwys Seisnig ydyw yr hon sydd yn Beaumaris. Dechreuwyd pregethu yma yn 1870. Adeiladwyd capel, gwerth tua 1,000*p*. Yn 1871, corphorwyd eglwys yma. Y gweinidog cyntaf a fu yn ei gwasanaeth oedd y Parch. Godfrey Davies, yr hwn a ddaeth yma o'r Deheudir. Symmudodd i Aberhonddu; ond diarddelwyd ef yn mhen ychydig wythnosau wedi iddo fyned yno, o herwydd ei ymddygiad anweddaidd yn Beaumaris. Tua'r fl. 1878, rhoddodd yr eglwys alwad i'r Parch. Joseph Hillier i'w gwasanaethu mewn pethau ysbrydol; ond am ychydig amser y bu mewn cyssylltiad â hi; rhoddodd ei fugeiliaeth i fyny, a daeth yn aelod o'r eglwys Gymreig. Yn 1880, rhoddodd yr eglwys alwad i'r Parch. T. T. Lucius Morgan i'w gwasanaethu fel gweinidog; ac yn 1882, ordeiniwyd ef. Bu yr achos hwn am beth amser o dan ofal y brodyr

canlynol:—J. Haples, *grocer;* Thomas Hughes, cigydd; R. Lloyd Humphreys; a John Roberts, Brynhyfryd. Yn 1877, dewiswyd y Cadben Thomas Williams; W. T. Williams, *draper;* a John Jones, *traveller,* yn flaenoriaid. Bu y cyntaf farw yn 1886. Yn yr eglwys hon y mae y Parch. R. Lloyd yn aelod. Yn niwedd 1886, yr oedd yma ddau weinidog, dau flaenor, deuddeg a deugain o gymmunwyr, cant a hanner o wrandawyr, a phump a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau ydoedd 118*p.* 3*s.* 6*c.* Y ddyled ar y capel ydyw 142*p.*

Y drydedd eglwys Seisnig ydyw yr un sydd yn Nghaergybi. Dechreuodd yr achos yma yn 1885. Cedwir y cyfarfod crefyddol yn llofft y Neuadd Drefol. Corphorwyd eglwys yma yn fuan wedi dechreu pregethu. Bu ychydig o frodyr o'r gwahanol eglwysi Cymreig yma ar y dechreu yn gofalu am yr achos yn ei fabandod; ond erbyn hyn, y maent oll wedi dychwelyd yn ol, oddi eithr Hugh Williams, *Admiralty.* Y mae efe yn parhau i lynu wrth yr achos Seisnig, gan gredu mai dyma ei ddyledswydd ar hyn o bryd; ac y mae Mrs. Williams yn ymddangos yn benderfynol na chaiff farw, os gall hi ei gadw yn fyw. Y maent yn edrych allan am le cyfleus i adeiladu capel. Yn 1886, daeth y Parch. W. G. Owen, o Abergafeni, yma i weinidogaethu i'r eglwys ieuangc. Yn niwedd yr un flwyddyn, yr oedd yma un gweinidog, un blaenor, un-ar-bymtheg a deugain o gymmunwyr, cant ac ugain o wrandawyr, a dau-ar-bymtheg a thrigain yn perthyn i'r Ysgol Sabbothol. Cyfanswm yr holl gasgliadau oedd 92*p.* 13*s.* 11*c.*

PENNOD XVI.

PREGETHWYR Y PUMMED CYFNOD.—Y RHAI YDYNT WEDI MEIRW.

Y Parch. Evan Thomas, Caergybi, oedd frodor o Arfon, ac yno y dechreuodd bregethu, tua'r fl. 1842. Ordeiniwyd ef yn 1866. Bu gyda'r Parch. William Roberts, D. D., yn yr ysgol yn Nghaergybi, a chyda ninnau ar ol hyny yn Mancott, yn ngoror sir Fflint. O'r diwedd, ymsefydlodd mewn masnach yn Nghaergybi. Yr oedd yn gyfaill caruaidd, ac yn ddyn siriol. Cofus genym, pan oedd gyda ni yn Mancott, iddo wahodd gweddwon a thlodion y gymmydogaeth i dê. Pregethai, weithiau, yn hwylus a hwyliog. Yr oedd yn ymadroddwr rhwydd; ond gan nad oedd yn hoff o astudio, nis gellid ei ystyried yn bregethwr meddylgar. Cafodd gystudd trwm am yn agos i flwyddyn a hanner, a gadawodd dystiolaeth ar ei ol 'fod marw yn elw' iddo. Bu farw Ionawr 12fed, 1874, yn 59ain mlwydd oed, wedi pregethu am ddeuddeng mlynedd ar hugain.

Y Parch. Robert Jones, Caergybi.—Yntau hefyd oedd enedigol o sir Gaernarfon. Dechreuodd bregethu tua'r fl. 1843, ac ordeiniwyd ef yn 1867. Daeth i Gaergybi i'r ysgol, at y Parch. William Roberts, yn lled fuan wedi iddo ddechreu pregethu. Bu ar ol hyny gyda ninnau yn Mancott. Wedi iddo briodi, bu am rai blynyddoedd yn byw yn nhref Fflint yn masnachu ac yn pregethu; ac oddi yno, symmudodd i Gaergybi. Yr oedd yn ddyn trwsiadus ei wisg, ac hynod o lanwaith—yn fwy felly na'r cyffredin; ac yr oedd hyny yn hollol naturiol iddo. Tybiai rhai ei fod yn falch, o herwydd ei lanweithdra; ond dylid cofio fod gwahaniaeth mawr rhwng y ddau beth. Yr oedd yn dioddef ar hyd ei oes gan fynych wendid corphorol, yr hyn, fe allai, oedd yn beth rheswm dros 'bigogrwydd' ei ysbryd a'i eiriau ar brydiau. Credwn ei fod yn fwy cywir nag ambell un gyda geiriau teg. Fel pregethwr, nid oedd yn cael ei ystyried yn fawr, nac yn boblogaidd; ond yr oedd yn bregethwr cryno a

'thwt.' Bu farw Medi 28ain, 1885, yn 69ain mlwydd oed, wedi pregethu dros ddeugain mlynedd.

Y Parch. Owen Owens, Bethel, a anwyd tua'r fl. 1828. Dechreuodd bregethu tua'r fl. 1853, ac ordeiniwyd ef yn 1859. Ymddengys na chafodd ei fagu yn eglwys Dduw; etto, dangosodd dueddfryd crefyddol yn lled ieuangc, a derbyniwyd ef fel un o blant eglwys Bethel pan oedd tuag wyth mlwydd oed. Wedi iddo ddechreu pregethu, dewiswyd ef yn fugail ar eglwys Bethel; a pharhaodd i'w gwasanaethu yn ffyddlawn a chymmeradwy hyd y diwedd. Fel dyn, perchid ef gan bawb yn y gymmydogaeth. Fel Cristion, bu ffyddlawn hyd angeu. Fel pregethwr, nid oedd yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd; ond ystyrid ef yn bregethwr da a derbyniol. Gwnaeth eglwysi y sir dysteb o 200p. iddo yn ei waeledd a'i wendid, yr hyn oedd yn brawf ei fod yn anwyl gan holl eglwysi y sir. Yr oedd y Parch. Owen Owens yn ddwfn yn serchiadau ei holl frodyr. Bu farw Mehefin 4ydd, 1877, yn 49ain mlwydd oed, wedi pregethu am tua phum mlynedd ar hugain.

Y Parch. Hugh Jones, Beaumaris.—Ganwyd ef tua'r fl. 1826. Cafodd ei fagu yn eglwys Carmel; a galwyd ef yn flaenor ynddi tua'r fl. 1850; ac yn y swydd hono, ennillodd iddo ei hun 'radd dda,' fel y cymmhellwyd ef gan ei frodyr i feddwl am bregethu. Yn unol â'u cymmhelliad hwy, dechreuodd yntau bregethu tua'r fl. 1857. Ordeiniwyd ef yn 1865. Nid oedd wedi cael manteision addysg yn foreu. Wedi iddo ddechreu pregethu, aeth i Beaumaris i'r ysgol, ac oddi yno i Athrofa y Bala. Priododd ferch ieuangc, o'r enw Miss Thomas, o Beaumaris, chwaer i wraig gyntaf y Parch. Jerman Jones, o Fryniau Cassia. Fel dyn, yr oedd yn ddoeth a gwyliadwrus. Fel Cristion, yr oedd tu hwnt i bob ammheuaeth am ei dduwioldeb. Fel pregethwr, yr oedd yn fanwl iawn yn nghyfansoddiad ei bregethau, yr hyn, y mae lle i ofni, oedd yn llesteirio, i fesur, effeithioldeb y traddodiad. Er hyny, yr oedd yn bregethwr da a chymmeradwy, ac ar adegau yn nerthol, nes tynu sylw y rhai mwyaf anystyriol. Bu farw Tachwedd 22ain, 1877, yn 51ain mlwydd oed, wedi pregethu tuag ugain mlynedd.

Y Parch. Edward Jones, Porth Amlwch (wed'yn Dublin; ac ar ol hyny, Bryn-menai, sir Gaernarfon), a anwyd tua'r fl. 1834. Bu yn pregethu gyda'r Annibynwyr am rai blynyddoedd cyn dyfod at y Methodistiaid, gyda y rhai y dechreuodd yn 1859; ac ordeiniwyd ef yn 1876. Symmudodd o Borth Amlwch i Ddublin, a bu yno am o ddeutu deuddeng mlynedd fel cenhadwr i'r morwyr. Tua dwy flynedd cyn iddo farw, symmudodd i Borthdinorwic, o herwydd afiechyd. Yr oedd ef yn un o'r dynion mwyaf cymmhwys a allesid ei gael i ymwneyd â'r morwyr. Yr oedd yn ŵr call a serchog, yn ddyn duwiol, ac yn bregethwr cymmeradwy. Bu farw Tachwedd 5ed, 1879, yn 44ain mlwydd oed.

Humphrey Hughes, Bethel, oedd ŵr ieuangc crefyddol, duwiol, ac anwyl iawn. Yr oedd ei glyw yn ddrwg. Pe cawsai fyw, buasai y diffyg hwn yn rhwym o fod yn anfanteisiol i'w ddefnyddioldeb. Byddai mor awyddus i ddeall yr hyn a ddywedid wrtho, fel y dywedai wrth y rhai y byddai yn siarad â hwy—'Yr ydwyf yn clywed yn drwm,' fel cymmhelliad iddynt i wneyd eu goreu i beri iddo glywed. Yr oedd yn frawd i Thomas Humphrey, yr hwn oedd yn byw mewn lle a elwir y Cwt, un o flaenoriaid eglwys Sardis, Iard. Bu farw yn y fl. 1866, wedi pregethu am o ddeutu tair blynedd.

Hugh Owen, Llanallgo.—Ganwyd ef yn 1843. Dechreuodd bregethu yn lled ieuangc, yn 1865. Ni chafodd ond ychydig o fanteision addysg ac amaethiad deallol, a thybiem ei fod o dueddfryd lled wylaidd ac ofnog; ond er pob anfantais, dywedir ei fod yn bregethwr lled dda, ac yn parhau i ennill cymmeradwyaeth yr eglwysi hyd y diwedd. Bu farw Ionawr 11eg, 1877, yn 34ain mlwydd oed, wedi pregethu tua deuddeng mlynedd.

Owen Williams, Nebo, a anwyd tua'r fl. 1847. Dechreuodd bregethu yn 1865. Yr oedd yn ŵyr i William Williams, Rhos-wen—un o hen flaenoriaid Nebo. Yr oedd ganddo allu mawr i dderbyn addysg. Pe cawsai fyw, nid oes ammheuaeth na fuasai yn ddyn dysgedig. Yr oedd yn ŵr ieuangc crefyddol iawn. Pan ofynwyd iddo yn ei afiechyd—'A oedd efe yn gallu gweled ffyrdd Duw yn uniawn?' Attebodd—'Yr wyf yn gobeithio y

codir fi i dir uwch law ystormydd y byd, ac y gallaf eu gweled felly rhyw ddiwrnod, gan adrodd y pennill—

'O fryniau Caersalem ceir gweled.'

Ni chafodd ddigon o amser i ymddadblygu fel pregethwr. Bu farw Hydref 8fed, 1867, yn 20ain oed.

Henry Solomon Ellis, Elim, oedd enedigol o Fangor, ac yn ŵr ieuangc gobeithiol iawn. Bu yn athraw yn Ysgol Frytanaidd Carno, sir Drefaldwyn. Oddi yno, symmudodd fel athraw i Ddwyran, Môn, ac yno y dechreuodd bregethu. Coleddid meddwl uchel iawn am dano yn y Dwyran fel gŵr ieuangc duwiol. Nid yn unig fe obeithid ei fod yn dduwiol, ond credid yn ddiysgog ei fod yn un o'r rhai duwiolaf. Ar symmudiad y Parch. Owen Owens o Elim i Liverpool, dewiswyd ef yn fugail ar eglwys Elim; ac edrychid arno gan Fethodistiaid yr ynys yn un o'r pregethwyr ieuaingc mwyaf gobeithiol. Yr oedd yn ŵr ieuangc o deimlad llednais, ac o brofiad crefyddol dwfn, yr hyn oedd yn ei wneyd yn anwyl iawn gan bawb a'i hadwaenent. Yn ei gystudd olaf, dywedai mai y munydau dedwyddaf a deimlodd erioed oedd y rhai y gallai golli ei ewyllys ei hun yn ewyllys Duw. Bu farw Chwefror 28ain, 1873, yn 28ain mlwydd oed, wedi pregethu am bum mlynedd.

Ebenezer Owen, Bethlehem, a anwyd yn 1847, a dechreuodd bregethu yn 1880. Yr oedd efe yn ŵyr i'r diweddar Barch. Thomas Owen, Llangefni. Aeth i wasanaeth cwmni y *London & North Western Railway* pan yn ieuangc; ac er's tua naw mlynedd yn *station master* yn Rhos-goch. Yr oedd yn dra ymroddgar i grefydd yn ei gwahanol ranau cyn iddo ddechreu pregethu. Ennillodd gymmeradwyaeth cyffredinol fel pregethwr yn y tymmor byr a gafodd. Nid oedd o gyfansoddiad corphorol cryf. Ni chawsom y fraint o'i glywed yn pregethu; ond clywsom ddynion meddylgar yn rhoddi canmoliaeth uchel iddo. Bu yn briod ddwywaith. Pe cawsai fyw, nid oes ammheuaeth na fuasai yn ddyn defnyddiol i eglwys Dduw. Bu farw Mehefin 2il, 1884, yn 37ain mlwydd oed, wedi pregethu am ychydig dros bedair blynedd.

Owen Williams, Capel Coch.—Dylasai y gŵr hwn gael

sylw arno yn y ddegfed bennod, o blegid i'r trydydd cyfnod y perthynai; ond diangodd rywfodd o'n côf. Yr oedd yn ŵr ieuangc nodedig am ei dduwioldeb, o ddoniau melus fel pregethwr, ac o athrylith fel llenor. Buasai yn fyfyriwr yn Athrofa Cheshunt. Disgwylid llawer oddi wrtho. Meddyliai y Parch. J. Elias iddo wneyd athraw coleg i bregethwyr; ond bu farw yn mlodeu ei ddyddiau, a siomwyd gobeithion Methodistiaid Môn.

PENNOD XVII.

PRIF FLAENORIAID Y PUMMED CYFNOD—Y RHAI YDYNT WEDI MEIRW.

Hugh Williams, Bethel, oedd fab i W. Williams, o'r un lle, ac yn flaenor parchus yn Bethel yn y cyfnod blaenorol, ac yn y rhan flaenaf o'r un presennol. Dewiswyd ef yn 1852. Fel dyn, yr oedd o dymmher naturiol lariaidd a charuaidd, ac etto yn bur siriol. Meddai ddylanwad mawr yn yr eglwys, ac yn y Cyfarfod Misol, fel y gellir dywedyd ei fod yn un o brif flaenoriaid y sir yn y rhan gyntaf o'r cyfnod hwn. Anfonid ef yn fynych yn gynnrychiolydd i'r cymdeithasfaoedd, a pherchid ef yno hefyd. Gallwn nodi un peth neillduol, yn yr hwn y rhagorai ar holl flaenoriaid Môn; sef, mewn sêl dros Gronfa y Gweinidogion. Yr oedd genym yn Môn gronfa wedi ei dechreu rai blynyddoedd cyn i Gronfa Siroedd Gogledd Cymru gael ei dechreu. Os ydym yn cofio yn dda, y blaenor hwn oedd un o'r rhai mwyaf selog a gweithgar gyda'i chychwyniad, a pharhaodd felly hyd y diwedd. Bu yn ysgrifenydd iddi o'i dechreuad, ac wedi iddi ymdoddi yn un â Chronfa y Gogledd, hyd ei farwolaeth. Bu amryw o'r blaenoriaid yn weithgar gyda hyn, a'u holl galon yn y gwaith; ond gellir dywedyd am y brawd hwn—'Ti a ragoraist arnynt oll.' Collasom ef yn nghanol ei ddefnyddioldeb—yn ŵr canol oed, pan oeddis yn disgwyl ei wasanaeth am lawer o flynyddoedd; ond

dywedodd y Llywodraethwr Mawr, trwy ei farwolaeth, wrthym—'Nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, na fy ffyrdd i yw eich ffyrdd chwi.' Bu farw yn 1875.

Owen Griffith, Trelywarch, Llanfwrog, a anwyd tua'r fl. 1803. Dewiswyd ef yn flaenor yn eglwys Fethodistaidd Llanfwrog yn 1860. Yr oedd yn ŵr parchus a dylanwadol yn ei gymmydogaeth. Bu yn ffyddlawn yn y cyfnod hwn fel un o'r gwŷr yr ymddiriedai y Cyfarfod Misol ynddynt i arolygu adeiladaeth y capelau. Er mai amaethwr ydoedd wrth ei alwedigaeth, ystyriai y Cyfarfod Misol fod ynddo gymmhwysder i'r gwaith pwysig hwn. Yr oedd yn ŵr o synwyr cyffredin lled gryf, ac yn siriol a charedig. Bu farw Ionawr 9fed, 1877, yn 74ain mlwydd oed.

Roger Evans, Porthaethwy, oedd fab i Thomas Evans, Maes-y-coed, sir Fflint. Yr oedd ei dad yn un o brif flaenoriaid y cyfundeb yn Ngogledd Cymru. Ystyrid ef yn dduwinydd enwog. Ganwyd R. Evans yn y fl. 1810. Daeth i Fôn yn ŵr lled ieuangc, tua'r fl. 1835. Bu yn byw mewn lle o'r enw Ty'n-y-coed, ger Llangefni, am dymmhor. Symmudodd i Borthaethwy. Bu yn llwyddiannus iawn yn ei fasnach, a chasglodd gyfoeth. Yn 1842, dewiswyd ef yn flaenor gan yr eglwys Fethodistaidd yn Mhorthaethwy. Yr oedd wedi ei ddwyn i fyny gan ei rïeni yn grefyddol; ac wedi ei wreiddio yn egwyddorion Methodistiaeth. Bu yn meddwl pregethu pan yn ieuangc, ond tybiodd y gallai wneyd gwell blaenor na phregethwr, a gofynodd i'r Arglwydd ei wneyd yn flaenor; ac fe'i gwrandawodd, ac a'i gwnaeth y blaenor mwyaf gweithgar yn Môn mewn rhan o'r ddau gyfnod olaf. Nid yn yr un rhan o wasanaeth y cyssegr y rhagorai y mab ag y rhagorai y tad. Yn y gwasanaeth ysbrydol y rhagorai y tad; ond yn y gwasanaeth allanol, neu amgylchiadol, y rhagorai y mab. Yr oedd Roger Evans yn ŵr o ddylanwad mawr yn yr eglwys ac yn y Cyfarfod Misol. Y mae yn sicr fod yr holl frodyr y blaenoriaid a'i hadwaenent yn foddlawn i ni ddywedyd iddo ragori arnynt oll mewn gweithgarwch a ffyddlondeb yn nghylch ein Cyfarfod Misol. Gwnaeth wasanaeth mawr i'r cyfundeb, hefyd, fel trysorydd arian eistedd-

leoedd y capelau. Gwnaeth fwy na neb i gymmhell yr eglwysi i dalu dyledion y capelau. Pan oeddym, fel Cyfarfod Misol, yn methu gwybod pa fodd y gallem gasglu yr arian dyledus arnom, mewn trefn i gyfarfod â rhodd anrhydeddus y boneddwr haelionus o Landinam, ymgymmerodd ef â'r gwaith o fyned trwy y cymmydogaethau i gasglu, ac fe'u casglodd, a mwy nag oedd yn ddyledus. Yr ydym ni, y pregethwyr, dan ddyled i gadw ei goffadwriaeth yn barchus o herwydd y gwasanaeth hwn yn neillduol. Bu yn drysorydd y Gymdeithasfa am flynyddoedd lawer. Cydnabyddodd y frawdoliaeth swyddogol ei wasanaeth trwy gyflwyno iddo anerchiad mewn ystramwaith eurog. Bu yn haelionus iawn; yn wir, yn un o'r rhai mwyaf haelionus at achos crefydd yn y sir. Bu efe a Mrs. Evans, ei wraig gyntaf, pan oeddynt yn magu tŷad o blant, yn llettygar iawn i bregethwyr. Pan y byddem yn myned dros yr afon i Arfon, byddai croesaw calon i ni i fyned yno i gael lletty ar nos Sadyrnau. Bu farw mis Gorphenaf, y fl. 1882.

Samuel Dew, Llangefni (wedi hyny Porthaethwy), a anwyd yn Llangefni, yn 1814; ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o lawer o'i oes. Dewiswyd ef yn flaenor gan yr eglwys Fethodistaidd yn Llangefni yn 1850. Cyfreithiwr oedd efe wrth ei alwedigaeth. Fel gwladwr, yr oedd yn ŵr o ddylanwad mawr yn y sir; yn Rhyddfrydwr o ran ei egwyddorion gwleidyddol; ac felly, yr oedd cyssondeb rhwng ei wleidyddiaeth a'i Ymneillduaeth. Fel Cristion a blaenor, meddai ddylanwad mawr yn eglwys Llangefni, ac yn Nghyfarfod Misol Môn. Ystyrid ef yn un o'r prif flaenoriaid yn y cyfnod hwn, ac yn y cyfnod blaenorol. Cafodd ymweliad nerthol iawn wrth wrandaw ar Mr. Moody yn Manchester. Yr oedd yn ddyn cywir, gonest, a di-dderbynwyneb. Anfonid ef yn fynych fel cynnrychiolydd cymdeithasfaoedd, ac nid oedd genym ei gymmhwysach. Bendithiwyd ef âg un o'r gwragedd mwyaf duwiol; sef, merch i'r boneddwr Griffith Davies, Llundain. Symmudodd y teulu hwn o Langefni i Borthaethwy, yn 1879. Galwyd ef yno i wasanaethu swydd blaenor, a bu yn ddefnyddiol yno, fel yn Llangefni, am yr ychydig flynyddoedd y bu efe byw. Yr oedd yn fon-

eddwr ac yn Gristion yn yr holl gylchoedd y byddai yn troi ynddynt. Yr oedd ei dduwioldeb uwch law ammheuaeth. Clywsom ef, rai gweithiau, yn siarad ar faterion crefyddol yn y cyfarfodydd misol yn nerthol ac yn effeithiol iawn; ac yn cael ei orchfygu gan ei deimlad nes y byddai yn methu myned yn mlaen. Merch iddo ef ydyw Mrs. Dr. Roberts, U. H., Porthaethwy. Bu Mrs. Dew farw yn 1883, ac yntau Awst 24ain, 1884, yn 71ain mlwydd oed, wedi gwasanaethu ei swydd am o ddeutu pedair blynedd ar ddeg ar hugain.

Owen Price, Cafnan.—Yn Nghafnan, Cemlyn, y ganwyd ef, tua'r fl. 1801. Mab oedd efe i Richard Price, o'r un lle, yr hwn oedd yn un o flaenoriaid eglwys Fethodistaidd Bethesda, Cemmaes, yn y cyfnod blaenorol. Fel ei dad o'i flaen, yr oedd Owen Price mewn amgylchiadau bydol cysurus—yn *gentleman farmer*. Yr oedd yn hardd o berson—yn un o'r dynion mwyaf prydweddol o fewn Ynys Môn, ac unrhyw ynys arall. Yr oedd hefyd yn hardd o foes, fel o berson—yn ŵr boneddig yn ei ymddygiadau, ac yn barchus yn yr holl gylch y troai ynddo. O ran galluoedd meddyliol yr oedd yn mysg y dosbarth blaenaf o henuriaid Methodistaidd yn Môn yn y cyfnod hwn; ac o ran ei dueddfryd naturiol, yn addfwyn, tyner, caredig, a llednais; ond y mae yn rhaid dywedyd nad oedd efe yn mysg dosbarth mwyaf gweithgar y cyfnod. Yr ydym yn ammheu y gellir dywedyd am dano ef, fel am y wraig hono yn yr efengyl, 'yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth.' Yn sicr, gallasai wneyd rhagor; a disgwylid gan Dduw, a chan yr eglwys, iddo wneyd rhagor. Dewiswyd ef yn lled foreu yn flaenor gan eglwys Bethesda, a buasai yn bur ddi-lygad pe na wnaethai. Bu yn dra hwyrfrydig i ddyfod i'r Cyfarfod Misol. Os ydym yn cofio yn dda, bu raid i'r Parch. William Roberts, Amlwch, yn Nghyfarfod Misol Cemmaes, ddefnyddio un o'i ystrywiau diniwed mewn trefn i'w dderbyn ef. Nid ydym yn dywedyd nad oedd efe yn gweithio yn ei eglwys gartref, ac yn y sir; ond dywedyd yr ydym y dylasai fod yn arweinydd yn yr eglwys gartref, ac yn arweinydd i'w gyd-henuriaid llywodraethol yn y Cyfarfod Misol. Yn sicr, yr oedd yn fwy galluog ei feddwl na Roger Evans;

ond nid oedd mor weithgar ac ymroddgar yn nghylch y Cyfarfod Misol âg ef. Yr oedd Owen a Mrs. Price yn llettygar, ac yn haelionus dros ben. Nid adwaenem yr un teulu o fewn y sir yn fwy caredig i'r tlodion, cleifion, a'r methiantus. Gallasai Mrs. Price ddywedyd—Mam 'oeddwn i'r anghenog, a'r cŵyn ni wyddwn a chwiliwn allan.' Byddai teulu Cafnan yn cyfranu i bregethwyr ieuaingc yn yr Athrofa, a byddai croesaw iddynt fyned yno yn y gŵyliau, a byddai amrŷw yn derbyn y croesaw. Bu ef, gyda Hugh Hughes, Cefn mawr; Richard Williams, Cleifiog; ac Owen Griffith, Tre lywarch, Llanfwrog, yn ffyddlawn gyda'r gwaith o arolygu adeiladaeth y capelau am rai blynyddoedd. Bu farw Ionawr 4ydd, 1875, yn 71ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llanfechell, ar y 7fed o'r un mis. Bu Mrs. Price farw Ebrill 17eg, 1881, yn 74ain mlwydd oed.

Richard Williams, Cleifiog, oedd flaenor dylanwadol yn y Cyfarfod Misol yn y rhan olaf o'r pedwerydd cyfnod. Yr oedd yn ŵr o gyfoeth, ac yn sicr, o synwyr cryf. Yr oedd yn un o'r gwŷr yr ymddiriedid arolygu adeiladaeth y capelau iddynt. Yn y cyfnod blaenorol, bu yn swyddog yn Modedern ac yn Tabor; ac yn garedig i Fethodistiaeth yn ei gymmydogaeth. Credwn na fyddai efe yn dilyn y cyfarfodydd misol ond yn anaml, wedi iddo droi yn Geidwadwr gwleidyddol gyda'i feistr tir; a phan y deuai, ymddangosai i ni yn lled yswil, o blegid gwyddai yn eithaf da mai Rhyddfrydwyr egwyddorol ydoedd corph mawr Cyfarfod Misol Môn, a'u bod yn ystyried Ymneillduaeth a Cheidwadaeth yr oes hon yn hollol anghysson â'u gilydd. Bu farw yn 1876.

William Jones, Shop Uchaf, Llanfair P. G., a anwyd tua'r fl. 1822. Dewiswyd ef yn flaenor gan yr eglwys Fethodistaidd yn Llanfair, yn 1852. Fel dyn, yr oedd o natur danbaid a selog; ond yn llawn tynerwch a charedigrwydd. Credwn nad oedd ei dduwiolach yn aelod o Gyfarfod Misol Môn. Fel swyddog, nid oedd ei ragorach mewn sêl a ffyddlondeb. Fel dirwestwr, nid oedd ei gywirach, na'r un mwy selog yn yr holl ynys nag ef. Byddai ei sêl a'i eiddigedd yn ei ysu, weithiau, nes y dywedai rai pethau eithafol yn y Cyfarfod Misol. Fel

Methodist, un o'r hen ysgol ydoedd yntau. Carai Fethodistiaeth fel yr oedd hi yn nyddiau ei hieuengctid. Y mae hyn yn hollol naturiol i ddyn, ond edrych yn ol ac yn mlaen. Dyma yw y ddynoliaeth yn y cyffredin wedi cyrhaedd i ryw oedran, yn hoffach o hen bethau nag o bethau newydd; ac yn y cyffredin, yn ei hieuengctid, hoffach o bethau newydd nag o bethau hen. Y mae rhai yn gallu ymgodi uwch law y gwendid hwn. Y mae yn sicr mai math o wendid ydyw gor-hoffi pethau o herwydd eu hoedran, yn hytrach nag o herwydd eu gwir deilyngdod hwy eu hunain, yn annibynol ar eu hoed. Y mae rhai yn ddigon mawr i allu ymysgwyd oddi wrth hyn, a gwerthfawrogi pob peth yn ol ei wir deilyngdod, heb gymmeryd i ystyriaeth ei henaint na'i newydd-deb. Yr oedd William Jones, yn ol ein barn ni, yn hoffi hynafiaeth ynddo ei hun. Nid adwaenem flaenor yn caru gweinidogion yr efengyl yn fwy nag efe; carai hwynt yn ddiragrith, a pharchai hwynt o herwydd eu bod yn weinidogion i Grist. Cyfrifai yn anrhydedd iddo gael gwneyd unrhyw wasanaeth i achos y Gwaredwr, yr hyn, yn sicr, a godai oddi ar gariad at y Person Mawr ei hun. Meddai gymmhwysder arbenig i holi plant. Cofus genym ei glywed unwaith yn y Gaerwen, yn yr awyr agored, yn eu holi ar hanes Iesu Grist. Yr oedd yn ddoniol, ac yn fuddiol, nid yn unig i'r plant, ond hefyd i'r bobl oedd mewn oed yn gwrandaw arnynt. Gallem feddwl y byddai yn dda ac yn effeithiol yn y cyfarfodydd eglwysig weithiau. Bu farw ein hanwyl frawd, a'n hen gyfaill, Awst 15fed, 1883, yn 61ain mlwydd oed.

John Hughes, Llyslew, Brynsiencyn, a aned tua'r fl. 1830. Mab ydoedd i William Jones, o'r un lle, yr hwn oedd yn swyddog parchus yn yr eglwys Fethodistaidd yn Brynsiencyn, yn y blynyddoedd olaf o'r pedwerydd cyfnod, a'r rhai blaenaf o'r pummed. Dewiswyd John Hughes yn flaenor yn eglwys y Bryn yn 1864. Yr oedd y brawd hwn, fel ei dad, yn un o'r dynion tyneraf a charedicaf. Yr oedd rhyw ddiofalwch naturiol yn perthyn iddo gyda chrefydd a chyda'r byd hwn. Nid oedd yn ddyn cryno, destlus, a manwl; ond yn hytrach, yn aflêr a diofal. Gallem nodi lliaws o enghreifftiau i

ddangos hyn. Nodwn un yn unig:—Pennodwyd ef gan y Cyfarfod Misol i ysgrifenu at weinidogion dyeithr i'w gwahodd i ddyfod trwy y sir i bregethu yr efengyl. Gwnaeth yn ol y penderfyniad at un, ond ni wnaeth at y llall. Ymddengys ei fod yn debyg gyda phethau y byd hwn. Ai tybed nad oedd y dyn o fewn yn lled debyg i'r dyn oddi allan? Yr oedd llacrwydd a bonglerwch yn ei ymddangosiad allanol, a chredwn fod hyn yn ddangoseg o'r mewnol ynddo ef. Tybiem fod hyn yn rhoddi cyfrif am rai pethau yn ei ymddygiadau y buasai yn dda pe na fuasent ynddynt. Credwn yn ddiysgog yn nghywirdeb a gonestrwydd ei egwyddor, er nas gallwn gyfiawnhau ei holl ymddygiadau. Fel dyn galluog o feddwl, nid adwaenem neb yn mysg blaenoriaid Môn o'i flaen. Yr oedd o feddwl athronaidd, a'r pregethau mwyaf athronaidd yn ystyr oreu y gair a fwynhäai efe fwyaf. Credwn y buasai yn gwneyd pregethwr gwell na blaenor, ac nid pregethwr cyffredin a fuasai efe, yn sicr; yn hytrach, pe cawsai addysg athrofäol, fel a roddir i bregethwyr yr oes hon, a phe yr ymroddasai yntau i'r weinidogaeth, y buasai yn sefyll yn mysg y dosbarth blaenaf. Y mawreddog a'r dwfn oeddynt neillduolion ei feddwl, ac nid y tlws a'r prydferth. Nid rhagoriaethau yr ardd a'r dyffryn prydferth oedd ei ragoriaethau meddyliol; ond rhagoriaethau y mynydd uchel ac ysgythrog. Gellir dywedyd ei fod yn barchus iawn yn y Cyfarfod Misol, yn cael ei anfon yn fynych yn gynnrychiolydd i'r cymdeithasfaoedd, ac yn cael ei weled a'i werthfawrogi yno. Nid oedd ar ol i neb yn Môn mewn teyrngarwch (*loyalty*) i'r cyfundeb. Prif faes ei ddefnyddioldeb oedd yr Ysgol Sabbothol. Ni fu neb yn Môn yn fwy gweithgar gyda'r cyfarfodydd chwech-wythnosol a blynyddol nag ef. Holl gynlluniau y cyfnod hwn i wobrwyo am lafur oeddynt yn fwy o gynnyrchion ei feddwl ef nag unrhyw feddwl arall. Rhoddai yn haelionus tuag at weithio y cynlluniau hyny allan; a dadleuai yn hyawdl yn y Cyfarfod Misol am gymmhorth arianol i'r un amcan. Y golled fwyaf a gafodd Ysgolion Sabbothol Môn yn y cyfnod hwn, yn yr ystyr yma, oedd colli y blaenor galluog hwn. Bu farw Rhagfyr 29ain, 1886, yn 56ain mlwydd oed.

PENNOD XVIII.

GWEINIDOGION Y PUMMED CYFNOD.—Y RHAI YDYNT YN FYW.

Teimlwn ein bod, wrth ddechreu y bennod hon, yn cychwyn ar daith beryglus iawn; o blegid nid yw y ffordd yn uniawn, eithr yn dröellog ac anwastad; weithiau i fyny ac weithiau i lawr, ac yn dra charegog, yn ol pob ymddangosiad. Ofnwn anfoddhau ein hunain yn fwy na'r brodyr y bydd a fynom â hwynt. Buom am amser yn methu penderfynu pa un a ymgymmerem â'r daith hon ai ni wnaem; ac wedi penderfynu ymgymmeryd â hi, buom yn cloffi rhwng dau feddwl, pa un ai ceisio ei cherdded ar draed a wnaem, ai ynte marchogaeth ar ysgwyddau rhai brodyr yn y weinidogaeth, ac ymddiried ynddynt hwy y buasent yn ein dwyn yn ddiogel i ben y daith, heb i ni daraw ein troed wrth gareg. Llawer o ddiolch i'r brodyr oeddynt yn barod i wneyd y gymmwynas hon â ni. Ond ofni a wnaethom na buasent yn ddigon gofalus i droi gyda'r troadau heb fyned i'r clawdd, a myned heibio i'r ceryg heb syrthio ar eu traws, a thrwy hyny glwyfo eu hunain, eraill, a ninnau. Fe allai y barna rhai y buasai yn well i ni beidio cyffwrdd â'r gweinidogion byw, o blegid amryw resymau nas gallwn eu nodi yma. Buom ninnau yn meddwl felly unwaith; ond wedi ail feddwl, tybiasom y buasai mwy o ddiffygion yn *Methodistiaeth Môn* nag sydd ynddo pe na fuasai y bennod hon ynddo; ac y buasai yr oes a ddêl yn cwyno o herwydd ei habsennoldeb. Ceisiwn ein goreu fyned trwyddi mor ddidramgwydd i bawb ag y gallwn; ac etto, bod yn onest ac yn gywir. Nid ydym yn bwriadu ysgrifenu ond ychydig linellau, hyd yn oed am y brodyr mwyaf cyhoeddus ac adnabyddus i ni. Y mae yn Môn rai gweinidogion na chlywsom hwynt erioed yn pregethu; ac felly, nis gallwn nodi prif linellau eu cymmeriad fel pregethwyr. Hefyd, nid ydym, yn y bennod hon, yn dwyn neb i fewn ond sydd yn byw yn Môn yn bresennol. Ceir hanes y gweinidogion y mae a fynom

â hwynt yn y bennod hon yn dechreu pregethu, a'u hordeiniad, yn hanes yr eglwysi lle yr oeddynt ar y pryd. Dechreuwn fel y ceir hwynt yn y *Dyddiadur*:—

Y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, ydyw y cyntaf ar y rhestr. Efe yw yr hynaf yn ein mysg fel dyn, ac fel gweinidog—wedi ei ordeinio er's pedair a deugain o flynyddoedd, ac wedi bod yn pregethu am yn agos i drigain mlynedd. Fel y crybwyllasom yn y bennod flaenorol, bu yn arweinydd doeth i Fethodistiaeth Môn, wedi i'w ewythr enwog, y Parch. W. Roberts, Amlwch, fyned i orphwys oddi wrth ei lafur. Fel pregethwr, y mae yn efengylydd—yn pregethu 'Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio,' yn Waredwr i fyd colledig, yn effeithiol. Y mae hefyd yn Foanerges—'mab y daran.' Nid bob amser y ceir yr efengylydd a'r Boanerges yn yr un pregethwr, ond ceir y ddau i raddau helaeth ynddo ef. Bydd yn cyhoeddi gwaeau Duw yn erbyn yr annuwiol yn rymus ar brydiau. Hefyd, y mae efe yn Farnabas—'mab diddanwch'—yn diddanu y saint yn eu trallodion. Bydd yn pregethu dyledswyddau, gan eu cymmhell ar ei wrandawyr yn fynych.

Y Parch. Ebenezer Evans, Bodedern, sydd bregethwr sylweddol a duwinyddol—y bregeth yn well na'r traddodiad. Ceir un dosbarth o bregethwyr â chyfansoddiad eu pregethau yn well na'u traddodiad, a dosbarth arall â'r traddodiad yn well na'r cyfansoddiadau; ac i'r dosbarth cyntaf y perthyna y brawd hwn, yn ol ein barn ostyngedig ni. Y mae efe wedi treulio bywyd llafurus hyd yma. Nis gŵyr beth yw diogi. Y mae efe wedi gwneyd ei oreu gyda'r ddau fyd. Gwasanaethodd Fethodistiaeth yn Modedern yn dda, ac ystyried ei drafferthion bydol, a hyny yn rhad. Y mae yn bur debyg mai wedi ei golli y gwêl eglwys Bodedern ei wir werth. Y mae ef a Mrs. Evans yn llettygar i bregethwyr—eu tŷ yn agored bob amser iddynt.

Y Parch. David Roberts, Tyddyn Saddler, Gwalchmai.—Wedi iddo ddychwelyd o'r Bala, daeth yn bregethwr cymmeradwy yn lled fuan. Cofus genym iddo gael ambell bregeth rymus a nerthol mewn rhai cyfarfodydd misol. Teimlai rhai y pryd hwnw y byddai y bregeth

weithiau yn cael ei hamgylchu â thipyn o niwl; ond er hyny, byddai y bregeth niwlog cyn y diwedd 'yn dyferu fel gwlith ar irwellt, ac fel cawodydd ar laswellt.' Y mae gwên y pregethwr hwn yn boddhau y gwrandawyr pan y bydd cymmylau a thywyllwch o amgylch y bregeth. Credwn fod ganddo allu neillduol i gadw cyfarfodydd eglwysig. Nid oes ond dau bregethwr yn y sir hynach nag ef. Bu yn byw yn Elim am rai blynyddoedd, a bu yn dra defnyddiol yno. Trwy ei ymdrech ef yr adeiladwyd y capel presennol. Yn awr, y mae yn aelod o eglwys Gwalchmai, ac yn ddefnyddiol yno. Edrychwn arno fel un o'n cyfoedion, a charem iddo gael aros yma cyhyd a ninnau.

Y Parch. Joseph Jones, Porthaethwy, oedd mor rwydd yn ei Saesneg ag ydoedd yn ei Gymraeg, os nad yn rhwyddach; ac yn bregethwr galluog yn y ddwy iaith. Yr oedd yn ddyn cyflawn, a pharod bob amser at unrhyw orchwyl perthynol i deyrnas y Gwaredwr. Yr oedd yn alluog fel gwleidyddwr, yn Rhyddfrydwr egwyddorol, ac yn areithio o blaid Rhyddfrydiaeth. Fe allai fod rhyw ddarllenydd yn barod i ofyn, paham yr ydym yn defnyddio yr amser a aeth heibio wrth ysgrifenu am dano ef rhagor y brodyr eraill? Yr achos ydyw ei fod wedi ei analluogi er's rhai blynyddoedd i bregethu gan y parlys, yr hyn a fu yn golled fawr i Fethodistiaeth, ac yn enwedig i'r eglwysi Seisnig. Yr oedd y gweinidog hwn yn dra henaduriaethol ei olygiad ar drefn eglwysig.

Y Parch. John Richard Hughes, Brynteg, sydd bregethwr o ddifrif. Cymmeriad uchel i weinidog yr efengyl yw ei fod yn gallu argyhoeddi ei wrandawyr ei fod o ddifrif. Bydd y gweinidog hwn yn gwneyd hyn â ni. Byddwn yn teimlo, y rhan fynychaf o lawer, fod tuedd dda a chyfeiriadol yn ei bregethau; a chredir mai dyma yw teimlad y cynnulleidfaoedd yn y cyffredin. Efe yw y dirwestwr mwyaf selog yn ein mysg fel gweinidogion. Credwn mai efe, fel offeryn, a roddodd gychwyniad i'r Parch. Richard Owen yn y cyfeiriad a gymmerodd. Bu y ddau, ar y dechreu, gyda'u gilydd; ond ymadawsant oddi wrth eu gilydd yn y Deheudir, fel y gwnaeth Paul a Barnabas yn Antiochia o'u blaen. Nid ydym yn awgrymu fod dim

anghydwelediad rhwng y ddau frawd yn yr achos o'u hymwahaniad. Gwanaidd ei iechyd ydyw ein hanwyl frawd yn y blynyddoedd hyn.

Y Parch. WILLIAM ROBERTS, Tŷ mawr, sydd weinidog na chawsom gyfleusdra i wrandaw arno yn pregethu; o ganlyniad, nis gallwn roddi un math o ddisgrifiad o hono fel pregethwr.

Y Parch. JOHN WILLIAMS, Llangefni, sydd bregethwr Ysgrythyrol a chyfeiriadol at gydwybodau ei wrandawyr. Y mae yn siaradwr clir, yn meddu iaith dda, ac yn pregethu yn nerthol a grymus iawn ar brydiau. Efe yw ysgrifenydd y Cyfarfod Misol er pan y bu y Parch. Ebenezer Davies farw; ac y mae yn dra chymmeradwy fel pregethwr gan holl gynnulleidfaoedd Môn.

Y Parch. DAVID CHARLES EVANS, Porthaethwy, sydd yn bregethwr doniol ac effeithiol. Y mae yn siaradwr rhwydd, ac yn lleisiwr lled dda, yr hyn sydd yn fanteisiol i bregethwr, ac i'r gwrandawyr. Pan y daeth o America, cafodd alwad gan eglwys barchus Rehoboth, Treffynnon, i'w bugeilio. Y mae y gweinidog hwn yn fedrus gyda'i ysgrifbin, yn gystal a chyda'i dafod—ysgrifenodd gyfrol hardd a dyddorol, yr hon a elwir '*Adgofion o'r Parch. David Jones, Treborth,*' ei dad-yn-nghyfraith. Y mae efe, ynghyd â'r Parch. W. Pritchard, Pentraeth, yn olygwyr y *Llusern*—misolyn perthynol i'r Ysgolion Sabbothol.

Y Parch. WILLIAM HUGHES, Tabernacl, sydd bregethwr nas gallwn ei ddisgrifio; o blegid ni chawsom y fraint o wrawdaw arno yn pregethu. Dechreuodd bregethu yn Awstralia, ac ordeiniwyd ef yn Nghyfarfod Misol Môn, yn Llanfaethlu, yn 1863, pan oedd yma ar ymweliad. Clywsom gan rai oedd yn Awstralia gydag ef ei fod yn ddyn da, ac yn caru gwneyd daioni i'w gydgenedl yno.

Y Parch. JOHN ROBERTS, Tai hen, sydd bregethwr yn meddu cymmaint o wreiddioldeb a'r un gweinidog yn Môn, os nad mwy. Y mae ganddo ddull o feddwl, ac o ddywedyd ei feddwl, ar ei ben ei hun. Byddwn yn caru gwrandaw arno yn pregethu; o blegid byddwn yn teimlo fod rhyw newydd-deb (*freshness*) yn ei feddyliau, ac yn ei ddull o'u dyweyd, na cheir ef ond mewn ychydig bregethwyr. Ystyrir y gweinidog hwn gan y dosbarth mwyaf

meddylgar yn un o bregethwyr goreu y sir. Bydd weithiau yn defnyddio geiriau lled gyffredin—megys, 'dallt' a 'rhwsyt;' ond ni fyddant yn tynu dim oddi wrtho.

Y Parch. Richard Owen, Pen-y-garnedd, sydd bregethwr nas gallwn alw i'n côf i ni erioed ddigwydd ei glywed yn pregethu; ac felly, nid oes genym farn am dano fel pregethwr. Ystyrid ef, flynyddoedd yn ol, yn un o'r holwyddorwyr goreu yn Môn, os nad y goreu; ac y mae hyn yn peri i ni gredu fod ganddo allu meddyliol lled gryf. Y mae ei hanes gartref yn profi ei fod yn weithiwr, ac nid segurwr.

Y Parch. Owen Hughes, Caergybi, sydd weinidog a glywsom yn pregethu unwaith; ac yr oeddym yn tybied ar y pryd ei fod yn pregethu yn gymmeradwy. Nid ydym yn ddigon rhyfygus i geisio dadansoddi cymmeriad pregethwr pan nad ydym wedi ei glywed ond unwaith. Clywsom gan eraill fod ei bregeth yn gyffredin yn well na'i thraddodiad; ac nid ydym yn synu at hyny.

Y Parch. Simon A. Frazer, Rhoscolyn, sydd bregethwr pur boblogaidd. Y mae ganddo ymddangosiad allanol ffafriol, llais da, a digon o hono, a phregeth dda; a phan y caiff hwyl, bydd yn nerthol ac effeithiol iawn. Buom ar daith gydag ef trwy sir Aberteifi; a chofiwn yn hir am aml oedfa a gafodd ar y daith hono, ac yn enwedig un yn Nghymdeithasfa Aberaeron. Wedi iddo orphen pregethu ar y maes yn Nghymdeithasfa y Deheudir yn ddiweddar, daeth amryw o frodyr yn y weinidogaeth atom, gan ddyweyd—'*He is a splendid preacher.*' Y mae y gweinidog hwn yn ffyddlawn i ddilyn y Cyfarfod Misol, ac yn llenwi lle pwysig ynddo.

Y Parch. William G. Owen, Caergybi, sydd yn gwasanaethu yr achos Saesnig. Nis gall efe bregethu yn yr iaith Gymraeg, ac ni chlywsom ef erioed yn pregethu; ac felly, nis gallwn ddywedyd dim, ond i ni glywed ei fod yn bregethwr cymmeradwy gan y Saeson.

Y Parch. William Jones, Tyddyn Watcyn, sydd weinidog arall yn ein mysg ag y teimlwn ein hanallu i roddi unrhyw ddisgrifiad o hono, o blegid unwaith y clywsom ef, ac y mae blynyddoedd er hyny; ac ar y pryd, nid oeddym yn meddwl y buasai yn ofynol i ni ffurfio unrhyw

farn am dano fel pregethwr. Y mae yn weinidog cymmeradwy.

Y Parch. John Williams, Amlwch, sydd bregethwr galluog; yn gyfansoddwr coeth a manwl. Ystyrir ef yn bregethwr meddylgar gan y gwrandawyr goreu. Yn ei draddodiad y mae ei ddiffyg, ac nid yn ei bregeth, a hwnw yn cael ei achosi gan ddiffyg clyw.

Y Parch. Richard Williams, Gosen, sydd bregethwr cymmeradwy, a dyn cariadus iawn. Y mae holl Fethodistiaid Môn yn dra hoff o hono; a gallu gwerthfawr mewn pregethwr yw y gallu i fyned i mewn i fynwes dynion—peri i ddynion ei garu; ac fe wna hyn y bregeth iddynt hwy yn well nag y bydd hi mewn gwirionedd. Teimlwn yn anhawdd ffurfio barn foddhaol i ni ein hunain am ei allu pregethwrol; o ganlyniad, ni cheisiwn wneyd.

Y Parch. William R. Jones (*Goleufryn*), Caergybi, sydd bregethwr a welodd lawer mwy o'r hen ddaear yma nag a welodd y rhan fwyaf o'i frodyr yn y weinidogaeth yn Môn. Talodd ymweliad â gwlad Canaan, ac âg America—croesodd y Mynyddoedd Creigiog i Galiffornia. Ystyrir ef yn llenor gwych. Fel awdwr, ysgrifenodd esboniad rhagorol ar Lyfr y Barnwyr, ac aml erthygl ddoniol i'r cyhoeddiadau wythnosol a misol. Fel pregethwr, ystyrir ef yn wir alluog. Yn ei bregethau, y mae yn hoffi dwyn i'r golwg egwyddorion sydd yn gorwedd ac yn llechu mewn hanesiaeth Ysgrythyrol—megys, Jacob yn Peniel, Pedr yn gwadu, ac yn wylo yn chwerw dost, a Thomas yn nacau credu, &c. Y mae ei draddodiad yn llithrig, neu fel afon yn rhedeg heb gyfarfod â rhwystrau, ac heb ddisgyniadau ar ei ffordd; ac felly, ni cheir rhaiadrau cynnhyrfus, ond afon yn rhedeg yn lled ddidwrw, ac etto yn lled gyflym.

Y Parch. Joseph Hillier, Beaumaris, sydd bregethwr a glywsom yn pregethu unwaith, ac yn agor mater yn y Cyfarfod Misol yn ddeheuig, ac yn dra buddiol. Bu y gweinidog hwn yn cadw Ysgol Rammadegol yn Nghroesoswallt cyn iddo ddyfod i Fôn. Gellir dyweyd ei fod yn lled gyflawn mewn gwybodaeth gyffredinol, ac o ymddangosiad ac ymddygiad boneddigaidd, ac yn bregethwr cymmeradwy yn y ddwy iaith.

Y Parch. JOHN WILLIAMS, Dwyran, sydd bregethwr yn meddu llawer o naturioldeb. Y mae yn dechreu yn lled hamddenol, gan siarad y rhan flaenaf o'i bregeth fel pe byddai yn siarad yn y tŷ; ond fel y bydd yn myned yn mlaen, bydd yn twymno, ac yn rhoddi bloedd lled dreiddgar yn awr ac yn y man o hyny i'r diwedd. Y mae ei bregethau yn y cyffredin yn meddu tuedd ymarferol dda. Credwn y ceir llawer o wir athroniaeth naturiol heb ffurf athronyddol yn ei bregethau. Byddwn yn teimlo wrth ei wrandaw ei fod yn deall beth yw amcan pregethu, a pha fodd i gyrhaedd yr amcan cystal a'r un o'i frodyr.

Y Parch. R. CHARLES JONES, Llanfair P. G., sydd newydd ddyfod i Fôn; ac nid oes genym ond dymuno pob llwyddiant iddo wedi iddo ddyfod i'n plith.

Y Parch. HUGH WILLIAMS, Gwalchmai, sydd bregethwr a glywsom yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu; ac felly, nis gallwn ddywedyd ein bod wedi ffurfio barn i ni ein hunain am ei gymmeriad pregethwrol; ond ein syniad, a syniad y cyffredin ydyw, ei fod ef yn bregethwr cymmeradwy. Clywsom frodyr mewn gwahanol fanau yn canmawl ei bregethau.

Y Parch. ROBERT EDWARDS, Llanfechell, sydd un arall na chawsom gyfleusdra i wrandaw arno erioed; ond yr ydym yn ei adnabod fel dyn da, gweithgar, a ffyddlawn. Cred pawb am dano ag sydd yn ei adnabod ydyw, y dywed ei Feistr wrtho rhyw ddiwrnod—'Da was, da a ffyddlawn.' Y mae lle i ofni na ddywed felly wrth bob pregethwr a ystyrir yn fawr gan ddynion.

Y Parch. WILLIAM JONES, Niwbwrch, sydd bregethwr etto na chawsom y ffafr o'i glywed yn pregethu; ond adwaenem ef fel dyn yn meddu llawer o allu cyn iddo ddechreu pregethu. Ein barn, cyn ei glywed, ydyw ei fod yn bregethwr call, cryno, a destlus.

Y Parch. RICHARD JONES, Nebo, sydd yn bregethwr gwir dda. Y mae ôl llafur ar ei bregethau; ac y mae yn draddodwr rhwydd. Siarada yn bwyllog, ei lais yn ystwyth, a swynol. Ei berygl ydyw bod yn rhy undonyddol o'r dechreu i'r diwedd. Dyma ein barn; ond fe allai ein bod yn gyfeiliornus. Y mae llawer o annibyniaeth meddwl yn perthyn i'r gweinidog hwn.

Y Parch. William Pritchard, Pentraeth, a ystyrir yn llenor gwych, ac yn ffûg-chwedleuwr o radd uchel. Cyfansoddodd rai llyfrau; ac yn eu plith, *Gofiant y Parch. Ebenezer Davies, Llanerchymedd.* Ystyrir ef yn bregethwr meddylgar a sylweddol gan ddynion y mae genym feddwl o'u barn—ei bregeth o gynlluniad da, ac yn llawn o fater. Y mae yn ddrwg genym na chawsom erioed y fraint o wrandaw arno yn pregethu.

Y Parch. John V. Williams, Llanrhyddlad, a glywsom yn pregethu tua thair gwaith; a gadawodd argraph ar ein meddwl ar y pryd fod ganddo ddawn naturiol i bregethu. Nid pob un ag sydd yn ceisio pregethu sydd yn argyhoeddi ei wrandawyr fod ganddo hyd yn oed y cymmhwysder naturiol at y gwaith, heb sôn am y cymmhwysder ysbrydol. Y mae y ddawn hon oddi wrth Dduw.

Y Parch. J. R. Jones, Llangristiolus, a ddaeth i Fôn yn lled ddiweddar; ac ni chlywsom ef yn pregethu ond unwaith neu ddwy; a'r argraph sydd ar ein meddwl ydyw, ei fod fel pregethwr yn meddu mwy o allu na llawer.

Y Parch. Owen Williams, Bethel, un arall nas gallwn ddyweyd dim am dano; o blegid na ddigwyddodd i ni gael cyfleusdra i'w wrandaw. Bydd yn siarad yn ddylanwadol iawn yn y Cyfarfod Misol ar brydiau.

Y Parch. Owen Parry, Cefn bach, sydd bregethwr meddylgar a sylweddol, ac yn debyg o wella fel y daw yn mlaen mewn dyddiau. Y mae yn ŵr o farn yn y Cyfarfod Misol.

Y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, sydd ddyn cyflawn. Efe yw ystadegydd y sir yn y blynyddoedd hyn, a byddai yn anhawdd cael ei well. Ychydig o fanteision a gawsom i wrandaw arno yntau yn pregethu; ond yr argraph a adawodd ar ein meddwl yr ychydig droion y clywsom ef ydyw ei fod yn bregethwr meddylgar a manwl iawn, ac y gwnai fugail da.

Y Parch. John Owen, Dublin, sydd genhadwr perthynol i'r Gymdeithas Genhadol Gartrefol, ac yn llafurio yn benaf gyda'r morwyr Cymreig yn y ddinas hono, ac yn dyfod i Fôn Sabbath neu ddau yn y mis. Ni chlywsom ef erioed yn pregethu; ac felly, nis gall fod genym unrhyw farn am dano ef.

Y Parch. JOHN WILLIAMS, Brynsiencyn, fel pregethwr, a fedd gyfuniad o ddoniau gweinidogaethol. Y mae ganddo ymddangosiad personol ffafriol, pregeth yn llawn o sylwedd, duwinyddiaeth iachus, wedi ei chyfansoddi yn gelfyddgar, wedi ei phrydferthu âg ambell flodeuyn tlws ei olwg a pheraidd ei arogl, a'i hegluro trwy gyfrwng ambell hanesyn tarawiadol. Gellir disgwyl y bydd y pregethwr hwn, os câ fywyd ac iechyd, ac os parhâ mewn llafur meddyliol, yn un o golofnau Methodistiaeth, nid yn unig yn Môn, ond hefyd yn Nghymru.

Y Parch. WILLIAM ROBERTS, Bethlehem, Careg-lefn, sydd bregethwr lled ieuangc, ac ar ei ben ei hun. Nid yw yn debyg i neb—ar ei ben ei hun yn ei ddull o feddwl, ac yn ei ddull o draddodi. Nid ydym yn meddwl y gellir dywedyd uwch ben ei feddyliau, 'O ddyfnder!' ond gellir dywedyd, 'O naturioldeb!' Nis gellir dywedyd uwch ben ei draddodiad, 'O hyawdledd!' ond gellir dywedyd, 'O symledd!'

Y Parch. HUGH JONES, Bryn du, sydd bregethwr cymmeradwy gan y sir; ond ychydig o weithiau y clywsom ef—rhy ychydig i ni allu ffurfio barn foddhaol i ni ein hunain am ei gymmeriad fel pregethwr.

Y Parch. MORRIS OWEN JONES, Porthaethwy, sydd bregethwr call, chwaethus, a buddiol, ac yn anwyl gan Fethodistiaid Môn. Os câ fywyd ac iechyd, gwna fugail defnyddiol i eglwys y Porthaethwy, a phregethwr da i'r holl sir.

Y Parch. T. T. L. MORGAN, Beaumaris, sydd yn gwasanaethu yr eglwys Saesnig yn mhrif dref y sir. Ni chawsom etto gyfle i wrandaw arno yn pregethu; ond deallwn ei fod yn gymmeradwy gan y gynnulleidfa Seisnig yn Beaumaris.

Y Parch. JOHN THOMAS, Aberffraw, sydd newydd ddyfod i Fôn; ac felly, nid oes genym ond dymuno pob llwyddiant a chysur iddo yn ein plith. Yr oedd y brawd hwn yn llawn o ysbryd cenhadol pan oedd efe yn fyfyriwr yn y Bala.

Y Parch. THOMAS JOHN JONES LEWIS, B.A., Llangefni, sydd bregethwr ieuangc dysgedig—yr Hebreigwr goreu o ddigon yn mysg gweinidogion Methodistaidd Môn; a

chredwn ei fod yn mysg goreuon y cyfundeb yn y gangen hon o ddysgeidiaeth. Er ei holl ddysg, y mae yn amcanu at yr ymarferol a'r buddiol yn ei bregethau. O herwydd sefyllfa ei iechyd, bu raid iddo adael Môn, a myned i hinsawdd gynnesach yn America. Gobeithiwn y cawn ei weled wedi dychwelyd gartref mewn iechyd a nerth.

Y Parch. Hugh Pritchard, Hebron, sydd bregethwr wedi ei greu yn nghyflawnder ei faintioli, ac nid wedi ei eni yn faban o bregethwr, ac yn mhen amser wedi tyfu yn ddyn. Nid cyfeirio yr ydym at ei oedran pan y dechreuodd bregethu, ond at aeddfedrwydd ei feddwl. Dywedir am Moses mai 'wedi iddo ddyfod yn fawr' y dechreuodd ar brif waith ei oes; felly y brawd hwn, wedi iddo ddyfod yn fawr—at fesur oedran cyflawnder synwyr, gwybodaeth, a phrofiad, y dechreuodd yntau ar ei brif waith. Cawsom y fraint o wrandaw arno yn pregethu unwaith, a chawsom y fath foddhâd fel y tybiasom ar y pryd y dylasai ddechreu pregethu cyn iddo ddyfod mor fawr. Y mae y gweinidog hwn yn feddiannol ar gyfuniad o gymmhwysderau bugeiliol.—Ysgrifenasem y nodiadau hyn ychydig o ddyddiau cyn marwolaeth ein hanwyl frawd. Yr oeddym yn meddwl ar y pryd fod iddo flynyddoedd o waith, ac o lwyddiant. Ein barn ydyw, fod ei golli o'n mysg yn un o'r colledion mwyaf a allasem gael ar hyn o bryd, o blegid y cyfuniad o gymmhwysderau oedd ynddo. Nid oes genym ond distewi, gan ddywedyd—'A'i ffyrdd mor anolrheiniadwy ydynt.' Bu farw Rhagfyr 2il, 1887. Pregethasom bregeth angladdol iddo oddi ar 2 *Tim.* iv. 7, 8.

PENNOD XIX.

DIWYGIADAU CREFYDDOL MON.

Cafodd Methodistiaeth Môn, er y flwyddyn 1743, ddiwygiadau, neu adfywiadau, nerthol a grymus iawn. Nid

annyddorol fydd gan yr oes hon, a'r oesoedd dilynol, gael crybwylliad am y rhai mwyaf pwysig o honynt. Gallwn ninnau ddywedyd yn ngeiriau y Salmydd, 'Ystyriais y dyddiau gynt, blynyddoedd yr hen oesoedd. Cofiaf weithredoedd yr Arglwydd; ïe, cofiaf dy wyrthiau gynt. Myfyriaf ar dy holl waith, ac am dy weithredoedd y chwedleuaf.' Yn sicr, gwnaeth yr Arglwydd i'n tadau yn Môn 'bethau mawrion,' nes i'w calonau lawenychu, a'u tafodau orfoleddu. Gallai cofio 'blynyddoedd deheulaw y Goruchaf' gynnyrchu yn ein hysbrydoedd, yn yr oes hon, awydd cryf a gweddi daer am ymweliad cyffelyb.

Ymddengys i'r Aberffraw gael ymweliad nerthol iawn mor gynnar a'r fl. 1777, yr hyn a achosodd chwanegiad mawr at yr eglwys Fethodistaidd, a pharodd i Fethodistiaeth wreiddio, ac ymgadarnhau yn yr ardal. Ennillodd oruchafiaeth ar ei gelynion, a daeth uwch law bod yn wrthddrych gwawd fel cynt.

Cafwyd diwygiad ac adfywiad grymus iawn yn Mrynsiencyn a'i hamgylchoedd, os nad yn yr holl ardaloedd, lle yr oedd Methodistiaeth wedi ei sefydlu, tua'r fl. 1794 hefyd. Dechreuodd ar ddydd ympryd gwladol a gynnelid yn achos y rhyfel oedd rhwng Lloegr a Ffraingc. Dechreuodd yr adfywiad yn y Bryn wrth holi plant. Methodd yr holwyddorwr a myned yn mlaen gyda'r holi; syrthiodd ar ei liniau i weddïo, a'r plant yr un modd; Duw yn tywallt arnynt ysbryd gras a gweddïau. Dyma y pryd y dechreuodd y Parch. David Jones, Dwyran, bryderu ynghylch ei gyflwr. Effeithiodd gymmaint ar y plant fel nad aethant i edrych ar redeg ceffylau oedd o fewn llai na hanner milldir i'w tai. Dyma'r diwrnod y dechreuodd y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, bregethu yn Nghemmaes bach. Yr oedd eglwys Brynsiencyn wedi ei throchi â'r tywalltiad hwn o'r Ysbryd Glân o'r uchelder, nes oedd yr aelodau bron yn anghofio y byd hwn. O'r hyn lleiaf, yr oeddynt yn ceisio teyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef yn gyntaf.

Crybwyllasom am yr adfywiad a ddechreuodd yn yr Ysgol Sabbothol, yn eglwys plwyf Llanfwrog, pan oedd bachgen yn adrodd *Rhuf.* v. 6—diwygiad a barodd gyfnewidiad mawr trwy yr holl ardal, ac a roddodd derfyn

ar y chwareuon a gynnelid yn y fynwent ar brydnawnau Sabbothau.

Cafodd Llanerchymedd adfywiad a diwygiad cryf tua diwedd y ganrif ddiweddaf, neu ddechreu hon. Torodd allan, fel yn Mrynsiencyn, yn nghyfarfod y plant, a gedwid yn nhŷ John Thomas, *tanner*, pan oedd gŵr o'r enw Harri Owen yn dechreu y cyfarfod trwy weddi; ac mewn canlyniad, chwanegwyd nifer mawr at yr eglwys.

Yn y flwyddyn 1822, cafodd yr holl sir ymweliad nerthol iawn. Ystyrir hwn yn un o'r prif ddiwygiadau, os nad y prif un a gafwyd erioed yn Môn. Daeth yn gynhauaf—yn dymmhor medi a chasglu ysgubau mewn gorfoledd trwy yr holl sir, wedi bod yn hau mewn dagrau. Daeth Seion yn llawen fam plant; a'r siarad trwy yr ardaloedd oedd, 'Y gŵr a'r gŵr anwyd ynddi.' Nis gallwn ei ddilyn i bob cymmydogaeth. Derbyniodd Aberffraw a Bethel, a'u hamgylchoedd, ran helaeth o'r gawod. Cynnyddodd yr Ysgol Sabbothol yn Bethel o bedwar ugain i ddau gant. Dyma flwyddyn y Gymdeithasfa ryfedd hono a fu yn Llangefni: cynnulleidfaoedd Bethel ac Aberffraw yn cyfarfod â'u gilydd, ac yn cydfyned i Langefni, ac yn cadw cyfarfod gweddi ar y ffordd fawr; ac Elias yn pregethu yn Llangefni ar *Esa.* lii. 10; 'Dïosgodd yr Arglwydd fraich ei sancteiddrwydd yn ngolwg yr holl genhedloedd,' &c. Pan oedd efe yn disgrifio yr Arglwydd yn dïosg ei fraich, ac yn pwyntio â'i fraich, fel y byddai yn arfer, dattododd fôn llawes ei gôb bron i gyd o gwmpas. Oedfa ofnadwy oedd hon. Dywedir na welwyd erioed gymmaint o gadachau allan, ac o ddefnydd gogoneddus yn cael ei wneyd o honynt; sef, i sychu dagrau oeddynt yn rhedeg wrth wrandaw yr efengyl. Os bu cadachau llogell erioed yn atteb eu dyben, dyma y tro. Eraill yn eu chwyfio wrth orfoleddu, wedi colli pob llywodraeth arnynt eu hunain! Ymddengys na welwyd y fath olygfa erioed yn Môn o'r blaen, nac wedi hyny. Yr oedd y diolchiadau i'w clywed am filldiroedd o ffordd! Bron na thybiem fod yr angylion wrth y miloedd yno yn llawenhau wrth weled pechaduriaid yn edifarhau. Cynnaliai y bobl gyfarfodydd gweddïai ar hyd y ffyrdd wrth ddychwelyd gartref. Bu

un o honynt yn Lôn y Dyffryn—heb fod yn mhell o Ben-y-garnedd. Yr oedd hi yn dri o'r gloch y boreu pan oeddynt yn cyrhaedd eu cartrefi. Cynnelid cyfarfodydd gweddïau bob nos yn y capelau, a rhai yn ochrau y cloddiau; a sain cân a moliant oedd trwy yr holl sir; y tân nefol wedi cymmeryd meddiant llwyr o'r ynys. Cafodd Amlwch a'i hamgylchoedd deimlo 'nerthoedd y byd a ddaw' y flwyddyn hono. Y Parch. Moses Jones, o Ben-cae-newydd, yn Eifionydd, oedd y prif offeryn i danio yr ardaloedd hyn. Yr oedd y Parch. Michael Roberts, Pwllheli, i ddyfod gyda Moses Jones, a gwyddis ei fod yn un o bregethwyr mwyaf nerthol a phoblogaidd yr oes. Yr oedd y ddau i fod nos Sabbath yn Bethlehem, ac aeth amryw o Amlwch yno i wrandaw ar Michael Roberts, y mae yn debyg; o blegid gŵr ieuangc newydd ddechreu pregethu oedd Moses Jones; ond ni ddaeth Michael Roberts gyda Moses Jones, o blegid afiechyd; ond daeth gŵr mwy na Michael Roberts gydag ef; sef, 'Meistr y gynnulleidfa.' Cafodd Moses Jones oedfa anarferol o rymus; torodd allan yn orfoledd mawr yno, ac yn mhlith y gorfoleddwyr yr oedd pobl Amlwch. Daethant gartref mewn sain cân a moliant; a'r nos Iau canlynol, daeth amryw i'r cyfarfod eglwysig. Mewn canlyniad, daeth Moses Jones yn boblogaidd iawn; y capelau yn rhy fychain i gynnwys y gwrandawyr. Cofus genym, pan yn bur ieuangc, ein bod yn awyddus iawn i'w glywed yn pregethu, ar ol clywed ein mam yn sôn cymmaint am dano. Yn ngwres y diwygiad hwn y daeth ein hanwyl frawd, y Parch. Robert Hughes, Gaerwen, at grefydd; ac os gwir a glywsom, ar ben Mynydd Parys, wrth ddychwelyd o Lanerchymedd, wedi bod yno yn gwrandaw ar Moses Jones, y torodd y wawr arno, ac y torodd yntau allan mewn mawl a diolch. Chwanegwyd at eglwys Amlwch, yn nghorph y flwyddyn, tua chant a deg a thrigain o eneidiau.

Cafodd Niwbwrch ddiwygiad lled rymus yn y fl. 1840. Gelwid ef yn 'ddiwygiad Griffith Williams, Bwlan;' o blegid mai efe oedd offeryn ei ddechreuad. Ymddengys fod y pregethwr hwn yn myned ar gyhoeddiad trwy y sir ychydig cyn Cymdeithasfa Caergybi. Pregethai yn

Niwbwrch am ddeg ddiwrnod gwaith, ar *Diar.* xvii. 17. Cafodd oedfa lewyrchus iawn. Yn nhŷ y capel, dywedai wrth y brodyr, 'Y mae gan yr Arglwydd waith mawr i'w wneyd gyda chwi. A gaf fi ddyfod yma etto?' Daeth Griffith Williams yma lawer gwaith, a bu yma ddiwygiad nerthol. Daeth ugeiniau i'r eglwys, ac yn eu mysg yr oedd Owen Owens, yr *Horse.* Tafarndy oedd yr *Horse;* ond rhoddodd y dafarn i fyny; tynodd y *sign* i lawr, a rhoddodd hi yn y lle iselaf a ffieiddiaf a feddai. Yn yr *Horse* y byddai Griffith Williams yn llettya, a byddai y tŷ yn cael ei lenwi gan y cymmydogion pan y byddai y pregethwr yn cadw dyledswydd, a byddai yn tori allan yn orfoledd mawr yno.

Yn y blynyddoedd 1859 a 1860, cafwyd y diwygiad cryfaf yn ein hoes ni; sef, y diwygiad a elwir hyd heddyw yn 'ddiwygiad David Morgan, Ysbytty, sir Aberteifi,' o blegid mai efe a fu yn offeryn yn llaw Duw i ddeffro yr eglwysi o'u cysgadrwydd. Cyn hyn, marwaidd iawn oedd y rhan liosocaf o eglwysi Môn; ond yr oedd sôn am yr adfywiad oedd yn sir Aberteifi trwy offerynoliaeth y Parch. David Morgan, Ysbytty, yn codi awydd mewn llawer am rywbeth cyffelyb yn Môn. Aeth y Parch. Owen Williams, Llanrhyddlad, a ninnau, ar daith trwy sir Aberteifi yn ngwres cychwynol yr adfywiad; a chyfarfyddasom yn ein taith â David Morgan unwaith neu ddwy, a chawsom ganddo addewid i ddyfod ar daith trwy Fôn cyn diwedd y flwyddyn. Yr oedd yn Amlwch, a'i chyffiniau, a thrwy y sir, gyfarfodydd gweddïau yn cael eu cynnal, a llawer mwy yn dyfod iddynt nag a fyddai yn arfer dyfod; ond nid oedd cwmmwl cymmaint a chledr llaw gŵr i'w weled fel arwydd o wlaw. Tua dechreu mis Hydref, ymunodd yr enwadau crefyddol mewn cyfarfodydd gweddïau yn y dref, ac yr oeddynt yn lliosog iawn, ac yn dra dymunol; ac etto, dim arwydd gwlaw mawr yn ymddangos. Cyn diwedd Hydref, daeth y Parch. David Morgan trwy y sir; ac yr oedd yma ddisgwyliad mawr am dano. Buom gydag ef mewn amryw o leoedd yn y sir. Yr oedd yn cael cynnulleidfaoedd mawrion; pregethai o'r pulpud i geisio deffroi yr eglwysi o'u cysgadrwydd, ac o'r sêt fawr i geisio argyhoeddi y byd; ac yn y

cyffredin, y bregeth o'r sêt fawr fyddai yn fwyaf nerthol. Nid cymmhell y gwrandawyr i aros yn y seiat y byddai, ond ceisio eu cael i ffydd yr efengyl; dwyn pob gobaith oddi arnynt y gallent ddiangc rhag y llid a fydd, ond trwy gredu yn Iesu Grist, ac agor drws yr eglwys iddynt i ddyfod i mewn, os mynent ddyfod; a byddai llawer yn dyfod, ac yntau yn eu holi, er mwyn cael gwybod ansawdd eu profiadau; ac mewn canlyniad, gwybod pa fodd i'w cynghori, ac i weddïo drostynt. Rhwng ei weinidogaeth gyfeiriol, a'r chwanegiad a gawsant at eu rhif, gadawodd argraph dda iawn ar holl eglwysi y sir. Y noswaith yr oedd ef yn Amlwch, llettyai gyda ni. Ac O!'r weddi ar ddyledswydd boreu dranoeth! Gweddïai dros Amlwch, a throsom ninnau, yn bersonol. Wrth gychwyn i'w daith, dywedodd wrthym—'Bydd yma waith mawr wedi ei ddechreu cyn y deuwch gartref o Fanchester; parotowch ar ei gyfer ef.' Ac yn sicr, yr oedd yma waith bendigedig wedi ei ddechreu erbyn ein dychweliad gartref. Bu yma gyfarfod gweddi undebol, a thorodd allan yn orfoledd mawr ynddo. Aeth y gair allan i'r dref, a rhedai dynion digrefydd i'r capel mawr er mwyn cael gweled y diwygiad; a chyfarchai y diweddar Barch. W. Roberts hwynt yn y drws, gan ddywedyd—'Deuwch i mewn, foneddigion, i chwi gael gweled—i weled y daethoch, y mae yn debyg. Nid ein gwaith ni ydyw yr hyn a welwch, o blegid yr oeddym yn methu ei wneyd ef trwy y blynyddoedd. 'Bys Duw' yw hyn.' Yr oedd teimlad dwys yn y cyfarfodydd gweddïau, ond ychydig iawn oedd yn y pregethau; ac yr oedd hyn yn peri gofid meddwl i'r dynion goreu. Y Sabbath, Rhagfyr 24ain, yr oeddym i fod yn nhaith Amlwch, a chymmundeb i fod y noson hono. Boreu Sabbath a ddaeth, a ninnau yn isel ein meddwl—bron yn bruddglwyfus—o blegid ystyriem nad oedd genym bregeth gymmhwys at sefyllfa y gynnulleidfa. Pan ddaeth yr amser, dechreuwyd y gwasanaeth. Cymmerasom *Rhuf.* vi. 5, yn destyn, a deallasom yn lled fuan fod Duw yn y lle oddi wrth astudrwydd y gynnulleidfa yn gwrandaw. Yn mhen ychydig amser, gwelem ddeigryn yn llygad aml un; yna, gwelem ambell gadach poced yn cael ei ddefnyddio i sychu y dagrau; a chyda hyn, gwelem

ugeiniau o honynt yn cael eu defnyddio. Yna, aethom i grynu, ac ofni na allem fyned yn mlaen. O'r diwedd, wele rhyw un yn rhoddi bloedd; ac mewn canlyniad, rhoddasom derfyn ar y bregeth. Nid anghofiwn y boreu Sabbath hwn tra y byddwn byw. Erbyn y nos, yr oeddym yn tybied fod genym bregeth a ystyriem yn fwy cymmhwys i agwedd meddwl y gynnulleidfa. Y testyn ydoedd *Ioan* xii. 31, 32. Ni chawsom bregethu hanner y bregeth; ac ni allwn roddi disgrifiad o'r cyfarfod hwn. Yn lle cael cymmundeb, derbyn ymgeiswyr am aelodaeth yn yr eglwys y buom, ac oedi y cymmundeb hyd ddau o'r gloch dranoeth—dydd Nadolig. Nis gallwn nodi y rhif a arosodd yn yr eglwys y noson hono. Ac O!'r cyfarfodydd cynnhyrfus a fu am rai wythnosau ar ol hyn! Y noson ar ol y cymmundeb, yr oeddym yn pregethu yn Nebo; ac yr oedd hi yn gynnhyrfus iawn yno hefyd. Cynnelid cyfarfod gweddi yn Amlwch; ac erbyn i ni gyrhaedd gartref, tua deg o'r gloch, yn y capel yr oedd yr Amlwchiaid. Aethom ninnau yno; a dyna lle yr oedd y capel yn orlawn, a'r gynnulleidfa yn ferw i gyd—rhai yn wylo, a'r lleill yn gorfoleddu, a ninnau yn ceisio ganddynt roddi i fyny, a myned gartref. Aethom at ŵr ieuangc parchus i geisio ganddo beidio gwneyd niwed iddo ei hun. Attebodd ni, gan ddywedyd—'John Pritchard anwyl, gadewch lonydd i mi gael diolch am y teimlad ydwyf wedi ei gael. Yr oedd fy nghalon i fel y gareg o galed yn y cymmundeb ddau o'r gloch; ac yr oeddwn yn ofni mai caledu yr oedd hi yn ngwres y diwygiad; ond bendigedig fyddo Duw! y mae hi wedi toddi yn llyn.' Aethom at un arall ag oedd mewn perygl i wneyd niwed i'w iechyd, i geisio ganddo lywodraethu ei hun, gan ddyweyd nad oedd crefydd yn gofyn am y fath beth; attebodd yntau, gan ddywedyd—'Gadewch lonydd i mi, y mae genyf obaith cael fy nghylchio âg anfarwoldeb i ddal tragwyddol bwys gogoniant.' Yna, gan nad oedd dim yn tycio, rhoddasom y goleuni allan; ac mewn canlyniad, gwasgarodd y gynnulleidfa. Gellir edrych ar hwn yn ddisgrifiad, nid yn unig o'r diwygiad yn Amlwch, ond trwy yr holl sir. Chwanegwyd chwech ugain at eglwys Amlwch, deg a thrigain at eglwys Porth Amlwch,

deuddeg a deugain at eglwys Nebo, deg a thrigain at eglwys Siloh, saith ugain at eglwys Bethesda, Cemmaes, a deg a thrigain at eglwys Bethlehem; a lled debyg oedd trwy yr holl sir. Cafodd Llangefni ymweliad nerthol iawn y pryd hwn. Ar un nos Sabbath, pan y gofynid, 'A oedd neb dyeithr wedi aros?' 'Y mae yma un;' 'Y mae yma hefyd un;' 'Y mae yn y fan yma ddau,' oedd yr attebiad. Ar hyn, dyma yr hen frawd twymngalon, John Jones, saer, yn cyfodi ar ei draed, ac yn dywedyd—'Frodyr, y mae y perlau yn dechreu d'od i'r amlwg.' Wrth wrandaw ar y swyddogion yn ymddiddan âg un hen frawd am ei brofiad, dywedai John Jones—'Frodyr anwyl, peidiwch a'i ddigaloni; y mae y geiniog iddo etto.' Cafodd eglwys Llangefni tua chwech ugain o chwaneg-iad. Rhy faith fyddem pe ceisiem roddi disgrifiad o'r diwygiad hwn yn yr holl eglwysi.

Cafodd rhai ardaloedd adfywiad grymus ar ol hyn. Cafodd y Gorslwyd adfywiad cryf iawn yn 1884. Dechreuodd mewn cyfarfod gweddi y gwŷr ieuainge. Disgynodd rhywbeth ar ryw frawd ieuange wrth weddïo, nes ei wneyd yn ddyn arall fel gweddïwr. Torodd y teimlad allan mewn sain cân a moliant, a daeth pobl yr ardal i'r capel. Y Sabbath dilynol, yr oedd y Parch. J. Roberts, Tai hen, yn pregethu yma; a diweddodd y bregeth yn y fath gynnhwrf fel yr oedd rhai o'r blaenoriaid ar eu gliniau yn ymyl y pulpud, gan feddwl mai gweddïo yr oedd y pregethwr, ac yntau wedi darfod, ac wedi rhoddi pennill allan i'w ganu; a dyna lle yr oeddynt, rhai ar eu traed yn canu, a'r lleill ar eu gliniau. Arosodd yno ryw nifer o'r newydd yn y cyfarfod eglwysig. Y Sabbath drachefn, yr oedd brawd o ddawn lled fechan yn pregethu yno, a phregethodd nos Lun hefyd. Yr oedd pregethwr arall wedi ei gyhoeddi i fod yno nos Fawrth; ac arosodd y brawd oedd yno y Sabbath a nos Lun yno nos Fawrth hefyd. Aeth y pregethwr a ddisgwylid yno erbyn chwech i'r cyfarfod gweddi oedd o flaen y bregeth. Erbyn iddo fyned i mewn, gwelai y blaenoriaid, un yma ac un acw yn y capel, a'r sêt fawr wedi ei meddiannu gan bobl ieuainge yn llawn o deimlad angerddol. Aeth un o honynt i weddi; ac yn ei weddi, dywedai—'Diolch i ti,

O! Arglwydd, am dipyn o flâs ar y pregethau; y maent wedi bod yn ddigon diflas genym am hir amser; ond erbyn heddyw, y maent yn wleddoedd o basgedigion breision, ac o loew win puredig genym.' Un arall yn gweddïo, gan ddywedyd—'Diolch i ti am dy weision—ïe, am y rhai lleiaf o honynt. Cawsom flâs ar un o'r rhai hyny y Sabbath.' Ac yr oedd y pregethwr yno yn clywed. Y trydydd yn gofyn i Dduw chwanegu at nifer ei eglwys, gan ddywedyd—'Yr wyt ti wedi chwanegu pump atom; dyro bump heno i'w gwneyd yn ddeg;' ac yr oedd mor daer fel yr oedd y pregethwr yn disgwyl pump; a chan sicred ag iddo ofyn am bump, fe gafodd bump. Byddai dynion a merched wrth y degau yn dyfod i'r Gorslwyd ar nosweithiau gwaith o chwech, ïe ddeng milldir o ffordd, i'r pregethau. Daeth bron yr oll o'r gwrandawyr yn y Gorslwyd yn aelodau eglwysig.

Chwanegwyd ugeiniau, os nad cannoedd, yn y blynyddoedd diweddaf—1884 ac 1885—trwy offerynoliaeth ein diweddar a'n hanwyl frawd, y Parch. Richard Owen, yn benaf. Diweddwn y bennod hon gyda sylw arno ef. Dyn rhyfedd oedd Richard Owen! Ië, dyn rhyfedd iawn oedd efe! Y dyn rhyfeddaf a gododd yn yr oes hon! Dyn bychan iawn oedd efe, medd rhai; a dyn mawr iawn, medd eraill; ac y mae gwirionedd, i raddau, yn y naill ddywediad a'r llall. A dyma oedd yn ei wneyd ef yn ddyn rhyfedd—ei fod ef yn fychan ac yn fawr. Un o'r dynion lleiaf ydoedd, medd rhai—yr unig un a fu yn Athrofa y Bala yn rhy fychan i gael aros yno. Un o'r dynion mwyaf ydoedd, medd eraill. Dyma brawf etto o wirionedd ein darnodiad o hono ef. Dyn rhyfedd ydoedd! Ië, clywsom rai yn dywedyd, 'Nid oes dim ynddo.' Y mae hyn yn ei wneyd ef yn rhyfeddach fyth—dyn bach, y dyn lleiaf, a dyn heb ddim ynddo, wedi dyfod y pregethwr mwyaf poblogaidd yn Nghymru; ïe, y pregethwr mwyaf effeithiol a llwyddiannus yn yr holl wlad. Dyma ddyn rhyfedd! Rhoddwch reswm dros ei hynodrwydd? Nis gallwn; ac am hyny, ni cheisiwn. Y mae ei hynodrwydd yn ddirgelwch i bawb ond i Dduw. Ai tybed na fynai Duw ddysgu i gyfundeb y Methodistiaid y wers trwy y dyn hynod hwn, mai 'nid trwy lu, ac nid trwy

nerth;' ond mai trwy ei ysbryd ef ei hun, y dychwelir dynion at Dduw mewn edifeirwch? Ennillodd, fel pregethwr, ein serch; ond methodd, fel diwygiwr, ag ennill ein cymmeradwyaeth. Nis gallwn ystyried pob math o chwanegiad at yr eglwysi yn wir ddiwygiad. Cyfaddefwn fod ein hanwyl frawd, Richard Owen, yn fwy goddefol genym nag ydoedd yr un o'r brodyr o'r un dosbarth ag ef.

PENNOD XX.

YR YSGOL SABBOTHOL FETHODISTAIDD YN MON.

Ymgymmerodd Methodistiaid Môn yn lled gynnar â'r Ysgol Sabbothol. Ymddengys mai John Thomas, gôf, Llanfwrog, oedd y cyntaf a sefydlodd Ysgol Sabbothol yn y sir. Nis gallwn nodi y flwyddyn y sefydlodd efe hi. Yn y fl. 1785 y daeth efe yn Fethodist. Ceid yr ysgol yn eglwys y plwyf yn y fl. 1798. Yr oedd hi wedi bod yno am beth amser cyn y flwyddyn uchod, ac wedi bod yn ei dŷ ef cyn hyny. Y tebygolrwydd ydyw iddi gael ei bodolaeth tua'r fl. 1787; ac felly, y mae hi tua chan' mlwydd oed. Y mae y cyfundeb wedi bod yn selog trwy y tri cyfnod olaf gyda'r Ysgol Sabbothol—wedi edrych arni fel rhan o waith yr Arglwydd. Nid yn unig daeth yr eglwysi yn y gwahanol gymmydogaethau i'w phleidio, ond daeth y Cyfarfod Misol yn ei holl nerth a'i ddylanwad yn gynnorthwy iddi. Yn y blynyddoedd cyntaf, wedi dyfodiad y Parch. J. Elias i Fôn, rhoddodd ei holl ddylanwad trwy areithio a phregethu o'i phlaid. Yn y trydydd cyfnod, yr oedd y sir yn bedwar dosbarth, a chyfarfod ysgol yn cael ei gynnal yn mhob dosbarth bob chwech wythnos. Byddai dau bregethwr yn dilyn y cyfarfodydd ysgolion yn mhob dosbarth—un yn holi yr ysgol, a'r llall yn pregethu yn fyr ar ol yr holi. Yr *Hyfforddwr* fyddai maes llafur rhai mewn oed, a'r *Rhodd*

Mam fyddai maes llafur y plant. Byddai y Parch. J. Prytherch yn arfer holi y plant yn gyhoeddus o flaen pregethu bob Sabbath o'r bron am flynyddoedd yn y cyfnod hwn, a'r un dilynol. Efe oedd anwyl-ddyn y plant; a gwnaeth gymmaint o ddaioni fel holwyddorwr, os nad mwy, nag a wnaeth fel pregethwr. Yn nechreuad y pedwerydd cyfnod, ymgymmerodd y Parch. William Owen Williams, Capel Coch, âg holwyddori yr ysgolion yn gyhoeddus oddi wrth rhyw bennod o'r Beibl, a daeth yn boblogaidd fel holwyddorwr. Gallwn ddywedyd yn ddibetrus iddo fod o fendith i gynnyrchu chwaeth mewn llawer i chwilio yr Ysgrythyrau. Pan oedd efe ar ganol ei waith yn Môn, anfonwyd ef yn genhadwr i Dremeirchion—cymmydogaeth yr ymosodid arni gan y Pabyddion. Credwn mai doethineb yn Methodistiaid Môn ar y pryd fuasai cadw y brawd hwn yn yr ynys, i weithio yn y cylch yr oedd wedi dechreu llafurio ynddo gyda'r fath lwyddiant. Yn y pedwerydd cyfnod, dewiswyd pregethwyr ieuaingc, a rhai o honynt wedi bod yn Athrofa y Bala, i gynnal y cyfarfodydd chwech-wythnosol, fel y gelwid hwy ar y pryd. Y pregethwyr oeddynt y Parchn. Ebenezer Evans, Bodedern; David Roberts, Tyddyn Saddler; John Hughes, D.D., Porthaethwy (Liverpool yn bresennol); a John Pritchard, Amlwch. Dechreuodd rhai o honom dori tir newydd. Rhoddodd Dr. Hughes y Llythyr at yr Hebreaid yn faes llafur i'w ddosbarth, a rhoddasom ninnau Mynyddoedd Gwlad Canaan i'r dosbarth gogleddol. Yn y blynyddoedd hyn, byddai un Cyfarfod Misol yn cael ei droi yn gyfarfod blynyddol yr Ysgolion Sabbothol. Yr ysgol fyddai o dan sylw yn y cyfarfodydd neillduol y Cyfarfod Misol hwn. Ynddo ef y cadarnheid dewisiad yr ysgolion o'r pregethwyr i gynnal y cyfarfodydd chwech-wythnosol. Treulid y cyfarfod am ddeg yr ail ddydd i areithio ar yr Ysgol Sabbothol. Weithiau, gwahoddid gŵr dyeithr i'r Cyfarfod Misol hwn. Cofus genym weled Dr. Edwards, o'r Bala, mewn un yn Bethlehem, a Dr. Parry, o'r Bala, mewn un arall Llanfechell. Yn y diweddaf, pan oedd y cyfarfodydd chwech-wythnosol o dan sylw, cododd y diweddar Barch. David Elias, Pentraeth, ar ei draed, a rhoddodd araeth

yn erbyn y dull newydd o gynnal y cyfarfodydd ysgolion. Dywedai yn ei araeth fod y 'Llythyr at yr Hebreaid' yn rhy ddwfn i fod yn faes llafur, a 'Mynyddoedd Gwlad Canaan' yn rhy lymion. Nid oedd Dr. Hughes yn bresennol i amddiffyn y 'Llythyr at yr Hebreaid;' ond yr oeddym ni i amddiffyn 'Mynyddoedd Gwlad Canaan.' Yr unig amddiffyniad a wnaethom oedd gofyn cwestiwn neu ddau i'r hybarch weinidog, 'A allai efe holi ysgol am awr ar ddaearyddiaeth Mynydd Carmel?' Attebodd na allai. Dywedasom ninnau na allem ninnau wneyd chwaith; ond mai y digwyddiadau Ysgrythyrol a gymmerasant le ar y mynydd oedd y prif fater yr holwyd arno. Gofynasom drachefn iddo, 'A allai efe holi ysgol am awr a chwarter ar ddaearyddiaeth Calfaria?' Attebodd na allai. Dywedasom ninnau ein bod mor analluog ag yntau; ond mai y digwyddiad bythol hynod a gymmerodd le ar Galfaria oedd y prif fater yr holwyd arno am awr a chwarter, ac mai ychydig oedd nifer y cwestiynau ar ddaearyddiaeth y lleoedd. Yna gofynodd y cadeirydd i Dr. Parry ddywedyd ei farn ar yr hyn oedd o dan sylw. Mewn ufudd-dod i'r gadair, dywedodd ei fod yntau yn dilyn cyfarfodydd ysgolion mewn un dosbarth yn sir Feirionydd, ac mai maes llafur y dosbarth ar y pryd oedd 'Hanes Iesu Grist,' ac y byddent yn myned i bob mynydd a bryn ar ol yr Iesu; a bod ei draed ef wedi sangu arnynt yn eu gwneyd mor gyssegredig iddynt fel y mynant gael gwybod cymmaint ag a allant o ddaearyddiaeth y mynyddoedd a'r bryniau. Derbyniodd y cyfarfod y sylw hwn gyda chymmeradwyaeth mawr, a chawsom ninnau ddiangc yn nghysgod Dr. Parry. Yn y pummed cyfnod, trefnwyd cynlluniau newyddion i gynnyrchu llafur yn yr ysgolion. Rhoddwyd cannoedd o bunnoedd yn wobrau am ddysgu allan lyfrau o'r Beibl, yr *Hyfforddwr*, y *Cyffes Ffydd*, ac am yr attebion goreu i gwestiynau mewn hanesiaeth ysgrythyrol, ac mewn materion duwinyddol.

Nis gallwn wneyd dim sydd yn well na rhoddi y manylion canlynol am Undeb Ysgolion Sabbothol Môn, y rhai a dderbyniasom oddi wrth y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, ysgrifenydd yr undeb:—

Wrth edrych dros y cofnodion, yr wyf yn gweled mai yn y flwyddyn 1875 y sefydlwyd yr undeb hwn; ac mai y y diweddar John Hughes, Llyslew, a John Matthews, *National Provincial Bank*, Amlwch, oeddynt brif gefnogwyr y symmudiad; ac mai trwy eu llafur, eu hymroddiad, a'u penderfyniad hwy y cychwynwyd yr undeb ag sydd erbyn hyn yn allu mor bwysig, ac yn gwneyd gwaith mor fawr yn ein gwlad. Addawodd a chyfranodd y diweddar John Hughes, Llyslew, y swm o 50*p*. tuag at sefydlu yr undeb, a gwobrwyo y rhai goreu yn yr arholiadau, a phob un a ddysgai allan ddau gant a hanner ac uchod o adnodau dilynol o'r Ysgrythyr, chwe phennod, a chwaneg, o'r *Hyfforddwr*, ynghyd â phob un a ennillai dystysgrif gerddorol y *Tonic Sol-ffa*. Bu haelioni a sêl y ddau frawd a enwyd uchod yn foddion i ennyn sêl a haelioni llu o frodyr eraill, y rhai a gyfranasant symiau hardd a theilwng at yr amcan, a chafwyd rhai cannoedd o bunnau at wasanaeth yr undeb y flwyddyn gyntaf. Nodwyd maesydd llafur, materion arholiadau, arholwyr, maint y gwobrau i'r goreuon, &c.; ac aeth pob peth yn mlaen yn hapus; daeth y cyfrifon i mewn o'r gwahanol ysgolion; cynnaliwyd yr arholiad; ac ar ddydd Gwener, Gorphenaf 30ain, 1875, cynnaliwyd cyfarfod mawr yn yr awyr agored yn Llangefni i gyflwyno y gwobrau, a rhoddi anerchiadau ar wahanol faterion perthynol i'r Ysgol Sabbothol; a chofir am y cyfarfod hwn gan y rhai oeddynt yno tra y byddant fyw. Yr oedd gwerth y llyfrau a roddwyd yn wobrau y diwrnod hwnw yn 216*p*. 9*s*. 11*c*. *nett*. Rhoddwn yma y materion yr arholwyd arnynt, ynghyd âg enwau y rhai a ennillasant y prif wobrau:—

I. *Athrawiaeth yr Iawn.*—Goreu, Elias Hughes, Capel y Parc; ail, Richard Jones, Porth Amlwch; trydydd, John Williams, Llandegfan.

II. *Athroniaeth trefn Iachawdwriaeth.*—Goreu, John Owen, Pen-y-garnedd; ail, William Owen, Pentraeth; trydydd, William Roberts, ieu., Porthaethwy.

III. *Defodau ac Arferion yr Iuddewon.*—Goreu, Evan Richard Owen, Bodsuran, Carmel; ail, John Chambers, Carrog, Llangristiolus; trydydd, Thomas Jones, Gors lwyd.

Gwelaf i'r materion canlynol gael eu trefnu ar gyfer

arholiad y flwyddyn 1876—7, ond nid wyf yn gallu dyfod o hyd i enwau ennillwyr y prif wobrau:—I. *Llyfr Esther.* II. *Yr Hyfforddwr.* III. *Yr Epistol at y Galatiaid.*

Ymddengys hefyd mai ar Rhagfyr 21ain, 1880, y cynnaliwyd yr arholiad nesaf, ac oddi ar hyny y mae wedi ei gynnal yn ddifwlch hyd y flwyddyn hon; ac y mae yn debyg y parheir i'w gynnal bellach hyd nes y daw rhywbeth gwell i gymmeryd ei le. Materion y flwyddyn 1880 oeddynt—

I. *Rhufeiniaid* iii., iv., a v.—Goreu, Hugh Pritchard, Llanerchymedd; ail, Richard Davies, Llangefni; trydydd, Eleazer Williams, Hyfrydle.

II. *Achau, Genedigaeth, Bedydd, a Themtiad yr Arglwydd Iesu.*—Goreu, William Davies, Llanerchymedd; ail, Richard Davies, Llangefni; trydydd, Richard Matthews, Llangoed.

III. *Genesis* i.—xv.—Goreu, Grace Jones, Llanerchymedd; ail, John Madoc Jones, Brynsiencyn; trydydd, Kesiah Thomas, Nazareth.

1881—2.—I. *Rhufeiniaid* vi.—viii.—Goreu, John J. Roberts, Seion; ail, Robert Hughes, Brynsiencyn; trydydd, Eleazer Williams, Hyfrydle.

II. *Dammegion Crist yn ol Luc* (cyfyngedig i rai dan 25ain oed).—Goreu, John Owain, Llanfair P.G.; ail, William Pritchard Owen, Bethlehem; trydydd, Miriam J. Jones, Tŷ mawr.

III. *Genesis* xv.—xxxv. (dosbarth dan 16eg oed).—Goreu, Caroline Jones, Bethel; ail, Mary Davies, Llanerchymedd; trydydd, Jane Owen, Bethel.

1882—3.—I. 1 *Corinthiaid* xv.—Goreu, John William Griffith, Nebo; ail, William Roberts, ieu., Porthaethwy; trydydd, David Hugh Davies, Hebron.

II. *Gwyrthiau Crist.*—Goreu, John Owain, Llanfair P. G.; ail, Hugh Richard Francis, Llanddona; trydydd, Hannah Lloyd Humphreys, Beaumaris, a William Owen Jones, Beaumaris, yn gydradd.

III. *Genesis* xxxvi.—l.—Goreu, Owen Griffith, Hyfrydle, a Jane Owen, Bethel, yn gydradd; ail, Lewis Hughes, Hyfrydle; ac Evan Price Griffith, etto, yn gydradd; trydydd, Shadrach Hughes, Bethel hen.

1883—4.—I. *Epistol cyntaf Ioan.*—Goreu, Richard Davies, Llangefni; ail, John William Griffith, Nebo; trydydd, William Jones, Pensarn, Amlwch.

II. *Llyfr y Barnwyr* (i rai dan 25ain oed).—Goreu, John Thomas, Trefignath, Ebenezer, a Thomas Owen Roberts,

Porthaethwy, yn gydradd; ail, O. G. Williams, Gosen; trydydd, Margaret Thomas, Caergybi.

III. *Llyfr y Barnwyr* (i rai o dan 16eg oed).—Goreu, Evan Price Griffith, Caergybi; ail, Annie Susan Matthews, Amlwch; trydydd, Shadrach Hughes, Bethel hen.

1884—5.—I. *Ephesiaid* i. ac ii.—Goreu, John N. Thomas, Trefignath, Ebenezer; ail, O. G. Williams, Gosen; trydydd, Eleazer Williams, Hyfrydle.

II. *Swper yr Arglwydd.*—Goreu, Thomas Owen Roberts, Porthaethwy; ail, O. G. Williams, Gosen; trydydd, William Jones, Bozrah.

III. *Hanes yr Iesu o'i Fynediad i'r Oruwchystafell hyd ei Esgyniad* (i rai o dan 18eg oed).—Goreu, Shadrach Hughes, Bethel hen; ail, Owen Griffith, Hyfrydle; trydydd, Michael Hughes, Bryn-yr-efail.

IV. *Hanes Daniel* (i rai o dan 14eg oed).—Goreu, Annie Susan Matthews, Amlwch; ail, Lewis Parry, Elim; trydydd, William Pritchard, Llanerchymedd.

V. *Actau* i.—vii. 60 (cyfyngedig i ferched).—Yr oreu, Miriam Jones, Tŷ mawr; ail, Sarah Anne Hughes, Pen-y-garnedd; trydedd, Jane Ellen Hughes, Pen-y-garnedd.

1885—6.—I. *Ephesiaid* iii., iv.—Goreu, Ebenezer Jones, Brynsiencyn; ail, Eleazer Williams, Hyfrydle; trydydd, O. G. Williams, Gosen.

II. *Bedydd* (i rai o dan 25ain oed).—Goreu, Thomas Owen Roberts, Porthaethwy; ail, John N. Thomas, Ebenezer; trydydd, Mary Anne Thomas, Dwyran.

III. *Hanes Paul a'i Deithiau* (i rai o dan 18eg oed).—Goreu, Thomas Evans, Brynsiencyn; 2il, Helena Grace Owen, Gwalchmai, ac Owen Pritchard, Amlwch, yn gydradd; trydydd Richard Evans, Bryntwrog.

IV. *Hanes Paul heb ei Deithiau* (i rai o dan 14eg oed).—Goreu, William Pritchard, Hebron; ail, John Evan Hughes, Ebenezer; trydydd, Elizabeth Annie Williams, Ebenezer.

V. *Actau* viii—xiv. 28 (i ferched yn unig).—Yr oreu, Sarah Anne Hughes, Pen-y-garnedd; ail, Catherine Lloyd Humphreys, Beaumaris; trydedd, Annie Lloyd Humphreys, Beaumaris.

1886—7.—I. *Philippiaid* i., ii.—Goreu, R. O. Jones, Nebo; ail, William Jones, Bozrah; trydydd, Thomas O. Roberts, Porthaethwy, a John Jones, Gwalchmai, yn gydradd.

II. *Exodus* i—xx (i rai o dan 20ain oed).—Goreu, Henry Richard Williams, Amlwch; ail, Helena Grace Owen, Gwalchmai; trydydd, Rowland Arthur Thomas, Porthaethwy.

III. *Exodus* i – xx (i rai o dan 15eg oed).—Goreu, Sarah Emily

Matthews, Amlwch; ail, John Thomas, Porthaethwy; trydydd, Hugh Hughes, Porthaethwy.

IV. *Exodus* i—xx (i rai o dan 12eg oed.—Goreu, William Lewis Griffith, Nebo; ail, David John Williams, Hyfrydle, a Grace Harriet Jones, Llanfair P. G., yn gydradd; trydydd, Owen Griffith Owen, Llanfair P. G.

1887-8.—I. *Dysgeidiaeth Crist.*—Goreu, Richard Williams, Perth-y-rhiw, Hebron; ail, Benjamin Menai Francis, Porthaethwy; trydydd, R. O. Jones, Nebo.

II. *Dammegion* (i rai o dan 21ain oed).—Goreu, Helena Grace Owen, Aberffraw; ail, Owen Pritchard, Amlwch, a Henry Richard Williams, Amlwch, yn gydradd; trydydd, Evan Williams, Gwalchmai.

III. *Hanes Iesu Grist* (i rai o dan 16eg oed).—Goreu, Owen William Roberts, Brynsiencyn; ail, Louisa Jones, Llanfair P. G.; trydydd, D. J. Williams, Hyfrydle.

IV. *Hanes Iesu Grist* (i rai o dan 12eg oed).—Goreu, William Morris Williams, Niwbwrch; ail, Catherine Jane Jones, Porthaethwy; trydydd, Jeanie Davies, Porthaethwy.

V. *Y Dammegion* (i ferched yn unig).—Yr oreu, Ellen Owen, Porth Amlwch; ail, Jane Ellen Hughes, Pen-y-garnedd; trydedd, Susannah Morris, Penrhos-feilw.

Dylem hysbysu mai un wobr sirol oedd yn cael ei rhoddi y blynyddau diweddaf, ac mai gwobrau dosbarthiadol a dderbyniodd yr ail a'r trydydd yn mhob mater; ond y mae yr uchod yn rhoddi eu safle yn y sir. Dyddorol hefyd, fe allai, fydd yr hysbysiad canlynol:—Fod yr undeb yn awr wedi dosbarthu pedair mil, wyth cant, a deunaw a thrigain (4,878) o dystysgrifau am ddysgu allan, ac am sefyll yr arholiad, er pan ei sefydlwyd.

Beaumaris. R. LLOYD.

PENNOD XXI.

RHAGORIAETHAU A DIFFYGION METHODISTIAETH MON.

Y MAE yn sicr ein bod ni, fel Methodistiaid yn Môn, yn meddu ein rhagoriaethau; ac mor sicr a hyny, y mae genym ein diffygion. Tuedd rhai ydyw edrych o hyd ar eu rhagoriaethau, a chau eu llygaid ar eu diffygion.

Eraill, yn hollol wahanol, ydynt o dueddfryd pruddglwyfus, yn edrych ar eu colliadau yn barhaus, a bron byth yn edrych ar eu rhagoriaethau. Ar yr ochr oleu i'r golofn y mŷn rhai edrych; ac ar yr ochr dywell y mŷn eraill: ond gan fod dwy ochr i'r golofn, dylid edrych ar y ddwy, a cheisiwn ninnau wneyd hyny yn y bennod hon. Yr oedd gan ein tadau yn Môn, yn y trydydd a'r pedwerydd cyfnod, eu rhagoriaethau; ac un o honynt oedd eu hymdrech i gael yr un pregethwr yn y daith un Sabbath yn mhob mis. Yn y dechreu, y Sabbath cyntaf ar ol pob Cyfarfod Misol fyddai y Sabbath hwnw. Gwyddent pwy i'w gyhoeddi y Sabbath cyn y Cyfarfod Misol yn ol y drefn hon. Ni wyddent pwy fyddai yn y daith y Sabbath canlynol; o blegid yn y Cyfarfod Misol y byddent yn cael y cyhoeddiadau, ac ni ofynai y blaenoriaid am gyhoeddiadau ond am fis. Yr oedd hyn yn gymmhelliad i'r blaenoriaid, ac i'r pregethwyr, i ddilyn y cyfarfodydd misol. Parai hyn, hefyd, i'r pregethwyr deimlo mwy o ddyddordeb yn yr eglwysi hyny y byddent yn pregethu ynddynt unwaith bob mis nag yn yr eglwysi eraill. Fel enghraifft o hyn, cofus genym fod gŵyl ddirwestol i'w chadw yn Amlwch ar ddydd Llun y Sulgwyn. Mewn cyfeisteddfod i barotoi ar gyfer yr ŵyl, cynnygiwyd fod y Parch. W. Jones, gweinidog yr Annibynwyr, i gymmeryd rhyw ran yn ngwasanaeth yr ŵyl; ond dywedodd yr hen weinidog na byddai efe gartref ar y pryd. Yna cynnygiwyd fod Thomas Jones i gymmeryd rhyw ran arall yn y gwasanaeth; a dywedodd yntau na byddai efe gartref. Ar hyny, cynnhyrfodd y Parch. W. Roberts, a dywedodd, 'Yr wyf yn synu atoch, Thomas Jones, eich bod yn meddwl myned oddi cartref ar adeg cyfarfod mor bwysig!' I hyn, attebodd Thomas Jones—'Yr ydych chwi, W. Roberts, yn pregethu unwaith yn y mis yn Amlwch; ac felly, y mae yn naturiol i chwi deimlo mwy o ddyddordeb yma nag mewn unrhyw le arall; ac yr wyf finnau yn pregethu unwaith yn y mis yn Elim, ac y mae yno ŵyl ddirwestol yr un diwrnod, ac yr wyf finnau yn teimlo mai fy nyledswydd ydyw myned yno, lle yr ydwyf yn arfer pregethu un Sabbath yn mhob mis.' Ac yno yr aeth efe: yno yr oedd yn fwyaf naturiol

iddo fyned. Yr oedd Thomas Jones yn nes i'w le yn hyn na'r Parch. W. Roberts, yn ol ein barn ni. Ac yr oedd y cynllun hwn yn fanteisiol i lafur yn y pregethwyr. Ni allasant fod yn segur, a phregethu un Sabbath yn y mis yn yr un lle, a dilyn eu galwedigaethau i gynnal eu teuluoedd. Yn Nghyfarfod Misol Glasinfryn, Hydref 18fed, 1847, y newidiwyd i'r Sabbath cyntaf o'r mis, yn lle y cyntaf ar ol y Cyfarfod Misol.

Rhagoriaeth arall perthynol i Fethodistiaid Môn, o'r ail gyfnod hyd ddechreu y pummed cyfnod, oedd, eu bod yn un yn adeiladaeth ac adgyweiriad eu capelau. Nis gwyddom y flwyddyn y dechreuodd yr undeb hwn; ond gwyddom ei fod yn bodoli yn y fl. 1787—can mlynedd yn ol; canys fe gadwyd Cyfarfod Misol yn y flwyddyn uchod, yn mis Mawrth, 25ain, yn Aberffraw; a derbyniwyd y swm o 11*p*. 7*s*. 6*c*. ynddo tuag at adgyweirio capel Llangristiolus. Parhaodd yr undeb hyd y cyfnod hwn; ond yn lled fuan yn y cyfnod presennol, torwyd ef. Y mae yn sicr i'r undeb dymunol hwn fod yn dra manteisiol i adeiladaeth capelau. Yr oedd yr eglwysi lliosocaf a chyfoethocaf yn cynnorthwyo yr eglwysi lleiaf a thlotaf i adeiladu lleoedd o addoliad. Credwn, ar yr un pryd, fod toriad yr undeb wedi troi yn fantais yn y cyfnod presennol.

Hefyd, rhagoriaeth gwir deilwng o grybwylliad oedd cynnorthwyo gŵŷr ieuaingc yn Athrofa y Bala, cyn bod yr un gronfa at hyny. Y cyntaf a aeth o Fôn i'r Bala oedd William Charles, o Gwalchmai; a chafodd foddion cynnaliaeth gan Gyfarfod Misol Môn, os nad ydym yn camgymmeryd. Yr oedd hyn yn y blynyddoedd olaf o'r trydydd cyfnod. Yr ail oedd John Pritchard, Amlwch; a chafodd yntau foddion cynnaliaeth anrhydeddus gan y Cyfarfod Misol. Yr oedd hyn yn nechreuad y pedwerydd cyfnod. Bu y caredigrwydd hwn yn gymmhorth iddo aros yn Môn hyd heddyw, yn ngwyneb temtasiynau cryfion i symmud. Nid oedd yr un Cyfarfod Misol yn Ngogledd Cymru, ar y pryd, yn gwneyd hyn, ond Cyfarfod Misol Môn. Môn ar y blaen yn hyn i'r holl siroedd eraill! Pan ymwelodd y Parchn. Henry Rees, Liverpool, a Lewis Edwards, M.A., Bala, â Chyfarfod Misol Môn, yr

hwn a gynnaliwyd yn Mryn du, Tachwedd 22ain, 1847, ymrwymodd y Cyfarfod Misol i roddi can punt yn flynyddol am bum mlynedd, yn chwanegol at yr hyn a roddai o'r blaen, ar yr ammod fod hawl gan y sir i anfon cynnifer a phump o ddynion ieuaingc i'r athrofa ar y pryd, os byddai yn dewis. Clywsom fod dadl boeth wedi cymmeryd lle yn Mryn du—rhai yn gwrthwynebu cais Rees ac Edwards; ond wedi'r cwbl, daeth y Cyfarfod Misol i benderfyniad haelionus tuag at yr athrofa. Dywedai Dr. Edwards, pan oedd cronfa yr athrofa yn cael ei gwneyd, pe buasai yr holl siroedd yn Ngogledd Cymru mor anrhydeddus tuag at eu myfyrwyr ag oedd sir Fôn, na buasai angen am y gronfa. Gwnaeth Môn, hefyd, ei rhan yn ogoneddus tuag at y gronfa.

Rhagoriaeth arall na ddylem ei anwybyddu yma ydyw haelfrydedd i gynnorthwyo eraill. Yr oedd ein hen dadau, mor foreu a'r fl. 1787, yn enwog yn y rhinwedd hwn. Crybwyllasom yn un o'r pennodau blaenorol fod deunaw eglwys wedi casglu i'r Parch. D. Jones, Llangan, a William Humphreys, y swm o 21*p*. 1*s*. 5*c*. Yn 1788, casglasant at gapel yn Liverpool y swm o 14*p*. 1*s*. 9*c*. Yn y fl. 1789, casglasant i Mrs. Davies, o Gastellnedd, y swm o 7*p*. 17*s*. 6*c*. Nid oes yr un o'r siroedd o'n blaen chwaith mewn cyfraniadau at y Cymdeithasau Beiblaidd a Chenhadol. Am y fl. 1887, yr oedd ein casgliad cenhadol yn 647*p*. 3*s*. 7*c*., pan nad oedd Arfon, gyda'i 15,111 o gymmunwyr, ond 655*p*. 0*s*. 5*c*.

Rhagoriaeth y teimlwn yn wirioneddol falch o hono ydyw, fod yr ynys wedi ei llenwi â chapelau Methodistaidd, a'r rhai hyny yn gapelau da—nid mor wych a drudfawr a chapelau rhai siroedd, ond yn rhai gwirioneddol dda, a rhai o honynt yn mhlith y dosbarth harddaf yn Nghymru, a'r ddyled yn fechan iawn, mewn cymmhariaeth. Yn ol ystadegau y flwyddyn 1887, nid oedd y ddyled ond 5,727*p*. 2*s*. 9*c*.

Perthyna rhagoriaeth arall i'n cyfundeb yn Môn; sef, yr awydd a'r ymdrech sydd yn yr aelodau a'r gwrandawyr i wrando pregethwyr dyeithr pan yn pregethu yr efengyl ar ddyddiau gwaith. Rhaid yw cyfaddef ein bod wedi myned yn ol yn hyn, mewn cymmhariaeth i'r hyn

oedd ein tadau yn y cyfnodau blaenorol; ond credwn, er hyny, nad oes yr un sir arall o'n blaen yn hyn, ond sir Aberteifi. Addefwn fod y ddiweddaf wedi dal ei thir yn hyn yn well na Môn, yn ol ein barn ni.

Rhagoriaeth arall perthynol i Fethodistiaid Môn ydyw y gefnogaeth a roddasant i achos sobrwydd. Credwn y caniatâ yr holl enwadau crefyddol eraill sydd yn yr ynys i ni ddweyd fod y Methodistiaid, fel cyfundeb, wedi bod ar y blaen iddynt gyda'r achos dirwestol yn ei wahanol ffurfiau. Rhoddodd y Cyfarfod Misol ei gefnogaeth iddo o'r dechreuad. Y ffurf cyntaf ar achos sobrwydd oedd Cymdeithas Cymmedroldeb. Daeth y cyfundeb yn Môn allan gyda'i holl ddylanwad o blaid y gymdeithas hono. Ymroddodd y gweinidogion, ac yn eu plith, John Elias, i areithio a phregethu o'i phlaid. Yr oedd yr holl enwadau crefyddol yn ddigon pleidiol i achos sobrwydd yn y ffurf hwn. Pan newidiodd ei ffurf—o Gymmedroldeb i Ddirwestiaeth, neu lwyr ymwrthodiad—ymgymmerodd y Methodistiaid âg ef yn y ffurf hwn yn lled fuan. Gwir i ambell un, ar y dechreu, deimlo ammharodrwydd i ymuno âg ef yn ei ffurf newydd. Pan y crybwyllwyd y peth i'r Parch. J. Elias, dywedodd yn benderfynol nad ymunai â'r gymdeithas; ond cyn pen ychydig wythnosau, daeth yn llwyr ymwrthodwr, a defnyddiodd ei ddylanwad a'i hyawdledd o'i phlaid. Yr oedd efe, fel y mab cyntaf yn nammeg y ddau fab, pan y dywedodd ei dad wrtho, 'Fy mab, dos, gweithia heddyw yn fy ngwinllan.' Ac yntau a attebodd, 'Nid af; ond wedi hyny, efe a edifarhaodd, ac a aeth.' Daeth corph yr eglwysi, a'r Cyfarfod Misol, yn bur fuan i'w gefnogi. Pan newidiodd achos sobrwydd ei ffurf drachefn, o Ddirwestiaeth i Demlyddiaeth Dda, ymgymmerodd corph mawr Methodistiaid Môn âg ef yn y ffurf diweddaf. Gwir i ambell un dramgwyddo wrth rai pethau oedd ynglŷn â Themlyddiaeth—pethau a ystyriai 'rhai perffaith, y rhai, o herwydd cynnefindra, y mae ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosbarthu drwg a da;' ac yn enwedig teganau a sylweddau—yn rhy blentynaidd. Gwnaeth lawer o ddaioni, er hyny; ond yr oedd rhai o'r gwrthwynebwyr, yn gystal dirwestwyr a ninnau oeddym yn Demlwyr da. Y mae y Cyfarfod Misol yn

parhau i gefnogi llwyr-ymwrthodiad oddi wrth ddiodydd meddwol. Nid ydyw dirwestiaeth yn ammod aelodaeth eglwysig, nac yn ammod swyddogaeth eglwysig; ond amcenir cael ein holl aelodau yn ddirwestwyr, a gofynir i bob swyddog a dderbynir i'r Cyfarfod Misol a ydyw efe yn llwyr-ymwrthodwr; ac os na bydd efe, ceisir ei ennill i addaw dyfod yn ddirwestwr. Ceir ymdriniaeth dda ar lwyr-ymwrthodiad, weithiau, yn y Cyfarfodydd Misol. Y mae lle i ofni fod llawer o'n haelodau heb fod, ac ambell un o'n blaenoriaid, heb fod. Credwn nad oes gymmaint ag un o'n gweinidogion, yn y pummed cyfnod, heb fod. Pa fodd bynag, gallwn ddywedyd yn ddibetrus fod holl weinidogion Methodistaidd Môn, yn y cyfnod presennol, uwch law ammheuaeth o fod yn cellwair â'r ddiod feddwol, ac hefyd o fynychu tafarndai. Gobeithiwn na bydd i Fethodistiaid Môn byth syrthio o dan yr un felldith a Meros—'Melldigwch Meros, eb angel yr Arglwydd, gan felldigo melldigwch ei thrigolion, am na ddaethant allan yn gynnorthwy i'r Arglwydd, yn gynnorthwy i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn.' Ychydig sydd yn dilyn y diota a'r gyfeddach yn y ffeiriau a'r marchnadoedd. 'Deuwch allan o'u canol, ac ymddidolwch, medd yr Arglwydd.'

Yn y pummed cyfnod, dechreuodd Methodistiaid Môn gadw Cymmanfaoedd Canu—un yn mhob dosbarth. Yr arweinydd yn y cyfarfodydd hyn, ar y cyntaf, oedd y Parch. John Roberts (*Ieuan Gwyllt*). Bu y gŵr hwn o ddefnydd mawr gyda'r rhan hon o wasanaeth Duw, er nad oedd yn byw yn yr ynys. Bu yn offeryn i roddi cychwyniad newydd i gerddoriaeth y cyssegr—nid yn unig yn Môn, ond hefyd yn holl siroedd Cymru. Dygodd i arferiad dônau o natur wahanol i'r rhai a genid yn Môn yn amser William Hughes, Llandrygarn—tônau yn llawn teimlad; ac yn fwy cyfaddas, yn ol ein barn ni, i'r addoliad dwyfol. Credwn fod 'y Gwyllt' yn rhagori mewn dealltwriaeth cerddorol; ond fod William Hughes yn rhagori, o'r ochr arall, mewn llais cerddorol; a bod detholiad Ieuan Gwyllt o dônau i'w canu yn yr addoliad dwyfol yn rhagori ar yr eiddo William Hughes. Wedi marwolaeth y Gwyllt, D. Jenkins, *Mus. Bac.*, Can-

tab, Aberystwyth, sydd wedi bod yn arweinydd yn y rhan fwyaf o'r cymmanfaoedd canu, ac yn yr oll yn y dosbarth gogleddol. Y mae John Thomas, Llanwrtyd, wedi bod yn rhai o'r dosbarthiadau eraill; ac ystyrir y ddau yn arweinyddion galluog. Cafwyd rhai cymmanfaoedd canu yn y cyfnod hwn o dan eneiniad amlwg o'r nefoedd.

Rhagoriaeth arall perthynol i Fethodistiaid Môn ydyw eu bod yn cynnal Cymmanfa Flynyddol yn yr haf i bregethu yr efengyl. Hon ydyw Sassiwn Môn mewn gwirionedd. Yn y trydydd cyfnod, nid oedd y Gymdeithasfa Chwarterol yn arfer dyfod i Fôn; ond byddai yr un chwarterol yn rhoddi awdurdod i'r un flynyddol i dderbyn pregethwyr. Ystyrid pregethwyr wedi eu derbyn yn Sassiwn flynyddol Môn yn bregethwyr i'r holl gorph. Yn y pedwerydd cyfnod y dechreuodd y Gymdeithasfa Chwarterol dalu ymweliad â Môn. Os digwydd hono ddyfod i'r sir yn y gauaf, neu yn y gwanwyn, cynnelir hefyd y Sassiwn haf; ac felly, bydd dwy Sassiwn yn Môn yn yr un flwyddyn. Nid oes gan Sassiwn flynyddol Môn fwy o awdurdod yn bresennol na Chyfarfod Misol. Gwahoddir dyeithriaid i'w chynnal hi; a phregethir yn yr awyr agored, os bydd y tywydd yn caniatau, i filoedd o bobl. Am rai blynyddoedd yn y trydydd cyfnod, cynnelid dwy Gymmanfa yn Môn yn flynyddol; sef, un yn mis Mehefin, ac un yn mis Medi, ar ol Cymdeithasfa sir Gaernarfon. Cynnelid yr un yn Mehefin, fel rheol, yn Amlwch, Llanerchymedd, a Llangefni; a'r un yn Medi yn Beaumaris a Chaergybi. Fel rheol, y mae'r Sassiwn Haf yn y pummed cyfnod yn cael ei chynnal yn ei thro yn y tri lle cyntaf; a'r Gymdeithasfa Chwarterol, pan yr ymwêl hi â'r ynys yn y gauaf a'r gwanwyn, yn cael ei chynnal yn ei thro yn Beaumaris, Porthaethwy, a Chaergybi.

Peth arall canmoladwy yn Methodistiaid Môn yn y pummed cyfnod ydyw, eu bod yn gwneyd casgliad yn yr holl gynnulleidfaoedd, unwaith yn y flwyddyn, i gynnorthwyo lleoedd pur weiniaid—megys, y Babell, Bodafon, Mynydd Parys, Rhosneigr, Beulah, Ty'n-y-maen, &c. Nid yw y cynnorthwy ond bychan; etto, y mae efe yn yr iawn gyfeiriad—y rhai cryfion yn cynnorthwyo y rhai gweiniaid i ddwyn eu beichiau; a thrwy hyny, y maent

'yn cyflawni cyfraith Crist.' Credwn y dylai mwy gael ei wneyd yn y ffordd hon. Gwneir casgliadau hefyd yn y cynnulleidfaoedd i gynnorthwyo lleoedd gweiniaid i adeiladu capelau newyddion. Ni bydd yr holl gasgliad ond bychan; etto, bydd yn calonogi y gweiniaid i weithio, ac yn gymmhelliad iddynt ar y dechreu i ymgymmeryd â'r anturiaeth. Pan y cymmer rhyw un gweinidog y cyfrifoldeb o ddwyn y casgliad i sylw y cynnulleidfaoedd, bydd y swm yn agos i'r peth y disgwylid iddo fod—ac y dylai fod; ond heb hyny, lled fychan fydd.

Un o neillduolion perthynol i Fethodistiaid Môn ydyw eu bod, fel corph, yn hollol ryddfrydig o blaid Cydraddoldeb Crefyddol. Fe allai y ceir ychydig o eithriadau yn mysg y blaenoriaid a'r aelodau; a gŵyr eu cymmydogion yn eithaf da paham y maent yn eithriadau; ond credwn na cheir cymmaint ag un eithriad yn mysg gweinidogion yr oes hon. Ac nid ydym yn gwybod ond am un gweinidog yn eithriad yn y cyfnodau blaenorol; sef, y Parch. John Elias. Yr oedd corph Methodistiaid Môn yn Rhyddfrydwyr y pryd hwnw; ond yr oedd Elias yn Dori; a ffromodd yn aruthr o herwydd Rhyddfrydiaeth Methodistiaid Môn. Ffôl-dybia rhai, gan mai Tori oedd Elias, fod yn rhaid mai Toriaid oedd holl Fethodistiaid Môn. Nage: eithriad oedd Elias ei hun; a'r gweinidogion a'r blaenoriaid, y mwyafrif mawr o honynt, yn hollol wahanol iddo. Nid ydym yn rhyfeddu ei fod ef yn Geidwadwr, gan ei fod yn edrych ar bethau yn y goleuni yr oedd efe. Buom, y dyddiau diweddaf, yn darllen ei lythyrau ar y pryd at un o'i gyfeillion penaf, yn y rhai y ceir ei syniadau a'i deimladau mewn canlyniad i'r anghydwelediad oedd rhyngddo â'i frodyr yn Môn. Credwn fod Elias yn Dori cydwybodol yr adeg hono; ac y buasai yn Rhyddfrydwr llawn mor gydwybodol yn awr, pe yn fyw—ar yr un egwyddor ag yr oedd efe yn Dori y pryd hwnw. Wrth ddarllen ei lythyrau, ymddengys i ni nad oedd ganddo un math o syniad fod cydraddoldeb crefyddol yn bossibl, ond mai rhaid ydoedd i'r Eglwys Esgobaethol Brotestanaidd, neu yr Eglwys Babaidd, fod mewn cyssylltiad â'r wladwriaeth. Yr oedd yr ymrysonfa am yr uwchafiaeth yn y deyrnas hon rhwng y ddwy eglwys

hyn. A chan fod y Rhyddfrydwyr o blaid rhyddfreiniad y Pabyddion, edrychai Elias arnynt fel amddiffynwyr yr Eglwys Babaidd, ac fel pleidwyr iddi fod mewn cyssylltiad â'r wladwriaeth; yr hyn oedd yn gyfeiliornus ynddo. Gan ei fod yn edrych ar bethau yn y goleuni hwn, nid rhyfedd ei fod yn Dori cydwybodol. Edrychai ar Eglwys Loegr fel gwrthglawdd yn erbyn Pabyddiaeth. Pe yr edrychem ninnau ar bethau yn yr un goleuni ag yr edrychai Elias arnynt, byddem yn gymmaint o Dorïaid ag oedd yntau. Syniad y Methodistiaid fel corph oedd, ac ydyw, 'Eiddo Cesar i Cesar, a'r eiddo Duw i Dduw.' Ysgar y ddwy eglwys am byth oddi wrth y llywodraeth —yr eglwys i lywodraethu ei hun, a'r llywodraeth wladol i beidio ymyraeth â chrefydd ei deiliaid, ond amddiffyn rhyddid y deiliaid i grefydda yn ol cyfarwyddyd eu cydwybodau, ydyw syniad Methodistiaid y cyfnod hwn. Pe buasai Elias yn fyw yn awr, gwelsai mai Eglwys Sefydledig Lloegr yw meithrinfa Pabyddiaeth y deyrnas; canys dywed y Pabyddion eu hunain fod offeiriaid yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr yn gwneuthur eu gwaith hwy; sef, yn Pabyddio y deyrnas. Ymrysonfa rhwng y Pabyddion a'r Protestaniaid am uwchafiaeth ac awdurdod yn y deyrnas oedd yr ymrafael oedd rhwng y Rhyddfrydwyr a'r Torïaid, yn ol barn Elias; ac y mae amser wedi profi ei fod ef yn gyfeiliornus. Yn bresennol, y mae yr holl ymryson rhwng dwy egwyddor; sef, uwchafiaeth un eglwys, a chydraddoldeb holl eglwysi y deyrnas. Pe buasai uwchafiaeth Eglwys Rhufain ar holl eglwysi Cristionogol y deyrnas yn un o egwyddorion Rhyddfrydwyr, buasem yn cyhoeddi ein hunain yn Dorïaid yn y fan; ond gan mai un o egwyddorion y blaid Ryddfrydig yw cydraddoldeb crefyddol, yr ydym, fel corph o Fethodistiaid yn Môn, yn Rhyddfrydwyr i'r carn yn y peth hwn, ac yn cyhoeddi â llef uchel, fod Methodistiaeth a Thorïaeth yr oes hon, yn eu perthynas â chyssylltiad crefydd â'r wladwriaeth, yn berffaith anghysson â'u gilydd. Y mae yn rhaid fod ein tadau yn Rhyddfrydwyr cydwybodol, gan iddynt sefyll yn erbyn dyn o ddylanwad Elias. Buasai yn well ganddynt golli Elias, er yr holl barch oedd ganddynt iddo, nag aberthu eu cydwybodolrwydd i'r hyn a

ystyrient yn iawn. Y mae yn wirionedd, nad ydym yn ymyraeth â gwlad-lywyddiaeth yn ein cyfarfodydd crefyddol, ond annog ein gilydd i weithredu yn gydwybodol yn mhob etholiad. Ond fel gwladwyr, yr ydym yn defnyddio ein hawliau, tu allan i'r cylch eglwysig, i addysgu ein cydwladwyr yn yr egwyddorion gwleidyddol goreu, yn ol ein barn ni. Nid fel Methodistiaid y trethir ni, ond fel gwladwyr. A'r un modd, nid fel Methodistiaid y byddwn yn ymyraeth â *pholitics*, ond fel gwladwyr. Byddwn fel Methodistiaid yn condemnio rhyfeloedd anghyfiawn, yn gystal ag fel gwladwyr. Yr un modd yr ydym, fel Methodistiaid, yn gystal ag fel gwladwyr, yn condemnio undeb yr Eglwys â'r wladwriaeth. Yr ydym yn dra sicr ein bod yn dadgan barn a theimlad corph mawr Methodistiaid Môn wrth ddyweyd fel hyn. Credwn mai teg â Methodistiaid Môn yn y cyfnodau blaenorol, ac yn y cyfnod presennol, ydyw gwneyd y cyfeiriad hwn at yr anghydfod a fu rhwng ein hanwyl frawd a'n tad, y Parch. John Elias, a'i frodyr, yn y trydydd cyfnod. Nid ydyw Methodistiaid Môn yn teimlo eu bod yn rhwym i ddilyn Elias, mwy na rhyw ddyn arall. Y mae genym barch dwfn i'w goffadwriaeth; ond gwyddom mai gŵr ffaeledig oedd. Ond yr oedd bob amser yn gydwybodol —ïe, hyd yn oed pan yr oedd yn methu. Bu mor wrthwynebol i bethau eraill ag y bu i Ryddfrydiaeth; ond newidiodd ei farn o berthynas iddynt wedi cael goleuni newydd. Credwn, pe y buasai yn fyw, y buasai Pabyddiaeth yr Eglwys yn yr oes hon yn ei wneyd ef yn dân ysol yn ei herbyn, ac o blaid dadgyssylltiad a dadwaddoliad.

Wedi bod yn edrych ar yr ochr oleu i Fethodistiaeth Môn, gadawer i ni fod yn ddigon ëofn i droi i edrych ar yr ochr dywyll sydd iddi. Fel y mae ganddi ei rhagoriaethau, felly y mae ganddi ei diffygion. Nid ydyw etto wedi cyrhaedd perffeithrwydd. Ein hamcan wrth alw sylw ein gilydd at ein diffygion ydyw cymmhell y naill y llall i ymberffeithio. Y mae Methodistiaeth, mewn rhai ardaloedd yn Môn, wedi colli tir mewn ymddangosiad, yn hytrach nag ennill tir, yn y cyfnod hwn:—y cynnulleidfaoedd yn llai ar foreu Sabbothau mewn cymmhariaeth i'r hyn oeddynt yn y cyfnod blaenorol, ac y gallent fod yn

yr un presennol, yn ol nifer yr aelodau eglwysig; y cyfarfodydd ar ddyddiau gwaith heb fod mor boblogaidd ag y buont; y cyfarfodydd gweddïau a'r cyfarfodydd eglwysig ddim mor liosog; a'r cynnulleidfaoedd fydd yn gwrando pregethwyr dyeithr ddim yn agos gymmaint ag oeddynt yn y cyfnod blaenorol. Mewn ardaloedd eraill, y mae Methodistiaeth yn dal ei thir; ac mewn rhai manau, yn chwanegu cryfder, ac yn ennill tir newydd. Gellir rhoddi cyfrif am leihâd rhai cynnulleidfaoedd, heb ystyried fod Methodistiaeth yn y cylch yn lleihau; sef, trwy liosogiad capelau, ffurfiad eglwysi newyddion yn y dosbarth, a lleihâd y boblogaeth. Rhag i'r un gelyn gael asgwrn i'w gnoi, credwn y ceir cymmaint o wrandawyr yn ein capelau ar nos Sabbothau ag a geir yn yr holl eglwysi plwyfol, a'r capelau Ymneillduol perthynol i'r enwadau eraill, gyda'u gilydd. Yr oedd nifer ein gwrandawyr, yn ol yr ystadegau am y fl. 1887, yn 20,814.

Y mae lle i ofni ein bod yn dirywio mewn crefydd deuluaidd. Yr oedd ein tadau, yn y cyfnodau blaenorol, yn enwog yn y rhan yma o wasanaeth Duw; ond y mae arwyddion yn ymddangos ein bod ni, eu plant, yn y cyfnod hwn yn myned yn ol, ac nid yn mlaen, mewn crefydd deuluaidd. Gellir priodoli yr annybendod sydd mewn llawer o'n haelodau i gymmeryd rhan yn ein cyfarfodydd gweddïau i ddirywiad yn y cyfeiriad hwn.

Y mae Methodistiaeth Môn yn y cyfnod hwn yn llacach wrth dderbyn aelodau i'r eglwys, ac wrth ddysgyblu am droseddu ei rheolau, nag ydoedd yn y cyfnodau blaenorol. Ni dderbyniai ein tadau aelodau i'r eglwys heb arwyddion ynddynt o argyhoeddiad o, ac edifeirwch am bechod, a ffydd yn Iesu Grist. A dyma y cymmhwysderau gofynol yn y Testament Newydd i fod mewn ymgeiswyr am aelodaeth yn eglwys Dduw. Iaith rhan o Fethodistiaeth yn y cyfnod presennol yw, 'Deuwch ataf fi, bawb.' Ond iaith Methodistiaeth yn y cyfnodau blaenorol oedd, 'Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog.' Wedi llacau wrth dderbyn i mewn, anghenrhaid oedd llacau mewn dysgyblaeth. Fe allai fod ein tadau yn edrych ar ymddygiadau diniwed yn ddrygau; ond a ydym ninnau yn peidio edrych ar ddrygau yn ddiniwed?

Diffyg mawr yn y cyfnod hwn, mewn rhai eglwysi yn Môn, ydyw diffyg bugeiliaeth briodol. Wrth fugeiliaeth y golygwn, nid yn unig wasanaeth gweinidog cyflogedig, ond fod yr eglwys yn cael ei phorthi â gwybodaeth ac â deall; y cleifion a'r methiantus yn cael ymweled â hwynt; y crwydriaid yn cael chwilio am danynt; a'r bobl ieuaingc, a'r plant, yn cael eu haddysgu. Dyma yw gwir fugeiliaeth. A oes rhyw Fethodist yn Môn yn wrthwynebydd i fugeiliaeth yn yr ystyr yma? Os oes, nid yw yn deilwng o'r enw 'Methodist.' Credwn fod eglwysi yn ein hynys yn cael cam dirfawr o ddiffyg bugeiliaeth briodol o'r fath. Mewn rhai eglwysi, nid oes swyddogion cymmhwys i'r holl waith bugeiliol. Y maent yn ddiaconiaid da, ond yn ddiffygiol mewn cymmhwysderau henaduriaethol i fod yn arweinyddion i'r bobl ieuaingc, os nad i borthi corph yr eglwys â gwybodaeth ac â deall. Mewn eglwysi eraill, y mae blaenoriaid galluog; ond nis gallant fforddio amser i fugeilio yr eglwysi, yn ol y darnodiad a roddasom o fugeiliaeth. Pa beth a ddylid wneuthur yn ngwyneb hyn? Ai gadael i'r eglwysi gael cam? Nagê: os na wnewch chwi, y blaenoriaid, y gwaith yn effeithiol, chwiliwch am frawd i lwyr ymroddi i'r gwaith—heb fod ganddo ddim i'w wneyd ond gwasanaethu yr eglwys yn y pethau nad yw eich amgylchiadau yn caniatau i chwi ei wneuthur, pe byddai genych yr holl gymmhwysderau gofynol at y gwaith. A mynwch waith ganddo—onid ê, bydded yn ŵr rhydd, fel chwithau. Frodyr! y rhai ydych wedi eich galw gan yr eglwysi i'w bugeilio, gwnewch eich gwaith yn dda. Gofelwch am eich gwinllanoedd eich hunain, pe y colledech winllanoedd pobl eraill wrth wneyd. Frodyr!—ninnau y rhai ydym heb fod mewn cyssylltiad bugeiliol âg unrhyw eglwys—cymmerwn ofal rhag dywedyd gair isel am y fugeiliaeth; ond gadawn iddi gael pob chwareu teg, 'o blegid, os o ddynion y mae...hi a ddiddymir; eithr os o Dduw y mae, ni allwn ni ei diddymu, rhag ein cael yn ymladd yn erbyn Duw.'

DIWEDD.

AMLWCH, ARGRAPHWYD GAN D. JONES.

DANGOSEG.

TUDAL.

Aberffraw.....37-88-249-315
Amlwch (Bethesda).....40-73-133-229-292

Babell.....340
Beaumaris.....44-98-166-262-333
Beaumaris (Saesneg).....344
Bethel a Thre Ddafydd....87-155-250-317
Bodedern.....82-146-242-309
Bodafon (Salem a Chaer-salem).....177-267-340
Bodffordd (Gad).....254-326
Bryn du.....83-151-248-315
Brynsiencyn.....33-85-161-257-329
Bryntwrog.....321
Bryn-yr-efail (Lleugwy).....42-268
Bryngwran (Hebron).....153-248-314
Bryan, William, Beaumaris.....167
Bulkeley, Richard, Hendy.....121
Bulkeley, William, Brynddu.....23-31
Beulah.....315
Burwen.....137-231-296

Cana.....251-319
Carmel.....139-140-238-305
Caergeiliog.....39-72-247-314
Caergybi (Hyfrydle).....38-84-148-243-310
Caergybi (Armenia).....246-312
Caergybi (Ebenezer, Kingstown).....148-246-312
Caergybi (Bethphage, Llaingoch).....150-244-313
Caergybi (Saesneg).....345
Careg lefn (Bethlehem)....72-132-235-302
Cefn bach.....258-330
Cefn iwrch.....266-321
Cemmaes (Bethesda).....72-129-232-298
Cemlyn (Siloam).....235-302
Charles, Hugh, Tŷ mawr.....201
Charles, Parch. D., Gwalchmai 251-277
Charles, Parch. John, etto....154-194-227
Charles, Parch. John, Penhescyn 176-275
Charles, Parch. Thomas, B.A., Bala.....17-25-94-112-138
Charles, William, Gwalchmai...155-204

TUDAL.

Dothan.....252-317
Dwyran.....86-160-257-328
Davies, Parch. David, Caergybi 202-243
Davies, Parch. Ebenezer, Llanerchymedd.....139-226-273
Davies, Parch. Griffith, Nebo....139-195
Davies, John, Niwbwrch.....32-63
Dafydd, Richard W., Abertawe.....23
Dafydd, Richard, Amlwch a Phant-y-coli.....52-111
Davies, Richard, Llangefni..179-212-251
Davies, Richard, Arglwydd Raglaw Môn.....260-332-343
Davies, Robert, Ysw., Bodlondeb...343
Dafydd, Robert, Yr Hen Siop, Capel coch.....41
Dafydd, William, Parc bach.....216
Dew, Samuel, Porthaethwy.....255-352
Donne, Parch. James, Llangefni....255

Elim.....142-238-306
Edwards, Griffith a Mrs., Clafdy 118-124
Edwards, John, Tre'r dryw.....96-116
Edwards, M., Careg gam, a'i fam..30-67
Edwards, Parch. R., Llanfechell.....234-300-363
Edwards, Robert, Glan gors ddu....251
Elias, Parch. David, Pentraeth..196-227
Elias, Parch. John, Llangefni.72-127-183
Elias, John, Tre'r gôf.....130-286
Ellis, Henry Solomon, Elim.....349
Evans, Parch. D. C., Porthaethwy..360
Evans, Parch. Ebenezer, Bodedern.....146-358
Evans, John, Bodedern.....196
Evans, Lewis, Llanllugan.....37
Evans, Manuel, Ty'n llwyn.....116
Evans, Roger, Porthaethwy.....260 351
Evans, Thomas, Aberffraw.....89-211
Evans, William, Aberffraw.....88-116

Foulks, Parch. Ellis, Amlwch...230-275
Frazer, Parch. Simon A., Rhoscolyn.....244-361

TUDAL.

Gaerwen a Llanddaniel.35-97-162-255-326
Glasinfryn a Waeneura.47-103-174-265-337
Gorslwyd.....107-138-237-304
Gwalchmai.....89-154-251-316.
Gwredog, Amlwch.....295
Griffith, Evan, Chwaen hen.....51
Griffith, Hugh, Llanddaniel.....28-50
Griffith, Parch. Wm., Brynsiencyn..278
Gray, Parch. Thomas, Llandegfan..261

Harris, Howel, Trefecca...30-41-45-47-48
Hillier, Parch. Joseph, Beaumaris..362
Hughes, Parch. D., Llangristiolus..276
Hughes, Edward, Elim.....214
Hughes, Hugh, Cefn mawr..158-256-281
Hughes, Humphrey, Bethel.....250-348
Hughes, Parch. H., Beaumaris..262-272
Hughes, Hugh, Tŷ newydd.....158-219
Hughes, Parch. John R., Bryn-teg.....266-359
Hughes, John, Llyslew.....329-355
Hughes, John, Nebo.....271
Hughes, John, yr Allt.....119
Hughes, Parch. John, Liverpool.....25
Hughes, Dr. John, Liverpool....238-260
Hughes, Parch. O., Caergybi.270-312-361
Hughes, Owen, Llandrygarn.....141
Hughes, Owen, Ty'n-y-maen.143-240-281
Hughes, Owen, Cefn dderwen.....60
Hughes, Richard, Coedana.....60
Hughes, R., Llain wen, Bodafon..43-75
Hughes, Rice, Treferwydd a Bodafon.....85-119
Hughes, Robert, Gad.....197
Hughes, Parch. Robert, Gaerwen.....135-162-291-358
Hughes, William, Llandrygarn..141-222
Hughes, Parch. W., Tabernacl.....360

Iard (Sardis).....156-249-318

Jones, Parch. David, Llangan....99-111
Jones, Parch. D., Dwyran.86-160-192-227
Jones, Edward, Pendref.....59
Jones, Parch. E., Porth Amlwch....348
Jones, G., Cefn-dwy-ffrwd....74-107-220
Jones, Hugh, yr Hafod.....93-206
Jones, Hugh, Tyddyn melus.....121
Jones, Parch. Hugh, Llanerch-ymedd.....75-139-273
Jones, Parch. Hugh, Amlwch 232-238-293
Jones, Parch. H., Caergybi 149-167-243-272

TUDAL.

Jones, Parch. Hugh, Bryn du....314-365
Jones, Parch. H., Beaumaris.....347
Jones, Parch. J. R., Llangristiolus.....319-364
Jones, John a Mrs., Bodynolwyn.....70-77-113-124-126
Jones, Parch. John, Amlwch.....73,114
Jones, Parch. John, Bethania....159-199
Jones, John, Llangwyfan.....211
Jones, Parch. Joseph, Porthaethwy.359
Jones, Parch. Morris O., etto....336-365
Jones, Owen, Niwbwrch.....63
Jones, Owen, Cwyrt.....85-97-119
Jones, R., Brynsiencyn (Rhoslan)..34-60
Jones, Robert, Gwrach ddu.....162-207
Jones, Parch. R. Ch., Llanfair P. G. 363
Jones, Robert, Bryn maethlu 144-240-284
Jones, Robert, Amlwch.....135-282
Jones, Parch. Rees, Browyr.....204
Jones, Parch. Robert, Caergybi..243-346
Jones, Richard, Niwbwrch.....32-37-51
Jones, Richard, Llanfaethlu.....143-213
Jones, Richard (1), Caergybi.....39-64
Jones, Richard (2), Caergybi.....148-210
Jones, Parch. Richard, Nebo....341-363
Jones, R., Pen-y-garnedd....104-171-211
Jones, Thomas, Amlwch.....80-197-228
Jones, Thomas, Llanddaniel.....117
Jones, Thomas, Tŷ croes.....198
Jones, Parch. William, Dwyran..257-278
Jones, Parch. Wm., Niwbwrch..256-363
Jones, Parch. Wm. R., Caergybi 311-362
Jones, William, Carmel.....209-238
Jones, William, Llanfair P. G...259-354
Jones, Parch. Wm., Tyddyn Watcyn 361

Llaeth-tŷ-bach.....295
Llanallgo.....105-177-268-339
Llandegfan (Barachia).....164-261-333
Llandrygarn (Pentrebwäau a Seion.....76-141-253-306
Llanerchymedd.....45-74-138-237-304
Llaneilian (Seilo).....181-271-342
Llanfachreth (Abarim).....241-308
Llanfaethlu.....144-240-307
Llanfair-yn-Nghornwy (Salem)..235-302
Llanfair P. G.....97-162-259-330
Llanfechell (Libanus).....31-130-233-300
Llanfwrog.....80-146-241-308
Llanrhyddlad (Bethel hen).....30-71-127-234-301
Llanddona (Peniel).....104-171-263-33

TUDAL.

Llangoed.....99-167-262-334
Llangefni.....94-178-254-322
Llangaffo (Bethania).....158-256-327
Llangristiolus.....36-87-157-250-319
Llangwyllog (Gosen).....92-179-253-320
Lewis, Parch. Bailey, D.D., Esgob Bangor.....18
Lewis, Owen, Fferam isaf.....72-120
Lewis, Parch. Thomas John Jones, Llangefni.....323-365
Lewis, Richard, Bodedern.....242-287
Lewis, Thomas, A.S.....323
Lewis, William, Glasinfryn.....44-57
Lloyd, Parch. Richard (1) Beaumaris.....90-99-185
Lloyd, Parch. Richard (2).....319-364
Lloyd, Rees, Treflasg.....147-206
Lloyd, Parch. William, Rhoscolyn.....83-117

Minffordd.....25
Moriah.....129-299
Mynydd Mechell (Jerusalem) 131-233-300
Mynydd Parys.....304
Morris, Dafydd, Twrgwyn.....44-46
Morris, — Tyddyn bach.....67
Morris, Richard, Llanfair P. G.....117
Morsley, — Careg lefn.....30-67
Morgan, Parch. T. L., Beaumaris...365

Nebo a Bozrah.....180-270-341
Niwbwrch.....32-85-159-256-328

Owens, Hugh, Llanallgo.....348
Owens, Griffith, Caergybi.....84-120
Owens, Ebenezer, Bethlehem.....349
Owens, Hugh, Cemmaes.....193
Owens, John, Fferam isaf.....72-208
Owens, John, Cerygddewi.....228-253
Owens, Parch. John, Dublin.....364
Owens, John, Plas, Llangwyfan....122
Owens, Owen, Amlwch.....115
Owens, Parch. R., Pen-y-garnedd 264-361
Owens, Parch. Richard, Cana...250-374
Owens, Rowland, Glantraeth.....64
Owens, Thomas, Penhescyn 172-260-214
Owens, Parch. T., Llangefni.....178-198
Owens, William, Ysgubor onwy....220
Owens, William, Chwaen wen...77-221
Owens, William T., Fagwyr.....20-62
Owens, Parch. W. G., Caergybi.....361
Owens, Parch. Owen, Bethel.....347

TUDAL.

Parc a Phen-y-graig-wen.107-180-269-340
Pen-y-garnedd.....104-171-264-336
Pen-y-mynydd (Gilead).....260-331
Pen-y-sarn (Lledtroed).....106-180-341
Pen-y-sarn (Berw).....263-324
Pen-uchel-dref.....263-335
Pentraeth (Nazareth).....173-264-337
Penrhosfeilw.....147-311
Porth Amlwch (Peniel)..... 136-231-296
Porthaethwy.....163-260-332
Porthaethwy (Seisnig).....343
Parry, Edward, Caergybi 146-243-247-283
Parry, Griffith, Caergybi.....149-216
Parry, Parch. John, Caergybi 84-86-115
Parry, Parch. Owen, Cefn bach .330-364
Parry, Robert, Aberffraw.....64
Parry, Parch. R., Llandudno.....24-140
Pierce, Robert, Caergeiliog.....65
Price, Owen, Cafnan.....232
Price, Richard, Cafnan.....232-353
Pritchard, Elizabeth, Cae'rgoll.....125
Pritchard, Parch. Hugh, Hebron.305-366
Pritchard, Parch. J., Amlwch 230-294-296
Pritchard, John, Ty'n-yr-onen...253-280
Pritchard, Thomas, Tŷ gwyn.....19
Pritchard, William, Clwchdernog 20-23
Pritchard, Parch. W., Pentraeth.337-364
Prytherch, Elizabeth.....125
Prytherch, Parch. J., Dyffryn gwyn, Pen-y-mynydd.....178-193-227
Phillips, Parch. John, Brynteg.....274
Phillips, Parch. Daniel, Pwllheli.....24
Phabby, Thomas, Tŷ du.....60-162

Rhosbeirio.....236-303
Rees, Lewis, Llanbrynmair.....25
Rhosnegir (Paran).....152-248-316
Rhoscolyn.....83-242-313
Rees, Parch. Thos., D.D., Abertawe..24
Rowlands, Parch. D., Llangeitho..29-45
Rowlands, Parch. D., M.A., Llangefni 255
Rowlands, John, Ceryg llithir.....43-65
Rowlands, Owen, Amlwch.....199
Rowlands, Owen, Hebron.....199
Rowlands, Owen Thomas.....42-124
Rondol, Catrin.....113-124
Roberts, D., Mynydd-y-gôf.....146-279
Roberts, Parch. D., Gwalchmai.250-358
Roberts, Griffith, Cefn du.....162-287
Roberts, Parch. John, Tai hen ..233-360
Roberts, Parch. J., Llanerchymedd 279

TUDAL.

Roberts, John, Erw ddraenog.....34-74
Roberts, Parch. Richard, Llanerchymedd.....139-276
Roberts, Thomas, Llanerchymedd...49
Roberts, Parch. William Amlwch.....76-133-188-225
Roberts, William, Amlwch.....55-276
Roberts, Parch. W., Caergybi.....149
Roberts, William, Tai hen.....129-285
Roberts, William, Cae'rgors.....171-215
Roberts, Parch. W., Careg lefn.....365
Roberts, Parch. W., Tŷ mawr.....360

Soar.....155-318

Tabernacl a Thy'n-y-gongl...175-265-338
Talwrn.....96-178-266-322
Tŷ mawr.....41-43-74-178-267-340
Ty'n-y-maen.....77-143-239-307
Thomas, Parch. Evan, Caergybi.243-346
Thomas, Evan, Amlwch.....73-88-123
Thomas, John, Llanfwrog.....80-123
Thomas, Michael, Garnan wen.....59
Thomas, Harri, Tŷ gwyn.....26-29-62
Thomas, Howel, Tŷ gwyn.....20-29-62
Thomas, Benjamin, Deheudir.....25
Thomas, Thomas, Tŷ gwyn.....20-29-62
Thomas, Richard, Llanfechell.....27-49
Thomas, Richard, Amlwch.....115
Thomas, Parch. John, Aberffraw...365
Thomas, Owen, Gwalchmai.....154-210
Traeth coch (Saron).....339

Valley (Tabor).....147-242-309

TUDAL.

Williams, Owen ac Anne, Tai cochion.....33-64
Williams, Anne, Plas Goronwy,....125
Williams, Parch. C., Penceint 151-187-227
Williams, Parch. Griffith Llanfachreth.....233-242-275
Williams, Hugh, Bethel.....250-350
Williams, Parch. H., Gwalchmai.252-363
Williams, Parch. J., Llangefni..238-360
Williams, Parch. J., Dwyran.....363
Williams, Parch. J., Brynsiencyn.329-365
Williams, Parch. John, Amlwch.230-362
Williams, Parch. John V., Llanrhyddlad.....313-364
Williams, Parch. Owen, Llanrhyddlad.....255-277
Williams, Owen, Monachlog.....218
Williams, Parch. Owen, Bethel.....364
Williams, Owen, Nebo.....348
Williams, Parch. R., Gorslwyd.....200
Williams, Parch. Peter.....28-32-42
Williams, Parch. Richard, Gosen.270-362
Williams, Thomas ac Elin, Pentre-bwäau.....67-48-123
Williams, Thomas, Pwll-yr-hwyaid..63
Williams, William, Llanfachreth...200
Williams, Parch. W., Bryn du.....200
Williams, William, Bethel.....209
Williams, William, Garnan goch....221
Williams, Parch. W., Tŷ calch.....274
Williams, Parch. W. O., Tŷ mawr..178
Williams, Owen, Capel coch.....349
Williams, Richard, Cleiflog.....354

DIWEDD.

ERRATA.

Tudal. 76—llinell 26: yn lle 1782, darllener '1792.'
—— 96—llinell 30: yn lle ä'i, darllener 'âi.'
—— 145—llinell 3: yn lle 54ain, darllener '56ain.'
—— 207—llinell 24: yn lle 64ain, darllener '69ain.'
—— 209—llinell 32: yn lle 1857, darllener '1855.'
—— 213—llinell 28: yn lle 1775, darllener '1783.'
—— 215—llinell 16: yn lle 1855, darllener '1852.'
—— 221—llinell 24: yn lle 64ain, darllener '68ain.'
—— 245—llinell 8: yn lle ä'i, darllener 'âi.'
—— 264—llinell 31: yn lle Owen, darllener 'Jones.'
—— 270—llinell 2: yn lle 1859, darllener '1850.'
—— 273—llinell 4: yn lle 1782, darllener '1792.'
—— 288—llinell 22: yn lle 1806, darllener '1802.'
—— 309—llinell 1: yn lle 1880, darllener '1882.'
—— 313—llinell 27: yn lle 1887, darllener '1877.'
—— 314—llinell 28: yn lle 1872, darllener '1882.'
—— 327—llinell 10: yn lle 1866, darllener '1886.'
—— 340—llinell 38: yn lle Jones, darllener 'Hughes.'
—— 341—llinell 39: yn lle 1885, darllener '1865.'
—— 353—llinell 12: yn lle 1801, darllener '1804.'

LLYFRAU GWERTHFAWR,

A GYHOEDDWYD GAN

T. GEE A'I FAB, DINBYCH.

Y GWAITH CENEDLAETHOL MWYAF.

Y GWYDDONIADUR CYMREIG:

NEU,

GYLCH GWYBODAETH GYFFREDINOL.

Corph cyflawn o Wybodaeth Ysgrythyrol a Duwinyddol; Dosbarthiad Beirniadol o Eiriau y Beibl yn ol eu gwahanol ystyron; Daearyddiaeth Ysgrythyrol; yr Anifeiliaid, Ehediaid, Pysg, Llysiau, &c., a enwir yn y Beibl; Hynafiaethau; Arferion a Defodau Dwyreiniol; Hanes Eglwysig; Hanes Enwadau a Chymdeithasau Crefyddol; Golwg gryno a chynnwysfawr ar agwedd Cristionogaeth trwy y Byd; Bywgraffyddiaeth Grefyddol; Crefyddau y Byd—eu hanes, eu daliadau, a phrif wrthddrychau eu haddoliad; a llawer o Wybodaeth Gyffredinol sydd yn terfynu ar y materion hyn.

Y mae yr erthyglau wedi eu parotoi gan

YSGRIFENWYR ENWOCAF Y GENEDL.

DAN OLYGIAD

Y PARCH. JOHN PARRY, D.D., BALA.

Gydag ATTODIAD, yn cynnwys amryw Erthyglau nas gallesid eu cyhoeddi ar y pryd yn eu lleoedd priodol, dan olygiad y Parch. J. OGWEN JONES, B.A., Rhyl.

Y RHAGYMADRODD, GYDA HANES BYWYD DR. PARRY, a SYLWADAU AR EI YSGRIFENIADAU, gan y Parch. OWEN THOMAS, D.D., Liverpool.

Y mae y Gwaith hwn yn ddeg o Gyfrolau wythplyg mawr, ac yn cynnwys

HANES TEYRNASOEDD Y BYD ar ddechreu y flw. 1879.

Darluniau rhagorol o Dr. Parry, a Mr. Gee.

Pedwar cant a deg o Ddarluniau i egluro yr Erthyglau.

A deg ar hugain o Fapiau rhagorol,

Yn mha rai y mae y Darganfyddiadau diweddaf a wnaed gan Dr. LIVINGSTONE a Mr. STANLEY, a theithwyr enwog eraill, wedi eu nodi, sef

Y Ddaear mewn dau arddrych.——Y Byd fel yr oedd yn adnabyddus i'r Hynafiaid.——Ffurfiad Daearegol y Ddaear.——Mynyddoedd ac Afonydd y Byd.——Map o'r Byd—Ei Hinsoddau, &c.—— Ewrop.—— Asia.—— Affrica.—— Gogledd America.——Deheudir America [gyda Patagonia].——Yr Ynysoedd Prydeinig dan y Rhufeiniaid.——Britannia—Ei Rhaniadau yn y bummed Ganrif.——Etto—yn y chweched a'r wythfed Ganrif.——Etto—yn y nawfed a'r ddegfed.——Prydain, yn amser Iorwerth y Cyffeswr.——Lloegr a Chymru—diweddar.——Siroedd Gogledd a Deheudir Cymru [yn Gymraeg].——North and South Wales [yn Saesneg].——Ysgotland.——Yr Iwerddon.——Unol Dalaethau yr America.——Canada.——India [gyda Map mwy o Cassia.]——Asia Leiaf.—— Palestina.—— Ierusalem—fel yr oedd, ac fel y mae.—— Gorynys Sinai.——Awstralia.—— a Zealand Newydd.

Nid ydyw y Gwaith hwn i'w gael mewn rhanau yn awr; ond fel y canlyn:—

Y CYFROLAU.—Dymuna y Cyhoeddwyr hefyd hysbysu pawb *sydd wedi dechreu cymmeryd y Gwaith yn gyfrolau*, y gellir cael y rhai diffygiol *yn yr un rhwymiadau*, fel y canlyn:—Mewn byrddau am 14*s.* yr un—ond y ddiweddaf yn 1*p.* 2*s.* 0*c.* Yn hanner rhwym, y mae y cyfrolau yn 15*s.* 6*c.* yr un—ond y ddiweddaf yn 1*p.* 4*s.* 0*c.* Mewn rhwymiad cyflawn, y mae y cyfrolau yn 17*s.* 6*c.* yr un—ond y ddiweddaf yn 1*p.* 5*s.* 0*c.*

COPIAU CYFLAWN O'R GWAITH.—Yn y copïau cyflawn a wneir i fyny yn awr y mae y Mapiau, &c., yn cael eu trefnu yn wahanol i'r uchod; a'u prisiau fel y canlyn:—mewn llian, pris .. .. P. s. c. 7 10 0

Yn hanner rhwym mewn *Persian Morocco*, 8*p.* 8*s.* 0*c.*; etto mewn rhwymiad llawn, 9*p.* 9*s.* 0*c.*; rhwymiad llawn *extra*, 10*p.* 10*s.* 0*c.* Ond os â'r ymylau wedi eu goreuro (*gilt edges*), bydd y pris 15*s.* yn rhagor.

DYLAI FEDDU LLE YN MHOB LLYFRGELL.

Llythyrau o Ganmoliaeth i'r Gwaith.

It appears to me, after having perused the two first parts, that the work is *exceedingly* well executed. When finished, it will be an *invaluable* treasure to the Welsh people.
Thrussington, *July* 24*th*, 1854. JOHN OWEN, *Rural Dean.*

It seems to me a Work of great promise.....I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle.
Bognor, Sussex, 1*st Sept.*, 1854. JOHN WILLIAMS, *Archdeacon of Cardigan*, &c.

Mae y gwaith yn dra theilwng o gefnogaeth oddi wrth bawb sydd yn dymuno yn dda i'w gwlad a'u cenedl.
Llundain, *Gor.* 27*ain*, 1854. THOMAS PHILLIPS.

Llyfr tra rhagorol, yn debyg o fod o werth ac anrhydedd mawr i lenyddiaeth Gymreig, o ran ei gynnwysiad, a'r gwaith celfyddgar sydd arno.
Llanfyllin, *Gor.* 28*ain*, 1854. DAVID MORGAN.

Y mae yn ymddangos i mi y bydd, pan ei gorphener, yn drysor ammhrisiadwy i Gymru. Y mae yn cyflenwi yn hollol ddiffyg mawr oedd, hyd yma, yn aros yn ein llenyddiaeth.
Llundain, *Gor.* 29*ain*, 1854. OWEN THOMAS.

Dylai pob dyn ieuangc, gyda'r meddwl cyntaf am gael tŷ a theulu, feddwl hefyd am gael '*Y Gwyddoniadur*' i'w deulu, os bydd ynddo ddim awydd am iddynt 'weithio eu ffordd' yn anrhydeddus mewn unrhyw gylch o ddefnyddioldeb.
Llanbrynmair, *Awst* 1*af*, 1854. SAMUEL ROBERTS.

Y mae y '*Y Gwyddoniadur*' yn llyfr sydd yn debyg o dynu sylw cyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd unrhyw beth yn fy ngallu i hwyluso ei gyhoeddiad a'i gylchrediad.
Llandeilo, *Awst* 4*ydd*, 1854. JOHN JONES, *Gweinidog Wesleyaidd.*

Yr oedd yn llawen iawn genyf weled yr hysbysiad cyntaf am y '*Gwyddoniadur Cymreig*,' a da genyf chwanegu fod y llawenydd hyny wedi cynnyddu yn fawr iawn wrth ganfod y dull a'r modd y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr wyf o galon yn dymuno i chwi bob llwyddiant gyda y fath anturiaeth bwysig.
Aberdar, *Awst* 15*fed*, 1854. THOMAS PRICE.

Y mae y gwaith hwn yn ddigon *capable* i siarad drosto ei hun wrth bawb a'i darlleno. Gobeithiaf y cewch chwi a Mr. PARRY estyniad oes i orphen y gwaith; yr hyn a fyddai i ni yn 'fywyd o feirw.'
Amlwch, *Medi* 22*ain*, 1854. WILLIAM ROBERTS.

Y fantais benaf a gynnygiwyd erioed yn ein hiaith, hyd yn hyn, i gyrhaedd trwyddi gydnabyddiaeth â phob cangen o wybodaeth gyffredinol, ydyw '*Y Gwyddoniadur.*'.....Daeth allan fel cawr grymus.
Liverpool, *Awst* 31*ain*, 1854. WILLIAM REES.

Bydd pob Cymro, a fedr, ond a esgeulusa ei dderbyn, yn ymddwyn yn eithaf anwladgarol, ac yn euog o dafiu diystyrwch pechadurus ar y wybodaeth deilyngaf o sylw dyn,
Cendl, *Awst* 28*ain*, 1854. THOMAS REES.

Gallaf ddyweyd yn hyderus a chydwybodol fy mod yn edrych ar y gwaith hwn, os ä yn mlaen fel y mae wedi dechreu, fel y rhagoraf yn yr Iaith Gymraeg.
Athrofa Pontypool, *Awst* 24*ain*, 1854. T. THOMAS.

Y mae y rhanau sydd wedi dyfod allan yn cynnwys digon o brofion y gallwn gymmeryd yn ganiataol, pan y cwblheir ef, y bydd yn gronfa o wybodaethau y fath na chafodd y Cymry o'r blaen.
Bangor, *Medi* 23*ain*, 1854. JOHN PHILLIPS.

Hyderaf y bydd gan y dyn a feddianno '*Y Gwyddoniadur*' gyfaill gwybodus a pharod yn ei ymyl i ymgynghori âg ef, ac i gael hysbysrwydd a chyfarwyddyd ganddo bron ar bob mater ag y gall dyn feddwl am dano.
Liverpool, *Tach.*, 1854. HENRY REES.

Cymmeradwyaethau y Wasg.

Y Bedyddiwr.—'Y mae yn un o'r llyfrau mwyaf pwysig, os nid y pwysicaf oll, a gyhoeddwyd erioed yn yr Iaith Gymraeg.'

Y Cronicl.—'Trysor o werth ammhrisiadwy—nid yn unig i Gymry yr oes yma, ond i Gymry yr oes a ddaw.'

Y Cylchgrawn Cymreig.—'Y mae yr hwn sydd wedi derbyn y '*Drysorfa*' o'r dechreuad wedi gwneyd cymmaint o orchest a derbyn '*Y Gwyddoniadur*.'

Y Diwygiwr.—'Y mae yn ddïau y gwna llyfr fel hwn les i'r Cymry.'

Y Drysorfa.—'Gellir disgwyl y bydd '*Y Gwyddoniadur*,' pan wedi ei gwbleiddio, yn goron gogoniant i lenyddiaeth Cymru. Y mae enw Mr. PARRY, fel golygydd, yn sicrhâd i ni am deilyngdod yr holl erthyglau.'

Y Dysgedydd.—'Bydd yn drysorfa gyflawn o wybodaeth gyffredinol yn ei holl ranau a'i changhenau; yr hyn a wna y Gymraeg, fel cyfrwng gwybodaeth, mor gyflawn a chyfoethog a'r Saesneg. Bydd yr erthyglau ar ei brif faterion yn wreiddiol—nid yn gyfleithiadau.'

Y Gwron.—'Daw y gweithwyr, drwy y llyfr hwn, yn gydnabyddus â syniadau gwŷr dysgedicaf yr oesoedd.'

Y Seren Gomer.—'Wele '*Wyddoniadur*' yn cael ei gynnyg gan gyhoeddwr anturiaethus —dysgedigion penaf Cymru yn ysgrifenu iddo—dan olygiaeth gŵr sydd yn deilwng o ymddiried y genedl; a pha ham na chefnogwn y Gwaith?'

Y Traethodydd.—'Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris —cyfansoddiad, papur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth, a chrefydd, ac̄ anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allem er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant.'

Y Wasg.—'Erioed ni huliwyd y fath wledd o ddanteithion llenyddol ger bron ein cydgenedl ag a gynnygir yn awr yn '*Y Gwyddoniadur*.'

Yr Amserau.—'Nid oes yr un Cymro nad yw yn gwybod fod y fath lyfr heb ei gyhoeddi. Nid oes ond ambell Ddic Sion Dafydd o Gymro, chwaith, nad yw yn teimlo fod eisieu y fath lyfr.'

Yr Eurgrawn.—'Yr ydym yn cymmhell pob dyn ieuangc i fynu y llyfr hwn. Yna bydd ganddo lyfrfa gwerth ei dangos, pe na byddai ganddo un llyfr arall.'

The Carnarvon Herald.—'We beg to recommend the Work to the most cordial support of all lovers of '*Cymru, Cymry, a Chymraeg.*''

TESTAMENT YR YSGOL SABBOTHOL.

Gan amryw o Weinidogion y Methodistiaid Calvinaidd. Y mae yn cynnwys pump o Fapiau Cymreig rhagorol; sef, *Palestina, Asia Leiaf, Teithiau yr Apostol Paul, Ierusalem fel yr oedd*, ac *Ierusalem fel y mae yn awr*. Cynnwysa y Cyfeiriadau cyflawnaf; Nodiadau Beirniadol, Eglurhaol, a Daearyddol; Sylwadau ar Eiriau ac Arferion, &c.; a Thraethawd yn egluro Amcan, Materion, ac Ieithwedd pob Llyfr. Ei bris,

	P.	s.	c.
mewn dwy gyfrol mewn byrddau, ydyw	1	0	0
Yn hanner rhwym	1	3	0
Rhwymiad llawn	1	5	0
Mewn *Persian Morocco*, gydag ymylau aur	1	12	0

Y mae y Cyhoeddwyr wedi derbyn nifer mawr iawn o gymmeradwyaethau i'r llyfr rhagorol hwn gan wahanol bersonau; ac yn eu mysg amryw o Weinidogion enwocaf gwahanol Gyfundebau Crefyddol y Dywysogaeth.

Gellir ei gael yn ADRANAU hefyd, fel y canlyn:—

Adran.	s.	c.
1. MATTHEW, â Rhagarweiniad i'r Testament Newydd, a Map lliwiedig o Palestina	2	0
2. MARC a LUC, a dau Fap lliwiedig o Ierusalem	2	6
3. EFENGYL IOAN	2	3
4. Yr ACTAU, â Map lliwiedig o Deithiau Paul	2	0
5. RHUFEINIAID	1	3
6. 1 ac 2 CORINTHIAID, â Map lliwiedig o Asia Leiaf ..	2	3

Adranau.	s.	c.
7. Yr Epistolau at y GALATIAID, a'r EPHESIAID ..	1	9
8. Yr Epistolau at y PHILIPIAID, y COLOSSIAID, a'r 1 ac 2 THESSALONIAID ..	1	6
9. 1 ac 2 TIMOTHEUS, TITUS, a PHILEMON	1	3
10. HEBREAID, ac IAGO ..	1	3
11. 1 ac 2 PEDR, 1, 2, a 3 IOAN, ac IUDAS	2	0
12. DADGUDDIAD	2	0

ESBONIAD AR Y TESTAMENT NEWYDD

Gan y Parch. ALBERT BARNES.

Wedi ei gyfieithu gan y Parch. THOMAS REES, D. D., *gyda Rhagymadrodd gan y Parch.* HENRY REES.

Y MAE y Gwaith hwn yn cael ei ystyried gan y gwŷr galluocaf yn un o'r Esboniadau goreu a gyhoeddwyd erioed; ac y mae yn ddiammheuol fod llawer mwy o gopïau o hono wedi eu gwerthu yn yr Iaith Saesnig nag o unrhyw Esboniad arall a gyhoeddwyd yn Mhrydain Fawr, nac America, o fewn y ganrif hon.

Y mae yn cynnwys y *Testyn, Cyfeiriadau lliosog at Ysgrythyrau eraill*, yn nghyd âg *Esboniad rhagorol ar bob adnod*—a'r cwbl yn cael eu gosod allan mewn iaith mor eglur, ystwyth, a hawdd ei deall, fel y mae yn drysor ammhrisiadwy i bob dosbarth o Ddarllenwyr—ac y mae yn cael ei alw gyda llawer o briodoldeb yn

ESBONIAD Y BOBL.

Gellir ei gael yn awr yn gyflawn ar unwaith, yn ol y prisiau canlynol:—	P.	s.	c.
Wedi eu rhwymo yn hardd ac yn dda, mewn byrddau, pris ..	2	11	0
Wedi hanner ei rwymo yn hardd ac yn gryf, ...	3	0	0
Mewn rhwymiad cyflawn rhagorol, ...	3	6	0

Y mae y cyfrolau i'w cael ar wahân, hefyd, os dewisa rhai dderbyn y Gwaith felly, yn hytrach na'i gymmeryd yn gyflawn ar unwaith. Y mae pris pob cyfrol yr un faint, fel y canlyn:—mewn llian hardd, pris .. 0 8 6

Yn hanner rhwym, 10*s.*; ac mewn rhwymiad cyflawn, 11*s.* y gyfrol.

Y MAE Y CYFROLAU YN CYNNWYS Y LLYFRAU CANLYNOL:—

CYF. I.—Yn cynnwys MATTHEW, MARC, a LUC—*gyda Holiadau ar bob Pennod;* pa rai sydd yn hynod o fanteisiol i Athrawon ac Aelodau yr Ysgolion Sabbothol, a Phenau Teuluoedd.

CYF. II.—Yn cynnwys IOAN, a'r ACTAU :—gyda *Holiadau.*

CYF. III.—Yn cynnwys RHUFEINIAID, a 1 CORINTHIAID :—â *Holiadau.*

CYF. IV.—2 CORINTHIAID, GALATIAID, EPHESIAID, PHILIPPIAID, a'r COLOSSIAID :—gyda *Holiadau.*

CYF. V.—1 a 2 THESSALONIAID, 1 a 2 TIMOTHEUS, TITUS, PHILEMON, a'r HEBREAID :—gyda *Holiadau.*

CYF. VI.—Yn cynnwys IAGO, 1 a 2 PEDR, ac 1, 2, a 3 IOAN, IUDAS, a'r DADGUDDIAD.

TESTAMENT Y MILOEDD.

Y TESTAMENT NEWYDD, gyda Nodiadau Eglurhaol a chyfeiriadau cyflawn. Gan y Parch. JOHN OGWEN JONES, B.A., Rhyl. Chwanegodd yr Awdwr ato Gyfieithiad o'r Cyfnewidiadau a wnaed yn nhestyn y Cyfieithiad Saesneg Diwygiedig. Pris, mewn byrddau	0	12	6
Yn hanner rhwym, ...	0	13	6
Rhwymiad cyflawn, ...	0	14	6

Neu heb y 'CYFIEITHIAD,' pris 1*s.* yn llai yn mhob rhwymiad. Os nad anfonir i'r gwrthwyneb, anfonir ef gyda'r 'CYFIEITHIAD.'

Gellir ei gael mewn Cyfrolau ar wahân, fel y canlyn; pris 2s. 6c. yr un.

Cyf. I.—MATTHEW, a MARC, gyda Map lliwiedig o Palestina.

Cyf. II.—LUC, ac IOAN.

Cyf. III.—ACTAU, a'r RHUFEINIAID, a Map lliwiedig o Asia Leiaf.

Cyf. IV.—1 ac 2 CORINTHIAID, GALATIAID, EPHESIAID, PHILIPPIAID, COLOSSIAID, a 1 a 2 THESSALONIAID.

Cyf. V.—1 a 2 TIMOTHEUS, TITUS, PHILEMON, HEBREAID, IAGO, 1 a 2 PEDR, 1, 2, a 3 IOAN, IUDAS, a'r DADGUDDIAD.

Y Testament Newydd Diwygiedig: neu, y Cyfnewidiadau a gynnwysir yn y Cyfieithiad Newydd o'r Testament Saesneg. Cyhoeddwyd yn 1881. Gan y Parch. JOHN OGWEN JONES, B.A. Mewn byrddau	0	1	6

PREGETHAU Y PARCH. JOHN PARRY, D.D., Bala.

Y mae y Gyfrol yn cynnwys deuddeg ar hugain o Bregethau. Bddau.	0	3	6

Twr Dafydd. Gan y Parchedig WILLIAM REES, D.D. Cynnwysa Arweiniad i mewn i Lyfr y Salmau; ac arall-eiriad Barddonol newydd o'r Salmau, wedi eu gosod yn gyfochrog â'r rhai gwreiddiol, ynghyd â Nodiadau ar bob Salm. Mewn byrddau	0	4	0

"EMYNAU Y CYSSEGR."

AR YN AGOS I FIL O BULPUDAU CYMRU.
CASGLIAD LLAWN, A HYNOD O RAD.
DYWED Y BEIRNIAID EI FOD YN "RHY RAD."

Y CASGLIAD CENEDLAETHOL
O
SALMAU A HYMNAU:

WEDI EU DETHOL O
WEITHIAU YR AWDURON GOREU, HEN A DIWEDDAR.

Cynnwysa 150 o SALMAU, 36 o GOR-GANAU, a 2,536 o EMYNAU CYMREIG; ynghyd a 72 o EMYNAU SEISNIG:—y cyfan yn 2,792; yn mha rai y mae

Deng Mil o'r Pennillion goreu sydd yn adnabyddus.

Hefyd, ceir ynddo FYNEGAI i bob pennill; a Rhestr llawn o Enwau yr Awdwyr.

1. "Yr Argraphiad Mawr," *mewn llythyren fras, yn mesur* 9½ *modfedd wrth* 6½. Pris, 10s. mewn lledr, gydag ymylau cochion; gydag ymylau aur, 12s.; mewn *morocco*, neu groen llô, gydag ymylau aur, 14s.; etto *extra*, 16s.

Pulpudau.—Y mae yn dda gan y Cyhoeddwyr hysbysu fod yr 'EMYNAU' ar agos i *Fil o Bulpudau* yn barod. Ond y mae llawer wedi appelio atynt y misoedd diweddaf am gael y llyfr yn rhatach, am nad oeddynt wedi gweled yr hysbysiad cyntaf mewn pryd. Y mae y Cyhoeddwyr, gan hyny, wedi penderfynu cyfarfod y cais hwn trwy gynnyg ei werthu, o hyn allan, yn un o'r rhwymiadau uchod, i BULPUDAU yn unig, *am hanner y pris*. Os anfonir ef gyda'r *post*, bydd y cludiad 8c. yn chwaneg. Gofaler am anfon enw y Capel, a'r Enwad y perthyna iddo, a'r arian, yn uniongyrchol i'r swyddfa.

2. "Argraphiad y Bobl," *yn mesur* 7 *modfedd wrth* 4½. Pris, mewn llian hardd, 1s. (os gyda'r *post*, 1s. 5c.); mewn llian harddach, 1s. 6c. a 2s.; mewn lledr, âg ymylau cochion, 3s.; mewn lledr, âg ymylau aur, 4s.; mewn *morocco* gydag ymylau aur, 5s. 6c.—gyda chlasp, 6s. Yn hardd iawn mewn *morocco extra*, pris 9s.—a chyda'r clasp goreu, 10s.

3. Argraphiad ar Bapyr teneuach.—Y mae 'ARGRAPHIAD Y BOBL' i'w gael yn awr ar bapyr a barotowyd yn bwrpasol iddo. O herwydd hyn y mae yn llawer llai ei swm na'r argraphiad uchod. I'w gael am yr un brisiau a *Rhif* 2 (ond rhwymiad 1s.)—mewn llian hardd, 1s. 6c., a 2s.; mewn lledr âg ymylau cochion, 3s.; etto âg ymylau aur, 4s.; mewn *morocco* am 5s. 6c.—gyda chlasp, 6s.; mewn *morocco extra*, 9s., gyda'r clasp goreu, 10s.

D. S.—*Os* RHIF 3 *fydd eisieu, dyweder hyny—onid'e*, RHIF 2 *a anfonir o'r swyddfa.*

Argraphiadau y Bedyddwyr o 'Emynau y Cyssegr.'—Y mae yr argraphiadau uchod i'w cael â'r Emynau ar FEDYDD yn gyfryw ag a arferir gan y Bedyddwyr. Yn mhob peth arall y maent fel eu gilydd—a'r un prisiau.

Dechreuwyr Canu.—Yn attebiad i amryw lythyrau a dderbyniwyd, y mae y Cyhoeddwyr wedi penderfynu gadael i *Ddechreuwyr Canu, ac Arweinwyr Côrau, yn unig*, gael yr un a fynont o'r argraphiadau uchod mewn unrhyw rwymiad, *am hanner y pris*—ond anfon yr arian yn uniongyrchol i'r swyddfa am danynt. Gan eu bod yn rhoddi eu gwasanaeth yn rhad—a llawer iawn o amser gwerthfawr hefyd—y mae y Cyhoeddwyr yn teimlo y dylent gael pob manteision y gellir eu rhoddi iddynt gyda'r llyfrau hyn. Os byddant i'w hanfon gyda'r post, bydd *Rhif* 1 yn 8c.—*Rhif* 2 yn 5c.—a *Rhif* 3 yn 3c. chwaneg.

Tafleni i "EMYNAU Y CYSSEGR."

Darparwyd y rhai hyn ar ddymuniad llawer, er eu cynnorthwyo i gael allan yr Emynau a roddir i'w canu mewn cynnulleidfaoedd *drwy y ffigyrau* a enwir. Y maent o'r un maintioli ag '*Argraphiad y Bobl*,' ac wedi eu *gymio* yn barod, fel y gellir yn hawdd eu gosod yn y llyfrau. Parotoir rhai yn fuan i'r '*Argraphiad Mawr*' hefyd.

Y mae tair o'r TAFLENI hyn yn awr yn barod; a thrwyddynt gellir yn rhwydd gael pob Emyn a Phennill o'r bron a ddefnyddir yn nghynnulleidfaoedd yr ANNIBYNWYR, y BEDYDDWYR, a'r METHODISTIAID, yn unig *wrth glywed y ffigyrau yn cael eu henwi.* Byddant yn rhydd yn mhob llyfr a anfonir o'r swyddfa o hyn allan, fel y gall pawb eu gosod yn eu llyfrau yn y drefn y byddant yn gweled yn oreu. Neu, gosodir un, neu ragor, o honynt yn y llyfrau cyn eu hanfon o'r swyddfa, ond cael hysbysrwydd yn mha drefn y maent i fod.

Da fyddai rhoddi y daflen a ddefnyddir fynychaf ar ol y wyneb-ddalen (*title page*); a'r lleill rhwng y dalenau canlynol. Bydd yn hawdd rhoddi y tair yn mhob llyfr; a bydd 'EMYNAU Y CYSSEGR' felly yn gyfleus i'w ddefnyddio *yn nghapeli yr Enwadau uchod.*

I'r rhai sydd yn meddu y llyfr yn barod, ar dderbyniad stamp 1c., anfonir 3 neu 6 o honynt *yn rhad* gyda'r *post*—naill ai yr un rhai, neu rhai perthynol i'r gwahanol enwadau, ond i hyny gael ei hysbysu.

D. S.—Yn chwanegol at yr argraphiadau uchod, rhoddir argraphiad llai, o ran plŷg a llythyren, mewn llaw yn fuan. Felly, bydd argraphiadau o hono i'w cael, cymmhwys i bob oedran a sefyllfa. Gan fod y llyfr hwn wedi derbyn y fath gymmeradwyaeth wresog gan Enwogion Cymru, a'r Wasg Gymreig, ac wedi cael derbyniad mor gyffredinol yn barod, y mae y Cyhoeddwyr wedi penderfynu na chaiff dim ei arbed er ei wneyd yn gyfleus i bob Enwad.

"EMYNAU Y MILOEDD."

Casgliad rhadlawn iawn, yn cynnwys 850 o'r Pennillion mwyaf arferedig.

WEDI EU DETHOL O "*EMYNAU Y CYSSEGR.*"

Y MAE y llyfrau hyn yn hynod gymmhwys i fod yn Wobrwyon yn yr Ysgolion Sabbothol, &c., ac i'w defnyddio mewn Cyfarfodydd Gweddi mewn Tai, a Chyfarfodydd Plant, &c., &c. Pris 2g. mewn papyr; llian, 3c.; yn harddach, pris 4c.

Caniadau y Cyssegr a'r Teulu.—YR AIL ARGRAPHIAD.—Cynnwysa nifer o Dônau chwanegol ar bob Mesur; a Thônau ar yr holl Emynau, &c., sydd i'w cael yn "EMYNAU Y CYSSEGR." Cyhoeddir argraphiad y *Sol-ffa* yn mis Hydref nesaf, a'r *Hen Nodiant* mor fuan ag y gellir ar ol hyny.

CASGLIAD O'R COFION HANESYDDOL HYNAF.

[The Myvyrian Archaiology of Wales.]

Allan o hen Lawysgrifau. Ail argraphiad cyflawn ydyw o'r gwaith mawr Cenedlaethol gan OWEN JONES (*Owain Myfyr*), EDWARD WILLIAMS (*Iolo Morganwg*), a WILLIAM OWEN (*Idrison*—y Dr. W. O. Pughe), yr hwn a gyhoeddwyd mewn tair cyfrol fawr wythplyg. Gwerthid yr argraphiad cyntaf am 3*p.* 10*s.* 0*c.*; ond yr oedd y Gwaith wedi myned yn y blynyddoedd diweddaf mor hynod o brin fel yr oedd yn anhawdd iawn cael copi cyflawn o hono; a gwerthwyd rhai am *ugain punt!* Y mae yr argraphiad hwn yn cynnwys yr holl Waith uchod yn gyflawn:—ac yn chwanegol, Nodiadau helaeth ar y 'GODODIN;' cyfieithiad Saesneg o DDEDDFAU HYWEL DDA, gydag eglurhâd ar y geiriau a arferir ynddynt; ac hefyd, Pennod eglurhaol ar Hen Gerddoriaeth y Cymry, gan JOHN THOMAS (*Pencerdd Gwalia*). Y mae o ran ei faintioli yr un blyg a'r '*Gwyddoniadur Cymreig*,' ond wedi ei argraphu â llythyren ychydig yn frasach. Mewn llian hardd .. .. .. P. s. c. 2 0 0

Y mae y Dosbarth BARDDONOL cyntaf yn cael ei wneyd i fyny o'r '*Gododin*,' a chymmaint o Farddoniaeth hynafol y Brythoniaid ag sydd wedi dyfod i lawr i'n hamser ni; a chynnwysa yr holl gyfansoddiadau sydd ar gael, o'r amseroedd boreuaf hyd ddechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg. Cynnwysa yr ail Ddosbarth gyfansoddiadau mwyaf detholedig y bedwaredd ganrif ar ddeg, y bymthegfed, a'r unfed ganrif ar bymtheg.

Y mae Dosbarth RHYDDIEITHOL yr *Archaiology* yn cynnwys Hanesiaeth, ac yn cymmeryd i mewn o ddeutu yr un cyfnod maith o amser a'r un Barddonol; hyny yw, o ddechreu y bummed hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Mae y Dosbarth RHYDDIEITHOL yn cynnwys Gwirebau Cymdeithasol a Moesol; Casgliad ysblenydd o Ddiarhebion, Rheolau Grammadeg, Barddoniaeth, &c.

BEIBL Y TEULU.

Gan amryw o WEINIDOGION PRESENNOL CYMRU,

PERTHYNOL I BOB ENWAD.

	P.	s.	c.
Cynnwysir ef mewn tair cyfrol. Y mae y gyfrol gyntaf [o GENESIS i ESTHER] yn cynnwys *Tabl Amseryddol*, a *Mapiau o Ganaan*, a *Thaith yr Israeliaid drwy yr Anialwch.* Pris y gyfrol mewn byrddau yw ..	1	4	0
Hanner rhwym mewn croen llo, ...	1	7	0
Llawn rwymiad etto, ...	1	10	0
Persian morocco, âg ymylau aur, ...	1	16	0

Y mae yr ail Gyfrol wedi ei chyhoeddi mor bell ag *Esaiah* xl. 1—yr hyn sydd yn cael ei gynnwys yn Rhan 31; ac y mae y Gwaith yn cael ei wasgu yn mlaen yn awr; a hydera y Cyhoeddwyr na ddigwydda un oediad etto nes y bydd wedi ei orphen.

Bydd Rhan 32 allan yn Awst.

Yr wyf yn teimlo pleser digymmysg i'w argymmhell i sylw fy nghydgenedl fel y gwaith cyfaddasaf i'w amcan a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith.—J. EVANS (W.), Llundain.

Y mae wedi ennill fy nghymmeradwyaeth gynnhes. Yr wyf yn hoffi ei enw.....Y mae BEIBL Y TEULU yn teilyngu lle yn nghartref pob Cymro.—J. GRIFFITHS, Castellnedd.

Yr wyf yn rhydd i ddywedyd fy mod yn ei ystyried yn deilwng o gefnogaeth wresocaf fy nghydwladwyr. Y mae mewn gwirionedd yn Feibl addas i bob teulu. Diammheu y bydd, pan orphenir ef, yn gaffaeliad gwerthfawr i deuluoedd.—J. HUGHES, Liverpool.

Teimlaf yn hyderus i gymmeradwyo BEIBL Y TEULU fel cynnorthwy gwirioneddol a gwerthfawr i ddeall rhanau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd.—J. OGWEN JONES, Rhyl.

Rhaid i mi ddyweyd fod y gwaith hwn yn anrhydedd i'r Dywysogaeth, yn gymmaint a'i fod y crynodeb cyflawnaf o wybodaethau ysgrythyrol, a'r trefniant goreu er ymgydnabyddu â hwynt, ag sydd wedi ymddangos etto yn Gymraeg mewn gwaith o'r natur. Yr ydwyf yn teimlo boddhâd mawr yn y gwaith hwn, ac yn gobeithio y caiff ei dderbyn yn gyffredinol.—E. MATTHEWS, Caerdydd.

Y mae y Beibl hwn yn cael ei alw yn 'FEIBL Y TEULU;' ac wrth ei ddarllen, teimlwn ei fod yn drysor ammhrisiadwy i deuluoedd. Cynnwysa grynodeb o'r beirniadaethau cyflawnaf a chyfoethocaf.—JOHN PARRY, Bala.

Trwy gyhoeddi y gwaith gorchestol hwn, yr ydych wedi llenwi bwlch pwysig yn ein llenyddiaeth ysgrythyrol yn Nghymru. Dymunwyf gyflwyno i chwi fel cyhoeddwr fy niolchgarwch calonog am eich gwasanaeth gwir werthfawr hwn i genedl y Cymry. Bydd yn llawen iawn genyf glywed fod miloedd lawer o FEIBL Y TEULU wedi ei brynu gan feibion a merched llafur ein gwlad.—THOMAS PRICE, PH.D., M.A., Rose Cottage, Aberdar.

Yr wyf yn teimlo yn awyddus i'w wresog gymmeradwyo i sylw fy nghydwladwyr yn gyffredinol. Am y Nodiadau eu hunain, y maent fel arian detholedig, yn arddangos gofal, manylwch, chwaeth, a barn dda yr ysgrifenwyr; a diau genyf, fel y daw BEIBL Y TEULU yn adnabyddus, y caiff ei dderbyn, ei groesawu, a'i werthfawrogi, yn nheuluoedd darllengar ein cenedl yn gyffredinol.—W. REES, Liverpool.

Y mae darganfyddiadau pwysig wedi cael eu gwneyd gan feirniaid a hynafiaethwyr yn yr ugain mlynedd diweddaf tuag at egluro y Beibl—ac y mae cynnyrch yr holl ddarganfyddiadau hyny yn cael eu gosod ger bron y Cymro uniaith yn MEIBL Y TEULU. Yr wyf o lwyrfryd calon yn cymmeradwyo y gwaith ammhrisiadwy hwn i sylw fy nghydwladwyr.—THOMAS REES, Abertawe.

Gyda hyfrydwch a boddhâd dirfawr yr ydwyf wedi edrych dros y gyfrol gyntaf o FEIBL Y TEULU. Y mae y Nodiadau Eglurhaol a'r Sylwadau Ymarferol yn bob peth a allesid eu dymuno mewn llyfr o'r fath.....Pan orphenir ef, bydd yn drysor ammhrisiadwy i'n cenedl ni. Rhodder i chwi bob cefnogaeth.—D. SAUNDERS, Abertawe.

Y mae cael argraphiad o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, gyda sylwadau cyfaddas i'w defnyddio yn yr addoliad teuluaidd; ac ar yr un pryd yn cynnwys digon o Nodiadau Eglurhaol ar ystyr a chyssylltiad y testyn i wasanaethu amcanion cyffredin amrywiol aelodau y teulu, yn beth ag y mae llawer wedi ei hir ddymuno, ac yn beth ag y mae mwy nag un ymgais wedi ei wneuthur, hyd yn oed yn yr iaith Gymraeg, er ei sicrhau.....Ond, tuag at gyrhaedd yr amcan hwn, nid ydym ni yn gwybod am ddim cyffelyb, hyd yn oed yn y Saesneg, i'r llyfr sydd yn awr ger ein bron.—OWEN THOMAS, Liverpool.

Y trysor gwerthfawrocaf a fu erioed etto yn meddiant cenedl y Cymry. Dylai pob teulu trwy y wlad feddiannu y gwaith. Dymunwn i bob pâr ieuangc a elo i'r sefyllfa briodasol fynu BEIBL Y TEULU i'w hannedd, a'i fyfyrio yn ddyfal.—R. THOMAS, Bala.

GWAITH GURNAL, yn gyflawn mewn un gyfrol: sef, Y CRISTION MEWN CYFLAWN ARFOGAETH. neu DRAETHAWD AM RYFEL Y SAINT YN ERBYN Y DIAFOL. Cyfleithiedig gan y diweddar Barch. THOMAS JONES, o Ddinbych. Yn hanner rhwym, 13*s.* 6*c.*; rhwym, 15*s.* Mewn byrddau .. .. P. s. c. 0 11 6

HANES Y MERTHYRON. Argraphiad llawn o'r Gwaith a ysgrifenwyd gan y diweddar Barch. THOMAS JONES, o Ddinbych. Yr oedd y llyfr yn cynnwys Hanes yr Eglwys hyd y Diwygiad Protestanaidd; ond chwanegwyd ato hefyd yn yr argraphiad hwn Hanes yr Eglwys o'r Diwygiad Protestanaidd hyd yn ddiweddar. Y mae y Darluniau canlynol ynddo—sef, *Tyndal*, *Farrar*, *Cranmer*, *Calvin*, *Luther*, a *Cutbert Symson*. Mewn un gyfrol. Yn hanner rhwym, 18*s.* 6*c.*; rhwym, 1*p.* Mewn byrddau 0 16 6

Ysgrifenodd Mr. GLADSTONE (Hydref, 1874), fel y canlyn:—'*Nis gall neb droi yn Babydd heb fradychu ei* RYDDID MOESOL a MEDDYLIOL, *a gosod ei ffyddlondeb gwladol wrth drugaredd un arall.*'

Yn yr olwg ar y frwydr sydd yn cymmeryd lle yn awr rhwng Protestaniaeth a Phabyddiaeth, dywedodd Mr. DISRAELI hefyd yn ddiweddar fel hyn:—'*Y mae galluoedd ar waith yn bresennol sydd yn parotoi cyfnod o gynnhwrf dirfawr.*'

CORPH O DDUWINYDDIAETH; sef, Darlithiau ar Dduwinyddiaeth. Gan GEORGE CHRISTIAN KNAPP, D.D., athraw duwinyddol yn Athrofa Halle. Wedi ei gyfleithu i'r Gymraeg. Mewn un gyfrol. *Llyfr rhagorol i astudwyr Duwinyddiaeth.* Mewn byrddau .. 0 11 6
Yn hanner rhwym, 13*s.* 6*c.*; yn rhwym, 14*s.* 6*c.*

CYNNWYSIAD.—1. Am yr Ysgrythyrau fel Ffynnonell ein Gwybodaeth mewn Duwinyddiaeth Gristionogol. 2. Y Bod o Dduw, a'r syniad am dano. 3. Natur a Phriodoliaethau Duw. 4. Yr Athrawiaeth am y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. 5. Am Greadigaeth y Byd. 6. Am Greadigaeth a Chyflwr dechreuol Dyn. 7. Yr Athrawiaeth am Angylion. 8. Yr Athrawiaeth am Ragluniaeth Duw. 9. Yr Athrawiaeth am Bechod, a'i Gosp. 10. Am Iesu Grist. 11. Am Ammodau Iachawdwriaeth. 12. Gweithrediadau Grâs; neu, Drefn Duw er dwyn yn mlaen Edifeirwch a Ffydd. 13. Am Athrawiaeth y Gymdeithas neu yr Eglwys Gristionogol. 14. Am y Ddwy Sacrament—Bedydd, a Swper yr Arglwydd. 15. Ar Farwolaeth, a pharhâd Dynion ar ol Marw.

Y mae y tri llyfr uchod o'r un blyg, ac wedi eu hargraphu â'r un llythyrenau.

GEMAU DUWINYDDOL.

Corph cynnwysfawr o Dduwinyddiaeth mewn ffurf newydd; yn cynnwys Miloedd o Nodiadau Tarawiadol, wedi eu dethol gan mwyaf o'r Prif Awduron—yn neillduol o'r Hen Buritaniaid, a hen Awduron a Gweinidogion Cymreig. Gan y Parch. ROBERT JONES, Llanllyfni. Ail argraphiad, gyda *Nodiadau Chwanegol helaeth.* Mewn byrddau .. 0 6 0

PREGETHAU Y Parch. JOHN JONES, Tal-y-sarn.

Gyda Rhagdraeth gan y Golygydd. Dan olygiad y Parch. GRIFFITH PARRY, Manchester. Cynnwysa dair ar ddeg a deugain o Bregethau, a nifer o Emynau a gyfansoddodd. Gyda Darlun o'r Awdwr. Yn hanner rhwym, 10*s.*; rhwymiad llawn, 11*s.* 6*c.* Mewn byrddau .. .. P. s. c. 0 8 0

PREGETHAU Y Parch. W. MORRIS, Cilgeran.

Dan olygiad y Parch. GEORGE WILLIAMS, Tŷ Ddewi. Cynnwysa unar-ddeg-a-thrigain o Bregethau, gyda Darlun o'r Awdwr. Yn hanner rhwym, 10*s.*; rhwymiad llawn, 11*s.* 6*c.* Mewn byrddau 0 8 0

Mynegair Ysgrythyrol. Cynnwysa holl gyfeiriadau y diweddar Barch. PETER WILLIAMS; at ba rai y chwanegwyd llawer, gan y Parch. OWEN JONES, Llandudno. Yn hanner rhwym, 10*s.*; rhwymiad llawn, 11*s.* Mewn byrddau 0 8 6

Aelwyd F' Ewythr Robert: neu Hanes 'Caban F' Ewythr Tomos:'—mewn ffurf o ymddiddan rhwng *F' Ewythr Robert* a *Modryb Elin* o Hafod y Ceiliogwydd, a'r *gwas*, a'r *forwyn*, a *James Harris*, o Bryn derwen, &c. Gyda Darluniau. Gan y Parch. W. REES, D.D. Bddau. 0 3 6

CYHOEDDWYD GAN T. GEE A'I FAB, DINBYCH.

Anfonant Restr gyflawn o'u Llyfrau i'r neb a ysgrifenant am dani.